

Bangor University

DOETHUR MEWN ATHRONIAETH

Y Gelefyddyd Gymodlawn': Gwaith T. Gwynn Jones a cherddoriaeth

Ifan, Elen

Award date:
2017

Awarding institution:
Prifysgol Bangor

[Link to publication](#)

General rights

Copyright and moral rights for the publications made accessible in the public portal are retained by the authors and/or other copyright owners and it is a condition of accessing publications that users recognise and abide by the legal requirements associated with these rights.

- Users may download and print one copy of any publication from the public portal for the purpose of private study or research.
- You may not further distribute the material or use it for any profit-making activity or commercial gain
- You may freely distribute the URL identifying the publication in the public portal ?

Take down policy

If you believe that this document breaches copyright please contact us providing details, and we will remove access to the work immediately and investigate your claim.

Download date: 20. Jan. 2025

‘Y GELFYDDYD GYMODLAWN’:

GWAITH T. GWYNN JONES

A CHERDDORIAETH

TRAETHAWD PHD

ELEN IFAN

YSGOL Y GYMRAEG

PRIFYSGOL BANGOR

MAI 2017

CYNNWYS

Cyfrol I

Diolchiadau	vi
Crynodeb	vii
Nodyn ar y Testunau a Ddefnyddir	ix
Rhagair	1
Cyflwyniad: Arolwg o'r Maes a Chyd-destun, a Methodoleg	5
Cerddoriaeth <i>Caniadau</i> : Geiriau Caneuon Gwreiddiol T. Gwynn Jones	49
'A Tremendous Contribution': Cyfieithiadau T. Gwynn Jones o Eiriau Caneuon	100
'Simply Specimens': Cyfieithiadau ac Addasiadau o Ganeuon Traddodiadol, a Gweithiau Llwyfan Cerddorol gan T. Gwynn Jones	187
'Ystori a'm Swynodd yn Llwy'r': Orlhain Datblygiad yr Awdl 'Tir na n-Og'	251
'A [...] Feast of Celtic Music': David de Lloyd a T. Gwynn Jones	303
Casgliad: 'Mapio'r Cyfandir Gwynn'	349

Cyrol II

Llyfryddiaeth	1
Atodiad I: Caneuon gyda Geiriau gan T. Gwynn Jones wedi'u Trefnu yn ôl Math	71
Atodiad II: Cyfansoddwyr T. Gwynn Jones	102
Atodiad III: Dyfyniadau Cerddorol Pennod 2 (Cerddoriaeth <i>Caniadau</i> : Geiriau Caneuon Gwreiddiol T. Gwynn Jones)	106
Atodiad IV: Dyfyniadau Cerddorol Pennod 3 (‘A Tremendous Contribution’: Cyfieithiadau T. Gwynn Jones o Eiriau Caneuon)	142
Atodiad V: Dyfyniadau Cerddorol Pennod 4 (‘Simply Specimens’: Cyfieithiadau ac Addasiadau o Ganeuon Traddodiadol, a Gweithiau Llwyfan Cerddorol gan T. Gwynn Jones)	173
Atodiad VI: ‘Gwlad yr Hud’	190
Atodiad VII: Gwahanol Fersiynau Awdl ‘Tir na n-Og’	205
Atodiad VIII: Dyfyniadau Cerddorol Pennod 6 (‘A [...] Feast of Celtic Music’: David de Lloyd a T. Gwynn Jones)	207

Diolchiadau

Y mae diolch yn ddyledus i gymaint a'm cefnogodd ar hyd y daith hon. Hoffwn ddiolch yn bennaf, wrth gwrs, i'r Athro Jason Walford Davies am gyfarwyddo'r prosiect yn fanwl a gofalus, ac am bob cymorth ac amynedd dros y blynyddoedd diwethaf. Y mae hynny yn wir am holl staff Ysgol y Gymraeg, a diolch iddynt oll. I Dr Aled Llion Jones am ei help gyda'r Wyddeleg – *go raibh maith agat*. Diolch hefyd i'r Athro Pwyll ap Sion a Wyn Thomas yn yr Ysgol Gerddoriaeth am eu cymorth yn achos yr ochr gerddorol i'r prosiect hwn. Rwy'n ddiolchgar i'r Athro Catherine McKenna a phawb yn Adran Ieithoedd a Llenyddiaethau Celtaidd Prifysgol Harvard am eu croeso ac am y cyfleoedd diguro a gynigwyd imi yn ystod y semester a dreuliais yno yn 2013.

I'r rhai a'm helpodd i gasglu deunydd, y mae fy nyled yn enfawr. Rhaid diolch o galon i aelodau teulu T. Gwynn Jones am eu diddordeb yn y prosiect ac am y sgysiau difyr. Diolch i Emrys Wynn Jones, ac i'r ddiweddar Nia Hall Williams. Diolch i Nonn Davies am y caniatâd i ddefnyddio delweddau o ddeunydd llawysgrifol T. Gwynn Jones yn y traethawd hwn.

Yn yr un modd, rhaid diolch i Arfon Gwilym o Gwmni Cyhoeddi Gwynn, a Shirley Davies o Gwmni Snell & Son am eu caniatâd yn achos atgynhyrchu deunydd. Diolch i Caio Higginson o Tŷ Cerdd am ei barodrwydd i helpu gyda'r gerddoriaeth, ac i Geraint Lewis. Diolchir hefyd i'r amryw bobl a fu'n sgwrsio ac yn llythyr â mi ynglŷn â'r prosiect: y diweddar Meredydd Evans, y diweddar Barch. John G. E. Watkin a Catherine Watkin, E. Olwen Jones, Nancy Jones, a'r diweddar Gwynn ap Gwilym.

Diolch i staff Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Llyfrgell ac Archif Prifysgolion Bangor, Aberystwyth a Chaerdydd, a Llyfrgell Widener am eu cymorth. Diolch hefyd i staff Adran y Gymraeg, Prifysgol Aberystwyth, am eu croeso.

Grazie mille i Caterina Magri a Cian Llywelyn am eu cymorth gyda'r Eidaleg, a diolch hefyd i Margaret Harrison am ei chyfieithiad o'r Aeleg.

Rwy'n ddiolchgar i Brifysgol Bangor am fy ariannu i ymgymryd â'r gwaith ymchwil. Heb Ysgoloriaeth Ddathlu 125 ni fyddai'r astudiaeth hon wedi bod yn bosibl.

Ar lefel bersonol, y mae cymaint o bobl i ddiolch iddynt. Diolch i BBC Radio Cymru am eu hyblygrwydd dros y misoedd diwethaf. I'm holl ffrindiau a'm cefnogodd drwy'r pedair blynedd, rhaid diolch o waelod calon. Diolch yn arbennig i Mari, Gruff, Arran a Gwennan, a ddioddefodd bentyrrau o lyfrau drwy'r tŷ; i'm cyfeillion yn Cambridge, MA; ac i Su a David am y croeso a'r llety yn Nhal-y-Bont. Yn bennaf oll, rhaid diolch i'm teulu am eu cariad a'u cefnogaeth ddiflino: i Mam a Dad, Wyn ac Anwen, ac i Cian.

CRYNODEB

Mae'r astudiaeth hon yn mynd i'r afael â gwaith y bardd a'r llenor T. Gwynn Jones (1871-1949) yng nghyd-destun cerddoriaeth. Yn y bennod gyflwyniadol, byddir yn cynnig trosolwg o gefndir cerddorol Gwynn Jones, ei allu cerddorol a'i ddiddordeb yn y gelfyddyd, a hynny er mwyn cyd-destunoli'r drafodaeth ddilynol. Ceir hefyd arolwg o wahanol fethodolegau ym maes cerddo-lenyddiaeth (*musico-poetics*) a theori cyfieithu geiriau caneuon, ac amlinelliad o'r methodolegau y byddir yn eu mabwysiadu ar gyfer yr astudiaeth hon. Bydd y bennod gyntaf yn mynd i'r afael â chaneuon ac iddynt eiriau gwreiddiol gan T. Gwynn Jones. Wrth ymdrin â'r darnau hyn byddir yn sylwi ar ba agweddau ar y farddoniaeth a bwysleisiwyd gan y cyfansoddwyr a'u gosododd, a byddir yn gofyn sut yr effeithir ar ein dehongliad ni o ddarn o farddoniaeth – sydd weithiau'n destun cyfarwydd ac adnabyddus – gan osodiad cerddorol. Yn y bennod hon hefyd fe amlygir y llinynnau cyswllt rhwng *Caniadau* (1934) a cherddoriaeth, gan fynd i'r afael â chefnidir cerddorol nifer o'r darnau a ymddengys yn y gyfrol, ac fe drafodir y geiriau gwreiddiol a gyfansoddodd Gwynn Jones yn arbennig ar gyfer eu gosod i gerddoriaeth.

Yn yr ail bennod ceir astudiaeth ar gyfieithiadau T. Gwynn Jones o eiriau caneuon, ac fe ganolbwyntir ar y cyfrolau *Welsh Festival Book* (1924), *Ewynau Mynyw* (1938), a *Cerddi Canu* (1942). Y mae'r olaf yn ddetholiad o rai o'r cannoedd o gyfieithiadau a wnaeth Gwynn Jones ar gyfer W. S. Gwynn Williams (1896-1978) a Chwmni Cyhoeddi Gwynn, Llangollen – prif gyfraniad T. Gwynn Jones, fe ellid dweud, yn nghyswllt cyfieithu geiriau caneuon. At hyn, trafodir y gwaith a wnaeth Gwynn Jones a Gwynn Williams ar y cyd yng nghyd-destun y dechneg a ddatblygwyd ganddynt ar gyfer y broses o gyfieithu.

Trafodir gweithiau gan T. Gwynn Jones sy'n gysylltiedig â *genre* cerddoriaeth draddodiadol yn y bennod nesaf. Dangosir sut y mae gwaith cerddorol T. Gwynn Jones yng nghyd-destun cerddoriaeth draddodiadol yn dwyn perthynas â'i ddiddordeb ehangach yn y diwylliant traddodiadol Cymreig, a sut y mae hyn yn ei dro yn perthyn i gorff o waith 'canonaidd' y bardd. Yn ogystal â darnau yn ymwneud â cherddoriaeth draddodiadol, ystyrir yn y bennod hon hefyd y gweithiau sy'n ymwneud â cherddoriaeth a gyfansoddodd Gwynn Jones ar gyfer y llwyfan.

Edrychir yn fanwl ar wahanol agweddau ar un o weithiau pwysicaf T. Gwynn Jones, yr awdl 'Tir na n-Og', yn nwy bennod olaf yr astudiaeth. Bydd y bennod gyntaf o'r ddwy yn olrhain ei datblygiad dros gyfnod o chwarter canrif, gan dynnu ar ddeunydd llawysgrifol yn ogystal ag ar yr amryw gyhoeddiadau o'r gwaith. Fe osodir yr awdl yn ei chyd-destun cerddorol a llenyddol, gan edrych ar sut y bu cerddoriaeth yn gatalydd pwysig yn natblygiad un o weithiau enwocaf y bardd. Yn yr ail bennod sy'n trafod yr awdl, creffir ar yr unig osodiad cyflawn ohoni, sef opera gan David de Lloyd (1883-1948) a gyhoeddwyd gyntaf ym 1930. Dangosir sut y mae astudio darlleniad y cyfansoddwr hwn o waith y bardd yn taflu goleuni newydd ar awdl adnabyddus.

Mewn ail gyfrol, cyflwynir rhestr gyflawn o ganeuon gyda geiriau gan T. Gwynn Jones wedi'u trefnu yn ôl math fel atodiad, ynghyd â rhestr o gyfansoddwyr a osododd waith y bardd. Ceir hefyd atgynhyrchiad o destun y gwaith anghyhoeddedig 'Gwlad yr Hud', a rhestr o'r gwahanol fersiynau o'r awdl 'Tir na n-Og' sydd ar glawr. At hyn, cynhwysir yn atodiadau III, IV, V ac VIII ddyfyniadau cerddorol sy'n berthnasol i'r penodau hynny sy'n trafod darnau cerddorol.

NODYN AR Y TESTUNAU A DDEFNYDDIR

Mae'r thesis hwn yn ymdrin â nifer o wahanol gyhoeddiadau a thestunau anghyhoeddedig. Mewn achosion lle ceir trafodaeth ar wahanol fersiynau o'r un gwaith, megis Pennod 5, cyfeirir yn eglur yng nghorff y testun ac yn y troednodiadau at ba fersiwn o'r gwaith sy'n cael ei ddyfynnu. Pan gyfeirir at weithiau mewn cyd-destun mwy cyffredinol, a'r darnau hynny yn ymddangos yn *Caniadau* (Wrecsam, 1934), daw'r dyfyniadau o destun y gyfrol honno.

RHAGAIR

Roedd Thomas Gwynn Jones (1871-1949) yn llenor ac ysgolhaig aruthrol o gynhyrchiol a dylanwadol ym myd llenyddiaeth Gymraeg. Fel y tystia'r llyfryddiaeth a luniwyd gan D. Hywel E. Roberts – cyfrol sy'n ymestyn i 350 o dudalennau – cyhoeddodd Gwynn Jones swm syfrdanol o weithiau, ac fe geir yn ogystal gannoedd o ysgrifau gan ysgolheigion amdano ef a'i gynnyrch.¹ Mae'r astudiaeth sy'n dilyn yn mynd i'r afael â chorff o waith nad yw wedi cael sylw beirniadol teilwng cyn hyn: gwaith T. Gwynn Jones sy'n gysylltiedig â cherddoriaeth. Yn y bennod gyflwyniadol, byddir yn cynnig trosolwg o gefndir cerddorol Gwynn Jones, ei allu cerddorol a'i ddiddordeb yn y gelfyddyd, a hynny er mwyn cyd-destunoli'r drafodaeth sy'n dilyn. Rhoddir hefyd ystyriaeth i wahanol fethodolegau yn y maes cerddo-lenyddiaeth (*musico-poetics*) a theori cyfieithu geiriau caneuon, ac amlinelliad o'r methodolegau y byddir yn eu mabwysiadu ar gyfer yr astudiaeth hon. Bydd y bennod gyntaf yn mynd i'r afael â chaneuon ac iddynt eiriau gwreiddiol gan T. Gwynn Jones, gan edrych ar sut y mae gwahanol gyfansoddwyr wedi dehongli ei waith yn eu gosodiadau. Wrth ymdrin â'r darnau hyn byddir yn sylwi ar ba agweddau ar y farddoniaeth a bwysleisiwyd gan y cyfansoddwyr a osododd y cyfryw weithiau, yn ogystal â gofyn sut y dylanwadir ar ein hamgyffrediad a'n dehongliad ni o ddarn o farddoniaeth gan osodiad cerddorol. Yn y bennod hon hefyd fe amlygir y cyswllt rhwng *Caniadau* (1934) a cherddoriaeth, gan fynd i'r afael â chefnid cerddorol nifer o'r darnau a ymddengys yn y gyfrol ddylanwadol honno. Trafodir yma hefyd y caneuon gwreiddiol a gyfansoddodd Gwynn Jones yn arbennig ar gyfer cael eu gosod i gerddoriaeth, a hynny mewn cydweithrediad â W. S. Gwynn Williams (1896-1978),

¹ Gweler D. Hywel E. Roberts (gol.), *Llyfryddiaeth Thomas Gwynn Jones* (Caerdydd, 1981).

ffigwr pwysig yng nghyswllt y thesis hwn, gan edrych ar y cywaith cerddo-farddonol a dylanwad y naill gelfyddyd ar y llall.

Yn yr ail bennod ceir astudiaeth ar gyfieithiadau T. Gwynn Jones o eiriau caneuon, sef y prif gategori o waith gan y bardd, o ran nifer yr eitemau, sy'n ymwneud â cherddoriaeth. Y mae hon yn bennod estynedig. Oherwydd nifer y gweithiau yn y cyswllt hwn, byddir yn dethol cyfrolau a gweithiau penodol sy'n gynrychioladol o'r corff o waith ehangach sy'n bodoli yn y categori hwn. Dewiswyd yn hyn o beth y cyfrolau *Welsh Festival Book* (1924) ac *Emynau Mynyw* (1938), dau gyhoeddiad pwysig yng nghyd-destun cyfieithiadau T. Gwynn Jones, yn ogystal â *Cerddi Canu* (1942), detholiad o rai o'r cannoedd o gyfieithiadau a wnaeth Gwynn Jones ar gyfer W. S. Gwynn Williams a Chwmni Cyhoeddi Gwynn, Llangollen (sef prif gyfraniad T. Gwynn Jones yn nghyswllt cyfieithu geiriau caneuon). Aethpwyd ati, yn ogystal, i gyd-destunoli'r cyfieithiadau hyn, gan ystyried y darnau yng ngoleuni agweddau ar waith 'canonaidd' ehangach T. Gwynn Jones, a chan roi sylw hefyd i agweddau megis crefydd, Prydeindod a chenedlaetholdeb. Yn achos y berthynas arwyddocaol rhwng T. Gwynn Jones a W. S. Gwynn Williams, fe drafodir y gwaith a wnaethant ar y cyd yng nghyd-destun y dechneg o gyfieithu geiriau caneuon a ddatblygwyd ganddynt. Mae'r bennod hon yn cynnwys yr astudiaeth feirniadol gyntaf ar gyfieithiadau Gwynn Jones o eiriau caneuon (mae'r corff beirniadol yng nghyswllt cyfieithiadau'r bardd yn gyffredinol yn canolbwyntio ar ei gyfieithiadau o ddramâu).²

Mae W. S. Gwynn Williams yn ffigwr amlwg yn y bennod ddilynol hefyd, sy'n canolbwyntio ar weithiau gan T. Gwynn Jones sy'n gysylltiedig â *genre*

² Gweler, er enghraifft, H. Idris Bell, 'T. Gwynn Jones fel Cyfieithydd', yn Gwynn ap Gwilym (gol.), *Cyfres y Meistri (3): Thomas Gwynn Jones* (Llandybie, 1982), 258-69; W. Beynon Davies, *Thomas Gwynn Jones: Writers of Wales* (Cardiff, 1970), 60-1; David Jenkins, *Thomas Gwynn Jones: Cofiant* (Dinbych, 1973), 286.

cerddoriaeth draddodiadol. Ymysg y gweithiau hyn ceir addasiadau o eiriau traddodiadol, yn ogystal â geiriau newydd gan Gwynn Jones ar hen alawon. Bydd y bennod hon hefyd yn ymdrin â chyfieithiadau'r bardd o eiriau caneuon traddodiadol – nifer ohonynt a wnaed ganddo ar gyfer *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru* ar gais J. Lloyd Williams (1854-1945) – ynghyd â'r ddrama gerddorol *Y Gainc Olaf*, sy'n cynnwys geiriau traddodiadol wedi'u haddasu a geiriau newydd ar alawon traddodiadol. Dangosir sut y mae gwaith cerddorol T. Gwynn Jones yng nghyd-destun cerddoriaeth draddodiadol yn ymgysylltu â'i ddi-ddordeb ehangach yn y diwylliant traddodiadol Cymreig (cofiwn ei fod yn awdur *Welsh Folklore and Folk-Custom* [1930]), a sut y mae hyn yn ei dro yn perthyn i'r corff o waith 'canonaidd'. Yn ogystal â darnau yn ymwneud â cherddoriaeth draddodiadol, ystyrir yn y bennod hon hefyd y gweithiau a gyfansoddodd T. Gwynn Jones ar gyfer y llwyfan sydd hwythau'n ymwneud â cherddoriaeth, gan ddefnyddio *Y Gainc Olaf* fel pont rhwng y ddwy adran. Byddir yn edrych yn arbennig ar y gweithiau llwyfan a wnaed ar y cyd â W. S. Gwynn Williams, sef *Dewi Sant: Saint David, Gwlad yr Hud a Chân y Nadolig*. Bydd natur amrywiol y gweithiau, yn ogystal â'r amrywiol themâu y maent yn ymdrin â hwy, yn rhoi cyfle unwaith eto i osod y darnau sy'n ymwneud â cherddoriaeth yng nghyd-destun *œuvre* ehangach T. Gwynn Jones: agwedd na chafodd sylw yn y corff o waith beirniadol ar gynnyrch y bardd.

Bydd dwy bennod olaf yr astudiaeth yn cymryd un o weithiau pwysicaf T. Gwynn Jones, sef yr awdl 'Tir na n-Og', ac yn edrych yn fanwl ar wahanol agweddau ar y gwaith hwn – cerdd sy'n dwyn cysylltiad agos â cherddoriaeth. Fe adwaenir 'Tir na n-Og' fel un o 'farwion' T. Gwynn Jones, chwedl R. M. Jones, ac fel gwaith dylanwadol yng nghanon llenyddol Cymraeg yr ugeinfed ganrif.³ Yr hyn nad yw'n

³ Gweler R. M. Jones, *Llenyddiaeth Gymraeg: 1902-1936* (Llandybie, 1987), 122-40.

cael ei ystyried yn feirniadol fel rheol yw pa mor greiddiol yw cerddoriaeth i fodolaeth a hanes cyfansoddi'r awdl. Rhaid cofio fod ganddi gyd-destun cerddorol pwysig, gan mai ar gyfer cerddoriaeth y'i cyfansoddwyd yn wreiddiol.⁴ Bydd y bennod gyntaf o'r ddwy sy'n ymdrin â 'Tir na n-Og' yn olrhain datblygiad yr awdl dros gyfnod o 25 mlynedd, gan dynnu ar ddeunydd llawysgrifol anghyhoeddedig yn ogystal â'r amryw gyhoeddiadau o'r gwaith. Fe osodir 'Tir na n-Og' yn ei chyd-destun cerddorol a llenyddol, gan edrych ar sut y bu cerddoriaeth yn gatalydd i ddatblygiad y gwaith ar wahanol adegau. Mae'r astudiaeth gronolegol hon yn codi cwestiynau ynghylch yr hyn sy'n cael ei dderbyn yn gyffredin parthed y ffynonellau a ddefnyddiodd Gwynn Jones wrth iddo gyfansoddi'r gwaith hwn, yn ogystal ag amlygu rôl bwysig cerddoriaeth yn ffurf libreto nodweddiadol yr awdl. Troir wedyn yn yr ail bennod sy'n trafod 'Tir na n-Og' i edrych mewn manylder ar yr unig osodiad cyflawn o'r awdl, opera gan David de Lloyd (1883-1948) a gyhoeddwyd ym 1930. Ystyrir y gerddoriaeth yma eto fel darlleniad y cerddor o waith y bardd, ac wrth archwilio'r opera, a dehongliad y gerddoriaeth o waith T. Gwynn Jones, byddir yn taflu goleuni newydd ar awdl adnabyddus. Fe geir yma eto, fel yn y bennod gyntaf, gyfle i ailystyried ein syniadau ynghylch gwaith honedig gyfarwydd wrth i'r gerddoriaeth amlygu agweddau newydd arno.

Amcan y thesis hwn, felly, yw cynnig astudiaeth o drawstoriad o weithiau T. Gwynn Jones sy'n gysylltiedig â cherddoriaeth, ac amlinelliad o gorff o waith sydd wedi cael ei anwybyddu'n feirniadol hyd yn hyn.

⁴ Ceir rhai cyfeiriadau beirniadol at y gerddoriaeth sy'n gefndir i'r awdl, megis yn ysgrif H. Meurig Evans, 'T. Gwynn Jones (1871-1949)', yn ap Gwilym (gol.), *Cyfres y Meistri*, 369, ond arwynebol yw'r drafodaeth a geir yma.

CYFLWYNIAD:

AROLWG O'R MAES A CHYD-DESTUN, A METHODOLEG

Arolwg o'r Maes a Chyd-Destun

Ym 1971, dywedodd Alun Llywelyn-Williams: 'mae cymaint wedi'i ddweud a'i sgrifennu eisoes am Gwynn Jones a'i waith fel nad oes obaith i un o'm cenhedlaeth i ddarganfod dim newydd amdano'.¹ Roedd Thomas Gwynn Jones (1871-1949) yn fardd, yn llenor, yn newyddiadurwr ac yn gyfieithydd, a chanddo yrfa ryfeddol o amrywiol. Yng nghyfrwl Hywel Roberts, *Llyfryddiaeth Thomas Gwynn Jones* (1981), rhestrir 3332 o weithiau ganddo (er bod nifer o'r darnau a restrwyd wedi'u cyhoeddi mewn mwy nag un man).² Pwysleisir amrediad eang ei waith gan R. M. Jones yn ei bennod 'Mapio'r Cyfandir Gwynn' yn *Llenyddiaeth Gymraeg: 1902-1936*, lle gwelir y beirniad hwn yn ymdrin â gyrfa farddonol Gwynn Jones, ei gyfieithiadau, a'i gyfansoddiadau rhyddiaith.³ Disgrifir T. Gwynn Jones gan R. M. Jones fel llenor 'amlochrog', ac wrth edrych ar y *Llyfryddiaeth*, ystod syfrdanol o eang y cynnyrch sydd yn ein taro: ysgrifau ar wleidyddiaeth a rhyfel, barddoniaeth ar gyfer plant, gweithiau dychanol crafog, awdlau epig, nofelau, dramâu, cyfieithiadau a geiriau caneuon. Dywed H. Idris Bell mewn ysgrif yn y gyfrol ar Gwynn Jones yng Nghyfrwl y Meistri: 'Gadawodd ar ei ôl swm mawr o farddoniaeth a nod ei bersonoliaeth ei hun ar bob peth o'i eiddo; ac fe fydd i'r farddoniaeth hon le arhosol a'i phennod ei hun yn hanes llên Cymru'.⁴ Nodwedd arall o'r *Llyfryddiaeth* yw'r nifer o ymdriniaethau

¹ Alun Llywelyn-Williams, 'T. Gwynn Jones: Gorchest y Bardd', yn Gwynn ap Gwilym (gol.), *Cyfrwl y Meistri (3): Thomas Gwynn Jones* (Llandybïe, 1982), 199.

² D. Hywel E. Roberts, (gol.), *Llyfryddiaeth Thomas Gwynn Jones* (Caerdydd, 1981).

³ R. M. Jones, *Llenyddiaeth Gymraeg: 1902-1936* (Llandybïe, 1987), 115-22.

⁴ H. Idris Bell, 'T. Gwynn Jones fel Cyfieithydd', yn ap Gwilym (gol.), *Cyfrwl y Meistri*, 261.

beirniadol â gwaith Gwynn Jones: rhestrir 704 o eitemau yn yr adran ‘Gweithiau ar Thomas Gwynn Jones neu Amdano’, a thystia’r gweithgarwch beirniadol diweddar yn y maes – traethawd doethurol Llŷr Gwyn Lewis, er enghraifft – yn huawdl i ddiddordeb newydd yn œuvre y bardd.⁵

Beth, felly, am yr haerriad hwnnw gan Llywelyn-Williams ym 1971 – fod cymaint o waith beirniadol ar Gwynn Jones ar gael ‘fel nad oes obaith i un o’r cenhedlaeth i ddarganfod dim newydd amdano’?⁶ Hyderir fod y thesis sy’n dilyn yn ddadl yn erbyn y sylw hwn. Prin yw’r astudiaethau hynny sydd yn trafod gwaith Gwynn Jones yng nghyd-destun cerddoriaeth, neu’n ymdrin â’r corff enfawr o waith o’i eiddo sy’n gysylltiedig â cherddoriaeth.⁷ Mae hyn yn rhyfedd mewn gwirionedd, o ystyried cymaint o weithiau a gynhyrchwyd gan y bardd yn y cyswllt hwn: ceir dros dri chant a hanner o ganeuon â’u geiriau yn eiddo i Gwynn Jones, boed y rheini’n eiriau gwreiddiol, yn gyfieithiadau o eiriau wedi’u cyfansoddi gan eraill, neu’n addasiadau o eiriau traddodiadol yn Gymraeg.⁸ Yn ogystal â’r corff aruthrol hwn o waith, fe ysgrifennodd Gwynn Jones hefyd naw o weithiau llwyfan sydd â cherddoriaeth yn perthyn iddynt, yn operâu, dramâu cerddorol, a chantodau. Wrth roi gweddill gwaith Gwynn Jones i un ochr am ennyd – yr awdlau mawrion, y cyfieithiadau medrus o ddramâu enwog a’r nofelau amrywiol, er enghraifft – a chanolbwyntio ar y gweithiau sy’n gysylltiedig â cherddoriaeth yn unig, gwelir yn glir

⁵ Llŷr Gwyn Lewis, “Newydd Gân a Luniodd i’w Genedl”: Agweddau ar Geltigrwydd T. Gwynn Jones a W. B. Yeats, 1890-1925’ (traethawd PhD heb ei gyhoeddi, Prifysgol Caerdydd, 2014).

⁶ Llywelyn-Williams, ‘Gorchest y Bardd’, 199.

⁷ Nifer bychan iawn a geir, gan gynnwys E. Wyn James, “Byd Gwyn fydd Byd a Gano”: W. S. Gwynn Williams, T. Gwynn Jones ac *Old Welsh Folk-Songs* (1927)’, *Canu Gwerin*, Rhif 19 (1996), 75-89; John Roberts, ‘Erynwyr Tref Caernarfon’, *Bwletin Cymdeithas Erynau Cymru*, Cyf. 2, Rhif 5 (Rhagfyr, 1982), 133-8; ac amryw adolygiadau o eiriau caneuon Gwynn Jones (gweler y Llyfryddiaeth i’r astudiaeth bresennol).

⁸ Ceir rhestr gyflawn o’r rhain, wedi’u caslgu ynghyd am y tro cyntaf, at bwrpas cyfeiriol, yn Atodiad I.

fod yma gyfraniad aruthrol o bwysig i gerddoriaeth a llenyddiaeth Gymraeg. Fe ddisgrifiodd H. Idris Bell waith Gwynn Jones yn maes cyfieithu fel cyfraniad ‘rhyfedd ac eithriadol’;⁹ a gellir dweud mai ‘eithriadol’ hefyd yw’r corff hwn o weithiau gan Gwynn Jones mewn perthynas â cherddoriaeth. Pe na bai Gwynn Jones wedi cynhyrchu dim ac eithrio’r geiriau caneuon hyn, teg dweud y byddai wedi cael gyrfa gynhyrchiol iawn. Yn sicr ddigon, ni thalwyd y sylw beirniadol haeddiannol i’r swmp hwn o waith cyn hyn: yn wir, bychan yw nifer y rheiny, hyd yn oed o fewn y byd academaidd, sy’n wirioneddol ymwybodol o aruthredd cwmpas gwaith Gwynn Jones yn y maes hwn. Bwriad y thesis hwn, felly, fydd mynd i’r afael â chorff o waith sydd wedi cael ei wthio i’r ymylon yn rhannol o ganlyniad i fawredd proffil y bardd, ac sydd ar hyn o bryd yn gymharol anhysbys i’r darllenydd cyffredin. Cynigir yn y bennod bresennol arolwg o’r maes, er mwyn dangos, a hynny am y tro cyntaf, ehangder y cynnyrch gan T. Gwynn Jones sy’n ymwneud â cherddoriaeth, ac er mwyn gosod cyd-destun ar gyfer y drafodaeth sydd i ddod yng ngweddill y traethawd.

Cyn mynd ati i amlinellu hyd a lled y gweithiau dan sylw, priodol yn gyntaf fyddai cynnig arolwg bywgraffyddol o wybodaeth gerddorol T. Gwynn Jones. Noda mab y bardd, Arthur ap Gwynn, mewn ysgrif gofiannol gymaint oedd gwerthfawrogiad Gwynn Jones o gerddoriaeth, ac yng nghyd-destun yr astudiaeth bresennol, y mae ei sylwadau yn dra arwyddocaol. Meddai: ‘O’r celfyddydau cain cerddoriaeth a brisiai uchaf. Dywedai weithiau y rhôl i’r holl waith sgrifenedig am gael meistrolï’r piano yn llwyr’.¹⁰ Yn ogystal â chariad at y gelfyddyd, gwelir bod gan y bardd beth gallu cerddorol hefyd, fel y dywed David Jenkins yn y cofiant: ‘Ac yno ar y ryg o flaen y lle tân eisteddai “taid” [...] ffdil dan ei ên [...] [yn] canu pwt o bennill

⁹ Bell, ‘T. Gwynn Jones fel Cyfieithydd’, 261.

¹⁰ Arthur ap Gwynn, ‘T. Gwynn Jones’, yn ap Gwilym (gol.), *Cyfres y Meistri*, 57.

bob yn ail i gyfeiliant ambell gord llinynnol'.¹¹ At hyn, perthnasol yw tynnu sylw at y ffaith fod diddordeb Gwynn Jones mewn cerddoriaeth i'w weld yn amlwg wrth edrych ar rai o'i weithiau ei hun, megis ei drawsgrifiadau o alawon mewn sol-ffa yn y cyfrolau o atgofion personol *Y Môr Canoldir a'r Aiff* a *Brithgofion*.¹² Cyfeiria Arthur ap Gwynn at ei lais tenor a'i hoffter o ganu: "Roedd ganddo lais tenor dymunol a byddai clywed ymchwydd ei denor ei hun yn rhoi dirfawr bleser iddo. Byddem yn aml, mewn cyfarfodydd lle y cenid "Hen Wlad fy Nhadau" i ddiweddu, yn gweld llawer yn troi i weld pwy oedd yn cael y fath hwyl ar y nodau olaf".¹³ Dylid nodi hefyd fod Gwynn Jones, yn ei ieuencid, yn aelod o gôr Abergele, a bu hefyd yn canu mewn deuawdau a phedwarawdau, yn ôl tystiolaeth David Jenkins yn y cofiant iddo.¹⁴

Roedd clust gerddorol T. Gwynn Jones yn un gadarn, ond un anghyffredin hefyd, fe ymddengys, gan ei fod yn chwarae'r piano gan ddefnyddio dull unigryw. Fel y noda Arthur ap Gwynn:

Byddai'n aml yn chwarae'r piano ei hun – er na chawsai wers arno erioed, hyd y gwn, ac na allai ddarllen ond solffa. Yn yr un cywair y chwaraeai wastad – G ♭ neu E ♭ leiaf – ac ar system o harmoni oedd yn eiddo iddo ef ei hun ac i neb arall [...] Hwyrach mai safle a phatrwm y nodau duon yn y cywair hwn oedd sylfaen y gyfundrefn – 'wn i ddim.¹⁵

Ceir yn Llyfrgell Hugh Owen ym Mhrifysgol Aberystwyth nodiadau anghyhoeddedig yn llaw Arthur ap Gwynn, o bosib at ddiben cofiant i Gwynn Jones – nodiadau a

¹¹ David Jenkins, *Thomas Gwynn Jones: Cofiant* (Dinbych, 1973), 28.

¹² T. Gwynn Jones, *Y Môr Canoldir a'r Aiff* (Caernarfon, 1912), 93; T. Gwynn Jones, *Brithgofion* (Llandybïe, 1944), 25-6, 30, 52, 59, 60.

¹³ ap Gwynn, 'T. Gwynn Jones', 57.

¹⁴ Jenkins, *Cofiant*, 48-9.

¹⁵ ap Gwynn, 'T. Gwynn Jones', 57.

luniwyd mewn cydweithrediad â'r bardd ei hun ym 1945.¹⁶ Rhydd y nodiadau hyn wybodaeth bellach am brofiadau cerddorol Gwynn Jones, ac y maent yn frith o gyfeiriadau at gerddoriaeth o wahanol fathau, o sôn am gerddorion dylanwadol o gyfnod ei ieuenctid, i seiniau diwedd nos tref Caernarfon:

Roedd [Caernarfon] yn dref gerddorol, ac ynddi gorau da [...] Tua'r Nadolig, byddai'r dref yn llawn bob nos tan ddeg, yna cychwynnai'r dorf adre dan ganu. Byddai T. [Gwynn Jones], wedi mynd i'w wely, yn gwrando arnyn nhw, a'r lle yn llawn o sŵn canu. Fel hyn y cofia T. [Gwynn Jones] y dref – canu ym mhob man.¹⁷

Ymddengys i Gwynn Jones hyd yn oed wneud ymgais ar gyfansoddi yn ei ieuenctid, fel y dywedir yn nodiadau'r tad a'r mab: 'Dan ddylanwad [John H. Lewis, codwr canu yng Nghapel y Fron, Dinbych], aeth T. [Gwynn Jones] mor bell â chynnig ar gyfansoddi tŵn – tŵn a enillodd ganmoliaeth gan y beirniaid, ond condemniad am ei harmoni'.¹⁸ Gellir dweud, efallai, y byddai dylanwad Gwynn Jones ar y byd cerddorol wedi bod yn un chwyldroadol a beiddgar pe bai wedi dilyn gyrfa fel cerddor yn hytrach na llenor.

Er gwaethaf y diddordeb amlwg hwn a oedd gan Gwynn Jones mewn cerddoriaeth, a'r rôl bwysig a chwaraeodd drwy gydol ei fywyd, ni chaiff ei ystyried gan feirniaid fel un o'r prif ddylanwadau ar ei waith, a phrin y crybwyllir cerddoriaeth o gwbl yng nghyswllt ei farddoniaeth. Creiddiol bwysig, mewn gwirionedd, yw'r corff mawr hwn o waith ar y cyd â cherddoriaeth – agwedd ar ei gyfraniad sy'n dyst i'r rôl bwysig y mae cerddoriaeth yn ei chwarae yn *oeuvre* T. Gwynn Jones yn

¹⁶ 'Nodiadau am ei hanes ef ei hun gan TGJ. Cefais ganddo eu hadrodd wrthyf o ddechrau mis Hydref, 1945, ymlaen, am ryw dri mis.' T. Gwynn Jones ac Arthur ap Gwynn, 'Nodiadau am ei hanes ef ei hun gan TGJ', Papurau T. Gwynn Jones ac Arthur ap Gwynn, Bocs 1, Archifau Prifysgol Aberystwyth.

¹⁷ Ibid.

¹⁸ Ibid.

gyffredinol, fel y cawn weld maes o law. Buddiol, felly, yn y fan hon fydd darparu crynodeb o'r amrywiaeth fawr o weithiau ganddo sy'n uniongyrchol gysylltiedig â cherddoriaeth.

Trown yn gyntaf at waith Gwynn Jones ym maes geiriau caneuon. Ceir yma enghreifftiau niferus o weithiau gwreiddiol, cyfieithiadau o eiriau caneuon a luniwyd gan eraill a chanddo ef ei hun, ac addasiadau ganddo o eiriau traddodiadol. Fe briodolir 370 o enghreifftiau o eiriau caneuon i Gwynn Jones ar draws y tri chategori hyn, ac o'r rheini y mae 95 yn weithiau gwreiddiol. Gellir rhannu cynnwys y categori olaf hwn yn ddau is-gategori: gweithiau a gyfansoddwyd yn arbennig ar gyfer cerddoriaeth, a gosodiadau cerddorol o farddoniaeth gyhoeddedig T. Gwynn Jones. Mae'r ail is-gategori hwn, sef gosodiadau o weithiau a oedd eisoes yn bodoli, yn cynnwys caneuon megis 'Ymadawiad Arthur' a 'Caledfwlch' – gosodiadau D. Vaughan Thomas o adrannau o awdl enwog Cadair Eisteddfod Bangor, 1902; 'Ystrad Fflur', cerddoriaeth gan Idris Lewis; a dau osodiad o'r gerdd adnabyddus 'Rhos y Pererinion' – y naill gan Dilys Elwyn-Edwards, a'r llall gan Meirion Williams. Ceir hefyd osodiad gan Arwel Hughes o adran o'r awdl 'Tir na n-Og'¹⁹, a gosodiadau gan David de Lloyd o 'Yno' a 'Dirgelwch', cerddi sydd oll yn ymddangos yn y gyfrol *Caniadau* (1934). Yr hyn a welir mewn enghreifftiau megis y rhai olaf hyn yw pontio hollbwysig rhwng y canonaidd gyfarwydd a'r agwedd newydd, gerddorol, hon ar gyfraniad T. Gwynn Jones. Cyfyd y gosodiadau hyn gwestiynau diddorol megis beth sy'n gwneud cerdd gyhoeddedig yn ddeniadol i gyfansoddwr, ac – o'r ochr arall fel petai – pa effaith y mae cael ei gosod i gerddoriaeth yn ei chael ar ddarn o farddoniaeth. Gwelir maes o law fod modd ystyried gosodiad cerddorol o gerdd

¹⁹ Defnyddir dyfynodau ('Tir na n-Og') wrth gyfeirio at awdl T. Gwynn Jones, a'r ffurf italeiddiedig (*Tir na n-Og*) pan sonnir am osodiad David de Lloyd o'r awdl gyfan fel opera.

gyhoeddedig fel darlleniad beirniadol ohoni, a'r modd y mae cael ei gyfuno â cherddoriaeth yn newid testun llenyddol o ran ei ffurf a'i bwyslais. Agwedd arall ar y gosodiadau hyn o ddarnau gwreiddiol Gwynn Jones yw bod nifer ohonynt wedi cael eu cyfieithu i'r Saesneg, a llawer ohonynt wedi'u cyhoeddi â'r ddwy iaith yn gyfochrog. T. Gwynn Jones ei hun yw cyfieithydd nifer o'r rhain, sy'n codi trafodaeth ddiddorol ar agwedd sy'n ymddangos fwy nag unwaith yng nghorff y traethawd hwn, sef sut y mae cerddoriaeth yn sbarduno'r bardd i ailystyried ac ail-greu ei waith ei hun. Er enghraifft, ceir cyfieithiadau ganddo yn y cyswllt hwn o 'Bywyd' ('Life'), 'Ystrad Fflur' ('Strata Florida') a 'Gwenoliaid' ('Swallows'), ymysg eraill.

Yr is-gategori arall o fewn y corff hwnnw o ddarnau gwreiddiol Gwynn Jones sy'n gysylltiedig â cherddoriaeth yw'r geiriau hynny a luniwyd ganddo yn unswydd ar gyfer eu gosod i gerddoriaeth. Daw'r gweithiau hyn yn bennaf o gyfnod tra chynhyrchiol T. Gwynn Jones gyda Chwmni Cyhoeddi Gwynn a W. S. Gwynn Williams o ganol 30au'r ganrif ddiwethaf ymlaen. Er enghraifft, ceir gan Gwynn Jones gyfrol i blant gyda cherddoriaeth wreiddiol gan Gwynn Williams o'r enw *Cerddi Mebyd: Childhood Songs* (1939), yn ogystal â chyfraniadau i gyfrol o garolau Cymreig, *Clychau'r Nadolig: Christmas Bells* (1942). Ceir hefyd mewn ambell gyfrol o ganeuon traddodiadol a gyhoeddwyd gan Gwmni Gwynn rai geiriau gwreiddiol gan Gwynn Jones ar gyfer hen alawon.²⁰ Rhaid ystyried y gweithiau hyn – darnau a gyfansoddwyd gan Gwynn Jones yn arbennig er mwyn cael eu gosod i gerddoriaeth – ar wahân i'r grŵp a drafodwyd uchod – sef gosodiadau cerddorol o gerddi a oedd eisoes yn gyhoeddedig – gan fod eu natur yn hollol wahanol. Cyfeiriwyd uchod at y modd y gellid synied am osodiad cerddorol o gerdd a oedd yn bodoli eisoes fel

²⁰ e.e. W. S. Gwynn Williams (gol.), *Tair Hen Gân Gymreig: Three Old Welsh Songs* (Llangollen, 1942); W. S. Gwynn Williams (gol.), *Hen Ganeuon Cymreig Gwaith a Chwarae: Old Welsh Songs of Work and Play* (Llangollen, 1943); W. S. Gwynn Williams (gol.), *Hen Faledi Cymreig: Old Welsh Ballads* (Llangollen, 1946).

dehongliad beirniadol ohoni, yn ymgorfforiad o ymateb y cyfansoddwr i'r gwaith arbennig hwn; ond, yn achos y gweithiau barddonol a luniwyd yn benodol ar gyfer cael eu haddasu'n gerddorol, gellir dweud mai cywaith gwirioneddol a geir rhwng y ddwy gelfyddyd, barddoniaeth a cherddoriaeth. Y mae Gwynn Jones yma'n cyfrannu at y cyfanwaith, gan ei fod yn ymwybodol o'r bwriad cerddorol wrth lunio'r cerddi. Ni ellir wrth ddadansoddi, mewn gwirionedd, wahanu'r geiriau oddi wrth y gerddoriaeth sy'n bartner iddynt, gan eu bod wedi eu creu ar gyfer ei gilydd. Ffrwyth cywaith creadigol rhwng bardd a cherddor a geir yn achos gweithiau o'r fath.

Y categori o weithiau gan T. Gwynn Jones sydd fwyaf o ran nifer, a hynny o bell ffordd, yw ei gyfieithiadau. O'r 370 o eiriau caneuon a briodolir iddo, y mae 70%, 260, yn gyfieithiadau. Nid yw'r nifer aruthrol hwn o gyfieithiadau wedi derbyn y sylw haeddiannol, fel y mae cyfeiriad brysiog David Jenkins yn ei gofiant i'r bardd yn dangos: ceir paragraff yn unig yn cwmpasu cyfraniad Gwynn Jones i'r maes, er i Jenkins ddweud mai 'un o'r meysydd y gwnaeth Gwynn Jones fwyaf o waith ynddo oedd cyfansoddi a chyfieithu caneuon ar gyfer cerddoriaeth'.²¹ Y mae'n ddiddorol nad yw'r maes hwn wedi cael ei astudio bron o gwbl, er bod llwyddiannau Gwynn Jones ym maes cyfieithu cyffredinol eisoes yn hysbys. Y mae rhai o'i gampweithiau o ran trosiadau wedi'u cyhoeddi fel rhan o'r gyfres lenyddol *Cyfres y Werin*: cyfrol o gyfieithiadau o farddoniaeth Wyddeleg, *Awen y Gwyddyl*; *Dychweledigion*, cyfieithiad o ddrama Norwyeg Henrik Ibsen *Gjengangere*; cyfieithiadau o epigramau Groegaidd yn y gyfrol *Blodau o Hen Ardd*; yn ogystal â'i drosiad o *Faust* Goethe.²² Ceir trafodaeth ar gyfieithiadau T. Gwynn Jones gan H. Idris Bell yn y gyfrol ar y

²¹ Jenkins, *Cofiant*, 286.

²² T. Gwynn Jones, *Awen y Gwyddyl* (Caerdydd, 1922); T. Gwynn Jones, *Dychweledigion* (Abertawe, 1921); T. Gwynn Jones, *Blodau o Hen Ardd: Epigrammau Groeg a Lladin* (Wrecsam, 1927); T. Gwynn Jones, *Faust* (Caerdydd, 1922).

bardd yng Nghyfres y Meistri – ond, yn arwyddocaol iawn, nid yw'r ysgrif hon yn cyfeirio o gwbl at ei gyfieithiadau ar gyfer cerddoriaeth. Canolbwyntir yma, yn hytrach, ar gyfieithiadau'r bardd o *Faust* a *Macbeth*. Gwelir felly sut y mae'r corff o waith hwn, sef y cyfieithiadau ar gyfer cerddoriaeth, wedi cael ei anwybyddu, a hynny hyd yn oed mewn ymdriniaethau beirniadol â chyfieithiadau'r bardd. 'Dengys ei gynhyrchion,' dywed Bell, '[fod Gwynn Jones] yn un o bencampwyr y gelfyddyd o gyfieithu'.²³ Pwysleisia Bell hefyd nad ar chwarae bach y mae cyfieithu barddoniaeth: '[nid] peth mor syml â symud cawgaid o flodau o un ystafell i ystafell arall yw'r gorchwyl o gyfieithu barddoniaeth [...] ni all neb ond bardd gyfieithu barddoniaeth a gwneuthur camp o'r cyfieithiad'.²⁴ Ychwanegir her arall at dasg y cyfieithydd, fodd bynnag, wrth gyflwyno cerddoriaeth i'r cawdel. Sôn yr ydym yma am weithiau gan Gwynn Jones sy'n gyfieithiadau o destunau sydd eisoes wedi eu gosod i gerddoriaeth, a'r cyfieithiadau, yn eu tro, yn atebol i'r gerddoriaeth honno. Gan hynny, y mae gofyn i'r cyfieithydd nid yn unig drosi ystyr, ieithwedd, arddull a naws y darn gwreiddiol i'r iaith newydd, yr iaith 'darged' fel y cyfeirir ati mewn ysgrifau ym maes cyfieithu, ond rhaid ystyried hefyd rythmau ac acenion y gerddoriaeth y gosodwyd y gwaith gwreiddiol iddi. Fe geir maes o law arolwg cyflawn o'r theorïau ynghlwm wrth gyfieithu ar gyfer cerddoriaeth, a sut y mae hynny'n wahanol i gyfieithu 'cyffredin'. Ar sail hynny, byddir yn pennu dull penodol er mwyn dadansoddi'r gweithiau hyn gan Gwynn Jones. Yn y modd hwn, byddir yn dwyn i olau dydd gorff o waith cyfieithu hanfodol bwysig gan y bardd nas cydnabuwyd hyd yma mewn gwaith beirniadol.

Er bod y rhan fwyaf o'r 260 o weithiau hyn naill ai wedi eu cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg neu o'r Saesneg i'r Gymraeg, ceir hefyd rai caneuon wedi'u

²³ Bell, 'T. Gwynn Jones fel Cyfieithydd', 261.

²⁴ *Ibid.*, 258.

cyfieithu gan Gwynn Jones i'r ddwy iaith, a'r rheini o ieithoedd Ewropeaidd megis Almaeneg, Ffrangeg ac Eidaleg. Yr hyn sy'n drawiadol ynghylch y gwahanol gyfieithiadau yw'r amrywiaeth enfawr a geir: o emynau Lladin a briodolir i St Ffransis o Assisi, i farddoniaeth gan Goethe, i eiriau caneuon traddodiadol Gwyddeleg. Ceir 164 o gyfieithiadau i'r Gymraeg, a 96 i'r Saesneg – gweithiau a gyhoeddwyd rhwng 1921 a 1970, gydag un eithriad, sef cyfieithiad i'r Saesneg o 'Dychweliad y Cwch' gan Bryfdir, y gerddoriaeth gan J. Griffith Thomas, a gyhoeddwyd, y mae'n ddiddorol nodi, mor gynnar â 1905. Dechreuodd y gwaith cyfieithu rheolaidd, fodd bynnag, yn y 1920au, ac fe gafodd nifer o weithiau'r cyfnod hwn eu cyhoeddi gan y Cyngor Cerddoriaeth Cenedlaethol (National Council of Music). Syr H. Walford Davies (1869-1941), Athro yn Adran Gerddoriaeth Coleg y Brifysgol, Aberystwyth, lle'r oedd Gwynn Jones yn Athro yn yr Adran Gymraeg, oedd Cyfarwyddwr y Cyngor Cerddoriaeth. Diau felly mai Walford Davies oedd y catalydd i waith cyfieithu T. Gwynn Jones ym maes geiriau caneuon, gan iddo fynd ar ofyn y bardd am eiriau dwyieithog ar gyfer cyfrolau megis *Musical Mission in Wales Service Book* (1922) ac *A Student's Hymnal* (1923). Ceir cyfieithiadau gan Gwynn Jones o waith yr Esgob Walsham How a St. Ffransis o Assisi yn y cyfrolau hyn, emynau o'r enw 'Am Rif Y Saint Y Sydd o'u Gwaeau'n Rhydd' a 'Pob Peth A Wnaeth Ein Duw A'n Rhi', yn ogystal â chyfieithiad o garol yn dwyn y teitl 'Mae'r Nos Yn Ddu'.²⁵ Y mae'n ddiddorol bod cymaint o gyfieithiadau Gwynn Jones ar gyfer cerddoriaeth yn ddeunydd crefyddol, yn enwedig o ystyried ei agwedd at grefydd yn gyffredinol: 'anwastad ei gerddediad crefyddol' ydoedd, yn ôl David

²⁵ T. Gwynn Jones, 'Am Rif Y Saint Y Sydd o'u Gwaeau'n Rhydd', yn H. Walford Davies (gol.), *A Student's Hymnal* (Oxford, 1923), 456-9; T. Gwynn Jones, 'Pob Peth A Wnaeth Ein Duw A'n Rhi', yn H. Walford Davies (gol.), *Musical Mission in Wales: Service Book (Bilingual)* (Aberystwyth, 1922), 16-17; T. Gwynn Jones, 'Mae'r Nos Yn Ddu', yn H. Walford Davies (gol.), *A Student's Hymnal*, 752-4.

Jenkins.²⁶ Yn ei gofiant i'r bardd, cyfeiria Jenkins at ysgrif Gwynn Jones o'r enw 'Credoau A Chyffesion Enwadol: Ai Rhaid Wrthynt?', a ymddangosodd yn *Y Geninen* ym 1903, sy'n dangos fod Gwynn Jones o'r farn fod enwadaeth 'yn gyfrifol am gymaint gelyniaeth rhwng pobl a ddylai, ac a allai, gydweithio â'i gilydd er lles dynion'.²⁷ Ni cheir yn yr ysgrif hon ddatganiad o anffyddiaeth, fodd bynnag, ond yn hytrach un o ddiffyg ffydd mewn enwadau crefyddol penodol. Er iddo gael ei ystyried yn un o 'Ein Didduw Brydyddion' gan Glyn M. Ashton yn y cylchgrawn *Diwinyddiaeth* ym 1970, parhaodd Gwynn Jones yn 'wrandawr'²⁸ mewn capel hyd ddiwedd ei oes.²⁹ Y mae'r cyfieithiadau crefyddol hyn felly'n cynnig cipolwg eithriadol o ddiddorol inni ar ymwneud cymhleth T. Gwynn Jones â chrefydd, a byddir yn trafod yr agwedd hon ymhellach maes o law.

Yn ogystal â'r cyfrolau crefyddol hyn, roedd Walford Davies hefyd yn gyfrifol am gydlynu'r gyfrol *Welsh Festival Book*, sef llyfr canu'r cyngerdd Cymraeg a gynhaliwyd yn ystod Arddangosfa'r Ymerodraeth Brydeinig yn Wembley ym 1924.³⁰ Fe gynhwysa'r gyfrol hon amrediad eang o eiriau caneuon o ran cyfnod a *genre*, nifer ohonynt wedi'u cyfieithu gan Gwynn Jones. Ceir ynddi gyfieithiadau ganddo i'r Gymraeg o ganeuon a gyfansoddwyd gan y cerddor o oes Elisabeth y Cyntaf, Robert Jones (1577-1617), cyfieithiadau i'r Saesneg o gywyddau a briodolwyd ar y pryd i Ddafydd ap Gwilym, cyfieithiad Saesneg o 'Hun Gwenllian' Ceiriog, cyfieithiad Saesneg o'r emyn Cymraeg cynharaf, 'Gogoneddawc Arglwydd, Hanpych Well' a gofnodwyd yn wreiddiol yn Llyfr Du Caerfyrddin, yn ogystal â

²⁶ Jenkins, *Cofiant*, 323.

²⁷ T. Gwynn Jones, 'Credoau A Chyffesion Enwadol: Ai Rhaid Wrthynt?', dyfynnwyd yn Jenkins, *Cofiant*, 141.

²⁸ ap Gwynn, 'T. Gwynn Jones', 55-6.

²⁹ Glyn M. Ashton, 'Ein Didduw Brydyddion', *Diwinyddiaeth*, Rhif XXI (1970), 31-41.

³⁰ H. Walford Davies (gol.), *Welsh Festival Book* (London, 1924).

chyfieithiadau i'r ddwy iaith o nifer o ganeuon nodedig o'r traddodiad Ewropeaidd â cherddoriaeth gan gyfansoddwyr megis Beethoven a Palestrina. Yr oedd y *Welsh Festival Book* yn gasgliad a oedd yn cyfod rhai o gyfansoddwyr a beirdd mawr Ewrop â gweithiau Cymraeg a Chymreig yn enw bri ac enwogrwydd yr Ymerodraeth Brydeinig (nodwedd a drafodir yn fanylach ym Mhennod 2). Parhaodd Gwynn Jones i gyfieithu gweithiau ar gyfer cyfrolau'r Cyngor Cerddoriaeth Cenedlaethol a Walford Davies, megis y *New Song Book* ym 1929, *The Choral Festival Book* ym 1934 ac *A Third Book of Choral Songs for Male Voices* ym 1936. Ymddengys yn y cyfrolau hyn eto nifer o ganeuon o'r traddodiad Ewropeaidd gyda'r geiriau wedi'u trosi i'r Gymraeg, y tro hwn er mwyn hybu gweithgareddau cerddorol yng Nghymru, a hynny drwy gyfrwng y Gymraeg.

Yr un oedd cenhadaeth W. S. Gwynn Williams (1896-1978) wrth iddo sefydlu Cwmni Cyhoeddi Gwynn ym 1937, cwmni a gyhoeddodd bron 70% o gyfieithiadau Gwynn Jones o eiriau caneuon. Mae nifer y gweithiau hyn yn syfrdanol, mewn gwirionedd, yn enwedig o ystyried eu bod wedi'u cyfansoddi yn ystod deuddeng mlynedd olaf Gwynn Jones, a fu farw ym 1949.³¹ Yr oedd Gwynn Williams, fel Gwynn Jones, yn weithiwr brwd ac egnïol, ac mae catalog y cwmni yn brawf o'i ymdrechion diflino. Mewn portread o Gwynn Williams yng nghylchgrawn Urdd Gobaith Cymru, *Blodau'r Ffair*, sonia R. E. Griffith am y cyfraniad mawr a wnaeth ef i gerddoriaeth Cymru:

ni fu dim tebyg i hyn erioed mewn cyhoeddi cerddoriaeth Cymraeg [*sic*]. Rhoddodd gyfle i gyfansoddwyr Cymreig ifainc, cyhoeddodd gerddoriaeth werin ochr-yn-ochr â gweithiau safonol yr hen feistri, mynnodd drosiadau i Gymraeg [...] o beth o gerddoriaeth orau gwledydd y byd [...] oni bai am Gwmni

³¹ Jenkins, *Cofiant*, 371.

Cyhoeddi Gwynn [...] byddai gwedd dlodaidd iawn ar gerddoriaeth Cymru ers pum mlynedd ar hugain.³²

Tystia'r dyfyniad hwn i natur amrywiol y gweithiau a gyhoeddwyd gan Gwmni Gwynn, ac felly, o ganlyniad, i amrediad y gwaith a wnaeth Gwynn Jones ar ei gyfer. Yn ogystal â chyfieithiadau o weithiau Ewropeaidd gan feirdd megis Goethe a Heine a osodwyd gan gyfansoddwyr byd-enwog, ceir hefyd lawer o ddarnau cyfoes. Un o amcanion Gwynn Williams wrth iddo sefydlu ei gwmni cyhoeddi ei hun oedd rhoi llwyfan i gyfansoddwyr Cymreig newydd i ddatblygu eu talentau. Dywed mewn llythyr at Gwynn Jones ym 1938: 'I have one or two other things to come out this week and then I have issued what I really believe is about the best hundred or more modern Welsh Musical works by the best Welsh Composers and Poets'.³³ Sonia David R. Jones, yn ei draethawd PhD cynhwysfawr ar fywyd a gwaith W. S. Gwynn Williams, am uchelgais Gwynn Williams, gan ddyfynnu cyfweiliad â'r cerddor a'r cyhoeddwr, lle y cyfeiriodd at 'my childhood dream of supplying Wales with music'.³⁴ Dyma oedd nod Gwynn Williams, felly, wrth gyhoeddi caneuon Ewropeaidd enwog ynghyd â gweithiau gan gyfansoddwyr cyfoes ac iddynt eiriau dwyieithog, sef gwella'r arlwy cerddorol i'r genedl, a hynny gyda gweithiau o bell ac agos.

Dyfynnwyd eisoes o un o lythyrau Gwynn Williams at Gwynn Jones – un o blith y nifer aruthrol a gadwyd yng nghasgliad T. Gwynn Jones yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Ceir cannoedd o lythyrau yn rhychwantu bron 30 mlynedd –

³² R. E. Griffith, 'Byd Gwyn(n) Fydd Byd a Gano', *Blodau'r Ffair*, Rhif 18 (1963), 39.

³³ Llythyr, dyddiedig 13 Rhagfyr 1938, gan W. S. Gwynn Williams [WSGW] at T. Gwynn Jones [TGJ], Papurau Thomas Gwynn Jones, A1161, Llyfrgell Genedlaethol Cymru [LIGC].

³⁴ David R. Jones, 'Advocate of Change and Tradition: W. S. Gwynn Williams (1896-1978); His Contribution to Music in Wales to 1950' (traethawd PhD heb ei gyhoeddi, Prifysgol Cymru, Bangor, 2008), 345.

prawf o'r berthynas glòs a chynhyrchiol a ddatblygodd rhwng y ddau ddyn. Da y cyfeiriodd E. Wyn James at y casgliad fel 'ffynhonnell eithriadol bwysig ar gyfer y cydweithio a fu rhyngddynt'.³⁵ Dechreuodd eu gohebiaeth ym 1922 pan ysgrifennodd Gwynn Williams at Gwynn Jones i ofyn am gyfraniad i'r cylchgrawn *Y Cerddor Newydd*, a dyma 'the start of a long and fruitful relationship', fel y dywed David R. Jones.³⁶ Ceir yn y llythyrau hyn lawer iawn o wybodaeth ynglŷn â'r cwmni, fel y noda Jones, ond fe geir hefyd gipolwg dadlennol ar berthynas y ddau ohebydd, yn ogystal â gwybodaeth ddiddorol am y modd y byddai'r bardd yn mynd ati i gyfieithu (pwnc y byddir yn dychwelyd ato). Amlyga'r ohebiaeth hefyd gyflymder Gwynn Jones wrth gyfieithu: gwelir yn aml enghreifftiau o W. S. Gwynn Williams yn anfon llythyr at T. Gwynn Jones yn gofyn am gyfieithiad, ac un dilynol, ychydig ddyddiau'n unig yn ddiweddarach, yn diolch amdano. Fe fyddir yn edrych mewn manylder ar dechneg Gwynn Jones o gyfieithu ar gyfer Cwmni Gwynn yng nghorff y traethawd presennol – dull sydd yn arbennig o ddiddorol gan ei fod yn dangos nad oedd Gwynn Jones yn cyfieithu'r geiriau caneuon hyn gyda'r gerddoriaeth ei hun o'i flaen. Ni fyddai Gwynn Williams yn anfon y gerddoriaeth ato; yn hytrach, fe fyddai'r cerddor yn nodi acenion y frawddeg gerddorol ar y geiriau a anfonai at Gwynn Jones i'w cyfieithu, fel y byddai gan y bardd syniad ynghylch siâp a phwyslais yr alaw cyn cyfieithu ar ei chyfer. Fe drafodir y dull hwn yn llawn maes o law.

Prif gyfnod y gweithgarwch rhwng Gwynn Jones a Gwynn Williams o ran Cwmni Cyhoeddi Gwynn oedd 1938–9 a 1942–5. Yn ystod y blynyddoedd hyn yn union cyn yr Ail Ryfel Byd, ac yna yng nghysgod y gyflafan ei hun, cyhoeddodd Cwmni Gwynn gyfrolau o ganeuon megis *Three Old English Songs: Tair Hen Gân Seisnig* (1939), y tair wedi'u cyfieithu gan Gwynn Jones; *Caneuon Heddiw: Songs of*

³⁵ James, 'Byd Gwyn Fydd Byd a Gano', 76.

³⁶ Jones, 'Advocate of Change and Tradition', 96.

Today (1938), casgliad o naw cân gyfoes yn cynnwys nifer wedi'u trosi gan Gwynn Jones; *12 Rounds: 12 Tôn Gron* (1942), y geiriau Cymraeg i gyd (a rhai o eiriau'r caneuon Saesneg) gan Gwynn Jones; a *Songs of the Old Masters: Caneuon yr Hen Feistri* (1943), yn cynnwys cyfieithiadau gan Gwynn Jones o ganeuon Ewropeaidd. Ymddangosodd hefyd nifer o ganeuon unigol fel cyhoeddiadau ar wahân, a'u geiriau wedi'u cyfieithu gan Gwynn Jones, megis *Ceisaiid: Questers* gan Leigh Henry (1889–1958), *Cennin Aur: Daffodils* gan Mansel Thomas (1909–86), *Peace: Tangnefedd* gan Oliver Edwards (1902–79) a *Brain Owain: The Ravens of Owain* gan Bryceson Treharne (1879–1948). 1948 yw dyddiad y cyfieithiad olaf gan Gwynn Jones ar gyfer Cwmni Gwynn a gyhoeddwyd yn ystod ei fywyd; cyhoeddwyd *Cân y Bugail: The Shepherd's Song*, cyfieithiad i'r Gymraeg gan Gwynn Jones, ym 1957, wyth mlynedd wedi marwolaeth y bardd. Ymysg y beirdd a gyfieithwyd gan Gwynn Jones ar gyfer catalog Cwmni Gwynn y mae enwau megis Syr Walter Scott, Eifion Wyn, William Shakespeare, Heinrich Heine, Robert Burns, Ceiriog a John Milton.

Agwedd arall y cyfeiria R. E. Griffith ati yn ei ysgrif ar gyfraniad W. S. Gwynn Williams yw'r gerddoriaeth draddodiadol Gymreig a gyhoeddwyd gan Gwmni Gwynn.³⁷ Y mae diddordeb T. Gwynn Jones yn y diwylliant gwerin Cymraeg eisoes yn hysbys, wrth gwrs, diolch i'w gyfrol gynhwysfawr *Welsh Folklore and Folk-Custom* (1930). Diau i'w waith yn y maes ddeillio o fflam a gyneuwyd yn ei blentyndod, o ganlyniad i ddiddordeb ei dad mewn llên gwerin, fel y noda David Jenkins yn ei gofiant, gan ddyfynnu Gwynn Jones ei hun:

Syniad fy nhad oedd mai cais dynion i esbonio pethau nis deallent oedd Llên Gwerin ac ofergoelion. Deuthum innau i synio'r un peth. Byddai fy nhaid yn canu hen gerddi i'm tad pan oedd yn

³⁷ Griffith, 'Byd Gwyn(n) Fydd Byd a Gano', 39.

blentyn [...] Parhaodd diddordeb deallus fy nhad, ac felly, efallai, y dechreuodd fy niddordeb innau yn gynnar.³⁸

Amlygir diddordeb T. Gwynn Jones ym maes cerddoriaeth a diwylliant gwerin/traddodiadol mewn rhai o'r cyfieithiadau cynharaf ganddo o eiriau sydd â cherddoriaeth yn perthyn iddynt – cyfieithiadau i'r Saesneg o eiriau caneuon Cymraeg traddodiadol ar gyfer *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru* ym 1922. Ymysg y cyfieithiadau hyn ceir 'Let Mary Live Long' (Hir Oes i Fair), 'My Love is the Fairest' (Mae 'Nghariad i'n Fenws) a 'Joy Forsakes Me, Sorrow Takes Me' (Yn Iach Lawenydd, Croeso i Gerydd). Fe bwysleisia Gwynn Jones ei hun nad oedd yn ystyried y cyfieithiadau hyn fel rhai difrifol-lenyddol: 'My versions, published in the Welsh Folk-Song Society Journal, are simply specimens [...] I should never dream of attempting to write serious verse in English in such forms'.³⁹

Er bod y llythyr sy'n cynnwys y datganiad diwethaf hwn yn awgrymu fod y bardd yn gwrthwynebu cyfieithu rhai ffurfiau barddol penodol – 'Language is not like water [...] which you can pour from one vessel to another without any trouble', meddai yn yr un llythyr⁴⁰ – parhau a wnaeth gyda'r gwaith o gyfieithu ac addasu geiriau traddodiadol ymhen rhai blynyddoedd, a hynny yn bennaf eto ar gyfer Cwmni Cyhoeddi Gwynn. Er y ceir rhai cyhoeddiadau nad ydynt yn gysylltiedig â'r cwmni hwnnw, megis y gwaith golygu ac addasu a wnaeth Gwynn Jones ar 'Deryn Bach Syw' a gynhwyswyd yn y gyfrol *Hwiangerddi* a gyhoeddwyd gan Hughes a'i Fab ym 1935, y mae'r mwyafrif helaeth o'r gwaith ym maes caneuon traddodiadol yn perthyn i gatalog Cwmni Cyhoeddi Gwynn. Y mae gwaith T. Gwynn Jones yn y cyswllt hwn yn ymddangos mewn cyfrolau megis *Chwe Chân Werin Gymreig: Six Welsh Folk*

³⁸ T. Gwynn Jones, dyfynnwyd yn Jenkins, *Cofiant*, 16-17.

³⁹ Llythyr, dyddiedig 26 Chwefror 1925, gan TGJ at WSGW, Papurau TGJ, G6217B, LIGC.

⁴⁰ Ibid.

Songs (1938), *Tair Hen Gân Gymreig: Three Old Welsh Songs* (1942), *Hen Ganeuon Cymreig Gwaith a Chwarae: Old Welsh Songs of Work & Play* (1943) a *Hen Faledi Cymreig: Old Welsh Ballads* (1946). Yn achos nifer o gyfrolau o ganeuon traddodiadol a gyhoeddwyd gan Gwmni Gwynn, fe geir bod T. Gwynn Jones nid yn unig yn awdur y cyfieithiadau Saesneg, ond hefyd ei fod wedi golygu rhai o'r geiriau caneuon gwreiddiol ar gyfer y gynulleidfa gyfoes: 'cyfaddasu' yw'r union derm a ddefnyddir yn y cyhoeddiadau. Ffrwyth diddordeb dwfn dau ddyd, T. Gwynn Jones a W. S. Gwynn Williams, yn niwylliant traddodiadol Cymru yw'r cyfrolau dan sylw a gyhoeddwyd gan Gwmni Gwynn. Cyhoeddodd Gwynn Williams ei hun astudiaeth yn y maes hwn hefyd, sef *Welsh National Music and Dance* (1933), ac fe noda yn y rhagymadrodd fod Gwynn Jones wedi darllen nifer o ddrafftiau ohoni.⁴¹ Y mae'r cyfrolau hyn o ganeuon traddodiadol y tynnwyd sylw atynt uchod yn rhan allweddol bwysig, felly, o waith y gwŷr hyn yn y maes dan sylw.

Agwedd arall ar waith T. Gwynn Jones sy'n ymwneud â cherddoriaeth yw ei weithiau ar gyfer y llwyfan: dramâu cerddorol, cantodau ac operâu. Ceir naw o weithiau wedi'u llunio gan T. Gwynn Jones sydd wedi'u bwriadu ar gyfer eu perfformio ar lwyfan, ac mae chwech o'r rheini yn gyhoeddedig. Nid oes cerddoriaeth wedi'i chadw ar gyfer dau o'r tri gwaith anghyhoeddedig, sef *Cantref y Gwaelod* (1932) a *Gwlad yr Hud* (1939–40), ond ceir tystiolaeth lawysgrifol fod *Cantref y Gwaelod* wedi'i fwriadu fel rhan o basiant cerddorol yn Aberystwyth ym 1932, a bod W. S. Gwynn Williams wedi bwriadu cyfansoddi cerddoriaeth ar gyfer geiriau Gwynn

⁴¹ W. S. Gwynn Williams, *Welsh National Music and Dance* (London, 1933), iv.

Jones ar gyfer *Gwlad yr Hud*.⁴² Drama o 1912 yn cynnwys caneuon traddodiadol yw *Y Canorion*, y trydydd o'r gweithiau anghyhoeddedig.

Y ddau brif ffigwr a gysylltir â gweithiau llwyfan cyhoeddedig T. Gwynn Jones yw David de Lloyd, cydweithiwr i Gwynn Jones yng Ngholeg y Brifysgol, Aberystwyth, a W. S. Gwynn Williams. Ceir dau waith llwyfan ac iddynt gerddoriaeth gan de Lloyd, sef *Gwenllian* (1923) a *Tir na n-Og* (perfformiwyd 1925, cyhoeddwyd 1930 a 1932). Addasu ac ychwanegu at libreto gan 'Eurwedd', neu T. Williams, Llanelli, a wnaeth T. Gwynn Jones yn achos *Gwenllian*, cywaith cyntaf Gwynn Jones a de Lloyd. Arweiniodd llwyddiant y 'chwaraegerdd' hon at waith tipyn pwysicach, sef yr unig osodiad o 'Tir na n-Og', 'Awdl Delynegol' Gwynn Jones 'at Beroriaeth', yn ei chyfanrwydd.⁴³ Er i'r awdl gael ei chyfansoddi ym 1910 yn wreiddiol ar gyfer cael ei gosod i gerddoriaeth, fe aeth pymtheng mlynedd heibio cyn i osodiad o'r gwaith cyfan gael ei berfformio. Er gwaetha'r ffaith fod cyfansoddwyr eraill – David Evans a D. Vaughan Thomas – wedi ymgymryd â'r dasg o osod yr awdl hon, David de Lloyd yn unig a lwyddodd i'w chwblhau. Megis yn achos y gosodiadau a nodwyd eisoes o rai o'r cerddi sydd i'w canfod yn *Caniadau* ('Ystrad Fflur', 'Rhos y Pererinion', 'Caledfwlch', er enghraifft), y mae'r gwaith hwn yn yr un modd yn pontio rhwng y cerddorol a'r llenyddol, gan gynnig golwg o'r newydd inni ar waith pwysig yr ysgrifennwyd cymaint amdano ac sydd mor gyfarwydd i gymaint o ddarllenwyr. Fe glustnodir pennod gyfan yn y thesis i drafod y gosodiad hwn o'r awdl 'Tir na n-Og'.

Fel y gwelwyd eisoes, amrywiaeth yw un o brif nodweddion gwaith T. Gwynn Jones a W. S. Gwynn Williams, ac nid yw'r cyfansoddiadau ar gyfer y llwyfan gan y

⁴² Llythyr, dyddiedig 5 Ebrill 1932, gan W. Llywelyn Davies at TGJ, Papurau TGJ, B7, LIGC; llythyr, dyddiedig 8 Ionawr 1940, gan WSGW at TGJ, Papurau TGJ, A1219, LIGC.

⁴³ Gweler T. Gwynn Jones, 'Tir na n-Og', yn *Caniadau* (Wrecsam, 1934), 60.

ddau yn eithriadau. Cyfeiriwyd eisoes at ddau o'r chwe gwaith cyhoeddedig ar gyfer y llwyfan; y mae'r gweithiau eraill fel a ganlyn: *Y Lloer* (1932), cantata â'i cherddoriaeth wedi'i seilio ar waith Henry Purcell gyda geiriau wedi'u cyfieithu i'r Gymraeg gan Gwynn Jones; *Y Gainc Olaf* (1937), 'drama-ganu' yn cynnwys alawon traddodiadol ac emynau o gyfnod y Diwygiad, gyda'r gerddoriaeth wedi'i threfnu gan Gwynn Williams a geiriau newydd ar gyfer nifer o'r ceinciau gan Gwynn Jones; *Dewi Sant* (1942), cantawd â cherddoriaeth wreiddiol gan W. S. Gwynn Williams ar fywyd a gwaith Dewi Sant – y geiriau Cymraeg a Saesneg gan Gwynn Jones; a *Cân y Nadolig* (1945), cantawd â cherddoriaeth wreiddiol eto gan Gwynn Williams ar thema'r Geni, ac, yn yr un modd, y geiriau Cymraeg a Saesneg gan Gwynn Jones. Fel y gwelir o'r uchod, y mae'r amrywiaeth o ran pwnc ac arddull gerddorol yn drawiadol, gan gynnig cysylltiadau â rhai o themâu gweithiau llenyddol T. Gwynn Jones, megis crefydd, hunaniaeth unigolyn mewn perthynas â'i gymdeithas, ac ymchwil am wlad, neu stad, sydd well. O edrych yn thematig ar y gweithiau llwyfan hyn gan Gwynn Jones, daw i'r fei nifer o linyddau cyswllt arwyddocaol rhyngddynt a cherddi 'canonaidd' y bardd – cyfatebiaethau y byddir yn eu harchwilio yng nghwrs yr astudiaeth sy'n dilyn.

Yr hyn y mae'r amlinelliad hwn o'r corff o waith Gwynn Jones sy'n gysylltiedig â cherddoriaeth yn ei ddangos, felly, yw amrediad eang y mathau o weithiau dan sylw, yn ogystal â'r ffaith fod swmp y gweithiau yn frawychus o fawr. Ceir yma *embarras de richesses*, yn wir. Yn sicr, byddai angen sawl traethawd PhD i fynd i'r afael â'r holl ddeunydd hwn, ac felly, wrth reswm, bu'n rhaid dewis a dethol yn llym o ran pa weithiau i'w trafod yn fanwl yn y thesis hwn, a hynny er mwyn ymdrin â hwy yn y manylder y maent yn ei deilyngu. Gobeithir y bydd yr arolwg a gynigiwyd uchod yn gymorth i ymchwilwyr eraill er mwyn gweld yn union beth yw

hyd a lled (trawiadol) y maes hwn. Mawr obeithir hefyd y bydd yr ymchwil a wnaed yma yn ysgogi eraill i edrych o'r newydd ar weithiau T. Gwynn Jones yn eu perthynas â cherddoriaeth, ac yn eu sbarduno i astudio ymhellach y corff syfrdanol hwn o waith a anwybyddwyd gyhyd.

Methodoleg

Wedi amlinellu fel hyn gynnwys y corff hwn o waith T. Gwynn Jones ar gyfer cerddoriaeth, rhaid yn awr fynd ati i sefydlu methodolegau pendant er mwyn trin a thrafod y gwahanol fathau o weithiau. Nodir yn yr arolwg uchod y ceir tri phrif gategori y gellid dosbarthu gweithiau cerddorol T. Gwynn Jones iddynt: gwaith gwreiddiol, cyfieithiadau, ac addasiadau o eiriau traddodiadol. Yn y cyswllt methodolegol hwn, fe ystyrir yr addasiadau o ganeuon traddodiadol yn rhan o gategori'r cyfieithiadau, gan mai aildrefnu ac addasu gwaith ar gyfer cerddoriaeth a oedd eisoes yn bod a wna Gwynn Jones yn yr achos hwn hefyd. O ganlyniad, felly, bydd yr arolwg methodolegol sy'n dilyn yn amlinellu'r ffordd o drin a thrafod dau brif gategori, gweithiau gwreiddiol a chyfieithiadau/addasiadau. Y mae'r ddau brif gategori hyn yn galw am ddwy ffordd wahanol o ddadansoddi, gan fod y pwyslais cerddorol yn wahanol yn y ddau achos. At fethodoleg dadansoddi'r gweithiau gwreiddiol y trown yn awr.

Mae maes *musico-poetic studies*, neu *melopoetics*, fel y gelwir maes astudiaeth ryngddisgyblaethol llenyddiaeth a cherddoriaeth, yn faes amlochrog ac amrywiol. Cyhoeddwyd un o'r prif weithiau yn y maes, *Music and Literature: A Comparison of the Arts*, ym 1948.⁴⁴ Ystyrir awdur yr astudiaeth gynhwysfawr hon, Calvin S. Brown, yn un o'r prif academyddion yn y maes – un a wnaeth waith pwysig

⁴⁴ Calvin S. Brown, *Music and Literature: A Comparison of the Arts* (Athens, GA, 1948).

i'w sefydlu fel disgyblaeth ddilys yn y byd academiaidd. Yn 2000, cyhoeddodd y Word and Music Studies Association gyfrol deyrnged i Brown, sy'n cynnwys rhai o'i erthyglau a'i ysgrifau pwysicaf a mwyaf dylanwadol, yn ogystal ag ysgrifau coffa gan ei gyd-weithwyr yn y maes.⁴⁵ Un o brif gwynion Brown am y maes oedd y diffyg methodoleg, a'r modd y byddai academyddion yn cyhoeddi ar berthynas llenyddiaeth a cherddoriaeth heb wybodaeth ddigonol o'r naill ddisgyblaeth na'r llall – a heb fethodoleg bendant. Meddai Brown ym 1970: 'there is no official point of view and no standard methodology. The entire field of study remains essentially individual and unorganized'.⁴⁶ Gan fod y maes yn un mor enfawr ac amlweddog, ac yntau, wedi'r cyfan, yn cwmpasu'r ddwy ddisgyblaeth, cerddoriaeth a llenyddiaeth, y mae'r broblem o greu a sefydlu methodolegau ffurfiol-academiaidd yn un gymhleth. Dyma, felly, oedd un o brif amcanion Brown yn ei waith academiaidd, sef gosod canllawiau pendant ar gyfer ysgolheigion a oedd yn bwriadu gweithio yn y maes hwn.

Dyma hefyd oedd nod gwaith Steven P. Scher, un arall o brif academyddion astudiaethau *musico-poetic*, neu gerddo-farddonol, a gŵr a ddyfeisiodd system o gategoriâu er mwyn rhannu gwahanol weithiau'r maes.⁴⁷ Cynigia Scher fodel teiran ar gyfer ymdrin â gweithiau cerddo-farddonol: 'music and literature, literature in music and music in literature'.⁴⁸ Drwy ddefnyddio terminoleg hunanesboniadol yn ei system driphlyg, creodd Scher fodel, a chategoriâu, hawdd i'w deall a'u trafod. Y mae

⁴⁵ Jean-Louis Cupers ac Ulrich Weisstein (goln), *Musico-Poetics in Perspective: Calvin S. Brown in Memoriam* (Amsterdam, 2000).

⁴⁶ Calvin Brown, 'Musico-Literary Research in the Last Two Decades', yn Cupers a Weisstein (goln), *Musico-Poetics in Perspective*, 202.

⁴⁷ Gweler, er enghraifft, Steven Paul Scher, 'Melopoetics Revisited: Reflections on Theorizing Word and Music Studies', yn Walter Bernhart, Steven Paul Scher a Werner Wolf (goln), *Word and Music Studies: Defining the Field (Proceedings of the First International Conference on Word and Music Studies at Graz, 1997)* (Amsterdam, 1999), 18-19.

⁴⁸ Steven Paul Scher, 'Literature and Music', yn Jean-Pierre Barricelli a Joseph Gibaldi (goln), *Interrelations of Literature* (New York, 1982), 226.

categori ‘music and literature’ Scher yn cynnwys gweithiau sy’n gyfuniad o’r ddwy gelfyddyd. Cerddoriaeth leisiol, sef caneuon ac operâu, yw cynnwys y categori hwn, felly. Yn ôl Scher, prif nodwedd gweithiau’r categori hwn yw bod eu dwy agwedd, sef cerddoriaeth a llenyddiaeth, wrth ymglyfuno, yn creu cyfanwaith newydd sy’n cyfathrebu mewn ffordd wahanol i’r modd y mae’r ddwy agwedd wreiddiol yn cyfathrebu yn unigol.⁴⁹ Wrth astudio ‘music and literature’, ystyrir agweddau ar sut y mae’r broses hon o gyfuno yn effeithio ar y ddwy ochr, megis ystyriaethau ôl-dremiol ynghylch sut y mae testun barddonol yn cael ei newid gan y gerddoriaeth. Agwedd arall ar y categori hwn yw i ba raddau y mae ffurf a chynnwys y testun llenyddol yn dylanwadu ar y gerddoriaeth yn ystod y broses osod.⁵⁰

Y mae cynnwys yr ail gategori, ‘literature in music’, yn gyfystyr, i Scher, â’r hyn a elwir yn ‘program music’, sef cerddoriaeth offerynnol sy’n ceisio cyfleu ystyr naratif penodol: mae ‘tone poems’ Strauss yn enghraifft o’r *genre* hwn o gerddoriaeth.⁵¹ Mae astudiaethau ar weithiau sy’n perthyn i’r categori hwn yn aml yn drafodaethau ar sut y mae cerddoriaeth, os o gwbl, yn medru cyfleu syniadau neu deimladau penodol heb eiriau i’w hamlygu.⁵²

Mae ‘music in literature’, sef categori olaf Scher, yn gategori sy’n trafod gweithiau llenyddol yn unig.⁵³ Cyfeiria at weithiau llenyddol sydd, mewn rhyw ffordd neu’i gilydd, yn defnyddio, neu’n ceisio atgynhyrchu, nodweddion cerddorol. Yn y grŵp hwn ceir enghreifftiau o farddoniaeth sy’n efelychu ffurfiau cerddorol fel *rondo* neu ffiwg, ynghyd ag enghreifftiau o’r hyn a elwir gan Scher yn ‘word music or pure poetry’, barddoniaeth sy’n ystyried sain y geiriau yr un mor bwysig, os nad yn fwy

⁴⁹ Ibid.

⁵⁰ Ibid., 227.

⁵¹ Ibid.

⁵² Ibid., 228-9.

⁵³ Ibid., 229.

felly, na'u hystyr.⁵⁴ Cynhwysir hefyd yn y categori hwn yr hyn a eilw Scher yn 'verbal music', sef unrhyw ymgais ar atgynhyrchu cerddoriaeth mewn geiriau. Dyma sut y diffinia Scher y ffenomen hon: 'any literary presentation [...] of existing or fictitious musical compositions: any poetic texture which has a piece of music as its theme',⁵⁵ ac fel enghraifft o hyn dyfynnir ganddo ran o *Point Counter Point* Aldous Huxley sy'n disgrifio perfformiad o Suite Bach yn B Leiaf i ffliwt a llinynnau.⁵⁶

O ddilyn damcaniaeth Scher, a erys yn ddylanwadol hyd heddiw ym maes geiriau a cherddoriaeth, i gategori 'music and literature' y cwmp gweithiau T. Gwynn Jones sy'n gysylltiedig â cherddoriaeth, boed y rheini'n osodiadau penodol o farddoniaeth a oedd eisoes yn bodoli, neu'n farddoniaeth a gyfansoddodd neu a gyfieithodd ef yn arbennig ar gyfer cerddoriaeth. Byddaf felly, wrth reswm, yn canolbwyntio ar y categori cyntaf hwnnw yn y traethawd sy'n dilyn. Y mae'r categorïau a bennwyd gan Scher yn ddiâu yn ddefnyddiol, ond beth am yr union fethodoleg o'r broses o fynd i'r afael â'r gweithiau o fewn y categori 'music and literature' – a hynny o ran y dadansoddi ei hun?

Cafwyd llawer o drafod ar y ffordd orau o ddadansoddi caneuon ym maes astudiaethau geiriau a cherddoriaeth, a phob ysgolhaig yn ffafrio ei fodd ei hun. Yn ei erthygl bwysig 'Theory and Practice in the Analysis of the Nineteenth-Century *Lied*' (1992), cynigia Kofi Agawu arolwg o'r prif ffyrdd o ddadansoddi geiriau a cherddoriaeth, gan amlinellu ymhob achos brif bwyslais y dull dadansoddi dan sylw, ei fanteision a'i anfanteision, cyn cynnig wedyn ei fodel ei hun.⁵⁷ Daw'r model dadansoddiadol cyntaf o waith Susanne Langer, sef yr hyn a elwir gan Agawu yn

⁵⁴ Ibid., 230.

⁵⁵ Ibid., 234.

⁵⁶ Steven Paul Scher, 'Notes Toward a Theory of Verbal Music', *Comparative Literature*, Cyf. 22, Rhif 2 (Gwanwyn, 1970), 149-50.

⁵⁷ Kofi Agawu, 'Theory and Practice in the Analysis of the Nineteenth-Century *Lied*', *Musical Analysis*, Cyf. II, Rhif 1 (Mawrth, 1992), 3-36.

‘assimilation model’.⁵⁸ Dadleua Langer fod geiriau, wrth gael eu gosod i gerddoriaeth ar ffurf cân, yn colli eu hunaniaeth fel gwaith llenyddol, ac yn cael eu hamsugno gan y gwaith cerddorol mwy, sef y gân: ‘Song is not a compromise between poetry and music [...] *song is music*’ [pwyslais Agawu].⁵⁹ Er bod y datganiad hwn yn cyffredinoli braidd, yn yr ystyr ei fod yn diystyru pwysigrwydd y geiriau, y mae’n tynnu ein sylw at y ffaith fod effaith glywedol darn o farddoniaeth yn cael ei thrawsnewid wedi i’r darn gael ei osod i gerddoriaeth. Yn ôl Langer, mae cerddoriaeth wedi cymryd lle holl nodweddion pwysig y farddoniaeth: ‘composers [...] transform the entire verbal material, sound, meaning, and all – into musical elements’.⁶⁰ Yn ôl Agawu, nid yw model Langer, ‘the assimilation model’, yn cynnig enghraifft fanwl o’r modd y byddai hi’n mynd ati i ddadansoddi cân; ni chynigia, ym marn Agawu, ‘[a] concrete analytical demonstration of this process’.⁶¹ O ran anfanteision model Langer, gofynna Agawu beth yw rôl y geiriau yn y gân, gan godi rhai cwestiynau yn sgil ei dadl hithau, megis ‘how does the listener separate out their new mode of existence (as musical elements) from their previous one (as non-musical elements)?’⁶² Rhaid ymhellach gydnabod nad yw Langer yn ystyried o gwbl ddehongliad y gerddoriaeth o’r geiriau, a chan fod yr astudiaeth bresennol yn gosod pwyslais cryf ar yr elfen lenyddol, y mae’n rhaid dod i’r casgliad nad yw’r modd hwn o ddadansoddi yn addas yn y cyswllt hwn.

Mae’r ail fodel, sydd i’w weld yng ngwaith yr ysgolhaig Lawrence Kramer, yn gweld cân fel cyfanwaith. Yma y mae gan y ddwy agwedd, y geiriau a’r gerddoriaeth, eu hunaniaethau eu hunain o fewn y cyfanwaith: ‘Song is a structure in

⁵⁸ Ibid., 5.

⁵⁹ Susanne Langer, dyfynnwyd yn Agawu, ‘Theory and Practice’, 5.

⁶⁰ Ibid.

⁶¹ Agawu, ‘Theory and Practice’, 5.

⁶² Ibid., 6.

which words and music coexist [...] without ever losing their individual essences'.⁶³ Tra cytuna Agawu mewn egwyddor â phrif syniad Kramer o 'incorporation' yn hytrach na syniadaeth fwy pegynol 'assimilation' Langer, mae'n beirniadu'r model Krameraidd gan ddweud nad ydyw mewn gwirionedd yn rhoi digon o ystyriaeth i natur y cyfanwaith gorffenedig. Trafoda Agawu yr 'alloy' y mae'r ddwy ran yn ei greu, gan ddweud: '[a song's] identity cannot be defined simply by listing the ingredients that go into its making'.⁶⁴ Rhaid felly, yn ôl Agawu, wneud ymgais i ddarganfod beth yn union yw natur yr 'alloy' hwn.

Daw'r trydydd model o waith Raymond Monelle ac eraill, lle'r ystyrir cân fel cyfuniad annatod o eiriau a cherddoriaeth, a hynny mewn ffordd fwy rhyng-gysylltiol weithredol nag eiddo model Kramer: 'Song is interpreted as a compound structure in which words, lying at the top, provide access to meaning, while the music lies at the base and supports the signification of the text.'⁶⁵ Yn ôl Agawu, ni phrofwyd y model hwn ond yng nghyswllt caneuon lle mae'r gerddoriaeth yn llawforwyn i'r geiriau, a dyma ei brif feirniadaeth ohono. Dywed na cheir digon o enghreifftiau o'r model hwn yn cael ei ddefnyddio i ddadansoddi amrediad digon eang o weithiau. Dywed ymhellach: 'In practice, the model is invoked in analyses of song that are totally constrained to the words, so that few assertions are entertained that are not tied to the words'.⁶⁶ Ymddengys felly nad yw'n diystyru dilysrwydd y model, ond yn hytrach yn beirniadu'r testunau prawf cyfyng.

Mae'r pedwerydd model, o'r hyn y gellir ei gasglu o droednodiadau'r erthygl, yn un a ddyfeisiwyd gan Agawu ei hun. Nid yw, fodd bynnag, fel y cyfeddyf Agawu, yn gwbl foddhaol ymhob ystyr. Y mae'r model yn trin cân fel 'three independent but


⁶³ Lawrence Kramer, dyfynnwyd yn Agawu, 'Theory and Practice', 6.

⁶⁴ Agawu, 'Theory and Practice', 6.

⁶⁵ Ibid., 6-7.

⁶⁶ Ibid., 7.

overlapping systems’, ac fe gynhwysir yn ysgrif Agawu ddiagram Venn o dri chylch yn gorgyffwrdd [Ffigwr 1]:⁶⁷



Ffigwr 1

Yn ôl Agawu, rhydd y model hwn rwydd hynt i'r dadansoddwr felly edrych ar eiriau'r gân ar wahân, ar y gerddoriaeth ar wahân, neu ar y gân ei hun fel cyfanwaith:

According to the model, some aspects of the function of words may be explained exclusively in terms of the poem, just as the music may also have independent existence outside song [...] Song retains an ultimate identity that is not reducible to word influence or musical influence.⁶⁸

Er gwaethaf hyblygrwydd y model, dywed Agawu: ‘this model seeks to have its cake and eat it [...] avoids the difficult question: what is song apart from two acknowledged inputs?’.⁶⁹ Gellid dadlau fod y feirniadaeth hon ganddo ar ei fodel ei hun – ei fod yn osgoi dadansoddi sut yn union y mae cân yn beth amgen na swm ei chynhwysion – yn adleisio’i feirniadaeth ar fodel Lawrence Kramer: ‘This model [...] fails to account for the exact nature of the resulting “alloy”’.⁷⁰ Mae Agawu yn cloi ei ddisgrifiad o’i fodel triphlyg, y ‘three independent but overlapping systems’, drwy

⁶⁷ Ibid.

⁶⁸ Ibid.

⁶⁹ Ibid.

⁷⁰ Ibid., 6.

geisio ateb y ‘difficult question’ hwn, gan ddweud ei fod yn canolbwyntio ar gân fel proses greadigol yn hytrach na gwrthrych diriaethol.⁷¹ Hynny yw, yn ei eiriau ef:

To say that [song] has an independent existence which is neither as words [...] nor as music is still to leave open the difficult question of a concrete identity for song [...] Perhaps, then, what the model points to is song as process, not product. What is interesting, in other words, is not what song *is*, but what it *becomes* in its perpetual striving for a concrete mode of existence.⁷² [pwyslais gwreiddiol]

Er mor fuddiol yw gweld cân fel proses, y mae’n rhaid cydnabod yn y fan hon fod Agawu, yn ei fodel ef, mewn gwirionedd hefyd yn osgoi diffinio’r ‘concrete mode of existence’ hwnnw y mae’n haeru sydd gan gân. O ran y ‘difficult question’ hwn, sef beth yw natur y gân fel cyfanwaith, onid yw hi’n gyfrifoldeb ar y dadansoddwr ei hun i ateb y cwestiwn hwnnw? Yr hyn a gynigia’r modelau, mewn gwirionedd, yw fframwaith sy’n galluogi’r dadansoddwr i ofyn y cwestiwn anodd hwnnw.

Â Agawu ymlaen wedyn i drafod y pumed model, sef ei brif ddadl, gan ddadansoddi’r gân gyntaf o gylch caneuon Schumann *Frauenliebe und Leben* fel enghraifft o’r dull. Ceisia yn y model hwn gynnig dull amgen o ddadansoddi sy’n wahanol i’r hyn a wêl ef fel tuedd beirniaid yn y maes i ddadansoddi’r geiriau yn gyntaf. Fel y dywed Agawu, ‘Words... cast a shadow on the rest of the analysis’.⁷³ Dechreua ei ddadansoddiad ef o’r gân, sef y pumed model hwn, gydag ymdriniaeth gerddolegol bur yn ôl dull Heinrich Schenker, a hynny cyn ystyried y geiriau o gwbl.⁷⁴ Y mae dull Schenker yn ddull o ddadansoddi cerddoriaeth sy’n canolbwyntio

⁷¹ Ibid., 7.

⁷² Ibid.

⁷³ Ibid., 10.

⁷⁴ Ibid., 11-30.

ar strwythur harmonig darn o waith.⁷⁵ Nid yw Agawu, fodd bynnag, yn diystyru'r modelau eraill a drafodwyd ganddo, gan ddweud eu bod i gyd yn fan cychwyn dilys ar gyfer dadansoddiad safonol o unrhyw gân.⁷⁶ Gan fod y traethawd presennol yn llenyddol ei ogwydd, penderfynwyd nad addas fyddai dewis dull Schenker, sydd fel y nodwyd, yn ddadansoddiad cerddolegol bur o ran ei natur.

Mewn ysgrif sy'n cynnwys adolygiad o erthygl Agawu, 'Recent Approaches to Text/Music Analysis in the *Lied*' (1997), mae Suzanne M. Lodato yn beirniadu ei fodel olaf, y driniaeth gerddolegol Schenkeriaidd honno.⁷⁷ Dadleua yn erbyn methodoleg Agawu, gan ddweud nad yw'r model Schenkeriaidd yn trin y ddwy agwedd o'r gân, sef geiriau a cherddoriaeth, yn hafal; yn hytrach, rhydd y model hwn flaenoriaeth lwyr i'r ochr gerddorol: 'he has no problem with dispensing with a wide range of textual readings by choosing to examine only the **composer's** reading of the text' [pwyslais gwreiddiol].⁷⁸ Yn ôl Agawu, serch hynny, mae'r geiriau yn cael gormod o sylw mewn dadansoddiadau beirniadol o ganeuon yn gyffredinol.⁷⁹ Gwrthddadl Lodato yw nad yw'r model Schenkeriaidd yn cynnig man canol, ond yn hytrach yn mynd i'r eithaf arall, gan ganolbwyntio'n ormodol ar y gerddoriaeth. Dywed Lodato fod pumed model Agawu hefyd yn ymdebygu i'r model cyntaf a wrthodwyd ganddo, sef 'assimilation model' Langer; yn ôl Lodato: 'such a treatment of the text would result in an imbalance between [...] musical and textual integrity [...] The text would then become assimilated by the music and the song, rather than

⁷⁵ Am wybodaeth bellach ynglŷn â theori Schenker, gweler Jonathan Dusby ac Arnold Whittall, *Music Analysis in Theory and Practice* (London, 1988).

⁷⁶ Agawu, 'Theory and Practice', 8.

⁷⁷ Suzanne M. Lodato, 'Recent Approaches to Music/Text Analysis in the *Lied*', yn Bernhart, Scher a Wolf (goln), *Word and Music Studies: Defining the Field*, 98-100.

⁷⁸ Ibid., 100.

⁷⁹ Agawu, 'Theory and Practice', 10.

intersecting with them'.⁸⁰

Wedi iddi gynnig arolwg o waith Agawu yn yr erthygl, â Lodato rhagddi i drafod astudiaethau diweddar (fel yr oeddent ar y pryd) o *Lieder*, gan eu dosbarthu i wahanol gategoriâu yn ôl dull yr ymdriniaethau hynny. O'i theitl hi y daw'r term 'diweddar' yn y fan hon ('Recent Approaches to Text/Music Analysis in the Lied'), ac er ei bod yn cyfeirio at astudiaethau o'r 1960au a'r 1970au, ar ymdriniaethau o ganol yr 1980au ymlaen y mae hi'n canolbwyntio fwyaf (cyflwynwyd yr erthygl hon fel papur yng nghynhadledd y Word and Music Studies Association ym 1997). Rhanna Lodato yr astudiaethau ar y *Lied* y dewisa eu harchwilio yn ddau grŵp – un yn cynnwys astudiaethau sy'n disgwyl gweld 'evident correspondence' rhwng y geiriau a'r gerddoriaeth – 'such investigations necessarily presume that the music in the Lied translates semantic textual meaning' – a grŵp arall o astudiaethau sydd, i'r gwrthwyneb, yn canolbwyntio ar y gwrthddywedidadau a'r gwrthyferbyniadau rhwng geiriau a cherddoriaeth cân: 'a small number of the approaches [...] assume that areas of the song in which text, music and song seem [...] to contradict each other [...] yield the most important information'.⁸¹ Drwy gyfrwng y ddau brif grŵp hyn, a elwir gan Lodato yn 'Analysis of Evident Correspondence Between Music and Text' a 'Lack of Correspondence Between Music and Text', fe â Lodato ati i asesu, drwy graffu ar enghreifftiau niferus o astudiaethau yn y maes, y gwahanol ffyrdd beirniadol o ddadansoddi caneuon.⁸²

Pwysleisia Lodato fod y rhan fwyaf o'r astudiaethau yn y grŵp cyntaf, sy'n chwilio am 'evident correspondence' rhwng geiriau a cherddoriaeth, yn cwmpo o fewn trydydd categori Agawu – yr hyn y mae Lodato'n ei alw yn 'pyramidal

⁸⁰ Lodato, 'Recent Approaches to Music/Text Analysis in the *Lied*', 100.

⁸¹ *Ibid.*, 101.

⁸² *Ibid.*, 102, 107.

model'.⁸³ Cyfeiria Lodato at nifer o wahanol astudiaethau sy'n defnyddio'r model hwn, gan rannu'r ymdriniaethau yn bedwar is-gategori, a disgrifio'r gwahanol ddulliau o ddadansoddi yn ôl y gwahanol ffyrdd y gwelir 'evident correspondence' rhwng geiriau a cherddoriaeth. Cynhwysa'r pedwar is-gategori hyn astudiaethau sy'n ystyried agweddau megis i ba raddau y mae rhythmau naturiol y geiriau gwreiddiol yn cael eu cyfryngu gan y gosodiad cerddorol ('Studies of text declamation'); sut y mae cerddoriaeth yn adlewyrchu ystyron penodol y farddoniaeth ('Music as related to semantic textual meaning'); astudiaethau o debygrwydd strwythurol y geiriau a'r gerddoriaeth ('Deep structural and procedural homologies in music and text'); ac astudiaethau sy'n edrych ar ddatblygiad iaith gerddorol y cyfansoddwr o ganlyniad i'r geiriau y mae'n eu gosod ('Text stimulates basic and important changes in the composer's musical language').⁸⁴

Yn ail grŵp Lodato wedyn, sef trafodaeth ar astudiaethau 'that address disjuncture between music and text', sy'n ystyried 'lack of correspondence between music and text as crucial elements in song criticism and analysis', ceir tri is-gategori.⁸⁵ Dilyna'r is-gategoriâu hyn syniadaeth Lawrence Kramer, sy'n dadlau nad oes gan destun un ystyr benodol, ac o ganlyniad nid oes modd i osodiad cerddorol fyth adlewyrchu, yn gyfan gwbl, wir ystyr y testun hwnnw: 'Kramer denies that the text possesses "one kind of meaning, identified as 'literal' or 'referential', [that] takes precedence over all others" because musical setting never completely reflects the poet's intentions, to the extent that they can be defined'.⁸⁶ Noda Lodato fod astudiaethau sy'n defnyddio'r dull hwn yn llai o ran nifer, a'u bod yn dilyn, yn gyffredinol, fodel 'tri-partite' Agawu, sef y model a ddarlunnir gan y diagram

⁸³ Ibid., 101.

⁸⁴ Ibid., 102-6.

⁸⁵ Ibid., 107.

⁸⁶ Ibid.

cylchoedd.⁸⁷ Y cyntaf o'r tri is-gategori a bennir gan Lodato ar gyfer yr ail grŵp o astudiaethau yw 'Structural dissonance', sy'n canolbwyntio ar sut y mae'r gerddoriaeth o ran strwythur yn gwrth-ddweud neu'n gwrthgyferbynnu ag adrannau pwysig yn y testun gwreiddiol, er enghraifft ar ddiwedd penillion: 'when the music diverges from the text structurally or procedurally at decisive points such as cadences, sectional demarcations and contrast of material'.⁸⁸

Yr ail is-gategori yn y grŵp yw 'Music as related to "structural tropes"'. Syniadaeth Kramer a geir yma eto, lle mae'n cyfeirio at yr hyn a eilw'n 'structural tropes' fel enghraifft o 'hermeneutical window', hynny yw, modd o 'weld i mewn' i waith penodol er mwyn ei ddadansoddi.⁸⁹ Y mae Lodato yn diffinio'r 'tropes' hyn fel a ganlyn: "'structural tropes" [...] form the intersection between literary and musical meaning. Tropes do not merely reside in the text; rather, they are determined by examining the cultural, political and philosophical context in which the song was composed'.⁹⁰ I Kramer, maent yn fodd o fynd i'r afael â darn o waith, lle nad yw'r cysylltiadau neu'r tebygrwydd rhwng dwy agwedd arno yn amlwg. Yn ôl Kramer, 'Structural tropes [...] act independently of received ideas about resemblances [...] and may even override obvious dissimilarities in style'.⁹¹ Defnyddir y 'structural tropes', felly, i amlygu'r rhyngweithio rhwng dwy agwedd ar ddarn o waith celfyddydol a fyddai efallai'n ymddangos fel petai 'lack of correspondence' cyfan gwbl rhyngddynt ar yr olwg gyntaf.

Y trydydd is-gategori, a'r olaf, yw 'Analogies between musical and textual multiple meanings', sy'n cyfeirio'n benodol at astudiaeth Anne C. Shreffler ar

⁸⁷ Ibid., 101.

⁸⁸ Ibid., 107.

⁸⁹ Lawrence Kramer, *Music as Cultural Practice 1800-1900* (Berkeley a Los Angeles, 1990), 9.

⁹⁰ Lodato, 'Recent Approaches to Music/Text Analysis in the *Lied*', 107.

⁹¹ Kramer, *Music as Cultural Practice*, 12.

osodiad Webern o waith Trakl:

Anne C Shreffler, rather than attempting to show how Webern elucidated the meaning of Trakl's 'disjunct syntax and ambiguous imagery', proposes that Webern structured his musical settings in an 'analogously complex' way. Trakl's poetry works on several levels simultaneously, a characteristic Webern sought to reproduce in his music. In other words, Webern did not attempt to give the poem any specific reading. In addition, multiple settings of the same Trakl poem or fragment constituted a 'process' in which Webern used each new musical realization to project a different poetic reading.⁹²

Gwelir yma ymgais cerddor i geisio adlweyrchu gwahanol ystyron un gwaith barddonol yn ei gyfansoddiad.⁹³

Er gwaethaf yr amrywiaeth fawr o ddadansoddiadau a drafoda Lodato yn ei hysgrif, nid yw hi, fel Agawu o'i blaen, yn ceisio dadlau dros ddilysrwydd un dechneg dros y llall. Yn hytrach, wrth gloi ei hysgrif, dywed Lodato fod yr amrywiaeth o ran methodoleg yn beth da, a bod potensial gan bob model a drafodwyd ganddi hi ac Agawu i fod yn sylfaen i ddadansoddiad safonol o gân. 'As long as such a potential exists', dywed, 'we need not – and should not – establish a single model for lieder analysis'.⁹⁴

Y mae'n rhaid yma gydnabod agwedd sy'n codi o ddadleuon y ddwy erthygl gan Agawu a Lodato a drafodwyd uchod, sef y ffaith eu bod yn cyfeirio'n benodol at ffurf y *Lied*. Pwysig yw cofio fod y *Lied* yn *genre* arbennig o gân ynddo'i hun, un a ddatblygodd yn yr Almaen ddiwedd y 18g. a dechrau'r 19g.⁹⁵ Er bod yr erthyglau uchod yn cyfeirio'n bennaf at ffurf y *Lied*, nid yw'r trafodaethau mewn gwirionedd yn gwahaniaethu rhwng *Lied* a gân, ac mae'r dadleuon a'r agweddau yr ymdrinir â

⁹² Lodato, 'Recent Approaches to Music/Text Analysis in the *Lied*', 108.

⁹³ *Ibid.*, 107.

⁹⁴ *Ibid.*, 109.

⁹⁵ Delyth Prys, yn *Geiriadur Cerddoriaeth Rhydychen* (Pen-y-groes, 1998), 482.

hwy yn yr erthyglau yn ddefnyddiol i unrhyw un sy'n ceisio darganfod methodoleg o ran dadansoddi cân yn gyffredinol. Er mai *genre* penodol o gân yw'r *Lied*, daw o dan derm ymbarél 'y gân gelf', ac y mae Agawu ei hun yn cyfeirio at 'the nineteenth century art song'.⁹⁶ Mae'r rhan helaethaf o ganeuon gyda geiriau gan T. Gwynn Jones hefyd yn ganeuon celf yn ôl diffiniad James Husst Hall, sy'n uniaethu 'art song' â 'self-contained secular compositions scored by individual composers for solo voice with lute, harpsichord, or keyboard accompaniment'.⁹⁷ Y mae *Lied*, yn ei hanfod, yn 'combination of poetry and music',⁹⁸ hynny yw, gosodiad cerddorol o eiriau barddonol. Dyma hefyd yw caneuon gyda geiriau gan T. Gwynn Jones. O ganlyniad, felly, medrir cyfiawnhau defnyddio'r modelau dadansoddi *Lied* a geir yn y ddwy erthygl uchod gan Agawu a Lodato yn y thesis hwn.

Wrth bennu methodoleg ar gyfer yr astudiaeth bresennol, penderfynwyd felly fabwysiadu un o'r modelau a amlinellwyd gan Agawu i ddadansoddi'r gosodiadau o weithiau gwreiddiol T. Gwynn Jones sy'n ymwneud â cherddoriaeth. Fel y nodwyd uchod, llenyddol yn ei hanfod yw gogwydd y prosiect hwn, ac o ganlyniad fe roddir blaenoriaeth i'r geiriau wrth ddadansoddi. Mewn nifer o ffyrdd, trydydd model Agawu yw'r model a fydd fwyaf perthnasol i'r dadansoddiadau o'r caneuon sy'n osodiadau o weithiau gwreiddiol T. Gwynn Jones: 'Song is interpreted as a compound structure in which words, lying at the top, provide access to meaning, while the music lies at the base and supports the signification of the text'.⁹⁹ Fe gofiwn fod trydydd model Agawu yn cael ei osod gan Lodato yn ei grŵp cyntaf, sef astudiaethau sy'n dangos 'Evident Correspondence Between Music and Text'.¹⁰⁰ Gan ystyried wedyn

⁹⁶ Agawu, 'Theory and Practice', 4.

⁹⁷ James Husst Hall, *The Art Song* (Norman, 1953), vii.

⁹⁸ Jack M. Stein, dyfynnwyd yn Agawu, 'Theory and Practice', 4.

⁹⁹ Agawu, 'Theory and Practice', 6-7.

¹⁰⁰ Lodato, 'Recent Approaches to Music/Text Analysis', 102.

is-gategoriâu Lodato o fewn y grŵp hwn, fe fydd yr astudiaeth bresennol yn dilyn i raddau helaeth yr ail ddull y mae hi'n ei ddisgrifio, sef 'music as related to semantic textual meaning'.¹⁰¹ Yn y modd hwn, medrir gweld ymatebion y cyfansoddwyr i eiriau T. Gwynn Jones, gan fod nifer o'r darnau yn osodiadau o weithiau adnabyddus y bardd. Byddir hefyd yn ystyried cyd-destun y farddoniaeth, ei lle a'i phwysigrwydd yn y canon llenyddol, a sut yr archwilir ac y dehonglir y llenyddol gan y cerddorol. O fynd gam ymhellach, buddiol hefyd fyddai ystyried effaith y gosodiad cerddorol yn ei dro ar y geiriau llenyddol. Rhaid ystyried y modd y mae ein profiad ni fel gwrandawyr ar gân, yn hytrach na darllenwyr darn o farddoniaeth, yn medru effeithio ar ein dehongliad ni o'r testun gwreiddiol. Yn y cyswllt hwn, ystyrir dehongliad y cerddor yn ddarlleniad o'r gerdd – darlleniad a all newid ein dehongliad ni, yn ôl-dremiol, o'r testun.

Fel y nodwyd eisoes, ceir dau brif fath o waith yn gysylltiedig â cherddoriaeth yn y corff o waith gan T. Gwynn Jones sydd dan sylw. Y mae'r fethodoleg a amlinellir yn yr adran flaenorol yn ymdrin â gweithiau barddonol a oedd eisoes wedi'u cyfansoddi gan Gwynn Jones ac a osodwyd yn eu tro i gerddoriaeth fel caneuon. Yr ail brif fath o waith sy'n ymwneud â cherddoriaeth yn *oeuvre* Gwynn Jones, wrth gwrs – a'r grŵp mwyaf o ddigon o ran yr eitemau ynddo – yw cyfieithiadau'r bardd o eiriau caneuon. Bydd y pwyslais o anghenraid yn wahanol wrth ddadansoddi'r rhain, gan fod y broses greadigol, o ran cyfraniad T. Gwynn Jones, yn wahanol. Gwelir yma ymateb Gwynn Jones i eiriau'r testun gwreiddiol, wrth iddo lunio ei fersiwn ei hun mewn iaith wahanol. Mae gofyn iddo ef gyfieithu'r farddoniaeth – tasg nad yw'n hawdd ynddi'i hun, wrth gwrs – ond yn ogystal â hyn, mae gofyn iddo gynhyrchu cyfieithiad sydd yn cydymffurfio â rhythmau a naws y

¹⁰¹ Ibid., 103.

gerddoriaeth sy'n cyd-fynd â'r geiriau yn yr iaith wreiddiol.

Ceir amryw drafodaethau beirniadol ar amcanion cyfieithwyr geiriau caneuon, ac yn arbennig beth yw'r agweddau pwysicaf y dylid eu hystyried er mwyn cyfansoddi cyfieithiad llwyddiannus o eiriau cân. Fel y nodir uchod, rhywbeth gwahanol iawn i gyfieithu barddoniaeth yn unig a geir wrth gyfieithu geiriau caneuon. Mae nodweddion clywedol y gerdd wreiddiol yn cael eu haddasu gan y gerddoriaeth (gweler 'assimilation model' Langer yn hyn o beth)¹⁰² – newidiadau i'r rhythmau, yr odlau ymhellach oddi wrth ei gilydd, newid o ran y mydr – ac felly mae gofyn i'r cyfieithydd fod yn ymwybodol o rythmau a phwyslais y gerddoriaeth. Mae un o'r trafodaethau cynharaf ar theori cyfieithu geiriau caneuon – erthygl gan Sigmund Spaeth a ymddangosodd yn y cyfnodolyn *The Musical Quarterly* ym 1915 – yn gosod canllawiau ar gyfer y cyfieithydd. Pwysleisia Spaeth fod angen i'r cyfieithydd gael 'poetical insight [...], understanding of the intentions of both the composer and the author of the text' (go brin bod modd, bellach, rannu hyder Spaeth ei bod yn bosibl gwybod beth oedd 'bwriadau' y cyfansoddwr ac awdur y testun).¹⁰³ Dywed Spaeth ymhellach mai 'correct declamation'¹⁰⁴ yw prif dasg y cyfieithydd cerddorol, sef sicrhau fod y testun gwreiddiol yn cael ei gyfieithu yn y fath fodd fel bod y geiriau 'pwysig', acennog, a bwysleisiwyd gan y gerddoriaeth, yn ymddangos yn yr un man yn gywir yn y cyfieithiad. Pwysleisia Spaeth hefyd bwysigrwydd cadw ystyron y geiriau mor agos â phosib at y gwreiddiol, gan fod cyfansoddwyr yn aml yn dewis adlewyrchu ystyr gair arbennig drwy gyfrwng y gerddoriaeth. Er bod dros ganrif wedi mynd heibio er cyhoeddi'r ysgrif hon, mae nifer o'r nodweddion y mae Spaeth yn sylwi arnynt yn dal yn ddilys a thra pherthnasol, ac mae'r ysgrif yn cynnwys cyngor

¹⁰² Agawu, 'Theory and Practice', 5-6.

¹⁰³ Sigmund Spaeth, 'Translating to Music', *The Musical Quarterly*, Cyf. 1, Rhif 2 (Ebrill, 1915), 291.

¹⁰⁴ *Ibid*, 294.

da ar gyfer y rheiny sy'n chwilio am ganllawiau o ran cyfieithu geiriau caneuon.

Rai blynyddoedd yn ddiweddarach, ym 1922, ac yn yr un cyfnodolyn, fe welir Herbert F. Peyser yn cynnig ei awgrymiadau yntau ynghylch y dasg o gyfieithu geiriau caneuon. Mae ef yn cyffwrdd â nifer o'r un ystyriaethau â Spaeth o ran pwyslais a sicrhau geiriau 'canadwy'. Un o brif ddadleuon Peyser, fodd bynnag, yw ei farn bendant ynghylch atgynhyrchu odlau'r testun gwreiddiol mewn cyfieithiad. Mynega ei farn yn groyw:

Consider this tyrannous fetich of rhyme [...] Why perpetuate this silly decree, when the path-way is scarred with the pitfalls of balderdash?¹⁰⁵

Mynegiant yw'r dyfyniad (braidd yn eithafol) uchod o farn Peyser fod cyfieithwyr geiriau caneuon yn credu ei bod yn fanteisiol ceisio atgynhyrchu odl y testun gwreiddiol bob amser wrth gyfieithu. Mewn gwirionedd, dadleua, mae hyn yn caethiwo'r cyfieithydd, ac yn gallu arwain at frawddegau rhyfedd eu cystrawen neu eiriau anghyfarwydd wrth iddo geisio odli'n 'gywir' bob tro. Y canlyniad, meddai, yw 'the grossest gibberish'.¹⁰⁶ Er nad yw Peyser yn gymedrol yn ei ddewis o eirfa, mae'n werth nodi fod ei ddadl ynghylch a ddylid atgynhyrchu'r un patrwm odli â'r gwreiddiol yn dal i gael ei thrafod mewn beirniadaeth ar y pwnc hyd heddiw. Ni ddylid, felly, ddiystyru ei syniadau yn gyfan gwbl oherwydd ei dueddiad i or-ddweud ar adegau.

Y mae'n werth cyfeirio yma at ysgrif arall o'r un cyfnod, gan A. H. Fox Strangways, yn y cyfnodolyn *Music & Letters* yn trafod yr un pwnc: 'the neglected art

¹⁰⁵ Herbert F. Peyser, 'Some Observations on Translation', *Musical Quarterly*, Cyf. 8, Rhif 3 (Gorffennaf, 1922), 360-1.

¹⁰⁶ *Ibid.*, 360.

of song-translation'.¹⁰⁷ Mae'r erthygl gynhwysfawr hon yn cynnwys enghreifftiau o gyfieithiadau effeithiol ac aflwyddiannus, yn ôl yr awdur, yn ogystal â chanllawiau ar gyfer y cyfieithydd, a'r canllawiau hyn unwaith eto yn cwmpasu'r un dadleuon ag a geir yn erthyglau Spaeth a Peyser. Prif amcanion y cyfieithydd, yn ôl Fox Strangways, yw hyn: 'The ideal before the translator is, then, to put into the singer's mouth words [...] which do not falsify the poem nor make nonsense of the composition.'¹⁰⁸

Er bod y dull a'r meddylfryd hwn yn amlwg wedi dyddio, teg dweud bod rhai o'r ystyriaethau cyffredinol a grybwyllir yn ysgrifau Spaeth, Peyser a Fox Strangways yn dal yn rhan gyfredol o drafodaeth theoretig gyfoes ynghylch cyfieithu geiriau caneuon. Mae'r tri awdur yn gytûn ar yr agweddau pwysicaf i'w hystyried wrth gyfieithu: ystyriaethau megis sicrhau acennu cywir, gan ofalu fod y geiriau gwreiddiol a bwysleisiwyd gan y gerddoriaeth hefyd yn cael eu pwysleisio yn y cyfieithiad;¹⁰⁹ cynhyrchu cyfieithiad canadwy, gan sicrhau llafariaid agored ar nodau hirion neu uchel er mwyn gwneud y gwaith yn haws i'r perfformiwr;¹¹⁰ ac, yn olaf, yr odl, a'r ffaith nad yw o reidrwydd yn hanfodol o fewn cyfieithiad cerddorol, a'i bod yn hytrach yn ddigon derbyniol i gael cyseinnedd neu gyflythreniad yn ei lle o hyd yn hawlio lle mewn trafodaethau ac ymdriniaethau cyfoes yn y maes.¹¹¹

Er gwaethaf teitl ysgrif o 1989, 'A New Look at Recital Song Translation', mae'r awdur, Arthur Graham, yn ailadrodd nifer o brif ddadleuon erthyglau cynnar y maes. Un o brif ddamcaniaethau ysgrif Graham yw bod angen ailystyried pwysigrwydd odl wrth gyfieithu caneuon: 'the prime reason for failure of song-

¹⁰⁷ A. H. Fox Strangways, 'Song-Translation', *Music & Letters*, Cyf. 2, Rhif 3 (Gorffennaf, 1921), 211.

¹⁰⁸ Ibid., 214.

¹⁰⁹ Gweler, er enghraifft, Peyser, 'Some Observations', 368.

¹¹⁰ Gweler, er enghraifft, Spaeth, 'Translating to Music', 296.

¹¹¹ Gweler, er enghraifft, Fox Strangways, 'Song-Translation', 216.

translation is insistence upon rhyme'.¹¹² Pwysleisia, fel y gwnaeth Peyser a Fox Strangways o'i flaen, sut y mae ystyried odl fel anghenrhaid i'r cyfieithiad yn medru esgor ar destun chwithig, annaturiol neu annealladwy. Mewn gwirionedd, yn ôl Graham, y mae effaith glywedol odl yn cael ei lleihau yn sylweddol wrth osod geiriau i gerddoriaeth, ac felly nid yw'r odl o reidrwydd yn rhan allweddol o'r gân yn ei chyfanrwydd: 'The auditory effect of rhyme is much weaker in song than in poetry, for the actual time between rhymes is greater, and the cadential function of rhyme is handled by musical cadence'.¹¹³ Pwysleisia Graham hefyd bwysigrwydd rôl y gerddoriaeth wrth gyfieithu: 'the framework for translation must be the music, not the original poem'.¹¹⁴ I Graham, y gerddoriaeth a'i hacenion yw'r prif ddylanwad ar y cyfieithydd ac felly ar ffurf y gwaith terfynol.

Rhaid gofyn yma pam y mae angen i Graham, ar ddiwedd y ganrif, ailadrodd dadleuon a geir mewn ysgrifau a gyhoeddwyd ar ddechrau'r ganrif honno. Pam na thalwyd sylw gan gyfieithwyr i gyngor yr ysgrifau cynnar, sydd, yn ôl trafodaeth fwy cyfoes yn y maes, yn gyngor dilys yn ei hanfod? Yn ôl Graham, sy'n cynnwys ar ddiwedd ei erthygl lyfryddiaeth ddethol o weithiau sy'n trafod cyfieithu geiriau caneuon, y broblem gyda'r erthyglau cynnar hynny y cyfieiriwyd atynt uchod, er eu bod yn gywir eu barn yn sylfaenol, yw nad ydynt yn trafod eu dadleuon gyda digon o bwyslais beirniadol-ddadansoddol. O ganlyniad i'r diffyg academiaidd hwn, dadleua, ni sefydlwyd methodoleg bendant ar gyfer cyfieithu geiriau caneuon.¹¹⁵ Yn ei 'New Look', felly, cyniga Graham ymdriniaeth fwy gwrthrychol-fanwl o'r pwnc dan sylw.

Yn 2005, cyhoeddwyd, fel rhan o'r gyfres 'Approaches to Translation

¹¹² Arthur Graham, 'A New Look at Recital Song Translation', *Translation Review*, Rhif 29 (1989), 31.

¹¹³ Ibid.

¹¹⁴ Ibid., 33.

¹¹⁵ Ibid., 36.

Studies’, gyfrol a oedd yn trafod cyfieithu geiriau caneuon: *Song and Significance: Virtues and Vices of Vocal Translation*. Ynddi ceir dwy bennod sy’n werthfawr i’r drafodaeth bresennol. Trafoda Harai Golomb, yng nghyd-destun operâu Mozart, yr hyn a eilw’n ‘Music-Linked Translation [MLT]’, sef cyfieithu geiriau caneuon. Egyr pennod Golomb drwy drafod theori cyfieithu geiriau caneuon yn gyffredinol, a gwahaniaetha rhwng cyfieithu arferol – hynny yw, unrhyw gyfieithu nad yw’n gysylltiedig â cherddoriaeth – ac MLT, gan ddweud fod presenoldeb cerddoriaeth, a’r berthynas rhwng y geiriau a’r gerddoriaeth yn y gân (neu waith cerddorol o fath arall), yn ystyriaeth bwysig iawn i’r cyfieithydd. I Golomb, prif amcan cyfieithu geiriau caneuon yw rhoi sylw teilwng i’r gerddoriaeth a’r berthynas rhyngddi a’r geiriau: ‘MLT strives to re-create those musico-verbal interrelationships [and] interactions [...] in the target-language’.¹¹⁶ Â rhagddo i drafod sut y gwneir hyn gan gyfieithydd, ac, fel y gwelwyd eisoes, mae’r un egwyddorion yn codi eto: ‘it is a common practice in MLT to strive towards maximum preservation of the segmental phonemes (vowels and consonants) of the source MLV [music-linked verbal text, hynny yw, y testun i’w gyfieithu], in order to retain at least some of the original **sound**’ [pwyslais gwreiddiol].¹¹⁷ I Golomb, serch hynny, dylanwad y gerddoriaeth yw hanfod cyfieithu geiriau caneuon, ynghyd â’r hierarchaeth sydd ynghlwm â’r broses honno o’i chymharu â’r broses sydd ynghlwm wrth gyfieithu testun heb gerddoriaeth yn perthyn iddo. Wrth gyfieithu heb gerddoriaeth, dywed, prif ystyriaeth y cyfieithydd yw ‘the preservation of the semantic content of the source text’, ac wrth flaenoriaethu’r nod honno, gwelir nodweddion eraill y gwaith (hynny yw rhythmau, cystrawen, acennu,

¹¹⁶ Harai Golomb, ‘Music-Linked Translation [MLT] and Mozart’s Operas: Theoretical, Textual and Practical Perspectives’, yn Dinda L. Gorfée (gol.), *Song and Significance: Virtues and Vices of Vocal Translation* (Amsterdam, 2005), 124.

¹¹⁷ *Ibid.*, 127.

‘sound properties’ megis cyflythrennu a chyseinedd) yn cael eu haberthu.¹¹⁸ Dywed: ‘most formal and non-semantic elements [...] are [usually] openly sacrificed in translation [...] to achieve greater semantic adequacy’.¹¹⁹ Yn groes i hyn, yn ôl Golomb, wrth gyfieithu ar gyfer cerddoriaeth, ‘this hierarchy cannot be allowed to work’, gan fod goruchafiaeth y gerddoriaeth a’i hacenion yn gorfodi’r cyfieithydd i roi blaenoriaeth i hyn yn gyntaf.¹²⁰ O ganlyniad, dadleua, mae’r cyfieithiad o union ystyr y testun ei hun yn fwy hyblyg: ‘the semantic component of the text is no longer immune from deliberate deviations in the service of the all-important rhythmical component’.¹²¹

Ceir ymdriniaeth bellach â’r syniad hwn o hierarchaeth a blaenoriaethu yn y bennod sy’n dilyn eiddo Golomb yn y gyfrol *Song and Significance*, sef ‘The Pentathlon Approach to Translating Songs’ gan Peter Low. Cynigia Low fethodoleg ar gyfer cyfieithu caneuon wedi’i seilio ar grefft y pentathlet, athletwr y mae gofyn iddo gystadlu mewn pum camp wahanol, gan geisio cael y sgôr gyfunol uchaf posib. Fel y dywed Low: ‘[the pentathlete will] sometimes choose to come second or third in one event, keeping their eyes on the whole day’s challenge’.¹²² Dyma’r meddylfryd y mae Low’n awgrymu y dylai’r cyfieithydd geiriau caneuon ei feithrin: cadw pum ffactor neu gategori yn ei feddwl wrth gyfieithu, a phwysu a mesur eu pwysigrwydd er mwyn cael ‘sgôr’ gyfunol dda yn y gwaith terfynol.¹²³ Cyfeiria Low yn y bennod hon at *skopos*, gair Groegaidd sy’n golygu targed, nod neu amcan. Wrth gyfieithu, dadleua, dylid cadw un llygad ar y *skopos*, gan gynllunio’r fethodoleg weithredu yn

¹¹⁸ Ibid., 132.

¹¹⁹ Ibid.

¹²⁰ Ibid.

¹²¹ Ibid.

¹²² Peter Low, ‘The Pentathlon Approach to Translating Songs’, yn Gorrée (gol.), *Song and Significance*, 192.

¹²³ Ibid.

benodol ar gyfer y nod derfynol.¹²⁴

Y pum categori y mae'r cyfieithydd yn 'cystadlu' ynddynt, yn ôl Low, yw 'Singability', 'Sense', 'Naturalness', 'Rhythm', a 'Rhyme'.¹²⁵ Trefna Low y categorïau hyn yn ôl eu pwysigrwydd yn ei dyb ef, gan ddatblygu'r cysyniad o hierarchaeth a gafwyd gan Golomb. Mae'r hyn a bennwyd gan Golomb fel nodwedd bwysicaf y math hwn o gyfieithu, sef goruchafiaeth y gerddoriaeth, yn cael ei hadlewyrchu yn nadl Low yn y categori pwysicaf iddo ef, 'Singability'. Mae'r categori hwn yn cwmpasu nifer o agweddau yr effeithir arnynt gan y gerddoriaeth, megis acennu cywir, a sicrhau fod y seiniau a'u lleoliad o fewn y llinell gerddorol yn ieuad priodol a chymharus.¹²⁶ Fel yn achos pennod Golomb, cynigia Low, wrth drafod categori 'Sense', nad oes rhaid poeni'n ormodol am lyngu at union ystyr y gwreiddiol: 'It is not that meaning ceases to be an important criterion [...] However, our definition of acceptable accuracy can be wider here than in other translating'.¹²⁷ Yn ôl Low, felly, er mwyn cydweddu â'r gerddoriaeth, rhaid gosod nodweddion 'Singability' yn uwch na 'Sense' wrth gyfieithu geiriau caneuon.

Rhaid i'r darn terfynol, wrth gwrs, wneud synnwyr i'r canwr ac i'r gynulleidfa, a dyma a drafoda Low yn ei gategori 'Naturalness'. Wrth weithio i gael cyfieithiad canadwy sy'n adlewyrchu ystyr y gwreiddiol, rhaid yn ogystal â hyn greu rhywbeth sy'n ddealladwy a naturiol o ran geirfa a chystrawen. Yn yr un modd, rhaid ystyried pwysigrwydd y categori 'Rhythm'. Cyfeiria Low yma at y rhythm y mae'r gerddoriaeth yn ei osod ar y darn, a dyma agwedd sydd, yn ei farn ef, yn mynnu 'a high degree of respect' gan y cyfieithydd (dyma agwedd bwysig ar y math hwn o

¹²⁴ Ibid., 185-6.

¹²⁵ Ibid., 192-9.

¹²⁶ Ibid., 193-4.

¹²⁷ Ibid., 194.

gyfieithu i Golomb yntau, fel y gwelwyd uchod).¹²⁸ Yn ôl Low, drwy gyd-daro â rhythmau a osodwyd ar y darn gan y gerddoriaeth, ni cheir unrhyw gamacennu yn y cyfieithiad.

Yr agwedd olaf a ystyrir gan Low fel rhan o fabolgampau'r cyfieithydd yw 'Rhyme'. Dywed Low fod odl mewn cyfieithiad o'r math hwn yn ddymunol, ond heb fod yn angenrheidiol. Yn ei farn ef, y prif reswm dros fethiant nifer o gyfieithiadau yw'r pwyslais a roddwyd ar odl cyn rhai o'r agweddau pwysicach eraill yn ei farn ef, a thrwy hyn daw hyblygrwydd y 'Pentathlon Principle' i'r amlwg mewn gwirionedd. Dywed Low: 'Applying the Pentathlon Principle [...] may mean saying: "Yes, I will have some rhyme. But I will seek some margin of flexibility [...] I will try to get a top score, but not at too great a cost to other considerations (such as meaning)".'¹²⁹

Er mwyn creu cyfieithiad llwyddiannus o eiriau cân, felly, mae gofyn i'r cyfieithydd, wrth ystyried ei *skopos*, neu ei brif nod ar gyfer y gwaith terfynol, gyfuno'r holl agweddau a drafodwyd uchod, gan geisio cael y 'sgôr' uchaf posib dros yr holl gampau, ond heb feddwl bod rhaid cael marciau llawn ymhob un. Drwy hyn, felly, bydd modd sicrhau nad yw'r pwysigrwydd a osodir ar un agwedd (odl, er enghraifft), yn cael effaith andwyol ar agwedd arall (megis cystrawen, er enghraifft). *Skopos* unrhyw gyfieithiad o eiriau caneuon, yn ôl Low, yw hyn: 'the TT [target text] must give the overall impression that the music has been devised to fit it, even though that music was actually composed to fit the ST [source text]'.¹³⁰ Wrth ddadansoddi cyfieithiadau T. Gwynn Jones o nifer helaeth o eiriau caneuon yn yr astudiaeth bresennol, penderfynwyd defnyddio methodoleg sy'n dilyn yr un math o batrwm â 'Pentathlon Principle' Low. Dyma fabwysiadu felly ddull beirniadol cyfoes a

¹²⁸ Low, 'The Pentathlon Approach', 196; Golomb, 'Music-Linked Translation', 124.

¹²⁹ Low, 'The Pentathlon Approach', 199.

¹³⁰ *Ibid.*, 185.

chynhwysfawr. Fe archwilir gwahanol gategorïau'r dull hwn yn achos T. Gwynn Jones er mwyn asesu effeithioldeb a llwyddiant yr amrywiol gyfieithiadau o'i eiddo.

*

*

*

I grynhoi, felly: byddir yn defnyddio methodoleg Low yn achos cyfieithiadau T. Gwynn Jones o eiriau caneuon, gan eu bod yn cynnig fframwaith cynhwysfawr a hyblyg o ran dadansoddi'r math arbennig hwn o destun gan yn bardd. Fel y nodwyd, bydd gofyn cael methodoleg wahanol yn achos math gwahanol o destun gan T. Gwynn Jones, sef y deunydd gwreiddiol ganddo a osodwyd i gerddoriaeth. Yn y cyswllt hwn, dewiswyd astudio'r darnau hyn yng nghyswllt y categorïa ddiffiniwyd gan Lodato fel 'music as related to semantic textual meaning', sydd, fel y gwelwyd uchod, yn cwmpo o fewn trydydd categorïa Agawu, sef y dull pyramidaidd.¹³¹ Bydd yr ystyriaethau a drafodwyd gan Agawu a Lodato uchod yn berthnasol yng nghyswllt y bennod gyntaf, sy'n astudiaeth o eiriau caneuon gwreiddiol T. Gwynn Jones. Bydd y methodolegau cerddo-farddonol hyn gan Agawu a Lodato yn fodd i archwilio deongliadau'r cyfansoddwyr o waith T. Gwynn Jones, a fydd yn eu tro yn taflu goleuni newydd ar ein deongliadau ni o farddoniaeth y gyfrol *Caniadau* (1934) ynghyd â darnau gwreiddiol eraill gan y bardd. Yn yr un modd, defnyddir yr un methodolegau yng nghyswllt yr astudiaeth fanwl ar opera David de Lloyd *Tir na n-Og* yn y bennod olaf i astudio darlenniad y cerddor o waith y bardd, ac i ddatgelu agweddau newydd ar yr awdl 'Tir na n-Og'. Drwy archwilio'r gerddoriaeth yn ôl y methodolegau a amlinellir uchod, rhoddir cyfle i edrych o'r newydd ar waith honedig gyfarwydd a gymerwyd, efallai, yn ganiataol gennym.

¹³¹ Lodato, 'Recent Approaches to Music/Text Analysis', 103.

Bydd yr ymdriniaeth â chyfieithiadau geiriau caneuon T. Gwynn Jones yn rhoi damcaniaeth ‘pentathlon’ Peter Low ar waith. Mae natur gyffredinol y fethodoleg yn ein galluogi i fynd i’r afael mewn modd cynhwysfawr â’r amrywiaeth eang o destunau, themâu a *genres* a geir o fewn y bennod. Mae defnyddio’r categorïau sy’n rhan greiddiol o fethodoleg Low – ‘Singability’, ‘Sense’, ‘Naturalness’, ‘Rhythm’ a ‘Rhyme’¹³² – fel modd o ddadansoddi a thrafod cyfieithiadau T. Gwynn Jones o eiriau caneuon yn ffordd effeithiol o grisialu’r drafodaeth ar amrediad eang o weithiau. Mae methodoleg Low hefyd yn berthnasol i’r drafodaeth yn y drydedd bennod, wrth archwilio cyfieithiadau T. Gwynn Jones o weithiau traddodiadol, yn ogystal â’r cyfaddasiadau o ddarnau traddodiadol lle gwelir Gwynn Jones yn cysoni rhythm y geiriau fel modd o hwyluso ‘Singability’.

Bydd y thesis hwn, felly, yn cynnig cyflwyniad i gorff o waith o eiddo T. Gwynn Jones sy’n ychwanegol at yr *oeuvre* canonaidd, ac eto, fel y gwelwn, yn fodd o oleuo’r gweithiau canonaidd hynny ymhellach. Tystia’r cyfoeth a welir yn y gweithiau cerddorol hyn i’r ffaith bod yma gorff tra arwyddocaol o ddeunydd gan T. Gwynn Jones, a hyderir y bydd y thesis hwn yn fodd i agor y maes newydd hwn ar gyfer trafodaeth feirniadol. Yn ystod y thesis, byddir yn cyffwrdd ar nifer o wahanol agweddau ar y berthynas rhwng y ddwy gelfyddyd, barddoniaeth a cherddoriaeth, a byddir yn dangos sut y mae modd edrych o’r newydd ar *oeuvre* ehangach T. Gwynn Jones drwy brism y gweithiau cerddorol hyn.

¹³² Low, ‘The Pentathlon Approach’, 192-9.

CERDDORIAETH *CANIADAU*:

GEIRIAU CANEUON GWREIDDIOL T. GWYNN JONES

Eisoes, yn y bennod ragarweiniol flaenorol, gwelsom mor amlochrog ac amrywiol yw'r corff hwnnw o waith gan T. Gwynn Jones sy'n ymwneud â cherddoriaeth. Yng nghwrs y thesis, byddir yn astudio sawl agwedd ar y cynnyrch hwn, o gyfieithiadau geiriau caneuon i weithiau llwyfan, o beth o farddoniaeth bwysicaf yr 20g. i ddarnau syml ar gyfer plant. Bydd y bennod hon yn trafod gosodiadau cerddorol o weithiau gwreiddiol T. Gwynn Jones, ac yn mynd i'r afael â rhai o'r gwahanol ystyriaethau sy'n codi wrth astudio'r darnau hyn. Byddir yn ymdrin â gosodiadau cerddorol o farddoniaeth gyhoeddedig Gwynn Jones, a hynny gan ddefnyddio cysyniad Lodato o 'music as related to semantic textual meaning' ynghyd â dull pyramidaidd Agawu.¹ Yn hyn o beth, edrychir ar y gosodiadau fel deongliadau neu 'ddarlleniadau' gwahanol gyfansoddwyr o waith y bardd – ymatebion a all, yn ôl-dremiol, ddylanwadu ar ein dehongliad blaenorol ninnau o farddoniaeth Gwynn Jones. Yn wir, mewn nifer o achosion, y mae craffu ar gyd-destun cerddorol darnau adnabyddus iawn gan T. Gwynn Jones yn fodd o ddyfnhau ymhellach ein dirnadaeth o weithiau canonaidd. Edrychir hefyd yn y bennod hon ar agwedd arall ar sut y mae cerddoriaeth yn effeithio ar farddoniaeth T. Gwynn Jones, a hynny drwy fynd i'r afael â'r cefndir cerddorol coll neu gudd sydd i nifer o gerddi cyfarwydd. Dangosir drwy gydol yr astudiaeth hon mor bwysig yw cerddoriaeth nid yn unig i ran benodol o gynnyrch Gwynn Jones (cyfieithiadau geiriau caneuon, er enghraifft), ond i'w *oeuvre* ehangach. Cyflwynir yn y bennod bresennol hefyd un o ffigyrau allweddol gyrfa 'gerddorol' T. Gwynn Jones, sef W. S. Gwynn Williams (1896-1978), a thrafodir darnau o

¹ Gweler uchod, 'Cyflwyniad: Arolwg o'r Maes a Methodoleg', 23-34.

farddoniaeth a gyfansoddodd Gwynn Jones yn arbennig ar gyfer cael eu gosod i gerddoriaeth gan Gwynn Williams – rhan o gorff o waith sy'n tystio i berthynas broffesiynol dorethiog eithriadol, a ystyrir yn llawn maes o law.

Cymwys yw troi yn gyntaf, fodd bynnag, at y darn cyhoeddedig cynharaf o eiddo T. Gwynn Jones y medrir ei gysylltu â cherddoriaeth. Darn o farddoniaeth yn dwyn y teitl 'Yr Ornest' ydyw, a osodwyd i gerddoriaeth gan 'Mr. Willie Davies, Abergele'. Cyhoeddwyd y darn yn yr *Abergele and Pensarn Visitor* ym mis Mai, 1890, ac eto, gyda chywiriadau, yn rhifyn yr wythnos ganlynol.² Cyhoeddwyd y geiriau eto yn *Baner ac Amserau Cymru* ym mis Awst yr un flwyddyn,³ ac yn y tri chyhoeddiad nodir mai awdur y geiriau yw 'Gwynn ap Iwan', un o ffugenwau llenyddol cynnar T. Gwynn Jones.⁴ Edrydd y gerdd hanes gornest ar faes y gad rhwng y ddau hen elyn, Cymro a Sais. Mae 'Yr Ornest' yn debyg o ran arddull a chynnwys i'r math o ganu a welir gan Gwynn Jones yn y gyfrol *Dyddiau y Parch. Richard Owen gyda Chynhyrchion Buddugol Ereill*, cyfrol a gyhoeddwyd ym 1891 ac y cyfeiriodd y bardd ati'n ddiweddarach fel ei '[b]echod llenyddol cyntaf'.⁵ Cyfrol o *juvenilia* a geir yma, ond mae ynddi awgrymiadau o botensial y bardd, fel y nododd W. Beynon Davies: 'it was evident from this that here was someone who had a great feeling for words and a cultivated and extensive vocabulary'.⁶ Y mae themâu gwladgarwch a

² *The Abergele and Pensarn Visitor*, 31 Mai 1890, 3; *The Abergele and Pensarn Visitor*, 7 Mehefin 1890, 3.

³ *Baner ac Amserau Cymru*, 27 Awst 1890, 11.

⁴ D. Hywel E. Roberts (gol.), *Llyfryddiaeth Thomas Gwynn Jones* (Caerdydd, 1981), 347.

⁵ T. Gwynn Jones, dyfynnwyd yn Arthur ap Gwynn, 'Thomas Gwynn Jones: Dyddiau a Gweithiau Cynnar', yn Gwynn ap Gwilym (gol.), *Cyfres y Meistri (3): Thomas Gwynn Jones* (Llandybie, 1982), 49.

⁶ W. Beynon Davies, *Thomas Gwynn Jones* (Cardiff, 1970), 5.

rhyfel a gyflwynir mewn cerddi megis ‘Gwalia’ a ‘Môr o Waed Dros Gymru Wen’ yn *Dyddiau y Parch. Richard Owen* yn amlwg hefyd yn ‘Yr Ornest’:⁷

Meddai’r Sais – ‘Rhaid it, ymladd am rhyddid,
Neu fod yn garcharor i ni.’
Yr ateb fel udgorn a glywid–
‘Yr Ornest, a rhyddid i mi!’
[...]
Mae rhyddid yn plygu y bwa,
Ac angeu yn arwain y saeth
A’r gelyn a genfydd tra chwympa,
Yr Ornest yn rhyddid i’r caeth!⁸

Cyhoeddwyd y testun heb gerddoriaeth ynghlwm wrtho yn yr *Abergele and Pensarn Visitor* a *Baner ac Amserau Cymru*, ac er y nodir fod y geiriau wedi eu gosod i gerddoriaeth, ni cheir unrhyw fanylion ynghylch cyhoeddi’r gân fel cyfanwaith. Ni cheir unrhyw wybodaeth ychwaith am gyfansoddwr y gerddoriaeth, heblaw mai ‘Mr. Willie Davies, Abergele’, ydoedd.⁹ Gellid tybio ar yr olwg gyntaf mai’r cyfansoddwr William Davies (1859-1907) sydd yma, gan fod ganddo yntau gân sy’n dwyn y teitl ‘Yr Ornest’, ond ‘Morwyllt’, nid ‘Gwynn ap Iwan’, sydd biau’r geiriau yn yr achos hwn.¹⁰ Y mae’r unig gyfeiriad at ‘Willie Davies’ a geir yn y corff o waith beirniadol a bywgraffiadol am T. Gwynn Jones yn ymddangos yng nghofiant David Jenkins i’r bardd, lle’i disgrifir fel ‘cerddor ifanc o Abergele’.¹¹ Anodd iawn yw’r dasg o

⁷ ‘Ymryson y cedyrn – mae hir swm [*sic*] eu cadau [...] Yn enyn [*sic*] yn wynias, wladgarol deg eirias’ (‘Gwalia’); ‘Budd ein Gwalia, bedd i’n gelyn,/ Ydyw’r nôd [*sic*] pes holltai’r nen [...] “Môr o waed dros Gymru wen!”’, (‘Môr o Waed Dros Gymru Wen’), yn Gwynvre ap Iwan (T. Gwynn Jones) a Gwilym Meredydd, *Dyddiau y Parch Richard Owen gyda Chynhyrchion Buddugol Ereill* (Wyddgrug, 1891), 25, 27.

⁸ Gwynn ap Iwan (T. Gwynn Jones), ‘Yr Ornest’, *The Abergele and Pensarn Visitor*, 7 Mehefin 1890, 3.

⁹ *The Abergele and Pensarn Visitor*, 31 Mai 1890, 3; *The Abergele and Pensarn Visitor*, 7 Mehefin 1890, 3; *Baner ac Amserau Cymru*, 27 Awst 1890, 11.

¹⁰ Robert David Griffith, ‘DAVIES, WILLIAM’, <<http://wbo.llgc.org.uk/cy/c-DAVI-WIL-1859.html>>; cyrchwyd 17 Ionawr 2015; William Davies, *Yr Ornest* (Llanerchymedd, 1886).

¹¹ David Jenkins, *Thomas Gwynn Jones: Cofiant* (Dinbych, 1973), 286.

ddarganfod unrhyw wybodaeth ynghylch bywyd a gwaith Willie Davies o Abergele, ond ceir ymysg papurau T. Gwynn Jones yn y Llyfrgell Genedlaethol dri llythyr sy'n taflu rhywfaint o oleuni ar yr unigolyn anhysbys hwn.

Dyddiad y llythyr cyntaf o'r tri at T. Gwynn Jones sydd wedi'u harwyddo gan Mr. W. Davies, Deganwy, yw 28 Mawrth 1916. Mae'r llythyr yn gais cwrtais gan hen ffrind i Gwynn Jones am gyfieithiadau i'r Saesneg o ddau ddarn o farddoniaeth a osodwyd i gerddoriaeth. Y mae'n amlwg, o gynnwys y llythyr, nad yw'r ddau ddyn wedi siarad ers tro:

Dear Mr. Jones,

There is many a year since I have seen you or had the pleasure of a word with you in any way, ever since the old times in dear old Abergele. Since then many things of note have happened to you, + I cordially congratulate you upon the position you now hold in Wales.¹²

Mae'r cyfeiriad a welir uchod at Abergele yn awgrymu'n gryf, felly, mai dyma'r un W. Davies â'r gŵr a gyfansoddodd y gerddoriaeth ar gyfer 'Yr Ornest'. Wrth graffu ymhellach ar natur y cais am gyfieithiad o eiriau caneuon, daw'n fwy tebygol mai'r un gŵr yw 'Willie Davies, Abergele' a 'W. Davies, Deganwy':

May I trouble you with a small special request, over the page I have two sets of words that I want translating into English, as I am going to publish them, and am told it would help to have English wds.

I could not think of anyone more capable, + if you could spare a moment amongst all your other labours, that you would be kind enough to oblige me.¹³

Er na cheir cyfeiriad uniongyrchol yn y llythyr ei hun at gerddoriaeth, mae'r geiriau i'w cyfieithu sydd ynglwm yn nodi mai 'Song' a 'Part-Song' yw'r ddau waith y mae

¹² Llythyr, dyddiedig 28 Mawrth 1916, gan W. Davies at T. Gwynn Jones [TGJ], Papurau Thomas Gwynn Jones, G960, Llyfrgell Genedlaethol Cymru [LIGC].

¹³ Ibid.

W. Davies yn gofyn i Gwynn Jones eu cyfieithu.¹⁴ Rhaid cofio, er gwaethaf enwogrwydd T. Gwynn Jones mewn cylchoedd llenyddol yng Nghymru erbyn 1916, na ddaeth y bardd yn adnabyddus fel cyfieithydd geiriau caneuon tan y 1920au.¹⁵ Mae'r datganiad 'I could not think of anyone more capable' yn awgrymu mai profiad personol sydd wrth wraidd y cais: fod W. Davies, Deganwy eisoes wedi cydweithio â Gwynn Jones mewn cyd-destun cerddorol, a'i fod, wrth weithio ar ddau gyfansoddiad newydd, wedi penderfynu cysylltu â'i hen gyfaill am gymwynas. Cynigir, felly, mai cyfansoddwr cerddoriaeth 'Yr Ornest' yw awdur y llythyrau hyn hefyd.

Er nad yw ymateb Gwynn Jones wedi goroesi, gwelir, o lythyr nesaf W. Davies, iddo wrthod cyfieithu un o'r ddau ddarn a anfonwyd ato, a hynny am resymau moesol. Yng nghanol y Rhyfel Byd Cyntaf, ymddengys fod W. Davies, Deganwy wedi mynd ati i gyfansoddi cân a oedd yn clodfori aberth y milwyr yn y gyflafan: 'Bu Farw Dros Ei Wlad'. Edrydd y geiriau, gan Dewi Glan Peris, hanes 'Hoff fachgen [...] o Gymru,/ N'wirfoddol aeth i'r gad' – bachgen sydd yn cael ei ladd mewn brwydr waedlyd.¹⁶ Mae'r farddoniaeth yn darlunio'i fam a'i dad yn aros yn eiddgar am lythyr, 'mewn pryder nos a dydd', heb wybod fod eu mab annwyl 'yn [*sic*] ngwersyll angy'. Pwysleisir yn y byrdwn arwriaeth yr aberth: 'Bu farw dros ei wlad'.¹⁷ Yn ei ail lythyr at T. Gwynn Jones, sydd yn llai ffurfiol o ran arddull na'r cyntaf (cyferchir Gwynn Jones â'r ymadrodd 'Annwyl Ffrynd [*sic*]' yn lle'r 'Mr. Jones' blaenorol, er enghraifft), diolcha W. Davies am gyfieithiad 'hynod o brydferth' Gwynn Jones o 'Bythod Cymru' Ieuan Gwynedd, gan ddweud ei fod yn 'hollol

¹⁴ Ibid.

¹⁵ Gweler ymhellach y bennod ddilynol, 'A Tremendous Contribution: Cyfieithiadau Geiriau Caneuon T. Gwynn Jones', 96-182.

¹⁶ Dewi Glan Peris, 'Bu Farw Dros Ei Wlad', dyfynnwyd mewn llythyr, dyddiedig 28 Mawrth 1916, gan W. Davies at TGJ, Papurau TGJ, G960, LIGC.

¹⁷ Ibid.

bwrpasol i'r gerddoriaeth'.¹⁸ Wrth sôn am y gwaith arall, fodd bynnag, dywed Davies, 'yr wyf wrth gwrs yn cydymdeimlo a'ch [*sic*] teimladau, er nad hwrach [*sic*] yn cydweld lygad yn llygad, ond "rhydd i bawb ei farn, ac i bob barn ei llafar"¹⁹. Ymddengys felly fod Gwynn Jones wedi gwrthod cyfieithu 'Bu Farw Dros ei Wlad', gan nad oedd, fel heddychwyr, yn medru cydsynio ag ideoleg y gerdd. Mynych y mynega Gwynn Jones ei atgasedd tuag at y Rhyfel Mawr: er enghaifft, yn ei ddyddiadur anghyhoeddedig a gedwir yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, 'Diary of a Pacifist', ei ymateb personol i nifer o ddigwyddiadau yn Aberystwyth mewn cyfnod cythryblus yn hanes y dref; mewn amryw lythyrau gwelir ei fod yn colli gobaith a'r awydd i barhau i lenydd; a gellid cyfeirio hefyd at ei awdl 'Madog' a gyfansoddodd, fel y nododd Gwynn ap Gwilym, fel dihangfa o'r 'enbydrwydd' o'i gwmpas.²⁰

Ni cheir dyddiad ar y llythyr olaf oddi wrth W. Davies yn y casgliad, er bod modd damcaniaethu ar sail ei gynnwys (cyfeiriad at gyhoeddi 'Bythod Cymru') ei fod wedi'i ysgrifennu yn yr un cyfnod â'r ddau flaenorol.²¹ Gofynna Davies yn y llythyr hwn a oes gan Gwynn Jones unrhyw eiriau eraill a fyddai'n addas ar gyfer cael eu gosod i gerddoriaeth, ac er nad yw'r ymateb i'r cais hwn yn hysbys, ceir nodyn ar y llythyr yn llaw T. Gwynn Jones sy'n awgrymu ei fod yn awyddus i gydweithio ymhellach â'i hen gyfaill: 'Would very much like to have a try at an opera, or oratorio. Anything in that line if we could collaborate in the near future'.²² Er

¹⁸ Llythyr, dyddiedig 11 Ebrill 1916, gan W. Davies at TGJ, Papurau TGJ, G961, LIGC.

¹⁹ Ibid.

²⁰ T. Gwynn Jones, 'Diary of a Pacifist', Papurau TGJ, D293, LIGC; llythyr, dyddiedig 14 Rhagfyr 1915, gan TGJ at R. Silyn Roberts, Llawysgrif Bangor, BMSS-19485, Archifau a Chasgliadau Arbennig, Prifysgol Bangor; Gwynn ap Gwilym, 'Rhagymadrodd', yn ap Gwilym (gol.), *Cyfres y Meistri*, 35.

²¹ Er gwaethaf y cyfeiriad hwn at 'Bythod Cymru' yn y llythyr, ni lwyddwyd i ddarganfod unrhyw dystiolaeth fod y gwaith wedi cael ei gyhoeddi.

²² Nodyn gan T. Gwynn Jones ar lythyr, heb ddyddiad, gan W. Davies at TGJ, Papurau TGJ, G962, LIGC.

gwaethaf brwdfrydedd y ddau ddyn, nid oes unrhyw ohebiaeth bellach rhyngddynt yn goroesi, nac unrhyw dystiolaeth eu bod wedi cydweithio ymhellach.

Yng nghyswllt y thesis presennol, diffinir y gweithiau gwreiddiol a drafodir yn y bennod hon fel darnau o farddoniaeth gan T. Gwynn Jones sydd ynghlwm â cherddoriaeth ar ffurf caneuon. Mewn rhai achosion, fel ‘Yr Ornest’ uchod, nid yw’r gerddoriaeth yn hysbys, ond fe gynhwysir enghreifftiau o’r fath yn y drafodaeth gan fod y cysylltiad hwnnw â cherddoriaeth yn bodoli. Wrth gasglu’r holl weithiau sydd yn ymwneud â cherddoriaeth ynghyd, a’u categoreiddio, gwelir fod 71 o ganeuon y medrir eu hystyried fel gweithiau gwreiddiol, hynny yw, caneuon â geiriau gwreiddiol gan T. Gwynn Jones. Os ystyrir, ymhellach, y cyfieithiadau gan Gwynn Jones o’i waith ei hun sy’n ymddangos fel geiriau Saesneg y caneuon yn llawer o’r cyhoeddiadau hynny, mae’r nifer yn codi i 102. Wrth reswm, ni fydd modd ymdrin â’r holl ddarnau yn y gofod cyfyngedig a geir yma, ac mae gofyn dewis a dethol yn llym yng nghyswllt pa weithiau i’w trafod. Wrth ddistyllu’r cynnwys at bwrpas y drafodaeth hon, penderfynwyd canolbwyntio’n bennaf ar ddarnau a geir yn *Caniadau*, neu a gysylltir mewn rhyw fodd â’r gyfrol enwog honno. Mae archwilio’r gosodiadau cerddorol hyn o weithiau sydd yn gyfarwydd i ddarllenwyr fel darnau llenyddol pur yn rhoi cyfle i bontio’r agendor rhwng y llenyddol a’r cerddorol, ac yn cynnig mynedfa i fyd y rhyngddisgyblaethol – ystyriaeth greiddiol drwy gydol yr astudiaeth hon.

Ystyrir *Caniadau* (1934), a gyhoeddwyd gyntaf fel *Detholiad o Ganiadau* ym 1926 gan Wasg Gregynog, fel un o gyfrolau Cymraeg mwyaf dylanwadol yr 20g. Cynhwysir ynddi, yn ôl John Eilian, y ‘campweithiau [...] a olygodd fisoedd o ymdrech fawr, oer, ddofn ar ran cof a gwybod ac ewyllys’.²³ Synna D. Gwenallt Jones

²³ John Eilian, ‘Atgofion’, yn ap Gwilym (gol.), *Cyfres y Meistri*, 143.

at amrywiaeth ei chynnwys, gan weld ynddi ‘noethni syml arddull y Cynfeirdd, rhuthr cadarn y Gogynfeirdd, telynegrwydd serchus Dafydd ap Gwilym a diarhebrwydd llinellau Wiliam Llŷn a Thudur Aled’, tra mae’r gyfrol, i Iorwerth C. Peate, yn ddim llai na ‘drych [...] i ddangos inni ddyfnder ein henaid’.²⁴ Dyma gyfrol a dreiddiodd i ymwybyddiaeth cenedl, ac o ganlyniad nid yw’n syndod bod nifer o gyfansoddwyr Cymru wedi troi ati fel ffynhonnell geiriau i’w gosod i gerddoriaeth.

O’r pymtheg gosodiad cerddorol o wahanol ddarnau a ddaw o *Caniadau*, gweddol gyfartal yw’r cynnyrch o ran y math o farddoniaeth a osodwyd: ceir chwe chân sy’n osodiadau o ganu caeth – adrannau o awdlau ‘Ymadawiad Arthur’ a ‘Tir na n-Og’ – a naw gosodiad o ddarnau o ganu rhydd sy’n ymddangos yn y gyfrol. Troir yn gyntaf at y gosodiadau o adrannau o awdl ‘Ymadawiad Arthur’: dwy gân i denor gan D. Vaughan Thomas (1873-1934), gosodiad o’r hir-a-thoddaid enwog yn disgrifio Ynys Afallon gan Dilys Elwyn-Edwards (1918-2012), a gosodiad cerdd dant o gywydd clo’r awdl, lle y mae Arthur yn addo y bydd yn dychwelyd. Rhaid cydnabod yma ehangder maes cerdd dant: diau y bodola degau, os nad cannoedd, o osodiadau o waith T. Gwynn Jones i’w canu gyda’r delyn a baratowyd ar gyfer amryw gystadlaethau ac eisteddfodau. Gellid tybio fod rhan helaeth o’r gosodiadau hyn yn anghyhoeddedig, ac awgrymir y byddai casglu a thrafod y gosodiadau cerdd dant o weithiau T. Gwynn Jones yn faes ymchwil swmpus a gwerthfawr ynddo’i hun. Yn y cyswllt hwn, felly, penderfynwyd yn achos y thesis presennol mai gwell fyddai peidio â dilyn y trywydd hwn, gan fod y deunydd sydd eisoes dan sylw yn cwmpasu maes digon anodd ei grynhai yn y gofod sydd ar gael. Yn ddiau, y mae’r gosodiadau cerdd

²⁴ D. Gwenallt Jones, ‘Fy Marn ar Waith Fy Athro’, yn ap Gwilym (gol.), *Cyfres y Meistri*, 209; Iorwerth C. Peate, ‘Gwlad Hud’, yn ap Gwilym (gol.), *Cyfres y Meistri*, 297.

dant o weithiau T. Gwynn Jones yn darparu maes ymchwil newydd eang a chyffrous ar gyfer y dyfodol.

O ran y caneuon eraill hynny sy'n enghreifftiau o osodiadau o adrannau o 'Ymadawiad Arthur' – dwy gan D. Vaughan Thomas, ac un gan Dilys Elwyn-Edwards – mae'r tair cân yn osodiadau o wahanol adrannau o'r awdl. Dewisa Vaughan Thomas ddwy adran o gywydd: y disgrifiad o gledd y brenin, *Caledfwlch*, a'r disgrifiad o'r cwch sydd i gario Arthur i Ynys Afallon a'r morwynion sydd i'w hebrwng. Gosododd Dilys Elwyn-Edwards un o adrannau enwocaf yr awdl, efallai, sef y tri hir-a-thoddaid tua'i diwedd sy'n darlunio hyfrydwch Ynys Afallon.

Un o nodweddion pwysig 'Ymadawiad Arthur' yw'r ymddiddan rhwng y cymeriadau drwy gydol yr awdl.²⁵ Amlygir mor ddramatig yw'r awdl yn hanes E. Tegla Davies am Gwynn Jones yn ei darllen: 'Wrth iddo fynd ymlaen enillai arno, a gwelwn ei fod yn cynhyrfu. Cododd ar ei draed, a berw ei fynwes yn ymchwyddo. Pan ddaeth at y rhan yn sôn am Fedwyr yn bwrw'r cleddyf i'r llyn, yr oedd gwewyr mawr ar ei wedd, fel petai ef ei hun yn Fedwyr'.²⁶ Mae'r elfen ddramatig hon yn un o'r agweddau a'i gwnaeth yn awdl mor chwyldroadol, ac fe gaiff y nodwedd hon ei hamlygu gan osodiadau Vaughan Thomas, *Caledfwlch* ac *Ymadawiad Arthur*, dwy gân unawdol i lais tenor. Mae'n deg dweud mai un o brif gyfraniadau D. Vaughan Thomas oedd y gwaith a wnaeth ym maes gosod y canu caeth i gerddoriaeth. Ef oedd un o'r cyntaf i ymgymryd â'r dasg o ddifrif, ac roedd ei arbrofion yn y maes yn allweddol i ddatblygiad cerddoriaeth Gymreig yn yr 20g.²⁷ Mae geiriau *Caledfwlch*, cân a gyhoeddwyd ym 1931, yn bedair llinell ar hugain o gywydd sy'n cynnwys

²⁵ Gweler Thomas Parry, 'Ymadawiad Arthur (1902; 1910; 1926)', yn ap Gwilym (gol.), *Cyfres y Meistri*, 397.

²⁶ E. Tegla Davies, 'Atgofion', ap Gwilym (gol.), *Cyfres y Meistri*, 128.

²⁷ Gweler *Tir Newydd*, Rhif 16 (Mehefin, 1939), cyfrol goffa i D. Vaughan Thomas sy'n cynnwys nifer o ysgrifau ar waith y cyfansoddwr, un gan T. Gwynn Jones yn eu mysg.

disgrifiad o gleddyf Arthur ac araith Bedwyr cyn iddo daflu'r arf i'r llyn. Prif densiwn yr awdl yw ymgais Bedwyr i gyflawni'r dasg hon a osodwyd gan Arthur, ac un o'i huchafbwyntiau yw'r weithred o daflu'r cledd i'r dŵr. Tair rhan sydd i'r gân gan D. Vaughan Thomas, ac yn y gyntaf mae'r geiriau'n cynnwys disgrifiad manwl o geinder a chywreindeb '[d]yrnfol aur addurnfawr' Caledfwlch.²⁸ Mae'r gerddoriaeth yn yr adran hon yn llawn o gwaferi triphlyg yn y cyfeiliant, ffigwr cerddorol sy'n adleisio'r 'wawr' arbennig ar y cledd, sydd cyn 'loewed a fforchog lewych/ Rheiddiau'r haul'.²⁹ (Gweler **Atodiad III, Dyfyniad 1.**)³⁰ Mae'r ail adran yn fyrrach, ac mae'r geiriau'n disgrifio Bedwyr yn dringo i'r 'llethr uwchben y llyn'.³¹ Mae naws yr alaw yn wahanol yn y fan hon, gyda llai o neidio rhwng nodau, a'r gerddoriaeth yn dilyn rhythmau naturiol y geiriau yn agos. (Gweler **Atodiad III, Dyfyniad 2.**) Mae'r nodweddion cerddorol hyn, ynghyd â natur naratifol y geiriau, yn ymdebygu i adran *recitative* (lle ceir elfen naratifol) o opera glasurol.³² Os cymerir yr ail ran fel y *recitative*, gellir synio am ran olaf y gân, araith Bedwyr, fel *aria*. Am y tro cyntaf yn y gân, ceir newid *tempo*, ac arafa'r gerddoriaeth. '*Largamente e pesante*' yw'r cyfarwyddiadau a geir ar y sgôr, 'yn eang (*broadly*) a thrwm', gan ategu, efallai, eiriau cyntaf Bedwyr: 'Drymaf, uthraf awr'.³³ (Gweler **Atodiad III, Dyfyniad 3.**) Pwysleisir pwysigrwydd yr ennyd a dwyster y datganiad agoriadol hwn gan y marciau dynameg *sf*, sy'n dynodi *sforzando*, acen nerthol, ar sillafau cyntaf y ddau air

²⁸ T. Gwynn Jones (geiriau), D. Vaughan Thomas (cerddoriaeth), *Caledfwlch* (Swansea, 1931), 3.

²⁹ *Ibid*, 5.

³⁰ Wrth gyfeirio at y darnau cerddorol yn y bennod hon a thrwy gydol y thesis, byddir, yn hytrach na chynnwys y dyfyniadau cerddorol yng nghorff y traethawd, yn eu rhoi fel atodiadau ac yn cyfeirio atynt fel y gwelir uchod.

³¹ Gwynn Jones, Thomas, *Caledfwlch*, 6.

³² Gweler Dale E. Monson, Julian Budden a Jack Westrup, 'Recitative', yn Stanley Sadie (gol.), *The New Grove Dictionary of Music and Musicians (Second Edition), Volume 21: Recitative to Russian Federation* (London, 2001), 1-6.

³³ Gwynn Jones, Thomas, *Caledfwlch*, 6.

agoriadol. Ar ddiwedd ei araith, dywed Bedwyr os ‘daw gwall am [...] golli’ Caledfwlch, ei fod yn dymuno i’r cledd gael ei adfer o’r dŵr.³⁴ Gellid dadlau y cyflëir brwydr fewnol Bedwyr rhwng ei deyrngarwch i’w frenin a’i ansicrwydd ynghylch canlyniad cyflawni gorchymyn Arthur drwy gyfrwng y newid cywair cyson a’r cwaferi *staccato* yn y cyfeiliant. (**Gweler Atodiad III, Dyfyniad 4.**)

Un o brif nodweddion yr awdl y mae gosodiad D. Vaughan Thomas yn ei hamlygu, a hynny drwy gyfrwng ei gwahanol adrannau cerddorol, yw natur amrywiol a dramatig yr awdl ei hun. Tyn cerddoriaeth *Caledfwlch*, drwy gyfrwng arddulliau gwrthgyferbyniol, ein sylw fel gwrandawyr at y gwahaniaethau rhwng y disgrifiadol a’r dramatig yn y testun, ac fe amlygir hyn mewn gosodiad o adran arall o’r awdl gan D. Vaughan Thomas mewn cân o’r enw *Ymadawiad Arthur*. Mae geiriau’r gân hon, a gyhoeddwyd ym 1930, yn disgrifio’r cwch sydd yn dyfod i’r lan i gario Arthur i Afallon, a’r morwynion sy’n hwylio ynddo. Fel gyda geiriau’r gân *Caledfwlch*, disgrifiadau sy’n agor y darn, a chlywir am y ‘glwth eursail’ yn y bad, a’i ‘gerfwaith cywrain’.³⁵ Dywedir wedyn ynghylch prydferthwch y morwynion, ‘Nad oedd gwawr Blodeuwedd gynt/ O geinder ail’,³⁶ a disgrifir eu ‘purloew gnawd’ a’u ‘hirwallt aur’, eu ‘gyddfau a thalcennau can’.³⁷ Mae ffigur agoriadol y cyfeiliant yn ymddangos fwy nag unwaith yn y gosodiad o’r adran ddisgrifiadol hon, gan roi undod i ran gyntaf y gân. (**Gweler Atodiad III, Dyfyniad 5.**) Wrth i’r geiriau fynd yn fwy naratifol yn hytrach na disgrifiadol-bur – ‘Bu druan y rhianedd/ Weled gwan dreuliedig wedd/ Y cadarn Wledig’ – ceir newid yn y gerddoriaeth hefyd.³⁸ Cyflwynir nodau triphlyg yn y cyfeiliant, ac fe geir trawsgyweiriad o’r cywair D fwyaf gwreiddiol i gywair B

³⁴ Ibid., 7.

³⁵ T. Gwynn Jones (geiriau), D. Vaughan Thomas (cerddoriaeth), *Ymadawiad Arthur* (Swansea, 1930), 3.

³⁶ Ibid., 4.

³⁷ Ibid., 4-5.

³⁸ Ibid., 5-6.

leiaf. (Gweler Atodiad III, Dyfyniad 6.) Fel y gwelwyd yn *Caledfwlch*, efelychir ffurf opera glasurol, gydag awgrym o *recitative* yn y gerddoriaeth yn yr adran hon, wrth i'r llais ganu'r geiriau 'codi/ A wnaent; ar hyn, at eu rhi'.³⁹ (Gweler Atodiad III, Dyfyniad 6.) Ceir llai o wahaniaeth cyfwng rhwng y nodau, ac efelychiad o rhythmau naturiol y geiriau, fel sy'n gyffredin mewn adran *recitative* opera.⁴⁰

Er gwaethaf yr iachâd a ddaw i Arthur yn Afallon, rhaid i Bedwyr ddychwelyd at erchylltra maes y gad – 'Bedwyr, yn drist a distaw/ At y drin aeth eto draw'.⁴¹ Nid yw'r awdl yn cloi ar nodyn hollol gadarnhaol, felly, ac fe'n gadweir yn ystyried y tristwch a'r her sydd yn wynebu Bedwyr. Er bod yr alaw yn adran glo'r gân yn tueddu at gywair D fwyaf, ni cheir sefydlogrwydd na sicrwydd yn y cyfeiliant o ran yr harmoni. Ceir cyfres o ohiriannau⁴² a datrysiadau⁴³ yn y cyfeiliant, ac ni cheir datrysiad terfynol tan far olaf ond un y gân. Yn y gyfres olaf o gordiau, gwelir yng nghanol cord D fwyaf nodyn G#, pedwerydd estynedig y cord (*augmented fourth*), gan greu cord *tritone*, cord sydd â chysyniadau a chysylltiadau negyddol: fe'i hadwaenir yn hanesyddol fel y *diabolus in musica*, y diafol mewn cerddoriaeth.⁴⁴ Mae'r gerddoriaeth yn cynnig datrysiad i'r gohiriad arbennig hwn gan godi'r pedwerydd estynedig i'r pumed perffaith, A, i ddychwelyd i gywair gwreiddiol D fwyaf yn y ddau gord olaf. (Gweler Atodiad III, Dyfyniad 7.) Awgrymir yma, drwy

³⁹ Ibid., 6.

⁴⁰ Gweler Monson, Budden a Westrup, 'Recitative', 1-6.

⁴¹ T. Gwynn Jones, 'Ymadawiad Arthur', yn *Caniadau* (Wrecsam, 1934), 34.

⁴² 'Caiff nodyn mewn cord ei ddal dros dro (ei seinio ychydig yn hwyr) fel rhan anghytseiniol am foment o'r cyfuniad sy'n dilyn; caiff wedyn ei adfer drwy ddisgyn gradd at nodyn sy'n ffurfio rhan real o'r 2il gord'. Delyth Prys, *Geiriadur Cerddoriaeth Rhydychen* (Pen-y-Groes, 1998), 811.

⁴³ 'Dilyn cord anghytgordioliol (neu nodyn anghytgordioliol mewn cord o'r fath) gyda chytgord', Ibid., 684.

⁴⁴ William Drabkin, 'Tritone', yn Stanley Sadie (gol.), *The New Grove Dictionary of Music and Musicians (Second Edition), Volume 25: Taiwan to Twelve Apostles* (London, 2001), 748.

gyfrwng yr harmoni a glywir yn yr adran offerynnol glo, y ddeuliaeth a gyflwynir yn yr awdl rhwng llawenydd iachâd Arthur a'r dyddiau tywyll sydd i ddod i Bedwyr.

Yn wahanol i D. Vaughan Thomas, sy'n mynd i'r afael â neges a themâu yr awdl ehangach yn ei gerddoriaeth, y mae 'Ynys Afallon' Dilys Elwyn-Edwards yn ymdrin â'r geiriau mewn ffordd wahanol. Mae'r gân yn osodiad o'r adran hir-a-thoddaid enwog ar ddiwedd 'Ymadawiad Arthur' sy'n disgrifio hyfrydwch Ynys Afallon, ac fe'i cyhoeddwyd fel rhan o'r gyfrol *Pum Cân Fyfyriol* (1997), sydd hefyd yn cynnwys gosodiad y cyfansoddwr o 'Rhos y Pererinion' o waith T. Gwynn Jones. Mae 'Ynys Afallon' yn ddehongliad o'r geiriau a osodir wedi'u hynysu o gysyniadau'r awdl lawn: ni cheir awgrym o ffigwr '[t]rist a distaw' Bedwyr, ac fe bwysleisir yn hytrach y '[f]ro dirion' honno, Ynys Afallon.⁴⁵ Ceir yn y geiriau ddisgrifiadau manwl o'r wlad a'i nodweddion: ei phurdeb, a'r heddwch a ganfyddir yno:

ni thery
Na haint na henaint fyth mo'r rhai hynny
A ddêl i'w phur, rydd awel, a phery
Pob calon yn hon yn heini a llon
Ynys Afallon ei hun sy felly.⁴⁶

Cyfansoddwyd 'Ynys Afallon' yn C fwyaf, cywair heb unrhyw lonnodau na meddalnodau ynddi, ac mae'n bosib fod y cyfansoddwr wedi dewis y cywair 'pur' hwn er mwyn adlewyrchu natur y wlad a ddisgrifir yng ngeiriau'r gân. Pwysleisir pwysigrwydd y tonydd C wrth i'r gân ddod i ben drwy gyfrwng cyfres o gordiau C fwyaf yn y cyfeiliant wedi'u chwarae dros ystod eang y piano gan ddefnyddio'r pedal cynnal, gan adael i'r traw atseinio a chyfoethogi'r cord i gloi. (**Gweler Atodiad III, Dyfyniad 8.**) Ni cheir unrhyw awgrym o dywyllwch na chymhlethdod yn harmoni'r

⁴⁵ Gwynn Jones, 'Ymadawiad Arthur', yn *Caniadau*, 33-4.

⁴⁶ *Ibid.*, 33.

gân hon, ond yn hytrach y mae'r gerddoriaeth yn cynrychioli purdeb dilychwin Ynys Afallon.

Yn wahanol i'r awdl 'Ymadawiad Arthur', un adran yn unig o 'awdl delynegol' 'Tir na n-Og' sydd wedi cael ei gosod fel cân unigol, ac mae'r adran honno yn un o'r 'telynegion serch', fel y cyfeiria R. M. Jones atynt.⁴⁷ Er bod yr awdl yn cynnwys mesur y cywydd, englynion milwr a'r gwawdodyn degban, y '[c]anu "rhydd" cynganeddol yn ôl y mydr 8/7'⁴⁸ yw'r mesur sydd wedi denu'r cyfansoddwyr, ac efallai mai mydr rheolaidd a chyfarwydd y darnau hyn oedd un o'r ffactorau dylanwadol wrth iddynt ddewis darn i'w osod i gerddoriaeth. Ceir trafodaethau ar rythmau anghyffredin ac anghyson nifer o'r mesurau caeth mewn amryw astudiaethau ac ysgrifau ar y pwnc, yn ogystal ag ymdriniaethau â gosod y gwahanol gynganeddion mewn modd sy'n amlygu eu hansawdd arbennig.⁴⁹ Yn y cyswllt hwn, felly, dyma 'awdl delynegol' Gwynn Jones, a fwriadwyd 'at beroriaeth', yn cynnig cyfle prin i osod seiniau arbennig y cynganeddion i rythmau telynegol cyson.⁵⁰ Gosodwyd y gân y mae Osian yn ei chanu i Nia cyn iddo adael Tír na nÓg i ddychwelyd i Iwerddon gan W. Bradwen Jones (1892-1970) ym 1955, a chan Arwel Hughes (1909-1988) ym 1993. Ceir hefyd osodiad o'r awdl yn ei chyfanrwydd fel opera gan David de Lloyd (1883-1948), ac fe drafodir y gwaith hwn yn llawn yn ddiweddarach yn y thesis hwn.

Cyfeiriwyd eisoes at y syniad o osodiad cerddorol o ddarn o farddoniaeth fel dehongliad cerddor o'r gwaith, a thrwy graffu ar y ddau osodiad o gân ffarwél Osian yn 'Tir na n-Og', a'u cymharu, gwelir sut y mae'r ddau gyfansoddwr wedi dewis

⁴⁷ R. M. Jones, *Llenyddiaeth Gymraeg: 1902-1936* (Llandybïe, 1987), 132.

⁴⁸ Ibid.

⁴⁹ Gweler, er enghraifft, *Tir Newydd*, Rhif 16 (Mehefin, 1939); Emrys Cleaver, *Gwŷr y Gân* (Llandybïe, 1964), 52-7; Idris Lewis, *Cerddoriaeth yng Nghymru* (Lerpwl, 1945), 46, 47.

⁵⁰ T. Gwynn Jones, 'Tir na n-Og', yn *Caniadau*, 60.

pwysleisio agweddau gwahanol ar y geiriau. Y mae gosodiad W. Bradwen Jones i lais tenor unigol yn gwneud defnydd helaeth o hanner cwaferi yn y cyfeiliant, gan ddarlunio tonnau'r môr y mae Osian yn cyffelybu Nia iddynt. (**Gweler Atodiad III, Dyfyniad 9.**) Pwysleisir natur cân Osian o'r cychwyn cyntaf gyda'r cyfarwyddyd *tempo* a mynegiant '*Andante appassionato*' (Mae *andante* yn golygu 'symud ymlaen, llyfo (yn lled araf ond nid yn rhy araf)', ac *appassionato* yn golygu 'angerddol'⁵¹). (**Gweler Atodiad III, Dyfyniad 9.**) Drwyddi draw, felly, gofynnir i'r canwr adlewyrchu nwyd ac angerdd Osian wrth iddo ganu ffarwél emosiynol i'w gariad, ac fe geir llawer o gyfarwyddiadau mynegiant ar y sgôr: arafu a chyflymu, *crescendi* a *diminuendi*, acenion, a daliadau. Un enghraifft nodedig o'r pwyslais mynegiannol hwn yw'r rhan honno o'r gân lle cana'r llais y geiriau 'Lanwyd â'th oleuni di'.⁵² Ceir nodyn hir *forte* ar 'Lanwyd', cyn ailadrodd y gair gan ddal y sillaf gyntaf gyda chord gwasgarog yn atseinio yn y cyfeiliant. (**Gweler Atodiad III, Dyfyniad 10.**) Wrth i'r gân dynnu at ei therfyn, ac wrth inni glywed datganiad arwrol (ond eironig) Osian, 'Heb un ing wynebwn angau/ Mal y down i'th ymyl di', pwysleisir eto'r naws agoriadol o gariad angerddol gyda'r cyfarwyddyd '*con molto passione*'.⁵³ (**Gweler Atodiad III, Dyfyniad 11.**) Ategir hyn gan y modd y mae'r gerddoriaeth yn cryfhau ac yn arafu drwy'r adran hon, ac wrth i'r llais ailadrodd y cwpled clo cyrhaedda'r gân uchafbwynt dramatig gydag A♭ uchel *fortissimo* i gyfeiliant cordiau llawn yn y piano. (**Gweler Atodiad III, Dyfyniad 11.**)

Gwahanol iawn, ar y cyfan, yw'r pwyslais yn achos gosodiad Arwel Hughes o'r un adran o'r awdl 'Tir na n-Og'. Yn hytrach na chyfeiliant a mynegiant dramatig gosodiad Bradwen Jones, ceir yma gerddoriaeth symlach ac offeryniaeth fwy agored.

⁵¹ Prys, *Geiriadur Cerddoriaeth Rhydychen*, 21, 24.

⁵² T. Gwynn Jones (geiriau), W. Bradwen Jones (cerddoriaeth), 'Cân Osian', yn *Two Songs for Tenor* (Swansea, 1955), 5-6.

⁵³ *Ibid.*, 7.

Mae'r ddynnameg hefyd yn dawelach drwyddo draw, er y ceir yma eto farciau mynegiant helaeth drwy'r sgôr. Ceir peth camacennu yn y gosodiad hwn, megis yn yr ail bennill wrth i'r llais ganu 'gloewaf fel y gwelwyf fi', ac fe bwysleisia'r alaw ail sillaf 'gloewaf' yn hytrach na'r gyntaf. (**Gweler Atodiad III, Dyfyniad 12.**) Er gwaethaf y gwrthdaro rhythmig achlysurol rhwng y geiriau a'r gerddoriaeth, gwelir bod y cyfansoddwr yn awyddus i gyfleu'r ystyr, gan fod yma'r cyfarwyddyd mynegiant '*dolce*' i sicrhau anwyldeb a thynnerwch wrth ganu'r adran hon. (**Gweler Atodiad III, Dyfyniad 12.**) Mae ymdriniaeth Arwel Hughes â'r adran glo yn wahanol iawn i ddehongliad Bradwen Jones, sydd yn cloi ar nodyn gorfoleddus a gobeithiol. Er bod y pennill olaf gan Hughes yn dechrau yn *fortissimo*, tawela wrth fynd rhagddo gan bwysleisio eto naws dyner gyda'r cyfarwyddyd '*dolce*'. (**Gweler Atodiad III, Dyfyniad 13.**) Ceir *diminuendo* cyson drwy gydol y chwe bar olaf, a allai gael ei ystyried yn fynegiant cerddorol o ymadawiad Osian, ei gwch yn hwylio dros y tonnau a'i ffarwél yn pellhau. (**Gweler Atodiad III, Dyfyniad 13.**) Yng nghyd-destun yr awdl yn ei chyfanrwydd, gwyddys mai addewid gwag ac eironig yw geiriau Osian, ac efallai y ceir awgrym o'r tristwch anorfod sydd ynghlwm â hyn drwy gyfrwng yr ymdeimlad hwn o ymbellhau a grëir ar ddiwedd gosodiad Arwel Hughes.

Wrth drafod y gyfrol *Caniadau*, sylwodd Iorwerth C. Peate ar ddefnydd y bardd o'r gynghanedd drwy gydol y casgliad, hyd yn oed yn y canu rhydd. Sonia am '[g]einder dihafal' 'Gwlad Hud', ond gan bwysleisio fod 'yr un defnydd o'r gynghanedd i'w weld trwy'r caniadau oll'.⁵⁴ Dyfynna bennill o un o delynegion Gwynn Jones, a osodwyd fwy nag unwaith i gerddoriaeth, sef 'Rhos y Pererinion', gan gyfeirio ati fel 'un o'r rhai [telynegion] perffeithiaf', gyda'r gynghanedd ynddi yn

⁵⁴ Peate, 'Gwlad Hud', 298.

‘gywrain’ ond ‘heb [...] ei gwthio ei hun ar ein clyw’.⁵⁵ Ceir yn ‘Rhos y Pererinion’ (man yn Iwerddon ‘lle’r oedd ysgol enwog yn y ddegfed ganrif⁵⁶) fynegiant gan Gwynn Jones o’i ddadrith gyda’r byd o’i gwmpas a’i ‘gofidiau dwys a blinion’, a gwelir y bardd yn ymhyfrydu yn ‘[n]ysg a rhinwedd’ yr ysgol ganoloesol honno.⁵⁷ ‘Cerdd nodweddiadol o awen T. Gwynn Jones’ yw ‘Rhos y Pererinion’ ym marn Donald Hughes, gan ei bod yn ‘mynegi diflastod’ gyda’i fyd cyfoes ac yn ymgolli yn rhinweddau byd gwell – agwedd sydd, fel y noda Hughes, mor bwysig yng ngwaith y bardd drwyddo draw.⁵⁸ Y mae’r thema hon o’r ‘Hyfryd wlad’ neu ‘Baradwys bell’ yn un y cyfeiriodd sawl beirniad ati – Hywel Teifi Edwards, Euros Bowen a W. Beynon Davies yn eu plith – gan sôn am y gerdd hon wrth ei chrybwyll.⁵⁹ O ystyried y tebygrwydd thematig, nid yw’n syndod canfod gosodiad o’r gerdd hon gan Dilys Elwyn-Edwards yn yr un casgliad ag ‘Ynys Afallon’ a drafodwyd uchod, sef *Pum Cân Fyfyriol*. Mewn rhifyn o’r rhaglen radio *Beti a’i Phobol*, dywedodd y gyfansoddwraig mai mater o anghenraid oedd ei bod yn hoffi’r geiriau yr oedd yn eu gosod, ac mae’n amlwg fod y thema ‘Hyfryd Wlad’ yng ngwaith T. Gwynn Jones wedi apelio’n gryf ati.⁶⁰

Cyflwynir yr alaw F leiaf ym mhennill cyntaf ‘Rhos y Pererinion’ Elwyn-Edwards yn syml gan y llais yn canu’n *mf* (*mezzo forte*) â chyfeiliant o gordiau diaddurn yn y piano. (**Gweler Atodiad III, Dyfyniad 14.**) Ceir uchafbwynt i’r

⁵⁵ Ibid.

⁵⁶ R. I. Aaron, ‘Nodiadau T. Gwynn Jones ar *Caniadau*’, yn ap Gwilym (gol.), *Cyfres y Meistri*, 307.

⁵⁷ T. Gwynn Jones, ‘Rhos y Pererinion’, yn *Caniadau*, 190.

⁵⁸ Donald Hughes, ‘Rhos y Pererinion’, yn ap Gwilym (gol.), *Cyfres y Meistri*, 448.

⁵⁹ Hywel Teifi Edwards, ‘Cerddi T. Gwynn Jones yn *The Oxford Book of Welsh Verse*’, yn ap Gwilym (gol.), *Cyfres y Meistri*, 365; Euros Bowen, ‘Golwg ar Farddoniaeth T. Gwynn Jones’, yn ap Gwilym (gol.), *Cyfres y Meistri*, 341; W. Beynon Davies, ‘Canu Thomas Gwynn Jones’, yn ap Gwilym (gol.), *Cyfres y Meistri*, 235.

⁶⁰ Dilys Elwyn-Edwards, *Beti a’i Phobol*, darlledwyd ar BBC Radio Cymru, 29 Ionawr 2012.

frawddeg gerddorol wrth i'r geiriau ofyn 'Ba le y cawn i noddfa dlos?', gyda nodau C yn cael eu hailadrodd cyn esgyn i F uchel gyda *crescendo*, gan adlewyrchu natur ingol cwestiwn yr adroddwr sy'n chwilio am le a all ei warchod rhag y 'byd a'i bwys'.⁶¹ (**Gweler Atodiad III, Dyfyniad 14.**) Mae'r gerddoriaeth yn ymdawelu eto tua diwedd y pennill gyda'r cyfeiriad at y lle arbennig hwnnw, 'Rhos y Pererinion', cyn i'r cyfeiliant gynnig llinell sy'n adleisio alaw'r llais, gan greu dilyniant rhwng adran gyntaf ac ail adran y gân. (**Gweler Atodiad III, Dyfyniad 14.**)

Fe egyr yr ail adran yn union fel yr adran gyntaf o ran yr alaw, ond ceir cordiau gwahanol a mwy o symud yn y cyfeiliant, sy'n arwain y gerddoriaeth i gyfeiriad A♭ fwyaf, cywair perthynol F leiaf, gan awgrymu'r ymbellhau oddi wrth '[d]rybini lond y byd'.⁶² (**Gweler Atodiad III, Dyfyniad 15.**) Mae'r llais yn canu heb saib o ddiwedd ail bennill y geiriau ymlaen i'r trydydd, ond fe geir *poco rit.* (arafu ychydig) a *tenuto* (wedi'i ddal) i bwysleisio pwysigrwydd Rhos y Pererinion wrth i'r geiriau grybwyll enw'r 'noddfa' honno unwaith eto.⁶³ (**Gweler Atodiad III, Dyfyniad 15.**) Ymdawela'r gerddoriaeth i ddynnameg *p* (*piano*), a gwelir neidiau esgynnol yn yr alaw i adleisio'r 'cyfodi [...] o fyd y niwl' yn y geiriau.⁶⁴ (**Gweler Atodiad III, Dyfyniad 15.**) Wedi saib ar 'Rhos y Pererinion', a grybwyllir am y trydydd tro yn y darn, gwelir yr alaw'n symud yn ôl at rythmau a chyfyngau adran gyntaf y gân, ac fe geir uchafbwynt tebyg i'r pennill cyntaf yn y llinell olaf gyda'r datganiad hyderus, 'Ac ni ddof byth i dir y nos', y tro hwn ar A♭ uchel wedi cyfres o nodau C wedi'u hailadrodd.⁶⁵ (**Gweler Atodiad III, Dyfyniad 16.**) Tawelu eto a

⁶¹ T. Gwynn Jones (Cymraeg), John Stoddart (Saesneg), Dilys Elwyn-Edwards (cerddoriaeth) 'Rhos y Pererinion = The Pilgrims' Isle', yn *Pum Cân Fyfyriol* (Talysarn, 1997), 21.

⁶² Ibid., 22.

⁶³ Ibid.

⁶⁴ Ibid.

⁶⁵ Ibid.

wneir ar ddiwedd y gân, gan ailadrodd y frawddeg gerddorol a gyflwynodd gyntaf ‘Ros y Pererinion’.⁶⁶ (Gweler **Atodiad III, Dyfyniad 16.**) Tro a geir yng nghynffon y gân, fodd bynnag, wrth i’r llais ganu A ♮ ar y nodyn olaf yn lle A♭, techneg y *tierce de Picardie*, lle codir y trydydd lleiaf i drydydd mwyaf, gan fynd â’r gerddoriaeth yn sydyn i F fwyaf i gloi’r gân.⁶⁷ (Gweler **Atodiad III, Dyfyniad 16.**) Er mai simplistig, efallai, ydyw’r syniad fod cywair mwyaf yn arwyddo’r hapus a chyweirnod lleiaf yn arwyddo’r trist, gwelir yn y gân hon ddefnydd celfydd o symudiad graddol yn ôl ac ymlaen rhwng cywair lleiaf a mwyaf, hyd at y clo annisgwyl yn y mwyaf sy’n mynnu sylw. Gellid haeru fod hyn yn adlewyrchu’r newid agwedd drwy’r gerdd, o’r gyfeiriadaeth at y ‘byd a’i bwys,/ Gofidiau dwys a blinion’ yn y pennill cyntaf hyd at y pennill olaf lle y gadewir y ‘trybini’ ar ôl: ‘ni ddof byth i dir y nos/ O Ros y Pererinion’.⁶⁸

Gosodwyd ‘Rhos y Pererinion’ hefyd gan Meirion Williams (1901-1976) ym 1968, ac fe gyhoeddwyd y gân ym 1993.⁶⁹ F leiaf yw cywair agoriadol y gân hon hefyd, ac mae’r adran gyntaf yn llawn cordiau agos a thywyll y gellir cynnig eu bod yn adlewyrchu’r ‘Gofidiau dwys a blinion’.⁷⁰ (Gweler **Atodiad III, Dyfyniad 17.**) Ymddengys y *tritone*, y diafol mewn cerddoriaeth, yn y cyfeiliant ac yn yr alaw yn yr adran gyntaf sy’n sôn am dristwch a blinder byd. (Gweler **Atodiad III, Dyfyniad 17.**) Ceir trawsgyweiriad sydyn yn llinell olaf y pennill cyntaf, i B fwyaf, wrth i’r

⁶⁶ Ibid.

⁶⁷ Julian Rushton, ‘Tierce de Picardie’, yn Sadie (gol.), *The New Grove Dictionary, Volume 25*, 469.

⁶⁸ Gwynn Jones, Stoddart, Elwyn-Edwards, ‘Rhos y Pererinion = The Pilgrims’ Isle’, yn *Pum Cân Fyfyrionol*, 21, 23.

⁶⁹ Gwybodaeth gatalog, <<http://www.gwales.com/goto/biblio/en/9780900426667/>>; cyrchwyd 2 Chwefror 2015.

⁷⁰ T. Gwynn Jones (geiriau), Meirion Williams (cerddoriaeth), ‘Rhos y Pererinion’, yn *Adlewych* (Penygroes, 1993), 15.

geiriau sôn am Ros y Pererinion, a chlywir cordiau syml ac agored yn y cyfeiliant.⁷¹ (**Gweler Atodiad III, Dyfyniad 17.**) Ymddengys fod Meirion Williams, fel Dilys Elwyn-Edwards, wedi dewis defnyddio'r dull hwn o gyferbynnu cyweiriau lleiaf a mwyaf er mwyn adlewyrchu delfryd paradwysaidd Rhos y Pererinion mewn cyferbyniad â'r 'byd a'i bwys'.⁷² Mae'r ddau gyfansoddwr hefyd wedi dewis adlewyrchu'r weithred o '[g]yfodi' gan yr adroddwr – Dilys Elwyn-Edwards gyda neidiau esgynnol i nodau uchel, a Meirion Williams yn darlunio'r trobwynt penderfynol yn y gerdd drwy gyfrwng patrwm cordiol esgynnol yn erwydd bas y cyfeiliant piano wrth i'r llais ganu'r llinell 'O fyd y niwl cyfodi wna'.⁷³ (**Gweler Atodiad III, Dyfyniad 18.**) Y mae Meirion Williams hefyd yn cyflwyno ffigur o gwaferi'n esgyn a disgyn megis *arpeggio* yn ystod y pennill hwn sydd, gellid dadlau, yn darlunio symudiad y teithio 'Dros fôr a thir a ffin a ffos' tuag at Ros y Pererinion.⁷⁴ (**Gweler Atodiad III, Dyfyniad 18.**) Ailadroddir alaw'r pennill cyntaf yn y pennill olaf, hyd at y newid cywair lle mae'r geiriau'n sôn eto am Ros y Pererinion. (**Gweler Atodiad III, Dyfyniadau 17 a 19.**) Ailadroddir y cwpled clo ar ddiwedd y gân, ac fe geir yma gyfres o drawsgyweiriadau sydd yn mynd â'r gerddoriaeth, wrth i'r geiriau gyfeirio at Ros y Pererinion am y tro olaf, at gord gwasgarog F fwyaf i gloi'r gwaith.⁷⁵ (**Gweler Atodiad III, Dyfyniad 19.**) Diddorol yw'r gyfatebiaeth o ran cywair yn y ddau osodiad gan Meirion Williams a Dilys Elwyn-Edwards, lle gwelir y caneuon yn trawsgyweirio o F leiaf i orffen yn F fwyaf gan y ddau gyfansoddwr.

⁷¹ Ibid., 15.

⁷² Ibid., 15.

⁷³ Ibid., 16.

⁷⁴ Ibid., 17.

⁷⁵ Ibid., 15.

Pan drafodir ‘Rhos y Pererinion’ mewn ysgrifau ar waith T. Gwynn Jones, fe grybwyllir yn aml hefyd y gerdd ‘Ystrad Fflur’, sy’n rhannu’r un ysfâ i fudo i fyd o dawelwch, dysg a heddwch.⁷⁶ Rhestru’r meirw sydd wedi’u claddu yn Ystrad Fflur a wna’r bardd yn y gerdd – ‘deuddeng Abad yn y gro’, ‘Dafydd bêr ei gywydd,/ A llawer pennaeth’.⁷⁷ Er mai dim ond ‘adfail ffydd’ sy’n weddill o’r gorffennol hwn, ac ‘er mai angof angau prudd’ sydd yno, mae’r hyn a fu yn ddigon i gryfhau ysbryd y bardd, a dywed, ‘Pan rodiwyf ddaear Ystrad Fflur,/ O’r dolur ymdawelaf’.⁷⁸ Un cyfansoddwr yn unig a ymgwymerodd â’r dasg o osod ‘Ystrad Fflur’ i gerddoriaeth, sef Idris Lewis (1889-1952), ac fe gyhoeddwyd ei osodiad o’r gerdd, i bedwar llais digyfeiliant, ym 1944. Ceir ar y sgôr, gyda’r geiriau Cymraeg, gyfieithiad Saesneg o’r gwaith gan T. Gwynn Jones ei hun, ac fe drafodir y cyfieithiad hwn yma yn hytrach na chyda’r cyfieithiadau eraill gan Gwynn Jones o eiriau caneuon yn y bennod ddilynol, gan fod modd synio mewn gwirionedd am y cyfieithiad hwn o ‘Ystrad Fflur’ fel gwaith gwreiddiol gan T. Gwynn Jones. Mae’n werth sylwi yma ar y fersiwn Saesneg, *Strata Florida*, gan ei bod yn rhoi gwedd wahanol ar y farddoniaeth Gymraeg gyfarwydd. Diddorol nodi, wrth fynd heibio, nad aeth Gwynn Jones ati i atgynhyrchu yn y cyfieithiad odlau mewnol y gerdd Gymraeg wreiddiol.

Mae’r llinell gyntaf, a’r olygfa agoriadol o ‘[dd]ail y coed yn Ystrad Fflur/ Yn murmur yn yr awel’, sy’n awgrymu diwrnod o haf gyda brigau’r coed yn eu llawn dwf, yn cael ei drawsnewid yn y cyfieithiad.⁷⁹ Yn hytrach na’r gwyrddni y gellir ei ddychmygu o’r disgrifiad Cymraeg, egr y Saesneg gan ddweud: ‘The trees are bare

⁷⁶ Gweler, er enghraifft, R. M. Jones, *Llenyddiaeth Gymraeg*, 124; John Rowlands, ‘Cynddilig’, yn ap Gwilym (gol.), *Cyfres y Meistri*, 434.

⁷⁷ T. Gwynn Jones, ‘Ystrad Fflur’, yn *Caniadau*, 192.

⁷⁸ Ibid.

⁷⁹ T. Gwynn Jones (geiriau), Idris Lewis (cerddoriaeth), *Ystrad Fflur: Strata Florida* (Caerdydd, 1944), 1.

at Ystrad Fflur./ The autumn breeze is sighing'.⁸⁰ Ceir nifer o gerddi gan Gwynn Jones i dymor yr hydref, dwy yn dwyn y teitl 'Hydref' yn *Caniadau*, ac fe welir yn ddiweddarach yn y thesis mor bwysig yw delweddath prydferthwch ingol yr hydref i un o awdlau enwocaf T. Gwynn Jones, 'Tir na n-Og'. Cân Gwynn Jones am 'fedd yr haf' yn un o'i gywyddau i'r hydref,⁸¹ ac mae'r syniad hwn o derfyn ar dwf byd natur sy'n cael ei awgrymu yn y cyfieithiad Saesneg o 'Ystrad Fflur' yn gweddu i'r disgrifiadau o'r meirwon yn eu beddau. Sonnir am yr 'holy abbots' ac 'Ap Gwilym [...] The bard of youth and beauty', disgrifiad sy'n cyferbynnu â thawelwch terfynol y bedd ac sy'n dwysáu'r golled.⁸² Ceir yn y gerdd wreiddiol sôn am '[l]awer pennaeth llym ei gledd/ Yn ango'r bedd tragywydd', a thra awgrymir yn y Gymraeg natur dreisgar bywydau'r penaethiaid, y mae'r cyfieithiad Saesneg yn newid y pwyslais – yn amlygu, ac fel petai'n clodfori, hyd yn oed, yr agwedd ryfelgar: 'And many warriors there are laid/ Who died for home and duty'.⁸³ Rhaid cofio mai cyfieithiad at bwrpas penodol yw'r cyfieithiad Saesneg hwn – cyfieithiad ar gyfer cerddoriaeth – ac felly, fel y nodir yn yr amlinelliad methodolegol yn y bennod flaenorol, cyfyngir bardd yn fwy nag arfer yng nghyswllt y cyfieithu, o ganlyniad i rythmau ac acenion y gerddoriaeth. Yn ôl damcaniaeth Peter Low, 'The Pentathlon Approach', mae pwysigrwydd pum prif nod y cyfieithydd yn medru cael eu pwysu a'u mesur yn ôl gofynion y gwaith: wrth gyfieithu i gerddoriaeth, dywed, mae'n rhaid i 'Singability' flaenoriaethu 'Sense': 'our definition of acceptable accuracy can be wider here than in other translating'.⁸⁴ Ai dyma oedd egwyddor Gwynn Jones wrth gyfieithu 'Ystrad

⁸⁰ Ibid.

⁸¹ T. Gwynn Jones, 'Hydref', yn *Caniadau*, 175.

⁸² Gwynn Jones, Lewis, *Ystrad Fflur: Strata Florida*, 1, 2.

⁸³ Ibid., 2-3.

⁸⁴ Peter Low, 'The Pentathlon Approach to Translating Songs', yn Dinda L. Gorrée (gol.), *Song and Significance: Virtues and Vices of Vocal Translation* (Amsterdam, 2005), 194.

Fflur' i'r Saesneg, wrth iddo ganfod llinell a oedd yn gweddu i'r gosodiad cerddorol? Digon posib mai trafferth i ganfod llinell addas a arweiniodd at T. Gwynn Jones yn cynnwys awgrym o glodfori rhyfel yn ei waith, ond rhaid cydnabod posibilrwydd arall. Fe gyhoeddwyd y gân hon ym 1944, yn ystod yr Ail Ryfel Byd, ac o gofio credoau heddychol y bardd, gellir darllen y llinellau hyn fel datganiad chwerw-eironig yn erbyn y rhyfel. Dyma awgrymu mai protest yn erbyn marwolaethau diangen yn y gyflafan yw'r cwpled hwn: 'And many warriors there are laid/ Who died for home and duty'.⁸⁵ Dyma dechneg a ddefnyddiwyd eisoes gan Gwynn Jones, ar raddfa fwy, mewn gwaith sy'n gwrthwynebu rhyfel, sef y gerdd gignoeth 'Pro Patria' (1913) am Ryfel y Boer – cerdd sydd, drwy gyfrwng ei theitl, yn adleisio'n eironig y dywediad Lladin 'Dulce et decorum est pro patria mori' yn yr un ffordd â'r bardd rhyfel Wilfred Owen ym 1917.⁸⁶ Efallai mai'r un dechneg sydd gan Gwynn Jones ar waith yn y cyfieithiad o 'Ystrad Fflur' hefyd, a'i fod yn ei defnyddio i awgrymu nad oes modd dianc yn llwyr rhag dylanwad ac effaith y rhyfel, hyd yn oed yn y lle a arferai fod yn noddfa dawel iddo. Yn y cyswllt hwn, pwysig yw nodi'r symudiad yn y cyfieithiad oddi wrth y 'penaethiaid' tuag at y 'warriors', term mwy cyffredinol a chwmpasog sydd hefyd o bosib yn awgrymu milwyr cyffredin y lluoedd a oedd yn ymladd yn yr Ail Ryfel Byd.

Yn y trosiad i'r Saesneg, mae'r trydydd pennill yn cynnig cyfieithiad agos iawn o ran ystyr – cyfieithiad sydd hefyd yn gweddu i'r gosodiad cerddorol. Ceir yn y gwreiddiol wrthgyferbyniad effeithiol – deffroad byd natur yn yr haf ochr yn ochr â chwsg oesol y dynion a gladdwyd: 'Er bod yr haf, pan ddêl ei oed,/ Yn deffro'r coed i ddeilio/ Ni ddefry dyn'.⁸⁷ Mae'r cyfieithiad yn pwysleisio hyn hefyd – 'The trees

⁸⁵ Gwynn Jones, Lewis, *Ystrad Fflur: Strata Florida*, 2-3.

⁸⁶ Wilfred Owen, 'Dulce Et Decorum Est', *Poems* (London, 1921), 15.

⁸⁷ Gwynn Jones, Lewis, *Ystrad Fflur: Strata Florida*, 3.

when summer days are come/ Are into life awaking,/ Man waketh not' – ac wedi cyflwyno'r deffroad ar ddiwedd yr ail linell fe'i negyddir yn syth ar ddechrau'r drydedd, gan bwysleisio'r cyferbyniad hwnnw.⁸⁸ Gwelir hefyd drosiad effeithiol o'r ddelwedd a gyflwynir yn y gwreiddiol yn ail hanner y pennill hwn, 'Ni ddeffry dyn, a gwaith ei law/ Sy'n distaw ymddadfeilio',⁸⁹ wrth i'r Saesneg grybwyll 'his handiwork/ In fragments slowly breaking'.⁹⁰ Diddorol yw nodi hefyd fod yn y gosodiad cerddorol symudiad oddi wrth y gwead homoffonig – lle mae'r gwahanol rannau 'yn symud ar y cyd gyda'i gilydd'⁹¹ – ar ddiwedd y llinell hon wrth i'r tenor ailadrodd 'ymddadfeilio', 'slowly breaking'. Dyma ffurf y cyfansoddiad ei hun yn cael ei defnyddio i ddramateiddio ystyr y geiriau.⁹² (**Gweler Atodiad III, Dyfyniad 20.**)

Mae'r llinellau clo, sy'n datgan prif neges y gerdd Gymraeg – 'Pan rodiwyf ddaear Ystrad Fflur,/ O'm dolur ymdawelaf' – yn cael eu cyfleu yn effeithiol gan y gosodiad cerddorol sy'n nodi fel cyfarwyddyd ganu *tranquillo* (tawel, heddychlon) yn yr adran glo, gan orffen gyda *diminuendo* ar gord syml A fwyaf.⁹³ (**Gweler Atodiad III, Dyfyniad 21.**) Crëir naws o heddwch a hyfrydwch i gloi'r gosodiad, sy'n gweddu'n union i'r syniad o ymdawelu rhag 'dolur' byd a gyflwynir yn y geiriau.⁹⁴ Neges a naws wahanol, fodd bynnag, a gyflëir yn y cyfieithiad, lle dywed y bardd, 'when I seek the hallowed ground/ I share the vanished glory', ac fe adleisir clo ail bennill y cyfieithiad, a'r sôn yno am y rhyfelwyr 'Who died for home and duty'.⁹⁵ Yn lle ymdawelu, crybwyllir gogoniant y gorffennol, ac er mai 'vanished' ydyw,

⁸⁸ Ibid.

⁸⁹ Ibid.

⁹⁰ Ibid.

⁹¹ Prys, *Geiriadur Cerddoriaeth Rhydychen*, 394.

⁹² Gwynn Jones, Lewis, *Ystrad Fflur: Strata Florida*, 3.

⁹³ Ibid., 4.

⁹⁴ Ibid.

⁹⁵ Ibid., 4, 2-3.

synhwyrir fod y bardd, wrth ei rannu ('I share'), yn ei ail-greu a'i ailbrofi.⁹⁶ Yn y modd hwn, ffurfir gwrthgyferbyniad ag ergyd diwedd glo enwog y gerdd Gymraeg: 'Pan rodiwyf ddaear Ystrad Fflur,/ O'm dolur ymdawelaf'.⁹⁷

Ym 1932, cyhoeddwyd cyfrol o ganeuon o'r enw *Chwech o Englynion ar Gân*, wedi'u cyfansoddi gan David de Lloyd, cyfansoddwr yr opera *Tir na n-Og*. Yn y casgliad hwn ceir pedwar gosodiad o weithiau gan T. Gwynn Jones: 'Yno', 'Dirgelwch' a dau osodiad o 'Y Fun Fud'. Noda Arthur ap Gwynn, yn ei ysgrif ar T. Gwynn Jones a David de Lloyd, fod y cyfansoddwr yn wreiddiol wedi bwriadu cynnwys gosodiad o gerdd arall gan Gwynn Jones, 'Atgof ac Angof', yn y casgliad, a'i fod wedi dechrau ar y gwaith o osod y cerddi hyn mor gynnar â 1923.⁹⁸ Yn yr un modd â chyda gwaith David Vaughan Thomas ym maes gosod mesur y cywydd, ystyrir y caneuon hyn yn rhan o gorff o waith arloesol ym maes cerddoriaeth Gymreig, gan ymestyn yr arbrofion o ran gosod y canu caeth i gerddoriaeth i fesur yr englyn unodl union.⁹⁹

Fel y nodwyd, ceir dau osodiad o 'Y Fun Fud' yn *Chwech o Englynion ar Gân*, cyfres o englynion gan Gwynn Jones nas cyhoeddwyd heb y gerddoriaeth mewn unrhyw gyfrol arall, heblaw am mewn rhaglen gŵyl gerddorol a gynhaliwyd yn Aberystwyth ym 1923.¹⁰⁰ Ni wyddys pa un o'r ddau osodiad a berfformiwyd yn yr ŵyl hon, ond diddorol yw'r penderfyniad i gynnwys y ddwy gân yn yr un cylch o ganeuon ym 1932. Wrth ystyried y rheswm am hyn, gofynna Arthur ap Gwynn, 'a oes arwyddocâd arbennig [...] yn y gosodiad dwbwl ar "Y Fun Fud" a'u safle yn y cylch,

⁹⁶ Ibid., 4.

⁹⁷ Ibid.

⁹⁸ Arthur ap Gwynn, 'T. Gwynn Jones a David de Lloyd', yn ap Gwilym (gol.), *Cyfres y Meistri*, 84-5.

⁹⁹ Gweler John Hughes, 'Y Caneuon', *Tir Newydd*, Rhif 16 (Mehefin, 1939), 18.

¹⁰⁰ ap Gwynn, 'T. Gwynn Jones a David de Lloyd', 83.

yn gyntaf ac yn bumed?’¹⁰¹ Nid yw’n cynnig ateb i’r cwestiwn hwn, ac yn wir heb fynd ati i wneud dadansoddiad trylwyr o’r holl ganeuon yn y cylch, ni ellir ei ateb yn bendant. Buddiol a diddorol, fodd bynnag, yw craffu ar y ddau osodiad, gan eu bod yn cynnig cyfle prin i weld dau osodiad o’r un darn o farddoniaeth gan yr un cyfansoddwr. Mae natur y geiriau yn gariadus, a cheir datganiad ynghylch ffyddlondeb y ferch: ‘F’enaid, di ddoi pan fynnwyf, ar unwaith,/ Er truaned ydwyf’.¹⁰² Mae gofal y fun am yr adroddwr yn dirion, ei ‘difesur anwyldeb’ tuag ato yn amlwg, ond er hyn, dywedir yn yr englyn olaf, nid yw hi byth yn torri gair ag ef: ‘Tydi, dy hun, yw’r fun fud’.¹⁰³

Ffurf ABA sydd i osodiad cyntaf ‘Y Fun Fud’, ac mae’r adran gyntaf, sydd yn homoffonig ar y cyfan ac yn ddigon syml o ran harmoni, yn agor gyda rhagarweiniad cerddorol byr sy’n cael ei adleisio gan alaw agoriadol y llais. (**Gweler Atodiad III, Dyfyniad 22.**) Naws dawel ac esmwyth a geir yn yr adran gyntaf hon, a’r marciau dynameg yn dangos y dylai’r cyfeiliant ymdawelu drwy’r englyn cyntaf. (**Gweler Atodiad III, Dyfyniad 22.**) Mae adran gyntaf yr ail osodiad o ‘Y Fun Fud’ yn cynnig naws fwy sionc ar gyfer dechrau’r gân, a hynny oherwydd y cwaferi sydd i’w gweld ar y sgôr. (**Gweler Atodiad III, Dyfyniad 23.**) Diddorol yw’r ddeuoliaeth hon: mewn un gosodiad ceir ymgais gan de Lloyd i adlewyrchu addfwynder annwyl ‘y fun’, ac yn yr ail awgrymir yn hytrach sut y mae hi’n dod yn gyflym at ei chariad pan fo yntau’n anghenus.¹⁰⁴

Yn y gosodiad cyntaf o ‘Y Fun Fud’, wedi adran gyntaf homoffonig a syml o ran gwedd, datblygir y cyfeiliant yn yr ail adran. Nodir fod y cyfeiliant yn *leggiero*

¹⁰¹ Ibid., 85.

¹⁰² T. Gwynn Jones (geiriau), David de Lloyd (cerddoriaeth), ‘Y Fun Fud (I)’, yn *Englynion ar Gân* (Caerdydd, 1932), 1.

¹⁰³ Ibid., 2, 3.

¹⁰⁴ Ibid., 3.

(ysgafn), ac fe bwysleisir pwysigrwydd yr unawdydd gyda'r cyfarwyddyd *colla voce* (dilyn y llais) ar y sgôr. (**Gweler Atodiad III, Dyfyniad 24.**) Ceir nifer o gyfarwyddiadau *tempo* yn nodi arafu (*poch.rall.*) a chyflymu (*con anima*) drwy gydol yr adran hon – ymgais gan y cyfansoddwr i gyfarwyddo'r mynegiant a geir yma. (**Gweler Atodiad III, Dyfyniad 24.**) Yn y gân, nodir y dylid arafu wrth ganu'r geiriau 'defosiwn, difesur anwyldeb', a hefyd 'wawr dy ruddwleb'.¹⁰⁵ (**Gweler Atodiad III, Dyfyniad 24.**) Eto gwelir y gosodiad cyntaf yn amlygu tawelwch a hyfrydwch y fun fud. Mae'r ail osodiad o'r geiriau, fodd bynnag, yn hytrach na chyfarwyddo'r mynegiant yn y gân, yn rhoi rhyddid i'r llais i ddehongli'r geiriau a'r gerddoriaeth yn y modd y myn: ceir ar y sgôr droeon y geiriau *ad lib.*, sydd yn medru cyfeirio at nodau neu amseriad.¹⁰⁶ (**Gweler Atodiad III, Dyfyniadau 23 a 25.**) Mae'r diffyg cysondeb o ran y cyfarwyddiadau mynegiant yn y caneuon drwy'r gyfrol gyfan yn ffactor y mae Arthur ap Gwynn hefyd yn sylwi arno, gan awgrymu fod yr anghysondeb yno o fwriad, a hynny, yn rhannol, ar sail cred de Lloyd 'nad oedd canwr yn medru'i grefft yn llwyr oni allai synhwyro bwriad y cyfansoddwr heb gyfarwyddiadau'.¹⁰⁷ Ceir yma yn sicr ddatblygiad rhwng y ddau osodiad o 'Y Fun Fud' o ran rheolaeth y cyfansoddwr dros ddehongliad y perfformiwr o'r gân, ac efallai mai yr hyn y mae'r gosodiad cyntaf yn ei gynnig yw fframwaith mynegiant, neu demplad hyd yn oed, ar gyfer y canwr, wrth iddo fynd ati i ddehongli'r ail osodiad.

Synia Arthur ap Gwynn am *Chwech o Englynion ar Gân* fel cylch o ganeuon, a rhaid sylwi yma ar yr ail osodiad o 'Y Fun Fud', sy'n ymddangos yn bumed yn y casgliad o chwech, a'i berthynas â dechrau'r 'cylch', y gân gyntaf honno y mae'n

¹⁰⁵ Ibid., 2.

¹⁰⁶ David Fuller, 'Ad libitum', yn Stanley Sadie (gol.), *The New Grove Dictionary of Music and Musicians (Second Edition), Volume 1: A to Aristotle* (London, 2001), 163.

¹⁰⁷ ap Gwynn, 'T. Gwynn Jones a David de Lloyd', 86, troednodyn 15.

rhannu'r un geiriau â hi. Cyfeiriwyd uchod at wead syml, homoffonig agoriad y gosodiad cyntaf, sef cân gyntaf y casgliad. Mae'r frawddeg gyntaf yn cylchdroi o amgylch nodau F# ac E♭. (**Gweler Atodiad III, Dyfyniad 22.**) Wrth i ail osodiad 'Y Fun Fud' ddirwyn i ben, cân y llais linell olaf yr englyn olaf gan ddatgan 'Tydi, dy hun yw'r fun fud'. Mae'r gerddoriaeth yn ymdawelu (un o'r marciau dymameg prin ar sgôr yr ail osodiad), ac fe geir yma adlais o alaw agoriadol y gosodiad cyntaf.¹⁰⁸ Er nad yw'r alaw yn union debyg, mae'r cyfyngau, yn arbennig y pwyslais ar y symud o E♭ i F#, cyfyng o dôn cyfan, megis E♭ ac F# yn y gosodiad cyntaf, yn dwyn i gof yr alaw wreiddiol. (**Gweler Atodiad III, Dyfyniad 25.**) Ceir felly, tua diwedd y cylch o ganeuon, gyfeiriad cerddorol at ei gychwyn, sydd yn awgrymu cyfanwaith cerddorol, a pherthynas ymwybodol rhwng y ddau osodiad o'r un gerdd. Gellid dadlau mai clo i'r cylch 'caeth' a geir yma, gan nad yw'r gerdd sy'n dilyn yr ail osodiad o 'Y Fun Fud' yn *Chwech o Englynion ar Gân* yn gasgliad o englynion: mae 'Dirgelwch', a ymddengys yn *Caniadau*, yn delyneg 8/6. Wrth ofyn pam y cynwyswyd y gerdd 'estron ddigynganedd' yn y casgliad, awgryma Arthur ap Gwynn fod neges y gerdd nid yn unig yn clymu'n uniongyrchol â hanfod gweithiau eraill *Chwech o Englynion ar Gân*, ond hefyd â gwaith ehangach T. Gwynn Jones fel bardd, a hynny y tu allan i ffiniau ei waith â cherddoriaeth:

Cof, atgof, hiraeth am brydferthwch na ellir byth mo'i gyrraedd neu na fu erioed, neu wedi'i adnabod a gollwyd, y mae'r rhain i gyd yn 'Tir na n-Óg', 'Y Fun Fud', 'Yno', ac ar wedd wahanol yn 'Dirgelwch' [...] Wrth ystyried 'Dirgelwch', y gerdd, tybiwn weld ynddi, ynghudd yn symlrwydd y mynegiant, ddwyster ac arwyddocâd arbennig: nid yn unig yn y cylch caneuon ond ym mryd T. G. J. ei hun.¹⁰⁹

¹⁰⁸ T. Gwynn Jones (geiriau), David de Lloyd (cerddoriaeth), 'Y Fun Fud (II)', yn *Englynion ar Gân*, 17.

¹⁰⁹ ap Gwynn, 'T. Gwynn Jones a David de Lloyd', 87.

Ni ellir gwybod i sicrwydd pam y cynhwyswyd ‘Dirgelwch’ yn *Chwech o Englynion ar Gân* (ni wyddys pwy oedd yn gyfrifol am y dewis, er mai’r awgrym yn ysgrif ap Gwynn yw bod de Lloyd ei hun yn gyfrifol¹¹⁰), ond wrth droi at y gerdd ei hun, diddorol yw sylwi arni yng nghyswllt *Caniadau*, y gyfrol y cynhwysir hi ynddi. Ailgyhoeddiad, i bob pwrpas, yw *Caniadau* (1934) gan Hughes a’i Fab o *Detholiad o Ganiadau* (1926), a gyhoeddwyd gan Wasg Gregynog. Un newid a geir rhwng y ddau gyhoeddiad, fodd bynnag, yw ‘Dirgelwch’: ymddengys y gerdd yng nghyhoeddiad 1934 yn unig. Y mae gweddill cynnwys y gyfrol yn union debyg, a diddorol yw’r penderfyniad hwn i gynnwys gwaith nas cyhoeddwyd eisoes heblaw fel geiriau cân yn y cylch o ganeuon *Chwech o Englynion ar Gân* ym 1932.¹¹¹ Ni cheir unrhyw nodyn ar ‘Dirgelwch’ yn *Caniadau* i dynnu sylw at y ffaith ei bod wedi’i gosod i gerddoriaeth o gwbl – heb sôn am y ffaith mai fel geiriau cân yn benodol y’i cyhoeddwyd eisoes – ac felly gwelir yma syniad a fydd yn greiddiol i’r astudiaeth o awdl ‘Tir na n-Og’ maes o law, sef cefndir cerddorol cudd, anhysbys, neu goll rhai o weithiau barddonol T. Gwynn Jones.

Yn sgil ei drafodaeth ar *Chwech o Englynion ar Gân*, a’r gosodiad o ‘Dirgelwch’ yn arbennig, crybwylla Arthur ap Gwynn gasgliad o nodiadau yn llawysgrifen T. Gwynn Jones a geir ymhlith papurau David de Lloyd yn archifau llyfrgell Prifysgol Aberystwyth. Cynhwysa’r nodiadau hyn gyfieithiad o’r Wyddeleg o ddarn ynghylch cerddoriaeth y Tylwyth Teg, rhai tudalennau yn dwyn y teitl ‘Celtic Music – Notes’ sy’n cynnwys hanesion am gerddoriaeth hudol, yn ogystal â chasgliad o gyfeiriadau at gerddoriaeth yng ngwaith y Cywyddwyr. Y mae gennym yma, fe

¹¹⁰ Ibid., 84-5.

¹¹¹ Gweler Roberts (gol.), *Llyfryddiaeth Thomas Gwynn Jones*, 67.

ellid dweud, flodeugerdd o gyfeiriadau mewn llenyddiaeth at gerddoriaeth.¹¹² Y mae'n werth oedi am ychydig i sylwi ymhellach ar y testunau hyn – nodiadau, mae'n debyg, a wnaed gan T. Gwynn Jones ar gyfer David de Lloyd – sy'n dangos y bardd yn meddwl yn benodol yn nhermau cerddoriaeth. Gellid tybio, er na fedrir honni gyda sicrwydd, mai gwneud y nodiadau ar gais ei gyfaill a wnaeth Gwynn Jones, gan eu bod wedi eu cadw ymysg papurau David de Lloyd. Mae'r nodiadau yn gynhwysfawr a manwl, ac yn cynnwys cyfeiriadau cyffredinol at gerddoriaeth yn y traddodiad Cymreig: 'There is a tradition in Wales of the music heard by people on the point of death'; 'The Canu yn yr Awyr legend deserves to be written up. There are many accounts of it, but I have not seen many printed [...] It is the same thing, no doubt, as Canu'r Tylwyth Teg + the Irish *Caol Sidhe*'.¹¹³ Ceir hefyd gyfeiriadau penodol at straeon arbennig, megis 'Mynach y Maes Glas (Yr Hen Ŵr o'r Coed)' a 'Bell music out of Llyn Tegid', yn ogystal â dyfyniadau lu o straeon llên gwerin a gwaith y Cywyddwyr sy'n cynnwys cyfeiriadau at gerddoriaeth, megis cywydd Gruffudd Hiraethog i'r ceiliog bronfraith, amryw ddyfyniadau o waith Dafydd ap Gwilym, a marwnad y telynor Siôn Eos gan Dafydd ab Edmwnd.¹¹⁴ Mae'r cyfuniad hwn o ffynonellau yn tystio i amrediad eang diddordebau a gwybodaeth T. Gwynn Jones yn y maes, ac yn dangos ei fod yn ystyried gwaith Beirdd yr Uchelwyr a hanesion llafar gwlad yr un mor berthnasol a phwysig yn y cyswllt hwn. Un o'r adrannau mwyaf arwyddocaol o ran cerddoriaeth yn y nodiadau hyn yw cefndir cyfansoddi'r alaw werin Gymreig 'Codiad yr Ehedydd', a'r hanes yn cynnwys ymgais gan Gwynn Jones

¹¹² T. Gwynn Jones, 'Celtic Music – Notes', Casgliad David de Lloyd [DdLl], Bocs 9 (Cyfres 1), Llyfrgell Prifysgol Aberystwyth [LIPA], 1-8.

¹¹³ Ibid., 1, 2.

¹¹⁴ Ibid., 1, 3, 4, 7. Ceir cywydd Gruffudd Hiraethog, 'I Ofyn Ceiliog Bronfraith gan Fastr Huw Pilstwn, Ficer Wrecsam, dros Siôn Ifans o Lansilin', yn D. J. Bowen (gol.), *Gwaith Gruffudd Hiraethog* (Caerdydd, 1990), 332-5. Ar gyfer 'Marwnad Siôn Eos', gweler Thomas Roberts (gol.), *Gwaith Dafydd ab Edmwnd* (Bangor, 1914), 78-81, a hefyd Thomas Parry (gol.), *The Oxford Book of Welsh Verse* (Oxford, 1962), 138-41.

i ddadansoddi'r miwsig, sy'n dangos fod y bardd yn meddwl am gerddoriaeth fel cyfrwng i gyflwyno syniadau a delweddau:

There is a story that this air was composed by a minstrel who was returning home late, + who slept on the roadside. When he woke up, the dawn was breaking + a lark was climbing into the sky + singing. The minstrel tried to imitate some of his sounds, + composed this air, which plainly imitates the springs + motions of the bird.¹¹⁵


Mae cyfieithiad Gwynn Jones o ddarn hir o'r Wyddeleg yn dwyn y teitl 'Fairy Music' hefyd yn tystio i'r ymdrech a wnaeth wrth lunio'r nodiadau hyn ar gyfer ei gyfaill David de Lloyd. Diddorol yw nodi hefyd mai rhai yn unig o'r hanesion a geir yn y nodiadau hyn sy'n cael eu cynnwys yng nghyfrol Gwynn Jones *Welsh Folklore and Folk-Custom*, a gyhoeddwyd ym 1930.¹¹⁶

Wedi'u cadw gyda'r nodiadau yng nghasgliad David de Lloyd ym Mhrifysgol Aberystwyth, eto yn llaw T. Gwynn Jones, ceir amlinelliad o opera am Myrddin a choedwig hudol Broséliâwnd. Ni ddaethpwyd o hyd i unrhyw gerddoriaeth sy'n gysylltiedig â'r amlinelliad hwn. Mae'r 'Sketch of an Opera', yn llaw Gwynn Jones, yn dechrau gyda chwedl Dinas Emrys a'r hanes am Gwrtheyrn yn chwilio am fachgen heb dad ac yn canfod y Myrddin ifanc. Ceir yn y nodiadau wedyn gymeriad o'r enw Gwian sy'n hudo Myrddin â'i phrydferthwch, ac fe ddiwedda'r 'Sketch of an Opera' gyda Myrddin yn chwilio am y goedwig hudol y mae Gwian yn frenhines arni, cyn iddo ddiplannu am byth i'w chanol. Mae golygfa glo'r 'Sketch of an Opera' yn cyfateb yn fras i gynnwys yr awdl 'Broséliâwnd' a ymddengys yn y gyfrol *Caniadau*. Cyfansoddwyd yr awdl, yn ôl rhestr gynnwys y gyfrol honno, ym 1922, ond tipyn anoddach yw pennu dyddiad cyfansoddi pendant ar gyfer y nodiadau hyn. Y mae

¹¹⁵ Gwynn Jones, 'Celtic Music – Notes', 2.

¹¹⁶ T. Gwynn Jones, *Welsh Folklore and Folk-Custom* (London, 1930), 49, 60, 210.

Arthur ap Gwynn yn dadlau mai 1919 yw dyddiad y nodiadau, oherwydd cyfeiriad gan Gwynn Jones yn y nodiadau ‘Celtic Music’ at stori a gafodd gan Robert Roberts, ‘an old travelling book-seller...at Gee’s office, Denbigh, about 1899’.¹¹⁷ Yn y cyflwyniad byr i’r hanes am glywed canu yn yr awyr, noda T. Gwynn Jones y bu farw Robert Roberts ‘about 20 years ago, + was an old man when I knew him’. Y mae Arthur ap Gwynn yn defnyddio’r cyfeiriad ‘20 years ago’ i ddadlau dros ddyddio’r llawysgrif – 20 mlynedd wedi 1899, pan gafodd Gwynn Jones y stori gan Roberts. Nodir yn *Welsh Folklore and Folk-Custom*, fodd bynnag, y bu farw Roberts ‘about 1909’, sy’n dyddio’r nodiadau yn hwyrach, tua 1929.¹¹⁸ Er hyn, mae’n ddigon posib fod Gwynn Jones wedi camancamgyfrif pryd y bu farw Roberts wrth lunio’r nodiadau hyn. Ar y dudalen sy’n cynnwys stori’r hen ddyd, gwelir y nodyn hwn yn ei chornel:



© Ystâd ac Etifeddion T. Gwynn Jones. Cedwir pob hawl.

¹¹⁷ Nodyn gan Arthur ap Gwynn ar T. Gwynn Jones, ‘Sketch of an Opera’, Casgliad DdLl, Bocs 9 (Cyfres 1), LIPA, 1; Gwynn Jones, ‘Celtic Music – Notes’, 7.

¹¹⁸ Gwynn Jones, *Welsh Folklore and Folk-Custom*, xlvi.

Dengys y llun hwn waith yn llaw T. Gwynn Jones, ac yntau'n tynnu ugain o 1922. Ai ceisio cyfrifo dyddiad marwolaeth Roberts y mae Gwynn Jones yma? Os cymerir mai at flynyddoedd y cyfeiria'r rhifau uchod, mae'n bosib mai 1922 yw dyddiad y nodiadau hyn.

Ni ellir cymryd yn ganiataol, fodd bynnag, fod y 'Sketch of an Opera' a'r nodiadau 'Celtic Music' wedi eu llunio yr un pryd, er bod y papur y'u lluniwyd arnynt yn awgrymu hynny. Ysgrifennwyd y nodiadau ar bapur drafft arferol T. Gwynn Jones: 'taflenni er mwyn hyrwyddo ymchwiliad i dafodieithoedd Cymru'.¹¹⁹ Mae'r holl nodiadau yng nghasgliad David de Lloyd ar bapur sy'n rhestru geiriau sy'n dechrau gyda 'Bo-', sydd o bosib yn awgrymu eu bod yn dod o'r un cyfnod.¹²⁰ Fodd bynnag, ni ellir mewn gwirionedd bwysu ar ddim o'r dystiolaeth uchod i ddyddio'r nodiadau'n derfynol, ond wrth gymharu cynnwys y 'Sketch of an Opera' gyda'r awdl gyhoeddedig 'Broséliâwnd', daw'n amlwg fod perthynas agos rhwng y ddau destun, pa un bynnag yw'r rhagflaenydd.

Yr hyn a geir yn 'Broséliâwnd' yw golygfa – ffilmig, bron – o ddyfodiad Myrddin at y goedwig hud, a'i benderfyniad i ddiflannu iddi am byth. Cyfres o olygfeydd a geir mewn awdlau eraill yn *Caniadau* hefyd, megis 'Ymadawiad Arthur', 'Madog', 'Tir na n-Og' a 'Gwlad y Bryniau', ac fe wireddir y weledigaeth ddramatig hon drwy gyfrwng y 'Sketch of an Opera', sy'n amlinellu gwahanol olygfeydd y gwaith llwyfan arfaethedig hwn sy'n dilyn hanes Myrddin. Tua dechrau'r awdl 'Broséliâwnd', dywedir, 'Adnabu'r Dewin [...] Fröydd hud ei hiraethus freuddwydion'.¹²¹ Mewn un olygfa yn yr opera, yn llys Arthur, nodir bod Myrddin yn

¹¹⁹ Gwynn Jones, 'Celtic Music – Notes', 7 [verso]; ap Gwynn, 'T. Gwynn Jones a David de Lloyd', 77.

¹²⁰ Gwynn Jones, 'Celtic Music – Notes', 'Sketch of an Opera', 'Fairy Music', Casgliad DdLl, Bocs 9 (Cyfres 1), LIPA.

¹²¹ T. Gwynn Jones, 'Broséliâwnd', yn *Caniadau*, 75.

adrodd stori am ‘The Land of Dreams [...] as he proceeds, he is caught by the magic of his own description’.¹²² Awgrymir bod Myrddin, o ganlyniad i hyn, yn meddwl yn aml am y wlad hud hon, sy’n ei arwain yn yr olygfa nesaf, wrth glywed dynion yn ei gwmmi yn sôn am ‘Broséliâwnd’, i fynd i chwilio amdani. Mae’n amlwg, felly, fod yna gyfatebiaeth agos rhwng y gwaith anghyhoeddedig hwn a’r awdl gyhoeddedig enwog.

Mae nodiadau Gwynn Jones ar olygfa glo’r opera yn disgrifio sut y dylai’r llwyfan edrych: ‘The Forest of Broséliâwnd. A Lake, with rocks around, in the heart of the forest.’ Tebyg iawn o ran cynnwys yw’r cyfarwyddiadau hyn i’r disgrifiad a geir yn yr awdl: ‘Tawel lynnoedd yng nghanol tew lwyni’, ‘hen goedwig/ A dyfai’n dro, a’i dyfnderau eang/ Yn llonydd ddal ei llynnau o ddulas’.¹²³ Nid yr olygfa yn unig sy’n debyg, fodd bynnag, ond y teimlad sydd yn y ddau le: ‘O’i mud rigolau tremiai dirgelwch/ Esmwyth, hudolus, a maith dawelwch’ sydd yn yr awdl, ac mae’r amlinelliad o’r opera, wrth drafod y math o gerddoriaeth y dylid ei glywed ar ddechrau’r olygfa, yn pwysleisio ‘Soft, weird music in the distance [...] ending in a serene, even, unbroken tranquility’.¹²⁴

Fel yn yr awdl, y mae gan Myrddin ymson yn yn yr opera hefyd. Dyma a ddywed Gwynn Jones amdani: ‘He sings a song mocking his own life + illusions, + the magic effect, even upon himself, of his own fancy. Says that the Lake is only a stagnant pool in eternal quiet, a fit end for human folly’.¹²⁵ Yr un ffurf a geir i’w ymson yn yr awdl hefyd, sy’n agor gyda’r datganiad o ddadrithiad ynghylch ei hud ei

¹²² Gwynn Jones, ‘Sketch of an Opera’, 5.

¹²³ Gwynn Jones, ‘Broséliâwnd’, yn *Caniadau*, 76.

¹²⁴ Gwynn Jones, ‘Broséliâwnd’, yn *Caniadau*, 76; Gwynn Jones, ‘Sketch of an Opera’, 6.

¹²⁵ Gwynn Jones, ‘Sketch of an Opera’, 6-7.

hun: ‘Ni ellir â swyn ond twyllo’r synnwyr’.¹²⁶ Dywed Myrddin, ‘Aeth hedd y ffydd, hithau a ddiffoddwyd’, gan awgrymu ‘illusions’ yr opera.¹²⁷ Yn yr un modd, fel y dywed y Saesneg mai ‘fit end for human folly’ yw’r llyn yn nyfnderoedd y goedwig, edrydd y Myrddin yn yr awdl, ‘Pam y bai gas y dulas dawelwch/ Onid i’r sŵn sydd yn hudo’r synnwyr?’,¹²⁸ a cheir cyfeiriad eglur yn ddiweddarach yn yr awdl at ‘human folly’: ‘Gwell ydoedd yr hud na gwyllt ddiereidi/ Hwyl anniddig y gloywon neuaddau,/ Lle nad oedd galon nad oedd aflonydd,/ Na berw difyrrwch heb wrid oferedd’.¹²⁹

Yn yr opera, yn dilyn cân Myrddin, y mae Gwian yn ymddangos o’r llyn, gan ganu ‘a song of Romance + Youth + Beauty’.¹³⁰ Er na cheir unrhyw gymeriad heblaw Myrddin yn yr awdl ‘Broséliâwnd’, ceir awgrym o’r agwedd gyferbyniol hon i ddadrith y dewin: ‘Broséliâwnd, lle bu risial lendid/ A bryd yr awen ddibryder, ieuanc!’¹³¹ Diddorol hefyd yw’r tebygrwydd rhwng Nia Ben Aur yn yr awdl ‘Tir na n-Og’ a’r disgrifiad o Gwian yn yr opera: ‘a woman dressed in white, with golden tresses’.¹³² Y mae’r ddwy yn cynrychioli’r un syniad, sef ieuencid a harddwch oesol. Mae Gwian, fel y gwnaeth Nia yn achos Osian, yn gwahodd Myrddin i deithio dros y dŵr i ddianc rhag blinderon byd a ‘human folly’.¹³³ Sonia Myrddin yn yr awdl am fynd i’r ‘dulas dawelwch’,¹³⁴ a diddorol yw nodi fod y ddelweddaeth o ddianc rhag y byd dros ddyfroedd dyfnion yn ddelwedd gyffredin yn nifer o awdlau T. Gwynn

¹²⁶ Gwynn Jones, ‘Broséliâwnd’, yn *Caniadau*, 77.

¹²⁷ Gwynn Jones, ‘Broséliâwnd’, yn *Caniadau*, 77; Gwynn Jones, ‘Sketch of an Opera’, 6.

¹²⁸ Gwynn Jones, ‘Sketch of an Opera’, 7; Gwynn Jones, ‘Broséliâwnd’, yn *Caniadau*, 77.

¹²⁹ Gwynn Jones, ‘Sketch of an Opera’, 7; Gwynn Jones, ‘Broséliâwnd’, yn *Caniadau*, 77, 78.

¹³⁰ Gwynn Jones, ‘Sketch of an Opera’, 7.

¹³¹ Gwynn Jones, ‘Broséliâwnd’, yn *Caniadau*, 77.

¹³² Gwynn Jones, ‘Sketch of an Opera’, 7.

¹³³ *Ibid.*

¹³⁴ Gwynn Jones, ‘Broséliâwnd’, yn *Caniadau*, 77.

Jones. Fe'i gwelir nid yn unig yn yr awdl 'Tir na n-Og' y cyfeiriwyd ati uchod, ond hefyd yng nghlo 'Ymadawiad Arthur', lle mae'r brenin yn mynd ar gwch i Ynys Afallon, ac yn gadael peryglon y frwydr a chysgod angau ar ôl wrth groesi'r dŵr.¹³⁵ Ac ni ellir sôn am longau yn awdlau T. Gwynn Jones heb grybwyll Madog, y llyncwyd ei long, Gwennan Gorn, gan y tonnau wrth iddo geisio cefnu ar ryfelgarwch ei frodyr.¹³⁶

Addewid o ddychweliad a gaiff Bedwyr gan Arthur ar ddiwedd yr awdl 'Ymadawiad Arthur', gan gloi ar nodyn gobeithiol yn achos y brenin:

Mi weithion i hinon ha
Afallon af i wella,
Ond i'm bro dof eto'n ôl,
Hi ddygaf yn fuddugol
Wedi dêl ei hoed, a dydd
Ei bri y mysg y bröydd...
Gafaelaf, dygaf eilwaith
Glod yn ôl i'n gwlad a'n iaith.¹³⁷

Methiant y prif gymeriad i ddianc rhag rhyfel ei frodyr sydd yn 'Madog', methiant terfynol wrth i'r llong suddo. Methiant hefyd yw taith Osian i Tír na nÓg yn y pen draw, wrth iddo fethu â chanfod hapusrwydd yn y wynfa.¹³⁸ Amwysedd, fodd bynnag, a geir yn 'Broséliâwnd', wrth i'r bardd gyfosod mudandod 'anobaith' Myrddin gyda'r 'awen ddibryder ieuanc' yn yr adran glo:

Yno, bu dawel wyneb y dewin,
A mwy ni chlywwyd, ni welwyd eilwaith,
Na'i lais na'i wedd drwy lys a neuaddau;
Ni wybu dyn mo'i anwybod yno;
Yno, ni wybu un ei anobaith;
A than y dail, yn y syrthni dulas,
O'r mud rigolau tremiai dirgelwch

¹³⁵ Gwynn Jones, 'Ymadawiad Arthur', yn *Caniadau*, 31-4.

¹³⁶ T. Gwynn Jones, 'Madog', yn *Caniadau*, 104.

¹³⁷ Gwynn Jones, 'Ymadawiad Arthur', yn *Caniadau*, 31-2.

¹³⁸ Gwynn Jones, 'Tir na n-Og', yn *Caniadau*, 66.

Esmwyth, hudolus, a maith dawelwch.

Broséliâwnd, lle bu risial lendid
A bryd yr awen ddibryder, ieuanc!¹³⁹

Amwysedd yw prif nodwedd cân olaf Myrddin yn yr opera hefyd, lle ceir y dewin yn mynd ar y cwch, dros y llyn, ac i ddyfnderoedd y goedwig: 'He [...] sings a stanza which may be interpreted in two ways – that this is the end, or only the beginning'.¹⁴⁰

Wrth graffu ar olygfa glo yr amlinelliad o'r opera a'r awdl 'Broséliâwnd' ill dau, daw'n amlwg fod perthynas agos rhwng y ddau destun o ran digwyddiadau a delweddaeth. Mae'r ddau waith o'r un anian, ac er nad oes modd dweud yn bendant pa un a ddaeth gyntaf, gellir, yn ddiau, gynnig y ceir yma ddau waith sy'n plethu i'w gilydd, ac wrth ddarllen un fe gyfoethogir ein dealltwriaeth o'r llall. Diddorol wrth gwrs yw'r ffaith mai gwaith sy'n annatod gysylltiedig â cherddoriaeth yw un ohonynt – ffaith sy'n rhoi gwedd gerddorol newydd ar un o 'fawrion' T. Gwynn Jones.¹⁴¹

Diddorol yw nodi yma nad gweithiau o *Caniadau* yn unig sydd â chefnidir cerddorol cuddiedig neu anhysbys. Yng nghyfrol olaf Gwynn Jones, *Y Dwymyn*, ymddengys cyfres o englynion milwr, 'Yn y Gwaed'. Mae pob cân yn y gyfrol yn ganu rhydd cynganeddol ar wahân i'r gerdd hon, sy'n mynd i'r afael â gwladgarwch a pherthynas y Cymry modern â'r genedl: 'Eiddi ym oll; eiddom hi;/ hanoedd ein cnawd ohoni'.¹⁴² Cyfodir ffigur Llywelyn i gloi'r gerdd, gan ddatgan: 'i'w alw nid oes lyw ond un –/ Wele i'w alwad Lywelyn!'.¹⁴³ Mae 'Yn y Gwaed', o ran ei mesur, ei chynnwys, a'i tharddiad, yn wahanol i weddill y cerddi yn y casgliad *Y Dwymyn*.

¹³⁹ Gwynn Jones, 'Broséliâwnd', yn *Caniadau*, 78.

¹⁴⁰ Gwynn Jones, 'Sketch of an Opera', 7.

¹⁴¹ R. M. Jones, *Llenyddiaeth Gymraeg 1902-1936* (Llandybïe, 1987), 130.

¹⁴² T. Gwynn Jones, 'Yn y Gwaed', yn *Y Dwymyn* (Caerdydd, 1972), 8. (Defnyddir yma argraffiad Gwasg Prifysgol Cymru, sy'n cynnwys rhagair gan Arthur ap Gwynn. Cyhoeddwyd *Y Dwymyn* yn wreiddiol gan Wasg Aberystwyth ym 1944.)

¹⁴³ *Ibid.*, 9.

Noda E. Tegla Davies mai dyma'r unig gerdd yn y gyfrol nas cyhoeddwyd gyntaf yn y cylchgrawn *Yr Efrwydd* rhwng Medi 1934 a Medi 1935 dan yr enw 'Rhufawn', ac fe bwysleisia Gwilym R. Jones ei 'unigrwydd llachar yn y gyfrol'.¹⁴⁴ Yn rhagair Arthur ap Gwynn i'r adargraffiad o *Y Dwymyn* ym 1972, nodir bod 'Yn y Gwaed' wedi'i chyhoeddi gyntaf yn *Baner ac Amserau Cymru* ym 1939, ac iddi gael ei llunio 'i'w chanu ym mherfformiad drama, *Ein Tywysog Olaf*, yn Eisteddfod Genedlaethol 1939'.¹⁴⁵ Yn yr un modd, dywed Gwilym R. Jones mai 'dyma'r gerdd a ganwyd i gyfeiliant y delyn yn y ddrama-basiant, *Ein Tywysog Olaf*'.¹⁴⁶ Ymddengys, fodd bynnag, na chafodd y gerdd hon ei gosod fel cân neu ddarn o gerdd dant, ond yn hytrach, fel y nodir yn *Atodlen yr Eisteddfod* a ddosbarthwyd gyda *Baner ac Amserau Cymru*, 'cyfansoddodd T. Gwynn Jones gerdd arbennig, yn arddull yr hen feirdd, i'w hadrodd gan fardd i gyfeiliant y delyn'.¹⁴⁷ Trawiadol yw'r ffaith fod nifer wedi sylwi ar arwahanrwydd y gerdd hon yng nghyd-destun gweddill cerddi *Y Dwymyn*, heb ystyried neu sylweddoli mor arwyddocaol yw rôl cerddoriaeth yn ei chyfansoddiad – agwedd sydd, fel y gwelwyd eisoes yn y bennod hon, yn gyffredin i rai o weithiau enwog eraill T. Gwynn Jones.

Amlygir y syniad hwn o gefndir cerddorol cudd a choll eto yn achos cerddi eraill o waith T. Gwynn Jones sy'n ymddangos yn *Detholiad o Ganiadau a Caniadau*, sef 'Eryri Wen' a 'Breuddwyd Dafydd Rhys'. Cyhoeddwyd y ddau waith am y tro cyntaf ym 1924 fel geiriau caneuon yn y *Welsh Festival Book*, llyfr caneuon a gynhyrchwyd ar gyfer cyngerdd Cymraeg yn ystod Arddangosfa'r Ymerodraeth

¹⁴⁴ E. Tegla Davies, 'Y Dwymyn: Hanes Llyfr', yn ap Gwilym (gol.), *Cyfres y Meistri*, 318; Gwilym R. Jones, 'Barddoniaeth Ddiweddar T. Gwynn Jones', yn ap Gwilym (gol.), *Cyfres y Meistri*, 331.

¹⁴⁵ Arthur ap Gwynn, 'Rhagair', yn *Y Dwymyn*, i.

¹⁴⁶ Jones, 'Barddoniaeth Ddiweddar T. Gwynn Jones', 332.

¹⁴⁷ Dienw, *Atodlen yr Eisteddfod, cyflwynedig gyda'r 'Faner'*, 9 Awst 1939, 2.

Brydeinig ym 1924.¹⁴⁸ Ni cheir unrhyw awgrym o gwbl yn y cyfrolau *Detholiad o Ganiadau* na *Caniadau* fod y rhain wedi'u cyfansoddi'n wreiddiol i gyd-fynd â cherddoriaeth: nid yw rhagair yr un o'r ddwy gyfrol yn nodi unrhyw beth ynghylch eu cefndir, ac ni chyfeirir ychwaith at unrhyw gerddoriaeth wrth ymyl y farddoniaeth ei hun yng nghorff y cyfrolau. Geiriau newydd gan Gwynn Jones ar gyfer cainc draddodiadol yw 'Eryri Wen', y cyntaf o'r ddau ddarn a geir yn y *Welsh Festival Book* sydd hefyd yn ymddangos yn *Detholiad o Ganiadau* a *Caniadau*. Cyfansoddodd Ceiriog eiriau Cymraeg ar y gainc hon – darn sy'n ymddangos yn y detholiad o'i waith a olygwyd gan T. Gwynn Jones, diddorol yw nodi – ond y mae'n amlwg bod Syr Henry Walford Davies (1869-1941), golygydd y *Welsh Festival Book*, wedi penderfynu y dylid cynnwys geiriau Cymraeg mwy cyfoes – fersiwn T. Gwynn Jones – yn yr achos hwn.¹⁴⁹ Er bod y *Welsh Festival Book* yn cynnwys nifer o gyfieithiadau Saesneg gan T. Gwynn Jones, geiriau Saesneg Felicia Hemans ar y gainc 'Eryri Wen' – a gyhoeddwyd yn wreiddiol yn y gyfrol *A Selection of Welsh Melodies* ym 1822 – yw'r hyn sy'n cyd-fynd â'r gainc hon yng nghyrol Walford Davies.¹⁵⁰ Yn achos gwaith Gwynn Jones, nodir dyddiad cyfansoddi 'Eryri Wen' a 'Breuddwyd Dafydd Rhys' fel ei gilydd yn rhestr gynnwys *Caniadau* fel 1924, sef dyddiad cyhoeddi'r *Welsh Festival Book*. Rhaid gofyn yma, felly, ai gweithiau wedi'u comisiynu gan Walford Davies ar gyfer y gyfrol o ganeuon oedd 'Eryri Wen' a 'Breuddwyd Dafydd Rhys'. Ni chyhoeddwyd yr un o'r ddau waith cyn eu cynnwys yn y *Welsh Festival*

¹⁴⁸ H. Walford Davies (gol.), *Welsh Festival Book* (London, 1924), 146-9, 168-72.

¹⁴⁹ T. Gwynn Jones (gol.), *Ceiriog: Detholiad o'i Weithiau* (Wrecsam, 1927), 66. Diddorol yw nodi y cynhwyswyd geiriau eraill o waith Ceiriog, megis 'Hun Gwenllian' a 'Nos Galan', yn y *Welsh Festival Book*.

¹⁵⁰ Felicia Hemans, *The Poems of Felicia Hemans* (Edinburgh and London, 1873). Gweler ymhellach Elizabeth Edwards, "'Lonely and Voiceless Your Halls Must Remain': Romantic-Era National Song and Felicia Hemans's *Welsh Melodies* (1822)", *Journal for Eighteenth-Century Studies*, Cyf. 38, Rhif 1 (2015), 83-97.

Book,¹⁵¹ ac mae'r ffaith bod y darnau ill dau yn gyfansoddiadau sy'n cynnig geiriau cwbl newydd ar geinciau traddodiadol hefyd yn awgrymu mai Walford Davies a ofynnodd amdanynt. Er hyn, ni cheir unrhyw dystiolaeth o gais o'r fath yng ngohebiaeth Walford Davies yng nghasgliad T. Gwynn Jones yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, nac ychwaith yng ngohebiaeth E. J. Grutchfield, ysgrifennydd i Syr Walford, at y bardd.¹⁵² Ceir, fodd bynnag, ar gopi o *Detholiad o Ganiadau* a gyflwynodd T. Gwynn Jones i Thomas Jones, nodyn gan y bardd ar 'Breuddwyd Dafydd Rhys' yn dweud mai 'cais i ddehongli teitl hen gainc, heb eiriau i'w chanlyn, a gefais gan Dr Lloyd Williams, Aberystwyth' yw'r gerdd honno.¹⁵³ Yn ei ddiolchiadau ar dudalennau blaen y *Welsh Festival Book*, mae Walford Davies yn cyfeirio nid yn unig at T. Gwynn Jones, ond hefyd at J. Lloyd Williams (1854-1945), am 'musical research and assistance', 'to whom he [sef y golygydd, Walford Davies ei hun] is indebted for bringing to light the old melodies *Corddianan* and *Breuddwyd Dafydd Rhys*'.¹⁵⁴ Gan ystyried y cyfeiriad hwn at 'Breuddwyd Dafydd Rhys', felly – yn ogystal â'r ffaith na chynhwyswyd geiriau Ceiriog i 'Eryri Wen' yn y *Welsh Festival Book* – mae'n ddigon posib fod 'Eryri Wen' T. Gwynn Jones hefyd yn waith a gomisiynwyd ar gyfer y gyfrol.

Wrth ganu i 'Eryri Wen', sonia T. Gwynn Jones am harddwch a hyfrydwch y mynyddoedd, 'dan yr heulwen lân/ Yng nghân yr awel wynt'. Cyfarcha'r dirwedd, gan ddisgrifio'r 'goleuni ar dy ben', a chan ddymuno 'huno yn dy dirion des/ Am

¹⁵¹ Gweler Roberts (gol.), *Llyfryddiaeth Thomas Gwynn Jones*, 25, 87.

¹⁵² Llythyrau gan H. Walford Davies at TGJ, Papurau TGJ, G996-1013, LIGC; Llythyrau gan E. J. Grutchfield at TGJ, Papurau TGJ, G1871-97, LIGC.

¹⁵³ Aaron, 'Nodiadau T. Gwynn Jones ar *Caniadau*', 307-8.

¹⁵⁴ H. Walford Davies, 'Acknowledgements', yn Davies (gol.), *Welsh Festival Book*, iv.

byth, Eryri wen.’¹⁵⁵ Er y ceir, yn yr ail bennill, gyfeiriadau at oerfel nosweithiau hir, a’r mynydd ‘Dan gannaid eira oer’, daw’n amlwg nad peth i’w gasáu yw hyn, wrth i’r bardd ddatgan eto, ‘Mynnwn huno yn dy oerni glân/ Am byth, Eryri wen’.¹⁵⁶ Caiff y mynyddoedd eu cyflwyno fel noddfa yma, rhywle lle y mae byd natur ar ei orau, a lle y canfyddir gwreiddiau hanes y genedl hefyd: ‘Hen gaer fy nhadau gynt’.¹⁵⁷ Yn ei nodiadau ar gopi Thomas Jones o *Detholiad o Ganiadau*, dywed y bardd fod y darn wedi’i gyfansoddi ‘Wrth gofio am ddringo’r Wyddfa ar ddau achlysur’.¹⁵⁸

Y mae ‘Breuddwyd Dafydd Rhys’, yn yr un modd, yn ddarn newydd a gyfansoddwyd i’w ganu ar gainc Gymreig. Edrydd y geiriau hanes hen delynor sydd wedi teithio yn hir ‘Drwy eira mawr a gwynt’.¹⁵⁹ Gorwedda, ‘A’i flinder ef yn fawr’, ac mae’r ‘felys gân’ a glyw yn ei dynnu ‘I ddawnsio gyda’r eira yn y gwagle oer gwyn’.¹⁶⁰ Er mai hanes marwolaeth y telynor sy’n cael ei adrodd yn y darn hwn, ceir ymdeimlad o lawenydd a dathlu wrth i’r ‘canu [...] ei dynnu,/ Ei swyno a’i synnu/ I fyny, i fyny/ Mewn hoen o boen y byd,/ I ddawnsio gyda’r eira yn y gwagle oer gwyn’.¹⁶¹ Caiff Dafydd Rhys ei ryddhau rhag blinderau byd yma, a pherthnasol yw tynnu sylw at y thema hon yng nghyswllt gweddill cynnwys *Caniadau*, oherwydd yn achos nifer o’r cerddi eraill yn y gyfrol, onid ceisio rhyddhad ‘mewn hoen o boen y byd’¹⁶² yw ymgais nifer o’r cymeriadau? Â Arthur i Afallon i wella, tra gadewir Bedwyr i wynebu’r ‘drin’; cilia Myrddin rhag ‘gwridd oferedd... Hwyl anniddig y gloywon neuaddau’; a disgrifir Rhos y Pererinion fel ‘noddfa dlos’ rhag y ‘byd a’i

¹⁵⁵ T. Gwynn Jones (geiriau), *tradd.* (cerddoriaeth), ‘Eryri Wen’, yn Davies (gol.), *Welsh Festival Book*, 147-8.

¹⁵⁶ *Ibid.*, 148-9.

¹⁵⁷ *Ibid.*, 146-7.

¹⁵⁸ Aaron, ‘Nodiadau T. Gwynn Jones ar *Caniadau*’, 307.

¹⁵⁹ T. Gwynn Jones (geiriau), *tradd.* (cerddoriaeth), ‘Breuddwyd Dafydd Rhys’, yn Davies (gol.), *Welsh Festival Book*, 168.

¹⁶⁰ *Ibid.*, 169-70.

¹⁶¹ *Ibid.*, 172.

¹⁶² *Ibid.*

bwys,/ Gofidiau dwys a blinion'.¹⁶³ Cyfeiriodd W. Beynon Davies at y thema hon fel un 'gyfoethocaf ei holl ganu [...] thema yr *Hyfryd Wlad*'.¹⁶⁴ Yn wir, onid man delfrydol a ddisgrifir yn 'Eryri Wen' hefyd? Gwelir felly sut y mae'r ddwy gerdd o'r *Welsh Festival Book* sydd hefyd yn ymddangos yn *Caniadau* – er mai yn anaml y cânt eu trafod yn feirniadol – yn ategu naws a neges nifer o gerddi gweddill y gyfrol yn unol â gweledigaeth farddonol ehangach T. Gwynn Jones.

Yr hyn sy'n anghyffredin ynghylch 'Eryri Wen' a 'Breuddwyd Dafydd Rhys' yng nghyd-destun cerddi eraill y gyfrol *Caniadau* yw'r ffaith eu bod ill dwy yn gerddi a gyfansoddwyd yn benodol ar gyfer cerddoriaeth: maent yn cynnig geiriau newydd i'w canu ar hen alawon. Mae gwaith Gwynn Jones ar y cyd â'r cyfansoddwr a'r cyhoeddwr W. S. Gwynn Williams yn enghraifft amlwg o'r math hwn o waith. Mae W. S. Gwynn Williams yn ffigwr allweddol yng nghyswllt perthynas gwaith T. Gwynn Jones â cherddoriaeth, ac fe gydweithiodd y ddau ar nifer o brosiectau, yn cynnwys gweithiau gwreiddiol ar gyfer y llwyfan, addasiadau o ganeuon gwerin a channoedd o gyfieithiadau o eiriau caneuon. Cyhoeddwyd nifer o'r rhain gan Gwmni Cyhoeddi Gwynn, a sefydlwyd ym 1937. Fe roddir sylw i'r gwahanol fathau o weithiau yn eu tro yn ystod y thesis hwn, ond yn y bennod hon, sy'n canolbwyntio ar osodiadau o weithiau gwreiddiol T. Gwynn Jones, troir yn awr i archwilio rhai o'r darnau gwreiddiol hynny gan Gwynn Jones a gyhoeddwyd gan Gwmni Cyhoeddi Gwynn. Cyhoeddwyd 21 cân wreiddiol o waith T. Gwynn Jones gan y cwmni rhwng 1937 a 1950, ac fe geir nifer o enghreifftiau o eiriau newydd ar geinciau traddodiadol, megis yn y gyfrol *Tair Hen Gainc Gymreig: Three Old Welsh Songs* (1942).¹⁶⁵

¹⁶³ Gwynn Jones, 'Ymadawiad Arthur', yn *Caniadau*, 34; Gwynn Jones, 'Broseliawnd, yn *Caniadau*, 78; 'Rhos y Pererinion', yn *Caniadau*, 190.

¹⁶⁴ Davies, 'Canu Thomas Gwynn Jones', 235.

¹⁶⁵ W. S. Gwynn Williams (gol.), *Tair Hen Gainc Gymreig: Three Old Welsh Songs* (Llangollen, 1942).

Trafodir gweithiau fel yr olaf, fodd bynnag, yn ddiweddarach yn y thesis wrth graffu ar waith T. Gwynn Jones sy'n ymwneud â cherddoriaeth draddodiadol.

Cyhoeddwyd un gyfrol gan Gwmni Gwynn sy'n cynnwys gweithiau gwreiddiol gan T. Gwynn Jones nad ydynt yn gysylltiedig â cherddoriaeth draddodiadol, sef *Cerddi Mebyd: Childhood Songs*, a ymddangosodd ym 1939, gyda'r gerddoriaeth wreiddiol gan W. S. Gwynn Williams. Syniad Gwynn Williams oedd y gyfrol, fel y dengys llythyr anghyhoeddedig ganddo o fis Chwefror 1939 a gadwyd ymysg papurau T. Gwynn Jones yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru:

If you have the urge and the time one of these next days, do please think of writing me five or six original Welsh lyrics that I might set as songs for children in one book. Would the writing of the poems around five or six different flowers appeal to you? [...] Or you might think of some stories of different birds. I should very much like to join with you in a book of this kind of children's songs.¹⁶⁶

Erbyn mis Ebrill, roedd Gwynn Jones wedi cyfansoddi pum cân fer am fyd natur, ac fe dderbyniodd ddiolch gan Gwynn Williams, gydag yntau'n amlwg yn awyddus i gyhoeddi'r gyfrol yn ddwyieithog, fel gweddill cyhoeddiadau Cwmni Gwynn: 'Thank you ever so much for the five little songs to hand this morning [...] "Clych Mebyn" is a gem. What about an English translation?'¹⁶⁷ Ni cheir nemor ddim gwybodaeth yn yr ohebiaeth ynghylch y gerddoriaeth a'r broses o gyfansoddi, er y gellir mentro nad oedd Gwynn Williams wedi dechrau ar y gwaith cyfansoddi cyn derbyn y geiriau, oherwydd ei gais am eiriau 'that I might set as songs'.¹⁶⁸ Awgryma'r ffaith nad yw Gwynn Williams yn trafod y gerddoriaeth gyda Gwynn Jones nad proses o

¹⁶⁶ Llythyr, dyddiedig 4 Chwefror 1939, gan W. S. Gwynn Williams [WSGW] at TGJ, Papurau TGJ, A1164, LIGC.

¹⁶⁷ Llythyr, dyddiedig 12 Ebrill 1939, gan WSGW at TGJ, Papurau TGJ, A1178, LIGC.

¹⁶⁸ Llythyr, dyddiedig 4 Chwefror 1939, gan WSGW at TGJ, Papurau TGJ, A1164, LIGC.

gyfansoddi ar y cyd a gafwyd yn yr achos hwn. Er i Gwynn Williams dderbyn y geiriau ym mis Ebrill, ni chyfansoddwyd y gerddoriaeth, neu o leiaf ni chyrrhaeddodd honno ei ffurf derfynol, tan fis Medi 1939. Dengys yr ohebiaeth fod gan Gwynn Williams nifer o brosiectau ar y gweill yng ngwanwyn a haf y flwyddyn honno: cyhoeddwyd nifer o ddarnau a chasgliadau gan Gwmni Gwynn, a hynny wrth i amgylchiadau waethygu o ran cyflenwadau o bapur, inc a metel o ganlyniad i'r Ail Ryfel Byd.¹⁶⁹ Nid yw'r rheswm dros yr oedi cyn cyfansoddi cerddoriaeth *Cerddi Mebyd: Childhood Songs* yn hysbys, ond gellid dyfalu mai pwysau gwaith a diffyg cyfle ar ran Gwynn Williams i ymroi i gyfansoddi oedd ar fai.

Cyhoeddwyd y gyfrol tua diwedd 1939, fel y gwelir o lythyr a anfonodd Gwynn Williams at Gwynn Jones ym mis Hydref: 'I hope to get the book out before the end of the month and, whether we have peace or war at Christmas, I feel that our little book will be some contribution to the joys and not to the sorrows of men'.¹⁷⁰ Heddychwr oedd T. Gwynn Jones, yn gwrthwynebu pob math o ryfel yn chwyrn, a dyn o'r un anian oedd W. S. Gwynn Williams. Nododd Gwynn Williams mewn un llythyr: 'The old bards may have done well in times of war hundreds of years ago, but I am afraid that your art + mine today are arts of peace and not of war'.¹⁷¹ Awgrymwyd gan Gwawr Eleri Jones mai adwaith i'r Ail Ryfel Byd oedd y gweithiau ar gyfer plant a gyhoeddodd Gwmni Cyhoeddi Gwynn rhwng 1939 a 1945 – ymgais

¹⁶⁹ Llythyr, dyddiedig 21 Tachwedd 1939, gan WSGW at TGJ, Papurau TGJ, A1210, LIGC; llythyr, dyddiedig 18 Ebrill 1942, gan WSGW at TGJ, Papurau TGJ, A1285, LIGC.

¹⁷⁰ Llythyr, dyddiedig 9 Hydref 1939, gan WSGW at TGJ, Papurau TGJ, A1204, LIGC.

¹⁷¹ Llythyr, dyddiedig 29 Ionawr 1941, gan WSGW at TGJ, Papurau TGJ, G6266, LIGC.

gan Gwynn Williams a Gwynn Jones fel ei gilydd i ddianc i fyd diniwed ieuencid.¹⁷² Cydweithiodd y ddau ar nifer o brosiectau ar gyfer plant, megis y cantata *Dewi Sant* (1942), y ddrama gerddorol anghyhoeddedig *Gwlad yr Hud* (1939), a chyfrol o ganeuon o'r enw *Song-Classics for Children: Clasuron Cân i Blant* (1944). Nid oes modd datgan yn bendant fod yna gysylltiad uniongyrchol rhwng y rhyfel a chynnyrch Cwmni Gwynn i blant, gan fod cyfansoddi barddoniaeth i blant yn dasg yr ymgymerasai T. Gwynn Jones â hi flynyddoedd cyn hynny, gyda'r cyfrolau *Llyfr Gwion Bach* (1924) a *Llyfr Nia Fach* (1929). Er hyn, mae'r rhyfel yn bwnc sy'n codi'n aml yn llythyrau Gwynn Williams, ac fe geir llawer o gyhoeddiadau ar gyfer plant yng nghatalog y cwmni, a nifer o'r rheini wedi'u cyfansoddi ar y cyd â T. Gwynn Jones ac yn ystod blynyddoedd yr Ail Ryfel Byd. Gan ystyried mor wrthun oedd rhyfel i Gwynn Jones a Gwynn Williams fel ei gilydd – a datganiad Gwynn Williams mai 'arts of peace' oedd cerddoriaeth a barddoniaeth yn ei dyb ef – y mae'n hawdd gweld apêl byd dilwgr a diniwed plant i'r ddau ddyn yn ystod y blynyddoedd 1939-45.

Pum cân sydd yng nghyfrol *Cerddi Mebyd: Childhood Songs*, i gyd ar thema byd natur: 'Clych Mebyn = Snowdrops', 'Glöyn Byw = Butterfly', 'Ehedydd Bach = Little Lark', 'Afonig = Brooklet' a 'Cloch Bugail = Shepherd Bells'. Ceir cyfieithiad Saesneg yn achos pob cân gan T. Gwynn Jones, ac maent i gyd yn gerddi mydr ac odl ar amryw fesurau: 6/6, 8/7 ac 8/5. Y mae'r gân 'Clych Mebyn = Snowdrops' yn chwedl o fath sy'n esbonio enw amgen – clych mebyn y teitl (mebyn = baban, bachgen ifanc) – ar flodau gwynion yr eirlys. Adroddir, o safbwynt plentyn, yr hanes a glywodd gan ei Nain am '[R]yw febyn bach digrif/ A ddaeth [...] Ryw noswaith o

¹⁷² Gwawr Eleri Jones, 'Astudiaeth o Gyfraniad T. Gwynn Jones ac W. S. Gwynn Williams i Ddiwylliant Cymru a'r Bartneriaeth Rhwng y Ddau o Fewn eu Gweithiau ar y Cyd' (traethawd BA heb ei gyhoeddi, Prifysgol Bangor, Bangor, 2009), 65.

rywle/ A gadael y rhain'.¹⁷³ Mae'r gerddoriaeth yn syml, gyda chordiau triawd mwyaf yn erwydd trebl y cyfeiliant yn efelychu sain cylchau'r 'mebyn bach ffôl', ffigwr cerddorol sy'n cael ei ailadrodd drwy'r gân.¹⁷⁴ (**Gweler Atodiad III, Dyfyniad 26.**) Mae'r cyfieithiad Saesneg yn agos iawn at y gwreiddiol o ran ei gynnwys, er mai llai llwyddiannus efallai yw'r hanes am y 'strange little fellow' o ganlyniad i'r diffyg cydestun i'r stori: gan mai 'snowdrops' yw enw'r blodau yn Saesneg, mwy estron yw ffigwr y mebyn.¹⁷⁵ Ceir ymgais ym mhennill olaf y Saesneg, fodd bynnag, i gysylltu'r ddwy ddelwedd – mebyn enw Cymraeg y blodau, ac eira'r enw Saesneg 'snowdrops' – a hynny â chyfeiriad at oerfel y gaeaf, cyfeiriad nad yw'n ymddangos yn y geiriau Cymraeg: 'He won't come again,/ So my Granny was told,/ So long as the winter/ Is ever so cold'.¹⁷⁶

Fel yn 'Clych Mebyn = Snowdrops', ceir yng nghyfeiliant holl ganeuon *Cerddi Mebyd: Childhood Songs* ymgais i ddarlunio symudiadau neu seiniau'r hyn a ddisgrifir yn y geiriau. Yn 'Glöyn Byw = Butterfly' ac 'Ehedydd Bach = Little Lark', er enghraifft, clywir rhythmau croesacennog sydd, yn ddiau, yn ymgais gan Gwynn Williams i ddarlunio symudiadau herciog y creaduriaid wrth hedfan. (**Gweler Atodiad III, Dyfyniadau 27 a 28.**) Mae geiriau Saesneg 'Glöyn Byw = Butterfly' yn rhoi mwy o bwyslais ar symudiadau'r pili-pala na'r geiriau Cymraeg, sydd yn hytrach yn canolbwyntio ar drawsnewidiad y 'blodyn bychan coch a melyn,/ Du a gwyn' yn löyn byw.¹⁷⁷ Dyma a geir yn ei hanfod yn y geiriau Saesneg hefyd, ond ymddengys

¹⁷³ T. Gwynn Jones (geiriau), W. S. Gwynn Williams (cerddoriaeth), 'Clych Mebyn = Snowdrops', yn W. S. Gwynn Williams (gol.), *Cerddi Mebyd: Childhood Songs* (Llangollen, 1939), 3.

¹⁷⁴ Ibid.

¹⁷⁵ Ibid.

¹⁷⁶ Ibid.

¹⁷⁷ T. Gwynn Jones (geiriau), W. S. Gwynn Williams (cerddoriaeth), 'Glöyn Byw = Butterfly', yn Gwynn Williams (gol.), *Cerddi Mebyd: Childhood Songs*, 4.

geirfa megis ‘flutters’, ‘hovers’ a ‘dances’ ymysg y disgrifiadau.¹⁷⁸ Y cyfieithiad mwyaf llythrennol o’r geiriau Cymraeg yn y casgliad, efallai, yw’r cyfieithiad o ‘Ehedydd Bach = Little Lark’. Y mae pob llinell, bron, o’r gân yn y ddwy iaith yn cyfateb yn union o ran cynnwys, sy’n arbennig o effeithiol yn y pennill cyntaf oherwydd y gosodiad cerddorol. Wrth osod y geiriau, mae Gwynn Williams wedi cesio adlewyrchu rhai o eiriau a delweddau’r pennill cyntaf: wrth i’r geiriau sôn am yr ‘hedydd bach yn codi’, neu’r ‘little lark [...] rising’, yn y llinell gyntaf, mae’r alaw hefyd yn esgyn.¹⁷⁹ (**Gweler Atodiad III, Dyfyniad 28.**) Ailadroddir y ffigwr hwn yn y drydedd linell, wrth i’r geiriau ddarlunio’r aderyn yn ‘dringo’, ‘climbing’, ac fe gyhraedda’r alaw ei huchafbwynt gan arafu ychydig ar E uchel, i bwysleisio’r geiriau ‘nefoedd’, ‘heaven’, a chyfleu’r uchelderau y mae’r ehedydd yn eu cyrraedd.¹⁸⁰ (**Gweler Atodiad III, Dyfyniad 28.**) Y mae’r gerddoriaeth yn adlewyrchu ystyr y geiriau mewn modd pur uniongyrchol ond effeithiol – techneg addas yn achos gosodiadau ar gyfer plant.

‘Afonig = Brooklet’ yw’r bedwaredd gân yn y casgliad, ac mae’r disgrifiadau o’r afon yn rhedeg yn ei blaen ‘dan y coed a rhwng y cerrig’, gan ddal i ‘ganu cân’ er gwaethaf ‘meini yn ei rhwystro’ a’r ‘rhew yn ceisio’i dala’, yn cael eu hadlewyrchu eto gan y cyfeiliant, sy’n cynnwys ffigwr syml o hanner cwaferi a ailadroddir drwy’r gân gyfan.¹⁸¹ (**Gweler Atodiad III, Dyfyniad 29.**) Mae’r dechneg hon o adlewyrchu ystyr y geiriau yn weddol eglur mewn termau cerddorol yn gyffredin i holl ganeuon y casgliad, ac fe’i gwelir yn y gân glo, ‘Cloch Bugail = Shepherd Bells’, yn arbennig. Caiff sain y ‘clych mebyn’ yn y gân gyntaf ei gyfleu gan gordiau yn y cyfeiliant, ac

¹⁷⁸ Ibid.

¹⁷⁹ T. Gwynn Jones (geiriau), W. S. Gwynn Williams (cerddoriaeth), ‘Ehedydd Bach = Little Lark’, yn Gwynn Williams (gol.), *Cerddi Mebyd: Childhood Songs*, 6.

¹⁸⁰ Ibid.

¹⁸¹ T. Gwynn Jones (geiriau), W. S. Gwynn Williams (cerddoriaeth), ‘Afonig = Brooklet’, yn Gwynn Williams (gol.), *Cerddi Mebyd: Childhood Songs*, 8-9.

maent yn ymddangos yn y gân ‘Cloch Bugail = Shepherd Bells’ hefyd, ond yn hytrach na’r ailadrodd cyson yn ‘Clych Mebyn = Snowdrops’, sy’n cyfleu’r nifer fawr o flodau – ‘ni fedrwn i gyfri mohonynt fy hun’ – ceir yn hytrach gordiau gwasgarog rhwng seibiannau.¹⁸² (**Gweler Atodiad III, Dyfyniadau 26 a 30.**) Er mai clychau a glywir yma eto, mae natur eu cân yn wahanol, gan fod y sgôr yn nodi y dylid defnyddio’r pedal cynnal, gan adael i’r cordiau atseinio wedi eu taro. Y mae’n ddigon posibl fod y ffigwr hwn yn gyfeiriad at adlais sain y clychau a glyw ‘plant y bugail/ Wedi mynd i’r trefi trist’ yn y pennill olaf, wrth iddynt hiraethu am gefn gwlad eu plentyndod.¹⁸³

Er mai gweithiau syml iawn yw’r caneuon a geir yn y casgliad hwn, mae amgylchiadau eu cyfansoddi yn sicr yn eu gwneud yn deilwng o sylw: maent yn ysgogi ystyriaethau pwysig o ran ymateb T. Gwynn Jones i’r Ail Ryfel Byd, a hynny dan ddylanwad W. S. Gwynn Williams. Byddir yn dychwelyd at y thema hon yn ddiweddarach yn y thesis, wrth astudio rhai testunau eraill a luniodd T. Gwynn Jones ar y cyd â W. S. Gwynn Williams. Gwelir yn *Cerddi Mebyd: Childhood Songs* sut y darlunnir byd diniwed, heb awgrym o dristwch na chaledi, heblaw ar ddiwedd y gân glo, ‘Cloch Bugail = Shepherd Bells’, sydd yn cyferbynnu hyfrydwch byd natur cefn gwlad â thywyllwch a bryntni ‘some noisy city’ a’r ‘trefi trist’, gan ddelfrydu bywyd y Bugail.¹⁸⁴ Er i Gwynn Jones felly ymgolli i raddau helaeth yn niniweidrwydd plentyndod yn y casgliad *Cerddi Mebyd: Childhood Songs*, gwelir nad yw’n medru dianc yn gyfan gwbl rhag blinderon byd. Awgryma hyn agwedd y bardd yn gyffredinol tuag at yr Ail Ryfel Byd a’i natur hollbresennol – rhywbeth a welwyd eisoes yn y drafodaeth ar gyfieithiad y bardd o ‘Ystrad Fflur’ ym 1944.

¹⁸² Gwynn Jones, Gwynn Williams, ‘Clych Mebyn = Snowdrops’, 2.

¹⁸³ T. Gwynn Jones (geiriau), W. S. Gwynn Williams (cerddoriaeth), ‘Cloch Bugail = Shepherd Bells’, yn Gwynn Williams (gol.), *Cerddi Mebyd: Childhood Songs*, 11.

¹⁸⁴ *Ibid.*

Efallai mai amrywiaeth y gwahanol ddarnau gwreiddiol sydd ynghlwm â cherddoriaeth yw'r nodwedd amlycaf wrth ystyried y gweithiau a drafodwyd yn y bennod hon. Rhaid pwysleisio nad trosolwg cyflawn o'r gweithiau gwreiddiol a osodwyd i gerddoriaeth yw'r bennod bresennol o bell ffordd – byddai hynny'n destun traethawd doethuriaeth ynddo'i hun, yn wir – ond yn hytrach ymgais i agor trafodaeth ar agwedd newydd ar weithiau adnabyddus T. Gwynn Jones – sef y rheini sy'n ymddangos hefyd yn *Caniadau* – gan gyflwyno yn ogystal rai darnau nas trafodwyd mewn ymdriniaethau beirniadol. Wrth reswm, o ganlyniad i gyfyngderau gofod, bu'n rhaid dewis a dethol yn llym (darperir rhestr gyflawn o'r holl weithiau gan Gwynn Jones sy'n gysylltiedig â cherddoriaeth yn Atodiad I ar ddiwedd y thesis presennol), ac ni thrafodwyd nifer o osodiadau o ddarnau o farddoniaeth sy'n ymddangos, er enghraifft, yn y gyfrol *Manion*, megis 'Gwlad y Tylwyth Teg' a 'Mab yr Ystorm'. Rhai yn unig o osodiadau o gerddi o *Caniadau* a drafodwyd hefyd: rhaid oedd hepgor am y tro 'Gwenoliaid', 'Crinddail' ac 'Yno' o'r drafodaeth. Cyfrol arall na fu modd mynd i'r afael â hi yma oherwydd prinder gofod – cyfrol y gosodwyd rhai o'i cherddi fwy nag unwaith gan fwy nag un cyfansoddwr – yw *Llyfr Gwion Bach* (1924), sef casgliad o farddoniaeth ar gyfer plant a fu'n destun gosod mewn cystadleuaeth gyfansoddi yn Eisteddfod Genedlaethol Abertawe ym 1926. Cyhoeddwyd y caneuon buddugol, a gyfansoddwyd gan Annie Watts (Pencerddes Tawe), fel *Alawon Gwion Bach* ym 1927, a gellir mentro mai ymgais aflwyddiannus y cerddor John Morgan Lloyd yn yr un gystadleuaeth yw cynnwys cyfrol *Caneuon Gwion Bach*, a gyhoeddwyd ym 1928.¹⁸⁵ Diddorol fyddai astudio'r darnau hyn yng ngoleuni *Cerddi Mebyd: Childhood Songs*, gan graffu ar gyflwyniadau'r gwahanol gyfansoddwyr o'r darluniau a'r cymeriadau y mae T. Gwynn Jones yn eu creu yn ei farddoniaeth ar

¹⁸⁵ Annie Watts, *Alawon Gwion Bach* (Wrecsam, 1927); J. Morgan Lloyd, *Caneuon Gwion Bach* (Wrecsam 1928).

gyfer plant. Mae'r gweithiau a restrwyd ac a drafodwyd uchod yn brawf o gyfoeth y corff o waith gwreiddiol gan T. Gwynn Jones a osodwyd i gerddoriaeth, a gwelwyd sut y mae astudio'r gosodiadau cerddorol yn lliwio o'r newydd ein dealltwriaeth o rai o brif destunau canon llenyddol y bardd.

Er gwaethaf yr her y mae gosod canu caeth i gerddoriaeth yn ei chynnig, gwelwyd fod barddoniaeth gaeth a rhydd T. Gwynn Jones, fel ei gilydd, wedi atynnu amryw gyfansoddwyr. Yng ngosodiadau David Vaughan Thomas o adrannau o 'Ymadawiad Arthur', er enghraifft, amlygwyd natur ddramatig a ffilmig yr awdl, wrth i'r gerddoriaeth adlewyrchu'r gwahanol 'olygfeydd' o fewn y gwaith. Dyma agwedd sy'n gyffredin i nifer o awdlau T. Gwynn Jones, ac yn enwedig i 'Broséliâwnd', sydd, fel y dangoswyd, yn dwyn perthynas agos ag ymgais T. Gwynn Jones i drosglwyddo'r stori i'r llwyfan ar ffurf opera. At hyn, gwelwyd sut y mae gosodiad o ddarn penodol o waith ehanghach yn peri inni ymdrin â'r darn hwnnw yn wahanol, wrth i gyfansoddwr ddehongli adrannau penodol yn unig, fel yn achos Dilys Elwyn-Edwards ac 'Ynys Afallon' – a thrwy hynny ynysu rhan arbennig oddi wrth gymhlethdod ehangach yr awdl gyfan. Cafwyd hefyd gyfle i ystyried effaith cerddoriaeth fel catalydd a ysgogodd T. Gwynn Jones i ailystyried ei waith, wrth iddo gyfieithu, ac ailddehongli, 'Ystrad Fflur' ar gyfer gosodiad Idris Lewis o'r gwaith ym 1944. Yn yr achos hwn, fe'n gorfodwyd ni fel darllenwyr hefyd i ailystyried y gwaith, gan ddarllen y cyfieithiad yn ei gyd-destun cyfoes – cyfieithiad fel cynnyrch o'i gyfnod, sydd o bosib yn adlewyrchu agweddau'r bardd tuag at yr Ail Ryfel Byd. Ymhellach, gwelwyd sut y mae cyfrol ar gyfer plant, *Cerddi Mebyd: Childhood Songs*, yn cynnig cipolwg ar agwedd arall ar waith T. Gwynn Jones yn y cyfnod hwn, wrth iddo geisio ymgolli yn niniweidrwydd plentyndod yn wyneb erchylltra'r rhyfel.

Agwedd bwysig arall ar nifer o'r caneuon gwreiddiol hyn, fel y gwelwyd, yw'r cefndir cerddorol coll neu gudd, fel yn achos 'Dirgelwch', 'Eryri Wen' a 'Breuddwyd Dafydd Rhys'. Dyma ddarnau sy'n ymddangos yn y gyfrol adnabyddus *Caniadau* heb unrhyw gyfeiriad at y gerddoriaeth sy'n rhan annatod o gefndir eu cyfansoddi mewn amryw ffyrdd – megis 'Dirgelwch', a gynhwyswyd yn *Caniadau* ym 1934 wedi iddi gael ei chyhoeddi fel geiriau cân gan David de Lloyd ym 1932 (ac felly nid oedd yn ymddangos yn *Detholiad o Ganiadau* ym 1926), a 'Breuddwyd Dafydd Rhys' ac 'Eryri Wen', geiriau a gynhwyswyd yn y casgliad *Welsh Festival Book* ym 1924. Wrth edrych ar *Caniadau* yn ei chyfanrwydd, ac ar y 60 o ddarnau o farddoniaeth a gynhwysir ynddi, gwelir bod modd cysylltu 11 o'r darnau â cherddoriaeth mewn rhyw ffordd neu'i gilydd: naill ai o ran eu bod wedi eu gosod i gerddoriaeth, fel 'Rhos y Pererinion', 'Ystrad Fflur' neu adrannau o 'Ymadawiad Arthur'; neu bod cyd-destun y cyfansoddi yn gysylltiedig mewn rhyw ffordd â cherddoriaeth, fel yn achos 'Broséliâwnd', lle mae'r nodiadau 'Sketch of an Opera' yn bresenoldeb pwysig; neu lle mae cerddoriaeth yn sbardun uniongyrchol ar gyfer y cyfansoddi, fel yn achos 'Eryri Wen' a 'Breuddwyd Dafydd Rhys'. Wrth edrych ar y gweithiau hyn oll yng nghyd-destun cerddoriaeth, felly, fe'n gwahoddir i ailystyried y gyfrol *Caniadau*, gan werthfawrogi o'r newydd y rôl a chwaraewyd gan gerddoriaeth yn y broses o lunio'r casgliad dylanwadol a diffiniol hwn o gerddi. Amlyga'r gyfrol hon ddwy agwedd greiddiol ar waith Gwynn Jones: dylanwad pwysig cerddoriaeth, a cherddoriaeth Cymru yn arbennig, ar waith y bardd; a dylanwad gwaith y bardd yn ei dro ar gerddoriaeth Cymru.

‘A TREMENDOUS CONTRIBUTION’:

CYFIEITHIADAU T. GWYNN JONES O EIRIAU CANEUON

Fel yr amlinellwyd yn yr arolwg o’r maes uchod, dosrannwyd gweithiau T. Gwynn Jones sy’n gysylltiedig â cherddoriaeth i wahanol gategoriâu: caneuon gwreiddiol, cyfieithiadau o eiriau caneuon ac addasiadau o eiriau caneuon traddodiadol. Y categori mwyaf o ran nifer y gweithiau yw’r cyfieithiadau o eiriau caneuon, ac fe geir 269 o gyfieithiadau i’r Gymraeg a’r Saesneg o amryw ieithoedd Ewropeaidd y gellir eu priodoli i T. Gwynn Jones.¹ Cyfeiriwyd yn gynharach yn y thesis at yrfa lwyddiannus a chynhyrchiol Gwynn Jones fel cyfieithydd, yn arbennig fel cyfieithydd dramâu – gyrfa a amlinellir yn ysgrif H. Idris Bell, ‘T. Gwynn Jones fel Cyfieithydd’. Yn arwyddocaol, nid yw Bell yn ymdrin o gwbl yn ei erthygl â’r cannoedd o eiriau caneuon a gyfieithodd T. Gwynn Jones yn ystod ei yrfa.² Tebyg yw ymdriniaeth W. Beynon Davies yn ei gyfrol yn y gyfres *Writers of Wales* â chyfieithiadau T. Gwynn Jones: er iddo gydnabod fel hyn – ‘no account of the work of Gwynn Jones would be complete without mention of the enormous amount of work that he translated into Welsh from other languages’ – y mae ei amlinelliad o’r corff hwnnw o waith yn hepgor y cyfieithiadau sydd yn gysylltiedig â cherddoriaeth yn gyfan gwbl.³ Yn yr un modd, brysiog yw’r cyfeiriad at y cyfieithiadau o eiriau caneuon yn y *Cofiant* gan David Jenkins. Er iddo gydnabod maint ei gyfraniad, gan ddweud, ‘Un o’r meysydd y gwnaeth Gwynn Jones fwyaf o waith ynddo oedd cyfansoddi a chyfieithu caneuon ar gyfer cerddoriaeth’, nid yw’n ymdrin o gwbl â’r

¹ Gweler Atodiad I am restr gyflawn o gyfieithiadau o eiriau caneuon T. Gwynn Jones.

² H. Idris Bell, ‘T. Gwynn Jones fel Cyfieithydd’, yn Gwynn ap Gwilym (gol.), *Cyfres y Meistri (3): Thomas Gwynn Jones* (Llandybïe, 1982), 258-69.

³ W. Beynon Davies, *Thomas Gwynn Jones* (Caerdydd, 1970), 60-1.

corff enfawr hwn o waith.⁴ Gan ystyried y corff o waith sydd dan sylw yn y thesis hwn, sef gweithiau T. Gwynn Jones sy'n gysylltiedig â cherddoriaeth, y mae'n deg synio am y cyfieithiadau o eiriau caneuon fel y prif gyfraniad o ran nifer y gweithiau. Er mwyn adlewyrchu hyn, ac er mwyn rhoi sylw teilwng i'r swm aruthrol o weithiau sydd yn bodoli yn y cyswllt hwn, bydd y bennod hon yn un estynedig a fydd wedi'i rhannu'n bedair prif adran, yn trafod yr agweddau canlynol: (1) y *Welsh Festival Book* (1924); (2) *Emynau Mynyw* (1938); (3) y dechneg a ddatblygodd T. Gwynn Jones a W. S. Gwynn Williams ar gyfer cyfieithu geiriau caneuon; (4) *Cerddi Canu* (1942). Gan fod maes y cyfieithiadau hyn mor eang, bu'n rhaid bod yn llym iawn wrth ddewis deunydd i'w drafod yn y bennod hon. Ceisiwyd dethol testunau o ystod eang o gyfnodau ac arddulliau er mwyn adlewyrchu amlochredd y corff o waith hwn, yn ogystal â dwyn ynghyd rai o'r prif agweddau sy'n berthnasol i *oeuvre* y bardd yn gyffredinol – gan ddangos sut y mae astudio'r cyfieithiadau hyn yn cyfoethogi ein dealltwriaeth a'n gwerthfawrogiad o waith ehangach T. Gwynn Jones. Er na fydd modd, wrth gwrs, trafod pob un o'r cannoedd o destunau sydd i'w cael, byddir yn mynd ati yn y bennod bresennol i lenwi'r bwlch yn y drafodaeth feirniadol ar gyfieithiadau T. Gwynn Jones o eiriau caneuon, ac yn mynd i'r afael â chyfraniad sy'n rhychwantu bron ugain mlynedd a saith iaith.

***Welsh Festival Book* (1924)**

Cyfrol a gynhyrchwyd dan nawdd y Cyngor Cerddoriaeth Cenedlaethol (National Council of Music) yw'r *Welsh Festival Book*: 'Complete music arranged for performance in the Stadium [Wembley], on Saturday, August 30th, 1924 [...] and

⁴ David Jenkins, *Thomas Gwynn Jones: Cofiant* (Dinbych, 1973), 286.

prepared for general festival use in Wales 1924-5'.⁵ Mae tair rhan i'r gyfrol, sy'n cyflwyno gwahanol agweddau ar gerddoriaeth yng Nghymru. Y mae'r rhan gyntaf yn cynnwys dwy emyn-dôn Gymreig yn ogystal â detholiad, gyda geiriau Saesneg, o *Messiah* Handel. Mae'r ail ran, 'Enghreifftiau o Geinciau a Pheroriaeth Gymreig er amser y Tuduriaid a Darnau Cynarach a Farddoniaeth Gymraeg [*sic*] Wedi eu trefnu i'w Canu gan Gorau', yn cynnwys caneuon Cymreig traddodiadol, caneuon gan y cerddor o Oes Elisabeth I, Robert Jones (c. 1577-1617), gosodiadau o gywyddau a briodolwyd ar y pryd i Dafydd ap Gwilym, ac emyn sydd wedi'i gofnodi yn Llyfr Du Caerfyrddin.⁶ Wrth gyflwyno'r rhan hon dywed Walford Davies, 'It is fitting at all times to bring out of our treasure "things new and old"'.⁷ Pwysleisir yma gyfoeth diwylliant Cymru, gan roi llwyfan nid yn unig i'r cerddorol, gydag alawon traddodiadol Cymreig, ond hefyd i'r llenyddol, drwy gyfrwng mesur y cywydd. Yn y drydedd ran, yn ôl Walford Davies, ceir 'short masterpieces selected from the greatest works of all time': darnau crefyddol gan Beethoven, Palestrina a Mendelssohn; rhagor o emyn-donau; a 'Hen Wlad fy Nhadau' a 'God Save the King' i gloi. Wrth edrych ar gynnwys y gyfrol hon, fe'n trewir gan amrywiaeth y gwaith cyfieithu gan T. Gwynn Jones: mae'r 19 o ganeuon â geiriau gan Gwynn Jones sy'n ymddangos yn y *Welsh Festival Book* yn rychwantu wyth canrif a llu o arddulliau.

Amhosib yw trafod y *Welsh Festival Book* heb fynd i'r afael â'r hyn y mae'r gyfrol yn ei gynrychioli, gan fod y casgliad hwn, a baratowyd ar gyfer arddangosfa fawreddog yr Ymerodraeth Brydeining, yn annatod gysylltiedig â'r cysyniad o Brydeindod a brenhiniaeth. Dyma werthoedd a oedd yn sicr yn greiddiol i fydolwg

⁵ Deunydd blaen, yn H. Walford Davies (gol.), *Welsh Festival Book* (London, 1924).

⁶ Cynnwys, *Welsh Festival Book*, vi.

⁷ H. Walford Davies, 'Foreword', yn Davies (gol.), *Welsh Festival Book*, ii.

Syr Walford Davies, golygydd y gyfrol,⁸ ond maent yn syniadau anos eu cysoni â chymeriad T. Gwynn Jones. Mae ei gyfraniad helaeth i gynnwys y *Welsh Festival Book*, felly, yn cynnig cyfle i archwilio deuliaeth ddiddorol yn y cyswllt hwn. Roedd Gwynn Jones yn genedlaetholwr Cymreig cryf, ac mae ei waith cynnar yn llawn o ddatganiadau angerddol o'i gariad at ei wlad, megis yn 'Gwalia' a 'Môr o Waed Dros Gymru Wen'.⁹ Gwelir hefyd, ymysg gwaith cynnar Gwynn Jones, addefiad o'i gefnogaeth i annibyniaeth Iwerddon mewn cerdd Saesneg, 'The Irish Coercion Act', a gyhoeddwyd yn *Baner ac Amserau Cymru* ym 1889. Ceir yn y gerdd ddatganiadau o gefnogaeth gan y Cymry i'r Gwyddelod yn eu hymdrech – sonnir am 'your brother Taffy' – yn ogystal â galwadau arnynt i ymladd yn erbyn Llywodraeth Prydain: 'Crash the tyrant, furious crush the Tory!'.¹⁰ Parhaodd Gwynn Jones yr un mor danbaid dros annibyniaeth Iwerddon hyd ei gwireddiad ym 1922, fel y dengys nodyn ar gerdd anghyhoeddedig yn dwyn y teitl 'Tir na n-Óg' (nad ydyw, mae'n rhaid nodi, yn cynnwys unrhyw berthynas â'r awdl sydd â'r un teitl a ymddengys yn *Caniadau*) – cerdd a gyfansoddwyd ar ei ymweliad cyntaf â'r wlad 'wedi'r rhyddhad'.¹¹ Meddai'r bardd: 'Ni chefais i lawenydd cyffelyb erioed – y *corónach dubh* [y goron ddu] wedi mynd!'.¹² Mae'n ddiddorol mor agos o ran cronoleg ydyw'r datganiad hwn ganddo o lawenydd ynghylch annibyniaeth Iwerddon oddi wrth Brydain i'w gyfraniad sylweddol i'r gyfrol a gyhoeddwyd i gyd-fynd ag Arddangosfa'r Ymerodraeth Brydeinig.

⁸ Gweler cofiant H. C. Colles i Walford Davies am fanylion pellach ynghylch ei fywyd a'i waith: H. C. Colles, *Walford Davies: A Biography* (Oxford, 1942).

⁹ 'Gwynvre ap Iwan' (T. Gwynn Jones), 'Gwalia', 'Môr o Waed Dros Gymru Wen', *Dyddiau y Parch. Richard Owen gyda Chynhyrchion Buddugol Ereill* (Wyddgrug, 1891).

¹⁰ T. Gwynn Jones, 'The Irish Coercion Act', dyfynnwyd yn Jenkins, *Cofiant*, 52.

¹¹ Nodyn ar T. Gwynn Jones, 'Tir na n-Óg', mewn dyddiadur yn cynnwys cerddi gan y bardd, Papurau T. Gwynn Jones [TGJ], C14, Llyfrgell Genedlaethol Cymru [LIGC].

¹² *Ibid.*

Er mor wrthwynebus yr ymddengys Gwynn Jones i'r Ymerodraeth Brydeinig yn ei agwedd tuag at Iwerddon, gwelir rai blynyddoedd yn ddiweddarach mai deublyg oedd ei agwedd tuag at y sefydliad Prydeinig, wrth iddo benderfynu derbyn y CBE ym 1937. Nis derbyniodd yn ddigwestiwn a heb bwysu a mesur y weithred, fodd bynnag, fel y dengys llythyr ganddo at William Eames, wedi iddo dderbyn gair o longyfarchiadau gan Eames:

Bûm yn petruso tipyn a dderbyniwn i'r cynnig i roi i mi beth a elwir yn anrhydedd cyhoeddus. Pan euthum i ystyried, sylweddolais, gyda rhywfaint o fodlonrwydd hefyd, fy mod innau yn fy nhro yn llai penboeth na chynt, a bod fy hunanoldeb personol efallai, beth yn llai nag y byddai. Beth bynnag am briodoldeb yr urdd, fe'i derbyniwyd gan ysgolheigion cystal â minnau, o leiaf, a meddyliais fod llai o rodres personol yn ei derbyn na'i gwrthod.¹³

Wrth droi'n ôl at y *Welsh Festival Book*, felly, gellir tybio na theimlai'r bardd-gyfieithydd T. Gwynn Jones yn hollol gyfforddus â'r gyfrol y cyfrannai ati ac â'r hyn yr oedd yn ei gynrychioli. Fodd bynnag, fe fyddai efallai'n gweld y fantais o gael geiriau Cymraeg ar gyfer rhai o glasuron cerddorol y byd, a'r cyfle i rannu cerddoriaeth a llenyddiaeth Cymru â gwledydd eraill. Yng nghyswllt y darnau Cymraeg sy'n ymddangos yn y gyfrol, a'r cyfieithiadau ohonynt i'r Saesneg, rhaid ystyried y weithred o gyfieithu ynddi'i hun, a'r hyn y mae'n ei amlygu. Noda Maria Tymoczko:

translations form images of whole cultures and peoples [...] images that in turn come to function as reality. When such representations are done for a people themselves, they constitute a means of inventing tradition, inventing the nation, and inventing the self.¹⁴

¹³ Llythyr, dyddiedig 23 Mai 1937, gan T. Gwynn Jones at William Eames, dyfynnwyd yn Jenkins, *Cofiant*, 353.

¹⁴ Maria Tymoczko, *Translation in a Postcolonial Context* (Manchester, 1999), 18.

Y mae'r dyfyniad uchod yn berthnasol nid yn unig i'r astudiaeth ar y cyfieithiadau gan T. Gwynn Jones a geir yn y *Welsh Festival Book*, ond hefyd i'r gyfrol ei hun fel cyfanwaith: onid oes modd synio am y 'Welsh Week at Wembley' ei hun fel 'cyfieithiad', a'r gyfres o gyngherddau yng nghyd-destun ehangach yr Arddangosfa fel modd o ddistyllu a chynrychioli cenedl gyfan? Mae'r gyfrol yn cyflwyno'r cysyniad o Gymru, Gwlad y Gân, a ddaeth yn ddelwedd bwysig yn y 19g. wrth i Gymru geisio adennill ei pharch wedi Brad y Llyfrau Gleision.¹⁵

Un o'r nodweddion a bwysleisir gan gynnwys y *Welsh Festival Book* yw hynafiaeth traddodiad cerddorol a llenyddol y Cymry, a hyn, gellir tybio, er mwyn hawlio parch ymysg y cenedloedd eraill a oedd yn rhan o'r Arddangosfa. 'Majestas Dei' – cyfieithiad T. Gwynn Jones o ddetholiad o'r emyn 'Gogonedauc argluit hanpich guell' o Lyfr Du Caerfyrddin¹⁶ – yw'r gwaith cynharaf yn y gyfrol hon. Nid cyfieithiad i'w ganu ydyw, fodd bynnag, ond yn hytrach gyfieithiad llythrennol o'r geiriau Cymraeg – cyfieithiad at bwrpas cyfeiriol yn unig. Gosodir y cyfieithiad ar ddiwedd y sgôr gerddorol yn y *Welsh Festival Book*, gan ymddangos ar yr olwg gyntaf fel pennill arall, ond wrth graffu'n fanylach, daw'n amlwg nad yw'r nifer o sillafau yn y llinellau Saesneg yn cyfateb i'r gwreiddiol, gan wneud y cyfieithiad bron yn amhosibl ei ganu ar y gosodiad o'r geiriau Cymraeg.¹⁷ Yng nghyswllt yr astudiaeth bresennol, penderfynwyd mai gwell fyddai blaenoriaethu'r cyfieithiadau hynny a wnaeth Gwynn Jones yn benodol ar gyfer cael eu canu, gan mai prin yw'r gofod yma i ymdrin â'r corff eang hwn o waith.

Dau gyfieithiad nodedig yng nghyswllt yr astudiaeth hon yw trosiadau T. Gwynn Jones o ddau gywydd a briodolwyd adeg cyhoeddi'r gyfrol i Ddafydd ap

¹⁵ Gweler Hywel Teifi Edwards, *Codi'r Hen Wlad yn ei Hól 1850-1914* (Llandysul, 1989).

¹⁶ Gweler A. O. H. Jarman (gol.), *Llyfr Du Caerfyrddin* (Caerdydd, 1982), 16.

¹⁷ T. Gwynn Jones, 'Majestas Dei', yn Davies (gol.), *Welsh Festival Book*, 98-104.

Gwilym, sef ‘Y Daran’ ac ‘Y Deildy’. Gwelir yma ymgais gan y bwrdd golygyddol i gynnwys enghreifftiau o un o fesurau hynafol barddoniaeth Gymraeg, gan un o brif feirdd (fel y tybid) y mesur, gan bwysleisio etifeddiaeth ddiwylliannol Cymru. Gosodwyd ‘Y Daran’ fel darn i’w llafarganu (*chant*) gan denor a chôr pedwar llais, gyda chyfeiliant piano. Mae’r cyfeiliant piano (nid oes enw wrth y gerddoriaeth) yn gwneud defnydd o ystod eang nodau’r offeryn, gydag adran ragarweiniol yn llawn rhediadau cyflym i fyny ac i lawr yr allweddell sy’n adlewyrchu’r gwynt a’r glaw yn hyrddio mewn storm o fellt a tharanau. **(Gweler Atodiad IV, Dyfyniad 1.)** Yn erwydd bas y cyfeiliant clywir hanner cwaferi am ran helaeth o’r darn gan greu ymdeimlad o egni di-ball y storm. Gan mai corgan (*chant*) a geir yma, mae rhythmau’r gerddoriaeth yn dilyn y farddoniaeth i raddau helaeth, a’r geiriau, yn hytrach na’r alaw, sy’n cael y flaenoriaeth.¹⁸ Ceir yma ddetholiad o 14 llinell o’r cywydd, a gwelir o’r cyfieithiad fod T. Gwynn Jones, yn hytrach na cheisio arddel ffurf y cywydd yn union, wedi mabwysiadu, yn ddiddorol iawn, batrwm odli soned Betrarchaid, ond gan atgynhyrchu llinellau seithsill y cywydd:

Briskly it broke, fury far
 Loud raging o’er the regions,
 With streaming liquid legions
 And fiery darts, in wild war;
 Red flame the thick flood flouting,
 Fire of ire in spume forspent
 Staring, stunned, trembling I went,
 Dreading the storm fiends’ shouting,
 Round hosts on high a-rumbling,
 World-piled waggons gripped and ground;
 Piercing blasts and hoarse grumbling,
 Shatt’ring showers on each green mound,
 Tumult of mountains tumbling,

¹⁸ John A. Emerson, gyda Jane Bellingham a David Hiley, ‘Plainchant: Style’, yn Stanley Sadie (gol.), *The New Grove Dictionary of Music and Musicians (Second Edition), Volume 19: Paliashvili to Pohle* (London, 2001), 835.

Laughter rude from the welkin round.¹⁹

Dyweddodd H. Idris Bell ‘nad peth mor syml â symud cawgaid o flodau o un ystafell i ystafell arall yw’r gorchwyl o gyfieithu barddoniaeth’²⁰, a diau mai ystyriaeth debyg i hon a sbardunodd Gwynn Jones i ddewis trosi cywydd drwy gyfrwng cyfuniad o ffurf y cywydd a ffurf y soned. Ym 1922, ysgrifennodd Gwynn Jones at W. S. Gwynn Williams yn mynnu nad oedd y Saesneg yn gweddu i rai mesurau Cymraeg – ‘language is not like water’²¹, meddai – a gwelir yn y cyfieithiad o ‘Y Daran’ y meddylfryd hwn ar waith. Mae’r cyfieithiad ei hun yn fedrus, a’r bardd wedi trosi ystyr a naws y darn yn effeithiol. Ceir ymdrech i gyfleu pŵer delweddau’r gwreiddiol, fel yn y llinellau canlynol: ‘Tân aml a dŵr tew’n ymladd’, ‘Red flame the thick flood flouting’; ‘Clywais fry, ciliais o fraw’, ‘Staring, stunned, trembling I went’; ‘Curo glaw ar bob craig las’, ‘Shatt’ring showers on each green mound’.²² Gwelir sut y mae Gwynn Jones hefyd wedi ceisio efelychu rhai o seiniau’r gynghanedd gydag odlau mewnol a chytseiniaid cyfatebol drwy gydol y gwaith – meddylier am linellau megis ‘Tumult of mountains tumbling’ a ‘Loud raging o’er the regions’, er enghraifft.²³

Yn yr un modd, y mae cyfieithiad Gwynn Jones o ‘Y Deildy’, a osodwyd yn y *Welsh Festival Book* ar gyfer unawd tenor a chôr pedwar llais digyfeiliant, hefyd yn cyfleu seiniau’r cynganeddion. Meddylier, er enghraifft, am y cyflythreniad mewn llinellau megis ‘Gold shall gleam in the gloaming’ a ‘Tall the trees, lightly trailing’. Y mae’n werth dyfynnu’r cyfieithiad yn ei gyfanrwydd:

¹⁹ Dienw (Cymraeg), T. Gwynn Jones (Saesneg), Dienw (cerddoriaeth), ‘Y Daran = Thunder’, yn Davies (gol.), *Welsh Festival Book*, 105-10.

²⁰ Bell, ‘T. Gwynn Jones fel Cyfieithydd’, 258.

²¹ Llythyr, dyddiedig 26 Chwefror 1925, gan TGJ at W. S. Gwynn Williams [WSGW], Papurau TGJ, G6217B, LIGC.

²² Dienw, Gwynn Jones a Dienw, ‘Y Daran = Thunder’, 107, 109-10.

²³ *Ibid.*, 109, 105.

When comes May in livery green,
 A-riding thro' the forest,
 I'll fashion an arbour there,
 Made of golden broom for her;
 As of glass, with craft of love
 Merlin once housed his lady,
 Boughs intermingled above,
 Foliage and withies woven
 Gold shall gleam in the gloaming,
 On the grove for sake of her,
 Tall the trees, lightly trailing
 Streamers of gold borne above
 God doth give, fair is the gift,
 Gold showers on the branches,
 Blossoms, fairest of colour,
 Summer's rime on the grove's ridge,
 God's own tent spread above us,
 Cloth of gold hung in the height:
 Angels fair, o'er the bed of May,
 From heav'n above have wrought it!²⁴

Fel y gwelir, yn yr un modd â'r cyfieithiad o 'Y Daran', dewisa Gwynn Jones yn ei drosiad o 'Y Deildy' gyfleu ffurf y cywydd drwy fabwysiadu llinellau o saith sillaf yn y Saesneg. Yn wir, bron na ellir dweud bod y cwpled 'I'll fashion an arbour there,/ Made of golden broom for her', er nad yw'r odl yn gyflawn, yn dwyn i gof odlau cypledol ffurf y cywydd. At hynny, diddorol yw gweld Gwynn Jones hefyd yn arbrofi gyda phatrwm odlau gwahanol o fewn yr un gerdd, gyda 'love' yn llinell 5, er enghraifft, yn odli gyda 'above' yn llinell 7, a 'gloaming' yn llinell 9 yn cydio wrth 'trailing' yn llinell 11, a hefyd 'height' yn llinell 18 yn ymgysylltu â 'it' yn llinell 20.

Cyflwynir y ddau gywydd hyn, ynghyd â'r cyfieithiadau ohonynt, fel pâr o gywyddau canoloesol gan y *Welsh Festival Book*. Mae'r cyferbyniad rhwng y ddau o ran deunydd ac arddull hefyd yn ymestyn i'r gosodiadau cerddorol ohonynt. Fel y gwelwyd uchod, y mae cyfeiliant tymhestlog y piano ar gyfer siant 'Y Daran', gyda'r defnydd helaeth o acenion ac ystod nodau eang y piano, yn cyfleu'n bwerus y storm a

²⁴ Dienw (Cymraeg), T. Gwynn Jones (Saesneg), J. Lloyd Williams (cerddoriaeth), 'Y Deildy = The Arbour', yn Davies (gol.), *Welsh Festival Book*, 111-14.

ddisgrifir gan y geiriau. (**Gweler Atodiad IV, Dyfyniad 1.**) Mae'r gosodiad cerddorol o 'Y Deildy', fodd bynnag, yn arddangos arddull hollol wahanol, a'r sgôr yn gosod pwyslais ar 'delicacy', chwedl y sgôr, y cyfeiliant *a capella* corawl i'r unawdydd tenor. (**Gweler Atodiad IV, Dyfyniad 2.**) Ceir yma felly wrthbwynt trawiadol rhwng y ddau gyfansoddiad, a'r gerddoriaeth yn fodd i bwysleisio'r gwrthgyferbyniad amlwg rhwng y ddau destun.

Y mae cynnwys ail ran y *Welsh Festival Book* mewn trefn gronolegol: wedi dechrau yn y 10g. gyda 'Majestas Dei', a throi ar ôl hynny at gywyddau'r 14g. (fel y tybid ar y pryd), cyflwynir wedyn bum cân gan y cyfansoddwr a'r liwtiwr Elisabethaidd Robert Jones (*fl.*1597-1615).²⁵ Cafodd yrfa lwyddiannus fel cerddor – graddiodd fel Mus.Bac. o Brifysgol Rhydychen²⁶ – gan gyhoeddi pum cyfrol o ganeuon unigol a chyfrol o fadrigalau, ac ym 1601 cyfrannodd fadrigal, 'Fair Oriana seeming to wink at folly' i *The Triumphs of Oriana*, casgliad o ganeuon er mawl i Elisabeth I.²⁷ Honna W. H. Grattan Flood mewn erthygl sy'n gyfoes â'r *Welsh Festival Book*, fod Jones yn Gymro,²⁸ ond, yn ôl David Brown, 'nothing is known of his family'.²⁹ Ystyrir Jones yn rhan o ysgol cyfansoddwyr Seisnig y cyfnod o ran

²⁵ David Brown, 'Jones, Robert (*fl.* 1597-1615)', < <http://0-www.oxforddnb.com.unicat.bangor.ac.uk/view/article/15077?docPos=4>>; cyrchwyd 21 Mawrth 2016. Derbynnir y dyddiadau a gynigir yn y DNB.

²⁶ Ibid.

²⁷ Brown, 'Jones, Robert', < <http://0-www.oxforddnb.com.unicat.bangor.ac.uk/view/article/15077?docPos=4>>; cyrchwyd 21 Mawrth 2016. Diddorol nodi bod T. Gwynn Jones wedi cyfieithu 'The Lady Oriana', cân gan John Wilbye sydd hefyd yn ymddangos yn y casgliad *The Triumphs of Oriana*; gweler T. Gwynn Jones, 'Y Lanaf Oriana' (London, 1924).

²⁸ W. H. Grattan Flood, 'New Light on Late Tudor Composers: XXXV. Robert Jones', *The Musical Times*, 1 Gorffennaf 1928, 616.

²⁹ Brown, 'Jones, Robert', < <http://0-www.oxforddnb.com.unicat.bangor.ac.uk/view/article/15077?docPos=4>>; cyrchwyd 21 Mawrth 2016.

arddull ei gyfansoddiadau, sef ‘ayres’ a madrigaliaid.³⁰ Fel y dywed James Day: ‘the musical forms... adopted by the great Tudor and Jacobean composers were as English as the English language themselves [*sic*]’.³¹ At hyn, cyfeirir ato fel Sais gan ei gyfoeswr Thomas Morley, wrth i’r olaf restru’r unigolion y cyfeiria atynt yn ei draethawd *The Pathway to Musicke*.³² O’r caneuon o eiddo Robert Jones yn y *Welsh Festival Book*, darperir cyfieithiad Cymraeg o’r geiriau Saenseg (dienw) ar gyfer pob un, a T. Gwynn Jones sy’n gyfrifol am y pump: ‘Sweet Kate = Fwynaf Wen’, ‘Sweet, Come Away, My Darling = O, Dere Di’, ‘In Sherwood Lived Stout Robin Hood = Byw yn y Coed ’Roedd Robin Hwd’, ‘Farewell Dear Love = Da Bych Di Byth’ a ‘Joy in Thy Hope = Dal Obaith Mwyn’. Daw’r caneuon hyn o dair o’r pum casgliad a gyhoeddwyd gan Jones, sef *The First Booke of Songes & Ayres* (1600), *A Musicall Dreame* (1609), a *The Muses Gardin for Delights* (1610).³³ Yn ôl Robert Jones ei hun, ar gais amryw ‘gentlemen’ y cyfansoddodd y caneuon hyn, fel y noda yn ei ragymadrodd i’w gyfrol gyntaf o ganeuon:

I confesse I was not vnwilling to embrace the conceits of such gentlemen as were earnest to haue me apparel these ditties for them; which though intended for their priuate recreation, neuer

³⁰ ‘**ayre**. Sillafiad canoloesol Saesneg y gair ‘air’, math o gân Saesneg a ysgrifennid gan Dowland ac eraill, yn llai gwrthbwyntiol na madrigal, yn debycach i gân stroffig, gyda chyfeiliant lleisiol neu offerynnol (fel arfer liwt)’; ‘**madrigal**... cyfansoddiad lleisiol, o darddiad Eidalaid, ar gyfer nifer o leisiau, fel arfer yn ddi-gyfeiliant [*sic*] ond weithiau gyda chyfeiliant offerynnol... Mewnforiwyd y canu madrigalau Eidalaid i Loegr gan gyfansoddwyr Eidalaid fel Ferrabosco yr hynaf a weithiodd yn llys Elizabeth I.’; Delyth Prys, *Geiriadur Cerddoriaeth Rhydychen* (Pen-y-Groes, 1998), 37, 511

³¹ James Day, ‘*Englishness*’ in *Music: from Elizabethan Times to Elgar, Tippett and Britten* (London, 1999) 39.

³² Gweler Morrison Comegys Boyd, *Elizabethan Music and Music Criticism* (Philadelphia, 1962), 242, n. 33.

³³ Robert Jones, *The First Booke of Songes & Ayres* (London, 1600); Robert Jones, *A Musicall Dreame: Or the Fourth Book of Ayres* (London, 1609); Robert Jones, *The Muses Gardin for Delights; or Fifth Book of Ayres* (London, 1610). Cafwyd y testunau uchod i gyd ar Early English Books Online, <www.eebo.chadwyck.com>; cyrchwyd 11 Mawrth 2016.

meaning they should come into the light, were yet content vpon intreaty to make the encouragements of this my first adventure, whereupon I was almost glad to make my small skill knowne to the world.³⁴

Mae'r holl ganeuon o'i eiddo sy'n ymddangos yn y *Welsh Festival Book* yn ymdrin ag agweddau gwahanol ar thema cariad. Mae 'Sweet Kate = Fwynaf Wen' yn gân ysgafn sy'n gwneud hwyl am ben y confensiwn o ddatganiad carwr y bydd yn marw oherwydd cariad: 'Te, he, he, quoth she,/ Gladly would I see/ Any man to die with loving'.³⁵ Amlygir yr elfen gomig erbyn diwedd y gân wrth i Kate ei hun ddatgan mor gyfnewidiol yw rhai dynion mewn cariad – 'their oaths are kept at leisure' – ac awgrymir mai dyma'r rheswm dros ei hanffyddlondeb hithau.³⁶ Gellir dadlau fod testun cyfieithiad T. Gwynn Jones yn pwysleisio'r agwedd hon ar y geiriau wrth ychwanegu ebychnod ar ddiwedd un o'r llinellau, 'Neu mi fyddaf farw'n fuan!'.³⁷ Y mae hyn, o bosib, yn amlygu'r elfen orddramatig sydd i ddatganiad y carwr y mae Kate, neu Gwen, yn ei fychanu'n ddiweddarach. Marw o gariad sydd dan sylw eto yn 'Sweet, Come Away, My Darling = O, Dere Di', ac yn 'In Sherwood Lived Stout Robin Hood = Byw yn y Coed 'Roedd Robin Hwd', defnyddir yr 'heliwr digymharad' i gyflwyno'r syniad bod cariad yn trechu hyd yn oed y person cryfaf.³⁸ Yn 'Joy in Thy Hope = Dal Obaith Mwyn', cadw cariad yn gyfrinach yw'r gamp: os na fydd cariad yn hysbys, ni fydd yn achosi loes.

³⁴ Jones, *The First Booke of Songes & Ayres*, <www.eebo.chadwyck.com>; cyrchwyd 11 Mawrth 2016.

³⁵ Dienw (Saesneg), T. Gwynn Jones (Cymraeg), Robert Jones (cerddoriaeth), 'Sweet Kate = Fwynaf Wen', yn Davies (gol.), *Welsh Festival Book*, 117.

³⁶ Ibid.

³⁷ Ibid., 116.

³⁸ Dienw (Saesneg), T. Gwynn Jones (Cymraeg), Robert Jones (cerddoriaeth), 'In Sherwood Lived Stout Robin Hood = Byw yn y Coed 'Roedd Robin Hwd', yn Davies (gol.), *Welsh Festival Book*, 122.

Ymddengys ‘Farewell Dear Love = Da Bych Di Byth’ yn un o ddramâu Shakespeare, *Twelfth Night*, sy’n cynnwys nifer o gyfeiriadau at ganeuon y cyfnod, a dyfyniadau ohonynt. Yn ôl Winifred Maynard, mae caneuon mor amlwg yn y ddrama hon gan fod Feste, clown y ddrama, yn canu’n aml. Meddai Maynard, ‘The naturalness with which songs spring up from their contexts in *Twelfth Night* is largely due to the presence of Feste, for whom song is as natural a mode of expression as nimble speech’.³⁹ Daw hyn i’r amlwg yn nhrydedd olygfa Act II, lle mae Sir Toby a Sir Andrew yn yfed ac yn gwrando ar Feste yn canu. Y mae Malvolio yn ymddangos i ofyn i’r dynion dawelu, gan ddweud, ‘she [Olivia] is very willing to bid you farewell’ – datganiad sydd, yn ei dro, yn atgoffa Sir Toby a Feste o gân Robert Jones. Y mae geiriau’r gân yn ymddangos fel deialog, gyda Feste yn ateb Sir Toby linell wrth linell:

Sir Toby [sings]: Shall I bid him go?
Feste [sings]: What an if you do?
Sir Toby [sings]: Shall I bid him go, and spare not?
Feste [sings]: O, no, no, no, no, you dare not.⁴⁰

Cymharer yr uchod â’r gwreiddiol:

Shall I bid her go?
 What and if I do?
 Shall I bid her go and spare not?
 Oh no, no, no, no, I dare not.⁴¹

Yn hytrach na chanu i gariad anffyddlon, fel yn y gân wreiddiol, y mae Shakespeare wedi addasu’r geiriau ar gyfer cyd-destun y ddrama, lle mae’r cymeriadau’n cyfeirio at Malvolio, y stiward blin. Yn ôl Maynard, ‘the lute-song has turned into a comic

³⁹ Winifred Maynard, *Elizabethan Lyric Poetry and its Music* (Oxford, 1986), 199.

⁴⁰ Elizabeth Story Donno (gol.), *Twelfth Night, or What You Will* (Cambridge, 2007), 2.iii.93-6, 90.

⁴¹ Dienw (Saesneg), T. Gwynn Jones (Cymraeg), Robert Jones (cerddoriaeth), ‘Farewell Dear Love = Da Bych Di Byth’, yn Davies (gol.), *Welsh Festival Book*, 127-8.

antiphon', sy'n gwneud yr olygfa yn un lwyddiannus iawn: 'a drinking-scene with a difference, piquant and various in its ingredients and multiple in its effects.'⁴² Mae'r ffaith fod cân gan Robert Jones yn ymddangos yn un o ddramâu Shakespeare yn awgrymu poblogrwydd gwaith y cyfansoddwr, gan ddangos hefyd mor Seisnig mewn gwirionedd yw cyd-destun ei waith – ffaith sy'n codi cwestiynau diwylliannol diddorol yn sgil gweld ei waith yn cael ei gynnwys yn y *Welsh Festival Book* dan y pennawd 'Enghreifftiau o Geinciau a Pheroriaeth Gymreig'.⁴³ Diddorol yw nodi'r cysylltiad hwn rhwng cyfieithiad gan T. Gwynn Jones a gwaith Shakespeare yng ngoleuni'r ffaith i'r bardd gyhoeddi cyfieithiad o *Macbeth* ym 1942.⁴⁴ At hyn, y mae'r cysylltiad â Shakespeare yn agwedd a fydd yn ymddangos yn ddiweddarach yn y bennod hon wrth graffu ar gyfieithiadau Gwynn Jones o eiriau caneuon a gyhoeddwyd gan Gwmni Cyhoeddi Gwynn.

Ceir diffyg cysondeb drwy gydol y *Welsh Festival Book* o ran sut y cydnabyddir y cyfranwyr, ac yn achos caneuon Robert Jones a'r cyfieithiadau ohonynt, nodir 'Cyfieithiad, T. Gwynn Jones' ar rai, droeon eraill ceir 'Cyf. T.G.J.', ac mewn un achos, 'Cyfieithiad, yn ôl acennau'r gerddoriaeth, gan T. Gwynn Jones'.⁴⁵ Nodir yr olaf ar sgôr 'Sweet, Come Away, My Darling = O, Dere Di', a diddorol yw cydio hyn wrth sylwadau Walford Davies yn ei ragarweiniad i'r gyfrol ynghylch caneuon y cyfansoddwr hwn:

The time must not be laboured. The rhythm of the words should be followed in individual part although parts may cross each other, and though the accents often fall with the strong word upon the weak part of the bar. These old writers never troubled about

⁴² Maynard, *Elizabethan Lyric Poetry and its Music*, 201.

⁴³ Davies (gol.), *Welsh Festival Book*, 97.

⁴⁴ T. Gwynn Jones, *Tragodia Macbeth Shakespeare* (Llundain, 1942).

⁴⁵ Davies (gol.), *Welsh Festival Book*, 116; 122; 118.

beating time as we understand it. They kept the pulse going, but were free to put accent anywhere. Let us do the same.⁴⁶

Ceir amrywiaeth fawr o ran arddulliau cerddorol yn yr adran ‘Gymreig’ hon o’r *Welsh Festival Book*, sy’n cyfosod darnau adnabyddus Robert Jones â rhai o alawon traddodiadol Cymru. Perthyn nifer o’r darnau hyn i draddodiad y 19g. o gyfansoddi geiriau ar geinciau ac alawon traddodiadol, a chynhwysir yn y gyfrol hon ddarnau gan Talhaiarn a Ceiriog. Yma yr ymddengys hefyd y gweithiau a drafodwyd yn y bennod flaenorol, sef ‘Eryri Wen’ a ‘Breuddwyd Dafydd Rhys’ – geiriau gwreiddiol gan T. Gwynn Jones ar alawon traddodiadol. Ymysg yr enghreifftiau o gyfieithiadau T. Gwynn Jones, gan gynnwys trosiadau o ddau o weithiau Ceiriog (y ‘meistr bychan’, chwedl Saunders Lewis, ar berthynas ‘Y Bardd a’r Cerddor’⁴⁷), sef ‘Hun Gwenllian’ a ‘Nos Galan’. Y mae ‘Hun Gwenllian’ yn hwiangerdd i ferch Llywelyn ap Gruffudd, sy’n cyferbynnu cwsg diniwed plentyn â’r hyn a wyneba ei theulu: ‘Mae’th fron yn ddedwydd, ddedwydd ddydd a nos,/ Ym mÿd [*sic*] y gofid’.⁴⁸ Yn y gerdd wreiddiol disgrifir ‘afal bach melyngoch’ y dywysoges fechan, ‘ei holl o ofal byd’, a ddefnyddir fel symbol o’i diniweidrwydd.⁴⁹ Trosglwyddir y syniad hwn i fersiwn Saesneg Gwynn Jones o’r darn, lle y cyflwynir y ddelwedd o’r ‘tiny toy’ yn hytrach nag afal, ac mae’r tegan yn pwysleisio ymhellach y diniweidrwydd sy’n cyferbynnu’n ingol â’r ‘gad’ yn yr ail bennill.⁵⁰

Mae’r ffaith fod y gân hon yn ymddangos yn y *Welsh Festival Book* yn un arwyddocaol: dyma hwiangerdd i ferch tywysog olaf Cymru, a anfonwyd i leiandy

⁴⁶ Davies, ‘Foreword’, ii.

⁴⁷ Saunders Lewis, *Ceiriog* (Aberystwyth, 1929), 43.

⁴⁸ Ceiriog (Cymraeg), T. Gwynn Jones (Saesneg) *tradd.*, trefn. D. Christmas Williams (cerddoriaeth), ‘Hun Gwenllian = The Sleep of Princess Gwenllian’, yn Davies (gol.), *Welsh Festival Book*, 161.

⁴⁹ Ibid.

⁵⁰ Ibid., 161, 164.

wedi i'w thad gael ei ladd gan luoedd Edward I.⁵¹ Er na cheir unrhyw ddatganiadau gwleidyddol eglur ynghylch methiant ymgyrch Llywelyn yn y gân, mae'r cydymdeimlad â Gwenllian yn amlwg, ac eironig ddigon yw'r disgrifiadau ohoni'n '[g]orffwyso'n ddedwydd [...] gan wenu', heb fod yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd o'i chwmpas na'r hyn sy'n ei disgwyl yn y dyfodol.⁵² Wrth edrych ar y llythyrau gan Walford Davies a'i gynorthwy-ydd personol, E. J. Grutchfield, at Gwynn Jones, prin yw'r wybodaeth ynghylch y broses o ddewis darnau ar gyfer y *Welsh Festival Book*, ond ymddengys o'r ohebiaeth mai cyfieithu'r hyn a roddwyd iddo yn hytrach na dewis ei hun ddarnau i'w cynnwys yn y gyfrol yr oedd T. Gwynn Jones.⁵³ Mae'n debygol felly nad Gwynn Jones a ddewisodd y darn, ac mai gormod fyddai honni mai fel protest, neu ymgais i danseilio'r Prydeindod sydd ynghlwm â'r casgliad hwn o ganeuon, y cynhwyswyd 'Hun Gwenllian'. Ac eto, gellir dweud bod pwyslais y geiriau ar y delweddau o ddiniweidrwydd Gwenllian, merch y Llyw Olaf, yn hytrach na chanolbwyntio ar y brwydro a'r lladd, yn fodd o gyflwyno'r hanes heb gyfeirio'n esblyg at y cysyniadau gwleidyddol a chenedlaethol amlwg sydd ynghlwm.

Agwedd ddiddorol ar 'Hun Gwenllian' fel y'i ceir yn y *Welsh Festival Book* yw trefniant D. Christmas Williams o'r alaw draddodiadol 'Erddigan Hun Gwenllian'⁵⁴: fe'i cyflwynir yn yr arddull thema ac amrywiad ('darn o gerddoriaeth sy'n fersiwn fymryn yn wahanol o dôn adnabyddus'⁵⁵). Ceir datganiad digyfeiliant o'r alaw yn ei chyfanrwydd yn unsain i ddechrau, ac yna ailadroddir y pennill cyntaf, eto'n unsain, ond y tro hwn gyda chyfeiliant, sef 'Variation I'. (**Gweler Atodiad IV**,

⁵¹ John Davies, *Hanes Cymru* (London, 2007), 148-9.

⁵² Ceiriog, Gwynn Jones, *tradd.*, Williams (trefn.), 'Hun Gwenllian = The Sleep of Princess Gwenllian', 164-5.

⁵³ Gweler llythyrau gan H. Walford Davies ac E. J. Grutchfield at TGJ, Papurau TGJ, G996-1013, G1871-97, LIGC.

⁵⁴ Gweler Phyllis Kinney, *Welsh Traditional Music* (Caerdydd, 2011), 137.

⁵⁵ Prys, *Geiriadur Cerddoriaeth Rhydychen*, 864.

Dyfyniadau 3 a 4.) Wrth ganu'r ail bennill, mae'r côr yn rhannu'n bedwar llais, yn ddigyfeiliant eto, a dyma 'Variation II'. (**Gweler Atodiad IV, Dyfyniad 5.**) Yn y pennill cyntaf (y datganiad gwreiddiol a 'Variation I'), pwysleisir ar y sgôr mai lleisiau menywod yn unig sydd i ganu. Ymuna lleisiau'r dynion yn yr ail bennill, neu 'Variation II', sydd o bosib yn gyfeiriad cerddorol at y newid agwedd a geir yng ngeiriau'r pennill hwn, sy'n nodi, 'mae gennyf frodyr yn y gâd,/ Mae'th dad a'i gleddyf wrth ei glun'.⁵⁶ Y mae cyfieithiad T. Gwynn Jones ar y cyfan yn gweddu'n dda i'r gerddoriaeth, ond ceir enghraifft o bwysleisio gair llai pwysig, 'in', yn y llinell, 'Whilst, in thy little bed, thou smilest in repose' yn rhan y soprano a'r alto. (**Gweler Atodiad IV, Dyfyniad 5.**)

Fel rheol, y mae cyfieithiadau T. Gwynn Jones o eiriau caneuon yn llwyddo i drosglwyddo cynnwys y gwaith gwreiddiol gan gadw hefyd, ar y cyfan, at acenion a rhythmau'r gerddoriaeth. Math gwahanol o gyfieithiad ydyw trosiad Gwynn Jones o 'Nos Galan' Ceiriog, fodd bynnag. Lle y gwelwyd enghreifftiau gan Gwynn Jones o gyfieithiadau sy'n glynu'n agos iawn at ystyr lythrennol y darn gwreiddiol linell wrth linell, ceir yn achos 'Nos Galan' drosiad sy'n fwy rhydd yn achos trefn y gwreiddiol. Dyma Gwynn Jones, felly, yn mynd ati i amrywio'i ddull cyfieithu. Egyr cerdd Ceiriog gan ddatgan 'Oer yw'r gŵr sy'n methu caru/ Hen fynyddoedd annwyl Cymru'.⁵⁷ Sonnir am arian yn yr ail bennill, sy'n cynnwys y cyngor, 'Byth na waria fwy na'th ennill'.⁵⁸ Cyfeirir eto at y mynyddoedd yn y pennill olaf, y tro hwn gan adleisio'r llinell gyntaf, 'Oer yw'r eira ar Eryri'.⁵⁹ Cyffelybir yr eira i'r bobl hynny 'na of'alan [*sic*] [...]/ Gwrdd a'u [*sic*] gilydd ar nos Galan', ac fe bwysleisir

⁵⁶ Ceiriog, Gwynn Jones, *tradd.*, Williams (trefn.), 'Hun Gwenllian = The Sleep of Princess Gwenllian', 164.

⁵⁷ Ceiriog (Cymraeg), T. Gwynn Jones (Saesneg), *tradd.* (cerddoriaeth), 'Nos Galan = New Year's Eve', yn Davies (gol.), *Welsh Festival Book*, 179.

⁵⁸ *Ibid.*, 180.

⁵⁹ *Ibid.*, 181.

pwysigrwydd cyfeillion a chwmpeni.⁶⁰ Yn fras, yr un yw neges cyfieithiad T. Gwynn Jones hefyd, ond gwelir ei fod ef, wrth drosi, wedi newid trefn y penillion. ‘The storm on Snowdon’ yw’r ddelwedd gyntaf, yn hytrach na’r ‘Hen fynyddoedd annwyl’, ac ni chyfeirir at y gŵr oer ‘sy’n methu [eu] caru’.⁶¹ Dywed y cyfieithiad yn hytrach mor bwysig ydyw cynnal yr hen draddodiadau: ‘let us sing as sang our fathers [...] He who telleth not their story [...] Knoweth neither love nor glory’.⁶² Ceir cyfeiriad ym mhennill cyntaf y gwreiddiol at y flwyddyn sydd i ddod, a’r sôn am ‘wyliau llawen flwyddyn nesaf’ i’r un sy’n caru mynyddoedd Cymru ‘gynhesaf’.⁶³ Ategir hyn wrth gloi’r fersiwn Saesneg, gan gyflwyno’r ymgynnull i ganu a dathlu’r flwyddyn newydd:

Now another year is coming [...]
Let the ceilings, high and hollow,
Ring, welcome them that follow.⁶⁴

Er na cheir yma gyfieithiad sy’n trosi union ystyr y gwreiddiol, gan nad yw’r cyfieithiad yn dilyn rhediad y geiriau Cymraeg, y mae trosiad T. Gwynn Jones o eiriau Ceiriog yn llwyddo i ddal awyrgylch y gwreiddiol a’i bwyslais ar bwysigrwydd cwmpeini a hynafiaeth traddodiad. Diddorol yma yw’r penderfyniad i gynnwys cyfieithiad Saesneg newydd o’r geiriau Cymraeg ar y gainc hon yn hytrach na’r geiriau Saesneg adnabyddus gan Thomas Oliphant, ‘Deck the hall with boughs of holly’ – a diau fod hyn yn adlewyrchiad o fwriad y *Welsh Festival Book*, sef darparu geiriau newydd a darnau safonol ar gyfer corau Cymru: ‘the desire has been that as many as possible should be used in either language at the will of the various choirs

⁶⁰ Ibid., 182-3.

⁶¹ Ibid., 179.

⁶² Ibid.

⁶³ Ibid., 179-80.

⁶⁴ Ibid., 181-3.

using this book'.⁶⁵ Efallai mai modd o 'gyfieithu' diwylliant a geir yma hefyd: pwysleisir yma'r mynyddoedd a hynafiaeth y traddodiad, yn hytrach na'r celyn a'r medd sy'n flaenllaw yn fersiwn Oliphant.⁶⁶

Yng nghyswllt yr ymgais ymwybodol hon ar ran Walford Davies i geisio hybu cerddoriaeth Gymreig, diddorol yw nodi'r sylw a wnaed yn adolygiad y *Musical Times* ar berfformiadau'r wythnos:

A good deal of Welsh music was heard in this Wembley week, but a good deal also of universal music. In fact it was less the native works, and even less the standard of the performances than the excellence of the foreign music chosen, which distinguished the Festival and promised a better future for musical Wales.⁶⁷

Tair enghraifft o 'universal music' sydd wedi'u cyfieithu gan T. Gwynn Jones yn y *Welsh Festival Book*: cân gan Beethoven, 'Die Ehre Göttes', a'r geiriau Cymraeg, 'Y Nefoedd Sy'n Datgan Clod y Goruchaf', wedi'u cyfieithu gan Gwynn Jones, o Almaeneg C. F. Gellert; 'O Dirion Iesu', cyfieithiad Cymraeg o eiriau Lladin 'O Bone Jesu', y gerddoriaeth gan Palestrina; a darn arall gan Palestrina, gyda geiriau Cymraeg a Saesneg gan Gwynn Jones 'Beauty Eternal = Lendid Tragywydd', wedi'u 'haralleirio' ('paraphrased'⁶⁸). Er bod y *Welsh Festival Book* yn enghraifft gymharol gynnar o T. Gwynn Jones yn cyfieithu geiriau caneuon, rhaid nodi yma ei fod wedi ei sefydlu fel cyfieithydd weithiau nad oeddent yn gysylltiedig â cherddoriaeth ers rhai blynyddoedd: cyhoeddwyd ei 'bennaf camp' ym maes cyfieithu, yn ôl H. Idris Bell, sef cyfieithiad o *Faust* Goethe, ym 1922.⁶⁹

⁶⁵ Walford Davies, 'Foreword', iii.

⁶⁶ Thomas Oliphant, 'New Year's Eve', yn John Thomas (gol.), *The Words of a Collection of Welsh Melodies Arranged by John Thomas* (London, 1860), 18.

⁶⁷ 'C.', 'The Welsh Week at Wembley', *The Musical Times*, 1 Hydref 1924, 936.

⁶⁸ Gweler T. Gwynn Jones (Cymraeg a Saesneg), Palestrina (cerddoriaeth), 'Beauty Eternal = Lendid Tragywydd', yn Davies (gol.), *Welsh Festival Book*, 202.

⁶⁹ Bell, 'T. Gwynn Jones fel Cyfieithydd', 261.

Ni chynhwysir y teitl Cymraeg ar sgôr ‘The Heavens Declare the Creator’s Glory (Die Ehre Gottes)’, ond ceir geiriau Cymraeg ar y sgôr honno, a nodir ‘Cyf. T. G. J.’ uwchben y gerddoriaeth. Diddorol, er hyn, yw nodi mai ‘C. F. Gellert. (tr. U. C. W.)’ a geir ar y sgôr yn achos y cyfieithiad Saesneg. Ni cheir rhestr o’r cyfranwyr yn y *Welsh Festival Book* – ‘The Editor [...] feels that he need hardly set out in detail the names of those authors, translators and arrangers, whose names or initials appear in the course of the book’⁷⁰ – felly amhosib yn y modd hwn yw darganfod pwy oedd yr awdur(on) yn achos y trosiad Saesneg. Yr un tair llythyren, ‘U. C. W.’ – University College of Wales (hynny yw, Coleg Aberystwyth), o bosib – a ymddengys ar gyfer y geiriau Saesneg yn yr ailgyhoeddiad o’r darn yn y cylchgrawn *Y Cerddor* ym 1934.⁷¹ Yno, nodir yn glir fod Gwynn Jones wedi cyfieithu i’r Gymraeg o’r Almaeneg gwreiddiol: ‘Cyfieithiad i’r Cymraeg [*sic*] o’r Ellmyneg gan T. Gwynn [*sic*] Jones’.⁷² Yn achos gwybodaeth T. Gwynn Jones o Almaeneg, y mae gennym dystiolaeth David Jenkins fod y bardd wedi dechrau dysgu’r iaith honno ac wedi ‘ymroi i’w meistroli’ mor gynnar â 1893.⁷³

Gellir bod yn bur sicr, felly, mai o’r Almaeneg y cyfieithodd T. Gwynn Jones y fersiwn Gymraeg o ‘Die Ehre Gottes’ sy’n ymddangos yn y *Welsh Festival Book* yn 1924, yn hytrach nag o’r testun Saesneg gan ‘U. C. W.’. Yn achos yr olaf, tybed ai’r hyn a ddigwyddodd oedd bod Walford Davies, efallai, wedi mynd ar ofyn staff cymwys yn ‘U. C. W.’ (hynny yw, Coleg Aberystwyth) – a allai fod wedi cynnwys T. Gwynn Jones – ar gyfer sicrhau cyfieithiad i’r Saesneg? Yn ddiddorol, cyhoeddodd

⁷⁰ H. Walford Davies, ‘Acknowledgements’, yn Davies (gol.), *Welsh Festival Book*, iv.

⁷¹ Gweler T. Gwynn Jones (Cymraeg) a U. C. W. (Saesneg), Beethoven (cerddoriaeth), ‘Y Nefoedd Sy’n Datgan = The Heavens Declare’, *Y Cerddor*, Ail Gyfres, IV (1934), atodiad, 1-3.

⁷² *Ibid.*, 1.

⁷³ Jenkins, *Cofiant*, 92.

Cwmni Cyhoeddi Gwynn y gân hon, ‘Die Ehre Gottes’, gyda geiriau Cymraeg a Saesneg gan T. Gwynn Jones – ‘Y Cyfieithiadau gan – The Translations by T. Gwynn Jones’ – yn y casgliad *Chwe Chân Glasurol: Six Classical Songs* ym 1943.⁷⁴ Mae’r trosiadau Cymraeg a Saesneg a geir yn *Y Cerddor* yn 1934 yr un peth yn union â’r hyn a geir yn y *Welsh Festival Book* yn 1924. Diddorol yw nodi, er hyn, fod y testunau Cymraeg a Saesneg yn *Chwe Chân Glasurol* yn 1943 yn wahanol i’r hyn a gyhoeddwyd ynghynt. Er enghraifft, yn achos y cyfieithiadau Cymraeg, ‘Y nefoedd sy’n datgan clod y Goruchaf/ A’u seiniau’n adrodd ei Enw Ef’ ac ‘Fe ddaw yn danbaid, gan loywi’r pellterau,/ Fel rhyw bendefig ar ei daith’⁷⁵ a geir yn y *Welsh Festival Book* (ac yn *Y Cerddor*), tra yn *Chwe Chân Glasurol* yr hyn a gawn yw ‘Y nef sy’n datgan gogoniant y Crëwr/ Canmolant hwy ei enw ef’ ac ‘Fe ddaw yn danbaid, gan loywi’n wynebau [*sic*],/ Fel mawr bendefig ar ei daith’.⁷⁶

Wrth graffu ar fersiynau Saesneg 1924 (*Welsh Festival Book*) a 1934 (*Y Cerddor*) ar y naill llaw, a fersiwn Saesneg 1943 (*Chwe Chân Glasurol*) ar y llall, gwelir bod y cyfieithiadau yn bur wahanol. Dyma fersiwn ‘U. C. W.’ (1924, 1934):

The heav’ns declare the Creator’s glory,
 Their sound forth tells his wondrous Name.
 The earth doth praise him, the oceans proclaim him,
 Receive, O man, their god-like word!

Who holds the numberless stars in the heavens?
 Who leadeth forth the flaming sun?
 He comes resplendent, rejoicing afar off,

⁷⁴ T. Gwynn Jones (Cymraeg a Saesneg), Beethoven (cerddoriaeth), ‘Gogoniant Duw = The Glory of God (Die Ehre Gottes)’, W. S. Gwynn Williams (gol.), *Chwe Chân Glasurol* (Llangollen, 1943), 2.

⁷⁵ U. C. W. (Saesneg) a T. Gwynn Jones (Cymraeg), Beethoven (cerddoriaeth), ‘The Heavens Declare the Creator’s Glory’ (Die Ehre Gottes), yn Davies (gol.), *Welsh Festival Book*, 187; Gwynn Jones, U. C. W., Beethoven, ‘Y Nefoedd Sy’n Datgan = The Heavens Declare’, 3.

⁷⁶ Gwynn Jones, Beethoven, ‘Gogoniant Duw = The Glory of God (Die Ehre Gottes)’, 3.

With joy a hero's course to run.⁷⁷

– a dyma fersiwn T. Gwynn Jones (1943):

The heav'ns are telling God's might as Creator,
They all proclaim His wondrous ways;
The earth gives him honour, the oceans glory,
Receive, O men, their god-like praise;
The stars unnumbered, who holds them in order?
Who leads the sun thro' endless space?
He comes resplendent from far as he greets us,
And as a hero runs his race.⁷⁸

Er mor wahanol y maent yn edrych ar yr olwg gyntaf, tybed a oes modd dadlau bod perthynas rhwng y fersiynau Saesneg hyn? Gellir canfod tebygrwydd arwyddocaol yng ngeirfa'r fersiynau: yng nghyhoeddiadau 1924/1934 a 1943 fel ei gilydd ymddengys 'heav'ns' (hynny yw, y ffurf gywasgedig hon), 'resplendent' a 'wondrous'.⁷⁹ Yn achos 'resplendent', yr hyn a geir yn y gwreiddiol yw 'Sie kömmt und *leuchtet* und lacht uns von ferne [*sic*] [fy mhwyslais i].⁸⁰ O blith y nifer o bosibiliadau sydd yn ymgynnig o ran y cyfieithu yn yr achos hwn, y mae'n ddiddorol gweld bod y fersiynau oll yn rhannu'r dehongliad arbennig hwn, 'resplendent'. Yn achos 'wondrous', y llinell berthnasol yn y gwreiddiol yw 'Ihr Schall pflanzt seinen Namen fort', ac, fel y gwelir, nid oes gair sy'n cyfateb i 'wondrous' i'w weld yma. Yn ogystal, yr hyn a geir yn y gwreiddiol yw 'Wer führt die Sonn' aus ihrem Zelt?/'

⁷⁷ U. C. W., Gwynn Jones, Beethoven, 'The Heavens Declare the Creator's Glory' (Die Ehre Gottes)', 186-7.

⁷⁸ Gwynn Jones, Beethoven, 'Gogoniant Duw = The Glory of God (Die Ehre Gottes)', 2-3.

⁷⁹ U. C. W., Gwynn Jones, Beethoven, 'The Heavens Declare the Creator's Glory' (Die Ehre Gottes)', 186-7; Gwynn Jones, U. C. W., Beethoven, 'Y Nefoedd Sy'n Datgan = The Heavens Declare', 1-3; Gwynn Jones, Beethoven 'Gogoniant Duw = The Glory of God (Die Ehre Gottes)', 2-3.

⁸⁰ Christian Fürchtegott Gellert (geiriau), Beethoven (cerddoriaeth), 'Die Ehre Gottes aus der Natur', Helga Lühning (gol.), *Beethoven: Werke. Abteilung XII, Band I: Lieder und Gesänge mit Klavierbegleitung* (München, 1990), 53.

Sie kömmt und leuchtet und lacht uns von ferne [*sic*]', gyda'r 'Sie kömmt' yn cyfeirio ar yr haul, 'die Sonne', sy'n fenywaidd. Yn y ddau gyfieithiad, y mae 'He comes resplendent', yng nghyd-destun y llinellau blaenorol yn y ddau achos, fel petaent yn cyfeirio at y Creawdwr, Duw – tystiolaeth bellach, fe ellid dadlau, fod yna berthynas rhwng trosiad 'U. C. W.' (1924/1934) ac eiddo T. Gwynn Jones (1943).

T. Gwynn Jones yw awdur y trosiad Cymraeg a Saesneg fel ei gilydd o ddarn â cherddoriaeth gan Giovanni Pierluigi da Palestrina, 'Beauty Eternal = Lendid Tragywydd' yn y *Welsh Festival Book*. Mewn llythyr sy'n trafod y gân hon, nodâ E. J. Grutchfield ei fod wedi anfon y sgôr, a oedd yn cynnwys y geiriau Eidaleg gwreiddiol, at T. Gwynn Jones. Dywed Grutchfield wrth Gwynn Jones, 'May I ask you to take care that the pencillings should not get rubbed out? I have made the TSF [tonic sol-fa] agree with all the corrections furnished in pencil but am leaving the stuff till the text is decided on + the pencillings show how the Italian text was presented'.⁸¹ Teg yw tybio, gan fod sol-ffa yn nodiant yr oedd Gwynn Jones yn medru ei ddarllen, ei fod wedi medru ystyried y gosodiad cerddorol wrth gyfieithu'r geiriau hyn. Noda Walford Davies yn ei ragymadrodd i'r *Welsh Festival Book* fod y darn hwn, megis cyfansoddiadau Robert Jones, i'w ganu yn rhydd iawn o ran rhythm:

what was said with regard to accentuation in Robert Jones's works, applies even more forcibly in the case of Palestrina [...] The note values are rendered as given, but the natural accentuation of the words should be observed.⁸²

Yng nghyswllt y dyfyniad hwn, y mae'n werth troi at astudiaethau o gerddoriaeth y cyfnod er mwyn ei esbonio'n llawn. Un rhan annatod o gerddoriaeth cyfnod y Dadeni yw'r hyblygrwydd rhythmig sy'n perthyn iddi, hyblygwrydd sy'n gysylltiedig ag

⁸¹ Llythyr, dyddiedig 10 Ebrill 1924, gan E. J. Grutchfield at TGJ, Papurau TGJ, G1871, LIGC.

⁸² Davies, 'Foreword', yn Davies (gol.), *Welsh Festival Book*, iii.

anghytseinedd a chyseinedd, y testun a osodwyd, yn ogystal â'r gwahaniaethau yn y system nodiant fodern:

The twentieth-century musician's concept of phrasing in the Renaissance era is often limited by an incomplete understanding of sixteenth- and seventeenth-century notation... tempo is not strictly governed by mathematical proportions; amplitude is not directed by the rise and fall of pitches; stress or accentuation of text is not limited to strong and weak syllables of individual words; rhythms are not organized or rebarred into varying patterns according to surmised groupings of textual syllabification. Instead, phrasing of Renaissance polyphony is based on the manipulation of tempo and amplitude in coordination with the functional organisation of consonance and dissonance. Text, aligned with this process according to the oratorical delivery phrases, is delivered over the structural framework of a recurring metrical organization or arrangement.⁸³

Mae gan y llinellau lleisiol unigol o fewn y polyffoni eu patrwm rhythmig eu hunain, sydd, fel y dywed H. K. Andrews, yn dilyn rhythm y geiriau: 'As a rule in Palestrina's work the musical and verbal accentuation fit perfectly; on occasions where they seem at variance, the natural rhythm of the words may be an over-ruling factor in the melodic rhythm of the line.'⁸⁴ Yn yr un modd, fel y dywed Howard Mayer Brown a Louise K. Stein: 'Palestrina scrupulously respected the syntax and accent patterns of the texts he set'.⁸⁵ Mae'r berthynas agos hon rhwng geiriau a cherddoriaeth felly yn gofyn am ofal ychwanegol gan y cyfieithydd o ran ystyried rhythmau'r farddoniaeth wreiddiol wrth iddo greu fersiwn yn yr iaith newydd. Yng nghyswllt hierarchaeth

⁸³ Dennis Shrock, 'Phrasing in the Music of the Renaissance', *The Choral Journal*, Cyf. 35, Rhif 1 (1994), 35.

⁸⁴ H. K. Andrews, *An Introduction to the Technique of Palestrina* (London, 1958), 28-9.

⁸⁵ Howard Mayer Brown a Louise K. Stein, *Music in The Renaissance* (Upper Saddle River, NJ, 1999), 291.

gyfieithu Peter Low, y mae hyn yn blaenoriaethu categorïau ‘Singability’ a ‘Rhythm’, gan olygu efallai fod pwysigrwydd ystyr y geiriau, y ‘Sense’, yn gostwng.⁸⁶

Yn y cyswllt hwn, rhaid yw sylwi ar y ffaith mai aralleiriad – ‘paraphrase’⁸⁷ – yw trosiadau T. Gwynn Jones o’r Eidaleg yn yr achos hwn. Ceir cydnabyddiaeth, felly, fod y ‘Sense’ yn fwy rhydd yn y trosiadau, ac wrth graffu ar yr Eidaleg gwreiddiol, a ddyfynnir yn llawn isod, gwelir un prif wahaniaeth rhyngddi a fersiynau T. Gwynn Jones:

Specchio che fosti sì polito e terso
Sempre, che macchia non ti offese mai;
Se dal dritto sentier lungi e disperso
Fra lascivi pensier il cor lasciavi;
Hor ch’a me torno e da quest’occhi verso
Fiumi di pianto, e i dolorosi guai
De’ miei falli in me veggo alti e profondi,
Pensier mi dona a te grati e giocondi.⁸⁸

Mae’r geiriau gwreiddiol yn cyfarch y ‘specchio’, sef yr Eidaleg ar gyfer drych, gan ddweud mor glir a dilychwin fu’r drych hwnnw bob amser. Wrth ei weld ei hun wedi ei adlewyrchu yn y drych hwnnw, y mae’r adroddwr yn ystyried ei gyflwr moesol ei hun, yn wylo afonydd o dagrau o achos ei ‘lascivi pensier’ (meddyliau anllad), ac yn dweud fod y camgymeriadau a wnaeth yn achosi poenau ‘profondi’ (dyfnion) iddo. Er hyn, mae’r drych yn rhoddi i’r adroddwr feddyliau ‘a te’ (‘amdanat’) sydd yn hyfryd a hapus.⁸⁹ Mae’r fadrigal hon yn un o fadrigalau crefyddol Palestrina, ac felly gwelir bod yr adroddwr yn gweld tebygrwydd rhwng y drych, sydd mor lân, a Duw, a’r cariad y mae’n ei drosglwyddo i ddynol-ryw. Mae’r defnydd o’r ail berson yn y llinell

⁸⁶ Gweler y drafodaeth lawn ar theori Peter Low yn yr Arolwg o’r Maes, 40-43.

⁸⁷ Gwynn Jones, Palestrina, ‘Beauty Eternal = Lendid Tragwydd’, 202.

⁸⁸ Dienw (geiriau), Palestrina (cerddoriaeth), ‘Specchio che fosti sì polito e terso’, *Giovanni Pierluigi da Palestrina: The Complete Works (Volume 52: Sacred Madrigals for 5 Voices)* (New York, 1957), iv, 54-7.

⁸⁹ Dymunir diolch yn arbennig i Caterina Magri a Cian Llywelyn am eu cyfieithiadau a’u nodiadau ar y testun gwreiddiol.

glo ('a te') yn ddiau yn gyfarchiad i ffigwr crefyddol: Duw neu'r Forwyn Fair, efallai. Mae'r ddelwedd o'r drych yn un effeithiol, yn enwedig gan ei bod yn gweithredu ar lefel ddeublyg: ar y naill law y mae'r drych yn fodd llythrennol i'r pechadur ei weld ei hun, ond ar y llall gellir hefyd ystyried y drych fel symbol am burdeb cariad Duw, ac felly yn fodd i'r meidrolyn archwilio camweddau ei orffennol.

Y mae T. Gwynn Jones, fodd bynnag, yn ei aralleiriadau o'r geiriau hyn, wedi hepgor delwedd y drych o'r ddwy fersiwn a gynhyrchodd. Mae'r neges greiddiol, am brydferthwch, pechod, tristwch, a gobaith i gloi, i'w canfod yn y geiriau Cymraeg a'r Saesneg fel ei gilydd, ond ni cheir unrhyw gyfeiriad at y drych o gwbl. Cysyniad o brydferthwch mwy cyffredinol – 'Beauty eternal', 'Lendid tragywydd' – sy'n cael ei greu yn aralleiriadau T. Gwynn Jones, ac fe siaredir â'r prydferthwch hwn – sy'n medru cael ei ystyried, yng nghyd-destun ehangach yr adran grefyddol y mae'n rhan ohoni yn y *Welsh Festival Book*, fel symbol o Dduw – drwy gydol y darn: 'Yet methou showest virtue higher, profounder,/ Beauty and joy ever dwell in thy brightness', 'Ynot gwelaf uchter [*sic*] a dyfnder,/ Gwelaf lawenydd glân byth yn dy lyfnder'.⁹⁰ Rhaid nodi hefyd mai 'virtue' y prydferthwch sy'n uchel a dwfn yn aralleiriad T. Gwynn Jones, yn hytrach na'r loes a brofa'r adroddwr yn yr Eidaleg gwreiddiol wrth iddo ystyried ei bechodau. Mae'r 'Sense', chwedl Low, a drosglwyddir gan fersiynau Cymraeg a Saesneg T. Gwynn Jones o'r testun Eidaleg ychydig yn wahanol, felly, i'r gwreiddiol, ond gwelir bod gan y tri darn yr un neges yn ei hanfod: bod modd i bechaduriaid ganfod hapusrwydd a chysur yng nghariad Duw. Mae'r aralleiriadau hyn gan T. Gwynn Jones yn enghraifft dda o hyblygrwydd theori Peter Low ar waith, sy'n galluogi gwyrriad oddi wrth union ystyr y testun gwreiddiol er mwyn sicrhau y bydd y

⁹⁰ Gwynn Jones, Palestrina, 'Beauty Eternal = Lendid Tragywydd', 206-7.

fersiwn newydd yn gweddu i'r gerddoriaeth, sef agwedd bwysicaf cyfieithu (neu aralleirio) geiriau caneuon.

Yn ôl Walford Davies: 'We are fortunate in Professor Gwynn Jones's translation of the Palestrina motet, for he seems to carry out in his Welsh and English the very essence of Palestrina's eloquent intention prompted by the original text'.⁹¹ Un agwedd ar y testun gwreiddiol y mae Gwynn Jones wedi ei throsi yn llwyddiannus i'r Gymraeg yw'r patrwm odli. Yn y gwreiddiol, ceir y patrwm ABABABCC, gydag odlau dwbl megis 'terso', 'disperso' a 'verso'.⁹² Mae'r patrwm odli yn ei gyfanrwydd, ynghyd â'r odlau dwbl, wedi ei atgynhyrchu yn fersiwn Gymraeg T. Gwynn Jones, a ddyfynnir yn llawn isod:

Lendid tragywydd, sy ddisgleiried a glaned
Bythoedd, na allai dim dy bylu di
Os o lwybyr y gwir, daw i'm gwahaned,
Drwy feddyliau amhûr fy mynwes i;
Wylo'r wyf weithian o'm gweld fy hun druaned,
Ddagrau o alar, â dwys dolurus gri
Er fy mai, ynof gwelaf uchter a dyfnder
Gwelaf lawenydd glân byth yn dy lyfnder.⁹³

Amlygir cywreinder crefft cyfieithu T. Gwynn Jones yn y testun uchod, wrth lwyddo i warchod y patrwm odli yn ei gyflawnder, gan ar yr un pryd gadw, yn gyffredinol, fel y dangoswyd uchod, at ystyr y gwaith gwreiddiol. Yn hierarchiaeth Peter Low, daw 'Rhyme' ar waelod y rhestr, ond gwelir yma fod modd cael trosiad gweddol ffyddlon sydd hefyd yn diogelu'r patrwm odli gwreiddiol. Yn wahanol i'r Gymraeg, ni chadwyd at unrhyw batrwm odli ffurfiol yn y trosiad Saesneg.

Ymysg y darnau a ymddengys yn nhrydedd ran y *Welsh Festival Book*, ceir hefyd gyfieithiadau gan Gwynn Jones i'r Saesneg o emynau Cymraeg: 'O! Cenwch

⁹¹ Davies, 'Foreword', yn Davies (gol.), *Welsh Festival Book*, iii.

⁹² Dienw, Palestrina, 'Specchio che fosti sì politico e terso', iv.

⁹³ Gwynn Jones, Palestrina, 'Beauty Eternal = Lendid Tragywydd', 202-7.

fawl i Brynwr byd' gan Emrys (William Ambrose), ac 'O Dduw, rho im dy Ysbryd' gan Dafydd William. Dim ond un pennill sy'n ymddangos yn y gyfrol yn y ddau achos, gyda chyfieithiadau Saesneg T. Gwynn Jones wedi'u cynnwys yn gyfochrog â'r gwreiddiol. Cyfieithiadau i'w canu yw'r rhain eto, a gwelir enghraifft, yng nghyfieithiad Gwynn Jones o 'O! Cenwch fawl i Brynwr byd', o'r modd y mae'n rhaid gosod pwyslais ac acenion y gerddoriaeth yn uwch nag agweddau eraill yn yr hierarchaeth wrth gyfieithu geiriau caneuon. Mae'r 'Sense' yn cael ei drosi'n agos, ond un o nodweddion effeithiol pennill Emrys yw'r odlau mewnol sy'n rhedeg drwyddo: 'Mae'r engyl pur mewn nefol iaith/ Yn hoffi'r gwaith o'i foli'.⁹⁴ Ni cheir ymgais gan T. Gwynn Jones i ail-greu'r patrwm odli yn ei gyfanrwydd – ni chais atgynhyrchu'r odlau mewnol hynny gan Emrys – ond y mae diwedd y llinellau yn nhrosiad Gwynn Jones yn dilyn yr un patrwm odli â'r gwreiddiol: 'byrth gogoniant [...] mewn moliant', 'everlasting glory [...] ever wondrous story'.⁹⁵ Y mae hyn yn ein hatgoffa o sylw Peter Low ynghylch odli wrth iddo amlinellu ei bum categori fel rhan o'r 'gamp' o gyfieithu: 'Applying the Pentathlon Principle [...] may mean saying: "Yes, I will have some rhyme. But I will seek some margin of flexibility'.⁹⁶ Dyma'n union, felly, a wna Gwynn Jones drwy gadw'r odl ar ddiwedd y llinellau ond gan hepgor yr odl fewnol, gan olygu bod mwy o ryddid o ran yr agweddau eraill y mae'n rhaid eu hystyried wrth drosi geiriau cân.⁹⁷ Y mae'n werth nodi yma mai tra phosibl

⁹⁴ Emrys (Cymraeg), T. Gwynn Jones (Saesneg), David Emlyn Evans (cerddoriaeth), 'O! Cenwch Fawl i Brynwr Byd = O! Praise the Saviour of the World', yn Davies (gol.), *Welsh Festival Book*, 215.

⁹⁵ Ibid.

⁹⁶ Peter Low, 'The Pentathlon Approach to Translating Songs', yn Dinda L. Gorlée (gol.), *Song and Significance: Virtues and Vices of Vocal Translation* (Amsterdam, 2005), 199.

⁹⁷ Diddorol nodi nad yng nghyd-destun cerddorol yn unig y mae Gwynn Jones yn addasu patrwm odli'r testun gwreiddiol, fel y nodwyd gan Llŷr Gwyn Lewis yn ei drafodaeth o gyfieithiadau T. Gwynn Jones o farddoniaeth Wyddeleg: Llŷr Gwyn Lewis, 'Cyfieithiadau T. Gwynn Jones a Tadhg Ó Donnchadha o Farddoniaeth

ydyw y byddai T. Gwynn Jones yn gyfarwydd â cherddoriaeth yr emynau hyn yr oedd yn eu cyfieithu.

Y mae'r chwe emyn a gynhwysir yn nhrydedd ran y *Welsh Festival Book* i'w canu ar donau Cymreig: 'Vaenol', 'William', 'Joanna', 'Crugybar', 'Caer Llyngoed' a 'Llanfair'.⁹⁸ Y mae'r rhain naill ai'n addasiadau o geinciau traddodiadol, neu wedi'u cyfansoddi gan gyfansoddwyr Cymreig, megis yn achos 'William' gan Morfydd Llwyn Owen. Gwelir yn yr adran hon, felly, ymgais ar ran y golygydd i osod cerddoriaeth grefyddol Gymreig gyfysgwydd â gweithiau Ewropeaidd mawrion gan gyfansoddwyr megis Beethoven, Mendelssohn a Palestrina. Wrth ystyried y cysyniad o gyfieithu fel modd o hybu delwedd neu syniad arbennig o genedl, a'r *Welsh Festival Book* fel detholiad honedig gynrychioladol o Gymru, hawdd yw gweld bwriad y golygydd yn y fan hon yng nghyswllt crefydd y Cymry. Pwysleisiwyd hynafiaeth llenyddiaeth y Cymry drwy gyfrwng yr emyn o Lyfr Du Caerfyrddin a'r cywyddau canoloesol; cafwyd dehongliad Ceiriog o draddodiadau hanesyddol a diwylliannol Cymru; nodwyd cysylltiad y wlad â cherddor adnabyddus a oedd yn ffyddlon i Goron Lloegr drwy gyfrwng caneuon Robert Jones; a chynrychiolwyd y traddodiad Anghydffurfiol byw yn achos yr emynau a'r tonau. Yn fyr, ceir yn y *Welsh Festival Book* atgyfnerthiad o ddelwedd 'Cymru lân, Cymru lonydd': y genedl barchus, gerddorol, grefyddgar a theyrngar.⁹⁹

Yr oedd Walford Davies yn gweld ei rôl fel Cadeirydd y Cyngor Cerddoriaeth Cenedlaethol – sefydliad a ariannwyd yn bennaf gan Brifysgol Cymru, gyda rhoddion gan gyfranwyr unigol a chyrrff cyhoeddus¹⁰⁰ – fel modd o gyfrannu, yng ngeiriau H.

Gymraeg a Gwyddeleg', Tudur Hallam ac Angharad Price (goln), *Ysgrifau Beirniadol XXXIII* (Bethesda, 2014), 30-1.

⁹⁸ Gweler Davies (gol.), *Welsh Festival Book*, 215-20.

⁹⁹ Gweler, er enghraifft, Edwards, *Codi'r Hen Wlad yn ei Hól*, 6.

¹⁰⁰ Gweler Allsobrook, *Music for Wales*, 2.

G. Ley, at 'the musical enlightenment of the Principality'.¹⁰¹ Dyma, yn y 'Welsh Week at Wembley', gyfle iddo arddangos canlyniad ei ymdrechion ar lwyfan Prydeinig, fel y noda ei gofiannydd, H. C. Colles:

The Wembley Week (August 25-30) put the crown on the first stage of Walford's Welsh labours. His five years of groping experiment issued here in a tangible result.¹⁰²

Yn ei astudiaeth ar Walford Davies a'r Cyngor Cerddoriaeth Cenedlaethol, cyfeiria David Ian Allsobrook at yr wythnos honno fel 'greatest single public festival achievement' Walford Davies.¹⁰³ Un o ganlyniadau eraill gwaith Walford Davies gyda'r Cyngor oedd cael ei apwyntio'n Master of the King's Musick ym 1934.¹⁰⁴ 'his services received a fitting reward', yn ôl ei gyfaill C. L. Graves.¹⁰⁵ Trafodwyd eisoes sut y mae modd ystyried y *Welsh Festival Book* ei hun fel ymgais i gyflwyno delwedd o Gymru, a diddorol yw cyfod hynny â pherthynas Walford Davies â'r sefydliad Prydeinig. Gellid dadlau ei fod wedi ceisio creu'r ddelwedd ddelfrydoledig o Gymru, Gwlad y Gân, fel modd o gyflwyno ffrwyth ei waith fel Cadeirydd y Cyngor Cerddoriaeth Cenedlaethol. Yn hynny o beth, rhaid cydanbod bod cyfraniad sylweddol T. Gwynn Jones i'r gyfrol hon drwy gyfrwng darnau gwreiddiol a chyfieithiadau yn sicr wedi bod yn gyfrwng i drosglwyddo'r neges honno i'r gynulleidfa.

¹⁰¹ H. G. Ley, 'Davies, Sir (Henry) Walford (1869-1941)', *Oxford National Dictionary of Biography Archive*, <<http://www.oxforddnb.com/view/olddnb/32738>>; cyrchwyd 18 Mawrth, 2016.

¹⁰² Colles, *Walford Davies*, 129.

¹⁰³ Allsobrook, *Music for Wales*, 123.

¹⁰⁴ Colles, *Walford Davies*, 179.

¹⁰⁵ C. L. Graves, dyfynnwyd yn Colles, *Walford Davies*, 157.

Emynau Mynyw (1938)

Gwelwyd eisoes T. Gwynn Jones yn mynd i'r afael â chysyniadau crefyddol yn ei gyfieithiadau o ddarnau crefyddol sy'n ymddangos yn y *Welsh Festival Book*. Byddir yn troi'n awr i fynd i'r afael â'r agwedd hon ymhellach, ac ystyried casgliad o gyfieithiadau o emynau gan Gwynn Jones. Ni ellir trafod gwaith T. Gwynn Jones yng nghyswllt crefydd heb fwrw golwg ar ei waith cyfieithu yn y cyswllt hwn. Ceir amryw drafodaethau beirniadol ar grefydd yng ngwaith T. Gwynn Jones, megis ysgrif D. Miall Edwards ar 'Ddysgeidiaeth yr Athro T. Gwynn Jones' yn ôl cynnwys *Manion* ym 1933, ac ymdriniaeth Glyn M. Ashton â'r bardd fel un o 'Ein Didduw Brydyddion' mewn erthygl yn *Diwinyddiaeth* ym 1970.¹⁰⁶ Y mae Pennar Davies yn cysegru pennod gyfan i'r bardd yn y gyfrol *Y Brenin Alltud* (1974), ac â Gwilym R. Tilsley i'r afael â gwaith Gwynn Jones yn *Crefydd y Beirdd* (1977). Y mae Tilsley'n cloi ei drafodaeth ar waith y bardd gan ddod i'r casgliad y gellir synio amdano fel 'Agnostig Cristnogol': 'Diau iddo gael [...] [c]yfnodau o ansicrwydd ac amheuaeth [...] ni allodd weld yn glir bod yr Efengyl Gristionogol yn ateb i holl broblemau'r byd'.¹⁰⁷ Anodd yw cytuno'n gyfan gwbl â'r datganiad hwn: er iddo'n wir brofi cyfnodau o amheuaeth, ceir nifer o enghreifftiau o'r bardd yn arddel ei ffydd yn Nuw ac yn Iesu Grist yn ei farddoniaeth a'i ryddiaith. Un o'r enghreifftiau mwyaf eglur, efallai, yw ysgrif a gyhoeddwyd yn y cyfnodolyn heddychol-grefyddol *Y Deyrnas* ym 1918, 'Dyn a'r Dyn Arall', a ailgyhoeddwyd yn y gyfrol *Beirniadaeth a Myfyrdod* ym 1935. Mae'r ysgrif, sy'n adleisio syniadaeth ei gerdd 'Y Trydydd' (1915),¹⁰⁸ yn cloi â datganiad cadarnhaol o ffydd:

¹⁰⁶ D. Miall Edwards, 'Dysgeidiaeth yr Athro T. Gwynn Jones', *Y Llenor* (Gwanwyn, 1933), 11-22; Glyn M. Ashton, 'Ein Didduw Brydyddion', *Diwinyddiaeth*, XXI (1970), 31-41.

¹⁰⁷ G. R. Tilsley, *Crefydd y Beirdd* (Abertawe, 1977), 15.

¹⁰⁸ T. Gwynn Jones, 'Y Trydydd', yn *Caniadau* (Wrecsam, 1934), 129-34.

Dysgeidiaeth Crist yw'r unig beth ymarferol yn y byd, ac y mae bywyd yn amhosibl heb yr ymfeistrolaeth a ddysgai ef. Diau na byddwn byth yn berffaith. Nid yw hynny reswm paham na ddylem geisio bod.

Dichon bod y gŵr arall ar gam neu ei fod yn iawn. Dichon ein bod ni yn iawn neu ar gam. Ond nid yw Iawnder ynddo ei hun nag [*sic*] ynddo ef na ninnau, ac ni ellir dynesu gam tuag at Iawnder cyhyd ag na bo gais i ddeall a dyfod o hyd i dir cyffredin. Y mae a wnêl tri â phosibilrwydd bod yn iawn – Dyn, y Dyn arall, a Duw. Pan gytuno'r deuddyn i edrych ar y Trydydd, daw'r Iawn. Ac ni ddihengir rhag hyn byth.¹⁰⁹

Ceir cyfraniadau eraill gan Gwynn Jones yn *Y Deyrnas*, yn cynnwys yr ysgrifau 'Gwladwriaeth a Chydwybod' a 'Cenedligrwydd' – y naill yn trafod crefydd ac Anghydfurfiaeth yng nghyd-destun ymddygiad a chredoau gweinidogion yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, a'r llall, yn dra amserol, yn mynd i'r afael â'r syniad o genedl mewn cyd-destun rhyngwladol: 'Pa mor genhedlig bynnag y ceisio cenedl fod; pa furiau bynnag a gyfodo o'i chwmpas ei hun, ni phaid hi â bod yn rhan o ddynoliaeth'.¹¹⁰ Ceir hefyd, yn ddiddorol iawn, ddarn o ryddiaith yn dwyn y teitl 'Tangnefedd' lle mae'r adroddwr yn rhodio drwy fan tywyll a niwlog er mwyn cyrraedd tangnefedd, gyda ffigwr arallfydol sanctaidd wrth ei ochr yn ei gynnal o hyd, a cherdd o'r enw 'Lux Mundi' lle mae'r adroddwr yn edifarhau na throdd at Dduw ynghynt:

Pe gwelw'n nad oes ond dy gaeth yn rhydd,
A bod fy nyfod i'th Dangnefedd Di,
Heddyw, ni bawn, â chalon ysig, brudd,
Yn cynnyg ger dy fron ddrylliau yr hyn fum i.¹¹¹

Pwysleisia Arthur ap Gwynn fod 'crefydd bersonol' yn 'beth mawr' ym mywyd T. Gwynn Jones, er iddo ddweud hefyd na 'dderbyniodd erioed yn ei grynswth

¹⁰⁹ T. Gwynn Jones, *Beirniadaeth a Myfyrdod* (Wrecsam, 1935), 146.

¹¹⁰ T. Gwynn Jones, 'Cenedligrwydd (Ysgrif 1)', *Y Deyrnas*, 6 (Mawrth 1917), 4.

¹¹¹ T. Gwynn Jones, 'Lux Mundi', *Y Deyrnas*, 5 (Chwefror 1917), 5.

awdurdod un Eglwys'.¹¹² Dyma agwedd a ategir gan David Jenkins yn y *Cofiant* wrth iddo gyfeirio at ysgrif Gwynn Jones o 1903, 'Credoau a Chyffesion Enwadol: ai rhaid wrthynt?'.¹¹³ Cefnogir y safbwynt hwn ynghylch y 'grefydd bersonol' gan ddarnau a ysgrifennwyd gan T. Gwynn Jones ei hun, megis y dyddiadur anghyhoeddedig a gadwodd yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, 'Diary of a Pacifist'. Yno meddai: 'Many years ago, I ceased being a church member, because I could not conscientiously profess to believe what was expected of me'.¹¹⁴ Yn yr un modd, ymysg llawysgrifau'r bardd ceir nodiadau darlith ar y testun 'Belief', lle y dywedir: 'One wonders after all whether Belief is necessary – uniformity of Belief, at any rate, seems impossible'.¹¹⁵ Nid oedd gan Gwynn Jones ddiddordeb yn y cecru rhwng enwadau a'r anghytuno ynghylch pwyntiau manwl diwinyddiaeth, ond yr oedd y 'grefydd bersonol' honno y cyfeiria Arthur ap Gwynn ati yn greiddiol i'w hunaniaeth a'i waith, fel y nododd Y Parch. D. James Jones: 'Gwnâi ei ymdeimlad o gysegredigrwydd bywyd ef bob amser yn wylaidd ac addolgar ei ysbryd, a gall blygu'n ostyngedig mewn cyffes ddwys am ddrwg y byd, gan gydnabod yr un a oedd yn Ben ar y cwbl, sef "Ffynnon pob ffydd, Iôr tragywydd, trugarog"'.¹¹⁶ Er y ceir elfennau o ddadrith, agnostigiaeth a chwerwedd yng ngwaith Gwynn Jones, ni cholodd y bardd erioed ei ffydd bersonol, fel y dywed Pennar Davies: 'Y mae dadrithiad a diflastod yn Gwynn Jones, dadrithiad am fateroldeb ein gwareiddiad a diflastod ar ragrith yr eglwysi; ond nid dadrithiad am Dduw, nid diflastod at Grist'.¹¹⁷

¹¹² Arthur ap Gwynn, 'T. Gwynn Jones', yn ap Gwilym (gol.), *Cyfres y Meistri*, 55-6.

¹¹³ Jenkins, *Cofiant*, 140.

¹¹⁴ T. Gwynn Jones, 'Diary of a Pacifist' Papurau TGJ, D293, LIGC.

¹¹⁵ T. Gwynn Jones, 'Belief' (nodiadau darlith), Papurau TGJ, D349, LIGC.

¹¹⁶ D. James Jones, 'Crefydd Cymru a'i Beirdd: 1900-1955', *Y Traethodydd*, XXVIII (1960), 167.

¹¹⁷ Pennar Davies, *Y Brenin Alltud* (Llandybïe, 1974), 77.

Er gwaethaf ymwrthodiad T. Gwynn Jones ag enwadau penodol, cymerai ddiddordeb mawr mewn Catholigiaeth yn arbennig. Dywedodd mewn un llythyr ym 1927, ‘Pe cawn i fod yn Gatholig heb gredo pendant, dyna fyddwn’, a bu’n llythyru gydag offeiriad o’r Eglwys Gatholig, y Tad McGrath, yn gyson.¹¹⁸ Nid yw llythyrau Gwynn Jones at McGrath wedi goroesi, a dichon, fel y noda David Jenkins, fod trafodaeth ddiffuant ac agored T. Gwynn Jones ar grefydd wedi’i cholli o’r herwydd.¹¹⁹ Mewn ysgrif o 1938 yn sôn am emyn a gyfieithodd, ‘Pêr fydd dy gofio, Iesu da’, noda Gwynn Jones ei fod ‘yn hoff o lawer o emynau, ac yn hoffach bellach nag y byddwn gynt’.¹²⁰ Dywed yma hefyd na fu ‘yn ddigon hy i lunio un emyn fy hun’ (ym 1939 y cyfansoddwyd ‘Emyn Gosber’, ei unig emyn gwreiddiol), ac ‘mai ar gais rhywun arall y trosais amryw emynau o ieithoedd eraill i’r Gymraeg o bryd i bryd’.¹²¹ Y mae’r prif gasgliad o gyfieithiadau T. Gwynn Jones o emynau, *Emynau Mynyw*, yn ddetholiad o emynau Catholig yn yr iaith Gymraeg. Cyhoeddwyd y gyfrol gan Hughes a’i Fab ym 1938, ac mae’n cynnwys trosiadau gan Gwynn Jones a Saunders Lewis, yn ogystal â dau emyn Catholig o’r traddodiad llafar Cymreig wedi’u cyfrannu gan Mrs. Myra Evans.¹²² Ni cheir unrhyw gerddoriaeth yn *Emynau Mynyw*, nac ychwaith unrhyw fanylion am emyn-donau i gyd-fynd â’r geiriau. Rhaid felly gydnabod natur wahanol y darnau a ymddengys yn *Emynau Mynyw*, o gymharu â’r cyfieithiadau a ymddengys yn y cyfrolau eraill a drafodir yn y bennod hon. Nid oes tystiolaeth ar gael i oleuo beth yn union oedd dull T. Gwynn Jones mewn perthynas â cherddoriaeth wrth fynd ati i gyfieithu yn achos *Emynau Mynyw* – ac ni

¹¹⁸ Jenkins, *Cofiant*, 286, 316-21.

¹¹⁹ *Ibid.*, 321.

¹²⁰ T. Gwynn Jones, ‘Stori’r Emynau: “Pêr Fydd Dy Gofio, Iesu Da”’, *Trysorfa y Plant* (1938), 145.

¹²¹ *Ibid.*

¹²² Cynhwysir cyfieithiadau Saunders Lewis, ‘Ave Maris Stella’, ‘Ave Verum Corpus’, ‘Tamtum Ergo’ ac ‘Ave Regina Caelorum’, hefyd yn R. Geraint Gruffydd (gol.), *Cerddi Saunders Lewis* (Caerdydd, 1992), 60-3, 80-1.

cheir unrhyw gyfeiriad at donau'r emynau hyn yn y Rhagair i'r gyfrol. Tybed a ellir awgrymu nad oedd Gwynn Jones yn ystyried pwysigrwydd y gerddoriaeth i'r fath raddau wrth fynd ati i'w trosi? O ganlyniad i'r diffyg cerddoriaeth yn y gyfrol, ni fyddir yn canolbwyntio mewn cymaint o fanylder ar gyfieithiadau *Emynau Mynyw* yn achos dylanwad y gerddoriaeth ar y geiriau. Wedi dweud hyn, ni ellir anwybyddu cerddoriaeth ychwaith wrth ymdrin â'r gyfrol, gan mai darnau i'w canu yw'r holl emynau yn eu ffurfiau gwreiddiol, ac er, efallai, nad oedd Gwynn Jones yn ystyried pwyslais y gerddoriaeth a rhythmau'r alawon wrth drosi'r emynau hyn, gwelir ei fod wedi gwneud ymdrech i gadw at fesurau'r darnau gwreiddiol. Yn achos *Emynau Mynyw*, gellir synio am gerddoriaeth fel presenoldeb cefndirol – agwedd sydd yn rhan annatod o fodolaeth y darnau gwreiddiol, ond nad ydyw'n chwarae rhan mor flaenllaw yn achos y cyfieithiadau o gymharu â chyfieithiadau eraill o eiriau caneuon a archwilir yn y bennod hon.

Tyn y Rhagair sylw penodol at y cyfieithiadau yn y gyfrol o emynau Lladin: 'dymunir diolch [...] I'r Dr. T. Gwynn Jones [...] Ceir gweled ynddo [y casgliad] ei gamp ddigymar wrth drosi'r hen emynau Lladin heb gollu na'u mawredd na'u meddwl miniog'.¹²³ Er y ceir nifer o gyfieithiadau o ddarnau Lladin, megis y garol 'Adeste Fideles' a'r weddi 'Anima Christi', ymddengys yma gyfieithiadau gan T. Gwynn Jones o emynau Saesneg gwreiddiol hefyd, megis 'Sweet Sacrament Divine' a 'Little King so fair and sweet'.¹²⁴ Emyn arall a geir yn y gyfrol yw trosiad T. Gwynn Jones o 'Faith of Our Fathers', emyn Saesneg a gyfansoddwyd gan Frederick William Faber (1814-1863), ac fe'i cyhoeddwyd gyntaf ym 1849.¹²⁵ Mae'r darn yn sôn am ferthyron

¹²³ Ffransis, Archesgob Caerdydd, a Mihangel, Esgob Mynyw, 'Rhagair', *Emynau Mynyw* (Wrecsam, 1938), 1.

¹²⁴ Gweler Cardinal Bourne (gol.), *Daily Hymn Book*, (London, 1931), 42, 162.

¹²⁵ Kenneth W. Osbeck, *101 Hymn Stories* (Michigan, 1982), 71-2.

Catholig yn ystod teyrnasiad Harri VIII:¹²⁶ ‘In spite of dungeon, fire and sword [...] Our Fathers, chained in prison dark’.¹²⁷ Clodforir aberth y merthyron, gan ei gyflwyno fel uchelgais: ‘How sweet would be their children’s fate,/ If they, like them, could die for thee’.¹²⁸ Pwysleisia’r geiriau ffyddlondeb at Gatholigiaeth, a’r gred y daw ei dydd drachefn yn Lloegr gan gynnig achubiaeth i’r bobl: ‘Mary’s prayers/ Shall win our country back to thee [...] England shall then indeed be free’.¹²⁹ Amlygir hefyd ddysgeidiaeth greiddiol Cristnogaeth ynghylch cariad a maddeuant yn y pennill clo: ‘we will love/ Both friend and foe in all our strife’. Pwysleisir hynafiaeth Catholigiaeth yng nghyfieithiad T. Gwynn Jones, ‘Hen Ffydd ein tadau’.¹³⁰ Yr hyn a geir yn y gwreiddiol Saesneg yw ‘Faith of our Fathers, living still’,¹³¹ llinell a gyfieithir gan Gwynn Jones fel ‘Hen Ffydd ein tadau! byw yw hi’.¹³² Y mae’r ymadrodd ‘Hen Ffydd’ yn fwy na chyfeiriad at ffydd y gorffennol: dylid cofio bod ‘Yr Hen Ffydd’ yn derm penodol am Gatholigiaeth yng Nghymru.¹³³ Cyfeiriwyd eisoes yn *Emynau Mynyw* at yr ‘hen ffydd’, a hynny yn y rhagair wrth gyflwyno’r ddau emyn Cymraeg gwreiddiol sy’n ymddangos yn y casgliad.¹³⁴ Trwy gynnwys yr ymadrodd ‘Hen Ffydd’ yn ei gyfieithiad, y mae T. Gwynn Jones nid yn unig yn trosi’r geiriau a’u cynnwys ar lefel semantaidd-esboniadol, ond hefyd yn cymhwyso’r gwreiddiol yn gysyniadol a chyd-destunol ar gyfer cynulleidfa Gymraeg. Gosodir y cyfieithiad ymhellach yn y cyd-destun Cymreig gan T. Gwynn Jones yn y trydydd

¹²⁶ Ibid., 72.

¹²⁷ Frederick William Faber, ‘Faith of our Fathers’, yn Bourne (gol.), *Daily Hymn Book*, 256.

¹²⁸ Ibid.

¹²⁹ Ibid.

¹³⁰ T. Gwynn Jones, ‘Hen Ffydd ein tadau’, yn *Emynau Mynyw*, 34.

¹³¹ Faber, ‘Faith of our Fathers’, 256.

¹³² Gwynn Jones, ‘Hen Ffydd ein tadau’, 34.

¹³³ Gweler D. Densil Morgan, *The Span of the Cross: Christian Religion and Society in Wales 1914-2000* (Cardiff, 1999), 5.

¹³⁴ Ffransis, Archesgob Caerdydd, a Mihangel, Esgob Mynyw, ‘Rhgair’, 1.

pennill; yn y gwreiddiol, cyfeirir at Loegr – ‘England shall then indeed be free’ – ond y mae trosiad Gwynn Jones yn trawsblannu’r emyn i Gymru: ‘A thrwy wirionedd Duw ei hun/ Bydd Cymru eto’n rhydd yn wir’.¹³⁵ Er bod yr emyn yn gyfieithiad pur agos o’r gwreiddiol o ran ieithwedd, delweddaeth a syniadaeth, nid cyfieithiad llythrennol o bob agwedd sydd yma, a’r addasu cyd-destunol yn ôl y gofyn yn gwneud y darn yn addas i’w gynnwys mewn casgliad Cymraeg.

Prin yw’r wybodaeth yn *Emynau Mynyw* ynghylch pa gyfieithiadau yn union y gellir eu priodoli i T. Gwynn Jones, ond yn y cyswllt hwn ceir cadarnhad mewn nodyn esboniadol yn *Llyfryddiaeth Thomas Gwynn Jones*:

Dywed F. W. J. [F. Wynn Jones] ei bod yn ‘eglwyr oddi wrth lawysgrifau T. G. J. mai efô a gyfieithiodd y cwbl ond rhifau 2, 4, 8, 9, 20, 25, 26 a 28, er nad yw ei enw ond wrth un yn unig. Y mae 34 yn y casgliad felly mae 26 ohonynt gan T. G. J.’¹³⁶

Ar gopi personol Gwynn Jones o’r gyfrol, a gadwyd mewn casgliad yn Adran y Gymraeg ym Mhrifysgol Aberystwyth, y mae’r bardd wedi nodi pa ddarnau a gyfieithwyd ganddo, sy’n cyfateb i’r hyn a nodir yn y *Llyfryddiaeth*.¹³⁷ Yn ôl David Jenkins, Gwynn Jones ei hun oedd yn gyfrifol am y penderfyniad i beidio â chynnwys ei enw wrth y cyfieithiadau yn *Emynau Mynyw*: ‘ni chytunodd â chais y golygydd, y Tad John Barrett Davies, i roi ei enw wrthynt’, er na roddir rheswm dros y gwrthodiad hwn.¹³⁸ Mae’r emynau eu hunain yn amrywiol eu naws a’u pynciau, ac wedi’u trefnu yn y gyfrol yn fras yn ôl thema neu achlysur. Ceir peth delweddaeth lythrennol iawn ynddynt sy’n trafod uffern a’r diafol: ‘Fel na’m llosger yn y fflamau’, ‘y temtiwr du’,

¹³⁵ Faber, ‘Faith of our Fathers’, 256; Gwynn Jones, ‘Hen Ffydd ein tadau’, 34.

¹³⁶ Roberts (gol.), *Llyfryddiaeth*, 41.

¹³⁷ T. Gwynn Jones, nodiadau ar gopi personol o *Emynau Mynyw*, sy’n rhan o gasgliad o’i lyfrau yn Adran y Gymraeg, Prifysgol Aberystwyth. Diolchir i’r aelodau staff yno am y croeso ym mis Chwefror 2015.

¹³⁸ Jenkins, *Cofiant*, 320.

‘y bydd na’th garo di/ Yn llosgi yn y llyn’.¹³⁹ Fel y gellid disgwyl mewn casgliad Catholig, ceir hefyd gyfran uchel o emynau i’r Forwyn Fair, gan gynnwys emyn am Mair wrth y Groes sy’n gyfieithiad o destun y *Stabat Mater*.¹⁴⁰ Er nad oes modd gwybod beth oedd rheswm T. Gwynn Jones dros wrthod cynnwys ei enw wrth bob un ond un o’i gyfieithiadau yn y gyfrol, tybed a oes modd cynnig nad oedd yn medru uniaethu yn gyfan gwbl â diwinyddiaeth rhai o’r emynau a gyfieithodd yma, a’i fod, felly, yn gyndyn i nodi ei enw? Yr unig emyn sy’n dwyn ei enw fel cyfieithydd yn *Emynau Mynyw* yw ‘Pêr fydd dy gofio, Iesu da’, cyfieithiad o ‘Jesu dulcis memoria’, emyn gan St. Bernard, a oedd wedi’i gyhoeddi eisoes yn *Llyfr Emynau y Methodistiaid Calфинаidd a Wesleyaidd* ym 1927.¹⁴¹ Yn y modd hwn, yr oedd yn rhaid iddo arddel y cyfieithiad drwy roi ei enw wrtho.

Yn ei ymdriniaeth â chrefydd T. Gwynn Jones, y mae Pennar Davies yn mynd i’r afael â rhai o’r prif gyfnodau ym mywyd a gwaith y bardd: o’r cyfnod cyn y Rhyfel Byd Cyntaf, hyd ganol y tridegau pan gyhoeddwyd cerddi *Y Dwymyn* am y tro cyntaf, ceir gan Davies drafodaeth drylwyr ar rai o’i gerddi a’r ddiwinyddiaeth a amlygir ynddynt. Yn achos y cyfnod olaf a drafoda Pennar Davies, 1934-5, dadleua fod ‘argyhoeddiadau Cristnogol’ Gwynn Jones, a oedd ganddo gynt, yn ôl Davies, ‘yn dychwelyd’.¹⁴² Er gwaethaf siniciaeth rhai o ganiadau *Y Dwymyn*, deil Davies fod ‘Ofn’, ynghyd â rhai o ddarnau eraill y gyfrol, yn ‘honni mai yn y Crist, yn ei gariad

¹³⁹ T. Gwynn Jones, ‘Safai’r Fam yn Drist gan Wylo’, yn *Emynau Mynyw*, 12; T. Gwynn Jones, ‘O Galon sant’, yn *Emynau Mynyw*, 26; T. Gwynn Jones, ‘Fy Nuw, yr wy’n dy garu Di’, yn *Emynau Mynyw*, 16.

¹⁴⁰ Gwynn Jones, ‘Safai’r Fam yn Drist gan Wylo’, 11-12; ‘Stabat Mater’, yn Bourne (gol.), *A Daily Hymn Book*, 78-9; John Caldwell a Malcom Boyd, ‘Stabat Mater Dolorosa’, yn Stanley Sadie (gol.), *The New Grove Dictionary of Music and Musicians: Volume 24: Sources of Instrumental Ensemble Music to Tait* (London, 2001), 234-6.

¹⁴¹ ‘Jesu dulcis memoria’, yn Bourne (gol.), *Daily Hymn Book*, 51; T. Gwynn Jones, ‘Pêr Fydd dy Gofio, Iesu Da’, yn *Llyfr Emynau y Methodistiaid Calфинаidd a Wesleyaidd* (Caernarfon, 1927), 137-8.

¹⁴² Pennar Davies, *Y Brenin Alltud*, 92.

di-ildio a diflino, yr ydym yn gweld Duw ei hun'.¹⁴³ Cyhoeddwyd y gyfrol *Emynau Mynyw* ychydig wedi'r cyfnod olaf a drafodir gan Pennar Davies, ac er nad geiriau T. Gwynn Jones ei hun a geir ynddi, efallai y gellir awgrymu fod y casgliad hwn o emynau wedi rhoi cyfle i'r bardd archwilio ei grefydd ei hun drwy gyfrwng y weithred o gyfieithu, a hynny mewn cyfnod, yn ôl dehongliad Pennar Davies, pan oedd yn ailgysylltu â Christnogaeth a'i ymdeimlad o grefydd. Hanfodol bwysig yma hefyd yw cyfeirio at y ffaith fod hwn yn gyfnod pryd yr oedd cymylau rhyfel yn crynhoi yn Ewrop, ac efallai mai arwyddocaol yn y cyd-destun crefyddol hwn yw cyfeirio at sylw a wnaeth y bardd mewn ymddiddan gydag E. Tegla Davies ym 1917, yn ymateb i'r sylw fod y Rhyfel Byd Cyntaf wedi 'creu llawer o anffyddwyr':

Ydi [*sic*], ond wyddoch chi beth a wnaeth o i mi? Fy ngwneud yn Gristion. 'Roeddwn i'n meddwl bod dynoliaeth yn datblygu'n ara' a sicr, drwy addysg a datblygiad a gwareiddiad, i rywbeth niwlog a alwn i yn Deyrnas Duw. Heddiw rydwi'n [*sic*] gweld nad oes dim ond dau ddewis iddi – cyflawni hunanladdiad, fel y mae hi'n gwneud, neu ailgreadigaeth drwy'r Arglwydd Iesu Grist.¹⁴⁴

Diddorol nodi mai i'r cyfnod hwn y perthyn 'Emyn Gosber' (1940), unig emyn gwreiddiol y bardd, sy'n mynd i'r afael â diwedd y bywyd dynol, 'pan fo'n blynyddoedd ni'n byrhau', ac yn cyferbynnu tywyllwch y 'cysgodion draw' â goleuni – golau'r haul llythrennol yn y pennill cyntaf, a goleuni trosiadol presenoldeb Duw yn y llinellau clo: 'Rho Di oleuni yn yr hwyr'.¹⁴⁵ Mae'r ail a'r trydydd pennill yn ymdrin â '[g]wendidau' a 'ffolineb' y natur ddynol, a maddeuant a thrugaredd Duw: agweddau creiddiol ar y grefydd Gatholig, a thema yr ymdrinnir â hi mewn nifer o'r

¹⁴³ Ibid., 93.

¹⁴⁴ E. Tegla Davies, 'Atgofion', *Y Llenor*, Cyf. XXVIII, Rhif 2 (1949), 99-100.

¹⁴⁵ T. Gwynn Jones, 'Emyn Gosber', *Y Goleuad*, 31 Ionawr 1940, 1.

darnau a gyfieithwyd gan T. Gwynn Jones ar gyfer *Emynau Mynyw*.¹⁴⁶ Arwyddocaol hefyd, o bosib, yw pa mor aml y cyflwynir delweddu o oleuni sanctaidd yn y gyfrol hon: ‘Crist, ei Haul, gan wasgar syrthni/ Sy’n tywynnu gyda’r wawr’, ‘dwg ein bryd a’th olau gwiw’, ‘Bydd olau’r gwyll o’th garu di’, ‘Drwy hirddydd oes, yn angau du,/ O, bydd oleuni, Iesu cu.’¹⁴⁷ Tybed a oes modd cynnig y ceir cysylltiad yma rhwng cyfieithiadau *Emynau Mynyw* a’r emyn gwreiddiol ‘Emyn Gosber’? Mae’r tebygrwydd rhwng y ddau yn sicr yn awgrymu fod T. Gwynn Jones wedi mabwysiadu peth o ddelweddaeth a syniadaeth yr emynau Catholig, a thrwy gyfrwng ei waith cyfieithu, wedi cael cyfle i fynd i’r afael â’i berthynas ei hun â Christnogeth a’r ‘[g]refydd bersonol’ honno a oedd mor bwysig iddo.¹⁴⁸

T. Gwynn Jones a W. S. Gwynn Williams: Techneg Cyfieithu Geiriau Caneuon

Yng nghyswllt cyfieithiadau T. Gwynn Jones ar gyfer cerddoriaeth, mae’r mwyafrif ohonynt yn rhai a wnaed ar gais W. S. Gwynn Williams ar gyfer cyhoeddiadau Cwmni Gwynn; dyma oedd y prif weithgarwch a fu rhwng y ddau. Yn ystod ei yrfa amrywiol, bu Gwynn Williams yn olygydd cylchgronau, yn gyfansoddwr, yn ddarlledwr ac yn gyhoeddwr, a hyn oll yn sgil ei genhadaeth bersonol i ddod â cherddoriaeth draddodiadol a chyfoes Cymru i olwg y byd. Fel y nododd David R. Jones yn ei draethawd doethurol manwl ar fywyd a gwaith Gwynn Williams: ‘his laudable

¹⁴⁶ Gweler T. Gwynn Jones, ‘Clywch ofnadwy lais yn galw’, ‘Ti Dad trugarog dynol-ryw’, ‘Cân, fy nhafod, fawl y Ceidwad’, ‘O Fair, tro d’olwg isod’, ‘Duw trugaredd a thosturi’, ‘Iesu, fy Iôr, o’r diwedd daeth yr awr’, yn *Emynau Mynyw*, 5, 10, 19, 29, 35, 37.

¹⁴⁷ T. Gwynn Jones, ‘Clywch ofnadwy lais yn galw’, yn *Emynau Mynyw*, 5; T. Gwynn Jones, ‘O tyrd, Greawdwr’, yn *Emynau Mynyw*, 17; T. Gwynn Jones, ‘O Fam trugaredd’, yn *Emynau Mynyw*, 28; T. Gwynn Jones, ‘Rho fendith, Geidwad’, yn *Emynau Mynyw*, 39.

¹⁴⁸ ap Gwynn, ‘T. Gwynn Jones’, 55.

aim was world parity for Welsh music'.¹⁴⁹ Sefydlwyd Cwmni Cyhoeddi Gwynn ym 1937, ond dechreuodd y berthynas rhwng Gwynn Jones a Gwynn Williams bymtheng mlynedd cyn sefydlu Cwmni Gwynn, ym 1922, pan anfonodd Gwynn Williams, a oedd yn golygu'r cylchgrawn *Y Cerddor Newydd* ar y pryd, llythyr at Gwynn Jones yn gofyn am ddarn o farddoniaeth y byddai'n medru ei gynnwys yn y cylchgrawn hwnnw: 'I hope to introduce some of the best of modern Welsh Poetry to composers'.¹⁵⁰ Dyma'r llythyr cyntaf rhwng y ddau sydd ar glawr, ac wrth ei gymharu â naws gyfeillgar yr ohebiaeth ddiweddarach, mae'r cywair ffurfiol yn awgrymu mai dyma hefyd un o'r cyfathrebiadau cyntaf rhyngddynt.

Y mae'r llythyrau cynnar rhwng T. Gwynn Jones a W. S. Gwynn Williams yn datgelu gwybodaeth ddiddorol yng nghyswllt agwedd Gwynn Jones tuag at gyfieithu geiriau ar gyfer cerddoriaeth, fel y gwelir mewn cyfres o lythyrau o 1923, pan ysgrifennodd Gwynn Williams ato yn gofyn iddo am ddarnau i'w gosod i gerddoriaeth: 'What I should very much like you to let me have would be a series of three or four Songs for Children that I might set as school songs'.¹⁵¹ Nid yw ateb T. Gwynn Jones yn goroesi, ond gellir bwrw amcan ynghylch ei ymateb i'r cais o edrych ar y llythyr nesaf gan Gwynn Williams: 'I hope you do not misunderstand me in my desire to set some of your poems. I did not think for a moment that you might write "words for music". What I thought was that you might let me see some of your poems which you thought most suitable'.¹⁵² Ni chafodd Gwynn Williams ei ddigaloni gan y gwahaniaeth hwn o ran barn, fodd bynnag, a gwelir yr ohebiaeth yn dychwelyd i'w

¹⁴⁹ David R. Jones, 'Advocate of Change and Tradition: W. S. Gwynn Williams (1896-1978); His Contribution to Music in Wales to 1950' (traethawd PhD heb ei gyhoeddi, Prifysgol Cymru, Bangor, 2008), 437.

¹⁵⁰ Llythyr, dyddiedig 18 Ionawr 1922, gan WSGW at TGJ, Papurau TGJ, G6187, LIGC.

¹⁵¹ Llythyr, dyddiedig 7 Ebrill 1923, gan WSGW at TGJ, Papurau TGJ, G6196, LIGC.

¹⁵² Llythyr, dyddiedig 17 Ebrill 1923, gan WSGW at TGJ, Papurau TGJ, G6197, LIGC.

llif cyson arferol o fewn wythnosau. Ceir anghytuno eto ym 1925, fodd bynnag, y tro hwn wrth drafod yr union faes y bu'r ddau mor gynhyrchiol ynddo yn ddiweddarach: cyfieithu geiriau caneuon. Yn y cyfnod hwn, roedd Gwynn Williams yn gweithio i gyhoeddwyr Hughes a'i Fab yn Wrecsam ac yn awyddus i gyhoeddi cyfrol o ganu penillion, gan gynnwys yn ogystal â'r Gymraeg eiriau Saesneg er mwyn ehangu apêl y gyfrol. Gofynna, yn y Saesneg arferol, 'Do you think I should set selected specimens of English poetry for my Penillion Songs, or should I try to obtain, if possible, translations of Welsh poems'.¹⁵³ Ymddengys erbyn diwedd y llythyr ei fod wedi ateb ei gwestiwn ei hun, a phenderfynu mai cael cyfieithiadau fyddai orau, gan ychwanegu, 'If you could provide me with English translations of two or three suitable Welsh poems I shall be very grateful.'¹⁵⁴ Yn ffodus, diogelwyd ateb T. Gwynn Jones i'r llythyr hwn, ac fe ddengys barn bendant, er ychydig yn annisgwyl, gan ystyried ei fod eisoes wedi cyfieithu nifer o ddarnau amrywiol ar gyfer y *Welsh Festival Book* ym 1924:

In my opinion, characteristic forms, like Welsh or English ballads, + especially penillion telyn, cannot be translated. Language is not like water, or any other liquid, which you can pour from one vessel into another without any trouble [...] I would never dream of attempting to write serious verse in English in such forms, as I know that the genius of the English language will simply not allow it. The result would be simply ridiculous [...] In addition, of course, I have no faith in the principle of publishing songs with Welsh + English words. It simply cannot be done artistically. It is true I have occasionally tried to write English versions for music, but I have never pleased myself, + do not think it worth my while to lose time in the matter.¹⁵⁵

¹⁵³ Llythyr, dyddiedig 24 Chwefror 1925, gan WSGW at TGJ, Papurau TGJ, G6217A, LIGC.

¹⁵⁴ Ibid.

¹⁵⁵ Llythyr, dyddiedig 26 Chwefror 1925, gan TGJ at WSGW, Papurau TGJ, G6217B, LIGC.

Tybed a oes modd awgrymu fod yr anallu hwn i'w 'foddhau ei hun' yn y gwaith cyfieithu yn ffactor yn ei amharodrwydd i gynnwys ei enw ar rai cyfieithiadau ar gyfer Cwmni Gwynn ac yn *Emynau Mynyw* yn ddiweddarach yn ei yrfa?

Beth bynnag oedd y rheswm dros wrthodiad pendant Gwynn Jones o'r cysyniad o gyfieithu yn y llythyr arwyddocaol hwnnw at Gwynn Williams ym 1925, y mae'n amlwg, erbyn 1937, a sefydlu Cwmni Cyhoeddi Gwynn, ei fod wedi newid ei feddwl: T. Gwynn Jones oedd y prif gyfieithydd o ran geiriau caneuon yn ystod blynyddoedd cynnar y cwmni. Yn ôl David R. Jones, roedd perthynas Gwynn Jones a Gwynn Williams yn ffactor allweddol yn llwyddiant y cwmni cyhoeddi: 'The death of T. Gwynn Jones [...] probably had a greater impact on Gwynn Williams and the GPC [Gwynn Publishing Company] than the Second World War: it took away a reliable and willing collaborator without whom it is doubtful whether the GPC could have achieved the success that it did.'¹⁵⁶ Mewn mwy nag un llythyr at ei gyfaill a'i brif gyfrannwr, y mae Gwynn Williams yn dangos ei werthfawrogiad o gymorth Gwynn Jones. Cymerer y sylwadau canlynol, er enghraifft:

Much of any success that I may gain in the future [with GPC] is due to your tremendous help with the words.¹⁵⁷

It really is a tremendous encouragement and inspiration to have your assistance [...] without your help I could not have turned out during the last few months anything like as much as I have done, and I only hope that you will not become too busy to continue to help me.¹⁵⁸

¹⁵⁶ Jones, 'Advocate of Change and Tradition', 381.

¹⁵⁷ Llythyr, dyddiedig 2 Tachwedd 1942 gan WSGW at TGJ, Papurau TGJ, G6274, LIGC.

¹⁵⁸ Llythyr, dyddiedig 17 Awst 1938 gan WSGW at TGJ, Papurau TGJ, A1131, LIGC.

I am ever so pleased to know that you feel as I do about our collaboration. It has meant more than anything to me, and I am convinced that we should do as much as we can together.¹⁵⁹

Cydweithiodd Gwynn Jones a Gwynn Williams ar sawl prosiect dros nifer o flynyddoedd, megis y ddrama gerddorol *Y Gainc Olaf* (1934), a nifer o ddarnau a gyhoeddwyd gan Hughes a'i Fab, ond gwelir o 1937 ymlaen, yn y cyfnod wedi sefydlu Cwmni Cyhoeddi Gwynn, ddatblygiad o ran dwyster a thempo'r gwaith. Er mai amhosibl fyddai darganfod beth oedd rhesymeg Gwynn Jones dros ei newid agwedd cyfan gwbl yng nghyswllt cyfieithu ar gyfer cerddoriaeth, y mae'n bosibl adnabod rhai ffactorau sy'n awgrymu sut y daeth y ddau i gynhyrchu cymaint o weithiau mewn amser mor fyr ym mlynnyddoedd cynnar Cwmni Gwynn. Er bod Gwynn Jones a Gwynn Williams wedi cydweithio'n agos pan oedd y cerddor yn gweithio gyda Hughes a'i Fab, roedd Gwynn Williams, wrth sefydlu ei gwmni ei hun, yn fwy rhydd i ddewis ei gyfranwyr, yn hytrach na bod yn atebol i eraill uwch nag ef, fel yr oedd yn Wrecsam. Roedd ei berthynas â Gwynn Jones hefyd yn agos, ac roedd y ddau yn ymweld â'i gilydd yn aml ac yn llythyr yn gyson ers pymtheng mlynedd. Yn fwyaf pwysig, efallai, 1937, dyddiad sefydlu Cwmni Cyhoeddi Gwynn, oedd dyddiad ymddeoliad T. Gwynn Jones o'r Coleg yn Aberystwyth.¹⁶⁰ Ac yntau bellach yn rhydd o feichiau darlithio, roedd ganddo fwy o amser i'w roi i brosiectau creadigol. Ceir un ffactor arall, mwy ymarferol efallai, a allai fod wedi effeithio ar barodrwydd Gwynn Jones i gynhyrchu'r holl gyfieithiadau hyn ar gyfer Cwmni Gwynn. Gan fod blwyddyn sefydlu'r cwmni yn cyd-daro ag ymddeoliad Gwynn Jones, dyma gyfle am gyflog cyson i'r cyn-ddarlithydd. Mae rhai o gofnodion

¹⁵⁹ Llythyr, dyddiedig 21 Mawrth 1942 gan WSGW at TGJ, Papurau TGJ, A1280, LIGC.

¹⁶⁰ Jenkins, *Cofiant*, 354.

ariannol Gwynn Jones yn dangos iddo dderbyn deg swllt a chwe cheiniog am bob cyfieithiad, a chan ystyried y ffaith ei fod wedi gwneud dros ddau gant a hanner o gyfieithiadau dros gyfnod o saith neu wyth mlynedd, fe fyddai'r enillion wedi bod yn sylweddol.¹⁶¹

Bid a fo am yr ystyriaeth ariannol hon, roedd y ffaith fod Gwynn Jones â mwy o amser rhydd yn dra thebygol yn ffactor arwyddocaol o ran ei gyflymder wrth gynhyrchu cyfieithiadau ar gyfer Cwmni Cyhoeddi Gwynn. Blynnyddoedd cyntaf sefydlu Cwmni Gwynn oedd cyfnod prysuraf cydweithio Gwynn Jones a Gwynn Williams. Rhwng 1937 a 1942, caiff Gwynn Jones lythyr bob ychydig ddyddiau oddi wrth Gwynn Williams, naill ai yn gofyn am gyfieithiad newydd neu'n diolch iddo am un y mae newydd ei dderbyn. Mae'r llythyrau o'r ohebiaeth helaeth a ddyfynnir isod yn cynnig rhai enghreifftiau yn unig, ac yn dyst i gyflymder Gwynn Jones wrth weithio:

I have just had another charming little song from Mr Hugh Hughes, of Lampeter, setting the enclosed words from Kingsley's Waterbabies, and I should be very grateful if you could give us a Welsh translation. (14 Ionawr, 1938)¹⁶²

Thank you very much for your charming translation of 'The Prettiest Doll in the World'. I think you have made an excellent job of it. (18 Ionawr, 1938)¹⁶³

I have just received a short song from Matthews Williams with Welsh words by Dewi Havhesp. Mr Williams told me that he hoped you would be good enough to look over the words and supply an English translation. (20 Ebrill, 1938)¹⁶⁴

¹⁶¹ T. Gwynn Jones, cofnodion ariannol, Papurau TGJ, C20, LIGC.

¹⁶² Llythyr, dyddiedig 14 Ionawr 1938, gan WSGW at TGJ, Papurau TGJ, A1103, LIGC.

¹⁶³ Llythyr, dyddiedig 18 Ionawr 1938, gan WSGW at TGJ, Papurau TGJ, A1104, LIGC.

¹⁶⁴ Llythyr, dyddiedig 20 Ebrill 1938, gan WSGW at TGJ, Papurau TGJ, A1119, LIGC.

Thank you for the translation of Dewi Havhesp's 'Fy Ngwlad' [...] If you can find me a spare moment or two would it be too much trouble for you to give me an English version of 'Y Fam a'i Baban'? (23 Ebrill, 1938)¹⁶⁵

Thank you very much for your very kind letter of the 27th and translation of Mynyddog's 'Y Fam a'i Baban'. (29 Ebrill, 1938)¹⁶⁶

Y mae dau lythyr o 1942 yn dangos yn arbennig mor gyflym yr oedd Gwynn

Jones yn cyfieithu:

I have further been considering the album of seven Tudor songs, and I am wondering if you think it wise to make this first collection a more general one [...] I should like your opinion so that I can try to get you copies of the original German words.¹⁶⁷

Yn y llythyr a ddyfynnir uchod, y mae Gwynn Williams yn rhestru'r gweithiau y mae'n ystyried eu cynnwys mewn casgliad newydd: tri darn Lieder Almaeneg ynghyd â darnau Saesneg o'r cyfnod Tuduraidd. Dridiau yn ddiweddarach, derbyniodd Gwynn Jones lythyr arall sy'n dangos nad ei farn ar y caneuon oedd yr unig beth a roddasai:

Thank you very much for the seven excellent translations to hand this morning. These are a tremendous contribution, if we can put them all into one book or if we use two or three of them with the foreign classics [...] I am ever so grateful to you for this excellent work.¹⁶⁸

Llund llaw o rai cannoedd o enghreifftiau yw'r llythyrau hyn a ddyfynnir uchod, ond maent yn rhoi cipolwg i ni ar y gweithgarwch diwyd a fu yn ystod blynyddoedd cynnar Cwmni Cyhoeddi Gwynn. Mewn cyfweliad â'r awdur presennol, trafododd

¹⁶⁵ Llythyr, dyddiedig 23 Ebrill 1938, gan WSGW at TGJ, Papurau TGJ, A1120, LIGC.

¹⁶⁶ Llythyr, dyddiedig 29 Ebrill 1938, gan WSGW at TGJ, Papurau TGJ, A1121, LIGC.

¹⁶⁷ Llythyr, dyddiedig 5 Rhagfyr 1942, gan WSGW at TGJ, Papurau TGJ, G6287, LIGC.

¹⁶⁸ Llythyr, dyddiedig 8 Rhagfyr 1942, gan WSGW at TGJ, Papurau TGJ, G6279, LIGC.

Nia Hall Williams, wyres T. Gwynn Jones, ei hatgofion o'i thaid yn ystod y cyfnod hwn gan ddweud ei bod yn cael yr argraff fod ei nain, Margaret Jane, o'r farn fod Gwynn Williams yn gorlwytho Gwynn Jones â gwaith.¹⁶⁹ Byddai hi a gweddill y teulu yn eistedd yn agos at y radio gyda'r nos, a'r sain yn dawel iawn, rhag tarfu ar waith Gwynn Jones, ac yntau'n gweithio hyd oriau mân y bore.¹⁷⁰ Roedd y bardd yn amlwg yn ddyn gweithgar eithriadol – '[b]reintwyd ef ag egni anhygoel', yn ôl ei gofiannydd¹⁷¹ – a diau ei fod wedi ei chael hi'n anodd arafu a lleihau'r llwyth gwaith wedi iddo ymddeol.

Un o nodweddion hynotaf cyfieithiadau T. Gwynn Jones ar gyfer cerddoriaeth yw'r ffaith nad oedd, fel rheol, yn ystyried y sgôr gerddorol yn uniongyrchol wrth gyfieithu. Fel y trafodwyd yn yr amlinelliad o allu cerddorol Gwynn Jones yn y bennod ragarweiniol, nid oedd yn medru darllen hen nodiant, ond roedd ganddo glust gerddorol a byddai'n darllen sol-ffa. Ymddengys rhai darnau sol-ffa ymysg ei gyfrolau o atgofion, wrth iddo sôn am gerddoriaeth ei orffennol – yn *Y Môr Canoldir a'r Aifft*, er enghraifft, wrth iddo nodi alaw a ganai gŵr o Rwsia yr oedd Gwynn Jones yn ei adnabod yn yr Aifft, a hefyd yn *Brithgofion*, wrth iddo nodi '[p]ennill o hen gerdd yfed nas clywais yn unman arall' a phytiau o alawon eraill a gofiai o'i ieuencid.¹⁷² Er ei fod yn amlwg yn gyfarwydd â'r nodiant, anaml yr ymddengys sol-ffa ymysg llawysgrifau T. Gwynn Jones yng nghyswllt y cyfieithiadau a wnaeth ar gyfer Cwmni Gwynn. Mae gwaith beirniadol o'r 1920au hyd ysgrifau diweddar ar gyfieithu geiriau caneuon yn gyffredin yn trosglwyddo'r un neges yn ei hanfod: rhaid i'r testun sydd wedi ei gyfieithu, wrth iddo gael ei ganu, weddu yn naturiol i'r

¹⁶⁹ Nia Hall Williams, cyfweliad â'r awdur presennol, 9 Ebrill 2013.

¹⁷⁰ Ibid.

¹⁷¹ Jenkins, *Cofiant*, 78.

¹⁷² T. Gwynn Jones, *Y Môr Canoldir a'r Aifft* (Caernarfon, 1912), 93; T. Gwynn Jones, *Brithgofion* (Llandybïe, 1944), 25-6, 30, 52, 59, 60.


gerddoriaeth, gan gadw at rythmau ac acenion y gerddoriaeth mor agos â phosib.¹⁷³

Yn ôl Peter Low: ‘the TT [target text] must give the overall impression that the music has been devised to fit it, even though that music was actually composed to fit the ST [source text]’.¹⁷⁴ Rhaid gofyn felly sut y cafodd Gwynn Jones gymaint o lwyddiant wrth gyfieithu ac yntau heb fod ag arbenigedd o ran darllen cerddoriaeth. Yn hytrach na derbyn y gerddoriaeth mewn ffurf sgôr hen nodiant neu mewn sol-ffa, daw’n amlwg o’r llythyrau anghyhoeddedig rhyngddynt fod Gwynn Jones a Gwynn Williams wedi datblygu techneg arbennig ar gyfer y cyfieithiadau a wnaeth y bardd ar gyfer Cwmni Cyhoeddi Gwynn.

Mae’r dechneg hon yn trosglwyddo – neu, yn wir, yn ‘cyfieithu’ – acenion y gerddoriaeth i’r geiriau y byddai Gwynn Williams yn eu darparu i Gwynn Jones i’w cyfieithu, o ystyried nad oedd y bardd yn medru darllen hen nodiant, ac felly sgôr gerddorol. Er nad yw’r dechneg yn gwneud iawn am y cyfan a allai gael ei golli o beidio â deall y gerddoriaeth wreiddiol – gweld cyfarwyddiadau mynegiant ac ymgyfarwyddo â naws, er enghraifft – eto i gyd, dyma dechneg sy’n galluogi Gwynn Jones i ddilyn acenion a phwyslais y gerddoriaeth wreiddiol. Pan fyddai Gwynn Williams yn anfon geiriau i’w cyfieithu at Gwynn Jones, byddai’n nodi uwch eu pennau acenion y gerddoriaeth. Sylwer, er enghraifft, y testun isod a geir ymhlith papurau T. Gwynn Jones yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru:

¹⁷³ Gweler, er enghraifft, Sigmund Spaeth, ‘Translating to Music’, *The Musical Quarterly*, Cyf. 1, Rhif 2 (Ebrill, 1915), 291-8; A. H. Fox Strangways, ‘Song-Translation’, *Music & Letters*, Cyf. 2, Rhif 3 (Gorffennaf, 1921), 211-24; Arthur Graham, ‘A New Look at Recital Song Translation’, *Translation Review*, Rhif 29 (1989), 31-7; Golomb, ‘Music-Linked Translation and Mozart’s Operas’, 121-62; Low, ‘The Pentathlon Approach’, 185-212. Gweler y drafodaeth yn y bennod ragarweiniol am fanylion pellach.


¹⁷⁴ Low, ‘The Pentathlon Approach’, 185.



T. Gwynn Jones, drafft o gyfieithiad o 'Eldorado', Papurau TGJ, C20, LIGC.
 © Ystâd ac etifeddion T. Gwynn Jones. Cedwir pob hawl.

Fel y gwelir yma, mae curiadau cryf a gwan y gerddoriaeth wedi'u nodi ar y testun. Yn aml iawn, mae'r acenion cerddorol hyn a nodâ Gwynn Williams uwchben y geiriau yn cyd-daro â'r acenion a geid o acennu'r geiriau o'u gweld fel testun ar wahân. Y mae'n bwysig nodi, fodd bynnag, nad yw hyn yn wir bob tro, a bod acenion y gerddoriaeth – sef y brif ystyriaeth yn yr achos hwn, gan mai cyfieithu testun i'w ganu y mae Gwynn Jones yma – ar adegau yn tynnu'n groes i'r acennu mydryddol arferol. Ymddengys y dechneg hon droeon ymysg llawysgrifau T. Gwynn Jones, a hynny ar y papurau sy'n ymwneud â'i gyfieithiadau ar gyfer Cwmni Gwynn. Ni welir dull cyffelyb o weithio yn achos y cyfieithiadau eraill ar gyfer cerddoriaeth, ac felly

teg yw dweud mai techneg a ddatblygwyd gan Gwynn Williams a Gwynn Jones wrth gydweithio ydyw. Ceir enghraifft o'r dechneg acennu hon mewn llythyr o 1924, ond mewn cyd-destun gwahanol:



Llythyr, dyddiedig 30 Medi 1924, gan WSGW at TGJ, Papurau TGJ, G6214, LIGC.
© Ystâd ac etifeddion T. Gwynn Jones. Cedwir pob hawl.

Yr hyn a geir uchod yw Gwynn Williams yn rhoi enghraifft o fydr yr oedd am i Gwynn Jones gyfansoddi testun arno. Y darn perthnasol uchod yw: 'I think I might be able to do something in a Welsh modal dance-form with three stanzas of eight lines in the following rhythm'. Yna fe geir:


~ / ~ / ~ / ~ ~ / ~
 O come and see the fairy-folk dancing
 ~ / ~ / ~ ~ / ~ ~ /
 Beneath the willows that grow in the vale'.¹⁷⁵

Heblaw am yn y llythyr hwn, nid ymddengys enghreifftiau o'r acennu ym mhapurau Gwynn Jones tan 1937, ac felly rhaid tybio mai datblygiad diweddarach yng nghydweithio'r ddau yn achos cyfieithu oedd y dechneg hon.¹⁷⁶ Byddai cael acenion y gerddoriaeth ar y geiriau gwreiddiol yn sicrhau fod Gwynn Jones, wrth gyfieithu, yn gwybod ble y dylai leoli geiriau pwysig yn y llinell, a hynny er mwyn osgoi syrthio i'r fagl o osod y pwyslais ar nodau dibwys y frawddeg gerddorol, er enghraifft, lle gallai'r ystyr gael ei cholli neu ei hystumio. Fel y gwelir droeon yn y caneuon a gyfieithodd T. Gwynn Jones ar gyfer Cwmni Gwynn, nid yw'r cyfansoddwr bob tro yn glynu at acenion y farddoniaeth wreiddiol, ac o ganlyniad mae cael y gerddoriaeth, neu drawsgrifiad o'i hacenion, fel y gwelir yma, yn anghenraid.

Er y ceir rhai enghreifftiau, fel y gwelir yn y llun isod, o destun a anfonwyd at Gwynn Jones gan Gwynn Williams ar gyfer Cwmni Gwynn gyda'r alaw sol-ffa ar y geiriau yn ogystal â'r acenion (ac felly yr alaw yn ogystal â'r rhythm), daw'n amlwg o graffu ar y llythyrau a'r drafftiau o gyfieithiadau nad sol-ffa oedd y prif ddull o weithio. Tybed a fyddai hynny'n dasg a fyddai wedi cymryd gormod o amser i'w chyflawni ymhob un achos unigol? Bid a fo am hynny, y mae'n amlwg fod Gwynn Jones wedi cyfieithu'r rhan helaethaf o'r geiriau caneuon hyn gan ddefnyddio'r dull acennu yn unig, heb sol-ffa wedi'i nodi.

¹⁷⁵ Llythyr, dyddiedig 30 Medi 1924, gan WSGW at TGJ, Papurau TGJ, G6214, LIGC.

¹⁷⁶ Llythyr, dyddiedig 20 Rhagfyr 1937, gan WSGW at TGJ, Papurau TGJ, A0198, LIGC.



T. Gwynn Jones, drafft o gyfieithiad o 'Pack, Clouds, Away', Papurau TGJ, C20, LIGC.
 © Ystâd ac etifeddion T. Gwynn Jones. Cedwir pob hawl.

Fel y gwelir uchod, techneg arall a welir ar waith yma, ac y ceir o bryd i'w gilydd ar y cyd â'r dechneg acennu, yw nodi'r brawddegau yn achos y gerddoriaeth. Ceir nifer o gyfeiriadau at y dechneg acennu yn y llythyrau gan Gwynn Williams yng nghasgliad Gwynn Jones. Noder yr enghreifftiau canlynol:

The enclosed poem has been sent as a song by Arwel Hughes [...]
 The words are quite simply set, and I have marked the accent and phrase on the copy. Will you be kind enough to make me a Welsh translation of the poem? (21 Rhagfyr 1937)¹⁷⁷

¹⁷⁷ Llythyr, dyddiedig 20 Rhagfyr 1937, gan WSGW at TGJ, Papurau TGJ, A0198, LIGC.

The rhythm of the second line is as marked on the enclosed copy.
(19 Medi 1942)¹⁷⁸

The accents in the English translations as I have marked them are
as they are set to Lully's music, which is a well-known song. (9
Mai 1944)¹⁷⁹

Gellir cysylltu datblygu'r dechneg acennu hon tua 1937 â'r ffrwydrad o weithgarwch
ar ran T. Gwynn Jones yn achos cyfieithu geiriau caneuon, a diau fod ei gyflymder
wrth gyfieithu yn tystio i lwyddiant y dechneg hon.

Er y cafwyd llwyddiant gwirioneddol gan Gwynn Jones wrth ddefnyddio'r
dechneg acennu, rhaid pwysleisio nad di-fai oedd ei waith wrth ei dilyn ychwaith.
Ceir mwy nag un enghraifft yn y llythyrau gan Gwynn Williams lle mae'r cerddor yn
nodi problem, neu hyd yn oed yn cynnig ailwampiad o linell bob hyn a hyn:

Last night in filling the words of 'Cwyn Mab Crimon' to the music,
I found that the rhythm of your 1st line is not that of the music or
the English as handled by Vincent Thomas. Everything else is
alright. (22 Awst 1938)¹⁸⁰

With regard to your Welsh translation of 'Night Cometh', I am
afraid that you will have to alter the first line of the second stanza,
as there is a distinct break in the music in the middle of the word
'cusan'. (23 Chwefror 1938)¹⁸¹

The line in English is:

/ ˘ ˘ / ˘ ˘ / ˘ /

'Daffadowndilly is sad Tonight'

and you have:

/ ˘ ˘ / ˘ / ˘ ˘ /

'Lili'r Garawys heno sy brudd'

and to suit the music the accent comes on the wrong syllable [*sic*]
of 'heno'. Would something like:

¹⁷⁸ Llythyr, dyddiedig 19 Medi 1942, gan WSGW at TGJ, Papurau TGJ, G6272, LIGC.

¹⁷⁹ Llythyr, dyddiedig 9 Mai 1944, gan WSGW at TGJ, Papurau TGJ, A1355, LIGC.

¹⁸⁰ Llythyr, dyddiedig 22 Awst 1938, gan WSGW at TGJ, Papurau TGJ, A1133, LIGC.

¹⁸¹ Llythyr, dyddiedig 23 Chwefror 1938, gan WSGW at TGJ, Papurau TGJ, A1110, LIGC.

/ ~ ~ / ~ ~ / ~ /
'Lili'r Garawys sy heno'n brudd' do? (6 Chwefror 1939)¹⁸²

Er gwaethaf yr aiddrafftio, daw'n amlwg mai proses fer a chymharol ddidrafferth oedd y golygu mewn gwirionedd: anaml y gwelir mwy nag un llythyr yn cyfeirio at yr un cyfieithiad sy'n methu o ran cyd-daro ag acenion y gerddoriaeth. Y mae'n amlwg fod W. S. Gwynn Williams a T. Gwynn Jones, yn achos y dechneg hon, wedi taro ar ddull effeithiol o weithio – un a sicraodd gorff hynod sylweddol o gyfieithiadau llwyddiannus gan Gwynn Jones, a hynny mewn cyfnod trawiadol o fyr.

Cerddi Canu (1942)

Wrth ymdrin â chorff mor fawr o waith â chyfieithiadau T. Gwynn Jones o eiriau caneuon, anodd iawn yw dewis a dethol pa ddarnau i'w trafod. Er hyn, rhydd cyfrol a gyhoeddwyd ym 1942 gan Gwmni Cyhoeddi Gwynn, sef *Cerddi Canu*, ddetholiad addas i ymdrin ag ef yng nghyswllt y thesis hwn. Y mae'r gyfrol hon yn gasgliad o eiriau caneuon T. Gwynn Jones ar gyfer Cwmni Gwynn o 1937 hyd 1942 (nid yw'n cynnwys y gerddoriaeth) – ac y mae'n cynnig ffordd gyfleus a hylaw o amlygu'r math o waith a gynhyrchodd Gwynn Jones yn ystod y cyfnod hwn yn benodol. Mae cynnwys *Cerddi Canu* yn amrywiol iawn: ceir yn y gyfrol gyfieithiadau o ganeuon gwerin Gwyddeleg, caneuon Saesneg o Oes Elisabeth I, penillion gan Omar Khayyám, yn ogystal â chaneuon gwreiddiol. Yn y rhagair i'r gyfrol cyfeiria W. S. Gwynn Williams at 'fedr anghyffredin a manyldeb fy nghydlafurwr', ac at 'safon lenyddol uchel' y geiriau.¹⁸³ Pwysleisia werth y darnau hyn fel gweithiau llenyddol yn ogystal â geiriau caneuon: 'Credaf nad gormod fyddai awgrymu y bydd y cerddi hyn

¹⁸² Llythyr, dyddiedig 6 Chwefror 1939, gan WSGW at TGJ, Papurau TGJ, A1165, LIGC.

¹⁸³ W. S. Gwynn Williams, 'Rhagair', yn *Cerddi Canu* (Llangollen, 1942), iii.

(ac eraill nas cyhoeddwyd hyd yma) yn chwanegiad teilwng o'i fedr addefedig ef [T. Gwynn Jones] fel meistr ar iaith', meddai.¹⁸⁴ Adleisia Saunders Lewis y farn hon mewn adolygiad o'r gyfrol – yr unig ymdriniaeth gyhoeddedig â hi. Ceir cryn ganmol gan Lewis ar y cyfieithiadau, ac fe bwysleisia mai 'crefftwaith sydd yma'.¹⁸⁵ Bydd y llyfr hwn, dywed Lewis, yn plesio'r 'sawl sydd o ran anian a chwaeth yn llenorion neu'n feirdd yn wir'.¹⁸⁶ Er ei fod yn nodi rhai cyfieithiadau nad ydynt yn llwyddo i drosi union 'hud a lledrith' y bardd gwreiddiol, dywed fod y gyfrol ar y cyfan yn un sy'n arddangos crefft a meistrolaeth Gwynn Jones ar iaith, ac yn arbennig ei hyblygrwydd wrth fynd i'r afael fel cyfieithydd â thestunau o wahanol gyfnodau ac arddulliau.¹⁸⁷ Cly ei adolygiad gan ddiolch 'i'n bardd mawr ninnau am lyfryn mor goeth'.¹⁸⁸ Er gwaethaf ymdrechion Gwynn Williams a Saunders Lewis fel ei gilydd, ni ddaeth y gyfrol hon yn rhan o ymwybyddiaeth y byd llenyddol, ac, fel y nodwyd uchod, fe'i hanwybyddwyd gan H. Idris Bell, ynghyd â gweddill cyfieithiadau Gwynn Jones o eiriau caneuon, yn ei ysgrif ar T. Gwynn Jones fel cyfieithydd.¹⁸⁹

Mae cynnwys *Cerddi Canu* mor amrywiol fel mai anodd yw mynd i'r afael â'r casgliad yn ei grynsyth mewn gofod mor gyfyng, a rhaid fydd dethol ymhellach o'r detholiad yn y fan hon. 'Panorama o fardd' ydoedd Gwynn Jones i R. M. Jones,¹⁹⁰ ac addas iawn yw'r ddelwedd honno wrth synio am *Cerddi Canu*, gan mai panorama a geir yma hefyd: panorama o gerddoriaeth Cymru ac Ewrop, gwaith beirdd mawrion a darnau traddodiadol o Loegr ac Iwerddon. Mae'r casgliad yn cyflwyno themâu amrywiol iawn: cynhwysir ynddo gerddi am gariad ('Glân Nid yw Hon', 'Beth

¹⁸⁴ Ibid.

¹⁸⁵ Saunders Lewis, 'Colofn Llyfrau'r Dydd: Cyfieithiadau'r Meistr', *Baner ac Amserau Cymru*, 16 Rhagfyr 1942, 1.

¹⁸⁶ Ibid.

¹⁸⁷ Ibid.

¹⁸⁸ Ibid.

¹⁸⁹ Bell, 'T. Gwynn Jones fel Cyfieithydd', 258-69.

¹⁹⁰ R. M. Jones, *Llenyddiaeth Gymraeg: 1902-1936* (Llandybïe, 1987), 124.

Fynnwn I o'th Garu Di', er enghraifft); dathliadau o blentyndod ac ieuenctid (darnau Cymraeg *Cerddi Mebyd: Childhood Songs*, 'Clych Ieuenctid'); byd natur ('Autumn Leaves', 'Yr Ehedydd', 'Lleuad Fai'); a themâu cysegredig ('Y Rhosyn', 'Ewyllys Da', 'Emyn Diolch'). Ceir 70 cerdd i gyd yn *Cerddi Canu*, a'r rhan helaethaf o'r rheini yn gyfieithiadau. Yn ogystal ag amrywiaeth thematig y darnau, mae cefndiroedd y testunau gwreiddiol eu hunain hefyd yn amrywiol: ceir cymysgedd o ddarnau hynafol (mae 'Y Rhosyn' yn gyfieithiad o emyn Almaeneg o'r 15g., er enghraifft); gweithiau gan feirdd adnabyddus megis Shakespeare ac Edgar Allan Poe; a darnau gan feirdd cyfoes megis T. Gwynn Jones ei hun, Leigh Henry (1889-1958), a Chester Dod, *nom de plume* y cyfansoddwr Vincent Thomas (1873-1940). Er mor eang yw cwmpas y gyfrol, wrth dynhau'r lens ar gyfieithiadau T. Gwynn Jones o eiriau caneuon, daw'r un diddordebau craidd i'r amlwg ag a geir yn ei waith ehangach.

Gwelwyd eisoes mor ddadlennol yw'r ymwneud â chrefydd a byd natur, er enghraifft, yng ngwaith gwreiddiol y bardd, ac mae'r themâu hynny yn codi eto yn y gyfrol *Cerddi Canu*. Yn yr un modd, roedd gan Gwynn Jones ddiddordeb mawr mewn diwylliant gwerin, a gwelir bod nifer o'r darnau yn *Cerddi Canu* yn cyd-daro â'r diddordeb hwn, a drafodir yn ddiweddarach yn y thesis. Gellir synio am y drafodaeth sy'n dilyn ar rai o'r darnau a ymddengys yn *Cerddi Canu* fel cipolwg cynrychioladol ar gorff o waith llawer mwy, yn hytrach nag ymgais i gynnig astudiaeth hollgynhwysol ar gyfieithiadau Gwynn Jones ar gyfer Cwmni Cyhoeddi Gwynn – pwnc a fyddai, yn ddiau, yn mynnu astudiaeth ddoethurol yn ei hawl ei hun.

Diddorol yw nodi nad yw'r cyfieithiadau ar gyfer Cwmni Gwynn na chytunodd Gwynn Jones i gyhoeddi ei enw wrthynt yn y cyfnod 1937-42 (ond yn hytrach y llythrennau G. J. W.), megis *Youth and Love: Ieuenctid a Serch* ym 1938,

ac *O Ddydd i Ddydd: From Day to Day* ym 1939, er enghraifft – yn cael eu cynnwys yn *Cerddi Canu*. Ni wyddys y rheswm dros y penderfyniad i beidio â chynnwys ei enw wrth y cyfieithiadau dan sylw, fel yn achos cyfieithiadau *Emynau Mynyw*. Awgrymwyd uchod mai un rheswm posibl pam y bu i T. Gwynn Jones wrthod rhoi ei enw wrth y rhan fwyaf o'i gyfieithiadau yn y gyfrol *Emynau Mynyw* oedd ei amharodrwydd i gysylltu ei enw â'r ddysgeidiaeth grefyddol yn y darnau. Er hyn, ceir nifer o gyfieithiadau cyhoeddedig o ganeuon crefyddol gan Gwynn Jones sydd yn cynnwys ei enw fel cyfieithydd, yn cynnwys 'Y Rhosyn', a welir yn *Cerddi Canu* – cyfieithiad o garol o'r 15g. o'r Almaen, sy'n cyflwyno'r ddelwedd o'r Forwyn Fair fel rhosyn, a'i rhodd i'r byd fel blodyn hefyd: 'Y Rhosyn glân, a welodd/ Eiseia yn ei oes,/ Yw Mair, y wryr dirion,/ A'i Blodyn inni a roes'.¹⁹¹ Datblygir y syniad hwn o Iesu fel blodyn yn y pennill olaf, gyda chyfeiriad at y Dioddefaint: 'Er poenau'r Blodyn annwyl,/ Dan frad yn dwyn ei friw'.¹⁹² Cly'r gân gan ymbil ar y Forwyn Fair am y 'ddawn/ A'n gwnelo iddo Ef/ Yn drigfan annwyl iawn'.¹⁹³ Dyma gyfieithiad o destun crefyddol a arddelwyd gan Gwynn Jones, a thybed a ellir awgrymu fod y darn hwn yn fwy cydnaws â chredoau'r bardd na rhai o'r darnau a gyfieithodd (ond nas arddelwyd ganddo) yn achos *Emynau Mynyw*. Yn 'Y Rhosyn', diau y byddai'r pwyslais a geir ar ddiwedd y gwaith ar greu '[t]rigfan' i'r Iesu ar lefel unigol ac ysbrydol yn apelio at ddyn y dywedwyd fod 'crefydd bersonol' yn arbennig o bwysig iddo.¹⁹⁴

¹⁹¹ Gretchen Warren (Saesneg), T. Gwynn Jones (Cymraeg), Mervyn Roberts (cerddoriaeth), *The Rose-Bush: Y Rhosyn* (Llangollen, 1938), 2-3. Wrth gyfeirio yn y troednodiadau at gyfieithiadau T. Gwynn Jones yn *Cerddi Canu*, byddir yn nodi'r cyhoeddiadau gwreiddiol gan Gwmni Cyhoeddi Gwynn, gan eu bod yn cynnwys y testunau gwreiddiol, y cyfieithiadau a'r gerddoriaeth.

¹⁹² Ibid, 4.

¹⁹³ Ibid.

¹⁹⁴ ap Gwynn, 'T. Gwynn Jones', 55.

Agwedd bwysig ar gerddi gwreiddiol T. Gwynn Jones yw ei ddisgrifiadau manwl a synhwyrus o fyd natur. O goedwig Broséliâwnd – ‘tawel lynnoedd yng nghanol tew lwyni’ – i ‘Hydref’, tymor sy’n ‘troi’n waedrudd/ Ddail y coed â’i ddwyllaw cudd’ – a phrydferthwch cofiadwy ‘Ymachlud Haul’ – ‘Tân eiriasgoch, fel tonnau, ym môn y gwawl yn mwynhau’ – y mae manylder disgrifiadol yn rhan greiddiol o’i farddoniaeth.¹⁹⁵ Dywed David Jenkins mai ei arfer o grwydro’r caeau pan oedd yn fachgen a wnaeth ‘feithrin y ddawn ddiarnheul oedd ganddo i sylwi’n fanwl ar lun a lliw a blas ac aroglau’, ac fe geir trafodaeth gan W. Beynon Davies ar ymdriniaeth Gwynn Jones â’r tymhorau, a’r syniadau a’r teimpladau y maent yn eu symbylu yn ei waith.¹⁹⁶ Yn yr un modd, mae presenoldeb y tymhorau i’w weld hefyd yn y casgliad hwn, *Cerddi Canu*: dyna’r golygfeydd telynegol a geir yn ‘Afonig’ ac ‘Ehedydd Bach’, a ddaw o *Cerddi Mebyd: Childhood Songs* (a drafodwyd yn y bennod flaenorol), ac mewn cyfieithiadau o’i waith ei hun ac eraill. Mewn perthynas â’r olaf, un o’r darnau diddorol yn *Cerddi Canu* yw ‘Autumn Leaves’, cyfieithiad gan T. Gwynn Jones o’i gerdd ei hun, ‘Crinddail’, sy’n ymddangos yn *Caniadau*. Gosodwyd y darn gan Hugh Hughes (1876-1946) ym 1938 a chan T. Hopkin Evans (1879-1940) yr un flwyddyn, ac mae cyfieithiad Saesneg Gwynn Jones o’i waith ei hun yn ymddangos yn y ddau gyhoeddiad. Dyma’r unig enghraifft o ymateb dau gyfansoddwr i’r un testun yn *Cerddi Canu*, ac yn wir yr unig enghraifft yn y gyfrol honno o ddarn nas cyfansoddwyd gan Gwynn Jones yn benodol at bwrpas cerddoriaeth.

Mae’r gosodiad gan T. Hopkin Evans yn gwneud ymgais i ddal symudiad y dail yn ‘trydar’ drwy gyfrwng rhythmau dot a thempo cyflym. (**Gweler Atodiad IV,**

¹⁹⁵ T. Gwynn Jones, ‘Broséliâwnd’, yn *Caniadau*, 76; T. Gwynn Jones, ‘Hydref’, yn *Caniadau*, 155; T. Gwynn Jones, ‘Ymachlud Haul’, yn *Caniadau*, 152.

¹⁹⁶ Jenkins, *Cofiant*, 26; W. Beynon Davies, ‘Y Gamp Oedd Ymhobman O’i Gwmpas’, yn ap Gwilym (gol.), *Cyfres y Meistri*, 218-21.

Dyfyniad 6.) Mae adran gyferbyniol arafach tua chanol y gân yn adlewyrchu'r 'glendid Ddyddiau gynt',¹⁹⁷ gyda chwaferi triphlyg a harmonïau cadarn a chonfensiynol. (**Gweler Atodiad IV, Dyfyniad 7.)** Daw'r adran hon i ben â chyfres o gwaferi *staccato*, fe gyflymir y tempo wrth i'r dail gael eu chwythu dros y lle unwaith eto, a daw egni'r adran agoriadol yn ôl gan chwalu arddull hamddenol y rhan flaenorol, gan gyfleu yn effeithiol fyrhoedledd prydferthwch byd natur, a'r tristwch annatod a ddaw yn sgil hyn. (**Gweler Atodiad IV, Dyfyniad 8.)**

Y mae'r dechneg o ddefnyddio'r gerddoriaeth i bortreadu'r dail yn greiddiol i osodiad Hugh Hughes o'r geiriau hefyd, sy'n agor gyda ffigwr o bedrybleidi (*quadruplets*) esgynnol a disgynnol yn y cyfeiliant, a ailadroddir drwy gydol yr adran gyntaf. (**Gweler Atodiad IV, Dyfyniad 9.)** Fel gyda gosodiad T. Hopkin Evans, ceir ysbaid rhag y gwynt am ychydig fariau yng nghân Hugh Hughes hefyd, wrth i'r geiriau bortreadu hyfrydwch coll y dail: 'Yn eich glendid/ Ddyddiau gynt,/ Cenid eroch/ Gân y gwynt',¹⁹⁸ a chlywir cordiau yn y cyfeiliant am y tro cyntaf yn y darn. (**Gweler Atodiad IV, Dyfyniad 10.)** Dychwel y naws stormus yn gyflym, fodd bynnag, a daw cerddoriaeth yr adran agoriadol yn ôl yn y pennill clo gan gyfleu eto'r dail yn cael eu chwythu gan wynt yr hydref. (**Gweler Atodiad IV, Dyfyniad 11.)** Y mae'r ffurf ABA a amlygir yn y ddau osodiad o'r gerdd hon – y dychwelyd at y thema agoriadol sy'n darlunio symudiad y dail yn y gwynt – yn pwysleisio anocheledd treigl amser a byrhoedledd hyfrydwch byd natur.

Personolir y dail yn y gerdd, wrth iddynt chwilio am loches rhag y tywydd tymhestlog a'u chwythodd oddi ar y canghennau. Ceir ymgais gan yr adroddwr i'w cysgodi rhag y glaw a'r gwynt, ac mae'r ymdeimlad o dristwch yn achos yr hyn a

¹⁹⁷ T. Gwynn Jones (Cymraeg a Saesneg), T. Hopkin Evans (cerddoriaeth) *Crinddail Hydref: Autumn Leaves* (Llangollen, 1938), 3.

¹⁹⁸ T. Gwynn Jones (Cymraeg a Saesneg), Hugh Hughes (cerddoriaeth) *Crinddail: Autumn Leaves* (Llangollen, 1938), 3.

gollwyd yn gryf drwy gydol y gerdd. Yn ail bennill y gerdd Gymraeg, ceir y disgrifiad, ‘Yn eich glendid/ Ddyddiau gynt/ Cenedl eroch/ Gân y gwynt’,¹⁹⁹ ond yn y cyfieithiad Saesneg, fodd bynnag, disgrifir gorffennol disglair y dail yn llawnach: ‘Sunshine kissed you/ Warm and bright,/ Breezes rocked you/ In the light’.²⁰⁰ Â’r pennill ymlaen i ddisgrifio’r ‘stormwind’ a’r ‘murky skies’, tra gesyd y Gymraeg lai o bwyslais ar egrwch y tywydd: ‘Wedi myned/ Awr eich bri,/ Gwael oedd troi/ A’ch ymlid chwi!’.²⁰¹ Yn y fersiwn Gymraeg wreiddiol, wrth i’r dail ateb y cwestiwn, ‘Paham y daethoch/ At fy nrws?’, yr adroddwr yw’r canolbwynt: ‘Am y carut/ Bethau tlws’.²⁰² Mae’r pwyslais yn wahanol yn y Saesneg, fodd bynnag, lle’r amlygir prydfferthwch coll y dail eu hunain: ‘For that we are/ Fair no more’.²⁰³

Darn arall yn *Cerddi Canu* sy’n mynd i’r afael â byrhoedledd prydfferthwch byd natur yw ‘Cennin Aur’, cyfieithiad T. Gwynn Jones o ‘Daffodils’ gan Robert Herrick, bardd o’r 17g.²⁰⁴ Yng ngerdd Herrick, cyferchir y cennin pedr gan y bardd drwy ddweud ‘we weep to see/ You haste away so soon’.²⁰⁵ Cyffelybir byrhoedledd y blodau â bywyd dyn: ‘We have short time to stay, as you/ We have as short a Spring’.²⁰⁶ Yn ‘Cennin Aur’, fel gyda nifer o gyfieithiadau eraill T. Gwynn Jones, ceir ymgais i atgynhyrchu’n agos y delweddau a ddefnyddir yn y gwreiddiol. Wrth ddisgrifio mor gyflym y diflanna’r blodau melyn, dywed Herrick, ‘As yet the early rising sun/ Has not attained his noon’.²⁰⁷ Yn ei gyfieithiad, mae Gwynn Jones yn

¹⁹⁹ Gwynn Jones, Evans, *Crinddail Hydref: Autumn Leaves*, 5.

²⁰⁰ *Ibid.*, 5.

²⁰¹ *Ibid.*, 5-6.

²⁰² *Ibid.*, 6-7.

²⁰³ *Ibid.*, 7.

²⁰⁴ Gweler L. C. Martin (gol.), *The Poetical Works of Robert Herrick* (Oxford, 1956),

v.

²⁰⁵ Robert Herrick (Saesneg), T. Gwynn Jones (Cymraeg), Mansel Thomas (cerddoriaeth), *Daffodils: Cennin Aur* (Llangollen, 1939), 1.

²⁰⁶ *Ibid.*, 2.

²⁰⁷ *Ibid.*, 1.

cadw'r ddelwedd o'r bore fel hyd oes y blodyn, gan drosi'r ddwy linell fel a ganlyn: 'A haul y bore ar ei hynt/ Heb gyrraedd ei brynhawn'.²⁰⁸ Wrth i'r darn ddatblygu yn yr ail bennill o ddisgrifiadau llythrennol o'r cennin pedr i fyfyrdod ar natur bywyd daearol yn gyffredinol, cyflwynir enghreifftiau eraill o fyrhoedledd byd natur: 'as the pearls of morning dew/ Ne'er to be found again'.²⁰⁹ Yn yr un modd, cyflwyna Gwynn Jones 'berlau awr y bore wlith' yn ei fersiwn yntau – gan ychwanegu cyffyrddiad o gynghanedd i'w gyfieithiad.²¹⁰ Er bod rhai enghreifftiau o gyfieithiadau Gwynn Jones yn arddangos hyblygrwydd gydag union ystyr y gwreiddiol, gwelir ei fod wedi llwyddo yn yr achos hwn i drosi nifer o ddelweddau gwreiddiol Herrick yn ffyddlon i'r Gymraeg, a hynny mewn cyfieithiad sydd o ran rhythmau a phwyslais yn addas iawn ar gyfer y gerddoriaeth, lle y gwelir gosodiad syml, diaddurn i bedwar llais digyfeiliant. (**Gweler Atodiad IV, Dyfyniad 12.**) Y mae 'Daffodils' Herrick, a chyfieithiad T. Gwynn Jones ohoni, yn trosglwyddo'r un neges yn ei hanfod â 'Crinddail', a'r trosiad cyfatebol gan Gwynn Jones, 'Autumn Leaves'. Nid ymhyfrydu ym mhrydferthwch y blodau tra parhânt a geir yn y darnau hyn, ond yn hytrach fyfyrdod ar sut y mae cylch bywyd byd natur yn adlewyrchu, yn ei fyrhoedledd, natur bywyd dynol.

Rhaid cofio, wrth gwrs, nad T. Gwynn Jones ei hun a oedd yn dewis y deunydd i'w gyfieithu, fel y dengys llythyrau W. S. Gwynn Williams: 'I am sending you herewith the words of "Three Old English Songs" that I am going to publish [...] and I should like you to translate them'; 'I have just agreed to bring out a simple setting for Male Voices of the enclosed poem [...] perhaps you will be good enough

²⁰⁸ Ibid.

²⁰⁹ Ibid., 4.

²¹⁰ Ibid.

to give me a translation'.²¹¹ Er hyn, diddorol yw nodi'r tebygrwydd trawiadol rhwng themâu nifer o'r cyfieithiadau hyn ac eiddo barddoniaeth ehangach T. Gwynn Jones, fel y gwelwyd uchod yn achos 'Cennin Aur' ac 'Autumn Leaves'. Darn arall a ymddengys yn *Cerddi Canu* sy'n dwyn perthynas agos ag un o themâu amlycaf gwaith T. Gwynn Jones yw 'Eldorado', cyfieithiad o gerdd Edgar Allan Poe sy'n dwyn yr un teitl. Cyfeirir yn aml at y gerdd hon fel yr un olaf a gyfansoddodd Poe, a darllena nifer hi fel myfyrdod ar daith dyn drwy fywyd a'i farwolaeth anochel.²¹² Disgrifia'r gerdd farchog yn chwilio am y wlad hudol euraidd 'Eldorado', ond buan y dysga nad hawdd yw ei chanfod, a rhaid iddo fynd drwy'r 'Valley of Shade' cyn cyrraedd yno.²¹³ Er bod y gerdd wreiddiol wedi'i chyfansoddi yn ystod cyfnod y 'gold rush', dadleua J. R. Hammond nad yn y darlleniad mwy llythrennol o wlad Eldorado fel California y ceir gwir ergyd y gerdd, ond yn hytrach, '[it] should be seen [...] as a reflection of Poe's lifelong search for emotional and intellectual fulfilment.'²¹⁴ Mae'r thema hon o ymchwil am yr 'Hyfryd Wlad' a'r hyn a gynrychiola yn emosiynol, yn ddeallusol, a hefyd yn ysbrydol, yn greiddiol i nifer o gerddi enwocaf T. Gwynn Jones – dyma yr 'Hyfryd Wlad' honno sy'n uchelgais i gymaint o gymeriadau *Caniadau*.²¹⁵

Un o brif nodweddion 'Eldorado' Poe yw'r ddelwedd o'r cysgod, sy'n newid drwy gydol y gerdd: o'i ystyr lythrennol yn y pennill cyntaf, try'n deimlad yn yr ail, caiff ei bersonoli yn y trydydd pennill, cyn i'r 'deepest sense', chwedl Kenneth

²¹¹ Llythyr, dyddiedig 22 Chwefror 1939, gan WSGW at TGJ, Papurau TGJ, A1169, LIGC; llythyr, dyddiedig 24 Hydref 1938, gan WSGW at TGJ, Papurau TGJ, A1147, LIGC.

²¹² Gweler, er enghraifft, J. R. Hammond, *An Edgar Allan Poe Companion* (London, 1981), 43; Kenneth Silverman, *Edgar A. Poe: Mournful and Never-Ending Remembrance* (London, 1992), 402-3; Benjamin F. Fisher, *The Cambridge Introduction to Edgar Allan Poe* (Cambridge, 2008), 47.

²¹³ Edgar Allan Poe (Saesneg) a T. Gwynn Jones (Cymraeg), R. Maldwyn Price (cerddoriaeth), *Eldorado* (Llangollen, 1940), 4.

²¹⁴ Hammond, *An Edgar Allan Poe Companion*, 161-2.

²¹⁵ Gweler, er enghraifft, W. Beynon Davies, 'Canu Thomas Gwynn Jones', yn ap Gwilym (gol.), *Cyfres y Meistri*, 235.

Silverman,²¹⁶ gael ei amlygu yn y pennill olaf, dyma'r 'Valley of Shadow' – ymgorfforiad o farwolaeth. Ni chaiff y dechneg hon o ddatblygu arwyddocâd y ddelwedd dros nifer o benillion ei hail-greu yng nghyfieithiad Gwynn Jones, fodd bynnag – trosiad sy'n defnyddio geiriau mwy llythrennol i gyfeirio at y cysgod ym mhob achos, gan gollu rhywfaint o ergyd crefft y gwreiddiol. Gan ystyried hierarchaeth Low, daw'n amlwg, o graffu ar addasrwydd y geiriau Cymraeg mewn perthynas â'r gerddoriaeth, fod Gwynn Jones wedi rhoi blaenoriaeth i'r acenion a rhythmau'r gerddoriaeth yn yr achos hwn: gosodir llai o bwyslais ar union strwythurau technegol y bardd gwreiddiol yn hyn o beth nag ar osodiad y cerddor.

Mae'r gosodiad ei hun, gan R. Maldwyn Price (1890-1953), yn cynnig dadansoddiad gwahanol o'r geiriau gwreiddiol Saesneg i'r hyn a amlinellwyd uchod – hynny yw, lle y gwelir y 'Valley of Shadow' ar ddiwedd y gerdd fel dyfodiad marwolaeth i'r marchog.²¹⁷ Egyr y gân gyda rhythmau sionc sydd fel petaent yn darlunio cerddediad ceffyl y marchog wrth iddo gychwyn ar ei daith. (**Gweler Atodiad IV, Dyfyniad 13.**) Mae'r tempo yn gyflym drwy gydol yr adran gyntaf hon, a diddorol yw nodi na cheir unrhyw arafu yn yr ail bennill lle mae'r geiriau'n sôn am y marchog yn heneiddio, ac na cheir awgrym yn y gerddoriaeth o'r newid naws: 'o'er his heart a shadow/ Fell'.²¹⁸

Cyflwynir adran newydd o ran y gerddoriaeth yn y pennill nesaf, fodd bynnag, wrth i'r marchog gyfarfod y 'pilgrim shadow', neu 'rith/ Bererin'.²¹⁹ Mae'r gerddoriaeth yn newid amseriad o 6/8 i 4/4, yn arafu ac yn trawsgyweirio, ac mae'r

²¹⁶ Silverman, *Mournful and Never-Ending Remembrance*, 403. Noda Silverman fod hon yn dechneg a geir gan Poe hefyd yn ei gerdd gynharach 'The Raven' – cerdd a gyfieithodd T. Gwynn Jones hefyd, ond fel darn o farddoniaeth yn hytrach na geiriau cân. T. Gwynn Jones, 'Y Gigfran', *Y Llenor*, 1 (1922), 1-4.

²¹⁷ Hammond, *An Edgar Allan Poe Companion*, 162.

²¹⁸ Poe, Gwynn Jones, Price, *Eldorado*, 2.

²¹⁹ *Ibid.*, 3.

naws yn ymdywyllu i adlewyrchu dirgelwch y ffigwr hwn, y '[rh]ith/ Bererin'. (**Gweler Atodiad IV, Dyfyniad 14.**) Wrth iddo ddatgelu ei gyfarwyddiadau ynghylch sut i gyrraedd Eldorado, fodd bynnag, dychwela'r gerddoriaeth at y thema agoriadol, ac ailgyflwynir y rhythmau cwafer, hanner-cwafer, cwafer, sy'n awgrymu trotian y ceffyl unwaith eto. (**Gweler Atodiad IV, Dyfyniad 14.**) Wrth i'r gân ddod i ben, mae'r gerddoriaeth yn cryfhau mewn dynameg hyd at *fortissimo*, a chly'r darn â chyfres o gordiau B^b fwyaf, cyweirnod gwreiddiol y darn. (**Gweler Atodiad IV, Dyfyniad 15.**) Mae'r naws ddatliadol a geir yma yn awgrymu fod R. Maldwyn Price wedi dewis pwysleisio 'Ride, boldly, ride', cyngor y 'rhith', yn hytrach na gwir ergyd y gerdd i nifer o feirniaid, sef tywyllwch a pherygl y 'Valley of Shadow'.²²⁰

'Disgybl wyf, ef a'm dysgawdd'²²¹ oedd geiriau cofiadwy T. Gwynn Jones ynghylch John Morris-Jones, ac mae dylanwad gwaith a meddylfryd yr athro ar Gwynn Jones wedi'i drafod yn aml.²²² Llai adnabyddus yw'r cysylltiad rhyngddynt fel cyfieithwyr, fodd bynnag. Ymddengys yn *Cerddi Canu* – a ymddangosasai ym 1938 dan y teitl *Two Omar Lyrics: Dau Bennill Omar* – drosiad gan Gwynn Jones o ddau o benillion cyfieithiad Edward Fitzgerald (1809-1883) o Rubáiyát Omar Khayyám – rhai o'r un darnau a gyfieithodd Morris-Jones ei hun 'O'r Berseg' gwreiddiol ac a gyhoeddwyd yn *Caniadau* ym 1907.²²³ Y mae sylw John Griffith Williams am benderfyniad Morris-Jones i 'ymgymeryd â'r fath fynydd o waith' yn arwyddocaol yng nghyswllt yr astudiaeth hon: 'Mae'n amlwg bod John Morris-Jones wedi gweld bod y gwaith Persiaidd hwn a ddaethai mor enwog ac mor dderbyniol gan

²²⁰ Ibid., 4.

²²¹ T. Gwynn Jones, 'John Morris-Jones', yn *Cymeriadau* (Wrecsam, 1933), 102.

²²² Gweler, er enghraifft, Allan James, *John Morris-Jones* (Caerdydd, 2011), 176; Arthur ap Gwynn, 'Thomas Gwynn Jones: Dyddiau a Gweithiau Cynnar', yn ap Gwilym (gol.), *Cyfres y Meistri*, 49; Alun Llywelyn-Williams, 'T. Gwynn Jones: Gorchest y Bardd', yn ap Gwilym (gol.), *Cyfres y Meistri*, 201; Jenkins, *Cofiant*, 103, 128-9, 218; Jones, *Llenyddiaeth Gymraeg*, 17.

²²³ John Morris-Jones, *Caniadau* (Rhydychen, 1907), 161-95.

genhedloedd y byd yn gyfryw ag y dylai'r Cymry hefyd ei gael yn eu hiaith hwythau'.²²⁴ Tebyg iawn yw'r syniadaeth hon i feddylfryd W. S. Gwynn Williams wrth iddo sefydlu Cwmni Cyhoeddi Gwynn a'i 'childhood dream of supplying Wales with music'.²²⁵ Noda David R. Jones fod modd gweld arfer Gwynn Williams o gael geiriau yn y ddwy iaith ar ei gyhoeddiadau fel modd o ehangu cynulleidfa at bwrpas gwerthiant, ond, 'far more convincing is that Gwynn Williams had a genuine social concern for all fellow musicians, and provided both notations and languages for the good of the greatest number'.²²⁶

Ysgrifennodd Gwynn Williams at Gwynn Jones ym mis Ionawr 1938 yn gofyn am gyfieithiad o'r ddau bennill gan Fitzgerald sy'n dechrau 'Awake! for Morning in the Bowl of Night' a 'Come, fill the Cup, and in the Fire of Spring': 'I have a setting for ladies' voices, of the two enclosed stanzas from "Omar Khayyam". I shall be grateful if you will make me a translation. I have carefully marked the copy'.²²⁷ Daw'r penillion Saesneg o argraffiad cyntaf Fitzgerald o waith Khayyám; treuliodd flynyddoedd yn diwygio'i drosiadau, a chyhoeddwyd pum argraffiad i gyd: 1859, 1868, 1872, 1879 a 1889. Nid yw fersiynau Fitzgerald yn gyfieithiadau ffyddlon, fel y noda Laurence Housman yn ei ragymadrodd i gyfrol George F. Maine o gyfieithiadau Fitzgerald (1953): 'A comparative examination of translations from the Persian original... makes it clear that FitzGerald did not so much translate Omar as make a poetic transfusion of the quatrains to suit his own fancy... he took great

²²⁴ John Griffith Williams, *Omar* (Dinbych, 1981), 15-16.

²²⁵ W. S. Gwynn Williams, dyfynnir yn Jones, 'Advocate of Change and Tradition', 345.

²²⁶ *Ibid.*, 346-7.

²²⁷ Llythyr, dyddiedig 28 Ionawr 1938, gan WSGW at TGJ, Papurau TGJ, A1105, LIGC.

liberties with the text'.²²⁸ Ac ymhellach, meddai Housman: 'the existence of variants so widely different informs us definitely that FitzGerald's rendering is an inspired paraphrase rather than a translation'.²²⁹ Yn ôl Allan James, '[c]reu ei gyfres penillion ei hun... er mwyn cyflwno'r gwahanol themâu' a wnaeth John Morris-Jones wrth drosi hefyd: 'llunio prydddest Gymraeg o'r penillion, trwy eu trefnu hyd y gallwn yn ôl rhediad y meddwl', chwedl y cyfieithydd ei hun. Yn hyn o beth, ceir gwahaniaeth mawr rhwng trosiadau Morris-Jones a Fitzgerald, fel y dangosir yn y gyfrol *Omar* gan John Griffith Williams. Yma ceir trafodaeth ar fywyd a gwaith Omar Khayyám, Fitzgerald a Morris-Jones fel ei gilydd, ac fe osodir, fesul pennill, drosiadau Fitzgerald a Morris-Jones (ynghyd â fersiynau E. Heron-Allen, E. H. Whinfield a J. H. McCarthy, hwythau wedi cyfieithu'r gwaith i'r Saesneg), yn gyfochrog at bwrpas cymharu.²³⁰

Yn achos trosiadau T. Gwynn Jones, y mae'n werth, yn y fan hon, ddyfynnu'r pennill cyntaf sydd dan sylw yn nhrosiad enwog Fitzgerald:

Awake! for Morning in the Bowl of Night
Has flung the Stone that puts the Stars to Flight:
And Lo! the Hunter of the East has caught
The Sultan's Turret in a Noose of Light.²³¹

A dyma drosiad T. Gwynn Jones:

Dihun! i gawg y Nos, y Bore wân
Y maen sy'n tarfu'r Sêr fel defaid mân
A gwêl! mae'r Dwyrain-Heliwr wedi dal
Mewn dolen danbaid feindwr y Swltân.²³²

²²⁸ Laurene Housman, 'Introduction', yn George F. Maine (gol.), *Rubáiyát of Omar Khayyám: Rendered into English Verse by Edward Fitzgerald* (London, 1953), 38.

²²⁹ *Ibid.*, 18.

²³⁰ Gweler Williams, *Omar*.

²³¹ Edward Fitzgerald (Saesneg), T. Gwynn Jones (Cymraeg), Haydn Morris (cerddoriaeth), 'Awake = Dihun', yn W. S. Gwynn Williams (gol.), *Two Omar Lyrics: Dau Bennill Omar* (Llangollen, 1938), 1-2.

Fe welir bod Gwynn Jones wedi atgynhyrchu patrwm odlau'r Saesneg ac wedi llwyddo i ddal drama ddelweddol a rethregol y gwreiddiol. Er bod pennill cyfatebol Morris-Jones i'r hyn a ddyfynnir uchod – ail bennill ei gyhoeddiad ef, yn ôl *Omar Williams*²³³ – yn bur wahanol i fersiynau Fitzgerald a Gwynn Jones o ran cynnwys, gwelir bod y tri throsiad yn arddel un ddelwedd gofiadwy: 'Noose of Light' yw golau'r haul ar dwred i Fitzgerald,²³⁴ 'dolen danbaid' sydd gan Gwynn Jones,²³⁵ ac yn ôl Morris-Jones, 'Yr haul a deifl ei dennyn am y to'.²³⁶

Y mae gosodiad Haydn Morris (1891-1965) o'r pennill cyntaf o waith Fitzgerald, 'Awake', yn pwysleisio'r dihuono wrth ailadrodd y gair agoriadol gyda *crescendo* effeithiol i adlewyrchu'r deffroad ar ddechrau'r darn, ac aildefnyddir y dechneg yng nghlo'r gân hefyd. **(Gweler Atodiad IV, Dyfyniadau 16 ac 17.)** Yn llinell olaf trosiad Gwynn Jones o'r pennill, lle disgrifir y 'Dwyrain-Heliwr' yn dal 'mewn dolen danbaid feindwr y Swltân',²³⁷ cyfieithiad o 'the Sultan's Turret in a Noose of Light'²³⁸ (priflythrennau'r gwreiddiol), pwysleisia'r gerddoriaeth y gair 'noose' yn y Saesneg gyda chyfres o hanner cwaferi wedi'u dal dros ddau far. **(Gweler Atodiad IV, Dyfyniad 18.)** Disgyn y ffigur hwn ar 'y' yn y cyfieithiad, gan bwysleisio rhan ddibwys o'r llinell. **(Gweler Atodiad IV, Dyfyniad 18.)**

Y mae 'Come, Fill the Cup' yn bennill sy'n cynnig llwncdestun i fywyd newydd ac yn defnyddio delweddaeth y tymhorau i gyfleu pwysigrwydd rhoi'r gorau

²³² Ibid.

²³³ Williams, *Omar*, 134.

²³⁴ Fitzgerald, Gwynn Jones, Morris, 'Awake = Dihun', 2.

²³⁵ Ibid.

²³⁶ Morris-Jones, 'Penillion Omar Khayyâm', yn *Caniadau*, 161. Gweler hefyd, bellach, Dafydd Glyn Jones (gol.), *John Morris Jones: Penillion Omar Khayyâm* (Bangor, 2015), sy'n cynnwys rhagymadrodd byr ond buddiol.

²³⁷ Fitzgerald, Gwynn Jones, Morris, 'Awake = Dihun', 1-2.

²³⁸ Ibid., 2.

i edifarhau: ‘in the Fire of Spring/ The Winter Garment of Repentance fling’.²³⁹ Yr un ddelwedd yn union a geir yng nghyfieithiad Gwynn Jones, ac ymddengys fod y pwyslais a roddodd ar gategori ‘Sense’ Low, megis yn ‘Awake = Dihun’, unwaith eto yn golygu iddo aberthu rhywfaint yn achos acennu a rhythm, wrth inni weld y pwyslais yn cwmpo ar y geiryn llai pwysig ‘sy’: ‘yn nhân y Gwanwyn sy/ Rho aeaf wisg yr Edifeirwch fu’.²⁴⁰ (**Gweler Atodiad IV, Dyfyniad 19.**) Ymddengys, felly, er i Gwynn Williams farcio’r acenion ar y geiriau i’w cyfieithu – ‘I have carefully marked the copy’ – na lwyddodd y dechneg acennu yn gyfan gwbl yn achos *Two Omar Lyrics: Dau Bennill Omar*.²⁴¹

Pwysleisia Laurence Housman ddylanwad parhaol gwaith Khayyám ar lenyddiaeth Saesneg: ‘it would be difficult to name any single poem [...] written during the last hundred years which has so taken hold of the thought of succeeding generations’.²⁴² Bardd dylanwadol arall yr aeth T. Gwynn Jones i’r afael â chyfieithu ei waith yw William Shakespeare, a nodwyd eisoes gyfraniad mawr Gwynn Jones gyda’i gyfieithiad o *Macbeth*. Y mae *Cerddi Canu* yn cynnwys trosiadau Gwynn Jones o ddarnau eraill o waith Shakespeare, a cheir pedwar cyfieithiad yn y gyfrol: ‘Gwanwyn’ a ‘Gaeaf’, dwy gân o *Love’s Labour’s Lost*; ‘Di Wiber Fraith’, o *A Midsummer Night’s Dream*; a ‘Dôl Mab a Merch a Garai Gynt’, o *As You Like It*. W. S. Gwynn Williams ei hun sy’n gyfrifol am y gosodiadau o’r ddwy gân gyferbyniol o *Love’s Labour’s Lost*, sy’n defnyddio cân dau aderyn i nodweddu’r tymhorau a chyflwyno trafodaeth ar gariad, bywyd a hapusrwydd. Disgrifia ‘Spring’ holl ffyniant

²³⁹ Edward Fitzgerald (Saesneg), T. Gwynn Jones (Cymraeg), Haydn Morris (cerddoriaeth), ‘Come, Fill the Cup = Tyrdd, Moes y Gwin’, yn W. S. Gwynn Williams (gol.), *Two Omar Lyrics: Dau Bennill Omar* (Llangollen, 1938), 3.

²⁴⁰ Ibid.

²⁴¹ Llythyr, dyddiedig 28 Ionawr 1938, gan WSGW at TGJ, Papurau TGJ, A1105, LIGC.

²⁴² Housman, ‘Introduction’, 22.

a phrysurdeb y tymor hwnnw, y gwahanol flodau a welir, â chân y gwcw i'w chlywed uwchben y cwbl. Nid yw nodau'r aderyn hwn, fodd bynnag, yn cael eu croesawu gan bawb sy'n eu clywed:

Cuckoo, cuckoo, cuckoo,
O word of fear,
Unpleasing to a married ear.²⁴³

Byddai cysyniadau pendant ynghlwm â delwedd y gwcw i'r gynulleidfa wreiddiol, fel y noda Catherine McLay: 'the cuckoo as omen of adultery would be unmistakable to an Elizabethan ear'.²⁴⁴ O ganlyniad i'r ddelwedd hon, yn ôl McLay, tanseilir ein disgwyliadau o'r gwanwyn fel tymor o newid er gwell, bywyd a chariad newydd: 'The season of love is at once the season of jealousy and folly'.²⁴⁵

Egyr 'Spring' wrth restru'r blodau sy'n tyfu yn y gwanwyn:

When daisies pied, and violets blue
And lady-smocks all silver-white,
And cuckoo-buds of yellow hue
Do paint the meadows with delight.²⁴⁶

Dyma gyfieithiad T. Gwynn Jones:

Pan ddêl y llygaid dydd yn frith
A'r glesyn coed o dan y gwllith,
A'r cywion gŵyddau'n aur i gyd
I beintio'r dolydd ar eu hyd.²⁴⁷

²⁴³ William Shakespeare (Saesneg), T. Gwynn Jones (Cymraeg), W. S. Gwynn Williams (cerddoriaeth), 'Spring = Gwanwyn', yn W. S. Gwynn Williams (gol.), *Two Shakespeare Lyrics: Dwy Delyneg gan Shakespeare* (Llangollen, 1938), 3.

²⁴⁴ Catherine M. McLay, 'The Dialogue of Spring and Winter: A Key to the Unity of *Love's Labour's Lost*', yn Felicia Hardison Londré (gol.), *Love's Labour's Lost: Critical Essays* (New York and London, 2001), 214.

²⁴⁵ *Ibid.*, 215.

²⁴⁶ Shakespeare, Gwynn Jones, Gwynn Williams, 'Spring = Gwanwyn', 3.

²⁴⁷ *Ibid.*, 3.

Yn ôl Saunders Lewis, mae cyfieithu'r llinellau Shakespeare uchod yn 'amhosibl, oblegid nad oes mewn iaith arall enwau ar y blodau hyn a chan eu llafariaid hirion a'u diptoniaid y miwsig arbennig a geir o'u cydosodiad yma.' Am 'gais Dr. Jones' i drosi'r darn, dywed, 'ni ellid fyth well, ond nid hud a lledrith Shakespeare mohono'.²⁴⁸ Ond, gellir dadlau bod naws yr olygfa a ddisgrifir gan Shakespeare yn sicr wedi'i throsglwyddo gan Gwynn Jones yn ei eiriau yntau, ac fe welir techneg restru Shakespeare yn cael ei hategu yma gyda'r un naturioldeb arddull gyda'r defnydd o'r enwau Cymraeg ar y blodau. Diddorol yw sylwi ar yr union flodau a ddefnyddia'r bardd Cymraeg o gymharu â rhai Shakespeare: cedwir y 'daisies pied' gan Gwynn Jones, ac er nad y 'violet' yw'r 'glesyn coed', y mae'r planhigyn hwnnw ('bugle' yn Saesneg), fel y fioled, yn las tywyll neu borffor ei liw.²⁴⁹ Nid yw Gwynn Jones yn cyfeirio at 'lady-smocks' Shakespeare – planhigyn sydd, yn ôl Catherine McLay, yn awgrymu is-destun rhywiol, un ac iddo arwyddocâd amlwg yng nghydestun ei dehongliad hi o'r gwew a'r tymor yn gyffredinol. Diddorol yw nodi mai'r enw Cymraeg ar 'lady-smocks' yw 'blodyn y gog', a fyddai, efallai, wedi bod yn gyfeiriad effeithiol at yr aderyn sydd mor ganolog i'r gerdd hon, ac yn awgrym o'r is-destun rhywiol a nodwyd.²⁵⁰

Mae cytgan y darn yn cyfeirio'n uniongyrchol at yr hyn a awgrymir yn y llinellau cynt, sef anffyddlondeb gwragedd, a gynrychiolir gan y gwew:

The cuckoo then, on ev'ry tree
Mocks married men; for thus sings he,
Cuckoo, cuckoo, cuckoo,
O word of fear,

²⁴⁸ Saunders Lewis, 'Cyfieithiadau'r Meistr (Colofn Llyfrau'r Dydd)', yn *Baner ac Amserau Cymru*, Rhagfyr 16, 1942, 1.

²⁴⁹ Dafydd Davies ac Arthur Jones, *Enwau Cymraeg ar Blanhigion* (Caerdydd, 1995), 101.

²⁵⁰ <<http://www.wildlifetrusts.org/species/ladys-smock>>; cyrchwyd 1 Ebrill 2014.

Unpleasing to a married ear.²⁵¹

Mae gan Gwynn Jones gyfeiriad uniongyrchol at yr ymadrodd ‘word of fear’ (ll. 4 yn y gwreiddiol) yn ei ail linell gydag ‘er braw i rai’. Daw’r gair hwn yn annisgwyl i ganol y disgrifiadau o fywyd newydd y gwanwyn, ac mae’n torri ar y naws yn yr un modd â’r gair ‘fear’ yng ngwaith Shakespeare:

Fe gân y gog o’r llwyni drain,
Er braw i rai; a dyma’i sain,
Cwcw, cwcw, cwcw, rhyw acen yw
Na châr un eiddig yn ei fyw.²⁵²

Effeithiol hefyd yw defnydd Gwynn Jones o’r term ‘eiddig’ yn y llinell olaf uchod, gan mai gwraidd anesmwythder y dyn priod yw cân y gwcw. Y mae’r ‘Eiddig’, wrth gwrs, yn gymeriad stoc yn y traddodiad barddol Cymraeg – un sy’n perthyn i waith Dafydd ap Gwilym yn arbennig – a’r cymeriad hwnnw yn wâr i wrthrych serch y bardd.²⁵³ Mae’r cysyniadau y cyfeiria’r gair hwn atynt yn sicrhau hunaniaeth Gymraeg i’r cyfieithiad: drwy gyfeirio at elfen yn y traddodiad barddol Cymraeg, ychwanegir dimensiwn pellach, drwy gyfrwng diwylliant gwahanol, at y cyd-destun Elisabethaidd Saesneg gwreiddiol. Dyma enghraifft o Gymreigio Shakespeare yn llwyddiannus.

Fe welir felly fod cân y gwcw yn ‘Spring’ yn ‘unpleasing’, ac yn rhywbeth nad yw’r gwrandawr priod am ei glywed.²⁵⁴ I’r gwrthwyneb, yn ‘Winter’, er bod bywyd dipyn yn anos yn yr oerfel caled, croesewir galwad y dylluan, a disgrifir hi fel

²⁵¹ Shakespeare, Gwynn Jones, Gwynn Williams, ‘Spring = Gwanwyn’, 3.

²⁵² Ibid.

²⁵³ Gweler d.g. *eiddig*, <<http://geiriadur.ac.uk/gpc/gpc.html>>; cyrchwyd 1 Ebrill 2014, a’r drafodaeth ar y defnydd o gymeriad yr Eiddig yn Gwyn Thomas, *Y Traddodiad Barddol* (Caerdydd, 1976), 158.

²⁵⁴ Shakespeare, Gwynn Jones, Gwynn Williams, ‘Spring = Gwanwyn’, 3.

‘merry note’.²⁵⁵ Er gwaethaf caledi bywyd yn y gaeaf, ni cheir unrhyw ansicrwydd, yn ôl McLay: ‘the cuckoo suggests the note of fear in disharmony with the whole mood of spring [...] There is a peace and serenity in the last dialogue [‘Winter’], with its acceptance of life as it is’.²⁵⁶ Wrth osod y darn hwn, sef ‘Winter = Gaeaf’, gwelir bod W. S. Gwynn Williams wedi ceisio pwysleisio ‘merry note’ y dylluan. Wrth i’r geiriau gyfeirio at gân y dylluan, ‘tu-whit, tu-who’, mae’r gerddoriaeth yn efelychu rhythm a thraw ei sain, elfen a welir hefyd yn y gosodiad o ‘Spring = Gwanwyn’ yn achos cân y gwcw.²⁵⁷ (**Gweler Atodiad IV, Dyfyniadau 20 a 21.**) Pwysleisia’r gosodiad, drwy gyfrwng marc *tenuto*, sef oedi ychydig, gân y dylluan fel ‘a merry note’.²⁵⁸ (**Gweler Atodiad IV, Dyfyniad 21.**) Dyma ganolbwynt y gân a chraidd ei hystyr: mae’r gaeaf, wedi’i gynrychioli gan gân y dylluan, yn fwy llon na’r disgwyl, gan ei fod yn cynnig sefydlogrwydd a diogelwch mewn perthynas, yn groes i gyffro *godinebus* y gwanwyn.

Yn y cyfieithiad Cymraeg o ‘Winter’, fel yn achos ‘Spring’, gwelir bod Gwynn Jones unwaith eto wedi addasu cynnwys y gân ar gyfer cynulleidfa Gymraeg. Mae ‘Dick the shepherd’ bellach yn ‘was’ dienw, ‘greasy Joan’ yn awr yn ‘Siân’, a ‘Marian’ yn troi’n ‘Mari’.²⁵⁹ Mae’r enwau Saesneg wedi eu dileu neu eu Cymreigio, felly, gan greu cymeriadau sy’n gartrefol mewn cyd-destun Cymraeg. Tynnodd Saunders Lewis, yn ei adolygiad ar *Cerddi Canu*, sylw at y ffaith fod Gwynn Jones, yn ei drosiad, yn cynnig trawsffurfiad o ran cefndir a chyd-destun: ‘ffermdy

²⁵⁵ William Shakespeare (Saesneg), T. Gwynn Jones (Cymraeg), W. S. Gwynn Williams (cerddoriaeth), ‘Winter = Gaeaf’, yn Gwynn Williams (gol.), *Two Shakespeare Lyrics: Dwy Delyneg gan Shakespeare*, 5.

²⁵⁶ McLay, ‘The Dialogue of Spring and Winter’, 215.

²⁵⁷ Shakespeare, Gwynn Jones, Gwynn Williams, ‘Winter = Gaeaf’, 3.

²⁵⁸ *Ibid.*

²⁵⁹ *Ibid.*, 5-6.

mynyddol Cymreig yn lle maenol Seisnig Shakespeare'.²⁶⁰ Wrth ystyried cynnwys 'Gaeaf' yng nghyd-destun categori 'Sense' Low, mae naws adrannau disgrifiadol y cyfieithiad yn fyddlon i'r geiriau gwreiddiol, ond yn amrywio o ran union natur y delweddau. Er enghraifft, yn hytrach na dwylo oer 'Dick the shepherd' Shakespeare, '[t]raed y gwas [sy'n] oer fel dur'.²⁶¹ Yn yr ail bennill, ceir dau ddisgrifiad cyferbyniol o drwyn Mari/Marian: yn y Saesneg mae trwyn Marian yn 'red and raw', ond yn y Gymraeg y mae Mari'n 'las ac oer ei thrwyn'.²⁶²

Ceir un gwahaniaeth arwyddocaol yn y cyfieithiad, a hynny mewn un gair – ond caiff y newid hwn effaith bwysig ar ystyr gweddill y gerdd. Disgrifir cân y dylluan yn y gwreiddiol fel 'a merry note', ac fe welwyd eisoes arwyddocâd y disgrifiad hwn, sy'n cyferbynnu'n uniongyrchol â 'word of fear' y gwcw yn 'Spring'.²⁶³ Er gwaethaf pwysigrwydd y syniad hwn, fodd bynnag, disgrifia Gwynn Jones y gân fel 'rhyw wamal sain'.²⁶⁴ Gan ystyried y drafodaeth uchod ar gân y gwcw fel un sy'n dynodi anffyddlondeb, a sŵn y dylluan fel un sydd, mewn gwrthgyferbyniad, yn arwyddo sefydlogrwydd, mae'r disgrifiad hwn, 'rhyw wamal sain', yn tanseilio'r ddeialog sy'n bodoli rhwng y caneuon hyn, fel y nodwyd gan nifer o feirniaid.²⁶⁵ Os cymerir cyweirnod mwyaf, tempo sionc, ac alaw fywiog gosodiad W. S. Gwynn Williams o 'Winter' Shakespeare fel adlewyrchiad o 'merry note' y dylluan, yna ceir tensiwn rhwng cynnwys geiriau'r cyfieithiad Cymraeg a'r gosodiad cerddorol.

²⁶⁰ Lewis, 'Cyfieithiadau'r Meistr', 1.

²⁶¹ Ibid., 5.

²⁶² Ibid., 6.

²⁶³ Ibid., 5, 3.

²⁶⁴ Ibid., 5.

²⁶⁵ Gweler cyflwyniad Felicia Hardison Londré i'w chasgliad golygedig o ysgrifau beirniadol ar *Love's Labour's Lost*, lle yr amlinella brif ddadleuon beirniaid ynghylch y caneuon hyn: Felicia Hardison Londré, 'Introduction' yn Londré (gol.), *Love's Labour's Lost: Critical Essays*, 7.

Mae'r dechneg restrol a welir yn 'Spring' wrth bentyrru enwau'r blodau hefyd yn ymddangos yn *Di Wiber Fraith*, cyfieithiad T. Gwynn Jones o 'You Spotted Snakes' o gomedi Shakespeare *A Midsummer Night's Dream*. Cenir y gân hon yn y ddrama i anfon Titania, brenhines y tylwyth teg, i gysgu, cyn i Oberon, ei gŵr, roi'r hylif cariad yn ei llygaid fel y bydd yn syrthio mewn cariad â'r person neu'r peth cyntaf a wêl. Y mae Titania yn deffro yn y man, ac yn cwmpo mewn cariad â Bottom, y rhithiwyd arno ben asyn.²⁶⁶ Mae geiriau 'You Spotted Snakes', a genir gan y tylwyth teg, yn siarsio, yn y penillion, greaduriaid peryglus ac amhleserus i gadw draw rhag eu brenhines, ac, yn y gytgan, yn gwahodd yr eos i ganu hwiangerdd iddi: 'Never harm, nor spell, nor charm,/ Come our lovely lady nigh;/ So, good night,/ So good night with lulla, lulla, lullaby'.²⁶⁷ Eironig ddigon yw'r ergyd yn y cyswllt hwn, o ystyried yr helynt sydd i ddilyn nid yn unig yn achos cymeriad Titania ond hefyd yn achos y meidrolion Lysander, Hermia, Demetrius a Helena.²⁶⁸

Mae gosodiad Harold Carpenter Lumb Stocks (1884-1956) o 'You Spotted Snakes', a gyhoeddwyd gan Gwmni Cyhoeddi Gwynn ym 1939, yn gwahaniaethu rhwng y penillion a'r gytgan drwy gyfrwng newid cyfan gwbl o ran naws. Egyr y darn â'r cyfarwyddyd *Con Spirito* (gydag ysbryd/arddeliad), gyda'r acenion rhybuddiol yn y cyfeiliant yn rhagfynegi'r geiriau sy'n gwahardd yr amryw greaduriaid. (**Gweler Atodiad IV, Dyfyniad 22.**) *Restfully*, fodd bynnag, yw cyfarwyddyd mynegiant y gytgan, ac mae'r gerddoriaeth yn yr adran hon yn ymdebygu i hwiangerdd gydag alaw seml. (**Gweler Atodiad IV, Dyfyniad 23.**) Fe welir bod Gwynn Jones yn trosi rhai o'r delweddau gan ddal ysbryd disgrifiadol y

²⁶⁶ Gweler R. A. Foakes (gol.), *A Midsummer Night's Dream* (Cambridge, 2003), III.i.107-78, tt. 91-4.

²⁶⁷ William Shakespeare (Saesneg), T. Gwynn Jones (Cymraeg), H. C. L. Stocks (cerddoriaeth), *You Spotted Snakes: Di Wiber Fraith* (Llangollen, 1939), 3-4.

²⁶⁸ Gweler, er enghraifft, Foakes (gol.), *A Midsummer Night's Dream*, III.ii.41-458, tt. 96-112.

gwreiddiol: try ‘you long-legged spinners’ yn ‘hirgoes wehydd’, a’r ‘spotted snakes’ agoriadol yn ‘wiber fraith’.²⁶⁹ Nid yw Gwynn Jones wedi cynnig cyfieithiad yn achos pob un o’r creaduriaid a restrir yn y penillion gwreiddiol. Er enghraifft, y mae’n hepgor y ‘blind-worms’, a thry ‘Worm nor snail’ yn ‘[G]lêr a malwod’.²⁷⁰ Llwydda Gwynn Jones, yn ei drosiad, i gyfleu’r ymdeimlad o berygl a bygythiad a amlygir yn y gwreiddiol gan y nadroedd, y corrynnod a’r genau-goeg (creadur y credid ei fod yn wenwynig²⁷¹).

Drama arall gan Shakespeare sydd wedi’i gosod mewn coedwig ydyw *As You Like It*, sy’n cynnwys y gân ‘It was a Lover and His Lass’ a gyfieithwyd gan Gwynn Jones ac a ymddengys yn *Cerddi Canu*. Diddorol yw’r cyferbyniad rhwng y ddwy goedwig: yn *A Midsummer Night’s Dream*, locws anhrefn yw’r coed, tra mae coedwig Arden yn *As You Like It* yn noddfa, ‘the place where sanity is restored’, chwedl Albert R. Cirillo.²⁷² Cenir ‘It was a Lover and His Lass’ ar ddiwedd Act V, Golygfa iii – golygfa gynderfynol y ddrama – cyn i’r cymeriadau ymgasglu er mwyn priodi yn yr olygfa olaf.²⁷³ Mae’r gân yn dathlu cariad a ffyniant y gwanwyn, ond awgrymir hefyd y dylid cymryd cyfle heb oedi: ‘How that life was but a flower [...] And therefore take the present time’.²⁷⁴ Mae cyfieithiad T. Gwynn Jones yn pwysleisio’r agwedd hon ar fyrhoedledd â’r llinell gofiadwy ‘Byw nid yw ond blodyn

²⁶⁹ Shakespeare, Gwynn Jones, Stocks, *You Spotted Snakes: Di Wiber Fraith*, 1.

²⁷⁰ Ibid.

²⁷¹ Foaks, nodyn ar *A Midsummer Night’s Dream* II.ii.9-30, t. 81.

²⁷² Albert R. Cirillo, ‘*As You Like It*: Pastoralism Gone Awry’, *ELH*, Cyf. 38, Rhif 1 (Mawrth, 1971), 21.

²⁷³ Michael Hattaway (gol.), *As You Like It* (Cambridge, 2000), V.iii.1 - V.iv.182, tt. 185-96.

²⁷⁴ William Shakespeare (Saesneg), T. Gwynn Jones (Cymraeg), Thomas Morely (cerddoriaeth), ‘It Was a Lover and His Lass = Dôl Mab a Merch a Garai Gynt’, yn W. S. Gwynn Williams (gol.), *Three Old English Songs: Tair Hen Gân Seisnig* (Llangollen, 1939), 3.

brau'.²⁷⁵ Prydferthwch a hapusrwydd darfodedig a ddisgrifir yma, megis yn 'Daffodils' Robert Herrick. Hen syniad ydyw, wrth gwrs, ond un a fynegwyd yn gofiadwy yn y traddodiad Cymraeg gan Goronwy Owen yn 'Cywydd y Gwahodd':

Hafal blodeuyn hefyd
I'n hoen fer yn hyn o fyd...
Diwedd sydd i flodeuyn,
Ac unwedd yw diwedd dyn.²⁷⁶

Wrth ystyried y gân yng nghyswllt y ddrama, gwelir ei bod, fel y nodir uchod, yn rhagflaenu uchafbwynt y gwaith, sef y priodasau rhwng Rosalind ac Orlando, Celia ac Oliver, Phoebe a Silvius, ac Audrey a Touchstone.²⁷⁷ Wrth ddisgrifio'r gwanwyn, nodir yn y gân mai dyma'r 'only pretty ring time': cyfeiriad, wrth gwrs, at briodi, a'r ffaith y dylid gwneud hynny yn y gwanwyn pan fo cariad yn ei lawn dwf.²⁷⁸ Er gwaethaf hyfrydwch llinell T. Gwynn Jones yn y cyfieithiad, 'Gwanwyn/ Odidog wridog wanwyn', gyda'i gyffyrddiadau cynganeddol, nid yw'n adlewyrchu'r cydestun priodasol sydd mor annatod i blot *As You Like It*.²⁷⁹

Wrth ddwyn i gof gategorïau Peter Low mewn perthynas â chyfieithiadau ar gyfer cerddoriaeth, un o'r prif ystyriaethau yn ôl ei ddamcaniaeth ef yw 'Singability'. Mae'r agwedd hon yn cyfeirio'n bennaf at gyfrifoldeb y cyfieithydd i ystyried y seiniau hawsaf i'w canu: ystyrir llafariaiaid megis 'a' ac 'o' yn fwy addas ar gyfer nodau uchel neu hir, er enghraifft.²⁸⁰ Dylid hefyd osgoi clystyrau o gytseiniaid, yn

²⁷⁵ Ibid., 3.

²⁷⁶ Goronwy Owen, 'Cywydd y Gwahodd' yn A. Cynfael Lake (gol.), *Blodeugerdd Barddas o Ganu Caeth y Ddeunawfed Ganrif* (Abertawe, 1993), 109.

²⁷⁷ Hattaway (gol.), V.iii.1 - V.iv.182, tt. 185-96.

²⁷⁸ Shakespeare, Gwynn Jones, Morely, 'It Was a Lover and His Lass = Dôl Mab a Merch a Garai Gynt', 3.

²⁷⁹ Ibid., 3.

²⁸⁰ Spaeth, 'Translating to Music', 296.

enwedig mewn adrannau cyflym, er mwyn galluogi'r canwr i eirio heb drafferth.²⁸¹ Mae cyfieithiad T. Gwynn Jones, 'Dôl Mab a Merch a Garai Gynt', fodd bynnag, yn peri trafferth mewn un rhan yng nghyswllt 'Singability', a hynny yn ei gyfieithiad o gân yr adar, 'Hey ding a ding a ding': 'Hai dinc by-dinc by-dinc'.²⁸² Bu i'r cerddor Elisabethaidd Thomas Morely (1557/8-1602) osod y geiriau hyn ar hanner-cwaferi disgynnol, ac nid tasg hawdd yw canu 'c' wedi'i dilyn gan 'b' ar y ffigwr cyflym hwn. (**Gweler Atodiad IV, Dyfyniad 24.**) Er bod acenion y cyfieithiad yn gydnaws â'r gosodiad, gwelir yma nad yw Gwynn Jones efallai wedi llawn ystyried cyflymder y gerddoriaeth wrth drosi, gan esgor ar broblemau posibl i'r cantorion.

Mae'r ddwy gân arall a gynhwysir yn *Three Old English Songs: Tair Hen Gân Seisnig*, y casgliad y cyhoeddwyd 'Dôl Mab a Merch a Garai Gynt' ynddo'n wreiddiol, o natur wahanol: caneuon traddodiadol ydynt. Mae 'Barbara Allen' a 'A Farmer He Lived' ill dwy yn ymwneud â thema cariad, un yn adrodd hanes trasig a'r llall yn fwy gobeithiol ei natur. Y mae 'Barbara Allen' yn sôn am ferch dlos a oedd mor hyfryd fel y byddai pob dyn yn syrthio mewn cariad â hi: 'There was a fair maid dwelling,/ Made ev'ry youth cry well-a-day!'.²⁸³ Edrydd y gân hanes un llanc yn arbennig, 'Jemmy Grove', sydd yn glaf o gariad at Barbara, ac yn marw. Â'r ferch i ymweld ag ef ar ei wely angau, ac wedi iddo gael ei gladdu gwelir Barbara yn gofyn i'w mam baratoi gwely angau ar ei chyfer hithau: "'O mother, mother, make my bed,/ For I shall die to-morrow'".²⁸⁴ Wrth drosi'r geiriau i'r Gymraeg, y mae T. Gwynn Jones, fel a wnaeth yn ei gyfieithiad o 'Winter' Shakespeare, yn addasu enwau'r

²⁸¹ Low, 'The Pentathlon Approach', 193.

²⁸² Shakespeare, Gwynn Jones, Morely, 'It Was a Lover and His Lass = Dôl Mab a Merch a Garai Gynt', 3.

²⁸³ Dienw (Saesneg), T. Gwynn Jones (Cymraeg), *tradd.* (cerddoriaeth), 'Barbara Allen = Mali Elin', yn Gwynn Williams (gol.), *Three Old English Songs: Tair Hen Gân Seisnig*, 1.

²⁸⁴ *Ibid.*

cymeriadau a'r lleoliadau yn y gân er mwyn ei gosod mewn cyd-destun Cymreig. Try 'Scarlet Town' yn 'Pant y Felin', y prif gymeriad yn 'Mali Elin', ac enw'r truan, 'Young Jemmy Grove', yw 'Deio Ddu'.²⁸⁵ Ychwanega Gwynn Jones ymdeimlad cynhenid Gymreig i'r geiriau a droswyd o'r Saesneg, nid yn unig wrth newid yr enwau, ond yn ogystal drwy gynnwys cyffyrddiadau cynganeddol yn y pennill olaf: 'Ar ôl ei fynd a'i roi'n ei fedd,/ Daeth drosti alar garw [...] "Yfory byddaf farw".²⁸⁶ Rhan o lwyddiant cyfieithiad T. Gwynn Jones yn y cyswllt hwn, felly, yw'r modd yr addasodd yr hanes gwreiddiol yn arddulliol yn ogystal ag o ran cynnwys.

Cariad fel gwraidd eiddigedd rhwng chwirydd yw thema 'A Farmer He Lived', a hanes un chwaer yn gwthio ei chwaer ieuengaf i'r afon gan ei bod yn ymserchu yn ei chariad. Wrth ymateb i alwad ei chwaer o'r dŵr am gymorth, dywed, 'I'll neither lend you hand nor glove', ac fe nofia'r ieuengaf i lawr yr afon nes iddi gael ei hachub gan y melinydd.²⁸⁷ Mae'r byrdwn yn bwt o gân y mae'r chwirydd yn ei hailadrodd: 'Singing: "I will be true unto my love if my love be true unto me".²⁸⁸ Yng nghyswllt rhythmau ac acenion y gân hon, diddorol yw nodi nad yw'r gwreiddiol yn gyson o ran nifer y sillafau yn y llinellau sy'n cyfateb i'w gilydd yn y gwahanol benillion – er na cheir unrhyw newidiadau o ran y gerddoriaeth. Wrth ystyried y cyfieithiad, gwelir bod T. Gwynn Jones bob tro yn cadw at nifer sillafau'r geiriau gwreiddiol, hyd yn oed pan fo gormod ar gyfer y frawddeg gerddorol, er enghraifft: 'One day they were walking by the river's brim', 'Un dydd a hwy'n rhodio gyda'r afon fawr'.²⁸⁹ (**Gweler Atodiad IV, Dyfyniad 25.**) Daw'n amlwg felly nad y

²⁸⁵ Ibid.

²⁸⁶ Ibid.

²⁸⁷ Dienw (Saesneg), T. Gwynn Jones (Cymraeg), *tradd.* (cerddoriaeth), 'A Farmer He Lived = 'Roedd Ffermwr yn Byw', yn Gwynn Williams (gol.), *Three Old English Songs: Tair Hen Gân Seisnig*, 4.

²⁸⁸ Ibid.

²⁸⁹ Ibid.

gerddoriaeth oedd prif ffocws Gwynn Jones wrth gyfeithu; yn hytrach, gellid cynnig iddo ddilyn yr acenion a nodwyd ar y geiriau gwreiddiol gan W. S. Gwynn Williams.

Yn ogystal â'r ddau ddarn a drafodir uchod, ceir amryw ddarnau eraill yn *Cerddi Canu* sy'n enghreifftiau o ganeuon traddodiadol ynnysoedd Prydain. Gwelir maes o law yn y thesis sut y defnyddiwyd cerddoriaeth gan T. Gwynn Jones yng nghyswllt ei ddiddordeb personol ac academiaidd yn niwylliant traddodiadol Cymru, a rôl W. S. Gwynn Williams yn y gwaith hwnnw. Mae *Cerddi Canu*, sy'n cynnwys rhai cyfieithiadau o ganeuon Cymreig traddodiadol a geiriau newydd gan Gwynn Jones ar yr hen alawon, hefyd yn cynnwys enghreifftiau o ddarnau o Gernyw, yr Alban ac Iwerddon. Cyfieithiad o eiriau Saesneg y bardd o Gernyw Bernard Moore ydyw 'Yn y Wagen Do', lle gwelir Gwynn Jones yn cynnig trosiad effeithiol o naws anffurfiol 'In the Kittereen', gan efelychu'r dafodiaith Cernyw a geir yn y gwreiddiol gyda'r defnydd o gollnodau: 'An' of course us didn' care', 'A ninne'n dair ar ddeg 'run tro'.²⁹⁰

Yn *Cerddi Canu*, ceir gan Gwynn Jones eiriau Cymraeg dan y teitl 'Cwyn Mab Criman' – penillion a gyhoeddwyd gyda'r gerddoriaeth a geiriau Saesneg (gyda'r geiriau Gaeleg yr Alban gwreiddiol wedi'u cynnwys ar y diwedd) ym 1938 gan Gwmni Gwynn: *Mac Rimmon's Lament: Cwyn Mab Criman: Cumha Mhic Criomann*. Yno nodir 'The English words by Sir Walter Scott. Y cyfieithiad Cymraeg gan T. Gwynn Jones'. Ar yr olwg gyntaf, felly, ymddengys mai cyfieithiad o eiriau Saesneg Sir Walter Scott a geir yma, ond wrth gymharu'r gwahanol destunau, daw'n amlwg mai trosiad o'r farddoniaeth yn yr iaith wreiddiol a geir. Anfonwyd Saesneg

²⁹⁰ Bernard Moore (Saesneg), T. Gwynn Jones (Cymraeg), W. H. Reed (cerddoriaeth), *In the Kittereen: Yn y Wagen Do*, (Llangollen, 1938), 1; Am wybodaeth bellach ynghylch nodweddion tafodiaith Cernyw, gweler Martyn F. Wakelin, *Language and History in Cornwall* (Leicester, 1975) a K. C. Phillipps, *A Glossary of the Cornish Dialect* (Padstow, 1993).

Walter Scott, yn ogystal â'r Aeleg wreiddiol, at Gwynn Jones, fel y dengys y llythyr hwn oddi wrth W. S. Gwynn Williams:

Dr Vincent Thomas has made an arrangement for Mixed Voices of the old Highland air 'Cwmha [*sic*] Mhic Criomainn' and has adopted Sir Walter Scott's words as attached. I shall be grateful if you will give us a Welsh translation [...] I am marking the rhythm of the music on the English stanza and enclosing a copy of the Gaelic.²⁹¹

Ceir yn y detholiad o Saesneg Walter Scott sydd wedi'i gyhoeddi gan Gwmni Gwynn ymdeimlad naratifol cryf.²⁹² Egyr â disgrifiad o olygfa o lu yn paratoi i adael i fynd i frwydro: 'MacLeod's wizard flag from the grey castle sallies/ The rowers are seated, unmoor'd are the galleys;/ Gleam war-axe and broadsword, clang target and quiver'.²⁹³ Yn ail bennill y Saesneg, cenir ffarwél gan MacRimmon, pibydd i *clan* MacLeod,²⁹⁴ gan gyfeirio ato'i hun yn y trydydd person: 'Farewell the bright clouds that on Quillian are sleeping,/ Farewell the bright eyes on the Dun that are weeping,/ To each minstrel delusion, farewell – and for ever!/ MacRimmon departs to return to

²⁹¹ Llythyr, dyddiedig 15 Awst 1938, gan WSGW at TGJ, Papurau TGJ, A1120, LIGC.

²⁹² Gweler y testun llawn yn *The Weekly Repertory or Literary Gazette, Being an Impartial Account of All the Works Relative to Literature, Arts, Sciences, History, Biography, Agriculture, Commerce, Chemistry, Physics, Medicine, Poetry, The Drama, etc. etc., Together with Memoirs and Correspondence of Distinguished Persons; Anecdotes etc.; Sketches of Society and Manners; Proceedings of Public and Literary Societies; Literary and Philosophical Intelligence etc.; Patents for New Discoveries; Original Poetry etc. Forming a Valuable Selection from the Most Esteemed English Reviews and Magazines: Volume V. Second Series* (Paris, 1819), 120.

²⁹³ Walter Scott (Saesneg), T. Gwynn Jones (Cymraeg), *tradd.* (cerddoriaeth), *MacRimmon's Lament: Cwyn Mab Criman: Cumha Mhic Criomainn* (Llangollen, 1938), 1-2.

²⁹⁴ Gweler *The Weekly Repertory*, 120.

you never!²⁹⁵ Gwahanol yw naws y geiriau Cymraeg, sy'n pwysleisio poen bersonol yr adroddwr a'r ymdeimlad o golled:

Mae nifwl yn cau am yr eithin a'r celyn,
A churio a galar dros drechu o'r gelyn;
O lygaid sy leision hir wylir dŵr heli
O'th fyned di ymaith ac am na ddychweli.²⁹⁶

Onid yw'r naws, y sefyllfa (arwr yn ymadael), ac yn wir, y ddelweddaeth, yn dwyn i gof ddiwedd 'Ymadawiad Arthur':

Darfu'r llais; o drofâu'r llyn
Anial, lledodd niwl llwydwyn;
Yn araf cyniweiriodd,
Ac yno'r llong dano a dodd,
A'i chelu; fel drychiolaeth
Yn y niwl diflannu a wnaeth.²⁹⁷

At hyn, tybed a oes modd clywed hefyd yng nghyfeithiad T. Gwynn Jones adleisiau o gerdd megis 'Hydref' (1914): 'Mae'r nifwl yn cau am yr eithin a'r celyn', yn 'Cwyn Mab Criman', er enghraifft, yn dwyn i gof 'A gweu uwch y foel ei goch a'i felyn/ Yn gaerog rwydwaith trwy'r grug a'r rhedyn... A'i waedrawn gelyn draw yn ei gilydd'.²⁹⁸

Ceir gwahaniaethau amlwg rhwng y ddwy fersiwn hyn. Nid yw MacRimmon eto wedi marw yn y Saesneg, ond y mae'n ffarwelio â'i gartref gan wybod beth fydd ei ffawd. Y mae effaith y ffawd honno eisoes yn amlwg yng ngeiriau Cymraeg T. Gwynn Jones, ac wrth gymharu'r rhain â'r geiriau gwreiddiol, gwelir mai dewis

²⁹⁵ Scott, Gwynn Jones, *tradd.*, *MacRimmon's Lament: Cwyn Mab Criman: Cumha Mhic Criomainn*, 1.

²⁹⁶ *Ibid.*, 1-2.

²⁹⁷ T. Gwynn Jones, 'Ymadawiad Arthur', yn *Caniadau*, 34.

²⁹⁸ T. Gwynn Jones, 'Hydref', yn *Caniadau*, 155.

trosi'r rheini a wnaeth Gwynn Jones.²⁹⁹ Er nad yw'r geiriau Cymraeg yn cynnwys ffigwr y 'bhean-shith',³⁰⁰ neu fenyw arallfydol, sydd i'w chanfod yn y gwreiddiol, mae'r naws ddisgrifiadol-alamadol yn gyffredin i'r ddwy fersiwn hyn, a thebygrwydd trawiadol yn nifer o'r delweddau, megis yr 'awel... yn distewi' yn y mynyddoedd, a'r 'ffrydiau... fel petaent wedi rhewi'.³⁰¹ 'Tha osag nam beann gu fann ag imeachd,/ Gach sruthan 's gach allt gu mall le bruthach.'³⁰² Diddorol yw'r dewis hwn gan Gwynn Jones i drosi o'r gwreiddiol yn hytrach nag o'r testun Saesneg a gyfansoddwyd o'r newydd ar yr hen alaw gan Walter Scott. Ar y testun Saesneg, fe gofir, y bu i W. S. Gwynn Williams nodi acenion y gerddoriaeth. Darpara'r achos hwn, felly, enghraifft ddiddorol o ddefnydd T. Gwynn Jones o'r dull acennu a ddatblygwyd rhyngddo a Gwynn Williams wrth iddo weithio gyda dau destun ar y cyd.

Darn arall o un o'r gwledydd Celtaidd yn *Cerddi Canu* (1942) yw cyfieithiad i'r Saesneg gan Gwynn Jones o eiriau gan y bardd a'r ysgolhaig Osborn Bergin³⁰³ ar alaw Wyddelig draddodiadol, 'An Siol-Amhrán', sef 'Sowing Song'. Cyfieithiad Saesneg Gwynn Jones yn unig sydd yn *Cerddi Canu* (heb y gerddoriaeth), ond ceir ganddo hefyd gyfieithiad Cymraeg, a ymddangosodd – ar y cyd â'i gyfieithiad Saesneg, y geiriau Gwyddeleg gwreiddiol a'r gerddoriaeth – mewn cyhoeddiad ar ei ben ei hun yn 1938. Ni ellir trafod ymwneud Gwynn Jones fel cyfieithydd â thestunau o'r gwledydd Celtaidd, fodd bynnag, heb ystyried perthynas gwaith T. Gwynn Jones â

²⁹⁹ Dymunir diolch i Margaret Harrison am ddarparu cyfieithiad o'r Aeleg gwreiddiol i'r awdur presennol, ac i Dr. Aled Llion Jones yntau am ei gymorth yn y cyswllt hwn.

³⁰⁰ Scott, Gwynn Jones, *tradd.*, *MacRimmon's Lament: Cwyn Mab Criman: Cumha Mhic Criomainn*, 4.

³⁰¹ *Ibid.*, 2-3.

³⁰² *Ibid.* 'The mountain wind is moving weakly/ Every brook and every stream slowly [moving] downhill', (cyf. Margaret Harrison mewn e-bost at yr awdur presennol, 17 Mai, 2016).

³⁰³ Gweler Gerard Murphy, 'Osborn Joseph Bergin 1873-1950', *Studies: An Irish Quarterly Review*, Cyf. 39, Rhif 156 (Rhagfyr, 1950), 385-94.

Cheltigrwydd yn gyffredinol. Mae nifer o ‘fawrion’ Gwynn Jones yn Geltaidd eu cefndir: er enghraifft, mae ‘Anatiomaros’ yn mynd i’r afael â thynged arweinydd llwyth Celtaidd sy’n wynebu ei farwolaeth; lleolir ‘Argoed’ yng Ngâl Geltaidd; ac mae ‘Tir na n-Og’ yn tynnu ar chwedloniaeth Geltaidd.³⁰⁴ Bu Gwynn Jones yn weithgar gyda’r Gyngres Geltaidd am flynyddoedd lawer, ac fe deimlai gysylltiad arbennig â’r Gwyddelod yn rhannol oherwydd ei gred fod cangen o deulu ei fam yn dod o Iwerddon.³⁰⁵ Parhaodd ei gysylltiad â’r Ynys Werdd drwy gydol ei fywyd, ac yr oedd ganddo lawer cyfaill yno – yn eu plith y Tad McGrath, y cyfeiriwyd ato uchod, yn ogystal â’r academydd a’r bardd Tadgh Ó Donnchadha, neu Tórna (1874-1949). Trafodir cydweithio T. Gwynn Jones a Tórna, a’u perthynas bersonol, maes o law yng nghyswllt datblygiad ‘Tir na n-Og’, gan sylwi ar rôl Tórna yn esblygiad yr awdl dros nifer o flynyddoedd. Dylid nodi yma, fodd bynnag, agwedd arall ar gydweithio Gwynn Jones a Tórna, sef eu gwaith cyfieithu: *Awen y Gwyddyl* gan Gwynn Jones, a *Guth ón mBreatain* gan Tórna. Mewn ysgrif ddiweddar yn *Ysgrifau Beirniadol* y mae Llŷr Gwyn Lewis yn mynd i’r afael â’r cyfrolau hyn yng nghyd-destun pan-Geltigrwydd troad yr 20g. yn erbyn cefndir ôl-drefedigaethol. Medd Lewis: ‘Yr oedd y testunau a drafodir yma [...] yn rhan o ffrwd bwysig o fewn y mudiad pan-Geltaidd [...] Dyma enghreifftiau o gydweithio a chyd-dynnu rhwng Celtiaid [...] sydd [...] yn dibynnu ar ddwy briod iaith Geltaidd ac yn enghraifft o gyfnewid rhyngddynt heb ymyrraeth yr iaith drefedigaethol’.³⁰⁶ Mae ymwneud T. Gwynn Jones yn achos y cyfieithiadau o eiriau caneuon yn wahanol iawn, wrth gwrs, gyda’r ‘iaith

³⁰⁴ T. Gwynn Jones, ‘Anatiomaros’, yn *Caniadau*, 79-86; T. Gwynn Jones, ‘Argoed’, yn *Caniadau*, 105-13; T. Gwynn Jones, ‘Tir na n-Og’, yn *Caniadau*, 60-74; T. Gwynn Jones, ‘Gwlad y Bryniau’, yn *Caniadau*, 35-59; T. Gwynn Jones, ‘Ymadawiad Arthur’, yn *Caniadau*, 15-34.

³⁰⁵ Jenkins, *Cofiant*, 146-7, 53.

³⁰⁶ Lewis, ‘Cyfieithiadau T. Gwynn Jones a Tadgh Ó Donnchadha o Farddoniaeth Gymraeg a Gwyddeleg’, 21.

drefedigaethol', y Saesneg, yn chwarae rhan flaenllaw yn holl gyhoeddiadau Cwmni Cyhoeddi Gwynn – yn arbennig, efallai, yn achos 'An Síol-Amhran', gan mai'r cyfieithiad Saesneg yn unig a gyhoeddwyd yn *Cerddi Canu*.

Y mae 'Cân yr Hau', 'Sowing Song', cyfieithiadau Gwynn Jones o 'An Síol-Amhran', yn ddarnau diddorol nid yn unig am eu bod yn rhai o'r enghreifftiau prin o gyfieithiadau gan Gwynn Jones o eiriau caneuon o iaith Geltaidd, ond gan eu bod hefyd yn arddangos dull gwahanol o weithio o ran Gwynn Williams. Ymddengys fod y cerddor, yn yr achos hwn, wedi anfon llawysgrif y gerddoriaeth at T. Gwynn Jones: 'I am sending you herewith the MS of the arrangement of an old Irish air by Dr. Vincent O' Brien [...] in the hope that you can give us new Welsh and English words. I do not know at the moment if I can use the original Irish and ask you to translate'.³⁰⁷ Dengys llythyr diweddarach, yn ogystal â'r cyhoeddiad terfynol, fod Gwynn Jones wedi cyfieithu o'r Wyddeleg gwreiddiol a bod Cwmni Gwynn wedi cael caniatâd i ddefnyddio'r geiriau gwreiddiol hynny.³⁰⁸ Er bod y darn hwn wedi'i anfon at Gwynn Jones ynghanol y cyfnod pan arferai ef a Gwynn Williams ddefnyddio'r dull-acennu-geiriau, dengys y llythyr a anfonwyd gan Gwynn Williams at Gwynn Jones ar 21 Chwefror 1938 mai'r gerddoriaeth a anfonwyd. Rhaid gofyn yma beth yw'r rheswm dros y gwyriad oddi wrth y drefn arferol, a gellid awgrymu efallai mai diffyg gwybodaeth Gwynn Williams o'r Wyddeleg sydd wrth wraidd hyn. Roedd y darnau a anfonwyd at Gwynn Jones i'w cyfieithu gan amlaf yn destunau Cymraeg neu Saesneg, neu, ar adegau, yn Almaeneg, Ffrangeg neu Eidaleg. Nodir yr acenion ar y rhain – hynny yw, y testun i'w gyfieithu – gan Gwynn Williams bron yn ddieithriad;

³⁰⁷ Llythyr, dyddiedig 21 Chwefror 1938, gan WSGW at TGJ, Papurau TGJ, A1109, LIGC.

³⁰⁸ Gweler llythyr, dyddiedig 3 Mai 1938, gan WSGW at TGJ, Papurau TGJ, A1122, LIGC; T. Gwynn Jones (Cymraeg a Saesneg), Osborn Bergin (Gwyddeleg), *tradd*. (cerddoriaeth), *Cân yr Hau: Sowing Song (An Síol-Amhrán)* (Llangollen, 1938).

ond wrth ystyried ‘Cân yr Hau’ a ‘Cwyn Mab Criman’ fel ei gilydd, gwelir bod y cerddor naill ai wedi dewis nodi’r acenion ar y fersiwn Saesneg o’r geiriau, fel yn achos ‘Cwyn Mab Criman’ (geiriau Walter Scott), neu heb roi’r acenion ar y geiriau o gwbl, fel yn achos ‘Cân yr Hau’. Mae’n ddigon posibl nad oedd Gwynn Williams yn teimlo’n ddigon hyderus y byddai’n medru nodi’r acenion yn gywir ar y geiriau Gwyddeleg neu Aeleg yr Alban gwreiddiol, ac felly iddo ddewis osgoi gwneud hynny yn gyfan gwbl.

Cân waith yw ‘An Síol-Amhrán’, a gyfieithwyd gan T. Gwynn Jones fel ‘Cân yr Hau’ a ‘Sowing Song’, ac mae’r geiriau’n cyfarch gweithwyr o wahanol ardaloedd o Iwerddon sy’n plannu eu cnydau ac yn dathlu’r daioni a ddaw i’r wlad gyfan wrth wneud hyn:

Ach sgraipidh an síol ó mhaidin go hoidhche,
'S tiocfaidh an toradh í nÉirinn lá.

Ond hëwch yr had o fore hyd noswyl,
Gwelir y toreth yn Erin, dro.³⁰⁹

Yn y cyfieithiad Cymraeg, ceir deialogau semantaidd diddorol ar lefel etymoleg y geiriau unigol. Er enghraifft, yn achos y broses o gyfieithu ‘toradh’ yn yr ail linell uchod, dylid nodi bod y ‘toreth’ Cymraeg (digonedd, amllder), o ran ei etymoleg, yn fenthyciad o Wyddeleg Cynnar, **toreth* (> Hen Wyddeleg *torad*).³¹⁰ Ac y mae’r gwrthwyneb, fel petai, yn digwydd yn achos cyfieithu’r ymadrodd ‘Tá’n branar go cumhra’³¹¹ (‘Mae’r branar yn iraidd’). Yr hyn sy’n ddiddorol yw’r gair Cymraeg ‘branar’ (braenar); fel y nodir yn *Geiriadur Prifysgol Cymru*: ‘nid amhosibl mai

³⁰⁹ Gwynn Jones, Bergin, *tradd.*, *Cân yr Hau: Sowing Song (An Síol-Amhrán)*, 4, 3.

³¹⁰ Gweler *Geiriadur Prifysgol Cymru*, d.g. *toreth*,

<<http://geiriadur.ac.uk/gpc/gpc.html>>; cyrchwyd 16 Mehefin, 2016.

³¹¹ Gwynn Jones, Bergin, *tradd.*, *Cân yr Hau: Sowing Song (An Síol-Amhrán)*, 4.

[benthyciad] o'r [Gymraeg] *brannar* yw'r [Gwyddeleg Canol a Diweddar] *brannar*.³¹²

Yng nghyd-destun trafodaeth Llŷr Gwyn Lewis, a'r sylwadau ganddo, a ddyfynnwyd uchod, ynghylch ymwneud y ddwy iaith Geltaidd â'i gilydd yn achos gwaith T. Gwynn Jones a Tórna, ceir yng nghyfieithiadau Gwynn Jones o 'An Síol-Amhrán' enghraifft ddiddorol o'r cyfryngu rhwng dwy iaith yn digwydd ar lefel etymolegol mewn cyfieithiad.

Ceir pum pennill i 'An Síol-Amhrán', ac y maent bob un yn cyfeirio at y pum ardal y rhannwyd Iwerddon iddynt gynt: cyfeirir at y 'Mhuimhnigh' (brodorion ardal Munster), ac at 'Uladh' (Ulster), 'Connacht', 'Laighneach' (Leinster) a 'Midhe' (Meath).³¹³ Ym mhob fersiwn o'r gân, mae'r hau yn ddeublyg: hau llythrennol a fydd yn cyflenwi bwyd maes o law, a hau mwy ysbrydol yng nghyswllt traddodiadau a chysylltiad unigolion â'u cefndiroedd, ynghyd â'r medi sy'n cynnig gobaith o ran parhad iaith a diwylliant cenedl. Daw hyn â ni yn ôl at W. S. Gwynn Williams, a'r hyn a ddisgrifiwyd fel cenhadaeth bersonol ganddo i hyrwyddo a hybu'r diwylliant Cymraeg a Chymreig, drwy gyfrwng ei gwmi cyhoeddi yn ogystal â'i weithgarwch gyda chymdeithasau cerddoriaeth a dawns draddodiadol.³¹⁴ Trafodir ymhellach yr ymwneud hwn â diwylliant traddodiadol Cymru yn achos Gwynn Jones a Gwynn Williams yn y bennod ddilynol.

Hyderir bod y bennod hon – er gwaethaf y rheidrwydd i ddewis a dethol – wedi amlygu'r amrywiaeth ysgubol, a'r safon uchel, sydd i gyfieithiadau T. Gwynn Jones o eiriau caneuon. Ni cheisiwyd yma ddarparu ymdriniaeth hollgynhwysol ar y corff enfawr hwn o waith (byddai hynny'n amhosibl mewn pennod fel hon), ond yn hytrach godi cwr y llen ar y cyfoeth o ddeunydd pur anghyfarwydd, ac ar berthnasedd

³¹² Gweler *Geiriadur Prifysgol Cymru*, d.g. *braenar*,

<<http://geiriadur.ac.uk/gpc/gpc.html>>; cyrchwyd 16 Mehefin, 2016.

³¹³ Gwynn Jones, Bergin, *tradd.*, *Cân yr Hau: Sowing Song (An Síol-Amhrán)*, 4.

³¹⁴ Gweler Jones, 'Advocate of Change and Tradition', 288.

y cyfieithiadau hyn o eiriau caneuon i waith ehangach y bardd. Gwelwyd sut y mae'r trosiadau hyn yn dwyn perthynas ddadlennol ag amryw agweddau ar fywyd a gwaith T. Gwynn Jones – o'i grefydd i'w agwedd tuag at Brydeindod a'r sefydliad Prydeinig, er enghraifft, ac o'i gyfieithiadau o ddramâu mawr Ewrop i'r 'mawrion' Celtaidd a'i brif gynnyrch fel bardd. Ymhellach, gwelir yn y bennod ddilynol mor annatod gysylltiedig yr oedd cerddoriaeth i T. Gwynn Jones â'r diwylliant gwerinol-draddodiadol – agwedd bwysig arall ar ei waith ehangach yn gyffredinol, ac ystyriaeth a gyflwynwyd yma yn achos cyfieithiadau Gwynn Jones o ganeuon o rai o'r gwledydd Celtaidd.

**‘SIMPLY SPECIMENS’: CYFIEITHIADAU AC ADDASIADAU O
GANEUON TRADDODIADOL, A GWEITHIAU LLWYFAN
CERDDOROL GAN T. GWYNN JONES**

Wedi ystyried, yn y penodau blaenorol, ganeuon gwreiddiol a chyfieithiadau T. Gwynn Jones o eiriau caneuon, byddir yn y bennod hon yn mynd i'r afael â dau gategori arall o'i weithiau sy'n ymwneud â cherddoriaeth. Mae'r corff o waith a drafodir yn y bennod hon yn cynnwys cyfieithiadau ac addasiadau o eiriau Cymraeg traddodiadol, a phytiau gwreiddiol ar gyfer rhai alawon traddodiadol. Trafodir yn y bennod hon hefyd rai o'r gweithiau sydd â cherddoriaeth yn rhan ohonynt a gyfansoddwyd ar y cyd â W. S. Gwynn Williams i'w perfformio ar lwyfan, gan fod rhai ohonynt yn cynnwys cerddoriaeth draddodiadol, ac mae'r drafodaeth ar y gweithiau eraill ar gyfer y llwyfan yn dilyn yn naturiol o hynny. Ceir yn y bennod hon eto, felly, lawer o amrywiaeth o ran y testunau sydd dan sylw, gyda darnau sy'n rhychwantu nifer o wahanol *genres* a themâu.

Cafwyd eisoes, wrth gwrs, yn y bennod ddiwethaf, drafodaeth ar nifer o gyfieithiadau gan T. Gwynn Jones o eiriau caneuon. Er hyn, mor fawr oedd y corff o waith yr oedd gofyn ymdrin ag ef yn y bennod flaenorol, fel y penderfynwyd na fyddai modd rhoi sylw teilwng i'r cyfieithiadau o ganeuon traddodiadol o fewn yr un adran. At hyn, y mae'r darnau sy'n ymwneud â cherddoriaeth draddodiadol yn fwy gwasgaredig o safbwynt eu manau cyhoeddi (cylchgronau a chyfrolau bychain, er enghraifft) nag yn achos y deunydd a drafodwyd yn y bennod flaenorol, ac felly fe

benderfynwyd y byddai'n fwy addas cyflwyno'r corff hwn o waith traddodiadol ynghyd mewn un bennod.¹

Cyhoeddwyd cyfieithiadau cynharaf T. Gwynn Jones o eiriau caneuon traddodiadol Cymreig yn y 1920au cynnar, yn *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru*, a hynny o ganlyniad i'w gyswllt â J. Lloyd Williams (1850-1945). Y mae'r gweithiau hyn yn rhagflaenu cyfraniad mwyaf T. Gwynn Jones i faes astudiaethau gwerin, sef y gyfrol gynhwysfawr *Welsh Folklore and Folk-Custom*, a gyhoeddwyd ym 1930. Er y ceir nifer o gyfeiriadau at gerddoriaeth yn y gyfrol hon, ni cheir ynddi drafodaeth ar gerddoriaeth a chanu traddodiadol, ond yn hytrach gwelir hanesion ynghylch y ffenomen 'Canu yn yr Awyr' a cherddoriaeth y Tylwyth Teg.² Y mae Gwynn Jones yn rhoi mwy o sylw i gerddoriaeth yn yr ysgrif *The Culture and Tradition of Wales* (1927), lle y dywed fod ganddo 'weakness for melody'.³ Cynigir amlinelliad o ddatblygiad cerddoriaeth yng Nghymru o gyfnod Gerallt Gymro hyd at yr 20g., gyda chyfeiriadau at ganu penillion a charolau: 'it was the professional singer's business to know how to set it to words written in a variety of forms and to sing them after the manner of the contrapuntal style called **Penillion Singing**... Carol-singing was probably common, but composition does not seem to have

¹ Nodyn ar derminoleg. Noda Sally Harper nad yw'r termau 'traddodiadol' a 'gwerin' bellach yn gyfystyr wrth ymdrin yn academiaidd â'r maes yn gerddorol: 'Though for many the term [traditional music] conjures up immediate associations with "folk-songs" and "folk tunes", "traditional" and "folk" are no longer musical synonyms. The International Folk Music Council had good reason to adopt "traditional music" as its official term in 1981, for the designation "folk music" has now become a notorious shape-shifter. Increasingly it evokes popular "fusion" repertoires that may indeed draw on "traditional" tunes and instruments, but also rely on professional performers and commercial studio production'; Sally Harper, 'Introduction: What is Traditional Music?', yn Phyllis Kinney, *Welsh Traditional Music* (Cardiff, 2011), xvii. Byddir, felly, yn cyfieirio at y gweithiau a drafodir yn y bennod hon fel caneuon 'traddodiadol' yn hytrach na chaneuon 'gwerin', er mai'r ail derm sydd efallai'n fwy cyfarwydd i gynulleidfa Gymraeg.

² T. Gwynn Jones, *Welsh Folklore and Folk-Custom* (London, 1930), 49, 55.

³ T. Gwynn Jones, *The Culture and Tradition of Wales* (Wrecsam, 1927), 10.

flourished after the decay of the earlier training.’⁴ Amlygir diddordeb Gwynn Jones mewn cerddoriaeth draddodiadol hefyd yn ei gyfraniadau i nifer o gasgliadau o ganeuon a gyhoeddwyd gan Gwmni Cyhoeddi Gwynn – cyfraniadau sy’n cynnwys addasiadau, cyfieithiadau a darnau gwreiddiol mewn cyfrolau megis *Hen Ganeuon Cymreig Gwaith a Chwarae: Old Welsh Songs of Work and Play* (1943), *Difyr-Gerddi Cymreig: Popular Welsh Songs* (1943) a *Hen Faledi Cymreig: Old Welsh Ballads* (1946). At hyn, y mae’n amlwg fod y diwylliant gwerin, yn gerddorol a llenyddol, wedi bod yn ddylanwad ar Gwynn Jones er yn gynnar yn ei fywyd: ‘Byddai fy nhaid yn canu hen gerddi i’r tad pan oedd yn blentyn [...] Parhaodd diddordeb deallus fy nhad, ac felly, efallai, y dechreuodd fy niddordeb innau yn gynnar’.⁵ Cyflwynna Gwynn Jones ei astudiaeth *Welsh Folklore and Folk-Custom* ‘Er cof am fy Nhad, a wyddai ac a ddeallai’.⁶ Yn yr un modd, ceir amryw hanesion ac atgofion am ganu traddodiadol yng nghyfrol hunangofiannol y bardd, *Brithgofion* (1944), gan ddangos fod cerddoriaeth wedi chwarae rhan flaenllaw yn ei blentyndod a’i lencyndod. Er enghraifft:

Am y canu, er nad oedd y corau a’r cystadlu a ddaeth wedyn yn gyffredin drwy’r wlad tua’r adeg honno, eto wedi dechrau yno, byddai cantorion â lleisiau da yn gyffredin iawn, a chyd-ganu yn aml, ambell un â llais bas neu denor da yn gymeradwy iawn. Cened baledi, cerddi, tonau cynulleidfaol ac ambell hen gainc werin a genid yn y tafarnau cyn dyfod y diwygiadau dirwest, yn ddiau.⁷

Caem gryn dipyn o ganu... Ymhlith pethau eraill cened cân hwyliog iawn, ‘Ffynnon Cae Coch’, sef Ffynnon enwog Drefriw.⁸

⁴ Ibid., 11.

⁵ T. Gwynn Jones, dyfynnwyd yn David Jenkins, *Thomas Gwynn Jones: Cofiant* (Dinbych, 1973), 16-17.

⁶ Gwynn Jones, *Welsh Folklore and Folk-Custom*, vi.

⁷ T. Gwynn Jones, *Brithgofion* (Llandybie, 1944), 25.

⁸ Ibid., 59

Amryw hen geinciau Cymreig, a ‘Chân y Crud’, ar eiriau gan ‘Llystyn’, os wyf yn cofio’n iawn, cân a’m gyrrai i’n drist dros ben, pan genid am yr hen grud wedi’i adael o’r diwedd... Nid wyf yn amau dim bellach nad darn o draddodiad y ‘Noswaith Lawen’ gynt oedd hwn, wedi aros ymhlith trigolion yr ardal gwbl Gymreig honno hyd chwarter olaf y ganrif ddiwethaf.⁹

Gwelir felly fod y diwylliant traddodiadol yn bresenoldeb grymus yn ystod blynyddoedd ffurfiannol T. Gwynn Jones.

Rhai o’r darnau cyhoeddedig cyntaf gan T. Gwynn Jones sy’n ymwneud â cherddoriaeth yw’r cyfieithiadau a wnaeth ar gyfer *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru* yn y 1920au cynnar. Sefydlwyd Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru yn swyddogol ym 1908, ‘for the purpose of collecting and preserving Welsh folk-songs, ballads and tunes’.¹⁰ Ymysg yr aelodau blaenllaw yr oedd y botanegydd a’r cerddor J. Lloyd Williams – y ‘ffigwr pwysicaf yn hanes y Gymdeithas’ yn ôl D. Roy Saer, a gŵr a wnaeth lawer o ymchwil a gwaith casglu ynghyd â threfnu alawon a golygu cylchgrawn y Gymdeithas o 1908 hyd 1945.¹¹ Disgrifir J. Lloyd Williams gan Phyllis Kinney fel ‘A towering figure who [...] bridged the nineteenth and twentieth centuries’,¹² ond digon hawdd fyddai cymhwyso’r cyfryw ddisgrifiad at T. Gwynn Jones yntau: yn wir, cyfeiriwyd at y bardd gan Peredur Lynch fel ‘[p]ont eithriadol o bwysig’ rhwng y ddwy ganrif.¹³ Dyma ddau ffigwr, felly, a chanddynt rôl allweddol yn y byd diwylliannol Cymreig ar droad y ganrif: y naill yn bennaf ym myd cerddoriaeth, a’r llall yn bennaf ym myd llenyddiaeth. Cafodd J. Lloyd Williams Gadair Fotaneg yng Ngholeg y Brifysgol, Aberystwyth ym 1915, gan ymwneud

⁹ Ibid., 60.

¹⁰ D. Roy Saer, *Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru: Canrif Gron/ The Welsh Folk-Song Society: A Whole Century* (Aberystwyth, 2006), 6.

¹¹ Ibid., 23.

¹² Kinney, *Welsh Traditional Music*, 203.

¹³ Peredur I. Lynch, ‘Refferendwm 1979, Cerddi Ianws a Thopos “Y Cymry Taeog”’, yn Gerwyn Williams (gol.), *Ysgrifau Beirniadol*, XXX (Bethesda, 2011), 95.

llawer â'r adran gerddoriaeth yn sgil marwolaeth yr Athro Cerdd, David Jenkins, yn yr un flwyddyn.¹⁴ Penodwyd T. Gwynn Jones fel darlithydd yn yr Adran Gymraeg ym 1913, cyn derbyn Cadair ym 1919, a diau fod y ddau wedi dod i adnabod ei gilydd wrth weithio yn y coleg. Yn ôl David Jenkins, cofiannydd Gwynn Jones, Lloyd Williams oedd yn gyfrifol am danio diddordeb y bardd mewn cerddoriaeth draddodiadol o ddifrif.¹⁵

Ymddengys wyth cyfieithiad gan T. Gwynn Jones yn ail gyfrol *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru*: saith yn y trydydd rhifyn, a gyhoeddwyd ym 1922, ac un yn y pedwerydd rhifyn o 1925. Er na nodir enw'r cyfieithydd wrth nifer o'r rhain, gwelir yn *Llyfryddiaeth Thomas Gwynn Jones* mai Gwynn Jones sy'n gyfrifol amdanynt.¹⁶ Ymddengys y cyfieithiad cyntaf, 'I'll name you the day' – o eiriau ar yr alaw 'Bid Hir Oes i Fair (No. 3)' – ar ddiwedd ysgrif gan Gwynn Jones, 'Welsh Song Writing', a gyhoeddwyd yn y trydydd rhifyn hwnnw o'r cylchgrawn.¹⁷ Dyma, yn sicr, un o'r prif ysgrifau a gyhoeddwyd gan T. Gwynn Jones sy'n ymdrin â cherddoriaeth, ac mae'n trafod natur geiriau caneuon traddodiadol Cymreig, gan ddadlau eu bod yn hanfodol gerddorol:

a full appreciation of the musical effect of the songs is impossible without due attention to the metrical structure. Internal rhyme and consonance occur in stressed syllables, and even in the most irregular stanza-formations, linking rhyme and stressed-syllable consonance indicate invariably, it would appear, the character of

¹⁴ Robert Alun Roberts, 'Williams, John Lloyd', *Y Bywgraffiadur Cymreig* <<http://yba.llgc.org.uk/cy/c2-WILL-LLO-1854.html>>; John Morgan Lloyd, 'Jenkins, David', *Y Bywgraffiadur Cymreig* <<http://yba.llgc.org.uk/cy/c-JENK-DAV-1848.html>>; cyrchwyd 3 Mehefin 2015.

¹⁵ Jenkins, *Cofiant*, 286-7.

¹⁶ Gweler D. Hywel E. Roberts (gol.), *Llyfryddiaeth Thomas Gwynn Jones* (Caerdydd, 1981), 121, 122, 125, 127, 152, 153, 189, 215.

¹⁷ T. Gwynn Jones, 'I'll name you the day', *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru* [CCAGC], Cyf. II, Rhif 3 (1922), 142.

the music. In fact, the basic quality in Welsh Verse [...] is almost always musical.¹⁸

Ceir nodyn gan T. Gwynn Jones ar ei gyfieithiad ei hun o'r geiriau ar gyfer yr alaw 'Bid Hir Oes i Fair No. 3' ar ddiwedd yr ysgrif – nodyn yn pwysleisio, 'the attempt does not profess to be a translation, and is meant only to illustrate the metre'.¹⁹ Diddorol nodi, er gwaethaf honiad Gwynn Jones yma nad cyfieithiad yw'r darn hwn, fod J. Lloyd Williams, golygydd y cylchgrawn, wedi cyfeirio ato fel 'an ingenious translation' mewn man arall yn yr un rhifyn.²⁰ Cyfeiriodd Gwynn Jones at y cyfieithiadau sy'n ymddangos yn y cylchgrawn hwn mewn llythyr pwysig ym 1925 at W. S. Gwynn Williams y bu inni sylwi arno eisoes – llythyr sy'n mynd i'r afael â chyfieithu geiriau caneuon:

My versions, published in the Folk-Song Society Journal, are simply specimens, written for the purpose of explaining the structure of Welsh metres to English scholars. I would never dream of attempting to write serious verse in English in such forms.²¹

Yn annisgwyl, braidd, mae natur y cyfieithiadau hyn, felly, yng ngolwg y bardd ei hun, yn wahanol iawn i'r darnau a gynhyrchwyd ganddo ar gyfer y *Welsh Festival Book* ym 1924, neu i gyhoeddiadau Cwmni Cyhoeddi Gwynn yn y 1930au a'r 1940au.

Fel y cofir, y mae damcaniaeth 'Pentathlon' Peter Low wedi'i seilio ar y cysyniad o *skopos*, y gair Groegaidd sy'n golygu amcan neu nod:

¹⁸ T. Gwynn Jones, 'Welsh Song Writing', *CCAGC*, Cyf. II, Rhif 3 (1922), 139.

¹⁹ *Ibid.*

²⁰ J. Lloyd Williams, nodyn ar *tradd*. (geiriau a cherddoriaeth), 'Bid Hir Oes i Fair No. 3', *CCAGC*, Cyf. II, Rhif 3 (1922), 159.

²¹ Llythyr, dyddiedig 26 Chwefror 1925, gan T. Gwynn Jones [TGJ] at W. S. Gwynn Williams [WSGW], Papurau Thomas Gwynn Jones, G6217B, Llyfrgell Genedlaethol Cymru [LIGC].

translation methods and strategies should be determined by *skopos*. In the case of song, this means consideration and re-consideration of the prospective listeners to the translated song [...] the *skopos* of a singable translation is to be sung.²²

Ar ddiwedd ei erthygl ‘Welsh Song Writing’ ac yn y llythyr hwnnw at W. S. Gwynn Williams ar 26 Chwefror, 1925, mae Gwynn Jones yn honni, felly, mai ei *skopos* ef yn achos y cyfieithiadau ar gyfer *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru* yw darparu enghreifftiau academiaidd o fydr ac effaith glywedol y geiriau gwreiddiol (‘The attempt does not profess to be a translation, and is meant only to illustrate the metre’; ‘My versions [...] are simply specimens, written for the purpose of explaining the structure of Welsh metres to English scholars.’²³).

Craffwn, felly, ar enghraifft. Wrth gynnig ei gyfieithiad i’r Saesneg o eiriau ‘Bid Hir Oes i Fair’ ar ddiwedd ei erthygl ‘Welsh Song Writing’, meddai Gwynn Jones, ‘The consonantal correspondences are indicated by means of capitals, and the rhyme syllables, both final and internal, are in italics’.²⁴ Dyma’r ddau bennill cyntaf:

I’ll name you the *day*,
Away we shall *scramble*
Through BRacken and BRamble,
The *Gamble* is *Gay*,
A*Way* like the *Wind*!

You name me the *place*,
The *race* shall not *tarry*,
We’ll follow the quarry,
We’ll HaRRy the HaRe
Or HIND*er* the HIND.²⁵

²² Peter Low, ‘The Pentathlon Approach to Translating Songs’, Dinda L. Gorfée (gol.), *Song and Significance: Virtues and Vices of Vocal Translation* (Amsterdam, 2005), 185-6.

²³ T. Gwynn Jones, ‘Welsh Song Writing’, *CCAGC*, Cyf. II, Rhif 3 (1922), 139; llythyr, dyddiedig 26 Chwefror 1925, gan TGJ at WSGW, Papurau TGJ, G6217B, LIGC.

²⁴ Gwynn Jones, ‘Welsh Song Writing’, 142.

²⁵ Gwynn Jones, ‘I’ll name you the day’, 142.

Ac wele'r gwreiddiol:

Penodwch chwi'r dydd
Mae'n ddedwydd i'w adel
Yr hen wyl [*sic*] Fihangel;
I'r drafel led rydd
Y rhybudd mi a'i rho.

Dewiswch chwi'r lle
Fo gore i chwi guro
Am geinach neu gadno
I'w treio mhob tre
Hyd frynie y fro.²⁶

Er mai'r nodweddion mydryddol-ieithyddol a bwysleisir gan Gwynn Jones yma, mae'r cyfieithiad hefyd yn ail-greu'n llwyddiannus ddrama'r naratif helfaol a gyflwynir yn y gwreiddiol. Dywedir yn nhrydydd pennill y gwreiddiol y bydd y cŵn hela yno lle bynnag y rhed y prae – 'Er hynny 'mhob rhych/ Bydd mynych gwn [*sic*] meinion/ Cyn amled a'r gwreichion/ I'w ymlid i'r gwrych' – a llwyddir i ddal yr un ymdeimlad o symudiadau bywiog yn y cyfieithiad: 'There yet shall be found/ A hound just behind them/ To follow and find them,/ Or wind them around'.²⁷ Er gwaethaf ymdrechion y cŵn, 'y goedhwch a gur' yn y llinell olaf, ac fe drosir y llinell hon yn effeithiol i 'The baited shall beat'.²⁸ Y mae llinell glo'r ddwy fersiwn yn gwyrddroi ein disgwyliadau fel cynulleidfa am ganlyniad helfa, ac amlygir yr ergyd yn y ddwy iaith drwy gyfrwng y cytseiniaid – a'r sillafau – cyfatebol. Er mai trosiad academiaidd yw'r darn hwn yn ôl y cyfieithydd, ceir yn 'I'll name you the day' fwy o werth celfyddydol, efallai, nag a addefir gan T. Gwynn Jones. Mae'n werth dychwelyd yn y fan yma at union eiriad y llythyr hwnnw a anfonodd Gwynn Jones at Gwynn Williams ym 1925:

²⁶ *Tradd.* (geiriau a cherddoriaeth), 'Bid Hir Oes i Fair. No. 3', *CCAGC*, Cyf. II, Rhif 3 (1922), 159.

²⁷ Gwynn Jones, 'I'll name you the day', 142.

²⁸ *Ibid.*

My versions, published in the Folk-Song Society Journal, are simply specimens, written for the purpose of explaining the structure of Welsh metres to English scholars. I would never dream of attempting to write serious verse in English in such forms.²⁹

Tybed a ellir awgrymu yma fod T. Gwynn Jones yn pegynu'n ormodol yn ei ddiffiniadau yn y fan hon: yr unig ddau beth a gynigir ganddo fel posibiladau yng nghyd-destun ei waith gyda deunydd traddodiadol megis yr enghraifft uchod yw naill ai 'specimens' ysgolheigaidd, neu 'serious verse in English'. Llwyddodd, er hyn, i gynhyrchu rhywbeth gwahanol – trosiadau cywrain, caboledig, sy'n llwyddo i ddal bwrlwm a chyffro'r gwreiddiol yn rhyfeddol.

Ymddengys cyfieithiad gan T. Gwynn Jones o faled Gymraeg y mae'n ymdrin â hi yn ei ysgrif 'Welsh Song Writing', 'Deusyfiad [*sic*] y Gantores', yn yr un rhifyn o *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru* ym 1922. Wrth drafod y faled, mae Gwynn Jones yn sôn am y dechneg 'cywasgu' sillafau er mwyn gweddu i'r gerddoriaeth, sy'n amlwg yn y gwaith hwn:

The quatrains are composed of eight-syllable lines. The second line of Stanza 1 makes 10 syllables [...]:

'A minnau a'm dillad yn deneuon.'

It is perfectly clear that the line, as sung, contained only eight syllables [...]

'Minne_a'm dillad yn deneuon.'

The abandonment of the unnecessary 'A' at the beginning, and the adoption of the spoken form for 'minnau', which make possible the liaison e-a, reduce the line to eight syllables.³⁰

²⁹ Llythyr, dyddiedig 26 Chwefror 1925, gan TGJ at WSGW, Papurau TGJ, G6217B, LIGC.

³⁰ Gwynn Jones, 'Welsh Song Writing', 140-1.

Mae Gwynn Jones, wrth gyfieithu, wedi cadw ar y cyfan at y mydr rheolaidd wyth sillaf, a cheir enghraifft ohono yntau'n defnyddio'r un dechneg gywasgu â'r gwreiddiol, boed hynny at bwrpas ei harddangos yn academiaidd i ddarllenwyr di-Gymraeg neu er mwyn hwyluso ei dasg yntau fel cyfieithydd. Ymddengys naw sillaf yn ail linell yr ail bennill: 'In "Love's Sweet Passion" to caress me'.³¹ Digon hawdd yw cael 'liaison', chwedl Gwynn Jones, rhwng gair olaf y llinell flaenorol, 'me' ('I shall wash me, ere I dress me') a'r 'In' hwnnw ar ddechrau'r llinell nesaf ('me'n'), gan adael wyth sillaf a chael 'Love' ar yr acen gref.³²

Mae'r faled hefyd yn arbennig o ddiddorol yng nghyswllt cerddoriaeth, gan fod y geiriau yn enwi nifer o alawon poblogiadd. Mae'r gân yn portreadu cantores sydd am gael ei 'gwisgo' yn y ceinciau: 'Myfi a ymwisga bodwy'n gronyn/ O'r mwyn Geinciau sydd ar y Delyn'.³³ Ceir cyfeiriadau at alawon cyfarwydd megis 'Hun Gwennlian', 'Mwynen Gwynedd' a 'Grin Slifs' ('Greensleeves'), yn ogystal â theitlau sy'n peri mwy o benbleth megis 'Bonicat' ac 'Antesup'.³⁴ Dengys ysgrif T. Gwynn Jones ei fod wedi gwneud peth ymchwil i wraidd yr enwau hyn, ac mae'n cynnig 'Bonny Kate' ar gyfer 'Bonicat' a 'The Hunt is Up' yn achos 'Antesup'.³⁵ Trafoda hefyd rai o'r nodiadau esboniadol ar y faled sydd i'w cael yn *Blodeu Gerdd Cymry* (lle y'i cyhoeddwyd yn wreiddiol), gan gyfeirio at un gainc yn arbennig: "Marwnad Sion Eos" [*sic*] is given as a name for the air known as "Gadael Tir".³⁶ Awgryma y byddai cywydd Dafydd ab Edmwnd, sy'n marwnadu'r cerddor Siôn Eos – darn o farddoniaeth sydd ei hun yn llawn o gyfeiriadau cerddorol – yn cael ei ganu ar y gainc

³¹ *Tradd.* (Cymraeg), T. Gwynn Jones (Saesneg), *tradd.* (cerddoriaeth), 'Myfyrdod neu Ddeusyfiad [*sic*] Cantores = The Songstress' Conceit', *CCAGC*, Cyf. II, Rhif 3 (1922), 150.

³² *Ibid.*

³³ *Ibid.*, 148.

³⁴ *Ibid.*, 148-9.

³⁵ Gwynn Jones, 'Welsh Song Writing', 141.

³⁶ *Ibid.*

honno.³⁷ Yn ei gyfieithiad o'r faled, y mae T. Gwynn Jones wedi trosi enwau'r alawon, megis 'Musing Salmon' am 'Moesen Salmon', 'Silken Song' am 'Sidanen', a 'Sweet Summer's Day' am 'Llawen Hafar'.³⁸ Gellid cynnig eto mai at bwrpas academaidd, esboniadol y penderfynodd Gwynn Jones drosi'r enwau fel hyn, er mwyn rhoi gwybodaeth i'r darllenwyr di-Gymraeg a fyddai'n ymddiddori yn y ceinciau a'u teitlau.

Y mae'r cyfieithiadau eraill gan T. Gwynn Jones a gyhoeddwyd yn *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru* yn amrywio o ran pa agweddau a bwysleisir wrth gyfieithu: wrth graffu ar eu cynnwys, gwelir bod rhai yn blaenoriaethu ystyr, ac eraill yn blaenoriaethu patrwm odli. Mae'r geiriau ar yr alaw 'Y Cywper Mwyn No. 2', 'Pob Cymro pur mwyn', yn arddangos cyffyrddiadau cynganeddol gydag odlau mewnol a chyflythrennu, megis yn y llinell, 'Pan gefais le'n gymwys i orffwys mewn brwyn'.³⁹ Mae'r llinell gyfatebol yng nghyfieithiad T. Gwynn Jones 'You gallants so gay', 'Who slipped and who slept by the side of the way', yn atgynhyrchu'r nodweddion hynny'n effeithiol, er na throsir yr ystyr yn union.⁴⁰ Ategir patrwm odli 'Y Deryn Du' yng nghyfieithiad T. Gwynn Jones, gan gadw hefyd at naws delynegol y rhan gyntaf:

Fel yr oeddwn ar foreuddydd,
Ar doriad y wawrddydd
Yn rhodio'r glas goedydd
A'm calon fach yn brudd.⁴¹

³⁷ Gweler Dafydd ab Edmwnd, 'Marwnad Siôn Eos' yn Thomas Parry (gol.), *The Oxford Book of Welsh Verse* (Oxford, 1962), 138-41.

³⁸ *Tradd.*, Gwynn Jones, *tradd.*, 'Myfyrdod neu Ddeusyfiad Cantores = The Songstress' Conceit', 148-9; 150-1.

³⁹ *Tradd.* (Cymraeg), T. Gwynn Jones (Saesneg), *tradd.* (cerddoriaeth), 'Pob Cymro pur mwyn = You Gallants so Gay', *CCAGC*, Cyf. II, Rhif 3 (1922), 161.

⁴⁰ *Ibid.*

⁴¹ *Tradd.* (Cymraeg), T. Gwynn Jones (Saesneg), *tradd.* (cerddoriaeth), 'Y Deryn Du = I wandered, half-weeping', *CCAGC*, Cyf. II, Rhif 3 (1922), 192.

* * *

I wandered, half-weeping,
When dawn was just creeping,
And trees were yet sleeping,
With sorrow in my breast.⁴²

Mae ‘Fy annwyl chwaer fwys’ yn adrodd hanes nychdod a marwolaeth y ferch, hithau a oedd ‘mor wych’ gynt, ond sydd bellach â’i hysbryd ‘yngharchar gan alar a nŷch’.⁴³ Dychwela’r ddelwedd hon o garchar, a hynny yn ail adran y gân: yn hytrach na chyfarch y chwaer, mae’r adroddwr bellach yn galarnadu o’i cholli: ‘Mae f’ysbryd mewn caethiwed/ Oherwydd colli Haried’.⁴⁴ Wrth gyfieithu’r darn, y mae T. Gwynn Jones wedi atgynhyrchu’r patrwm odli a’r cyffyrddiadau cynganeddol sy’n britho’r gwreiddiol, ond ni cheir trosiad mor ffyddlon o’r cynnwys. Nid oes cyfeiriad at y berthynas deuluol yn y fersiwn Saesneg (‘My sweet little maid’). Nid ailadroddir y ddelwedd o gaethiwed ychwaith – delwedd sydd, yn y gwreiddiol, yn amlygu’n effeithiol y cysylltiad agos rhwng yr adroddwr a’i chwaer. Er hyn, amlygir y gwrthgyferbyniad yn yr adran glo, rhwng hyfrydwch y ferch pan oedd yn iach a’r tywyllwch a ddaeth yn sgil ei cholli: ‘Mae f’ysbryd mewn caethiwed [...] y lonna grêed [*sic*], lana’i grudd’, ‘all is dark and dreary,– / She lies, the loveliest, in the grave.’⁴⁵ Cyfeiriad deublyg a geir yma: tywyllwch trosiadol bywyd yr adroddwr heb y ferch, yn ogystal â thywyllwch llythrennol y bedd.

Pwysig yw nodi bod yr holl gyfieithiadau gan Gwynn Jones a ymddengys yn *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru* (heblaw ‘I’ll name you the day’ a ‘The Songstress’ Conceit’) yn cael eu cyhoeddi wrth ymyl y gerddoriaeth a’r geiriau

⁴² Ibid., 193.

⁴³ *Tradd.* (Cymraeg), T. Gwynn Jones (Saesneg), *tradd.* (cerddoriaeth), ‘Fy annwyl chwaer fwys = My sweet little maid’, *CCAGC*, Cyf. II, Rhif 3 (1922), 160.

⁴⁴ Ibid.

⁴⁵ Ibid.

gwreiddiol. Mae cyflwyniad fel hyn yn codi cwestiwn ynghylch *skopos* y darnau: a ydyw'r ffaith y cynhwysir y geiriau Saesneg, hynny yw, cyfieithiadau Gwynn Jones, wrth ymyl y sgorau cerddorol yn golygu bod modd ystyried y cyfieithiadau hyn fel mwy na throsiadau academaidd pur, ac, yn hytrach, fel darnau y gellir eu canu ar yr alawon gwreiddiol ym mhob achos? Er y pwysleisiodd T. Gwynn Jones mai 'specimens, written for the purpose of explaining the structure of Welsh metres to English scholars'⁴⁶ oedd ei drosiadau yn y cyswllt hwn, gwelir wrth graffu ar y cyfieithiadau eu hunain ei fod yn gyffredinol yn cadw mydr rheolaidd ynddynt, sydd o reidrwydd yn ei gwneud hi'n bosib eu canu ar yr alawon gwreiddiol. Fel 'The Songstress' Conceit', mae cyfieithiad Gwynn Jones o'r geiriau 'Yr wyf mor llawen a'r [sic] fwyalchen', ar yr alaw 'Cwynfan Prydain', hefyd yn cadw at y patrwm cyffredinol 8/7, er y ceir mwy nag un enghraifft yn y geiriau gwreiddiol o linellau hirach y mae'n rhaid wrth gywasgu ynddynt er mwyn gweddu i'r alaw: 'Na dim plesere a wedde i walch', 'Ni chei di o oferedd ddim anrhydedd'.⁴⁷ (**Gweler Atodiad V, Dyfyniad 1.**)

Cafodd un o'r cyfieithiadau a wnaed gan T. Gwynn Jones ar gyfer *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru*, 'Joy Forsakes Me, Sorrow Takes Me', ar yr alaw 'Diniweidrwydd', ei ailgyhoeddi yng nghasgliad W. S. Gwynn Williams, *Old Welsh Folk-Songs*, ym 1927. Trafodwyd eisoes berthynas T. Gwynn Jones a Gwynn Williams yng nghyswllt y cyfieithiadau o eiriau'r amryw fathau o ganeuon a gyhoeddwyd gan Gwmni Cyhoeddi Gwynn, ond pwysig yw cofio hefyd mor greiddiol i'w waith a'i weledigaeth oedd diddordeb Gwynn Williams mewn

⁴⁶ Llythyr, dyddiedig 26 Chwefror 1925, gan TGJ at WSGW, Papurau TGJ, G6217B, LIGC.

⁴⁷ *Tradd.* (Cymraeg), T. Gwynn Jones (Saesneg), *tradd.* (cerddoriaeth), 'Yr wyf mor llawen a'r [sic] fwyalchen = I am singing, lightly winging', *CCAGC*, Cyf. II, Rhif 4 (1925), 252.

cerddoriaeth draddodiadol Gymreig. Un o'i brif gredoau oedd y dylai cerddorion Cymru eu trwytho'u hunain yng ngherddoriaeth draddodiadol eu gwlad, a thrwy hynny, ddatblygu idiom gerddorol nodweddiadol a neilltuol Gymreig.⁴⁸ Fel J. Lloyd Williams, fe fu Gwynn Williams yntau'n weithgar gyda Chymdeithas Alawon Gwerin Cymru 'ar draws ymron drigain mlynedd' fel ysgrifennydd, cadeirydd, golygydd y cylchgrawn a llywydd y gymdeithas.⁴⁹ Roedd hefyd yn flaengar yn y broses o sefydlu Cymdeithas Genedlaethol Dawns Werin Cymru, ac ym 1933 fe gyhoeddodd y gyfrol ddyllanwadol a chynhwysfawr *Welsh National Music and Dance*.⁵⁰

Rhan greiddiol o genhadaeth bersonol W. S. Gwynn Williams oedd cyflwyno cymaint o ganeuon ac alawon traddodiadol â phosibl i gynulleidfa mor eang â phosibl, a rhan fawr o hyn oedd sicrhau bod geiriau dwyieithog yn ymddangos ar ei holl gyhoeddiadau.⁵¹ Wrth fynd ati'n wreiddiol i gynllunio'r gyfrol *Old Welsh Folk-Songs*, yr oedd Gwynn Williams yn gobeithio cael T. Gwynn Jones i ddarparu cyfieithiadau ar gyfer yr holl ddarnau, a nododd E. Wyn James mai'r prosiect hwn oedd achos y llythyr hwnnw oddi wrth Gwynn Jones lle mae'n datgan ei wrthwynebiad i gyfieithu geiriau caneuon: 'characteristic forms, like Welsh and English ballads, & especially penillion telyn, cannot be translated'.⁵² Gwnaeth Gwynn Williams ail ymgais ym 1926 i gael cyfieithiadau gan Gwynn Jones ar gyfer y gyfrol, yn ogystal â gofyn iddo

⁴⁸ Gweler W. S. Gwynn Williams, 'Cerddoriaeth a Chenedlaetholdeb', Papurau W.S. Gwynn Williams, G2/3, LIGC; David R. Jones, cyf. Helen Smith, 'Cenedlaetholdeb, Canu Gwerin a Cherddoriaeth Gelfyddydol Gymreig: Gweledigaeth Un Dyn', *Welsh Music History/Hanes Cerddoriaeth Cymru*, Cyf. 7 (2007), 192-224; Leigh Henry, 'Welsh Music and a Welsh Musician: The Songs of W. S. Gwynn Williams', *Y Cerddor Newydd* (Awst 1922), 161-2.

⁴⁹ Saer, *Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru: Canrif Gron*, 26.

⁵⁰ David R. Jones, 'Advocate of Change and Tradition: W. S. Gwynn Williams (1896-1978); His Contribution to Music in Wales to 1950' (traethawd PhD heb ei gyhoeddi, Prifysgol Cymru, Bangor, 2008), 409-15, 315.

⁵¹ *Ibid.*, 347.

⁵² E. Wyn James, "'Byd Gwyn Fydd Byd a Gano": W. S. Gwynn Williams, T. Gwynn Jones ac *Old Welsh Folk-Songs* (1927)', *Canu Gwerin*, 19 (1996), 81; llythyr, dyddiedig 26 Chwefror 1925, gan TGJ at WSGW, Papurau TGJ, G6217B, LIGC.

gyfansoddi penillion gwreiddiol ychwanegol ar ei chyfer. Ond mae'n amlwg mai negyddol eto oedd yr ymateb, er y cafodd y cerddor, yn ôl E. Wyn James, 'rywfaint o gyngor ynghylch geiriau' gan T. Gwynn Jones.⁵³ Yn sgil amharodrydd Gwyn Jones i gyfrannu, trodd Gwynn Williams at H. Idris Bell am eiriau Saesneg ar gyfer yr alawon, a'i waith ef a welir yn y gyfrol, heblaw am y cyfieithiad o 'Yn Iach Lawenydd', 'Joy Forsakes Me' (Gwynn Jones).⁵⁴ Yn ddiddorol, pwysleisir eto, mewn nodyn ar y gân yn *Old Welsh Folk-Songs*, mai cyfieithiad sy'n enghreifftio nodweddion mydryddol y geiriau gwreiddiol ydyw: 'The English translation has been specially written by Professor Gwynn Jones to illustrate the metrical peculiarities of Welsh Bardic poetry'.⁵⁵ Gellir awgrymu mai Gwynn Jones ei hun a fynnodd gynnwys y sylw hwnnw.

Nodir yn rhifyn 1922 o *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru* ac *Old Welsh Folk-Songs* fel ei gilydd fod geiriau gwreiddiol 'Diniweidrwydd' yn dod o 'Ymddiddan rhwng y Byw a'r Marw', gan Huw Morus.⁵⁶ Marwnad yw'r gerdd i Barbra Miltwn, a'r pennill cyntaf yn unig a gynhwysir yn y ddau gyhoeddiad a drafodir yma.⁵⁷ Y 'Marw' y cyfeirir ato yn y teitl yw Barbra Miltwn ei hun, a llais ei gŵr, Rhisiart, yw'r 'Byw'.⁵⁸ Mae'r pennill hwnnw'n lleisio galar y gŵr yn sgil ei golled, gan ffarwelio â llawenydd, a chyfarch y tristwch sydd bellach yn llenwi ei

⁵³ James, 'Byd Gwyn Fydd Byd a Gano', 83.

⁵⁴ Gweler *ibid.*, 84; W. S. Gwynn Williams (gol.), *Old Welsh Folk-Songs* (London, 1927), 24.

⁵⁵ W. S. Gwynn Williams, nodyn ar 'Yn Iach Lawenydd = Joy Forsakes Me', yn Gwynn Williams (gol.), *Old Welsh Folk-Songs*, 24.

⁵⁶ Gweler J. Lloyd Williams, nodyn ar 'Diniweidrwydd', *CCAGC*, Cyf. II, Rhif 3 (1922), 172; W. S. Gwynn Williams, nodyn ar 'Yn Iach Lawenydd = Joy Forsakes Me', 24.

⁵⁷ Williams, nodyn ar 'Diniweidrwydd', *CCAGC*, Cyf. II, Rhif 3 (1922), 172; James, 'Byd Gwyn Fydd Byd a Gano', 79.

⁵⁸ Gweler Nesta Lloyd, 'Cerddi Huw Morus i Barbra Miltwn' yn J. E. Caerwyn Williams (gol.), *Ysgrifau Beirniadol*, XXI (1996), 104.

fywyd: ‘Yn iach lawenydd, Croeso i gerydd,/ Dan fy nghystudd unig wy’.⁵⁹ Disgrifia’r pennill nid yn unig ei emosiynau, ‘F’aeth fy nghalon yn ysgyrion’, ond hefyd mor annaturiol yw marwolaeth Barbra iddo, a hynny drwy gyfeirio at eu haddewidion priodasol: ‘Darfu ’mhriod bêr yn barod/ Dorri’r amod’.⁶⁰ Pwysleisir mor anghyraeddadwy yw ei wraig bellach – ‘Gwaith ynfyta am ateb ata/ Yn galw Barbra, blin a bloedd’ – ond er oferedd yr ymchwil, nid yw’n barod i roi’r gorau iddi, a chly’r darn â’r cwestiwn: ‘ple ’rwyf ti?’⁶¹ Y mae’r pennill hwn, yn ôl Nesta Lloyd, yn adleisio confensiwn y *serenade*, sy’n *genre* a ddefnyddir mewn sawl marwnad Gymraeg adnabyddus.⁶² Er gwaetha’r datganiad mai ‘to illustrate the metrical peculiarities’ yw prif swyddogaeth y cyfieithiad hwn, y mae ystyr y gwreiddiol wedi’i throsi’n bur ffyddlon. Cyfleir yn effeithiol y ddelwedd ingol o ddryllio calon y gŵr, ‘fy nghalon yn ysgyrion’, gyda’r disgrifiad ‘my riven heart’.⁶³ Disgrifir Barbra yn y gwreiddiol fel ffynhonnell goleuni mewn tywyllwch – ‘Lloer gyweithas hardd ei hurddas’ – gyda’r ddelwedd o’r lloer yn cyferbynnu â’r daearol: ‘Ar lawr teyrnas ple ’rwyf ti?’⁶⁴ Goleuni sydd yn y cyfieithiad hefyd – ‘Star of beauty, love and duty’ – ond gorchymyn sy’n cloi’r pennill Saesneg: ‘Tell me where mays’t thou be found!’⁶⁵

Wrth ystyried y cyfieithiad yn nhermau’r gynghanedd sy’n hydreiddio’r pennill gwreiddiol – y ‘metrical peculiarities’ y cyfeirir atynt – diddorol yw nodi nad oes ymgais yn y darn i atgynhyrchu’r cymhlethdod cynganeddol hwn i’r graddau ag y disgwyliid, efallai, o gofio datganiad Gwynn Jones o’i *skopos* wrth gyfieithu. Un o’r

⁵⁹ Huw Morus (Cymraeg), T. Gwynn Jones (Saesneg), *tradd.* (cerddoriaeth), ‘Yn Iach Lawenydd = Joy Forsakes Me’, yn Gwynn Williams (gol.), *Old Welsh Folk-Songs*, 24.

⁶⁰ *Ibid.*, 24-5.

⁶¹ *Ibid.*, 25.

⁶² Lloyd, ‘Cerddi Huw Morus i Barbra Miltwn’, 103, 105.

⁶³ Morus, Gwynn Jones, *tradd.*, ‘Yn Iach Lawenydd = Joy Forsakes Me’, 24.

⁶⁴ *Ibid.*, 25.

⁶⁵ *Ibid.*

prif agweddau nas atgynhyrchir yn gyflawn yw'r patrwm odli, sy'n agwedd bwysig ar effaith glywedol y geiriau gwreiddiol. Dangosir y patrwm gan yr hyn a nodir isod:

Yn iach laweny**dd**, Croeso i gery**dd**,
Dan fy nghystu**dd** unig wy;
F'aeth fy nghalon yn ysgyrion
Drwy fy nwyfron, darfu nwy⁶⁶

Cedwir yr odl fewnol yn llinell gyntaf a thrydedd linell yr uned fydryddol yn y cyfieithiad, ond nid yw Gwynn Jones wedi ei chynnwys yn yr ail na'r bedwaredd:

Joy forsakes **me**, sorrow takes **me**,
Here I languish in despair;
To my *riven* heart is *given*
Weakly but to beat and bear⁶⁷

Er nad eir ati i atgynhyrchu patrymau cynganeddol y gwreiddiol, sylwn fod yn y trosiad enghreifftiau o gyflythrennu a chytseiniaid cyfatebol, megis 'Weakly but to beat and bear' a 'Vain is sighing, calling, crying'.⁶⁸ Y mae'r cyfieithiad hwn yn sicr yn rhoi argraff i'r darllynydd di-Gymraeg o dipyn o batrymau clywedol y gwreiddiol, er nad adlewyrchir pob agwedd yn gyflawn, fel y gwelsom. Mae'r ymdrech i sicrhau cydbwysedd rhwng ystyr ac arddull yr un mor amlwg yn y cyfieithiad hwn ag mewn cyfieithiadau eraill gan Gwynn Jones ar gyfer cerddoriaeth, ac y mae'r hyblygrwydd sy'n rhan annatod o'r 'Pentathlon Approach' yn flaenllaw yn achos 'Joy Forsakes Me' a'r cyfieithiadau eraill o ganeuon traddodiadol hefyd – a hynny er gwaethaf y

⁶⁶ Ibid, 24.

⁶⁷ Ibid.

⁶⁸ Ibid., 25.

datganiad gwreiddiol mai'r bwriad (neu'r *skopos*, a defnyddio term Peter Low) wrth gyfieithu oedd cynnig 'specimens', chwedl Gwynn Jones.⁶⁹

Parhaodd Gwynn Jones a Gwynn Williams i gydweithio ar wahanol brosiectau a chyhoeddiadau o ganol y 1920au hyd at ddyddiau cynhyrchiol Cwmni Cyhoeddi Gwynn ddechrau'r 1940au, a nifer o'r gweithiau hynny yn draddodiadol o ran arddull. Diolcha Gwynn Williams i Gwynn Jones, er enghraifft, yn y rhagair i'w gyfrol *Welsh National Music and Dance* (1933), 'for kindly reading through the typescript of Part 1 of the book, and for making a number of helpful suggestions'.⁷⁰ Mae'r cydweithio yn mynd ymhellach na phrawfddarllen, fodd bynnag: byddir maes o law yn trafod *Y Gainc Olaf* (1934), drama gerddorol a gyfansoddwyd gan Gwynn Jones a'r gerddoriaeth wedi'i threfnu gan Gwynn Williams sy'n ymdrin â'r traddodiad gwerin Cymreig yng nghyfnod y Diwygiad Methodistiaidd, a gwaith pwysig yng nghyswllt y cydweithio rhwng y ddau.

Cyhoeddwyd nifer o gyfrolau o gerddoriaeth draddodiadol gan Gwmni Gwynn, ac fe bwysleisia David R. Jones y berthynas rhwng cyhoeddiadau Cwmni Gwynn a Chymdeithas Alawon Gwerin Cymru, canlyniad rôl flaenllaw Gwynn Williams yn y ddwy fenter: '[he] placed the GPC [Gwynn Publishing Company] at the service of the Society'.⁷¹ Fel cymaint o gyhoeddiadau eraill y cwmni, fe alwodd Gwynn Williams ar T. Gwynn Jones i roi cymorth iddo gyda'r geiriau: ymysg y 15 cyfrol o gerddoriaeth draddodiadol a gyhoeddwyd gan Gwmni Gwynn sy'n cynnwys gwaith gan T. Gwynn Jones, ceir enghreifftiau o gyfieithu i'r Saesneg, cyfaddasu geiriau traddodiadol a chyfansoddi geiriau gwreiddiol newydd ar hen geinciau. Byddir

⁶⁹ Llythyr, dyddiedig 26 Chwefror 1925, gan TGJ at WSGW, Papurau TGJ, G6217B, LIGC.

⁷⁰ W. S. Gwynn Williams, 'Foreword', *Welsh National Music and Dance* (London, 1933), viii.

⁷¹ Jones, 'Advocate of Change and Tradition', 401.

yma, oherwydd cyfyngiadau o ran gofod, o reidrwydd yn gorfod canolbwyntio ar ddedholiad o'r cyhoeddiadau hyn yn unig, gan gymryd *Tair Cainc Gymreig: Three Welsh Airs* (1941), *Hen Ganeuon Cymreig Gwaith a Chwarae: Old Welsh Songs of Work and Play* (1943) a *Canu Haf: Summer Carols* (1944) fel gweithiau cynrychioladol o ran y math o waith a wnaeth T. Gwynn Jones yng nghyswllt caneuon traddodiadol ar gais W. S. Gwynn Williams yn ystod deng mlynedd cyntaf Cwmni Cyhoeddi Gwynn.

Pwysig yw nodi fod rôl Gwynn Jones yn y cyswllt hwn ychydig yn wahanol i'r hyn ydoedd yn achos y darnau a drafodwyd mewn penodau blaenorol. Roedd ganddo, mewn rhai achosion yng nghyswllt y gwaith ar gyfer Cwmni Cyhoeddi Gwynn a'r cyhoeddiadau traddodiadol, swyddogaeth olygyddol (fel 'cyfaddasydd' testunau) yn ogystal â'i waith arferol fel cyfieithydd neu awdur y geiriau. Rhaid cofio hefyd y gwahaniaeth arwyddocaol yn yr ymwneud â cherddoriaeth yma: ffactor ddylanwadol arall yw'r ffaith y gellid mentro y byddai Gwynn Jones yn gyfarwydd â nifer o'r alawon y byddai'n cyfansoddi neu'n cyfieithu ar eu cyfer. Gan ystyried y diddordeb a oedd gan Gwynn Jones ar hyd ei yrfa yn niwylliant gwerin Cymru, fe fyddai'n siŵr o adnabod nifer o'r ceinciau a gafodd eu cyhoeddi gan Gwmni Gwynn, megis 'Cân Crwtyn y Gwartheg', 'Robin Ddiog' a 'Pry Bach Bach'. Yn wahanol i'r cyfieithiadau o ddarnau clasurol neu gyfoes a drafodwyd yn y bennod ddiwethaf – lle'r oedd Gwynn Jones yn defnyddio'r dechneg acennu, math o 'gyfieithiad' o'r gerddoriaeth wreiddiol – gellir cynnig fod yr alawon gwreiddiol yn fwy o bresenoldeb yn ymwybyddiaeth Gwynn Jones wrth iddo fynd ati i lunio'r gweithiau a drafodir yma. Yn hytrach na thrawsgrifiad o un agwedd ar y gerddoriaeth (ar ffurf acenion) megis yn yr achosion a drafodwyd mewn penodau blaenorol, mae'n bosibl fod y gerddoriaeth sydd ynghlwm â'r geiriau a drafodir yma yn bresenoldeb mwy

uniongyrchol-gyfarwydd yn y broses gyfieithu a chyfansoddi, gan ei bod yn debygol iawn fod yr alawon eisoes yn hysbys i'r bardd-gyfieithydd-olygydd.

Cyfieithiadau i'r Saesneg gan T. Gwynn Jones yw'r tair cân sy'n ymddangos yn *Tair Cainc Gymreig: Three Welsh Airs*, a gyhoeddwyd ym 1941 gan Gwmni Cyhoeddi Gwynn: 'The Blackbird', cyfieithiad o eiriau traddodiadol 'Y Fwyalchen', 'Rhuddlan Marsh', cyfieithiad o eiriau Ieuan Glan Geirionydd, 'Morfa Rhuddlan', a 'The Mother and her Babe', cyfieithiad gan Gwynn Jones o waith Mynyddog, 'Y Fam a'i Baban'. Nodir cyfieithydd 'The Blackbird' fel 'G. J. W.', y llythrennau hynny a ddefnyddiai Gwynn Jones pan na fynnai nodi ei enw wrth y gwaith. Er hyn, nodir ei enw yn llawn wrth ymyl y ddau ddarn arall yn y casgliad.⁷² Ni cheir unrhyw wybodaeth ynghylch y darn hwn ymysg y llythyrau rhwng W. S. Gwynn Williams a Gwynn Jones sydd wedi goroesi, felly ni ellir datgan gydag unrhyw sicrwydd beth oedd y rheswm dros y penderfyniad hwn i ddefnyddio 'G. J. W.' wrth y cyfieithiad hwn. Llatai yw'r fwyalchen yn y gân hon, yn cario neges 'At feinwen' y mae'r adroddwr yn ei charu 'mor gu'.⁷³ Dywed yr adroddwr ei fod ar fin marw o serch: 'O'i chariad rwy'n barod i'r bedd'.⁷⁴ Defnyddir delwedd drawiadol o'r ferch yn dal einioes yr adroddwr yn ei dwylo wrth iddo ddatgan fod ei ddyfodol yn dibynnu arni hi: 'A'm bywyd, ar soddi, sy'n gorffwys/ Ar ddwyllaw 'run geinlwys ei gwedd'.⁷⁵ Mae cyfieithiad T. Gwynn Jones yn pwysleisio'r cyferbyniad rhwng yr adroddwr a'r un sy'n llatai iddo, gan gyfarch y fwyalchen 'so happily singing/ Carefree from the branches above', tra mae yntau'n dioddef: 'Go, tell her how sorely I suffer,/ That I

⁷² W. S. Gwynn Williams (gol.), *Tair Cainc Gymreig: Three Welsh Airs* (Llangollen, 1941), 1-3.

⁷³ *Tradd.*, (Cymraeg), T. Gwynn Jones (Saesneg), *tradd.* (cerddoriaeth), 'Y Fwyalchen = The Blackbird', yn Gwynn Williams (gol.), *Tair Cainc Gymreig: Three Welsh Airs*, 1.

⁷⁴ *Ibid.*

⁷⁵ *Ibid.*

soon shall be in the grave'.⁷⁶ Ymddengys y motiff hwn o farw o ganlyniad i siomedigaeth mewn cariad yn fwy amlwg yn y cyfieithiad na'r gwreiddiol, a hynny drwy gyfrwng cyfeiriad ychwanegol at farwolaeth yr adroddwr yn y cwpled clo. Yn hytrach na phwysleisio ei ffyddlondeb at ei gariad, fel yn y gwreiddiol ('Pam y peidiaist ti ferch a'm [*sic*] priodi/ A minnau'n dy ganlyn di cyd'), amlygir eto ganlyniad ei gwrthodiad ohono: 'But, knowing how deeply I love thee,/ O why wouldst thou leave me to die?'.⁷⁷ Yr un 'Sense' a geir yn ei hanfod, ond bod y cyfieithiad yn pwysleisio agwedd arbennig ar yr ystyr.

Mae'r ddau ddarn arall yn y casgliad hwn, 'Morfa Rhuddlan' a 'Y Fam a'i Baban' yn perthyn i draddodiad y 19g. o gyfansoddi geiriau newydd ar geinciau traddodiadol.⁷⁸ Un o'r prif gyfranwyr yn y maes hwn oedd John Ceiriog Hughes (1832-87), a gyfansoddodd 'lawer, – gormod, y mae'n ddiau', yn ôl T. Gwynn Jones, o ddarnau o farddoniaeth yn bennaf i'w canu ar y ceinciau traddodiadol.⁷⁹ Ceiriog hefyd yw awdur yr ysgrif estynedig *Y Bardd a'r Cerddor*, sy'n fath o lawlyfr i feirdd a oedd am ddilyn ei lwybr ef a chyfansoddi ar gyfer cerddoriaeth – testun sy'n cynnwys sylwadau ynghylch pa bynciau sy'n addas i ganu arnynt yn ogystal â chyingor ynghylch pa seiniau y dylid eu cynnwys yn y llinellau i'w gwneud yn fwy cydnaws â cherddoriaeth.⁸⁰ Ceiriog yw bardd telynegol mwyaf poblogaidd y cyfnod, efallai, ond rhaid cydnabod ar yr un pryd ei fod yn dilyn yn ôl traed eraill a baratodd y ffordd ar ei gyfer.⁸¹ Un o'r ffigyrau dylanwadol yn nhwf y delyneg yn y 19g. oedd

⁷⁶ Ibid.

⁷⁷ Ibid.

⁷⁸ Gweler Huw Meirion Edwards, 'The Lyric Poets', Hywel Teifi Edwards (gol.), *A Guide to Welsh Literature c. 1800-1900* (Cardiff, 2000), 105.

⁷⁹ T. Gwynn Jones, 'Rhagair', *Ceiriog: Detholiad o'i Weithiau* (Wrecsam, 1927), v.

⁸⁰ John Ceiriog Hughes, 'Y Bardd a'r Cerddor', *Gweithiau Ceiriog Cyf. II* (Wrecsam, 1890), 31-5, 27-8.

⁸¹ Edwards, 'The Lyric Poets', 114.

Ieuan Glan Geirionydd, enw barddol Evan Evans (1795-1855).⁸² Yn ogystal â chyfansoddi pryddest fuddugol gyntaf yr Eisteddfod Genedlaethol ym 1850, ‘Yr Adgyfodiad’, yr oedd hefyd yn gyfrifol am nifer o ganeuon byrrach a oedd yn rhan bwysig o’r ‘new lyric poetry’ – y delyneg.⁸³

Yr oedd diddordeb Ieuan Glan Geirionydd mewn cerddoriaeth draddodiadol hefyd yn ffactor bwysig yn ei waith, wrth iddo gyfansoddi darnau fel ‘Morfa Rhuddlan’ ar gyfer rhai o geinciau ac alawon Cymru: ‘Traditional melodies’, meddai Huw Meirion Edwards, ‘played an important part in moulding the character of the new lyric poetry’.⁸⁴ Y mae ‘Morfa Rhuddlan’ yn adrodd hanes brwydr olaf Caradog yn erbyn y Saeson, er y noda Huw Meirion Edwards nad yw’r darn yn hollol ffeithiol gywir, gan ei bod yn frwydr ‘which in fact predates Caradog’s death by almost a century’.⁸⁵ Dywed Edwards fod y gerdd hon yn rhan o’r un traddodiad â ‘druidic fantasies’ Iolo Morganwg – ‘one of several romantic portrayals of Welsh history composed at this time’.⁸⁶ Mae adroddwr y gerdd, wrth weld machlud haul dros ‘[f]ryniau hael Arfon’ yn dwyn i gof y frwydr a fu yn y fan honno, ‘Trwy y gwyll gwelaf ddull teyrll y darian’.⁸⁷ Defnyddir seiniau maes y gad i greu portread byw, sinematig, o’r frwydr, ‘si eirf heb ri’ arni [y darian] yn tincian [...] gwau saethau gan sio/ A thrwst mawr’.⁸⁸ Uwch y rhain, dywedir, ‘clywir cref ddolef Caradawg’, ei alwad ar ei luoedd i ymladd.⁸⁹ Wedi marwolaeth yr arweinydd, cawn fod ‘llon galon

⁸² Ibid., 100-110.

⁸³ Ibid., 101, 105.

⁸⁴ Ibid., 105.

⁸⁵ Ibid., 108.

⁸⁶ Ibid.

⁸⁷ Ieuan Glan Geirionydd (Cymraeg), T. Gwynn Jones (Saesneg), *tradd.*

(cerddoriaeth), ‘Morfa Rhuddlan = Rhuddlan Marsh’, yn Gwynn Williams (gol.), *Tair Cainc Gymreig: Three Welsh Airs*, 2-3.

⁸⁸ Ibid., 3.

⁸⁹ Ibid., 2-3.

hen Gymru [...] yn gwaedu'.⁹⁰ Diddorol nodi fod y dull sinematig a disgrifiadol-naratifol hwn yn cyd-daro'n drawiadol â'r technegau sy'n rhan ddiffiniol o un o weithiau enwocaf T. Gwynn Jones: cymharer yr olygfa hon o 'Morfa Rhuddlan' ag adrannau o 'Ymadawiad Arthur':

Goruwch cymloedd groch Camlan,
Lle'r oedd deufur dur yn dân,
Daeth cri o'r adwythig rawd,
Llaes ymadrodd – 'Llas Medrawd!'

...

Troes gemliw wawl tros Gamlan,
Eurai fo drueni'r gân
Onid teg, yr ennyd hon,
Drem oer y cedwyr meirwon;
Ar wyneb pob gŵr yno,
Rhyw ddwys wawr a roddes o,
A thawel, oer, fythol heddd,
Wedi olion dialedd –
Ni ryngir bodd yr angau,
Dyry gwsg i'r da a'r gau.
Drwy y gwaed, dros dyrrau gwŷr
Heb adwy, y dug Bedwyr,
O'i nerth, y Brenin Arthur,
A lescâi o loes y cur.⁹¹

Mae'r gerdd 'Morfa Rhuddlan' yn cyfeirio at y gainc y cenir hi arni wrth gloi, gan bwysleisio'r cysylltiad rhwng yr hanes a Cymry'r presennol: 'Geilw ei fardd am ei fwyn delyn i gwynfan,/ Ac ar hon tery don [*sic*] hen "Forfa Rhuddlan"'.⁹² Er y dywedir bod ffigwr y bardd yn chwarae 'broken chords' yn y cyfieithiad, nid yw'r gyfeiriadaeth benodol at deitl y gainc, sy'n rhan mor bwysig o ergyd y gwreiddiol, yn bresennol yn y trosiad Saesneg.⁹³ Fel yn achos y geiriau Cymraeg, mae disgrifiadau synhwyrus yn rhan allweddol o gyfieithiad T. Gwynn Jones hefyd, a'r cyferbyniad rhwng tawelwch hwyrnosol y presennol a rhu egniol y gyflafan hanesyddol yn

⁹⁰ Ibid.

⁹¹ T. Gwynn Jones, 'Ymadawiad Arthur', yn *Caniadau* (Wrecsam, 1934), 15-17.

⁹² Glan Geirionydd, Gwynn Jones, *tradd.*, 'Morfa Rhuddlan = Rhuddlan Marsh', 2-3.

⁹³ Ibid.

amlwg: ‘Not a faint, fitful breeze in the grove sigheth,/ And the lap of the wave on my ear dieth [...] I hear the loud roar break thro’ the ages’.⁹⁴ Ceir disgrifiadau byw o’r frwydr yn yr ail bennill drwy gyfrwng golygfeydd trawiadol – ‘I see gleaming the targes’ – seiniau byddarol – ‘As they sound, drop or bound’ – ac arogleuon cryfion, ‘red blood reeking’.⁹⁵ Yn y trosiad, amlygir effaith y newyddion am farwolaeth Caradog nid gyda delwedd o galon Cymru’n gwaedu, fel yn y gwreiddiol, ond yn hytrach drwy bwysleisio fod y tân trosiadol yn ysbryd ei phobl wedi’i ddiffodd yn wyneb oerfel y celain: ‘Warm breasts now shiver/ For the bold who lie cold down by the Clwyd river’.⁹⁶

Er gwaethaf pwysigrwydd y mesur yn y Gymraeg gwreiddiol, fel y noda Huw Meirion Edwards – ‘three internal rhymes and intricately woven *cynganedd* being closely attuned to the melodic structure’⁹⁷ – nid yw’r cyfieithiad fel rheol yn atgynhyrchu’r mesur yn agos. Daw’n amlwg nad yw Gwynn Jones wedi blaenoriaethu atgynhyrchiad slafaidd o’r mesur wrth gyfieithu, ond yn hytrach wedi bodloni ar enghreifftiau (digon soffistigedig) o gyflythrennu, cyfresi o odlau, a chyffyrddiadau cynganeddol, megis ‘for the bold who lie cold down by the Clwyd river’.⁹⁸ Ni phwysleisir yma, fel y gwnaeth Gwynn Jones gyda chyfieithiadau blaenorol, mai ‘specimen’ i arddangos effaith glywedol y mesur gwreiddiol yw’r darnau a ymddengys yn *Tair Cainc Gymreig: Three Welsh Airs*, ac eto rhaid cydnabod fod y mesur (er nad yn ei holl gymhlethdod gwreiddiol, wrth reswm) yn sicr yn rhan o *skopos* Gwynn Jones wrth drosi’r gwreiddiol, yn ogystal â rhoi sylw yn benodol i dechnegau disgrifiadol Ieuan Glan Geirionydd yn y trosiad.

⁹⁴ Ibid.

⁹⁵ Ibid.

⁹⁶ Ibid.

⁹⁷ Edwards, ‘The Lyric Poets’, 108.

⁹⁸ Glan Geirionydd, Gwynn Jones, *tradd.*, ‘Rhuddlan Marsh’, 3.

Naws wahanol sydd yn ‘Y Fam a’i Baban’ gan Mynyddog, enw barddol Richard Davies (1833-77). Dyma gân am y berthynas rhwng mam a’i phlentyn. Mae’r llon a’r lleddf yn cyd-fyw yma wrth i’r fam ddatgan ei phryder ynghylch dyfodol ei baban, ‘Ti gei ofidiau os cei di fywyd’, ond y mae’n ffyddiog y ‘cei angylion i’th wyllo hefyd’.⁹⁹ Pentyrrir nodweddion y plentyn yn yr ail bennill, gan greu naws o anwyldeb a chariad pur wrth i’r fam restru’r hyn a gân ynghylch ei baban:

Mae dy gân a’th wylo yn fiwsig iddi,
A’th fwyn gymdeithas yn nefoedd ganddi,
Mae’r gwrid eiriangoch sydd ar dy ruddiau
I olwg mam fel byw rosynau,
A’th lygad siriol fel gwawr y bore.¹⁰⁰

Mae’r ymdeimlad hwn o berffeithrwydd y plentyn yn llygaid ei fam yn gryf hefyd yng nghyfieithiad T. Gwynn Jones, ‘thy cheek so rosy [...] fairer than the fairest,/ Thy smile in waking is dawn’.¹⁰¹ Y mae’r cyfieithiad eto yn ceisio atgynhyrchu ystyr y gwreiddiol yn agos. Ar ddechrau ail bennill y gwreiddiol, dywedir bod ‘pryder mam a’i holl ofalon [...] Fel pleth o serch o gylch dy galon’.¹⁰² Amlyga hyn mor reddfol yw ei chariad at ei phlentyn, a’r ‘[b]leth’ yn amddiffynfa a grëwyd yn organig ac yn anorfod o’i theimladau hi.¹⁰³ Mae’r cyfieithiad, fodd bynnag, wrth bwysleisio’r nodwedd hon o amddiffyn a gwarchod, yn cyflwyno’r ddelwedd, ‘With bonds of gold she would defend thee’.¹⁰⁴ Nid yw’r ddelwedd hon mor effeithiol wrth gyfleu’r teimlad dan sylw: mae’r ‘[b]leth o serch’ yn codi’n naturiol o’r emosiwn ei hun, ond ymddengys y ‘bonds of gold’ fel agwedd annaturiol o allanol a dieithr yn achos

⁹⁹ Mynyddog (Cymraeg), T. Gwynn Jones (Saesneg), *tradd.* (cerddoriaeth), ‘Y Fam a’i Baban = The Mother and Her Babe’, yn Gwynn Williams (gol.), *Tair Cainc Gymreig: Three Welsh Airs*, 4.

¹⁰⁰ Ibid.

¹⁰¹ Ibid.

¹⁰² Ibid.

¹⁰³ Ibid.

¹⁰⁴ Ibid.

perthynas y fam â'i phlentyn, gan golli'r ymdeimlad o linyn cyswllt teimladol rhwng y ddau. Ychydig yn afrwydd hefyd, gellid dadlau, yw'r syniad o amddiffyn gyda 'bonds of gold'.

Er gwaethaf y teitl, *Hen Ganeuon Cymreig Gwaith a Chwarae: Old Welsh Songs of Work and Play* (1943), mae geiriau cân agoriadol y casgliad, 'Bugeilio'r Defaid', yn rhai a gyfansoddwyd gan Ieuan Ddu, neu John Thomas (1795-1871), ac sy'n ymddangos yn ei gyfrol o alawon gwerin, *The Cambrian Minstrel / Y Caniedydd Cymreig*, a gyhoeddwyd ym 1845.¹⁰⁵ Dyma gasgliad cynnar pwysig, ond, er hyn, fel y noda amryw feirniaid, ceir nifer o wendidau ynddo yn achos y gerddoriaeth, a'r ffaith ei fod wedi cyfansoddi ei eiriau ei hun ar gyfer yr alawon yn hytrach na defnyddio'r geiriau traddodiadol.¹⁰⁶ Bugail yw adroddwr y gân hon, ac mae'r geiriau yn mynd i'r afael â chariad at wlad ac at ferch: 'A'm cân sy'n dyst [...] O'r manau mwyn lle crwydron'; 'Dymunwn i gysgod i'r ferch/ Ennynnodd serch fy nghalon'.¹⁰⁷ T. Gwynn Jones sy'n gyfrifol am y cyfieithiad Saesneg a ymddengys yn *Hen Ganeuon Cymreig Gwaith a Chwarae*. Ym mhennill cyntaf y gwreiddiol, ceir cyfeiriad penodol at leoliad daearyddol – 'cribog lennydd Cynon' – sy'n cael ei adleisio yn y pennill olaf: '[D]olennog grwydrad Cynon'. At hyn, enwir y ferch yn y gerdd Gymraeg, 'fy Ngweno'.¹⁰⁸ Yng nghyfieithiad Saesneg T. Gwynn Jones, dilynir yr ystyr yn bur fanwl, ond ceir gwahaniaeth pwysig: yma, gwelir y cyfieithiad yn cyffredinoli

¹⁰⁵ John Thomas (Ieuan Ddu), *Y Caniedydd Cymreig: The Cambrian Minstrel; Being A Collection of the Melodies of Cambria, with Original Words in English and Welsh; together with Several Original Airs* (Merthyr Tydvil, 1845), 2.

¹⁰⁶ Gweler Kinney, *Welsh Traditional Music*, 170-3; Meredydd Evans, 'Ieuan Ddu: Eisteddfodwr a Cherddor', *Taliesin*, 58 (1986), 69; Nigel Ruddock, 'Tair Cân Ieuan Ddu a'u Geiriau Gwreiddiol', *Canu Gwerin*, 28 (2005), 42.

¹⁰⁷ Ieuan Ddu (Cymraeg), T. Gwynn Jones (Saesneg), *tradd.* (cerddoriaeth), 'Bugeilio'r Defaid = Shepherding the Sheep', yn W. S. Gwynn Williams (gol.), *Hen Ganeuon Cymreig Gwaith a Chwarae: Old Welsh Songs of Work and Play* (Llangollen, 1943), 3.

¹⁰⁸ *Ibid.*

manyllion daearyddol a phersonol y gwreiddiol. Hynny yw, y mae 'fy Ngweno' yn troi yn 'love' ddiennw, a dilëir y manyllion daearyddol sy'n lleoli'r gân yng Nghwm Cynon: yn lle'r cyfeiriadau penodol at '[G]ynon', ceir 'rock-bound streams' a 'river, gently gliding'.¹⁰⁹ Ac yng nghyswllt yr olaf, efallai nad yw'r trosiad mor llwyddiannus wrth i'r afon yn y Saesneg lithro yn oddefol, yn hytrach na chrwydro fel yn y Gymraeg gwreiddiol, sy'n personoli'r afon i raddau helaethach.

Geiriau traddodiadol sydd i 'Gyrru'r Ychen', wedi eu 'cyfaddasu' gan T. Gwynn Jones, ac fe ymddengys hefyd gyfieithiad Saesneg ganddo, 'Driving the Oxen'. Mae'r gân yn cyfarch dau ych, y 'Du' a'r 'Glas', gan eu gyrru i'r caeau i bori drwy ddisgrifio'r tywydd braf: 'Mae'r adar bach yn canu,/ Yn bêr o'r gwiaill irion', 'Mae heddiw des ysblennydd,/ A'r hedydd bach yn codi/ Uwch ben i'r glas wybrennydd'.¹¹⁰ Mae naws y gân hoenus hon yn cael ei throsi yn effeithiol gan T. Gwynn Jones drwy gyfrwng iethwedd seml a delweddaeth naturiol fel yn y gwreiddiol, er na chedwir yn union at ystyr rhai llinellau. Er enghraifft, yn lle'r datganiad syml 'Mae heddiw'n fore tirion' ar y dechrau, ceir gan T. Gwynn Jones yn y Saesneg y ddelwedd fwy barddonol-awgrymus 'the light is on the heather'.¹¹¹

Mae pedair o'r pum cân yn *Hen Ganeuon Cymreig Gwaith a Chwarae: Old Welsh Songs of Work and Play* yn ymwneud ag anifeiliaid, ac mae'r drydedd gân, 'Cyfri'r Geifr', yn un sy'n perthyn i grŵp o ganeuon am eifr, 'still sung with gusto at convivial gatherings', fel y nodâ Phyllis Kinney.¹¹² Yn ogystal â'r alaw a'r geiriau cyfarwydd, 'Oes gafr eto? Oes, heb ei godro/ Ar y creigiau geirwon/ Mae'r hen afr yn

¹⁰⁹ Ibid.

¹¹⁰ *Tradd.* (Cymraeg), T. Gwynn Jones (Saesneg), *tradd.* (cerddoriaeth), 'Gyrru'r Ychen = Driving the Oxen', yn Gwynn Williams (gol.), *Hen Ganeuon Cymreig Gwaith a Chwarae: Old Welsh Songs of Work and Play*, 5.

¹¹¹ Ibid.

¹¹² Kinney, *Welsh Traditional Music*, 93.

crwydro’,¹¹³ mae fersiwn gynharach yn bodoli – ‘the earliest extant example of these cumulative goat songs’¹¹⁴ – a dyma’r fersiwn a ymddengys yn *Hen Ganeuon Cymreig Gwaith a Chwarae*. Er y ceir tebygrwydd rhwng y gân fel y’i cyhoeddir yn *Hen Ganeuon Cymreig* a’r gân fwy poblogaidd a chyfarwydd, pwysleisia Kinney nad yw’r fersiwn hyn o ‘Cyfri’r Geifr’ yn enghraifft nodweddiadol o’r *genre*: ‘[“Cyfri’r Geifr” is] not typical of goat songs generally. The compass is over an octave, wider than most of the others, and the melody is ornamented with slurs and passing notes.’¹¹⁵ Nodir ar waelod y dudalen yn *Hen Ganeuon Cymreig Gwaith a Chwarae* o ble y daw’r geiriau a ymddengys yn y cyhoeddiad hwnnw: ‘The nine Welsh stanzas here given are based on those in Iolo Morganwg’s handwriting found in Llanofor MS. C.7’.¹¹⁶ Wrth gymharu geiriau ‘diwygiedig’ T. Gwynn Jones â’r rhai sydd gan Iolo Morganwg, gwelir mai newidiadau bychain, golygyddol yn unig a geir gan Gwynn Jones. Cysonir yr orgraff, gan arddel ‘eto’ yn hytrach nag ‘etto’, a gwelir bod rhai o’r llinellau wedi eu haddasu yn rhythmig yn ôl yr alaw.¹¹⁷ Pum sillaf sy’n mynd yn naturiol i ail hanner y llinell gerddorol (**gweler Atodiad V, Dyfyniad 2**), fel sydd gan Iolo Morganwg yn y pennill cyntaf, ‘gynne oedd genyf’, ac yn yr ail, ‘ond immi chwilio’.¹¹⁸ Mae rhai o’r penillion eraill a geir gan Iolo, fodd bynnag, yn mynnu defnydd o gywasgu er mwyn eu canu ar yr alaw, ‘Rhaid imi ’i cheisio’, ‘Ni henwais mo honno’, ‘Un ryfedd i’w rifo [*sic*]’.¹¹⁹ Yn yr achosion hyn, y mae Gwynn Jones yn

¹¹³ *Tradd.* (geiriau a cherddoriaeth), ‘Cyfri’r Geifr’, yn W. S. Gwynn Williams (gol.), *20 Alaw Gymreig* (Llangollen, 1950), 20.

¹¹⁴ Kinney, *Welsh Traditional Music*, 94.

¹¹⁵ *Ibid.*

¹¹⁶ Nodyn ar T. Gwynn Jones (geiriau), *tradd.*, ‘Cyfri’r Geifr’, yn Gwynn Williams (gol.), *Hen Ganeuon Cymreig Gwaith a Chwarae: Old Welsh Songs of Work and Play*, 7.

¹¹⁷ Iolo Morganwg, ‘Naw Gafr Gorniog’, ‘Miscellanea’, Llawysgrif LIGC, 13094E, LIGC.

¹¹⁸ *Ibid.*

¹¹⁹ *Ibid.*

addasu'r llinellau er mwyn cael pum sillaf: 'Rhaid im' ei cheisio', 'Ni henwais honno', 'Ryfedd i'w rhifo'.¹²⁰ Un gwahaniaeth a geir o ran ystyr y geiriau yn yr achos hwn, a hynny yn llinell agoriadol y gân: 'Naw gafr gorniog' yw anifeiliaid Iolo, ond 'Naw gafr gyfrwys' yw'r rhai a gânt eu potredu yng ngeiriau 'diwygiedig' Gwynn Jones.¹²¹

Perthyn manylder disgrifiadol i gyfieithiad Saesneg T. Gwynn Jones, 'Counting the Goats', nas ceir yn y Gymraeg, a darlunnir pob gafr yn y cyfieithiad yn llawer mwy manwl nag yn y gwreiddiol. Yn wir, yn lle'r gyfres fformiwlâig o liwiau a geir yn y Gymraeg – 'Gafr las, foel las,/ Foel ystlyslas,/ Finlas, feinlas,/ Foel a'r geden gynffon las, las, las'¹²² – gwelir y cyfieithydd yn cynnig rhywbeth hollol wahanol, sef sefyllfa ddramatig, atmosfferig, ffilmig:

And then another, scarce would I doubt her,
On the mountain pass, though the vapour wreathed about her,
Pale grey, faint form,
Like a spectre,
Eerie, errant,
Moving slowly in the pale, pale mist.¹²³

Gwelir yr ymateb creadigol-naratifol hwn ar waith yn y penillion eraill hefyd; er enghraifft, 'Calm, cold green eyes/ Rough and ragged,/ Brave and stubborn,/ Always wary on a wild, wild moor'.¹²⁴ O ganlyniad i'r newidiadau hyn, gellid dadlau y collir rhan hanfodol o natur y gân wreiddiol, sef yr agwedd gynyddol ('cumulative').¹²⁵ Nid yw'n ymarferol ailadrodd y llu o wahanol ddisgrifiadau cywrain yn y Saesneg, ac felly ceir yma gân o natur wahanol iawn i'r un Gymraeg (a fyddai'n cael ei chyd-ganu

¹²⁰ Gwynn Jones, *tradd.*, 'Cyfri'r Geifr = Counting the Goats', 7.

¹²¹ Iolo Morganwg, 'Naw Gafr Gorniog'; Gwynn Jones, *tradd.*, 'Cyfri'r Geifr = Counting the Goats, 7.

¹²² Gwynn Jones, *tradd.*, 'Cyfri'r Geifr = Counting the Goats, 7.

¹²³ *Ibid.*

¹²⁴ *Ibid.*

¹²⁵ Gweler Kinney, *Welsh Traditional Music*, 93-4.

ar gyflymder cynyddol wrth ailadrodd y penillion). Gwelir yng nghyfieithiad Saesneg Gwynn Jones y bardd yn esgor ar gerdd gwbl newydd, ac yn trawsffurfio moelni fformiwlâig, rhestrol a doniol y gwreiddiol yn gyfres o olygfeydd dramatig, cywrain ac, mewn manau, pur ddirgelaidd.

Yn ‘Cân Crwtyn y Gwartheg’, pedwaredd gân y casgliad *Hen Ganeuon Cymreig Gwaith a Chwarae*, ceir enghraifft wahanol o’r modd yr oedd T. Gwynn Jones yn ‘cyfaddasu’ geiriau, ac i ba raddau y byddai’n newid y gwreiddiol. Gwynn Jones sy’n gyfrifol am y cyfaddasiad sy’n ymddangos yn y casgliad hwn, a hefyd yn *20 Alaw Gymreig*, ac wrth gymharu’r geiriau hyn â’r rhai gwreiddiol a geir yn *Caneuon Traddodiadol y Cymry* (a gyhoeddwyd gan Gwmni Cyhoeddi Gwynn ym 1961) a hefyd yn *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru*, gwelir newid sy’n cael effaith sylweddol ar natur y gwaith gwreiddiol.¹²⁶ Nodir yn *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru* mai cân absŵrd sydd yma, ‘a form of entertainment very common in “stable-loft” gatherings’,¹²⁷ ond y mae fersiwn T. Gwynn Jones ohoni yn *Hen Ganeuon Cymreig Gwaith a Chwarae* (ac yn *20 Alaw Gymreig*) yn cael gwared ar yr agwedd absŵrd hon. Mae’r ‘fuwch wynebwen lwyd’ yn y gwreiddiol yn mynd ‘i’r glwyd i ddodwy’, a’r ‘iâr fach’ wedyn ‘yn glaf ar lo’.¹²⁸ Ond daw Gwynn Jones â ni yn ôl i’r byd real gyda’i gyfaddasiad, gan ddweud ‘na fynn’ y fuwch ‘ond fi i’w bwydo’, a bod yr iâr yn un ‘fach ddu â chynffon wen’.¹²⁹ Yr un anifeiliaid y cyfeirir atynt yng nghyfaddasiad Gwynn Jones ag yn y gwreiddiol –

¹²⁶ Nodir yn *Caneuon Traddodiadol y Cymry* y daw’r fersiwn o’r gân a gyhoeddwyd yno o *CCAGC*, a dyna’r rheswm dros gynnwys y cyfeiriad hwnnw yn yr astudiaeth gymharol hon.

¹²⁷ Nodyn golygyddol, *CCAGC*, Cyf. III, Rhif 1 (1930), 79.

¹²⁸ *Tradd.* (geiriau a cherddoriaeth), ‘Cân Crwtyn y Gwartheg’, yn W. S. Gwynn Williams (gol.), *Caneuon Traddodiadol y Cymry* (Llangollen, 1961), 80.

¹²⁹ T. Gwynn Jones (geiriau), *tradd.* (cerddoriaeth), ‘Cân Crwtyn y Gwartheg = The Cowboy’s Song’, yn Gwynn Williams (gol.), *Hen Ganeuon Cymreig Gwaith a Chwarae: Old Welsh Songs of Work and Play*, 9.

‘saith o adar mân y to’, ‘sgwarnog gota goch’, a milgwn (neu ‘un milgi main’) – heblaw am yr ail bennill, lle newidir y ‘dylluan â’i phig gam’ i ‘gwrcaeth ddu a’i ben yn gam’.¹³⁰ Y tro hwn, felly, nid addasiadau bychain – mater o gysoni orgraff a rhythm – sydd gan Gwynn Jones, ond yn hytrach ailwampiad o’r darn traddodiadol o ran cynnwys, a hyd yn oed, yng nghyd-destun cael gwared â’r elfen absŵrd y soniwyd amdani, ei *genre* hefyd.

Diddorol yw’r gwahaniaethau hyn rhwng y gwahanol fersiynau, a dylid gofyn beth yn union yw’r rheswm dros y newidiadau. Ni ellir dweud yn sicr, gan mai prin yw’r wybodaeth a roddir ar y cyhoeddiad ei hun ynghyd â’r hyn a geir ymysg gohebiaeth W. S. Gwynn Williams a T. Gwynn Jones ynghylch y darn hwn. Nodir ffynhonnell y geiriau yn unig ar y testun cyhoeddedig: ‘The Welsh words and melody of this song are based on those given by Iolo Morgannwg [*sic*] in Llanofer MS. 59, written about 1800.’¹³¹ Un cyfeiriad at y gân sydd i’w ganfod ymysg yr ohebiaeth, ac ymddengys yno fod Gwynn Williams yn hoff o’r rhyfeddodau a ddisgrifir ynddi: ‘I have just arranged a most interesting tune for this last book [...] The words describe a series of absurdities. Can you make the metre of the 3 stanzas the same to fit the tune, and let me have an English version?’¹³² Y mae’n bosib y teimlai Gwynn Jones nad oedd yr elfen absŵrd yn gweddu i’r casgliad, neu ei fod yn awyddus i greu fersiwn newydd o’r gân.

¹³⁰ *Tradd.* ‘Cân Crwtyn y Gwartheg’, yn Gwynn Williams (gol.), *Caneuon Traddodiadol y Cymry*; Gwynn Jones, *tradd.*, ‘Cân Crwtyn y Gwartheg’, yn Gwynn Williams (gol.), *Hen Ganeuon Cymreig Gwaith a Chwarae: Old Welsh Songs of Work and Play*, 9.

¹³¹ Nodyn ar ‘Cân Crwtyn y Gwartheg’, yn Gwynn Williams (gol.), *Hen Ganeuon Cymreig Gwaith a Chwarae: Old Welsh Songs of Work and Play*, 9.

¹³² Llythyr, dyddiedig 28 Awst 1943, gan WSGW at TGJ, Papurau TGJ, A1324, LIGC.

Cân wahanol iawn yw'r darn sy'n cloi'r casgliad – carol o draddodiad yr Ŵyl Fair o ogledd Cymru¹³³ – a diddorol mor wahanol yw'r gân hon i destunau gweddill y casgliad, sydd, bob un, yn ymwneud ag anifeiliaid a gweithio ar y tir. Roedd dathliadau Gŵyl Fair yn cynnwys gwasaela, a adwaenid fel 'canu yn drws'. Byddai'r cantorion yn cyfnewid penillion â'r rheini y tu mewn i'r tŷ er mwyn cael dod i mewn a gwledda.¹³⁴ Ceir nodyn esboniadol ar y garol yn y cyhoeddiad: 'It will be seen that the stanzas were sung alternately by the carollers out of the house and those in the house'.¹³⁵ Wrth drafod y traddodiad coll hwn, nodâ Phyllis Kinney fod nifer o'r caneuon yn cynnwys posau y byddai'n rhaid i'r cantorion eu datrys cyn cael dod i mewn: 'in north Wales the feat... involved setting puzzles and answering them, guessing riddles, performing tongue-twisting words faster than anyone else or singing long cumulative songs without memory lapses or slips of the tongue'.¹³⁶ Ni cheir unrhyw awgrym o bos nac ymryson yn 'Carol yn 'Drws' yn *Hen Ganeuon Cymreig Gwaith a Chwarae*, fodd bynnag, ond yn hytrach un garfan yn gofyn i'r rheini sydd y tu mewn i wrando arnynt a'u croesawu – 'Ni ddaethom hyd yma,/ Gyfeillion o'r mwyna,/ Ar hyd er cael odfa/ I ganu' – ac aelodau'r garfan arall yn gwrthod, gan honni eu bod yn rhy flinedig i agor eu drysau: 'Dymunem lonyddwch/ I gysgu'.¹³⁷ Ymddiddan ar y pwnc hwn sy'n dilyn: 'O, codwch i'n hawddgan/ Groesawu', a'r ateb, 'Mae'n llygaid cyn drymed [...] / Does damed na llymed/ O groeso'.¹³⁸ Ar ddiwedd y garol, fodd bynnag, fe groesewir y cantorion i'r tŷ, a hynny am eu bod hwythau yn llymach eu bryd na'r rheini sydd y tu mewn: 'A'ch awen cyn llymed,/

¹³³ Gweler Kinney, *Welsh Traditional Music*, 87.

¹³⁴ *Ibid.*

¹³⁵ Nodyn ar *tradd.* (Cymraeg), T. Gwynn Jones (Saesneg), *tradd.* (cerddoriaeth), 'Carol yn 'Drws = Doorstep Carol', yn Gwynn Williams (gol.), *Hen Ganeuon Cymreig Gwaith a Chwarae: Old Welsh Songs of Work and Play*, 11.

¹³⁶ Kinney, *Welsh Traditional Music*, 88.

¹³⁷ *Tradd.*, T. Gwynn Jones, *tradd.*, 'Carol yn 'Drws = Doorstep Carol', 11.

¹³⁸ *Ibid.*

Cewch damed, cewch lymed'.¹³⁹ Y mae cyfieithiad T. Gwynn Jones o'r geiriau hyn yn dilyn yn agos yr hyn a geir yn y gwreiddiol, gyda'r ymddiddan yn amlwg: 'Good folk of high mention.../ Grant us your attention', 'we who are weary/ Would slumber'.¹⁴⁰ Fodd bynnag, y mae trueni'r rheini y tu mewn yn cael ei ddisgrifio'n fwy eglur yn y cyfieithiad, wrth iddynt fanylu ar galedi eu sefyllfa: 'Our lodging is leaking,/ When tempests are shrieking,/ And weazels [*sic*] are sneaking/ Around us'.¹⁴¹

Nid 'Carol yn 'Drws' yw'r unig garol a gyhoeddwyd gan Gwmni Gwynn gyda chyfraniad gan T. Gwynn Jones: cyhoeddwyd casgliad o garolau plygain, *Clychau'r Nadolig: Christmas Bells*, ym 1942, a dilynwyd y gyfrol honno gan gasgliad o garolau haf, *Canu Haf: Summer Carols*: a gyhoeddwyd ym 1944, gyda'r ddwy gyfrol yn cynnwys cyfieithiadau a chyfaddasiadau gan Gwynn Jones. Yn sgil llwyddiant *Clychau'r Nadolig: Christmas Bells* y dechreuodd Gwynn Williams synio am *Canu Haf: Summer Carols*, 'In view of the success of our book of Christmas carols [...] I am wondering if we could produce a small book of Spring and Summer Carols?'.¹⁴² Yr oedd o'r farn bendant y byddai'r gyfrol yn llwyddiant, gan fod, fel y nodir yn y rhagair i *Canu Haf: Summer Carols*, 'awydd mewn llawer ardal am edfryd y diddordeb hwnnw eto'.¹⁴³ Ymddengys saith carol yn y gyfrol, a geiriau pob un naill ai wedi eu cyfieithu, eu cyfaddasu, neu wedi eu cyfansoddi o'r newydd gan T. Gwynn Jones. Cynigir awgrymiadau ynghylch adrannau penodol o'r Ysgrythur i'w darllen

¹³⁹ Ibid.

¹⁴⁰ Ibid.

¹⁴¹ Ibid.

¹⁴² Llythyr, dyddiedig 17 Ebrill 1943, gan WSGW at TGJ, Papurau TGJ, A1312, LIGC.

¹⁴³ W. S. Gwynn Williams, yn W. S. Gwynn William (gol.), *Canu Haf: Summer Carols* (Llangollen, 1944), 1.

rhwng y carolau, gyda'r bwriad o ganu'r naill ar ôl y llall fel rhan o wasanaeth neu gyngerdd.¹⁴⁴

Mae'r dyfyniadau o'r ysgrythur i gyd yn ymwneud â byd natur, ac fe geir agoriad effeithiol i'r carolau haf gydag adran o Ail Ganiad Solomon, sy'n datgan 'Canys wele, y gaeaf a aeth heibio [...] Gwelwyd y blodau ar y ddaear, daeth amser i'r adar i ganu'.¹⁴⁵ Carol gyntaf y casgliad hwn yw 'Mwynen Mai', ac mae'r delweddau a gyflwynir gan y geiriau yn cadarnhau'r teimlad o ddechreuad a deffroad a welwyd yn y dyfyniad o Ganiad Solomon: 'Atolwg, lana' teulu,/ Rhowch gennad inni ganu,/ Mae'r yd a'r borfa'n glasu/ Yn tyfu ar y tir'.¹⁴⁶ Pwysleisia T. Gwynn Jones yr elfen o gyfarch yn ei gyfieithiad, sy'n rhan annatod o draddodiad carolau haf,¹⁴⁷ gyda'r llinell, 'Ye kindly folk, we greet you'.¹⁴⁸ Nodwedd bwysig arall o'r geiriau gwreiddiol yw'r mesur, ac mae'r gynghanedd a ymddengys drwyddi yn ychwanegu at effaith glywedol y darn, gyda churiadau cryf y gerddoriaeth yn pwysleisio'r cytseiniaid a'r odlau mewnol. (**Gweler Atodiad V, Dyfyniad 3.**) Ni cheir ymgais gan T. Gwynn Jones i atgynhyrchu'r gynghanedd yn y cyfieithiad, ac felly gellir dweud ei fod wedi gosod trosglwyddo neges y darn yn uwch na'r nodweddion ieithyddol-fydryddol yn yr hierarchiaeth gyfieithu yn yr achos hwn.

Geiriau John Howel yw'r ail garol, 'Mae'r Ddaear yn Glasu', sy'n croesawu hyfrydwch ir yr haf, 'Mae'r ddaear yn glasu,/ A'r coed sydd yn tyfu,/ A gwyrddion yw'r gerddi,/ Mae'r llwyni mor llon'.¹⁴⁹ Bywyd newydd sydd dan sylw yn y dyfyniad

¹⁴⁴ Gwynn Williams, yn Gwynn Williams (gol.), *Canu Haf: Summer Carols*, 1.

¹⁴⁵ Caniad Solomon: 2, 10-12.

¹⁴⁶ Rhys Elis (Cymraeg), T. Gwynn Jones (Saesneg), *tradd.* (cerddoriaeth), 'Carol Mai = May Carol', yn Gwynn Williams (gol.), *Canu Haf: Summer Carols*, 3.

¹⁴⁷ Kinney, *Welsh Traditional Music*, 98

¹⁴⁸ Elis, Gwynn Jones, *tradd.*, 'Carol Mai = May Carol', 3.

¹⁴⁹ John Howel (Cymraeg), T. Gwynn Jones (Saesneg), *tradd.* (cerddoriaeth), 'Mae'r Ddaear yn Glasu = The Earth is Reviving', yn Gwynn Williams (gol.), *Canu Haf: Summer Carols*, 5.

Beiblaidd hefyd, o Lyfr Eseia, lle personolir y tir, fel a geir yn y garol Gymraeg sy'n cyfeirio at y llwyni 'mor llon': 'Yr anialwch a'r anghyfanheddle a lawenychant o'u plegid; y diffeithwch hefyd a orfoledda, ac a flodeua fel rhosyn. Gan flodeuo y blodeua, ac y llawenycha hefyd â llawenydd ac â chân'.¹⁵⁰ Er y ceir ymdeimlad cryf o fywyd newydd a deffroad yng nghyfieithiad T. Gwynn Jones o'r garol hefyd – 'The earth is reviving,/ The woodlands are thriving/ The land is a glory/ Of colour once more' – ni cheir yr un cysylltiad rhwng y garol a'r Ysgrythur ag sydd i'w weld yn achos y geiriau Cymraeg drwy gyfrwng y personoli ar fyd natur a phwysleisio ei llawenydd.¹⁵¹

Diddorol yw'r amrywiaeth o ran awduron geiriau'r carolau yn y gyfrol hon: y mae yma gymysgedd o ddarnau traddodiadol, a chyfaddasiadau a chyfansoddiadau newydd gan T. Gwynn Jones. Cyfaddasiad o eiriau gan awdur dienw yw'r garol 'Wele Daeth Briallu Mair', a gwelir yn y geiriau hyn eto ymhyfrydu ym myd natur a'i brydferthwch – 'Dewin tes sy'n dwyn y tir/ O dan ei rwyd o dyner wyrdd' – ynghyd â phwyslais ar y gobaith sy'n annatod gysylltiedig â'r haf, hyd yn oed wrth gofio amdano ynghanol 'byrddydd gaeaf blin'.¹⁵² Y mae'r ddwy garol nesaf, 'Croeso i Fai' a 'Mwynder Mai', yn ddarnau gwreiddiol gan T. Gwynn Jones. Rhaid gofyn yma yng nghyswllt casgliad sydd yn ei ragair yn pwysleisio perthnasedd yr 'hen garolau', beth yw rôl y darnau gwreiddiol hyn, a pham y dewiswyd eu cynnwys.¹⁵³ Yn y llythyr cyntaf gan Gwynn Williams sy'n crybwyll cyhoeddi cyfrol o garolau haf, diddorol yw gweld fod yr arbenigwr hwn ar gerddoriaeth draddodiadol yn troi at T. Gwynn Jones am gyngor, gan gyfaddef na wyddai'n iawn ymhle i chwilio am eiriau i'r alawon:

¹⁵⁰ Eseia: 35, 1-2.

¹⁵¹ Howel, Gwynn Jones, *tradd.*, 'Mae'r Ddaear yn Glasu = The Earth is Reviving'.

¹⁵² T. Gwynn Jones (geiriau), *tradd.* (cerddoriaeth), 'Wele Daeth Briallu Mair = Now the Golden Primrose Springs', yn Gwynn Williams (gol.), *Canu Haf: Summer Carols*, 7.

¹⁵³ Gwynn Williams, yn Gwynn Williams (gol.), *Canu Haf: Summer Carols*, 1.

‘Where should I look for possible Welsh material?’.¹⁵⁴ Tybed a ellir awgrymu bod y darnau gwreiddiol gan T. Gwynn Jones wedi eu comisiynu gan Gwynn Williams wedi iddo fethu â darganfod geiriau carolau haf a oedd yn ateb ei bwrpas. Gwelir bod ganddo syniadau pendant ynghylch y gyfrol, fel y tystia ei drafodaeth ar y garol olaf, ‘Hafgan’: ‘I wish it was brighter and more of a fulfilment of May’s hopes [...] Otherwise I suggest new words’.¹⁵⁵

‘[A] fulfilment of May’s hopes’: yn wir, y gobeithion hyn a gyfleir yn y carolau gwreiddiol gan T. Gwynn Jones sy’n ymddangos yn y gyfrol hon. Mae’r gyntaf, ‘Croeso i Fai’, fel y gellid disgwyl, yn ymghyfydu yn nyfodiad y mis ac yn yr hyn a ddaw gydag ef:

Croeso i Fai,
I’w deyrnas eto doed!
Dilyw o’i liw
Sy’n dala brigau’r coed;
Drwy friwddail braen daw saethau fyrdd
I drwsio maes a ffos a ffyrdd
A chwrlid o’r tyneraf gwyrdd
Sy’n bythol gadw’r oed¹⁵⁶

Pwysleisir yr agwedd hon o obaith, sydd mor bwysig i weledigaeth Gwynn Williams am y gyfrol, ymhellach yn y geiriau Saesneg (eto gan Gwynn Jones), lle y cyfeirir yn y cwpled clo at ‘The promise of the primal might/ That Maytime ever brings’.¹⁵⁷ Ym mhennill cyntaf ‘Mwynder Mai’, ail garol wreiddiol Gwynn Jones yn y gyfrol, ymhyfydir unwaith eto yn y mis a’i bleserau, ond pwysleisir hefyd ei fyrhoedledd yn y pennill canlynol. Cyferbynnir holl liwiau’r blodau a chynhesrwydd yr heulwen ym

¹⁵⁴ Llythyr, dyddiedig 17 Ebrill 1943, gan WSGW at TGJ, Papurau TGJ, A1312, LIGC.

¹⁵⁵ Llythyr, dyddiedig 1 Ionawr 1944, gan WSGW at TGJ, Papurau TGJ, A1335, LIGC.

¹⁵⁶ T. Gwynn Jones (geiriau), *tradd.* (cerddoriaeth), ‘Croeso i Fai = Welcome to May’, yn Gwynn Williams (gol.), *Canu Haf: Summer Carols*, 9.

¹⁵⁷ *Ibid.*

mis Mai mewn dull Dafydd ap Gwilym-aidd (meddylier am gywydd ‘Mis Mai a Mis Tachwedd’¹⁵⁸) ag oerfel eira a gwynt y gaeaf, gan ddatblygu’r ddelwedd i gyfystyru’r gaeaf â’r ‘byd sydd mor gymysg o fethiant neu fai’, a’r haf â’r ddelwedd gofiadwy, ‘Rhyw awr o Baradwys yw mwynder mis Mai’.¹⁵⁹ Gellir gweld perthynas yn y fan hon rhwng y ddwy garol wreiddiol gan Gwynn Jones yn y cyswllt hwn, ‘Croeso i Fai’ a ‘Mwynder Mai’, ac un o brif nodweddion canu’r bardd yn gyffredinol, sef ei sylwgarwch barddonol yn achos byd natur. Er mai geiriau sy’n perthyn i’r 20g. yw’r rhain, tonau hen garolau sydd iddynt, ac efallai y ceir elfen o orbwysleisio eu hynafiaeth gan W. S. Gwynn Williams er mwyn ceisio cyfiawnhau’r geiriau modern yn y cyhoeddiad. Yn y nodiadau ynghylch ffynonellau’r geiriau ar waelod y tudalennau, cyfeirir at dôn ‘Mwynder Mai’ fel ‘popular old Welsh carol’, a phwysleisir bod ‘Mwynen Gwynedd’, tôn ‘Croeso i Fai’, yn ‘very ancient’.¹⁶⁰

Dychwelir at eiriau sy’n perthyn i gyfnod y carolau gyda chweched garol y casgliad, ‘Hinin Ha’’, gan Edward Samiwel (1674-1748). Mae’r garol hon, fel un gyntaf y casgliad, eto’n cyfarch y gynulleidfa, gan wahodd y cynulliad i ganu: ‘Y Teulu hynod haelion,/ Cyd ganwn yn deg union’.¹⁶¹ Y mae’r garol eto’n darlunio byd natur, a phentyrrir y delweddau er mwyn creu darlun llawn o fywiogrwydd hoenus yr haf: ‘Wrth glywed llais yr adar [...] A rhywiog wlith y bore,/ Cenhadon i ddwyn cnyde [...] Y gwenyn hyd y gweunydd [...] Y mêl o bob meillionwydd’.¹⁶² Yn y llythyrau sy’n trafod y gyfrol, pwysleisia W. S. Gwynn Williams ei fod yn awyddus i

¹⁵⁸ Dafydd ap Gwilym, ‘Mis Mai a Mis Tachwedd’,

<<http://www.dafyddapgwilym.net/cym/3win.htm>>; cyrchwyd 10 Awst 2016.

¹⁵⁹ T. Gwynn Jones (geiriau), *tradd.* (cerddoriaeth), ‘Mwynder Mai = Sweetness of May’, yn Gwynn Williams (gol.), *Canu Haf: Summer Carols*, 11.

¹⁶⁰ W. S. Gwynn Williams, nodyn ar ‘Mwynder Mai’, 6; W. S. Gwynn Williams, nodyn ar ‘Croeso i Fai’, 8.

¹⁶¹ Edward Samiwel (Cymraeg), T. Gwynn Jones (Saesneg), *tradd.* (cerddoriaeth), ‘Hinin Ha’ = Summer Days’, yn Gwynn Williams (gol.), *Canu Haf: Summer Carols*, 13.

¹⁶² *Ibid.*

gynnwys carol am gynhaeaf yn y casgliad ('I would really want a harvest carol'), a diau ei fod wedi ei fodloni yma gyda'r cyfeiriadau at yr hyn a ddaw yn sgil bywyd newydd yr haf a gweithgarwch y gwenyn.¹⁶³ Diddorol yw nodi bod yr agwedd grefyddol i'w gweld yn gryfach yng nghyfieithiad T. Gwynn Jones o'r garol hon nag yn y gwreiddiol, a hynny ar ddiwedd yr ail bennill, lle y pwysleisir mai Duw sy'n gyfrifol am y rhoddion hyn o'r ddaear: 'O may we praise the Giver/ And wonder at His ways'.¹⁶⁴ Er nad oes ymgais yn y cyfieithiad Saesneg gan Gwynn Jones i ddynwared y gynghanedd a welir yn y gwreiddiol yn ei holl fanylder, ceir, fodd bynnag, gyffyrddiadau cyflythrennol ganddo sydd o leiaf yn cydnabod ffurf y gwreiddiol, megis 'In many wondrous ways', 'That fills the fields and forests' ac 'Until our days are done'.¹⁶⁵

Salm 147 yw'r dyfyniad o'r ysgrythur yr awgrymir ei ddarllen i ragflaenu carol olaf y casgliad, 'Hafgan', ac mae'r salm yn pwysleisio mawredd Duw ('aneirif yw ei ddeall'), ac yn cyhoeddi 'Cydgenwch i'r Arglwydd mewn diolchgarwch: cenwch i'n Duw â'r delyn'.¹⁶⁶ Carol o fawl a diolch yw'r darn olaf yn y gyfrol, y geiriau o waith Twm o'r Nant (1739-1810), wedi'u cyfaddasu gan T. Gwynn Jones. Ceir cryn drafodaeth ar y darn hwn yn un o lythyrau W. S. Gwynn Williams, wrth iddo resynu nad yw'n gwbl addas ar gyfer y casgliad yn ei farn ef: 'I only sent you the Twm o'r Nant words in the hope that you would knock them into something much brighter and happier than the 9 stanzas really stood for'.¹⁶⁷ Pedwar pennill yn unig a ymddengys yn *Canu Haf: Summer Carols*, yn hytrach na'r naw gwreiddiol, ac mae'r

¹⁶³ Llythyr, dyddiedig 29 Rhagfyr 1943, gan WSGW at TGJ, Papurau TGJ, A1334, LIGC.

¹⁶⁴ Samiwel, Gwynn Jones, *tradd.*, 'Hion Ha' = Summer Days'.

¹⁶⁵ Ibid.

¹⁶⁶ Salm 147: 5, 7.

¹⁶⁷ Llythyr, dyddiedig 29 Rhagfyr 1943, gan WSGW at TGJ, Papurau TGJ, A1334, LIGC.

geiriau yn canolbwyntio yn fwy ar fywyd ysbrydol na disgrifiadau o hyfrydwch diriaethol byd natur fel a gafwyd eisoes. Ni cheir yma felly ‘the fulfilment of May’s hopes’, yr hyn yr oedd Gwynn Williams yn gobeithio ei gael i gloi’r gyfrol.¹⁶⁸ Cyfeirir, fodd bynnag, yn y trydydd pennill fel yr ymddengys yn y cyhoeddiad, at yr ‘holl greadigaeth fel drych [...] Bob peth yn datguddio’n gytun [*sic*]/ Ddaioni’r Creawdwr ei hun’.¹⁶⁹ O ystyried y ffaith y bwriadwyd i’r carolau sy’n ymddangos yn y casgliad gael eu perfformio gyda’i gilydd, y mae’r darlun a grëwyd o’r ‘greadigaeth’ yn y carolau blaenorol yn un o fyd sy’n ffynnu â gobaith a llawenydd yr haf, ac erys hyn yn y cof wrth wrando ar y garol glo hon. Yn y pennill olaf, pwysleisir byrloeddedd ein bywydau meidrol, ac er hyfrydwch y byd hwn a’r ‘awr o Baradwys’ a brofir bob haf, nid dyma’r gwir Nefoedd: ‘Gwybyddwn, na ffaeliwn yn ffôl,/ Mae’r bywyd tragwyddol yn ôl’.¹⁷⁰ Yn yr un modd, yr agwedd ysbrydol hon sydd dan sylw yn y cyfieithiad, ac fe welir eto’r ymhryfrydu yn y ‘Creation... telling by day and by night/ The goodness of God and His might’.¹⁷¹ Dywed y pennill cyntaf, sy’n cyfarch y gwrandawyr, fod y garol yn cyflwyno ‘message of May’, ac fe gynhwysir moeswers yn y pennill clo: ‘From vanity let us abstain/ That life everlasting we gain’.¹⁷² Bu inni nodi wrth drafod cyfraniadau T. Gwynn Jones i *Emynau Mynyw* fod ei gyfieithiadau o’r testunau crefyddol wedi bod yn fodd iddo archwilio ei gredoau crefyddol ei hun. Tybed a oes modd gweld proses debyg ar waith yn achos cyfraniadau Gwynn Jones i *Canu Haf*, yng nghyd-destun pwyslais y gyfrol hon ar farddoniaeth wedi’i gosod ochr yn ochr â darnau o’r ysgrythur.

¹⁶⁸ Llythyr, dyddiedig 1 Ionawr 1944, gan WSGW at TGJ, Papurau TGJ, A1335, LIGC.

¹⁶⁹ Twm o’r Nant (Cymraeg), T. Gwynn Jones (Saesneg), *tradd.* (cerddoriaeth), ‘Hafgan = Song of Summer’, yn Gwynn Williams (gol.), *Canu Haf: Summer Carols*, 15.

¹⁷⁰ *Ibid.*

¹⁷¹ *Ibid.*

¹⁷² *Ibid.*

Fel y nodwyd eisoes, y mae'r cyfrolau a drafodwyd uchod – *Tair Cainc Gymreig: Three Welsh Airs*, *Hen Ganeuon Cymreig Gwaith a Chwarae: Old Welsh Songs of Work and Play* a *Canu Haf: Summer Carols* – yn ogystal â'r caneuon sy'n ymddangos yn *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru*, yn weithiau y dylid eu hystyried fel detholiad cynrychioladol o gorff o waith ehangach, gan nad yw'r gofod sydd yma yn caniatáu ymdriniaeth lawn ar yr holl ddarnau sy'n perthyn i'r corff enfawr hwnnw. At hyn, dywedwyd eisoes fod yng nghyfieithiadau T. Gwynn Jones o eiriau caneuon ddigon o ddeunydd i deilyngu astudiaeth ddoethuriaeth ynddynt eu hunain, a diau y gellir mentro'r un datganiad am y darnau sy'n ymwneud â cherddoriaeth draddodiadol hefyd.

*

*

*

Ni ellir mynd i'r afael â chydweithio T. Gwynn Jones a W. S. Gwynn Williams, a hynny yng nghyswllt cerddoriaeth draddodiadol, heb ymdrin â'r ddrama gerddorol wreiddiol *Y Gainc Olaf*, a gyhoeddwyd gan Hughes a'i Fab ym 1934. Perfformiwyd *Y Gainc Olaf* fel rhan o daith gyntaf Cwmni Chwaraedy Cenedlaethol Cymru, a sefydlwyd fel corff proffesiynol o berfformwyr a fyddai'n 'hyrwyddo efrydiaeth ac arferiad drama' ac yn 'rhoddi cyfle i bawb a gymer ddiddordeb i ddysgu oddiwrthynt ac i'w hefrydu'.¹⁷³ Roedd T. Gwynn Jones yn aelod o gyngor y Chwaraedy wedi iddo gael ei gorfforaethu ym 1933, gan gadarnhau ei ran yn yr hyn y cyfeiria David Jenkins ato fel y 'cam sylweddol cyntaf o bwys a ddigwyddodd tuag at sicrhau theatr genedlaethol'.¹⁷⁴ Unwaith yn unig y cyfeirir at W. S. Gwynn Williams yng nghyfrol

¹⁷³ 'Dibenion y Chwaraedy Cenedlaethol', dyfynnir yn O. Llew Owain, *Hanes y Ddrama yng Nghymru* (Lerpwl, 1948), 260.

¹⁷⁴ Jenkins, *Cofiant*, 325.

Ioan Williams *Y Mudiad Drama yng Nghymru*, ac felly hefyd yn *Hanes y Ddrama yng Nghymru* O. Llew Owain. Yng nghyswllt cerddoriaeth *Y Gainc Olaf* yn unig y mae'r ddau awdur hyn yn crybwyll ei enw.¹⁷⁵ Y mae David R. Jones, fodd bynnag, yn ei astudiaeth ar fywyd a gwaith Gwynn Williams, yn mynnu ar ei gyfer rôl bwysicach yn natblygiad y theatr yng Nghymru: 'Further evidence of Gwynn Williams's involvement in expressions of artistic nationalism [...] is seen in his co-founding of the first Welsh National Theatre Company in 1933.'¹⁷⁶ Dewiswyd Plas Newydd, Llangollen fel cartref i'r cwmni, ac yn ôl David R. Jones roedd cefnogaeth Gwynn Williams, brodor o'r ardal, i'r fenter yn ffactor bwysig o ran dewis y lleoliad hwnnw.¹⁷⁷

Er mai cymysg yw'r wybodaeth yn y gwahanol ffynonellau ynghylch union rôl Gwynn Williams wrth sefydlu'r Chwaraedy Cenedlaethol, y mae pwysigrwydd *Y Gainc Olaf*, un o'r dramâu cyntaf a berfformiwyd gan y cwmni, yn ddiamau. Cyfansoddwyd y ddrama ei hun gan T. Gwynn Jones, a nodir ar ddechrau'r cyhoeddiad y 'detholwyd a threfnwyd y gerddoriaeth a'r emynau oll gan W. S. Gwynn Williams'.¹⁷⁸ Ceir ynddi, ynghyd â deialog gan Gwynn Jones, eiriau gwreiddiol newydd ganddo, 'cyfaddas i'r chwarae', ar rai o'r ceinciau traddodiadol a ymddengys yn y gwaith.¹⁷⁹ Mae'r ddrama wedi'i gosod yng nghyfnod y Diwygiad Methodistaidd yn y 18g., a darlunia'r ddeuoliaeth rhwng hen draddodiadau'r Cymry gwerinol ac emynau'r grefydd newydd, gan gyferbynnu dwy arddull gerddorol, dau ddiwylliant a dwy ffordd wahanol o fyw. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar yr hen

¹⁷⁵ Ioan Williams, *Y Mudiad Drama yng Nghymru 1880-1940* (Caerdydd, 2006), 163; Owain, *Hanes y Ddrama yng Nghymru*, 264.

¹⁷⁶ Jones, 'Advocate of Change and Tradition', 326.

¹⁷⁷ Ibid., 328.

¹⁷⁸ 'Nodiad', yn T. Gwynn Jones (geiriau) a W. S. Gwynn Williams (cerddoriaeth), *Y Gainc Olaf* (Wrecsam, 1934), 5.

¹⁷⁹ Ibid.

ffidlw'r Siôn Dafydd a'i gyfeillion, y Dawnsyddion, sydd wedi ymgasglu ar Galan Mai i alaru ynghylch marwolaeth gwraig Siôn, Mari. Wrth i'r cymeriadau hel atgofion am Mari yn y dafarn, treiddia emynau'r Diwygwyr drwy'r ffenestri a'r drysau o'r sgwâr y tu allan, gan darfu ar eu cyfarfod 'fel brain ar egin'.¹⁸⁰ Mae merch Siôn Dafydd, Mali, yn dawnsio er cof am ei mam i gainc ar ffidil ei thad, ond daw canu'r diwygwyr yn nes o hyd. Cythruddir Dic, un o'r mwyaf penboeth yn y cwmni, gan arfer y diwygwyr o briodoli hen alawon i drosglwyddo eu neges: 'Pe baen' nhw'n fodlon ar ganu hen geincie yn onest, mi faddeuwn ryw faint i'r cnafon. Ond rhaid iddyn' nhw, os gwelwch yn dda, gael newid y geirie, ac andwyo pob hen gainc!'¹⁸¹

Y 'Gainc Olaf' y cyfeirir ati yn nheitl y ddrama yw 'Cwynfan Prydain', sydd i'w chlywed dair gwaith yn adran glo'r ddrama un act hon. Ymddengys y tro cyntaf yn cael ei chanu yn y pellter, wedi'i chanu gan y diwygwyr, gyda geiriau Dafydd Williams (1712-94) i'w clywed 'yn glir': 'Yn y dyfroedd mawr a'r tonnau,/ Nid oes neb a ddeil fy mhen/ Ond fy annwyl Briod Iesu,/ A fu farw ar y pren'.¹⁸² Y mae'r Dawnsyddion yn gwrando ar y canu hwn, cyn 'canu eu geiriau eu hun o ganlyn y canu oddiallan [...] Erbyn diwedd y pennill bydd y canu'n gryf [...] a geiriau'r DAWNSYDDION yn unig i'w clywed o'r llawr'.¹⁸³ Geiriau gwreiddiol gan T. Gwynn Jones sydd i'r pennill hwn, sy'n mynd i'r afael â hiraeth ac anocheledd traddodiadau'n dod i ben, ond y mae'n datgan fod y frwydr fewnol rhwng y meddwl a'r galon yn fyw o hyd:

Disgwyl clywed cân a beidiodd,
Geiriau gwefus aeth yn fud,
Gwybod hynny a'i ofered

¹⁸⁰ Gwynn Jones a Gwynn Williams, *Y Gainc Olaf*, 16.

¹⁸¹ *Ibid.*, 31.

¹⁸² Dafydd Williams, yn Gwynn Jones a Gwynn Williams, *Y Gainc Olaf*, 43-4.

¹⁸³ Gwynn Jones a Gwynn Williams, *Y Gainc Olaf*, 44-5.

Eto'u disgwyl hwy o hyd.¹⁸⁴

Y mae yma ymwybyddiaeth o'r hyn a aeth heibio yn anorfod, er bod dyhead am barhad. Clywir yr alaw 'Cwynfan Prydain' am y tro olaf ar ffidil Siôn Dafydd, a hynny wedi iddo glywed gan ei ferch hanes marwolaeth ei wraig, a oedd yn siarad â'i gŵr (a oedd yn absennol) wrth iddi farw:

'Wyt ti'n cofio'r dyn hwnnw'n pregethu yn y ffair, Siôn?' medde hi... Fedrwn i mo'i deall hi wedyn... sôn am groesi rhyw afon, a'r dŵr yn oer... a hithe'n dywyll... Felly am dipyn. Yna, cau'i llygaid... rhoi ochenaid fawr... llonyddwch.¹⁸⁵

O ganlyniad i hyn, gwelir Siôn Dafydd yn cwestiynu ei gredoau, gan ofyn, 'Tybed eu bod *nhw* [y Diwygwyr] yn deud y gwir... wedi'r cwbl?'.¹⁸⁶ Wedi chwarae'r 'gainc olaf' gwelir ef yn 'gwegian ar ei draed', a daw 'Gŵr Dieithr' i'w achub, tra mae Cadi ac Ifan o'r Dawnsyddion yn cymryd ei ffidil a'i fwa.¹⁸⁷ Datgelir pwy yw'r 'Gŵr Dieithr' drwy gyfrwng 'craith goch uwchben ei lygad chwith': diwygiwr a gafodd 'hen doriad hyll [...] a'i waed o'n llifo' y tro cyntaf y daeth i'r ardal, gŵr y gofalwyd amdano gan Mari, 'a drwsiodd y briw'.¹⁸⁸ Mae'r cylch yn gyflawn felly, y pregethwr yn ei dro yn gofalu am briod y fenyw a ofalodd amdano yntau, ond, y tro hwn, mae'r gofal yn ysbrydol yn hytrach nag yn gorfforol, a Siôn Dafydd fel petai'n cael ateb o'r diwedd i'r cwestiwn a ofynna droeon drwy'r ddrama: 'B'le mae hi heno?'.¹⁸⁹

Yn ei ymdriniaeth â bywyd a gwaith W. S. Gwynn Williams, mae David R. Jones yn synio am *Y Gainc Olaf* fel 'a vehicle to express a Welsh national ideal' ar

¹⁸⁴ Ibid., 44.

¹⁸⁵ Ibid., 46.

¹⁸⁶ Ibid.

¹⁸⁷ Ibid.

¹⁸⁸ Ibid., 21.

¹⁸⁹ Ibid., 15, 18, 22, 46.

ran Gwynn Williams.¹⁹⁰ Mae'r 'nostalgia', chwedl Jones, sy'n amlwg drwy'r gwaith yn rhan bwysig o'r stori: mae'r Dawnsyddion yn gweld yr hen draddodiadau yn diflannu a'r hen geinciau yn cael eu meddiannu i fynegi negeseuon newydd, tra maent hwythau'n ceisio parhau â'r hen ffyrdd.¹⁹¹ Y mae Siôn Dafydd fel petai'n ildio i'r drefn newydd ar ddiwedd y chwarae, fodd bynnag, a'r pregethwr yn ymddangos fel ffigwr sy'n achub yr hen ddyn. Mae'r gwrthdaro rhwng crefydd – y traddodiad Anghydfurfiol yn benodol – a'r traddodiad gwerinol Cymreig hynafol yn ddeuliaeth ddiddorol i'w hystyried yng nghyswllt T. Gwynn Jones, ac yn agwedd sy'n ennyn yr un math o drafodaeth ag a welwyd yn y bennod ddiwethaf ar grefydd y bardd.

Trafodwyd eisoes ymwneud cymhleth Gwynn Jones â chrefydd, er, fel y dywed Arthur ap Gwynn, 'ni dderbyniodd erioed yn ei grynsyth awdurdod yr un Eglwys'.¹⁹² Labelwyd ef yn 'Ddidduw'¹⁹³ ac yn 'agnostig',¹⁹⁴ ond gwelwyd eisoes sut yr aeth ati i archwilio'i gredoau personol a manylion ei '[g]refydd bersonol' trwy gyfrwng ei farddoniaeth a'i gyfieithiadau.¹⁹⁵ Gwelir hefyd mor bwysig oedd y diwylliant gwerin iddo: roedd ei gyfrol *Welsh Folklore and Folk-Custom* yn brosiect â'i wreiddiau yn niddordebau ei dad, 'a wyddai ac a ddeallai'.¹⁹⁶ Gellir darllen y ddeuliaeth sydd ar waith yn *Y Gainc Olaf* fel modd i Gwynn Jones ei hun bwysu a mesur y berthynas hon rhwng y ddau draddodiad: er pwysigrwydd yr hen geinciau a'r caneuon a'r dawnsfeydd i Siôn Dafydd, y mae'n troi yn y pen draw at gysur gwahanol. Gellir olrhain ei ddatblygiad ysbrydol nid yn unig drwy gyfrwng y

¹⁹⁰ Jones, 'Advocate of Change and Tradition', 330.

¹⁹¹ Ibid.

¹⁹² Arthur ap Gwynn, 'T. Gwynn Jones', yn Gwynn ap Gwilym (gol.), *Cyfres y Meistri (3): Thomas Gwynn Jones* (Llandybïe, 1982), 56.

¹⁹³ Glyn M. Ashton, 'Ein Ddidduw Brydyddion', *Diwinyddiaeth*, XXI (1970), 31-41.

¹⁹⁴ G. R. Tilsley, *Crefydd y Beirdd* (Abertawe, 1977), 15.

¹⁹⁵ ap Gwynn, 'T. Gwynn Jones', yn *Cyfres y Meistri*, 55.

¹⁹⁶ Gwynn Jones, *Welsh Folklore and Folk-Custom*, vi.

cwestiwn y mynna ateb iddo, ‘B’le mae hi heno?’,¹⁹⁷ ond hefyd drwy gyfrwng agweddau eraill sy’n awgrymu fod ei ffydd yn yr hen ffordd yn sigio. Caiff ei gyhuddo gan Dic o ‘fynd ar ôl tacle’r bendro bregethu yma, yn ych hen ddyddie’, ac er mai cyfeirio at dawedogrwydd Siôn y mae yma, mae’r datganiad yn arwyddocaol yng ngoleuni’r hyn sy’n digwydd ar ddiwedd y ddrama.¹⁹⁸ Y mae Siôn Dafydd hefyd yn gyndyn o gytuno i chwarae ffidil i’w ferch Mali gael dawnsio er cof am ei Mam, gan ddweud, ‘Ni bydde’n weddus’, er ei fod yn cytuno wedi iddi ymbil arno.¹⁹⁹ Efallai mai’r nodwedd bwysicaf yn nhröedigaeth Siôn Dafydd yw’r gainc ‘Cwynfan Prydain’. Mae’r gainc hon, sydd i’w chlywed gyda geiriau crefyddol a seciwlar ill dau yn y ddrama, yn arddangos sut y mae’r traddodiadau yn bwydo i’w gilydd, a diau mai’r pwyslais ar yr agwedd gymodlon hon yw ergyd y ddrama yn ei hanfod.

Y mae Dic, un o brif gymeriadau’r Dawnsyddion, yn brwydro o hyd yn erbyn y Diwygwyr, tra mae’r gweddill yn gwrando ar eiriau’r emynau ac yn trafod eu cynnwys. Clywant hwy bethau ynddynt sy’n eu hatgoffa o hen ganeuon, a chyfosodir emyn William Williams, Pantycelyn, ‘Rwyf yn dechrau teimlo eisoes/ Berarogla’r gwledydd draw’, â’r ‘Glomen Lwyd’, lle mae geiriau newydd T. Gwynn Jones yn portreadu’r ‘fenyw drist’ yn ‘galaru’ am ei chariad a aeth ‘o law/ I’r gwledydd draw’.²⁰⁰ Cyfoethogir profiad y ddwy garfan drwy werthfawrogi’r hyn sydd gan y llall i’w gynnig – sefyllfa sy’n cyrraedd ei huchafbwynt yng nghlo’r ddrama gyda ‘Chwynfan Prydain’.

Er gwaethaf pwysigrwydd swyddogaeth symbolaidd yr alaw ‘Cwynfan Prydain’ yn *Y Gainc Olaf*, daw’n amlwg o lythyrau Gwynn Jones a Gwynn Williams fod y cerddor yn gosod pwyslais arbennig ar gywirdeb manylion ffeithiol: ‘I have

¹⁹⁷ Gwynn Jones a Gwynn Williams, *Y Gainc Olaf*, 15.

¹⁹⁸ *Ibid.*, 16.

¹⁹⁹ *Ibid.*, 19.

²⁰⁰ *Ibid.*, 30-33.

spent the afternoon going through the music of the play [...] you might kindly explain the connection you had in mind between “Cwynfan Prydain” [and the words] [...] I am not aware of any reference to “Cwynfan Prydain” as a hymn tune till about the middle of the 19th Century’.²⁰¹ Yr oedd cywirdeb a dilysrwydd yn amlwg yn rhan bwysig o’r cynhyrchiad i Gwynn Williams, ond ymddengys mai gweledigaeth artistig wreiddiol T. Gwynn Jones a orfu. Amlygir y pwyslais hwn gan Gwynn Williams ar ddilysrwydd hefyd yn y modd y trefnodd i’r actores a oedd yn chwarae Mali, Evelyn Bowen, fynd i ddysgu’r ddawns y byddai’n ei pherfformio ar lwyfan gan deulu’r Woodiaid – sipsiwn o ardal Corwen.²⁰²

Mae’r ffaith fod cerddoriaeth *Y Gainc Olaf* yn ddyfais i wthio’r stori yn ei blaen ac amlygu’r neges greiddiol yn rhan annatod o lwyddiant y ddrama i W. J. Gruffydd. Yn ei adolygiad arni yn *Y Llenor*, pwysleisia nad ‘dyfais anghyfreithlon [...] i ddiddanu’r gynulleidfa’ yw’r gerddoriaeth ynddi – rhywbeth, fe ddywed, y mae chwarae-gerddi Beriah Evans yn euog ohono – ond fod cerddoriaeth *Y Gainc Olaf* yn ‘[b]eth sydd yn codi o hanfod y ddrama’.²⁰³ Llwyddiant *Y Gainc Olaf* i Gruffydd yw’r modd y mae’n ‘dangos yn ddeheuig anarferol y rhan honno a oedd yn gyffredin i’r ddau fywyd – sef y canu ymsymudiadol a oedd yn fynegiant perffaith i bob un ohonynt, yn ei ffordd ei hun’.²⁰⁴ Y llwyfannu sy’n mynd â sylw Euroswydd yn ei gyfeiriad ef at y ddrama yn ei golofn ‘Led-led Cymru’ yn *Baner ac Amserau Cymru*, wrth iddo bryderu nad yw’r cyfarwyddiadau manwl ynghylch y llwyfan yn gydnaws â

²⁰¹ Llythyr, dyddiedig 11 Chwefror 1934, gan WSGW at TGJ, Papurau TGJ, G6237 (i), LIGC.

²⁰² Jones, ‘Advocate of Change and Tradition’, 331-2.

²⁰³ W. J. Gruffydd, ‘Adolygiad o *Y Gainc Olaf*’, *Y Llenor*, 13 (1934), 191.

²⁰⁴ Ibid.

‘neuaddau bychain’. Er hyn, dywed nad ydyw wedi gweld y cynhyrchiad, ond ei fod wedi clywed ‘ei fod yn beth prydferth dros ben’.²⁰⁵

Er gwaethaf sylwadau Euroswydd o ran y perfformiad ei hun, ymddengys nad ‘[p]eth prydferth dros ben’ oedd y cynhyrchiad cyntaf o *Y Gainc Olaf* yn Llangollen ym mis Ebrill 1934.²⁰⁶ Yn wir, tyn O. Llew Owain sylw at broblemau ‘actio, llefaru ac ynganu’, yng nghynhyrchiad Y Chwaraedy Cenedlaethol, a oedd, yn ôl ei adolygiad, yn ymdebygu yn fwy i gwmmi drama amatur na phroffesiynol: ‘gwendid na ddylasai fod oedd yr anghofio a’r cymysgu ar y cychwyn. Bu’n rhaid i’r hen ffidler “bromptio”’.²⁰⁷ Cyfeiria Nisien, sef Thomas Owen Jones, yntau at ‘[f]ân-lithriadau, megis pall-cof, tuedd i or-actio ar brydiau, a Chymraeg llesg un o’r prif gymeriadau’.²⁰⁸ Wedi’r trafferthion cynnar, ymddengys fod aelodau’r Cwmni wedi mynd ati i fireinio eu perfformiadau, a noda un adolygiad o berfformiad ym Merthyr fod y cynhyrchiad yn ‘well-rehearsed’.²⁰⁹ Fel y pwysleisia Hazel Walford Davies, y ddrama ei hun, yn hytrach na’r cyflwyniad ohoni, oedd ‘y peth mwyaf cyffrous ynglŷn â’r perfformiadau yn Llangollen’, a hynny o ganlyniad i’w ymdriniaeth â deunydd traddodiadol.²¹⁰ Noda Nisien y potensial artistig a oedd i’w ganfod ‘yn rhamant y gorffennol’: sylw sy’n berthnasol, yn wir, i nifer o weithiau mwyaf adnabyddus T. Gwynn Jones.²¹¹

²⁰⁵ Euroswydd, ‘Led-led Cymru: Drwy Ddrama Newydd’, *Baner ac Amserau Cymru*, 29 Mai 1934, 4.

²⁰⁶ Ibid.

²⁰⁷ O. Llew Owain, ‘Y Ddrama Genedlaethol: Y Mudiad Newydd: Noson Fawr Llangollen’, *Y Genedl Gymreig*, 23 Ebrill 1943, 5.

²⁰⁸ Nisien (Thomas Owen Jones), ‘*Y Gainc Olaf*: Adolygiad’, dyfynnwyd yn Hazel Walford Davies, *Y Theatr Genedlaethol yng Nghymru* (Caerdydd, 2007), 74.

²⁰⁹ Anhysbys, adolygiad ar *Y Gainc Olaf*, dyfynnwyd yn Davies, *Y Theatr Genedlaethol yng Nghymru*, 82.

²¹⁰ Davies, *Y Theatr Genedlaethol yng Nghymru*, 74.

²¹¹ Nisien, ‘*Y Gainc Olaf*: Adolygiad’, 74.

Ceir drama gerddorol arall o waith T. Gwynn Jones sy'n defnyddio caneuon traddodiadol fel dyfais yn y stori, sef 'Y Canorion' – drama anghyhoeddedig sydd wedi'i chadw mewn llawysgrif, yn llaw T. Gwynn Jones, ymysg ei bapurau yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru.²¹² Ni cheir llawer o wybodaeth amdani, heblaw'r nodyn y tu mewn i'r clawr, 'Wernfawr Party 1912', sy'n awgrymu efallai y cyfansoddwyd y ddrama gan Gwynn Jones ar gyfer rhyw ddigwyddiad penodol.²¹³ Yr hyn a geir yn y ddrama yw hanes grŵp o ddynion sy'n awyddus i gwrdd i ganu rhai o'r hen ganiadau gyda'i gilydd ar Nos Galan. Mae'r ail olygfa yn dilyn eu gwagedd, sydd yn gwybod fod rhywbeth ar droed, ac sy'n bendant na fydd eu gwŷr yn cwrdd hebddynt. Yn yr olygfa olaf, mae'r gwagedd yn torri ar draws cyfarfod y dynion, a cheir tipyn o anghydfod cyn i'r dynion roi eu gair na fyddant yn cynnal cyfarfod dirgel arall, ac mae'r cymeriadau oll yn canu gyda'i gilydd i gloi'r chwarae. Ymddengys cymeriad o'r enw Dic yn 'Y Canorion' hefyd, ond yn wahanol i'r cymeriad â'r un enw yn *Y Gainc Olaf*, sy'n daer dros yr hen ffyrdd, dadlau dros y mathau newydd o ganeuon y mae'r Dic hwn: gofynna am 'song go iawn', megis un a glywodd yn y pantomeim, ynghanol ymryson canu penillion.²¹⁴ Er na cheir yma, efallai, gampwaith dramatig, mae'r gwaith hwn yn ddiddorol o safbwynt T. Gwynn Jones a cherddoriaeth: mae'n cynnwys dadl ddoniol rhwng rhai o'r cymeriadau ynghylch galluoedd cerddorol Dafydd ap Gwilym – darn sy'n arddangos y chwarae hwnnw ar eiriau yr oedd Gwynn Jones mor hoff ohono:

Ted: Mae Dafydd [ap Gwilym] yn dweud ei fod yn medru Solffa.
Dafydd: Paid a dweyd peth fel yna [...] mi wyddost fod Dafydd ap Gwilym wedi marw ers pum can mlynedd cyn geni Curwen. [...]

²¹² T. Gwynn Jones, 'Y Canorion', Papurau TGJ, GIII/6, LIGC.

²¹³ Ibid.

²¹⁴ Ibid.

Ted: ‘[C]urai dalm ar y delyn
Solffeais a’ m Salw ffuaint’.²¹⁵

Mae’r drafodaeth ynghylch hynafiaeth rhai o’r caneuon traddodiadol, megis ‘Yr Hen Wŷr Mwyn’, yn fwy difrifol na’r ymddiddan ynghylch gwaith Dafydd ap Gwilym a’i alluoedd sol-ffa honedig: ‘Peth arall sy’n profi ei hynafiaeth ydyw fod cymaint o wahanol ffurfiau arni’.²¹⁶ Mae’r ddrama gerddorol hon yn un o’r dogfennau cynharaf o waith T. Gwynn Jones sy’n ymdrin â cherddoriaeth draddodiadol yn y fath fanylder, ac yn un sy’n rhagflaenu ei gyhoeddiadau cyntaf yn y maes, yn *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru*, o ddeng mlynedd.

Anghyhoeddedig hefyd yw’r unig ddrama gerddorol arall a gynhyrchodd Gwynn Jones a Gwynn Williams ar y cyd (er y ceir darnau eraill ar gyfer y llwyfan, megis y gantawd *Dewi Sant: Saint David*, 1942). Enw’r ddrama hon, drama gerddorol i blant, yw ‘Gwlad yr Hud’, ac er bod y deipysgrif o’r ddrama gyflawn yn nodi bod y gerddoriaeth wreiddiol gan W. S. Gwynn Williams, ni cheir unrhyw dystiolaeth bod Gwynn Williams wedi cwblhau’r gwaith cyfansoddi.²¹⁷ Roedd T. Gwynn Jones a W. S. Gwynn Williams wrthi’n datblygu ‘Gwlad yr Hud’ ym mlynnyddoedd cyntaf yr Ail Ryfel Byd, ac mae’r llythyrau oddi wrth Gwynn Williams yn dogfennu’n dda y drafferth a ddaeth i ran Cwmni Cyhoeddi Gwynn yn ystod y cyfnod hwn, wrth i brisiau godi ac i ddeunyddiau brinhau:

I feel that it might be wise to go ahead now with the printing, in case things might get more difficult. There is no new business, but I am turning all the money that comes in into printed copies.²¹⁸

²¹⁵ Ibid.

²¹⁶ Ibid.

²¹⁷ T. Gwynn Jones, ‘Gwlad yr Hud’, Papurau TGJ, G6286B, LIGC. Ceir y testun cyflawn yn Atodiad VI.

²¹⁸ Llythyr, dyddiedig 21 Tachwedd 1939, gan WSGW at TGJ, Papurau TGJ, A1210, LIGC.

Ac eto:

It looks as if it may be difficult to bring anything new out soon. Paper has gone up 1½d per lb this week, and I believe metal for plates and blocks is to be cut by 75%.²¹⁹

Roedd Gwynn Williams, fel Gwynn Jones, yn heddychwyr, ac yn teimlo'n gryf dros barhau i ddarparu'r genedl â chyhoeddiadau celfyddydol yn ystod y cyfnod hwn o ryfel. Mewn llythyr ym 1941, dywedodd: 'The old bards may have done well in times of war hundreds of years ago, but I am afraid that your art + mine today are arts of peace and not of war.'²²⁰ Cyhoeddwyd y gyfrol o ganeuon i blant a drafodwyd eisoes, *Cerddi Mebyd: Childhood Songs*, ym 1939, ac amdani dywedodd Gwynn Williams: 'whether we have peace or war at Christmas, I feel that our little book will be some contribution to the joys and not to the sorrows of men.'²²¹ Er gwaethaf holl frwdfrydedd W. S. Gwynn Williams dros 'Gwlad yr Hud', yn cynnwys 'suggested musical layout' manwl yn gynnar ym 1940,²²² ymddengys fod yr amgylchiadau a'r agweddau ymarferol wedi bod yn drech na chreadigrwydd yn yr achos hwn: 'I am afraid that "Gwlad yr Hud" will be very costly under present conditions, with spoken parts and music mixed up throughout'.²²³

Trafodwyd eisoes, yn y bennod ar y caneuon gwreiddiol, y syniad fod y gweithiau i blant a gyhoeddwyd gan Gwmni Gwynn, megis *Cerddi Mebyd: Childhood Songs*, yn fodd i Gwynn Jones a Gwynn Williams fel ei gilydd ddianc rhag

²¹⁹ Llythyr, dyddiedig 18 Ebrill 1942, gan WSGW at TGJ, Papurau TGJ, A1285, LIGC.

²²⁰ Llythyr, dyddiedig 29 Ionawr 1941, gan WSGW at TGJ, Papurau TGJ, G6266, LIGC.

²²¹ Llythyr, dyddiedig 9 Hydref 1939, gan WSGW at TGJ, Papurau TGJ, A1204, LIGC.

²²² Llythyr, dyddiedig 8 Ionawr 1940 gan WSGW at TGJ, Papurau TGJ, A1219, LIGC.

²²³ Llythyr, dyddiedig 10 Chwefror 1940, gan WSGW at TGJ, Papurau TGJ, A1225, LIGC.

erchylltra'r Ail Ryfel Byd a throi yn hytrach at ddiniweidrwydd ieuenctid. Wrth graffu ar 'Gwlad yr Hud', gan ystyried cyfnod ei chyfansoddi, gellid dadlau fod y themâu a amlygir ynddi hefyd yn arwyddocaol yn y cyswllt hwn. Mae'r ddrama gerddorol hon, a gyfansoddwyd ym mis Rhagfyr 1939, yn dilyn hanes Mair a Huw, dau blentyn sy'n byw mewn cartref plant amddifaid. Maent wedi clywed am 'Wlad yr Hud' gan hen ŵr, 'Yr Hen Ddafydd', ac yn mynd i'r goedwig i chwilio am y 'Cylch Bach Crwn' lle mae'r Tylwyth Teg yn ymgynnull. Maent yn cwrdd â Brenhines y Tylwyth Teg, ac, wedi peth trafod, cânt eu derbyn ill dau i fyw gyda'r Tylwyth Teg yng Ngwlad yr Hud. Ar ddiwedd y ddrama, mae'r Tylwyth Teg yn mynd yn ôl i ddyfnderoedd y goedwig ac yn canu am hyfrydwch eu byd hwythau: 'Awn yn ôl, awn yn ôl tua Gwlad yr Hud,/ Awn yn ôl, awn yn ôl rhag ddwndwr byd'.²²⁴ Anodd yw darllen y gân glo hon heb ddwyn i gof y thema hollbwysig honno yng nghyswllt rhai o awdlau T. Gwynn Jones: thema'r Wlad Well, a ymgorfforir gan Afallon, Tír na nÓg, America (yn achos Madog), coedwig Broséliâwnd ac eraill. Yn wahanol i'r hyn a geir yn y cerddi mawr yn y gyfrol *Caniadau*, lle mae'r baradwys yn anghyraeddadwy neu'n methu â digoni, mae'r plant yn achos y ddrama gerddorol yn mynd i Wlad yr Hud yn dragywydd i ddianc rhag trafferthion y byd. Er na cheir yn y ddrama unrhyw gyfeiriad uniongyrchol at y rhyfel, y mae modd gweld ei ddylanwad yn y gân sy'n cloi'r ddrama drwy gyfrwng y cyfeiriadau at ddwndwr byd a'i gysgodion:

A phan fo cysgodion yn duo'r holl Fyd,
Down yno, cawn eto weld Haul y Wlad Hud [...]
Tragywydd trig awen i ni yng Ngwlad Hud,
A hi a fydd lawen, er ffoled fo'r Byd.²²⁵

²²⁴ T. Gwynn Jones, 'Gwlad yr Hud', Papurau TGJ, G6286B, LIGC.

²²⁵ Ibid.

Nid adleisiau thematig yn unig a geir yn ‘Gwlad yr Hud’: ystyrir y llinellau canlynol o’r awdl ‘Tir na n-Og’, sef disgrifiad y Morynion o’r wlad hudol honno, a chwpled clo ‘Broseliawnd’:

Heb wae trist adnabod tranc,
Tragywydd y trig ieuanc!²²⁶

Broséliawnd, lle bu risial lendid
A bryd yr awen ddibryder, ieuanc!²²⁷

Mae’r cyfarwyddiadau llwyfan ar ddiwedd y gwaith yn arbennig o ddiddorol yng nghyswllt y rhyfel: ‘Daw’r goleuni gloyw yn gryfach, gryfach, gryfach, yna try’n ddugoch. Diflanna’r Tylwyth Teg, megis yn y niwl. Clywir chwiban croch oddi draw, a sŵn fel rhu ergydion yn y pellter. Ac megis adlais yn pellhau yn y coed, clywir canu: “Ai-ai, ai-ai, ai-ai, ai-o!”²²⁸ Mae’r ‘ergydion’ hyn a glywir yn sicr yn gyfeiriad at seiniau rhyfel, ac yn y cyswllt hwn rhaid tynnu sylw at nodyn gan Gwynn Jones ar ddarn o’r enw ‘Lwlê, Lwlê’, cyfieithiad ganddo o’r garol Saesneg ‘Lullay, Lullay’, a gyhoeddwyd yn y gyfrol *Tair Carol Newydd: Three New Carols* ym 1939.²²⁹ Hwiangerdd Mair i’r baban Iesu yw’r darn hwn, a noda T. Gwynn Jones ar y drafft o’r cyfieithiad ei fod wedi’i lunio ‘yn sŵn bomio’.²³⁰ Diau y teimlodd Gwynn Jones eironi’r weithred o drosi cân o ddiniweidrwydd a heddwch dan y fath amgylchiadau yn ddigon cryf i’w nodi ar y drafft. Mae’r cyfieithiad yn dwyn y dyddiad ‘23.xi.’39’, ac mae’n siŵr nad gormod yw awgrymu fod y bomiau hynny a glywodd rai wythnosau cyn cyfansoddi ‘Gwlad yr Hud’ ym mis Rhagfyr 1939 wedi dylanwadu ar

²²⁶ T. Gwynn Jones, ‘Tir na n-Og’, yn *Caniadau*, 65.

²²⁷ T. Gwynn Jones, ‘Broseliawnd’, yn *Caniadau*, 78.

²²⁸ T. Gwynn Jones, ‘Gwlad yr Hud’, Papurau TGJ, G6286B, LIGC.

²²⁹ Dienw (Saesneg), T. Gwynn Jones (Cymraeg), Oliver Edwards (cerddoriaeth), ‘Lullay, Lullay = Lwlê, Lwlê’, yn W. S. Gwynn Williams (gol.), *Tair Carol Newydd: Three New Carols* (Llangollen, 1939), 4.

²³⁰ T. Gwynn Jones, nodyn ar ‘Lwlê, Lwlê’, Papurau TGJ, C20, LIGC.

glo'r ddrama. Mae'r cyferbyniad sinistr a geir wrth glywed y seiniau hyn o derfysg ar ddiwedd drama gerddorol ddiniwed i blant am dylwyth teg yn ategu clo un arall o awdlau T. Gwynn Jones, sef 'Ymadawiad Arthur'. Wrth i'r brenin adael am Afallon i wella o'i glwyfau, tynged Bedwyr yw aros a dychwelyd at realiti'r sefyllfa: 'yn drist a distaw/ At y drin aeth eto draw'.²³¹ Mae Huw a Mair yn dianc o ormes y cartref plant amddifaid i hyfrydwch 'Gwlad yr Hud', ond rhaid i'w cyfoedion aros, a rhaid i'r gynulleidfa eu gwyllo'n diflannu dros y gorwel gyda'r Tylwyth Teg yn seiniau'r 'drin' fodern.

Yn y cyfnod pan oedd T. Gwynn Jones a W. S. Gwynn Williams yn llythyru ynghylch 'Gwlad yr Hud', roedd prosiect arall ar gyfer y llwyfan ar y gweill gan y ddau, sef cantawd *Dewi Sant: Saint David*. Fel gyda 'Gwlad yr Hud', cafodd yr anawsterau a oedd yn rhan annatod o redeg cwmni cyhoeddi yn ystod cyfnod yr Ail Ryfel Byd effaith negyddol ar ddatblygiad y gwaith hwn. Llwyddwyd i gyhoeddi'r gantawd ym 1942, fodd bynnag, yn dilyn y flwyddyn leiaf cynhyrchiol yn hanes y cwmni, 1941.²³² 'I am sure you are wondering what is happening to us and why you have not heard from us recently. The reason is the war, and its very upsetting effects'.²³³ Oherwydd trafferthion cyhoeddi yn ystod y cyfnod hwn, bu Gwynn Jones a Gwynn Williams wrthi am nifer o flynyddoedd yn datblygu *Dewi Sant: Saint David*, ac mae'r cyfeiriadau cyntaf at y gwaith i'w gweld ymysg y llythyrau o 1937: 'Please do not forget [...] our new Musical Play for Children – "St. David"'.²³⁴ Ymddengys felly mai'r bwriad gwreiddiol oedd datblygu drama gerddorol, ond erbyn 1938, a'r llythyr nesaf gan Gwynn Williams am y gwaith sydd ar gadw, daw'n amlwg fod

²³¹ T. Gwynn Jones, 'Ymadawiad Arthur', yn *Caniadau*, 34.

²³² Jones, 'Advocate of Change and Tradition', 365-7.

²³³ Llythyr, dyddiedig 29 Ionawr 1941, gan WSGW at TGJ, Papurau TGJ, G6266, LIGC.

²³⁴ Llythyr, dyddiedig 30 Awst 1937, gan WSGW at TGJ, Papurau TGJ, G6262, LIGC.

gweledigaeth y cerddor yn ei gylch wedi datblygu, a'i fod bellach yn dychmygu cantawd yn hytrach na drama. Mae'r llythyr hwn yn dangos ei fod wedi meddwl am y gwaith yn fanwl, a bod ganddo gynllun pendant ar gyfer ei ffurf:

My idea for 'Dewi Sant' was to have about eight poems which described scenes in the life and work of the Saint. I am sending you another copy of the draft herewith. In the first poem, for instance, which might be in the 3rd person, some account might be given [...] of Dewi's coming to Mynyw. Then in the second poem, which might also be in the 3rd person, the story might be continued of the hard life lived by Dewi and the monks at St. Davids. I believe the monks are said to have yolked themselves to carts and laboured from morn til night in the fields and among the people. Then in the third poem, Dewi himself might speak, as he probably often did, to his followers and to the people generally, pleading with them not to think of this world and its pleasures, but to labour long, to pray for the Welsh Church, and to give all to God. Then the fourth poem might again, in the 3rd person, praise the ever-growing results of Dewi's labours.

In the last four suggested poems, I had the idea for these from the account given by Sir John Morris Jones, under the title of 'Marw Dewi Sant' from 'Llyfr yr Ancr' in 'Gwlad fy Nhadau', published during the last war. The poems need not be childishy simple, as I had quite grown up children of 11 plus in mind, not infants.²³⁵

Er mai *Dewi Sant: Saint David* yn ei ffurf gysyniadol yn unig a geir yma, gwelir fod syniadau pendant Gwynn Williams wedi dylanwadu ar y gwaith terfynol: wrth graffu ar y gantawd gyhoeddedig, daw'n amlwg fod T. Gwynn Jones wedi cadw'n fras at y cynllun gwreiddiol hwn. Wrth gymharu'r wyth symudiad gorffenedig â chynnwys y llythyr uchod, gwelir eu bod yn cyfateb yn gyffredinol i gynigion Gwynn Williams.

Ar ddechrau'r gwaith, ceir prolog i'w gydadrodd gan y cantorion sy'n datgan cynnwys y gwaith sydd i ddilyn: 'Darnau o Fuchedd Ddewi yma sydd [...] Mawr fu anrhydedd Dewi yn ei ddydd,/ a mawr fu'r rhyfeddodau ynglŷn â'i enw ef'.²³⁶ Wrth

²³⁵ Llythyr, dyddiedig 29 Chwefror 1938, gan WSGW at TGJ, Papurau TGJ, G6265A, LIGC.

²³⁶ T. Gwynn Jones (geiriau), W. S. Gwynn Williams (cerddoriaeth), *Dewi Sant: Saint David* (Llangollen, 1942), 3. Dylid nodi y ceir dau gyhoeddiad o'r gwaith hwn gan Gwmni Cyhoeddi Gwynn, ac maent yn ymddangos yng nghatalog y Cwmni fel 8002

amlinellu i Gwynn Jones yr hyn y mynnai ei weld yn y gantawd, dywed Gwynn Williams yr hoffai adroddiad yn y trydydd person ynghylch dyfodiad Dewi i Fynyw yn y symudiad cyntaf. Mae'r gwaith terfynol yn ymhelaethu ar gynllun Gwynn Williams, gan roi yn hytrach dri symudiad i amlinellu hanes cynnar Dewi Sant. Egyr symudiad cyntaf y gantawd drwy ddarlunio Dewi yn yr ysgol, ac yntau wedi mynd yno fel bachgen 'i ddysgu ei lythrennau', a disgrifir hynodrwydd y 'golomen ylfyn aur' a oedd yn hedfan o'i gwmpas tra oedd yno.²³⁷ Mae'r geiriau yn pwysleisio fod y golomen i'w gweld o hyd, yn ymddangos 'O ddydd i ddydd [...] O'r bore hyd pan gysgai', ac efallai mai ymgais i adlewyrchu ymddangosiad beunyddiol y golomen yw'r defnydd o'r cyfeiliant *ostinato* ('Brawddeg neu rythm cerdd.[orol] sy'n dal ati. Mae basso ostinato yn ffigur yn y bas sy'n cael ei ailadrodd yn barhaus'²³⁸) gan Gwynn Williams yn y gerddoriaeth.²³⁹ (**Gweler Atodiad V, Dyfyniad 4.**) Mae ail symudiad y gantawd yn sôn am Dewi'n canfod Glyn Rhosyn wrth 'geisio man i fyw wrth reol ffydd/ Ymhell o'r byd a'i holl oferedd ffôl'.²⁴⁰ Adlewyrchir y gobaith sydd ynghlwm â chanfod hyfrydwch y man hwn drwy gyfrwng disgleirdeb harmonïau syml a chwaferi sionc, tra mae'r trydydd symudiad yn defnyddio rhythmau cyflym a *staccato* ('Dull o chwarae nodyn... fel ei fod wedi'i fyrhau'²⁴¹) i gyfleu'r helynt gyda'r pennaeth Gwyddelig Boia, a oedd hefyd yn hawlio'r tir.²⁴² (**Gweler Atodiad V, Dyfyniadau 5 a 6.**)

'In the second poem', cynigodd Gwynn Williams mewn llythyr at Gwynn Jones yn Chwefror 1938, 'the story might be continued of the hard life lived by Dewi

ac 8002a. Y mae'r holl ddyfyniadau yn y thesis hwn o 8002 gan nad yw 8002a yn cynnwys y testun yn ei gyfanrwydd.

²³⁷ Ibid., 5.

²³⁸ Delyth Prys, *Geiriadur Cerddoriaeth Rhydychen* (Pen-y-Groes, 1998), 613.

²³⁹ Gwynn Jones, Gwynn Williams, *Dewi Sant: Saint David*, 6-7.

²⁴⁰ Ibid., 8-9.

²⁴¹ Prys, *Geiriadur Cerddoriaeth Rhydychen*, 789.

²⁴² Gwynn Jones, Gwynn Williams, *Dewi Sant: Saint David*, 10-11.

and the monks at St. Davids'.²⁴³ Fe geir disgrifiad o fywyd y mynaich yn y gantawd orffenedig, ond yn y pedwerydd symudiad yn hytrach na'r ail. Mae 'Dydd a Nos', symudiad hiraf y gantawd, yn manylu ar y gwaith corfforol anodd, 'o lafur eu dwylaw', ac ar symlrwydd a defosiwn bywyd bob dydd:

Ni fynnent feddiannu nag alaf na golud,
Nac un peth annheilwng yn rhodd [...]

Ac wedyn swperai y brodyr ar fara,
Dŵr ffynnon ac aeron y gwŷdd;
Yna cyrchai pob un
I gadw yr oriau'n ei gell ei hun
Hyd bylgain ar doriad y dydd.²⁴⁴

Mae'r gerddoriaeth wreiddiol gan Gwynn Williams hefyd yn pwysleisio'r agweddau hyn ar waith caled a bywyd syml drwy gyfrwng cyfeiliant moel o grosietau a nodau hirion ac alaw seml. (**Gweler Atodiad V, Dyfyniad 7.**)

Wrth gynnig trywydd posib ar gyfer y gantawd, mae Gwynn Williams yn nodi y gallai'r symudiad nesaf gynnwys araith gan Dewi ei hun: 'Dewi himself might speak, as he probably often did, to his followers and to the people generally'.²⁴⁵ Mae'r pumed symudiad, 'Pregeth Ddewi', yn adrodd hanes gwyrth enwocaf y Sant, sef y stori am y tir dan ei draed yn codi wrth iddo bregethu fel bod yr holl dorf yn medru ei weld a'i glywed. Er bod Gwynn Williams yn awgrymu cynnwys geiriau Dewi, 'pleading with them not to think of this world and its pleasures, but to labour long, to pray for the Welsh Church, and to give all to God', ni ddyfynnir ei bregeth yn y darn. Yn hytrach, pwysleisir effaith ei eiriau ar y gynulleidfa:

²⁴³ Llythyr, dyddiedig 29 Chwefror 1938, gan WSGW at TGJ, Papurau TGJ, G6265A, LIGC.

²⁴⁴ Gwynn Jones, Gwynn Williams, *Dewi Sant: Saint David*, 12-15.

²⁴⁵ Llythyr, dyddiedig 29 Chwefror 1938, gan WSGW at TGJ, Papurau TGJ G6265A, LIGC.

Ei lais fel corn a glywid draw hyd eitha'r dyrfa fawr;
A theimla'r dyrfa honno i gyd, gan rym ei lafar lef,
Fel pe bai'r gwastad tan ei draed yn brynio tua'r nef²⁴⁶

Mae'r tri symudiad olaf, fel y cynigiodd Gwynn Williams yn wreiddiol, yn dilyn yr hyn a geir ynghylch 'Marw Dewi Sant' yn *Llyfr yr Ancr*.²⁴⁷ Yn y chweched symudiad, 'Neges yr Angel' – darn cerddorol syml, salmaidd ei naws, 'solemn, evocative, and ethereal', yng ngeiriau David R. Jones²⁴⁸ – fe glyw Dewi eiriau o'r Nef yn proffwydo ei farwolaeth, 'Y peth a hir ddeisyfiaist, ti a'i ceffi,/ A'r awr i'th roddi'n rhydd ar fyr a ddaw', a derbynia Dewi'r neges yn llawen.²⁴⁹

Mae 'Bendith Ddewi', y symudiad olaf ond un, yn cynnwys pregeth olaf y Sant yn ogystal â disgrifiadau o 'gwynfan ac wylofain hir' ei wrandawyr a'r llawenhau yn y nefoedd wrth i enaid Dewi gael ei gymryd.²⁵⁰ Ceir gwahaniaeth cerddorol pendant rhwng yr adrannau adroddol a geiriau Dewi yn y symudiad hwn: alaw seml, ddiaddurn, â chyfeiliant moel, yn y rhagarweiniad i fendith Dewi, ac adran pedwar llais digyfeiliant emynyddol wrth i'r lleisiau ganu geiriau'r Sant ei hun, 'O frodyr a chwiorydd,/ Boch lawen yn eich dydd [...] A gwnewch y pethau bychain'.²⁵¹ (**Gweler Atodiad V, Dyfyniadau 8 a 9.**) Cân y côr yn unsain eto wrth i'r trydydd person adroddol ddychwelyd, gan ddechrau â chyfeiliant syml iawn wrth i'r geiriau ganolbwyntio ar alaru ei ddilynwyr – 'dagrau erddo ef'.²⁵² (**Gweler Atodiad V, Dyfyniad 10.**) Daw newid wedi'r galaru, fodd bynnag: 'Y dref er trusted fu/ A lanwyd

²⁴⁶ Gwynn Jones, Gwynn Williams, *Dewi Sant: Saint David*, 17.

²⁴⁷ 'Marw Dewi Sant' o *Llyfr yr Ancr*, yn John Morris-Jones (gol.), *Gwlad fy Nhadau: Rhodd Cymru i'w Byddin* (London, 1915), 29-31.

²⁴⁸ Jones, 'Advocate of Change and Tradition', 281

²⁴⁹ Gwynn Jones (geiriau), Gwynn Williams (cerddoriaeth), *Dewi Sant: Saint David*, 19.

²⁵⁰ *Ibid.*, 21-3.

²⁵¹ *Ibid.*, 21.

²⁵² *Ibid.*, 22.

o lawenydd mawr', a chlywir cân yr 'angylion fry' ar ddiwedd y symudiad.²⁵³ Wrth gyflwyno geiriau'r nefol lu, mae'r côr yn ymrannu'n ddeulais, a'r cyfeiliant yn cynnwys cordiau llawnach na'r hyn a gaed ar ddechrau'r adran adroddol. (**Gweler Atodiad V, Dyfyniad 11.**) Cly'r darn â chorws gorfoleddus yr angylion:

Gwyn fyd y rhai fu ffyddlon,
Pan ddêl eu galwad hwy,
Cânt fyned i'r goleuni,
A nos ni welant mwy.²⁵⁴

Mae'r symudiad olaf, 'Ymadawiad Dewi', yn ddarn llafar ar gyfer côr adrodd, sy'n aralleiriad o gynnwys 'Marw Dewi Sant' yn *Llyfr yr Ancr*. Pwysleisir yma waredigaeth Dewi Sant rhag blinderau byd:

...cymerwyd Enaid Dewi Sant
I'r lle y mae goleuni heb ddiwedd,
A gorffwys heb lafur,
A llawenydd heb dristyd,
Ac amledd o bob rhyw dda.²⁵⁵

Cly'r gwaith, wedi'r datganiad y ceir yn y nefoedd 'wobrwyau heb ddiwedd mwy', â chorws 'Gloria' megis mewn offeren: 'Gloria in excelsis Deo'.²⁵⁶ (**Gweler Atodiad V, Dyfyniad 12.**) Mewn recordiad o'r gwaith, a gynhwysir fel atodiad i draethawd doethuriaeth David R. Jones, cenir geiriau Cymraeg yn hytrach na'r Lladin sy'n ymddangos yn y sgôr gyhoeddedig.²⁵⁷ Daw'r gwaith i ben yn orfoleddus a dathliadol, gyda chordiau llawn wedi'u canu gan gôr digyfeiliant, a'r ddynnameg yn cynyddu drwy'r wyth bar o *piano* at *fortississimo (fff)*. (**Gweler Atodiad V, Dyfyniad 12.**)

²⁵³ Ibid.

²⁵⁴ Ibid., 23.

²⁵⁵ Ibid., 24.

²⁵⁶ Ibid.

²⁵⁷ Recordiad o gyngerdd diddyddiad, a gynhwysir ar gryno-ddisg, Jones, 'Advocate of Change and Tradition', Atodiad X; Gwynn Jones, *Dewi Sant: Saint David*, 24.

Cyhoeddwyd y gantawd ym 1942, a hynny er gwaethaf effeithiau andwyol yr Ail Ryfel Byd ar y byd cyhoeddi. Yn y rhagair i'r gyfrol, nodwyd bod y gwaith wedi'i ddarlledu ar 3 Mawrth 1942, 'dan arweiniad y cyfansoddwr', ac yn hytrach na chôr fel sydd i'w glywed ar gryno-ddisg a gynhwyswyd fel atodiad i ddoethuriaeth David R. Jones, nodir mai 'parti bach o leisiau merched oedd yn canu, a chyfeiliant gan Bedwar Offeryn Tant a'r Piano'.²⁵⁸ Ymddengys nad perfformiad cyhoeddus oedd hwn, ond yn hytrach berfformiad a wnaed at bwrpas darlledu yn unig, fel y dywed Gwynn Williams ei hun mewn llythyr at Gwynn Jones: 'I am sure you will be pleased to know that I am likely to be broadcasting "Dewi Sant" with the Welsh Singers and a party of children on Sunday March 1st or on Tuesday March 3rd.'²⁵⁹ Prin, felly, fu'r perfformiadau o'r gwaith hwn dros y blynyddoedd. Prin hefyd yw'r adolygiadau o'r gwaith ymysg papurau newydd a chyfnodolion y dydd, ac efallai mai'r ymdriniaeth fwyaf trylwyr yw adolygiad 'D.L.I.J.' yn *Baner ac Amserau Cymru* ym 1943. Y mae'r awdur yn canmol hyblygrwydd y gwaith: 'lluniwyd y gwaith fel nad oes raid wrth gerddorfa, ac fel y galler [*sic*] ei ganu gan blant neu gan leisiau merched yn unsain, gyda darnau dwy-ran neu dair-ran os dewisir [...] y mae digon o gyfle hefyd i amrywiadau eraill yn y canu'.²⁶⁰ Roedd creu darn a fyddai'n medru cael ei berfformio gan wahanol fathau o gantorion yn greiddiol i syniadaeth Gwynn Williams wrth gyfansoddi: 'I am rather inclined to make the little work one that can be undertaken in a simple form in country schools and by the smaller Chapel choirs'.²⁶¹

Pwysleisia adolygiad D.L.I.J hefyd ffyddlondeb y gantawd i Fuchedd Dewi, 'fel y gweddai mewn gwaith o'r fath', a nodir y trosglwyddir 'ysbryd ddefosiynol y

²⁵⁸ 'Nodiad', *Dewi Sant: Saint David*, 2.

²⁵⁹ Llythyr, dyddiedig 10 Ionawr 1942, gan WSGW at TGJ, Papurau TGJ, G6267, LIGC.

²⁶⁰ D.L.I.J., 'Llyfrau'r Dydd: Cantata', *Baner ac Amserau Cymru*, 24 Chwefror 1943, 6.

²⁶¹ Llythyr, dyddiedig 4 Medi 1941, gan WSGW at TGJ, Papurau TGJ, A1262, LIGC.

stori' drwy gyfrwng 'symlwydd y miwsig'.²⁶² 'Nid oes yma ffrihau ofer' meddai – datganiad sy'n awgrymu y teimla D.L.I.J. fod rhai cantodau a dramâu cerddorol yn euog o wneud hynny – 'ond addaster naturiol i ystyr'.²⁶³ Cloir yr adolygiad ag argymhelliad y dylid perfformio'r gwaith hwn yn aml, 'oherwydd ei rhagored', a sylwadau cyffelyb a geir gan Euroswydd yn ei golofn 'Led-led Cymru': 'Nid oes waith hollol yr un fath â hwn yn Gymraeg [...] gwych o beth fyddai iddo gael lle bob blwyddyn yn y gwahanol ddathliadau Gŵyl Ddewi'.²⁶⁴

Parhaodd Gwynn Jones a Gwynn Williams i gydweithio ar nifer o brosiectau wedi 1942, megis *Cân y Nadolig*, a gyhoeddwyd gan Gwmni Cyhoeddi Gwynn ym 1945. Casgliad o 9 darn o farddoniaeth yw'r gwaith, ac er na cheir unrhyw gerddoriaeth wedi'i chyhoeddi gyda'r geiriau yn yr argraffiad hwn, nodir arno y cyfansoddwyd y gerddoriaeth gan Gwynn Williams, a chyfeirir at y gwaith fel 'cân': 'ysgrifennwyd y Gân hon yn Gymraeg a Saesneg gan T. Gwynn Jones'. Nid ymddengys *Cân y Nadolig* yn yr atodiad i ddoethuriaeth David R. Jones, 'Table of Original Compositions', sy'n cynnwys holl ddarnau cerddorol gwreiddiol cyhoeddedig ac anghyhoeddedig W. S. Gwynn Williams.²⁶⁵ Awgryma hyn na chyfansoddwyd y gerddoriaeth o gwbl, er bod nodyn ar dudalen glawr y geiriau Cymraeg – 'at gerddoriaeth gan W. S. Gwynn Williams' – yn awgrymu ei bod yn bodoli.²⁶⁶ Cantawd yw'r gwaith, fel y dengys drafftiau Cymraeg a Saesneg o'r gwaith yn llaw T. Gwynn Jones a gadwyd ymysg ei bapurau, sy'n dwyn y teitl 'Cantata

²⁶² D.L.I.J., 'Llyfrau'r Dydd: Cantata', 6.

²⁶³ Ibid.

²⁶⁴ D.L.I.J., 'Llyfrau'r Dydd: Cantata', 6; Euroswydd, 'Led-Led Cymru: Cantata Newydd', *Baner ac Amserau Cymru*, 27 Ionawr 1943, 4.

²⁶⁵ Jones, 'Advocate of Change and Tradition', Atodiad I.

²⁶⁶ T. Gwynn Jones, *Cân y Nadolig* (Llangollen, 1945), 1.

Nadolig'.²⁶⁷ Ni cheir unrhyw ddyddiad ar y drafftiau hyn, ond o edrych ar lythyrau W. S. Gwynn Williams ymysg papurau T. Gwynn Jones, gwelir y cyflwynwyd y syniad o gantawd ar bwnc geni Iesu Grist ym 1942, a hynny yn sgil llwyddiant *Dewi Sant: Saint David*. Ar ddechrau'r flwyddyn honno ysgrifennodd Gwynn Williams, 'I think "Dewi Sant" is an excellent little work – if I may say so, and wish we could make another such cantata dealing with a Welsh historical figure or with a Bible story'.²⁶⁸ Erbyn canol mis Mawrth, penderfynwyd ar destun – 'I am eagerly looking forward to your suggestions for the short Christmas Cantata' – ac erbyn mis Mai, anfonwyd drafft i Langollen: 'Thank you for [...] [the] Draft of "The Nativity"'. The new cantata looks most promising'.²⁶⁹ Ni cheir unrhyw gyfeiriad pellach at y gwaith ymysg yr ohebiaeth, er mai absenoldeb llythyrau coll sy'n gyfrifol am hyn, yn ddiau: annhebygol iawn fuasai iddynt beidio â thrafod y gwaith cyn ei gyhoeddi ym 1945.

Fel y disgwyliid, golygfeydd o stori'r Geni a geir yn y gwaith hwn, a darlunnir y doethion, y bugeiliaid, yr angylion, a Mair a Joseff yn y stabl yn eu tro. Rhagflaenir pob symudiad yn y gwaith cyhoeddedig gan ddyfyniad o'r Beibl,²⁷⁰ a nodir yn y drafftiau mai darnau ar gyfer adroddwr yw'r dyfyniadau hynny.²⁷¹ Yng nghyswllt perthynas T. Gwynn Jones â chrefydd, ni ellir peidio â sylwi ar y datganiad cadarnhaol o ffydd a geir yn y symudiad clo, 'Goruchafiaeth'. Daw'r dyfyniad Beiblaidd yn y cyswllt hwn o bennod gyntaf Efengyl Ioan, 'Yn y dechreuad yr oedd y Gair, a'r Gair oedd gyda Duw, a Duw oedd y Gair [...] Ynddo ef yr oedd bywyd, a'r

²⁶⁷ T. Gwynn Jones, 'The Nativity: A Christmas Cantata / Cantata Nadolig', Papurau TGJ, C24, LIGC.

²⁶⁸ Llythyr, dyddiedig 31 Ionawr 1942, gan WSGW at TGJ, Papurau TGJ, A1274, LIGC.

²⁶⁹ Llythyr, dyddiedig 10 Mawrth 1942, gan WSGW at TGJ, Papurau TGJ, A1277, LIGC; Llythyr, dyddiedig 23 Mai 1942, gan WSGW at TGJ, Papurau TGJ, A1291, LIGC.

²⁷⁰ Gwynn Jones, *Cân y Nadolig*, 2-11.

²⁷¹ Gwynn Jones, 'The Nativity: A Christmas Cantata / Cantata Nadolig', Papurau TGJ, C24, LIGC.

bywyd oedd yn oleuni dynion'.²⁷² Mae geiriau'r symudiad olaf yn ymhyfrydu mewn agweddau sy'n gysylltiedig â chariad Crist: '[b]rawdoliaeth', 'Rhyfeddod', 'defosiwn', 'Sancteiddrwydd', 'Llawenydd', 'Mawl Duw uwchben a Hedd islaw/Ewyllys Da i'r byd'.²⁷³ I gloi'r symudiad, cyfeirir yn ôl at y dyfyniad hwnnw o Efengyl Ioan:

A'r Gair ei hun a draethwyd
A daeth Goleuni'r Nef
A hyn a fydd hyd oni fo
Ei oruchafiaeth ef.²⁷⁴

Wedi adrodd hanes y Geni yn y symudiadau blaenorol, daw T. Gwynn Jones â'r gantawd i ben drwy gyfeirio'n ôl at yr hyn a broffwydwyd flynyddoedd cyn geni Iesu. Mae'r neges grefyddol a geir yma yn ddiddorol yng nghyswllt crefydd T. Gwynn Jones, a rhaid yw sylwi ar gyfnod y cyfansoddi. Lluniwyd y gwaith yn ei ffurf gyntaf ym 1942, ac fe'i cyhoeddwyd ym 1945: blynyddoedd yr Ail Ryfel Byd, wrth gwrs, ond cofier hefyd bod Gwynn Jones wedi cyhoeddi *Y Dwymyn* ym 1944. Yng nghyswllt y gred bendant a gobeithlawn a gaiff ei harddangos yn *Cân y Nadolig*, gellir dwyn i gof ddadansoddiad Pennar Davies o *Y Dwymyn*, wrth iddo ddweud fod nifer o'r darnau a gynhwysir ynddi yn 'honni mai yn y Crist, yn ei gariad di-ildio a di-flino, yr ydym yn gweld Duw ei hun'.²⁷⁵ Dyma hanfod 'Goruchafiaeth', mewn gwirionedd, darn sy'n datgan fod cariad Crist yn 'Anghenrhaid pob rhyw achos'.²⁷⁶ Er na chyhoeddwyd cerddoriaeth na geiriau Saesneg y gwaith diddorol hwn, rhaid cydnabod mai drwy awgrym W. S. Gwynn Williams y daeth y gwaith i fod, a bod

²⁷² Ioan I: 1, 4, dyfynnwyd yn Gwynn Jones, *Cân y Nadolig*, 11.

²⁷³ Gwynn Jones, *Cân y Nadolig*, 11.

²⁷⁴ Ibid.

²⁷⁵ Pennar Davies, *Y Brenin Alltud* (Llandybie, 1974), 93.

²⁷⁶ Gwynn Jones, *Cân y Nadolig*, 11.

Cân y Nadolig, fel cymaint o'r gweithiau eraill a luniwyd gan Gwynn Jones ar y cyd â Gwynn Williams, wedi'i hysgogi yn wreiddiol gan gerddoriaeth.

Gwelwyd yma, fel mewn penodau cynt, mor greiddiol a dylanwadol oedd W. S. Gwynn Williams yng nghyswllt cerddoriaeth yng ngwaith T. Gwynn Jones. Dyma ddyn nad oes mwy na dau gyfeiriad ato yng nghofiant T. Gwynn Jones, a dim un yng nghyfrol gynhwysfawr Cyfres y Meistri, ac eto, dyma ffigwr creiddiol bwysig yn achos gweithiau cerddorol T. Gwynn Jones. Mae'r ohebiaeth gyson rhyngddynt yn ffynhonnell anhepgor wrth fynd i'r afael â pherthynas gwaith T. Gwynn Jones â cherddoriaeth, ac mae'n cynnig cipolwg ar sut yr oedd y ddau yn cydweithio. Wrth archwilio cynnyrch y cydweithio rhwng Gwynn Jones a Gwynn Williams, yr ydys yn dadlennu partneriaeth sydd mewn gwirionedd yn dra arwyddocaol yng nghyswllt cerddoriaeth Gymreig mewn cyd-destun ehangach. Mae'r darnau a gynhyrchwyd ac a gyhoeddwyd yn sgil eu cydweithio yn rychwantu nifer o wahanol *genres*, yn cynnwys cerddoriaeth draddodiadol, cerddoriaeth glasurol a chaneuon celf, dramâu cerddorol a chantodau. Wrth gloi ei ddoethuriaeth, noda David R. Jones fod Gwynn Williams, drwy gyfrwng ei gwmni cyhoeddi a phrosiectau eraill, wedi hyrwyddo cerddoriaeth a cherddorion Cymreig: 'Gwynn Williams's lifetime dedication and experience led to a higher profile of Wales and Welsh music nationally and internationally'.²⁷⁷ Wrth synio am gyfraniad sylweddol Gwynn Williams i gerddoriaeth Gymreig, rhaid sicrhau cydnabyddiaeth deilwng hefyd i T. Gwynn Jones, a fu'n greiddiol i lwyddiant Cwmni Gwynn. Heb gymorth a chyfraniad helaeth T. Gwynn Jones i brosiectau W. S. Gwynn Williams, ni fyddai'r corff o waith a gyhoeddwyd gan y cwmni wedi bod mor swmpus. Yn ei dro, heb geisiadau cyson W. S. Gwynn Williams am gyfieithiad, sgript neu ddarn gwreiddiol, diau na fyddai T.

²⁷⁷ Jones, 'Advocate of Change and Tradition', 444.

Gwynn Jones wedi gwneud cymaint o waith yn ymwneud â cherddoriaeth. Mae'r hyn a wnaeth y ddau ddyn dros gerddoriaeth Gymreig yn yr 20g. yn annatod gysylltiedig â'i gilydd, a'u cyfraniadau unigol mawrion, felly, yn ganlyniad perthynas weithgar a chynhyrchiol.

*

*

*

Dangoswyd unwaith eto yn y bennod hon mor amrywiol oedd ymwneud T. Gwynn Jones â cherddoriaeth: cyfieithiadau o ganeuon traddodiadol, darnau gwreiddiol ar hen alawon, addasu a golygu geiriau, yn ogystal â nifer o weithiau a gyfansoddwyd ar gyfer eu perfformio ar y llwyfan. Fel mewn penodau blaenorol, bu'n rhaid bod yn llym wrth ddewis a dethol deunydd i'w drafod. Y prif fwriad yn y bennod hon oedd cyflwyno trosolwg o'r corff o waith, gan ymdrin â rhai cyfrolau a gweithiau fel darnau cynrychioladol o *œuvre* ehangach. Yn y ddwy bennod ddilynol, fodd bynnag, byddir yn troi at un gwaith penodol: yr awdl 'Tir na n-Og'. Ystyrir y gwaith dylanwadol hwn yng nghyswllt cerddoriaeth, gan ei ddefnyddio fel astudiaeth achos yn y maes eang a gyflwynwyd hyd yn hyn. Wedi edrych yn ehangach ar gerddoriaeth yng ngwaith T. Gwynn Jones, gyda chaneuon gwreiddiol, cyfieithiadau, gweithiau traddodiadol a chynrychiadau llwyfan, tybiwyd mai buddiol yn awr fyddai canolbwyntio ar waith sy'n pontio ystyriaethau llenyddol a cherddorol: mae'r awdl, sy'n un o gonglfeini'r corff o waith 'canonaidd' gan T. Gwynn Jones, hefyd yn mynnu ymdriniaeth yn y cyswllt cerddorol hwn. Gwelir yn y penodau dilynol felly y rôl flaenllaw a chwaraeodd cerddoriaeth yng nghyfansoddiad a datblygiad yr awdl, yn ogystal â'r modd yr ysbrydolwyd gwahanol gyfansoddwyr i fynd i'r afael â'r gwaith mawr hwn.

‘YSTORI A’M SWYNODD YN LLWYR’:

OLRHAIN DATBLYGIAD YR AWDL ‘TIR NA N-OG’

Yn ei ysgrif bwysig, ‘Mawrion Thomas Gwynn Jones’, mae R. M. Jones yn sôn am rai o awdlau mwyaf dylanwadol y bardd – barddoniaeth a newidiodd dirlun llenyddol Cymru.¹ Ymysg y ‘mawrion’ hyn, cynhwysa Jones yr awdl ‘Tir na n-Og’, cerdd a gafodd ddylanwad mawr ar lenyddiaeth a diwylliant Cymru.² *Caniadau* T. Gwynn Jones, a’r awdl ‘Tir na n-Og’ yn arbennig, oedd ysbrydoliaeth y grŵp ‘Ac Eraill’ i gyfansoddi’r gân lwyddiannus ‘Nia Ben Aur’, a arweiniodd at yr opera roc arloesol *Nia Ben Aur* a berfformiwyd yn Eisteddfod Genedlaethol Bro Myrddin ym 1974.³ Yng Nghymru heddiw ceir cwmni theatr Na Nog, siop Na-Nôg a’r wobwr ar gyfer llyfrau plant, Gwobr Tir na n-Og. Heb awdl T. Gwynn Jones, y mae’n annhebygol y byddai’r stori hon ac enw’r tir hudol Gwyddelig wedi treiddio i ymwybyddiaeth y Gymru Gymraeg i’r fath raddau. Ymddangosodd yr enw ‘Nia’, enw poblogaidd iawn bellach, am y tro cyntaf yn y Gymraeg yng ngwaith Gwynn Jones, wrth iddo geisio creu sain fwy cynefin i’r iaith na’r ‘Niamh’ Wyddeleg.⁴ Y mae’r enghreifftiau a restrir uchod felly’n fodd o fesur y dylanwad parhaol a gafodd awdl T. Gwynn Jones ar ein diwylliant cenedlaethol.

¹ R. M. Jones, *Llenyddiaeth Gymraeg 1902-1936* (Llandybie, 1987), 130.

² Nodyn ar orgraff: ‘Tir na nÓg’ yw’r orgraff Wyddeleg safonol bellach, ac fe

² Nodyn ar orgraff: ‘Tir na nÓg’ yw’r orgraff Wyddeleg safonol bellach, ac fe ddefnyddir y ffurf hon pan gyfeirir at wlad Tir na nÓg yng nghorff y traethawd. Er hyn, dyfynnir teitl awdl T. Gwynn Jones fel yr ymddengys yn y gwahanol destunau cyhoeddedig ac anghyhoeddedig (ceir anghysondeb yn y cyswllt hwn rhwng ‘Tir na nÓg’, ‘Tir na n-Óg’ a ‘Tir na n-Og’ yn yr amrywiol fersiynau). Y ffurf a ddefnyddir yn *Caniadau* am yr awdl orffenedig yw ‘Tir na n-Og’.

³ Rhaglen *Y Stiwdio Gefn: Nia Ben Aur*, cynhyrchwyd gan gwmni Tinopolis, darlledwyd ar S4C, 16 Awst 2014.

⁴ T. Gwynn Jones, ‘Rhagair’, yn *Tir na n-Óg: Awdl Delynegol at Beroriaeth* (Caerdydd, 1916), vii.

Ni ellir ymdrin â'r awdl hon heb gydnabod lle ei hawdur yn yr adfywiad Rhamantaidd yng Nghymru ar ddechrau'r ugeinfed ganrif, a chyfraniad yr awdl ei hun i'r adfywiad hwn, ac i lenyddiaeth yr ugeinfed ganrif yn fwy cyffredinol. Fel y pwysleisia Dafydd Johnston, 'Thomas Gwynn Jones epitomizes the twentieth-century revival more fully than any other writer [...] it is the revival at the beginning of the century which is the essential context of all his work'.⁵ Yn Eisteddfod Bangor 1902, enillodd Gwynn Jones y gadair am ei awdl chwyldroadol 'Ymadawiad Arthur', cerdd bwysicaf y mudiad, yn ôl Johnston.⁶ Noda Alan Llwyd hefyd mai 'gyda buddugoliaeth T. Gwynn Jones [...] [y] gwawriodd y Rhamantiaeth newydd ar farddoniaeth Cymru', a hynny dan ddylanwad John Morris-Jones, a ddewisodd destunau Eisteddfod Bangor 'fel rhan o'i wrthryfel yn erbyn y beirdd eisteddfodol traddodiadol'.⁷ Roedd y garreg filltir genedlaethol hon hefyd yn garreg filltir bersonol i Gwynn Jones: disgrifia Alun Llywelyn-Williams yr awdl fel 'trobwynt' yng ngyrfa'r bardd.⁸ Dyma oedd ei daith gyntaf i fyd y baradwys bell, 'un o brif destunau ei awen', meddai Llywelyn-Williams, wrth i'w yrfa ddatblygu.⁹ Creodd Gwynn Jones fyd 'cyfan cynhwysfawr' yn ei waith, ac yn 'Ymadawiad Arthur', yn ôl Llywelyn-Williams, 'dechreuodd chwilio terfynau'r byd hwnnw'.¹⁰ Noda Derec Llwyd Morgan y tebygrwydd sydd rhwng yr awdl fuddugol hon a rhai o awdlau eraill Gwynn Jones: 'Sylwer mai patrwm y chwedl am ddiplaniad Arthur yw patrwm pedair o gerddi

⁵ Dafydd Johnston, 'The Literary Revival', yn Dafydd Johnston (gol.), *A Guide to Welsh Literature c. 1900-1996* (Cardiff, 1998), 12.

⁶ Ibid.

⁷ Alan Llwyd, *Prifysgol y Werin: Hanes Eisteddfod Genedlaethol Cymru 1900-1918* (Llandybie, 2008), 34-5.

⁸ Alun Llywelyn-Williams, 'T. Gwynn Jones: Gorchest y Bardd', yn Gwynn ap Gwilym (gol.), *Cyfres y Meistri (3): Thomas Gwynn Jones* (Llandybie, 1982), 201.

⁹ Alun Llywelyn-Williams, *Y Nos, Y Niwl, A'r Ynys: Agweddau ar y Profiad Rhamantaidd yng Nghymru 1890-1914* (Caerdydd, 1960), 131.

¹⁰ Llywelyn-Williams, 'T. Gwynn Jones: Gorchest y Bardd', 201.

mythaidd eraill Gwynn Jones'.¹¹ Mae 'Tir na n-Og' yn un o'r pedair a noda Llwyd Morgan, ac mae'r ymchwil am y baradwys bell yn thema y mae ymdriniaethau beirniadol â gwaith Gwynn Jones yn aml yn canolbwyntio arni.

Pwysleisia Alun Llywelyn-Williams mai 'un wedd bwysig ar y meddwl rhamantaidd yw ei ddelfrydiaeth sy'n codi o anfonlonrwydd ar y byd ac ar fywyd fel y mae'.¹² Creodd Gwynn Jones fyd delfrydol yn ei farddoniaeth, ond ni cheir bodlonrwydd na llwyddiant yn un o'i gerddi. Mynd y mae Arthur, gan adael Bedwyr 'yn drist a distaw': nid oes modd iddo yntau weld Afallon.¹³ Er i Osian gyrraedd y baradwys, sef ynys Tir na nÓg, nid yw'n hapus yno, gan hiraethu am ei famwlad, ac wedi iddo ddychwelyd i Iwerddon, y mae'n marw. Caiff cais Madog i gyrraedd ei wlad well ef ei atal gan longdrylliad, ac fe draflyncir ei long gan y tonnau. Adlewyrchir, yn ddiau, rai o agweddau Gwynn Jones ei hun at y byd modern ym methiant ei gymeriadau i ganfod neu gadw'r baradwys bersonol: cytuna'r beirniaid fod ei weledigaeth yn mynd yn fwyfwy diobaith wrth iddo chwerwi o ganlyniad i realiti'r 20g. a'i rhyfeloedd.¹⁴ Mae'r awdl 'Tir na n-Og' yn rhan allweddol o'r ideoleg hon, a dyma agwedd y tuedda beirniaid llenyddol i ganolbwyntio arni wrth drafod yr awdl.

Yn ogystal â'r ymdriniaeth thematig hon â'r gerdd, sydd i'w gweld mewn sawl ysgrif feirniadol ar waith Gwynn Jones, gwelir hefyd rai beirniaid yn mynd i'r afael ag agweddau mwy strwythurol-arddulliol ar y gerdd. Ceir, er enghraifft, drafodaeth gan Gwynn ap Gwilym ar y ffynonellau a ddefnyddiwyd gan Gwynn

¹¹ Derec Llwyd Morgan, *Barddoniaeth Thomas Gwynn Jones* (Llandysul, 1972), 31.

¹² Llywelyn-Williams, *Y Nos, Y Niwl, A'r Ynys*, 108.

¹³ T. Gwynn Jones, 'Ymadawiad Arthur', yn *Caniadau* (Wrecsam, 1934), 34.

¹⁴ Gweler, er enghraifft, R. M. Jones, *Llenyddiaeth Gymraeg*, 123-40; W. Beynon Davies, 'Canu Thomas Gwynn Jones', yn ap Gwilym (gol.), *Cyfres y Meistri*, 225-41.

Jones wrth gyfansoddi ei awdl.¹⁵ Gwelir H. Meurig Evans yn ymdrin â'r gynghanedd yn yr awdl, a phrydferthwch a chywreindeb crefft T. Gwynn Jones.¹⁶ Un agwedd nad yw'n cael sylw digonol o bell ffordd gan feirniaid llenyddol yw bod 'Tir na n-Og' wedi'i chyfansoddi yn wreiddiol 'at beroriaeth',¹⁷ hynny yw, ar gyfer cerddoriaeth. Y tro cyntaf iddi gael ei chyhoeddi, yn y *Welsh Outlook* ym 1916,¹⁸ rhoddodd y bardd yr is-deitl 'Awdl Delynegol at Beroriaeth' ar y gwaith, a dyma'r is-deitl sy'n ymddangos yn *Caniadau* hefyd.¹⁹ Er mai i'w canu y bwriadwyd geiriau'r awdl, ni chaiff yr agwedd allweddol hon ei thrafod, mewn gwirionedd, gan y beirniaid o gwbl.

Ambell gyfeiriad yn unig at yr agwedd gerddorol hollbwysig hon a welir mewn trafodaethau beirniadol, megis yn ysgrif H. Meurig Evans, lle y dywedir, 'gan taw at beroriaeth y lluniodd [Gwynn Jones] hon cofier ei fod yn rhyngu bodd y glust yn ogystal â'r llygad a rhaid clywed yr awdl hon i'w gwerthfawrogi'n llawn'.²⁰ Er gwaethaf y cyfeiriad byr hwn at gyd-destun cerddorol y gwaith, mae'r ysgrif, fel y rhelyw o'r ymdriniaethau beirniadol â'r gwaith, yn trafod yr awdl fel gwaith llenyddol pur. Oherwydd poblogrwydd 'Tir na n-Og', a'i statws fel testun llenyddol, ysgogir beirniaid llenyddol i'w harchwilio gan anghofio agwedd greiddiol ar ei chyfansoddi, sef y gerddoriaeth. Fe drafodwyd y syniad o gefndir cerddorol coll neu gudd eisoes yn y bennod ar y caneuon gwreiddiol, ac yn wir dyma a geir yn achos 'Tir na n-Og' hefyd – sef cefndir a gwreiddiau cerddorol y darn yn cael eu cuddio a'i rhoi o'r neilltu wrth i 'fywyd llenyddol' y gwaith ddod yn fwy amlwg.

¹⁵ Gwynn ap Gwilym, 'Rhagymadrodd', yn ap Gwilym (gol.), *Cyfres y Meistri*, 28.

¹⁶ H. Meurig Evans 'T. Gwynn Jones (1871-1949)', yn ap Gwilym (gol.), *Cyfres y Meistri*, 370-3.

¹⁷ T. Gwynn Jones, 'Tir na n-Og' yn *The Welsh Outlook*, Cyfrol III (Mawrth, 1916), 92.

¹⁸ Ibid.

¹⁹ T. Gwynn Jones, 'Tir na n-Og' yn *Caniadau*, 60.

²⁰ Evans, 'T. Gwynn Jones', 369.

Bydd y bennod hon yn cynnig ailystyriaeth o'r awdl 'Tir na n-Og', gan ei harchwilio yng nghyd-destun y gerddoriaeth sydd mor annatod gysylltiedig â'i chyfansoddi. Bydd y bennod yn olrhain hanes cyfansoddi'r awdl, gan graffu ar y gwahanol weddau a fu arni dros y blynyddoedd. Dangosir sut yr ysgogwyd Gwynn Jones i ddychwelyd at yr awdl a'i hailwampio dro ar ôl tro, a sut yr oedd cerddoriaeth yn sbardun i'r ailddrafftio hwnnw. Bydd yr astudiaeth bresennol yn edrych yn fanwl ar y broses o olygu a diwygio'r awdl gan T. Gwynn Jones dros gyfnod o ugain mlynedd – o'r awdl yn ei ffurf gynharaf ym 1910; ei chynnwys yn un o brif gyfrolau barddoniaeth T. Gwynn Jones, *Detholiad o Ganiadau* yn 1926; a'i chyhoeddi fel libreto dwyieithog ym 1930. Fe roddir sylw i'r 14 fersiwn o'r awdl sydd ar gael (a nodir yn y bennod hon fel [A], [B], [C] hyd [J]) i weld pa fath o newidiadau a wnaeth Gwynn Jones i'r gwaith arbennig hwn dros y blynyddoedd, gan graffu ar yr un pryd ar rôl cerddoriaeth yn natblygiad un o gerddi mwyaf dylanwadol yr 20g. (Darperir rhestr gronolegol o'r holl wahanol fersiynau o'r awdl a drafodir yn y bennod hon yn Atodiad VII.)

Cyfansoddwyd yr awdl 'Tir na n-Og' ar ei gwedd gyntaf ym 1910, wedi i T. Gwynn Jones gael ei ysbrydoli gan gyfrol o straeon Gwyddeleg, *Sgealtan Rachreann*, a adolygodd ar gyfer *Y Genedl Gymreig*. Casglwyd y straeon sy'n ymddangos yn y gyfrol o Ynys Rathlin, ynys ar arfordir gogleddol Gogledd Iwerddon, gan ysgolhaig o Belfast o'r enw Aoidhmín Mac Gréagóir.²¹ Canolbwyntia Gwynn Jones yn ei adolygiad ar stori Tír na nÓg: 'Y mae yn y llyfr bach hwn chwech o hen ystraeon [...] Y maent i gyd yn dda, ond yr oreu o ddigon yw "An Tsealg" [*sic*] – "Yr Hela"' (y

²¹ Gweler Ciarán Ó Duibhín, 'Aoidhmín Mac Gréagóir: A Little-Known Gaelic Scholar', <<http://www.smo.uhi.ac.uk/~oduibhin/daoine/aoidhmin2.htm>>; cyrchwyd 4 Mehefin 2014.

mae hanes helfa yn rhan o stori Oisín a Niamh).²² Y mae'n amlwg felly fod y stori hon wedi gwneud cryn argraff ar y bardd, fel y gwelir mewn llythyr ganddo at ei ffrind J. W. Jones ym 1910: 'Yr oedd yn y llyfryn un ystori a'm swynodd yn llwyr, ac na allwn beidio a chanu awdl arni'.²³ Er mai fel awdl ddramatig, ar ffurf deialog, yr adwaenir 'Tir na n-Og' heddiw, roedd yr ymgorfforiad cyntaf ohoni'n dra gwahanol. Ceir darn yn un o lyfrau nodiadau'r bardd a gaiff ei ddisgrifio yng nghatalog Llyfrgell Genedlaethol Cymru fel 'drafft cynnar o ran o "Dir na Nog"', a dyma'r drafft cynharaf o'r awdl sydd ar gadw.²⁴ Cyfeirir, at bwrpas eglurder, at y fersiwn gyntaf hon fel Fersiwn A. Yn ei lythyr at J. W. Jones ym 1910, y mae Gwynn Jones yn dyfynnu'r rhan fwyaf o Fersiwn A – 'dyma'r dechreuad i chwi,'²⁵ meddai – a chyfeirir yn y bennod hon at y darn o'r gerdd a geir yn y llythyr hwn fel Fersiwn B. Y mae Fersiwn B, sydd i'w chanfod yn y llythyr at J. W. Jones, yn cloi gyda geiriau Osian, 'Awn yno, lle cawn ennyn pêr hiraeth,/ A'i lethu'n hudoliaeth hen y delyn',²⁶ ond ceir tair llinell ychwanegol yn Fersiwn A, fel a ganlyn:

Yno o'u blaen, rhoddai'r byw oleuni
Liw am y donn fel pedfai fflam dani;
Yna, dros y gwridd rhyw ias a grwydrai [...]²⁷

Diddorol yw natur anorffenedig Fersiwn A ('Yna, dros y gwridd rhyw ias a grwydrai [...]' yw'r llinell olaf), gan fod y gwaith yn dod i ben wrth i'r disgrifiad newid persbectif. Ni cheir unrhyw arwydd yn y llyfr nodiadau lle'r ymddengys Fersiwn A

²² T. Gwynn Jones, "'Ystraeon Gwyddelig": Adolygiad o *Sgealtan Rachreann*', *Y Genedl Gymreig*, 18 Hydref 1910, 6.

²³ Llythyr, dyddiedig 13 Hydref 1910, gan T. Gwynn Jones [TGJ] at J. W. Jones [JWJ], Papurau J. W. Jones, 107, Llyfrgell Genedlaethol Cymru [LIGC].

²⁴ Catalog LIGC, <<http://wales.aquabrowser.com/default.ashx?q=tir+na+nog>>; cyrchwyd 4 Mehefin 2014; T. Gwynn Jones, drafft di-deitl, Papurau TGJ, E81, LIGC [Fersiwn A].

²⁵ Llythyr, dyddiedig 13 Hydref 1910, gan TGJ at JWJ, Papurau JWJ, 107, LIGC.

²⁶ Ibid [Fersiwn B].

²⁷ T. Gwynn Jones, drafft di-deitl, Papurau TGJ, E81, LIGC [Fersiwn A].

fod Gwynn Jones wedi datblygu'r awdl ymhellach, ond y mae'r gwahaniaethau rhwng Fersiwn A a B yn dangos fod proses o ddiwygio ar waith. Ceir mân newidiadau megis 'A gweu uwch y foel yn goch a melyn' [A] yn troi'n 'A gweu uwch moelydd yn goch a melyn' [B]; 'Yn rhoi aur lwybr ei li' [A] yn newid i 'Yn bwrw ar lwybr ei li' [B], ac yn y blaen.²⁸

Gan edrych ar yr hanes fel yr ymddengys yn chwedl Mac Gréagóir, y ffynhonnell a ysbrydolodd yr awdl, gwelir bod yna ffynnon hud sydd wedi'i llenwi â gwaed, ac wedi i'r helwyr ymddiddan am ystyr y digwyddiad hwn yr ymddengys Niamh:

Troes y ffynnon a'i rhan uchaf yn waed a'i rhan isaf yn fêl [...] Yna daeth Conán Maol Mac Móirne i lawr at y ffynnon. Edrychodd i lawr yn graff ar y mesur oedd ynddi, a dywedodd [...] 'Ni feddyliais i ddim fod cymaint o waed yn y carw hwnnw. Dyma arwydd i Oisín a'i gŵn fod yn llwyddiannus.' 'Bydd ddistaw, Conán, ynfytyr,' ebe Diarmuid Donn Uí Duibhne. 'Arwydd yw hwn fod y ffynnon o dan hud'. Aeth Oisín ei hun i lawr at y môr, a gwelodd ferch brydferth ar farch llathraidd.²⁹

Wrth graffu ar y fersiynau cyntaf sydd ar gadw, sef Fersiynau A a B (1910), gwelir efallai awgrymiadau o waed ffynnon y chwedl wreiddiol yn nelweddaeth y lliw coch, ac yn arbennig y gyfeiriadaeth at waed a geir yn yr adran agoriadol. Gwelir sôn am aeron coch coeden griafol, 'hyd griawol meusydd', a'r '[f]antell win' dros 'ochr ynys Rachrin'.³⁰ Mae llinell gyntaf Fersiynau A a B yn cyffelybu tymor yr hydref i liw gwaed: 'A hydref yn troi'n waedrudd/ Ddail y coed'.³¹ O'r geiriau cyntaf, felly, ceir cyfeiriad at liw gwaed sydd, gellid awgrymu, wedi'i ysbrydoli gan y chwedl

²⁸ Gwynn Jones, drafft di-deitl, Papurau TGJ, E81, LIGC [Fersiwn A]; llythyr, dyddiedig 13 Hydref 1910, gan TGJ at JWJ, Papurau JWJ, 107, LIGC [Fersiwn B].

²⁹ Gwynn ap Gwilym, cyfieithiad o 'An tSealg', yn 'Rhagymadrodd', 26.

³⁰ Gwynn Jones, drafft di-deitl, Papurau TGJ, E81, LIGC [Fersiwn A]; llythyr, dyddiedig 13 Hydref 1910, gan TGJ at JWJ, Papurau JWJ, 107, LIGC [Fersiwn B].

³¹ Ibid.

wreiddiol. Fe barheir â'r gyfeiriadaeth hon, wrth i Gwynn Jones ddisgrifio'r llwyni celyn yn 'waed-rawn', a cheir cwpled yn disgrifio'r olygfa gyffredinol: 'Lliwiwyd y maith orllewin/ Gydag aur a gwaed a gwin'.³² Crëir yn yr adran hon lun byw o ddail a ffrwythau'r hydref yn cochi'r wlad, a'r haul yn machlud gan daflu gwedd megis gwaed dros y cyfan. Awgrymir felly fod Gwynn Jones yn cyfeirio, drwy gyfrwng y ddelweddaeth hon, at y ffynnon yn y chwedl wreiddiol: wrth gochi'r tirlun â'i disgrifiadau o waed, y mae'n bosib fod Gwynn Jones yn troi ynys Rathlin ei hun yn rhywbeth sy'n rhybuddio ynghylch dyfodiad bod hudol. Mae llinellau olaf Fersiwn A, y drafft yn y llyfr nodiadau, yn awgrymu newid perspicif, a hynny tuag at y môr: 'Yno o'u blaen, rhoddai'r byw oleuni/ Liw am y donn fel pedfai fflam dani'³³ (diddorol yw cymharu hyn â delweddaeth debyg y gerdd 'Ymachlud Haul' a gyhoeddwyd yn *Caniadau*³⁴). Perthnasol, efallai, yw nodi mai o'r môr y daw Nia yn yr awdl wrth iddi ddatblygu dros wahanol fersiynau.

Rhaid tynnu sylw hefyd at y ffaith bod modd adnabod cerdd gyhoeddedig arall gan Gwynn Jones, heblaw 'Tir na n-Og', o fewn y darnau hyn. Ceir yn agoriad Fersiynau A a B, fel y gwelwyd uchod, ddisgrifiad byw o liwiau'r dail yn yr hydref: 'A hydref yn troi'n waedrudd/ Ddail y coed â'i ddwyllaw cudd'.³⁵ Dyma union agoriad awdl arall sy'n ymddangos yn y gyfrol *Caniadau* – cerdd a'r dyddiad 1914 arni, sef 'Hydref'.³⁶ Yn wir, y mae wyth llinell gyntaf y drafftiau cynnar hyn o 'Tir na n-Og' yn ymddangos hefyd yn 'Hydref', gyda mân newidiadau i rai geiriau llanw yn unig: y mae cynnwys y llinellau, i bob pwrpas, yr un peth. Fe welir isod, at bwrpas cymharu, ddyfyniadau o Fersiynau A a B, a'r darn perthnasol o 'Hydref':

³² Ibid.

³³ Gwynn Jones, drafft di-deitl, Papurau TGJ, E81, LIGC [Fersiwn A].

³⁴ T. Gwynn Jones, 'Ymachlud Haul', yn *Caniadau*, 152.

³⁵ Gwynn Jones, drafft di-deitl, Papurau TGJ, E81, LIGC [Fersiwn A]; llythyr, dyddiedig 13 Hydref 1910, gan TGJ at JWJ, Papurau JWJ, 107, LIGC [Fersiwn B].

³⁶ T. Gwynn Jones, 'Hydref', yn *Caniadau*, 155-6.

A hydref yn troi'n waedrudd
Ddail y coed a'i ddwyllaw cudd,
A gweu uwch y foel yn ei goch a'i felyn
Yn gaerog rwydwaith drwy'r grug a'r rhedyn
A rhoddi ei egroes fel ambr ddagrau
Ym mysg ael drain y mwsogl darennau,
Ei gwrel masw hyd griawol meusydd
A'i waed-rawn gelyn draw yn ei gilydd,³⁷
[Fersiwn A]

A hydref yn troi'n waedrudd
Ddail y coed â'i ddwyllaw cudd,
A gweu uwch moelydd yn goch a melyn
Ei gaerog rwydwaith drwy'r grug a'r rhedyn,
A rhoddi ei egroes fel ambr ddagrau
Ym mysg ael drain y mwsogl darennau,
Ei gwrel masw hyd griawol meusydd
A'i waedrawn gelyn, draw yn ei gilydd,³⁸
[Fersiwn B]

A hydref yn troi'n waedrudd
Ddail y coed â'i ddwyllaw cudd,
A gweu uwch y foel ei goch a'i felyn
Yn gaerog rwydwaith trwy'r grug a'r rhedyn,
A rhoddi ei egroes fel ambr ddagrau,
Am osglau drain y mwsogl darennau;
Ei gwrel masw hyd griawol meusydd,
A'i waedrawn gelyn draw yn ei gilydd;³⁹
[‘Hydref’]

Yr oedd W. Beynon Davies yn nes at y gwir nag y gwyddai, efallai, pan ddywedodd, ‘Yr un moddion oedd ganddo [T. Gwynn Jones] pan aeth ati i ganu am Nia ac Osian yn “Tir na n-Óg”, a'i gân fawr i “Hydref” ym 1914’.⁴⁰

Mae Fersiynau A a B o ‘Tir na n-Og’ yn cynnwys llinellau sy'n gosod y gwaith yn y cyd-destun Gwyddeleg. Ceir cwpled sy'n dilyn y dyfyniadau uchod yn y

³⁷ Gwynn Jones, drafft di-deitl, Papurau TGJ, E81, LIGC [Fersiwn A].

³⁸ Llythyr, dyddiedig 13 Hydref 1910, gan TGJ at JWJ, Papurau JWJ, 107, LIGC [Fersiwn B].

³⁹ Gwynn Jones, ‘Hydref’, *Caniadau*, 155.

⁴⁰ Davies, ‘Canu Thomas Gwynn Jones’, 228.

ddau fersiwn – ‘Nes rhoi ochr ynys Rachrin/ Mewn tywyll wawr mantell win’⁴¹ – lle y ceir disgrifiad cynnil sy’n gosod y gerdd ar Ynys Rathlin, y man lle y casglwyd y stori gan Aoidhmín Mac Gréagóir ar gyfer y gyfrol *Sgealtan Rachreann*.⁴² Ceir hefyd gyfeiriad yn Fersiynau A a B at y Ffaniaid, *Fiana* traddodiad llên Iwerddon, yr oedd Osian yn perthyn iddynt.⁴³ Dyma’r adran berthnasol o Fersiwn B, er enghraifft:

Yn boeth eu hawydd, yn swm bytheuaid,
Croew ar y ffin oedd criau’r Ffaniaid,
Yn hela fry, lafar haid, trwy gymoedd
Yn awel nefoedd eu glew hynafiaid.⁴⁴

Perthyn cymeriadau’r stori i gylch o chwedlau Gwyddeleg hynafol o’r enw cylch Fionn, sy’n dilyn hanes Fionn mac Cumhaill a’i ddilynwyr. Y mae Fionn mac Cumhaill yn un o brif arwyr llenyddiaeth Iwerddon, a dyddiwyd rhai testunau sy’n adrodd ei hanes o’r 11g.⁴⁵ Erbyn yr 16g., yn ôl Gwynn ap Gwilym, Fionn oedd ‘ffigur amlycaf holl chwedloniaeth y Gwyddyl’.⁴⁶ Oisín, sef Osian yn hanes T. Gwynn Jones, yw mab Fionn, ac fe geir nifer o gerddi yn y traddodiad Gwyddeleg sy’n adrodd ei hanes yntau.⁴⁷

Pwysig nodi yma debygrwydd y fersiynau cynharaf hyn o ‘Tir na n-Og’ (Fersiynau A a B) i’r ffurf gyhoeddedig gyfarwydd a geir yn y gyfrol *Caniadau*. Mae darn agoriadol yn y gerdd yn *Caniadau* yn cynnwys nifer o’r un llinellau ag yn araith Osian yn Fersiynau A a B. Cymharer y tri isod:

⁴¹ Gwynn Jones, drafft di-deitl, Papurau TGJ, E81, LIGC [Fersiwn A]; llythyr, dyddiedig 13 Hydref 1910, gan TGJ at JWJ, Papurau JWJ, 107, LIGC [Fersiwn B].

⁴² Gweler Gwynn Jones, ‘Ystraeon Gwyddelig’, 6.

⁴³ Gweler Eleanor Knott a Gerald Murphy, *Early Irish Literature* (London, 1966), 145; J. E. Caerwyn Williams, *Traddodiad Llenyddol Iwerddon* (Caerdydd, 1958), 102.

⁴⁴ Llythyr, dyddiedig 13 Hydref 1910, gan TGJ at JWJ, Papurau JWJ, 107, LIGC [Fersiwn B].

⁴⁵ Knott a Murphy, *Early Irish Literature*, 147.

⁴⁶ ap Gwilym, ‘Rhagymadrodd’, 25.

⁴⁷ Knott a Murphy, *Early Irish Literature*, 188.

Diwedd gwael i'n dydd a gaed,
A thawodd y bytheuaid,
Mor dyner yw'r môr danom
A'i dwfr hallt fel cleddyf rhôm
Ag Erin draw, ag ariando'r ewyn
Ar ei glan fel gwan ddisyfwl gwenyn,
Awn yno, lle cawn ennyn pêr hiraeth,
A'i lethu'n hudoliaeth hen y delyn!⁴⁸
[Fersiwn A]

Diwedd gwael i'n dydd a gaed,
A thawodd y bytheuaid,
Mor dyner yw'r môr danom
A'i dwfr hallt fel cleddyf rhôm
Ag Erin draw, ag ariando'r ewyn
Am dro ei glan fel modrwyog liny, n,
Awn yno, lle cawn ennyn pêr hiraeth,
A'i lethu'n hudoliaeth hen y delyn.⁴⁹
[Fersiwn B]

Diwedd gwael i'n dydd a gaid,
A thawodd y bytheuaid;
[...]
Mor dyner yw'r môr danom,
A'i ddŵr hallt fel cleddau rhôm
Ag Erin draw, ag ariando'r ewyn
Am dro ei glan fel modrwyog liny, n;
Awn yno, lle cawn ennyn
Pêr hiraeth,
A'i lethu'n hudoliaeth
Hen y delyn!⁵⁰
[Fersiwn J (*Caniadau*, 1934)]

Er bod Gwynn Jones wedi ailwampio'r awdl, fel y dengys fersiynau diweddarach ohoni, gwelir ei fod wedi ailgylchu rhai o'i linellau gwreiddiol. Mae'r cwpled 'Awn yno, lle cawn ennyn pêr hiraeth,/ A'i lethu'n hudoliaeth hen y delyn'⁵¹ yn un sy'n greiddiol i'r awdl fel yr ymddengys mewn fersiynau diweddarach, ac fe gaiff ei ailadrodd dair gwaith i gyd yn yr awdl fel y'i ceir yn *Caniadau*. Mae'r 'pêr hiraeth'

⁴⁸ T. Gwynn Jones, drafft dideitl, Papurau TGJ, E81, LIGC [Fersiwn A].

⁴⁹ Llythyr, dyddiedig 13 Hydref 1910, gan TGJ at JWJ, Papurau JWJ, 107, LIGC [Fersiwn B].

⁵⁰ Gwynn Jones, 'Tir na n-Og', yn *Caniadau*, 61 [Fersiwn J].

⁵¹ *Ibid.*, 61, 66.

yn thema hollbwysig i'r gwaith, fel y noda R. M. Jones yn ei drafodeth ar 'Tir na n-Og' *Caniadau*: 'hiraeth neu anniddigrwydd rhan (1) sef Iwerddon, megis hiraeth rhan (2) sef Tir na n-Óg, yn methu â digoni fel ei gilydd: troir yn ôl yn rhan (3) at Iwerddon lle mae'r methiant yn derfynol.'⁵²

Fel y nodir yn Rhagymadrodd Gwynn ap Gwilym i'r gyfrol ar y bardd yn 'Cyfres y Meistri', yr oedd T. Gwynn Jones wedi ysgrifennu at gyfaill Gwyddelig iddo, Tórna (enw barddol yr academydd a'r bardd Tadgh Ó Donnchadha, 1874-1949),⁵³ am gyngor ynghylch chwedl Tír na nÓg. Byddai'r ddau yn llythyru'n aml ynghylch materion llenyddol wedi iddynt gwrdd mewn ysgol haf yn Nulyn ym 1908.⁵⁴ Ymddengys fod T. Gwynn Jones wedi holi Tórna ynglŷn ag addasrwydd y chwedl fel y'i cofnodwyd gan Mac Gréagóir fel ffynhonnell ar gyfer ei awdl ar y pwnc – gan nodi yn ogystal, yn ddiddorol iawn, ei fwriad i berfformio'r awdl fel cantata.⁵⁵ Sut, felly, y daeth y newid mawr hwn i fod – o bwt o awdl ddisgrifiadol, fel a geir yn Fersiynau A a B, i waith dramatig a fwriadwyd ar gyfer cerddoriaeth? Mae'r ateb i'w gael yn y llythyr hwnnw gan T. Gwynn Jones at J. W. Jones, lle mae'n adrodd yr hanes:

Daeth Dafydd Evans, athro cerddorol Coleg Caerdydd, yma i'm gweled, gan ei fod ef wedi penderfynu ceisio achub cerddoriaeth Cymru rhag dynwared y Saeson fyth a hefyd, a meithrin yr awen gerddorol gartref os gellir. Soniais am ystori Osian wrtho, a tharawodd ei ffansi yntau. Felly addewais wneud libretto arni. Cefais dipyn o hwyl, ac y mae yntau yn dywedyd fod y gwaith yn gampus [...] Y mae'n debyg y cais ef wneud y gerddoriaeth mewn pryd i'w chanu yn y Coleg Ddydd Gwyl [*sic*] Ddewi nesaf.⁵⁶

⁵² Jones, *Llenyddiaeth Gymraeg*, 131.

⁵³ Gwybodaeth fywgraffyddol am Tadgh Ó Donnchadha, <<http://www.ainm.ie/Bio.aspx?ID=19>>; cyrchwyd 9 Ionawr 2015.

⁵⁴ ap Gwynn, 'Rhagymadrodd', 22.

⁵⁵ *Ibid.*, 28.

⁵⁶ Llythyr, dyddiedig 13 Hydref 1910, gan TGJ at JWJ, Papurau JWJ, 107, LIGC.

Ynglwm wrth y llythyr, a'r cyfan wedi'i rwympo mewn llyfryn bychan gan J. W. Jones, ceir un o'r copïau cynharaf o'r awdl ar y ffurf yr ydym yn ei hadnabod heddiw: awdl ar ffurf deialog. Er gwaethaf brwdfrydedd honedig David Evans ynghylch y gwaith, ymddengys na chafodd lawer o lwyddiant wrth geisio ei osod, gan roi'r gorau iddi ar ôl yr act gyntaf yn unig.⁵⁷

Edrydd Arthur ap Gwynn yr hanes mewn ysgrif, gan ddyfynnu llythyr oddi wrth Evans at Gwynn Jones: 'I wrote the music for the first scene [...] during the Xmas holidays and I hope to complete the work during the long vacation'.⁵⁸ Y dyddiad ar y llythyr hwn, yn ôl ap Gwynn, yw Mehefin 1911. Rhwng tua mis Hydref 1910, felly, sef dyddiad llythyr Gwynn Jones at J. W. Jones, lle ceir manylion am y prosiect, a mis Mehefin 1911, roedd Evans ar waith ar yr act gyntaf. Awgryma ei lythyr ei fod yn cyfansoddi'r gwaith yn ystod y gwyliau coleg yn unig, a chan ystyried yr amserlen gyfyng hon, uchelgeisiol, efallai, oedd y cynllun gwreiddiol o gyfansoddi'r darn erbyn dechrau mis Mawrth 1911 ('mewn pryd i'w chanu yn y Coleg Ddydd Gwyl [*sic*] Ddewi nesaf'⁵⁹). Dywed Evans ei fod yn gobeithio cwblhau'r gwaith dros wyliau'r haf, ond ni cheir unrhyw dystiolaeth i'r gwaith gael ei orffen. Nid oes unrhyw ddrafftiau o'r gerddoriaeth wedi goroesi, felly nid oes modd gweld yn union pa mor bell yr aeth Evans gyda'r gwaith gosod.⁶⁰


⁵⁷ Gweler Arthur ap Gwynn, 'T. Gwynn Jones a David de Lloyd', yn ap Gwilym (gol.), *Cyfres y Meistri*, 82.

⁵⁸ Llythyr gan David Evans at T. Gwynn Jones, dyfynnwyd yn ap Gwynn, 'T. Gwynn Jones a David de Lloyd', 82.

⁵⁹ Llythyr, dyddiedig 13 Hydref 1910, gan TGJ at JWJ, Papurau JWJ, 107, LIGC.

⁶⁰ Noda Arthur ap Gwynn fod papurau Evans dan ofal llyfrgellydd Coleg Caerdydd a heb eu rhestru na'u trefnu (ap Gwynn, 'T. Gwynn Jones a David de Lloyd', 82). Wedi i'r awdur presennol wneud ymholiadau yn llyfrgell Prifysgol Caerdydd, fodd bynnag, ymddengys nad ydynt bellach ar gadw yno, ac ni wyddai'r staff unrhyw beth yn eu cylch. Er bod papurau David Evans wedi'u cadw yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, ni cheir yn eu mysg ddrafft o 'Tir na n-Og'.

Nid y fersiwn a anfonodd T. Gwynn Jones at J. W. Jones gyda'r llythyr ym 1910 yw'r copi cynharaf sydd ar gadw o'r awdl ar ei newydd wedd gerddorol, fodd bynnag. Y mae'n sicr yn un o'r rhai cynharaf, ond fe geir yng nghasgliad T. Gwynn Jones yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru gopi bras o'r awdl yn ei lawysgrifen ei hun, a gellir bwrw, a hynny am wahanol resymau, mai dyma'r drafft cyntaf o'r gwaith ar ei ffurf newydd. Gelwir yr atodiad yn y llythyr at J. W. Jones yn Fersiwn Ch, felly, a'r drafft bras a geir yng nghasgliad T. Gwynn Jones yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Fersiwn C. Drwy gydol Fersiwn C gwelir nifer o linellau a geiriau wedi'u croesi allan, gyda'r newidiadau wedi'u hysgrifennu ar ymyl y dudalen, fel y dengys y llun isod:



T. Gwynn Jones, drafft o 'Tir ná nOg', Papurau TGJ, C3, LIGC [Fersiwn C].
© Ystâd ac etifeddion T. Gwynn Jones. Cedwir pob hawl.

Mae natur fras y testun hwn yn awgrymu'n gryf mai dyma ymgais gyntaf Gwynn Jones ar addasu ei awdl ar gyfer cerddoriaeth. Gwelir yn y drafft hwn hefyd y cwpled

‘Lliwiwyd y maith orllewin/ Gydag aur a gwaed a gwin’ yn agor yr awdl, ond wedi’i ddileu gan Gwynn Jones wedyn, a’i symud i ymddangos rai llinellau’n ddiweddarach yn araith agoriadol Osian.⁶¹ Awgryma hyn eto mai dyma’r drafft cynharaf o’r awdl ar y ffurf ddramatig hon, gan fod y cwpled hwnnw hefyd yn ymddangos yn y drafftiau cyntaf hynny o’r awdl, Fersiynau A a B, ond mewn adran ddisgrifiadol bur.

Ceir tystiolaeth yn Fersiwn C ynghylch sut yr aeth Gwynn Jones ati i addasu’r gwaith ar gyfer cerddoriaeth. Gellir dweud bod cerddoriaeth yn gweithredu fel catalydd ar gyfer ailstrwythuro ac ailddrafftio’r gwaith, a gwelir pa mor allweddol ydyw i’r awdl hon, un o gerddi enwocaf y bardd. Roedd y gwaith gwreiddiol (Fersiynau A a B) yn ddisgrifiadol iawn ei naws, ond fe’i newidiwyd yn waith dramatig ar gyfer lleisiau erbyn Fersiwn C, gan greu tri phrif gymeriad: Osian, Nia Ben Aur a Phennaeth y Seiri. Yn ogystal â’r rhain, ceir hefyd adrannau i’w canu gan dri chorws: yr helwyr, y morwynion a’r seiri.⁶² Gwelir hefyd fod Gwynn Jones wedi cynnwys cyfeiriad at y gerddoriaeth ei hun yn ei ddrafft, a hynny ar y dudalen gyntaf: ‘Orchestral music suggesting the baying of dogs and the blowing of horns +c’.⁶³ Wrth addasu ei awdl ar gyfer cerddoriaeth, felly, y mae’n amlwg fod Gwynn Jones wedi ystyried y math o gyfansoddiad yr oedd ei eiriau yn mynd i fod y rhan ohono, ac yn awyddus i’r gerddoriaeth greu awrygylch yr helfa.

Nid dyma’r unig enghraifft o Gwynn Jones yn rhoi cyfarwyddiadau i gyfansoddwr ynglŷn â’r math o gerddoriaeth y byddai’n hoffi ei chlywed mewn

⁶¹ T. Gwynn Jones, drafft o ‘Tir ná nOg’, Papurau TGJ, C3, LIGC [Fersiwn C].

⁶² Awgrymir mewn adolygiad yn y *Western Mail* o’r perfformiad cyntaf o’r awdl ar ffurf opera yn 1925 mai ffurf y corws Groegaidd yw’r hyn y mae Gwynn Jones yn ei fabwysiadu yma, ond y mae’n ddigon posibl fod y rhannau ar gyfer y corws yn deillio o ystyriaeth ymarferol: cynhyrchiad *ensemble* oedd hwn i fod, a thrwy ychwanegu corws roedd Gwynn Jones yn addasu stori â nifer bychan o gymeriadau ar gyfer grŵp mwy. Gweler Ifor B. Powell, ‘New Welsh Operas: Brilliant Works at Aberystwyth: “Tir na n-Óg” Triumph of de Lloyd and Gwynn Jones’, *Western Mail*, 19 Mai 1925, 7.

⁶³ Gwynn Jones, drafft o ‘Tir ná nOg’, Papurau TGJ, C3, LIGC [Fersiwn C].

gosodiad o'i waith. Trafodwyd eisoes 'Sketch of an Opera' T. Gwynn Jones ar destun 'Broséliawnd', ac er na ddaeth y gwaith i fodolaeth, daw'n amlwg o'r nodiadau hyn fod Gwynn Jones wedi ystyried y syniad yn fanwl. Cynigia'r nodiadau wybodaeth ynghylch y math o waith yr oedd Gwynn Jones wedi'i ddychmygu, gan gynnwys cyfarwyddiadau penodol iawn ynglŷn â'r llwyfannu a'r gerddoriaeth:

Scene II. The Forest of Broseliawnd. A lake with rocks around in the heart of the forest. Moonlight. Fireflies. Phosphorescence. A riot of subdued colours. Soft, weird music in the distance, suggesting wonder, joy, love, strife, weeping, ending in a serene, even, unbroken tranquility.⁶⁴

Ceir drafft cynnar arall o 'Tir na n-Og' yng Nghasgliad T. Gwynn Jones yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Y mae'r drafft hwn, a elwir yn yr ymdriniaeth hon yn Fersiwn D, wedi'i ysgrifennu'n ofalus gan Gwynn Jones mewn inc coch a du ar ffurf llyfryn bychan. Ar y clawr ceir teitl yr awdl, 'Tir na n-Og', a'r is-deitl, 'Geiriau Operetta Delynegol'.⁶⁵ Gan dderbyn bod yr hyn a alwyd yma yn Fersiwn C (y drafft bras hwnnw) yn rhagflaenu Fersiwn Ch, sydd i'w ganfod fel atodiad i lythyr o 1910, gellid derbyn bod C ac Ch wedi'u llunio yn yr un flwyddyn. Mae pennu dyddiad ar gyfer Fersiwn D, fodd bynnag, yn anos. Y mae'r testun, o ran ei gynnwys, yn debyg iawn i Fersiynau C ac Ch, ac mae'n debygol fod Fersiwn D yn dyddio o oddeutu 1910 hefyd. Er hyn, yng nghasgliad C3 ym Mhapurau Gwynn Jones, lle y cadwyd Fersiynau C a D, ceir hefyd fraslun o glawr llyfr ar gyfer 'Tir na nOg'. Lluniwyd y llun hwn, fe ymddengys, gan Gwynn Jones ei hun, ac mae'n dwyn y dyddiad 1912. Yr awdur a nodir ar y clawr yw 'Fionn mac Eoghain', un o'r nifer o ffugenwau

⁶⁴ T. Gwynn Jones, 'Sketch of an Opera', Papurau David de Lloyd, Bocs 9 (Cyfres 1), Llyfrgell Prifysgol Aberystwyth.

⁶⁵ Gwynn Jones, drafft o 'Tir na n-Og', Papurau TGJ, C3, LIGC [Fersiwn D].

lleyddol a ddefnyddiodd Gwynn Jones yn ystod ei yrfa.⁶⁶ Mae'r manylion cyhoeddi a ysgrifennwyd â llaw ar y clawr yn nodi: 'Aberystwyth:/ argraffwyd gan George/ Jones a'i Gwmni/ 1912'.⁶⁷ Nid oes unrhyw dystiolaeth fod cwmni cyhoeddi o'r enw hwn yn bodoli yn Aberystwyth, na chwaith fod 'Tir na n-Og' wedi ei chyhoeddi ym 1912.⁶⁸

Fel y gwyddys o ystyried y gyfrol *Gweith Argoed Llwyvein*, ffug-astudiaeth ar Ganu Taliesin, roedd Gwynn Jones yn hoff o chwarae triciau lleyddol. Cafodd cant o gopïau o'r gwaith hwnnw eu hargraffu, ac fe'u hanfonwyd, yn ddiennw, at nifer o ysgolheigion Cymraeg a Cheltaidd. Astudiaeth gan 'S. O'Brédasant' ar theori 'Dr. Dreistaub' ydyw, ac mae'n honni y ceir yn Llyfr Taliesin broffwydoliaeth am Frwydr Louvain yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf ym 1914.⁶⁹ Ceir enghraifft arall o hoffter Gwynn Jones o ddychan mewn cerdd sy'n parodio seremoni gosod carreg sylfaen y Llyfrgell Genedlaethol, ac sy'n adrodd yr hanes gan ddyfeisio enwau ffug ar gyfer y bobl a oedd yn gweithio yno.⁷⁰ Y mae'r gerdd, er enghraifft, yn galw Sir John Ballinger, y Prif Lyfrgellydd, yn 'Casganellis', gan gyfeirio at ei anghydfod â dyn o'r enw Ellis, cyfaill i Gwynn Jones a oedd hefyd yn gweithio yn y Llyfrgell. Cadwyd y darn hwn dan embargo hyd 1999, gan ei fod yn cynnwys sylwadau personol am nifer o ffigyrau pwysig. Mae'n werth nodi fel yr aeth Gwynn Jones i'r drafferth o gopïo'r gwaith hwn â llaw yn gain a'i gadw. Mae'r clawr ar gyfer 'Tir na nOg' y cyfeiriwyd

⁶⁶ Gweler D. Hywel E. Roberts (gol.), *Llyfryddiaeth Thomas Gwynn Jones* (Caerdydd, 1981), 347.



⁶⁷ T. Gwynn Jones, llun clawr 'Tir na nOg', Papurau TGJ, C3, LIGC.

⁶⁸ Diddorol nodi fod yna George Jones yn gweithio yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, yng ngwasg y Llyfrgell, yn y cyfnod hwn. Roedd Gwynn Jones hefyd yn gweithio yn y Llyfrgell yn y cyfnod dan sylw; gweler David Jenkins, 'Jones, George Daniel', <<http://yba.llgc.org.uk/cy/c4-JONE-DAN-1877.html>>; cyrchwyd 5 Mehefin 2014.

⁶⁹ S. O'Brédasant (T. Gwynn Jones), *Gweith Argoed Llwyvein: Darganfyddiadau'r Dr Dreistaub* (Dulyn, 1943).

⁷⁰ Casglwyd yr wybodaeth ynghylch y gerdd barodiol hon gan yr awdur presennol mewn sgwrs ag Emrys Wynn Jones, 30 Gorffennaf 2014.


ato uchod yn enghraifft ddiddorol arall o Gwynn Jones yn cynhyrchu fersiynau cain o'i weithiau. O ran dyddio Fersiwn D, gellid bwrw amcan ei bod yn perthyn i gyfnod 1910-12, oherwydd y dyddiad sydd ar y clawr hwn, ynghyd â'r ffaith fod Fersiwn C, Fersiwn D a'r clawr wedi eu cadw gyda'i gilydd yn yr un man (C3, yn ôl catalog LIGC) ym mhapurau sylweddol T. Gwynn Jones yn y Llyfrgell Genedlaethol.



T. Gwynn Jones, clawr drafft o 'Tir na n-Og' [Fersiwn D], a chlawr ar gyfer 'Tir na nOg', Papurau TGJ, C3, LIGC.
© Ystâd ac etifeddion T. Gwynn Jones. Cedwir pob hawl.

Ffactor arall sydd o gymorth wrth geisio dyddio Fersiwn D yw'r is-deitl a roddir arno: 'Geiriau Operetta Delynegol', sy'n cyfateb yn union i'r term a ddefnyddia Gwynn Jones mewn dau lythyr o'r cyfnod sy'n trafod y cyfansoddiad, sef 'operetta'. Gellid damcaniaethu ar sail y defnydd o'r derminoleg hon fod y gwaith yn perthyn i'r cyfnod cynnar hwn, sef 1910-12. Dywed Gwynn Jones wrth J. W. Jones yn Hydref 1910 ei fod wedi cael cais gan David Evans am libreto ar gyfer 'operetta fechan Gymreig', ac mewn llythyr at J. Herbert Roberts ym 1913, meddai: 'I put it

into the form of a lyrical operetta at the request of Mr. David Evans'.⁷¹ Er bod Fersiwn D wedi ei chopïo'n ofalus, daw'n amlwg fod y bardd wedi parhau i ailddrafftio'r awdl hyd yn oed wedi ei chreu yn y ffurf gain hon. O'r dudalen gyntaf hyd yr olaf, gwelir newidiadau i'r testun: geiriau wedi eu dileu, ac ychwanegiadau i'r gwaith yn y gwagle o amgylch y farddoniaeth ar y dudalen, fel y gwelir yn y llun isod:



T. Gwynn Jones, drafft o 'Tir na n-Og', Papurau TGJ, C3, LIGC [Fersiwn D].
© Ystâd ac etifeddion T. Gwynn Jones. Cedwir pob hawl.

Wrth gymharu Fersiwn D uchod â Fersiwn Ch (1910), a anfonwyd at J. W. Jones fel atodiad i lythyr, ceir tystiolaeth gadarn bod Fersiwn D wedi'i llunio'n ddiweddarach na Fersiwn Ch. Y mae yn Fersiwn D rai darnau sy'n ymddangos mewn fersiynau diweddarach o'r gerdd, ond nas gwelir mewn copïau cynharach (yn cynnwys Fersiwn

⁷¹ Llythyr, dyddiedig 13 Hydref 1910, gan TGJ at JWJ, Papurau JWJ, 107, LIGC; llythyr gan TGJ at J. Herbert Roberts, dyfynnwyd yn ap Gwynn, 'T. Gwynn Jones a David de Lloyd', 82.

Ch). Er enghraifft, wrth i Nia ei chyflwyno'i hun i Osian yn Fersiwn D, esbonia pam ei bod wedi dod ato, gan ddweud:

Eilio mawl dy odlau melys,
Osian hael, a glywswn i;-
E ddiflasai'r gerdd felysaf,
Enaid, wrth dy ganu di!⁷²

Nid yw'r pennill hwn, sydd wedi'i gynnwys mewn fersiynau cyhoeddedig diweddarach o'r awdl, i'w weld yn Fersiwn C nac Ch. Yn yr un modd, ymddengys yn Fersiwn D araith gan Osian yn sôn am ei resymau dros ddymuno dychwelyd i Erin, a'i hiraeth am ei gyfeillion:

Erin y môr! Yno mae
Y gwŷr y bum [*sic*] yn gwarae
Gyda hwy, ag wedi hyn
Ar gil yn gyrru'r gelyn;
Gad weled dy goed eilwaith
Erin y môr ewyn maith!⁷³

Nid yw'r darn hwn o gywydd i'w ganfod yn y drafftiau cynt, ond, unwaith eto, fe'i ceir mewn fersiynau diweddarach. Gwelir felly yn Fersiwn D ddatblygiad yng nghymeriadau'r awdl, gyda Gwynn Jones yn archwilio ymhellach gymhellion gweithredoedd Nia ac Osian. Drwy gynnig rheswm dros ddyfodiad Nia, a'i hawydd i briodi Osian wedi iddi glywed am ei allu fel bardd, dysgwn fwy amdani fel cymeriad. Cyn i Gwynn Jones gynnwys yr araith fechan honno, 'Eilio mawl dy odlau melys',⁷⁴ gellid dadlau bod Nia yn gymeriad annaeorol ac anodd ei deall: y mae'n anodd gwybod pam y byddai ar dywysoges Tír na nÓg eisiau priodi dyn meidrol fel Osian. Yn Fersiwn D, fodd bynnag, ceir mwy o wybodaeth am ei rhesymeg dros ei ddewis ef

⁷² Gwynn Jones, drafft o 'Tir na n-Og', Papurau TGJ, C3, LIGC [Fersiwn D].

⁷³ Ibid.

⁷⁴ Ibid.

fel gŵr. Yn yr un modd, drwy gyfrwng yr ymson gan Osian a ddyfynnwyd uchod, dysgw'n fwy am natur ei hiraeth am ei gartref, ei fod yn hiraethu yn gyffredinol am Iwerddon, ac yn benodol am gwmni y Ffaniaid, ei deulu a'i gyfeillion pennaf.

Diddorol yw nodi yma hefyd y cyfarwyddiadau llwyfan a geir ar ddechrau Fersiwn D. Ni cheir yn y fan hon gyfeiriad at unrhyw gerddoriaeth, fel yn Fersiwn C ('Orchestral music suggesting the baying of dogs and the blowing of horns +c'⁷⁵), ond yn hytrach ceir disgrifiad fel a ganlyn: 'Llannerch yn y Coed yn Ynys Rathlin yn Iwerddon. Gwelir y môr islaw, yn goch tan liw ymachlud haul yr hydref'.⁷⁶ Mae'r cyfeiriad penodol hwn at liw'r môr, a'r machlud yn yr hydref yn y cyfarwyddiadau llwyfan, yn dyst i bwysigrwydd yr adran agoriadol wreiddiol honno a geir yn fersiynau A a B, lle y disgrifir yn fanwl goed yr hydref a'r machlud dros ynys Rathlin. Dengys y cyfarwyddyd llwyfan hwn, sy'n pwysleisio 'ymachlud haul yr hydref',⁷⁷ fod y lliw coch hwn yn rhan annatod o'r olygfa agoriadol, nodwedd gyson yn yr holl fersiynau a drafodwyd.⁷⁸ Yn A a B (1910) ceir disgrifiad manwl o'r coed '[g]waedrudd'⁷⁹, yn C (1910) gwelir y cwpled 'Lliwiwyd y maith orllewin/ Gydag aur a gwaed a gwin'⁸⁰ fel dechrau gwreiddiol yr awdl, ond â llinell drwyddo wedi i Gwynn Jones ailfeddwl a'i adleoli i yng nghanol araith agoriadol Osian. Ymddengys y cwpled hwn yn yr un man yn yr holl fersiynau sy'n dilyn Fersiwn C, a thrwy gyfrwng cyfuniad o'r cyfarwyddiadau llwyfan a'r cwpled hwn, gwelir cyfeiriad yn y gwaith terfynol at arwyddocâd y ffynnon waed yn y chwedl wreiddiol.

⁷⁵ Gwynn Jones, drafft o 'Tir ná nOg', Papurau TGJ, C3, LIGC [Fersiwn C].

⁷⁶ Gwynn Jones, drafft o 'Tir na n-Og', Papurau TGJ, C3, LIGC [Fersiwn D].

⁷⁷ Ibid.

⁷⁸ Gwynn Jones, drafft dideitl, Papurau TGJ, E81, LIGC [Fersiwn A]; llythyr, dyddiedig 13 Hydref 1910, gan TGJ at JWJ, Papurau JWJ, 107, LIGC [Fersiwn B]; Gwynn Jones, drafft o 'Tir ná nOg', Papurau TGJ, C3, LIGC [Fersiwn C]; Gwynn Jones, drafft o 'Tir na n-Og', Papurau TGJ, C3, LIGC [Fersiwn D].

⁷⁹ Llythyr, dyddiedig 13 Hydref 1910, gan TGJ at JWJ, Papurau JWJ, 107, LIGC [Fersiwn B].

⁸⁰ Gwynn Jones, drafft o 'Tir ná nOg', Papurau TGJ, C3, LIGC [Fersiwn C].

Cyhoeddwyd yr awdl am y tro cyntaf yng nghyfrwl mis Mawrth o *The Welsh Outlook* ym 1916, cylchgrawn yr oedd R. Silyn Roberts yn ymwneud ag ef. Roedd T. Gwynn Jones a Silyn Roberts yn ffrindiau da, ac yn llythyru'n aml ynghylch materion llenyddol, proffesiynol a phersonol. Mae nifer o lythyrau Gwynn Jones at Silyn wedi eu cadw yn Archifdy Prifysgol Bangor, ac maent yn dyst i gyfeillgarwch y ddau. Ceir, er enghraifft, lythyr emosiynol ac agored gan Gwynn Jones at Silyn a anfonwyd yn ystod cyfnod Gwynn Jones yn yr Aifft ym 1905-6, pan fu farw ei frawd.⁸¹ Ymysg y papurau ceir un llythyr gan Gwynn Jones sy'n sôn am yr awdl 'Tir na n-Og', ac sy'n cynnwys copi o'r awdl: 'yr oeddwn wedi meddwl am gyhoeddi'r gerdd fach hon yn llyfryn [...] Tybiais y gallech hoffi ei chyhoeddi yn yr "Outlook" [...] Yr wyf yn ddigon hunanol i feddwl y byddai'n beth a garai rhai pobl a garaf finnu.'⁸² Dyddiad y llythyr hwn yw 14 Rhagfyr, 1915, a rhaid gofyn beth a barodd i Gwynn Jones benderfynu cynnig cyhoeddi'r awdl yr adeg hon yn benodol. Cydnebydd ei fod wedi bod yn gweithio arni ers tro – 'a'm bod wedi cymryd pum mlynedd i geisio ei pherffeithio', meddai.⁸³ Er gwaethaf yr holl waith mireinio, fodd bynnag, dywed nad yw eto'n siŵr beth yw union neges ei waith: 'Ni wn i [...] fy mod yn ei deall yn iawn, ond y mae ynnddi ryw ias o farwnad dyn i'w ieuenctid a'r pethau teg a garodd gynt'.⁸⁴

Tua diwedd y llythyr hwn at Silyn, ceir syniad o gyflwr meddwl yr heddychwr Gwynn Jones ddiwedd 1915, yng nghanol y Rhyfel Byd Cyntaf:

Dyma hwyrach y peth olaf a ganaf fi. Collwyd agos bopeth a garwn o'r byd, ond ychydig gyfeillion, ac y mae rhai ohonynt hwythau yn fy namnio. Fy nheimplad i yw y dylai'r Wladwriaeth fy saethu, gan nad oes iddi angen am gymaint ag un o'm beth i

⁸¹ Llythyr, dyddiedig 29 Ionawr 1906, Llawysgrif Bangor, BMSS-19466, Archifau a Chasgliadau Arbennig, Prifysgol Bangor [APB].

⁸² Llythyr, dyddiedig 14 Rhagfyr 1915, gan TGJ at R. Silyn Roberts [RSR], Llawysgrif Bangor, BMSS-19485, APB.

⁸³ Ibid.

⁸⁴ Ibid.

mwy, ac nad oes gennyf finnau y mymryn lleiaf o barch iddi hithau nag o ymddiried ynddi.⁸⁵

Mae'r datganiad eithafol hwn yn cadarnhau pa mor ddiobaith y teimlai Gwynn Jones yn ystod y cyfnod tywyll hwn. Cly Gwynn Jones ei lythyr gan ddweud, 'Yr ym [*sic*] ni yn lled dda i gyd o ran iechyd corff'⁸⁶ (sylwn ar y pwyslais yn y fan hon ar y corfforol yn hytrach na'r meddyliol). Dywed David Jenkins yn ei gofiant i'r bardd: 'Yn ôl Gwynn, meithrinfa pob diawledigrwydd oedd rhyfel',⁸⁷ ac mae'r farn hon yn cael ei harddangos nid yn unig yn y llythyr a ddyfynnir uchod ond hefyd mewn dyddiadur yr oedd Gwynn Jones yn ei gadw yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, 'Diary of a Pacifist'. Mae'r llyfryn bychan hwn yn llawn o ddatganiadau chwyrn yn erbyn y rhyfel a'i gefnogwyr, ac yn adrodd hanesion megis erlid darlithiwr Almaeneg o'r dref ('Aberystwyth has made itself notorious. There has been a hunt for aliens'), a Gwynn Jones yn cerdded allan o'r capel wedi i'r pregethwr weddio am fuddugoliaeth: 'One evening, when the Rev. R. J. Rees officiated, I failed to put up with it any longer, + left the building when they were singing after the introductory prayer, which was no better than a barbarian's appeal to the god of his tribe'.⁸⁸ Dywed yn y dyddiadur ym mis Mai 1915: 'The world is now mad, at any rate. The best place to be now would be in Hell. All the devils are out'.⁸⁹

Tybed ai canlyniad yr atgasedd hwn tuag at ryfel, a'i deimladau o anobaith yn ystod y cyfnod hwn, oedd ei benderfyniad i gyhoeddi'r awdl 'Tir na n-Og'? Gwelodd ynddi 'farwnad dyn [...] [i'r] pethau teg a garodd gynt'.⁹⁰ Ymddengys iddo fethu

⁸⁵ Ibid.

⁸⁶ Ibid.

⁸⁷ David Jenkins, *Thomas Gwynn Jones: Cofiant* (Llandybïe, 1973), 232.

⁸⁸ T. Gwynn Jones, 'Diary of a Pacifist', Casgliad TGJ, D293, LIGC, 10, 29.

⁸⁹ Ibid., 35.

⁹⁰ Llythyr, dyddiedig 14 Rhagfyr 1915, gan TGJ at RSR, Llawysgrif Bangor, BMSS-19485, APB.

gweld rheswm i barhau i gynhyrchu gwaith, nac i fyw hyd yn oed – ‘dylai’r Wladwriaeth fy saethu, gan nad oes iddi angen am gymaint ag un o’r beth i mwy’ – ac iddo gyhoeddi’r ‘farwnad’ hon i gloi ei yrfa lenyddol ac i ffarwelio â’r byd a oedd yn bodoli cyn dechrau’r rhyfel.⁹¹ Wedi i Osian ddychwelyd i’w gartref wedi tri chan mlynedd, hiraetha am yr hyn a fu:

A’r hannedd yma heddyw,
Wele, noeth adfeilion yw!
Gwae hefyd yw, mi gofiau,
Fel doe’r oedd dan flodau’r haf,
A disglain des glân y dydd
Ag aur yn tôi’r magwrydd.⁹²

Nid yw Osian bellach yn adnabod Iwerddon, ac yn yr un ffordd, nid oedd Gwynn Jones yn medru adnabod ei dref a’i wlad ei hun wrth i’w trigolion gefnogi’r ymgyrch ryfelgar. Er i Gwynn Jones ddechrau gweithio ar y gerdd cyn bod dechrau sôn am Ryfel Byd, unwaith y daeth y rhyfel, gwelodd arwyddocâd newydd i neges ei awdl. Dywedodd ym 1915, ‘The world has gone mad’, ac mae’n bosibl mai ei ymateb i’r gorffwylltra hwn o’i gwmpas oedd y penderfyniad i gyhoeddi’r awdl hon y bu ef mor hir yn ei chywreinio.

Y mae’r copi bychan mewn llawysgrifen a anfonodd Gwynn Jones at Silyn gyda’r llythyr a ddyfynnwyd uchod wedi’i gadw gyda’r llythyr hwnnw yng Nghasgliad Llawysgrifau Bangor yn y brifysgol honno. Cyfeirir at y fersiwn hon fel Fersiwn Dd, a gwyddys ei bod yn dyddio o 1915, ar sail y dyddiad sydd ar y llythyr sydd ynghlwm â hi. Dywed Gwynn Jones ei fod wedi bod yn perffeithio’r gerdd am bum mlynedd, ac felly dadlennol yma fyddai cymharu Fersiwn Dd â’r fersiwn flaenorol, Fersiwn D, sydd yn ôl pob tebyg yn perthyn i’r cyfnod cynnar hwnnw o

⁹¹ Ibid.

⁹² Gwynn Jones, ‘Tir na n-Og’, yn *Caniadau*, 71.

gyfansoddi, rhwng 1910 a 1912. Un o'r prif wahaniaethau rhwng Fersiynau D ac Dd yw bod Gwynn Jones wedi newid y ffordd y mae'n cyfeirio at y gerdd. Yn achos Fersiwn D, ni chyfeirir at y gwaith fel 'awdl' o gwbl, ond yn hytrach ceir yr is-deitl 'Geiriau Operetta Delynegol' ar y fersiwn hon.⁹³ Cyfeirir at y gerdd, yn Fersiwn Dd, fodd bynnag, fel 'Awdl Delynegol at Beroriaeth' am y tro cyntaf.⁹⁴ Mae'r pwyslais wedi newid: mae'r gerddoriaeth yn dal i chwarae rhan bwysig, ond fe bwysleisir hefyd ei statws barddonol. Erbyn 1915, felly, mae'r darn a grëwyd 'at beroriaeth' hefyd yn hawlio sylw fel awdl.

Rhaid gofyn yma beth a achosodd y newid hwn. Wrth i'r prosiect gwreiddiol, sef yr opera ar y cyd â David Evans, fynd i'r gwellt, ac i Evans roi'r gorau i'w ymgais i gyfansoddi cerddoriaeth ar gyfer y geiriau hyn, mae'n bosibl y byddai Gwynn Jones wedi dechrau meddwl am y gwaith mewn ffordd wahanol. Amlygir hyn, efallai, yn ei benderfyniad i gyhoeddi'r gwaith er na chwblhawyd y gerddoriaeth. Rhaid cofio iddo gyfansoddi awdl yn y cychwyn cyntaf heb ysgogiad cerddorol, ac, wedi aildefnyddio llawer o'r deunydd gwreiddiol i greu ei libreto yn ddiweddarach, yr oedd efallai'n dal i deimlo y byddai darllenwyr barddoniaeth Gymraeg yn gwerthfawrogi'r gwaith. Mae'r is-deitl 'Geiriau Operetta Delynegol' ar Fersiwn D yn awgrymu bod y geiriau yn ddibynnol ar y gerddoriaeth am eu llwyddiant, ac felly wrth feddwl am gyhoeddi'r gwaith hwn fel cerdd yn ei hawl ei hun, rhoddodd Gwynn Jones wedd wahanol arni gyda'r is-deitl 'Awdl Delynegol at Beroriaeth'. Mae'r gerddoriaeth a sbardunodd ffurf unigryw'r gwaith yn dal yn bresennol, ond nid yw bellach yn allweddol.

⁹³ Gweler Gwynn Jones, drafftiau o 'Tir ná nOg', 'Tir na n-Og', Papurau TGJ, C3, LIGC [Fersiynau C a D]; Llythyr, dyddiedig 13 Hydref 1910, gan TGJ at JWJ, Papurau JWJ, 107, LIGC [Fersiwn Ch].

⁹⁴ T. Gwynn Jones, drafft o 'Tir na n-Og', Llawysgrif Bangor, BMSS-19485, APB [Fersiwn Dd].

O ran cynnwys Fersiwn Dd (1915) o'i chymharu â fersiynau cynharach, gwelir nifer o newidiadau i'r testun. Ychwanegwyd cwpledi a llinellau yma a thraw drwy'r gwaith, ac fe geir rhai llinellau sydd wedi'u dileu, a llinellau gwahanol yn eu lle. Saif nifer o'r newidiadau hyn wedyn mewn fersiynau diweddarach o'r gwaith. Un o'r newidiadau pwysicaf, efallai, yw disgrifiad Nia o Tír na nÓg yn Rhan I. Ymddengys yn Fersiwn D (1910-12) fel hyn:

Gloewon feini, glanaf fanaur,
Gwin a braint, a gwenau bri,
Mawl y delyn mal y diliau
Mwyna serch fy mynwes i!⁹⁵

Yn fersiwn Dd (1915), fodd bynnag, gwedd lai materol o lawer a geir ar Tír na nÓg:

Dolau, glynnoedd, deiliog lwyni,
Heulwen haf i'th lawenhau;
Mawl y delyn mal y diliau,
Gleiniau fil, a'r galon fau!⁹⁶

Mae pleserau byd natur Fersiwn Dd, y dolau a'r glynnoedd, yn cymryd lle'r meini gloyw, yr aur a'r bri sy'n temtio Osian yn Fersiwn D. Y disgrifiad hwn yn Fersiwn D yw'r unig gyfeiriad a geir drwy'r gwaith at gyfoeth materol, sydd, fel y gwelir uchod, wedi ei ddileu erbyn y fersiwn nesaf. Mae'n ddigon posibl fod Gwynn Jones, wrth adolygu ei awdl, wedi penderfynu nad oedd y ddelweddaeth faterol hon yn cyd-fynd â'i syniad o Tír na nÓg. Dyma fyd o hapusrwydd pur, 'heb wae trist' a heb 'arwydd henaint'.⁹⁷ Mae'r trigolion yn byw'n dragwyddol yn haf eu dyddiau, ac mae'r 'deiliog lwyni' a'r blodau hardd a addurna'r lle yn adlewyrchu hyn.⁹⁸ Gwrthgyferbynna'r

⁹⁵ Gwynn Jones, drafft o 'Tir na n-Og', Papurau TGJ, C3, LIGC [Fersiwn D].

⁹⁶ Gwynn Jones, drafft o 'Tir na n-Óg', Llawysgrif Bangor, BMSS-19485, APB [Fersiwn Dd].

⁹⁷ Ibid.

⁹⁸ Ibid.

disgrifiadau o Rathlin yn yr Hydref, cyfnod lle mae'r dail yn crino a'r blodau'n gwywo, â ffyniant ffrwythlon Tír na nÓg, gan ddynodi cyfnod y Ffaniaid yn dod i ben yn Iwerddon. Nid yw'n annisgwyl felly, o ystyried pwysigrwydd delweddaeth byd natur i'r gwaith, fod T. Gwynn Jones wedi newid pwyslais un o'r prif ddisgrifiadau a gawn o wlad hudol Tír na nÓg fel ei fod yn cylchdroi o amgylch nodweddion naturiol yn hytrach na materol.

Fe ymddangosodd yr awdl yn *The Welsh Outlook* ym mis Mawrth, 1916, a dyma fersiwn gyhoeddedig gyntaf y gerdd, a elwir yma'n Fersiwn E. Fe gyhoeddwyd llyfryn yn cynnwys yr awdl a cherddi eraill o eiddo'r bardd yn ddiweddarach yn y flwyddyn honno, ac fe gyfeirir yn y traethawd presennol at yr awdl fel yr ymddengys yn y llyfryn hwnnw fel Fersiwn F. Fel y gellid disgwyl, ni cheir llawer o wahaniaethau o gwbl rhwng Fersiwn Dd a Fersiynau E ac F. Cedwir yr is-deitl 'Awdl Delynegol at Beroriaeth' yn y tair, gan gadw'r cysylltiad hwnnw â tharddiad cerddorol y gwaith. Diddorol yw nodi nad yw Gwynn Jones, fodd bynnag, yn cyfeirio o gwbl at y gerddoriaeth a ysgogodd y gerdd yn ei ragymadrodd i Fersiwn F (1916), y llyfryn cyhoeddedig, ond yn hytrach yn canolbwyntio ar roi amlinelliad o gynnwys y chwedl wreiddiol.

Ar ôl cyhoeddi'r awdl delynegol, wedi chwe blynedd o gywreinio, ymddengys fel petai Gwynn Jones o'r diwedd yn hapus â'i waith. Ond fe ddaeth newid arall: cyhoeddwyd 'Tir na n-Og' ym 1926, fel rhan o'r gyfrol *Detholiad o Ganiadau* a gyhoeddwyd gan Wasg Gregynog. Mae'r testun, yn ei hanfod, yn ddigon tebyg i'r hyn a geir yng nghyhoeddiadau 1916 (Fersiynau E ac F), ar wahân i un newid arwyddocaol i'r stori ei hun, a welir mewn cyfarwyddyd llwyfan. Cyfeiriwyd uchod at sut y daeth Gwynn Jones ar draws stori Tír na nÓg, ac, wedi iddo ddarllen cyfrol o straeon Gwyddeleg a gasglwyd gan Aoidhmín Mac Gréagóir, fe'i hudwyd gan hanes

Oisín a Niamh: ‘Yr oedd yn y llyfryn un ystori a’ m swynodd yn llwyr, ac na allwn beidio a chanu awdl arni’.⁹⁹ Ym 1910, anfonodd Gwynn Jones llythyr, nad ydyw’n goroesi, at ei gyfaill o Wyddel, Tórna. Roedd y llythyr, gellid bwrw, yn gofyn barn Tórna ynghylch y stori fel yr oedd hi gan Mac Gréagóir – stori o’r enw ‘An tSealg’.¹⁰⁰

Nid yw union ddyddiad llythyr cyntaf Gwynn Jones at Tórna yn hysbys, ond ar 5 Hydref 1910 cafodd ateb oddi wrth ei gyfaill yn ymddiheuro am fod mor hir yn ymateb: ‘Can you forgive my long silence? Do try. I have been very busy’.¹⁰¹ Ynndo, awgryma Tórna y dylai Gwynn Jones ddarllen fersiwn arall ar y stori, *laoi* gan fardd o’r enw Micheál Coimín (c.1688-1760), gan ddweud: ‘It [stori Mac Gréagóir] seems to be a mixture of two old Ossianic lays, one called an tSealg or Laoi na Seilge (Lay of the Chase) and the other Laoi Oisín ar Tir na nÓg, the Laoi of Oisín on Tir na nÓg. The latter is probably the one you want, so I am sending you Mr. Flannery’s edition of it’.¹⁰² Noda Tórna nad yw’r gwaith olaf hwn, gwaith Coimín, wedi ei olygu gan Tomás Ó Flannghaile (dyma ‘Mr. Flannery’), yn hen iawn, ond bod y stori ei hun yn perthyn i draddodiad hynafol barddoniaeth Osianaidd. Dywed J. E. Caerwyn Williams fod y farddoniaeth hon wedi parhau yn ‘rhan o dreftadaeth fyw’r genedl’, a bod beirdd wedi parhau i ychwanegu at y traddodiad Osianaidd dros y blynyddoedd.¹⁰³ ‘Un o’r ychwanegiadau mwyaf llwyddiannus’, yn ôl Caerwyn Williams, ‘oedd cân Micheal Cuimin [*sic*] [...] Wrth ddisgrifio taith Oisín i Wlad yr Ifanc, diau ddarfod i Michael Cuimin [...] wneud yr hyn y dymunasai miloedd fod wedi ei wneud’.¹⁰⁴ Gan

⁹⁹ Llythyr, dyddiedig 13 Hydref 1910, gan TGJ at JWJ, Papurau J. W. Jones, 107, LIGC.

¹⁰⁰ Gweler ap Gwilym, ‘Rhagymadrodd’, 22.

¹⁰¹ Llythyr, dyddiedig 5 Hydref 1910, gan Tadhg Ó Donnchadha at TGJ, Papurau TGJ, G4185, LIGC.

¹⁰² Ibid.

¹⁰³ J. E. Caerwyn Williams, *Traddodiad Llenyddol Iwerddon* (Caerdydd, 1958), 103.

¹⁰⁴ Ibid., 104.

ystyried llwyddiant cerdd Coimín, felly, nid yw'n syndod i Tórna anfon y gwaith hwn at Gwynn Jones i'w ddefnyddio fel ffynhonnell.

Yn ei ragymadrodd i'r gyfrol ar T. Gwynn Jones yng Nghyfres y Meistri, trafoda Gwynn ap Gwilym yr awdl a'i ffynonellau, gan honni na chafodd awgrym Tórna ynghylch golygiad Flannery o *laoi* Coimín unrhyw ddylanwad ar T. Gwynn Jones: 'Yr oedd Gwynn, erbyn diwedd Tachwedd 1910, wedi cwblhau'r awdl, ac er iddo dreulio rhai blynyddoedd yn ei pherffeithio a'i chaboli, ni soniodd hyd yn oed yn ei Ragair i argraffiad 1916 ohoni fod arni ddim o ddylanwad cyfrol Flannery: Mac Gréagóir o hyd yw'r ffynhonnell a enwir'.¹⁰⁵ Deillia dadl Gwynn ap Gwilym yn rhannol o fanylion cronolegol: awgryma fod y llythyr gan Tórna at Gwynn Jones, a anfonwyd ym mis Tachwedd (yn ôl ap Gwilym), wedi cyrraedd yn rhy hwyr i Gwynn Jones allu gwneud defnydd o'i gynnwys, am fod fersiwn gyfan o'r awdl wedi ei chynnwys fel atodiad i lythyr (at J. W. Jones) yn dwyn y dyddiad 13 Hydref, 1910. Er bod ymddiheuriad Tórna yn awgrymu cyfnod hir o beidio â chysylltu, y mae'n bwysig nodi mai 5 Hydref, nid 5 Tachwedd, fel y noda ap Gwilym, yw'r dyddiad ar y llythyr hwn.¹⁰⁶

Er gwaethaf dyddiad llythyr Tórna, sef 5 Hydref 1910, pwysig nodi yn y cyswllt hwn fodolaeth llythyr gan T. Gwynn Jones at ei gyfaill, dyddiedig 25 Hydref 1910:

Dyma'r Laoi Oisín ar Thír na nÓg newydd gyrraedd. Darllenais hi o'i dechrau i'w diwedd cyn cyfodi oddiar fy nghadair. Good Lord! what a poet Micheál Coimín was! And how you Irishmen went astray when so many of you left the superb old language for the damned Sassenach! If ever there was an Irishman, count me for one as long as I live, for I am simply swept away by everything Irish I read. This song is in its way fit to rank with the

¹⁰⁵ ap Gwilym, 'Rhagymadrodd', 28.

¹⁰⁶ Llythyr, dyddiedig Hydref 5 1910, gan Tadhg Ó Donnchadha at TGJ, Papurau TGJ, G4185, LIGC.

Iliad any day, ac yn wir, onid yw, croger fi yfory nesaf! [...] Am fy ngherdd i ar Dir na nOg, diolch yn fawr i chwi am yr eglurhad ar yr ystori a'r geiriau. Y mae cerdd Coimín mor odidog fel y byddai'n well i mi gymeryd ystori foel pobl Rathlin yn sail i'm cerdd, rhag i mi fyned i wneud dim ond cyfieithu.¹⁰⁷

Ar sail y datganiad gan Gwynn Jones fod cerdd Coimín 'newydd gyrraedd', ymddengys fod y llythyr hwn wedi'i gyfansoddi bron yn union wedi i Gwynn Jones dderbyn un Tórna. Ymhellach, awgrymir nad oedd Gwynn Jones yn bwriadu newid yr awdl yr oedd eisoes wedi ei chyfansoddi (gweler Fersiynau C ac Ch) yn sgil y testun newydd yr oedd wedi'i dderbyn gan Tórna: 'Y mae cerdd Coimín mor odidog fel y byddai'n well i mi gymeryd ystori foel pobl Rathlin [hynny yw, fersiwn Mac Gréagóir] yn sail i'm cerdd, rhag i mi fyned i wneud dim ond cyfieithu [hynny yw, cyfieithu cerdd Coimín].' Er bod Gwynn ap Gwilym yn dibynnu felly ar ddyddiad anghywir yn ei ddadl ef, sef 5 Tachwedd 1910, rhaid cydnabod bod yr hyn a ddadleua'n gywir: nad oedd Gwynn Jones wedi darllen *laoi* Coimín nes ar ôl iddo greu Fersiwn Ch.

Dangoswyd uchod natur y gwahaniaethau rhwng gwahanol fersiynau'r awdl o'r drafft cyntaf ar ffurf deialog, Fersiwn C, ym 1910, i'r cyhoeddiadau cyntaf gan *The Welsh Outlook* ym 1916, Fersiynau E ac F, ac fe welwyd mai newidiadau bychain, ar y cyfan, a wnaed i'r testunau hyn dros gyfnod o chwe blynedd. Yn ei hanfod, y mae'r stori ei hun, ac arddull y cyfansoddiad, yn debyg ymhob fersiwn. Tyn Gwynn ap Gwilym sylw at ragair Gwynn Jones i'r gerdd yng nghyhoeddiad *The Welsh Outlook*, Fersiwn F (1916), gan nodi nad yw'r bardd yn sôn yno am unrhyw ddyled i Coimín. Er bod Gwynn Jones yn ei ragair i Fersiwn F yn llawn canmoliaeth

¹⁰⁷ Llythyr, dyddiedig 25 Hydref 1910, gan TGJ at Tadhg Ó Donnchadha, dyfynnwyd yn Dewi Wyn Evans, 'Gweddu mae'r Cymro a'r Gwyddel: T. Gwynn Jones a Tórna', *Darlith a draddodwyd yng Nghyngres Geltaidd Corc*, 1999 (anghyhoeddedig), 8-9.

i'r gerdd Wyddeleg gan Coimín, nid yw'n honni ei bod wedi dylanwadu arno wrth iddo wrth gyfansoddi: 'Y mae "Laoi Oisín ar Thir na n-Óg" [*sic*], gwaith Micheál Coimín [...] yn adnabyddus iawn [...] Ychydig gerddi o'r math hwn yn unman, yn wir, a ddeil i'w chymharu â cherdd Coimín. Y mae miwsig y geiriau a'r mydr yn ei benillion goreu yn ddihafal'.¹⁰⁸ Ymhellach, yn y rhagair hwnnw, dywed y bardd: 'Sail y gerdd hon, a sgrifennwyd chwe blynedd yn ôl, yw'r ffurf ar chwedl Osian yn Nhir na n-Og a geir mewn casgliad bychan o hen chwedlau Gwyddeleg a gafodd Mr. Aoidhmin Mac Greagoir ar dafod leferydd yn Ynys Rathlin.'¹⁰⁹ Yn gyson â'r datganiad hwn, gwelir bod y fersiynau cynnar hyn o'r gwaith hyd at Fersiwn F yn fwy tebyg o lawer i ryddiaith Mac Gréagóir nag i *laoi* Coimín o ran digwyddiadau a strwythur y stori. Yn yr awdl, y mae Osian yn marw ar ôl cyffwrdd tir Iwerddon, fel y mae Oisín yn ei wneud yn rhyddiaith Mac Gréagóir; yn fersiwn Coimín, serch hynny, ni chaiff Oisín ei ladd ond yn hytrach try'n hen ddyn dall sy'n adrodd ei hanes wrth Sant Padrig.¹¹⁰ Y mae *laoi* Coimín hefyd yn cynnwys nifer o ddigwyddiadau nad ydynt yn ymddangos yn yr awdl nac yn rhyddiaith Mac Gréagóir, megis araith emosiynol Fionn mac Cumhaill i Oisín wrth i'w fab baratoi i adael Iwerddon, yn ogystal â'r olygfa hir lle gwelir Oisín yn ymladd gyda chawr.¹¹¹

Rhaid derbyn, felly, mai bychan oedd y dylanwad a gafodd gwaith Coimín ar fersiynau C-F (1910-16) o 'Tir na n-Og'. Er hyn, fel y mae'r bennod hon a'i hamlinelliad o'r holl wahanol fersiynau o'r gwaith yn tystio, treuliodd Gwynn Jones flynyddoedd yn ailddrafftio'r awdl, ac ni cheir ffurf hollol derfynol arni tan y 1930au. Mae'n ddiddorol yn y cyswllt hwn fod Gwynn ap Gwilym yn diystyru unrhyw

¹⁰⁸ T. Gwynn Jones, 'Rhagair', *Tir na n-Óg*, vii.

¹⁰⁹ *Ibid.*, i.

¹¹⁰ Mac Gréagóir, 'An tSealg', Mac Giolla Domhnaigh, Gearóid, Stockman, Gearóid (goln), *Athchló Ulach* (Ulster, Comhaltas Uladh de Chonradh na Gaeilge, 1991), 29; Tomás Ó Flannghaile (gol.) *Laoi Oisín ar Thir na n-Óg*, (London, 1896), 74-6.

¹¹¹ Ó Flannghaile (gol.) *Laoi Oisín ar Thir na n-Óg*, 22-3, 30-40.

bosibilrwydd fod *laoi* Coimín wedi cael unrhyw ddylanwad ar awdl Gwynn Jones, ac er iddo gydnabod i'r bardd dreulio llawer o amser yn 'ei pherffeithio a'i chaboli',¹¹² nid yw'n mynd ati i ystyried sut y newidiodd y gwaith wedi 1916. Mewn gwirionedd, os archwilir y fersiynau o 1916 ymlaen, gwelir newid pwysig yn y testun rhwng Fersiwn F (1916) a Fersiwn Ff (1926), gyda'r olaf yn ymddangos yn argraffiad Gwasg Gregynog, *Detholiad o Ganiadau*. Yn rhestr gynnwys y gyfrol honno nodir wrth ymyl 'Tir na n-Óg' dri dyddiad – 1910, 1916 a 1925 – felly ni ellir peidio ag ystyried y gwahaniaethau rhwng fersiwn Gwasg Gregynog (a ymddangosodd ym 1926, ond a gyflwynwyd i'r wasg ym 1925) a fersiynau blaenorol. Daw'r prif wahaniaeth yn un o'r cyfeiriadau llwyfan, ac mae hyn yn arwyddocaol yng nghydestun dadl Gwynn ap Gwilym. Er mwyn deall arwyddocâd y newid, edrychir yn gyntaf ar sut y mae'r ddwy ffynhonnell Wyddeleg – Mac Gréagóir a Coimín – yn portreadu'r digwyddiad tyngedfennol ar ddiwedd y stori, sef Osian yn dod oddi ar ei geffyl a chyffwrdd â llawr Iwerddon.

Mae gan y ddwy ffynhonnell ffordd wahanol o drin y digwyddiad hwn. Dyma, yn gyntaf, yr hyn a ddywed rhyddiaith Mac Gréagóir:

Annsin rug Oisín ar an chloch, is tóg é suas í ar an chaiseal cha
rabh cloch acht suas far gur bhuail a chos ar fharrán na hÉireann
ná

Do chaill é amharc a shúl,
A dhealbh a ghnúis is a sgáil,
Do bha é 'n-a shean fhear bocht dall
Ban brígh gan mheabhair gan (áird) cáil.

Fuair an deich is da fhichid é in a shean-fhear críon agus é ag
fághail bháis.¹¹³

Dyma gyfieithiad Gwynn ap Gwilym o'r uchod:

Yna, gafaelodd Oisín yn y garreg, a chododd hi fry i ben y wal;
nid oedd y garreg ond prin wedi'i chodi na chyffyrddodd ei droed
â thir Iwerddon, ac y

¹¹² ap Gwilym, 'Rhagymadrodd', 28.

¹¹³ Mac Gréagóir, 'An tSealg', 29.

Collodd olwg ei lygaid,
A'i bryd a'i wedd a'i liw;
Yr oedd yn henwr tlawd, dall,
Heb ynni, heb reswm, heb bwyll.
Fe'i cafodd y deg gŵr a deugain ef yn henwr gwywedig, ac yntau
ar farw.¹¹⁴

Mae union natur y digwyddiadau yn y fan hon yn amwys, ac fe ellir o ganlyniad ddehongli'r testun hwn mewn dwy ffordd: bod Oisín naill ai wedi camu, yn fwriadol neu beidio, oddi ar ei geffyl wrth godi'r garreg, neu ei fod wedi cwmpo i'r llawr yn ddamweiniol o ganlyniad i'w phwysau. Y mae *laoi* Coimín, fodd bynnag, yn disgrifio'r digwyddiad yn glir fel damwain; cwmp Oisín oddi ar ei geffyl o ganlyniad i geisio dangos ei hun wedi sylw gan un o'r seiri:

CXLVI
Do luigheas ar mo chliathán deas
'S do rugas ar an leac am' láimh –
Le neart agus le lúth mo gheug
Do chuireas seacht b-péirse í ón áit!

CXLVII
Le feidhm na leice lán-mhóir'
Do bhris giorta óir an eich bháin –
Do thángas anuas go lán-docht
Ar bhunn mo dhá chos ar an m-bán!¹¹⁵

CXLVIII
Ní túisce tháinig mé anuas
Ná ghlac uamhan an t-each bán,
D'imthigh sé ann sin chum siubhail
As mise fá phudhar go lag, tláth!

CXLIX
Do chailleas radharc mo shúl
Mo dhealbh, mo ghnúis agus mo scáil,
Do bhíos am' sheanóir bhocht, dall
Gan bhrigh, gan mheamhair, gan áird!¹¹⁶

Ac yng nghyfieithiad Ó Flannghaile:

¹¹⁴ ap Gwilym, cyfeithiad 'An tSealg', yn 'Rhagymadrodd', 27.

¹¹⁵ Ó Flannghaile (gol.), *Laoi Oisín ar Thír na n-Óg*, 74.

¹¹⁶ Ó Flannghaile (gol.), *Laoi Oisín ar Thír na n-Óg*, 74-6.

[146] I leaned to my right side and seized the flag [flagstone] in one hand – with the strength and vigour of my arms I cast it seven perches from that spot!

[147] With the exertion of hurling that very great flag the golden girth of the white steed broke – full swiftly I came to the ground on the soles of my feet.

[148] No sooner had I come down than fear seized the white steed – he ran off then away, and I in grief (left) weak and helpless!

[149] I lost the sight of my eyes, my figure, my (fair) countenance, and my bloom – (and) I was a poor, blind old man, powerless, witless, unhonoured!¹¹⁷

Yn yr un modd, y mae Fersiwn F (1916) a Fersiwn Ff (1926) yn wahanol o ran union fanylion y digwyddiad hwn. Dywed Fersiwn F, yn un o'r cyfarwyddiadau llwyfan:

*Daw Osian oddiar ei farch. Cyfyd y maen, a dyd ef ar y mur. Yna, try at y Seiri. Y mae yn hen ŵr llesg.*¹¹⁸

Yn wahanol i'r hyn a geir yn Fersiwn F (1916), mae'r digwyddiad a drafodir uchod yn Fersiwn Ff, sef y fersiwn o'r awdl a gyhoeddwyd yn *Detholiad o Ganiadau*, fel a ganlyn:

*Plyg Osian, cyfyd y maen a'i ddodi ar y mur. Wrth iddo wneuthur hynny, tyrr cengl y cyfrwy, a syrth yntau ar lawr. Rhed y Seiri ato a'i gyfodi, yn hen ŵr llesg.*¹¹⁹

Os cymherir y dyfyniad hwn â'r un digwyddiad fel y caiff ei ddisgrifio yn *laoi Coimin*, hawdd yw gweld tebygrwydd rhwng y ddau:

CXLVI
Do luigheas ar mo chliathán deas
'S do rugas ar an leac am' láimh –
Le neart agus le lúth mo gheug
Do chuireas seacht b-péirse í ón áit!

¹¹⁷ Ibid.

¹¹⁸ Gwynn Jones, 'Tir na n-Óg', yn *Tir na n-Óg*, 10 [Fersiwn F].

¹¹⁹ T. Gwynn Jones, 'Tir na n-Og', yn *Detholiad o Ganiadau* (Tregynon, 1926), 59 [Fersiwn Ff].

CXLVII

Le feidhm na leice lán-mhóir'
Do bhris giorta óir an eich bháin –
Do thángas anuas go lán-docht
Ar bhunn mo dhá chos ar an m-bán!¹²⁰

Ceir gwahaniaethau rhwng y disgrifiadau, wrth gwrs: nid yw Osian Fersiwn Ff yn taflu'r garreg fel y gwna Oisín Coimín, ac yn wir y mae'r rheswm dros ei godi yn y lle cyntaf yn dra gwahanol. Mae'r Oisín Gwyddeleg yn cael ei demtio gan un o'r dorf i arddangos ei gryfder, lle gwelir Osian Gwynn Jones yn gresynu ynghylch gwendid y seiri o'i gymharu ag eiddo ei gyfeillion gynt: 'Ond, adail, wanned ydynt / Wrth y rhai a'th godai gynt!'.¹²¹ Er gwaethaf gwahaniaethau fel hyn o ran cymhelliad a gweithredoedd y prif gymeriad yn y ddwy fersiwn, y mae'r hyn sy'n gyffredin iddynt yn arwyddocaol, sef yr elfen o ddamwain ac o gwymp. Er bod y ceffyl a'i gyfrwy yn cael eu disgrifio mewn mwy o fanylder yn y testun Gwyddeleg, y ffaith fod y gengl yn torri dan bwysau'r garreg yw'r manylyn allweddol. Nid yw rhyddiaith Mac Gréagóir, ar y llaw arall, yn benodol ynglŷn â sut y daw Oisín oddi ar ei geffyl, ac ni cheir ychwaith unrhyw gyfeiriad at y gengl a'r cyfrwy: 'Yna, gafaelodd Oisín yn y garreg, a chododd hi fry i ben y wal; nid oedd y garreg ond prin wedi'i chodi na chyffyrddodd ei droed â thir Iwerddon'.¹²² Y mae'r manylyn ynghylch cengl y cyfrwy yn torri ac yn achosi cwymp Osian – manylyn nas gwelir yn Fersiwn F (1916) ond a geir yn Fersiwn Ff (1926) – yn awgrymu dylanwad cynyddol ar Gwynn Jones gan gerdd Coimín.

¹²⁰ Ó Flannghaile (gol.), *Laoi Oisín ar Thir na n-Óg*, 74. Dyma gyfieithiad llythrennol Saesneg Ó Flannghaile: '[146] I leaned to my right side and seized the flag [flagstone] in one hand – with the strength and vigour of my arms I cast it seven perches from that spot! [147] With the exertion of hurling that very great flag the golden girth of the white steed broke – full swiftly I came to the ground on the soles of my feet.'

¹²¹ Gwynn Jones, 'Tir na n-Og', yn *Detholiad o Ganiadau*, 58 [Fersiwn Ff].

¹²² ap Gwilym, cyfieithiad 'An tSealg', yn 'Rhagymadrodd', 27.

Wedi gweld tystiolaeth o ddylanwad o du gwaith Coimín ar gerdd T. Gwynn Jones, priodol yw gofyn beth yw'r rheswm dros y newid hwn. Roedd Gwynn Jones, fel y gwyddom o lythyr Tórna, yn ymwybodol o *laoi* Coimín er 1910, ac y mae hyd yn oed yn cyfeirio ati, fel y cofiwn, yn ei ragair i Fersiwn F, y cyhoeddiad ar ffurf llyfryn gan *The Welsh Outlook* ym 1916:

Y mae “Laoi Oisín ar Thir na n-Óg,” gwaith Micheál Coimín [...] yn adnabyddus iawn [...] Ychydig eiriau o’r math hwn yn unman, yn wir, a ddeil i’w cymharu â cherdd Coimín.¹²³

Cyhoeddwyd tri o weithiau ar lenyddiaeth Iwerddon gan Gwynn Jones yn ystod y cyfnod rhwng Fersiwn F (1916) ac Ff (1926), sef llyfryn bychan ym 1919, *Iwerddon*, a gyhoeddwyd gyntaf fel cyfres o ysgrifau yn *Y Darian*,¹²⁴ cyfieithiadau o weithiau gan y dramodwr, y bardd a’r aelod o’r Frawdoliaeth Weriniaethol Wyddelig, Piaras Beaslai, yn *Peth Nas Lleddir* ym 1921;¹²⁵ a’r gyfrol *Awen y Gwyddyl* ym 1922 – casgliad o gyfieithiadau Cymraeg gan Gwynn Jones o farddoniaeth Wyddeleg.¹²⁶ Ceir cyfeiriad at gerdd Coimín mewn dau o’r tri gwaith a enwir uchod. Cynigir yma fod Gwynn Jones, wrth ailddarllen y *laoi* ar gyfer y cyfrolau hyn, wedi cael ei ysbrydoli o’r newydd i ddiwygio ei awdl. Yn *Iwerddon*, ceir gan Gwynn Jones esboniad ar gefndir y Cerddi Osiannaidd, ac y mae eto, fel yn ei ragair i Fersiwn F (1916), yn canmol Coimín unwaith eto:

I’m bryd i, mae camp odidog ar waith bardd fel Michael Comyn [*sic*] (1688-1760), yn ei gerdd ar daith Ossian i Dir na n-Óg, lle y mae’r bardd yn dynwared y dull cynt, heb ei wendidau amlycaf, megis cystrawen aneglur ac iaith ddyrys. [...] Y mae’r gerdd [...] yn gampwaith o ran cynnwys a chreffft [...] Y mae’r penillion yn syml a llithrig, yn llawn miwsig, heb ormod o gywreindeb i alw

¹²³ Gwynn Jones, ‘Rhagair’, yn *Tir na n-Óg*, vii.

¹²⁴ T. Gwynn Jones, *Iwerddon* (Aberdâr, 1919).

¹²⁵ T. Gwynn Jones, *Peth Nas Lleddir* (Aberdâr, 1921).

¹²⁶ T. Gwynn Jones, *Awen y Gwyddyl* (Caerdydd, 1922).

sylw ato'i hun. Er fod yn y gerdd rai digwyddiadau y buasai'n well hebddynt, adroddir y stori yn dda, a llenwir enaid dyn âg angerdd hiraeth am ieuenctid a phrydferthwch wrth ei darllen.¹²⁷

Diddorol yw nodi'r frawddeg olaf yn y dyfyniad uchod, â'r sôn am 'angerdd hiraeth am ieuenctid a phrydferthwch',¹²⁸ a'i chymharu â sylw Gwynn Jones ynghylch ei awdl 'Tir na n-Og' yn ei lythyr at Silyn Roberts: 'y mae ynddi [Fersiwn Dd] ryw ias o farwnad dyn i'w ieuenctid a'r pethau teg a garodd gynt'.¹²⁹ Yn dilyn yr hyn a ddyfynnwyd uchod o *Iwerddon*, ceir cyfieithiad gan Gwynn Jones o ddau bennill gan Coimín, fel 'enghraifft o'r mesur' Gwyddelig.¹³⁰

Ymddengys y penillion hyn eto, gydag eraill yn eu dilyn, yn y gyfrol *Awen y Gwyddyl*. Penillion ydynt lle mae Niamh yn disgrifio Tír na nÓg. Maent yn ymddangos yn syml ar yr olwg gyntaf, ond gwelir ynddynt odlau mewnl sy'n amlygu crefft gywrain ar ran y cyfieithydd. Mae'r odlau mewnl hyn yn adlewyrchu'r Wyddeleg gwreiddiol, a ddyfynnir isod. Mae gan Ó Flannghaile ddau gyfieithiad o'i eiddo yn ei gyhoeddiad o gerdd Coimín: un cyfieithiad llythrennol ac un mydryddol. Mae yntau, fel Gwynn Jones, yn cynnwys yr odlau mewnl yn ei benillion mydryddol (er y ceir rhai sy'n fwy llwyddiannus na'i gilydd – mewn un pennill, er enghraifft, fe'i gwelir yn odli 'na n- Óg' gyda 'vogue!'). Dyma un o'r penillion o waith Coimín sy'n ymddangos yn *Awen y Gwyddyl* ynghyd â'r gwreiddiol:

Y tir sy lanaf ar glawr y byd,
y mwyaf ei hud dan haul y nen –
Y coed yn crymu dan flodau a ffrwyth,
a'r dail yn llwyth hyd y brig uwch ben.¹³¹

¹²⁷ Gwynn Jones, *Iwerddon*, 27-8.

¹²⁸ Gwynn Jones, *Iwerddon*, 28.

¹²⁹ Llythyr, dyddiedig 14 Rhagfyr 1915, gan TGJ at RSR, Llawysgrif Bangor, BMSS-19485, APB.

¹³⁰ Gwynn Jones, *Iwerddon*, 28.

¹³¹ T. Gwynn Jones, 'Tir na n-Og', yn *Awen y Gwyddyl*, 46.

‘SÍ ’n tír as aoibhne ar bith le fághail
An tír ’s mó cáil anois fá’n ngréin–
Na crainn ag cromadh le toradh as bláth
As duilleabhar ag fás go bárr na ngeug.¹³²

Er nad yw nifer o’r delweddau a restrir yn y penillion hyn a geir yn *Awen y Gwyddyl* yn ymddangos yn awdl Gwynn Jones wrth iddo ddisgrifio Tír na nÓg, megis y ‘cant o rianedd ieuainc, llon,/ i’th ddwyn’, ‘cant o farchogion glewaf y gad’ a ‘[ch]ant o feirch buanaf y gad’ sydd gan Coimín,¹³³ rhaid sylwi ar y dull ei hun o gyflwyno gwybodaeth. Yng ngwaith Coimín a Gwynn Jones fel ei gilydd, yng ngeiriau Nia neu Niamh y ceir y disgrifiad cyntaf o’r wlad hudol. Dyma dechneg nad yw’n ymddangos yn stori ryddiaith Mac Gréagóir, lle mae Niamh yn ei chyflwyno’i hun yn unig:

‘Niamh Cinn Óir is é m’ainm, [...]
Is mé iníon chailce Rí na nÓg’

Agus an méid sin ráite aici thit Oisín i ngrá léi ar an toirt agus
Do thugadar a gcúl d’Éirinn¹³⁴

‘Nia Ben Aur yw fy enw i [...]
A mi’n ferch brenin Tir na n-Óg.’

Wedi iddi ddweud hyn, syrthiodd Oisín mewn cariad â hi ar
unwaith, a
Throesant eu cefn ar Iwerddon¹³⁵

Pwysig nodi hefyd fod disgrifiad Nia o’i gwlad i’w weld yng ngwaith Gwynn Jones o Fersiwn D ymlaen, fersiwn a ddaw o gyfnod cyfansoddi cynnar yr awdl, 1910-12. Gwyddom ei fod wedi darllen gwaith Coimín erbyn hynny, ac felly ai gormod fyddai cynnig mai mabwysiadu techneg Coimín o ddisgrifio Tír na nÓg drwy eiriau Niamh a

¹³² Ó Flannghaile (gol.), *Laoi Oisín ar Thír na n-Óg*, 14.

¹³³ Gwynn Jones, ‘Tír na n-Og’, yn *Awen y Gwyddyl*, 46.

¹³⁴ Mac Gréagóir, ‘An tSealg’, 25-7.

¹³⁵ ap Gwilym, cyfieithiad o ‘An tSealg’, yn ‘Rhagymadrodd’, 27.

wna Gwynn Jones yma? Os gwir hynny, ceir yma fwy o dystiolaeth o ddylanwad *laoi* Coimín ar ‘Tir na n-Og’ Gwynn Jones.¹³⁶

Ni cheir unrhyw awgrym o frwydr fewnol Oisín yng nghyswllt gadael Iwerddon yn stori ryddiaith Mac Gréagóir, fel sy’n cael ei gyfleu yn effeithiol yn awdl Gwynn Jones drwy gyfrwng hanner llinellau:

NIA: Dyred, dyred!

OSIAN: Hoffed Erin,
Erin lân yr arian li!

[...]

NIA: Heno, dyred!

OSIAN: Ennyd, aros!

NIA: Heno, dyred!

OSIAN: Onid af,
Gaeaf mwy a gâi fy mywyd,
Hebdi hi, ni byddai haf!¹³⁷

Mae’r sefyllfa hon o gyfyng-gyngor hefyd i’w gweld yng ngherdd Coimín. Yno, sieryd tad Oisín, Fionn mac Cumhaill, ag ef, gan erfyn arno i aros: “‘A Oisín”, ar Fionn go meirbh, tréith/ “Mo chumhadh féin tú aig imtheacht’.¹³⁸ Y mae Oisín yn gadael ei gartref, ond nid heb dristwch: ‘A Phádraic, ba dhubhach an sceul/ Ar scaramhain re chéile ann rúd’.¹³⁹ Gwyddom fod Gwynn Jones wedi darllen *laoi* Coimín o 1910 ymlaen, ac er iddo honni na fu iddo ei defnyddio yn sail i’w awdl ei

¹³⁶ Ceir ymdriniaeth â chyfieithiadau T. Gwynn Jones yn *Awen y Gwyddyl* yn Llŷr Gwyn Lewis, “Cyfieithiadau T. Gwynn Jones a Tadhg Ó Donnchadha o Farddoniaeth Gymraeg a Gwyddeleg”, yn Tudur Hallam ac Angharad Price (goln), *Ysgrifau Beirniadol*, XXXIII (Bethesda, 2014), 11-46.

¹³⁷ Gwynn Jones, ‘Tir na n-Og’, yn *Caniadau*, 63-4.

¹³⁸ Ó Flannghaile (gol.), *Laoi Oisín ar Thir na n-Óg*, 22.

¹³⁹ *Ibid.*

hun, efallai fod modd gweld rhywfaint o ddylanwad Coimín yma ar waith y bardd Cymraeg.

Y mae'n rhaid tynnu sylw yma at ragarweiniad esboniadol a geir cyn testun y gerdd ei hun yn Fersiynau Ff (1926) a J (1934). Ceir amlinelliad yma o stori Osian a Nia, yn bennaf yn dilyn fersiwn Mac Gréagóir ohoni. Y mae manylion penodol yn debyg rhwng cyflwyniad T. Gwynn Jones a hanes Mac Gréagóir: er enghraifft, noda Gwynn Jones y gwêl Osian 'ddengwr a deugain'¹⁴⁰ yn mynd ati i ailadeiladu'r gaer yn Iwerddon, fel y gwna Mac Gréagóir ('deich bhfear agus daichead')¹⁴¹. Yn yr un modd, y mae Osian yn marw wedi iddo gyffwrdd â llawr Iwerddon – rhywbeth nad yw'n digwydd yn fersiwn Coimín. Noda Gwynn Jones y caiff Osian ei gladdu ac y mae'r seiri yn 'torri ei enw mewn ogam erwydd' ar garnedd ei fedd.¹⁴² Daw fersiwn Mac Gréagóir i ben yn yr un modd: 'Thóg an deichniúr is daichead carn os a chionn agus scríobh a ainm in ogham chraobh.'¹⁴³ Ar y naill law, ymddengys hyn fel petai'n gwrth-ddweud y ddadl uchod fod dylanwad cynyddol o du Coimín ar waith Gwynn Jones, ond sylwer ar y frawddeg hon: 'Wrth iddo [Osian] godi'r maen, torrodd cengl y cyfrwy'.¹⁴⁴ Y mae'r manylyn hwn yn cyfateb i'r hyn a geir yn *laoi* Coimín, fel y gwelwyd eisoes:

Le feidhm na leice lán-mhóir'
Do bhris giorta óir an eich bháin –
Do thángas anuas go lán-docht
Ar bhunn mo dhá chos ar an m-bán!¹⁴⁵

¹⁴⁰ Gwynn Jones, 'Tir na n-Óg', yn *Caniadau*, 60.

¹⁴¹ Mac Gréagóir, 'An tSealg', 27.

¹⁴² Gwynn Jones, 'Tir na n-Óg', yn *Caniadau*, 60.

¹⁴³ Mac Gréagóir, 'An tSealg', 29.

¹⁴⁴ Gwynn Jones, 'Tir na n-Óg', yn *Caniadau*, 60.

¹⁴⁵ Ó Flannghaile (gol.), *Laoi Oisín ar Thir na n-Óg*, 74.

Cymysgedd, mewn gwirionedd, a geir yma yn fersiwn Gwynn Jones, o'r ddwy fersiwn Wyddeleg: stori sy'n bennaf yn dilyn yr hanes yn ôl Mac Gréagóir, ond sydd hefyd yn cynnwys manylion sydd i'w cael yng ngwaith Coimín yn unig.

Er bod yr ymdriniaeth bresennol â'r awdl yn ystyried y gwaith yng nghydestun cerddoriaeth a'r rhan a chwaraeodd yn y broses o gyfansoddi 'Tir na n-Og' ar ei ffurf gyhoeddedig, fe sylwir na fu hyd yma (1916) osodiad cerddorol o'r awdl. Fel y nodwyd uchod, ni lwyddodd David Evans i gwblhau'r gwaith ar yr *operetta* ar gyfer myfyrwyr Coleg y Brifysgol, Caerdydd ym 1910-11, ac wedi hynny ni cheir tystiolaeth o unrhyw gyfansoddwr arall yn mynd i'r afael â'r gwaith o ddifrif tan 1925, pan berfformiwyd gosodiad o 'Tir na n-Og' fel opera yn Aberystwyth.¹⁴⁶ Cyfansoddwr y gwaith hwnnw oedd David de Lloyd, a oedd yn ddarlithydd cerddoriaeth yn y Coleg yn Aberystwyth er 1919.¹⁴⁷ Yn y bennod ddilynol, trafodir perthynas T. Gwynn Jones a David de Lloyd a'u gwaith ar y cyd, ac fe gynigir yno astudiaeth ar osodiad David de Lloyd o eiriau Gwynn Jones. Yn y bennod hon, fodd bynnag, canolbwyntir ar yr opera yng nghydestun tarddiad a datblygiad yr awdl 'Tir na n-Og'.

Flwyddyn cyn i'r awdl gael ei chynnwys yn y gyfrol *Detholiad o Ganiadau* (Fersiwn Ff, 1926), felly, cafodd ei pherfformio yn y modd y bwriadwyd hi yn wreiddiol: wedi'i gosod i gerddoriaeth fel opera. Ni chadwyd na recordiad na sgript na sgôr o'r gwaith hwn (ac felly nis cyfrifir fel 'Fersiwn' yn natblygiad y gwaith), ond ceir adolygiadau o'r perfformiad hwn ym 1925 mewn cylchgronau a phapurau newydd cyfoes. Maent oll yn canmol y cywaith newydd. Dywed *Y Genedl Gymreig*,

¹⁴⁶ Gweler dienw, 'Y Gerddoriaeth Gymreig Newydd – "Pwyll a Rhiannon", "Tir na n-Og" – Awen Dafydd de Lloyd', *Y Genedl Gymreig*, 25 Mai 1925, 6. Cyfeiria Arthur ap Gwynn, yn 'T. Gwynn Jones a David de Lloyd', 82-3, at ymgais y cerddor David Vaughan Thomas i osod 'Tir na n-Og' i gerddoriaeth, ond nodir yno nad aeth yn bell o gwbl gyda'r gwaith.

¹⁴⁷ ap Gwynn, 'T. Gwynn Jones a David de Lloyd', 77.

er enghraifft, ‘y mae’r cerddor yn ei ddeall [gwaith y bardd], ac yn rhoi iddo leferydd cerddorol sy’n rhyfeddol yn ei brydferthwch llym a’i gynildeb urddasol’, tra mae’r *Welsh Gazette* yn sylwi ar newydd-deb y gwaith: ‘It is of a style hitherto unknown to Welsh music, and yet the spirit of Welsh music is felt throughout’.¹⁴⁸ Ceir tipyn o ganmol ar y geiriau a’r gerddoriaeth gan y *Manchester Guardian*, yn ogystal ag ar y llwyfan a’r set:

The ordinary music-loving Welsh folk who have had the privilege of first hearing ‘Tir na n-Og’ have had a glimpse of the wonderland that awaits them. It was an experience of the combined charm of a three-fold appeal – of the skilled painter who suggested the sunset spell of a Celtic shore, of the word wizardry of the ‘cynghanedd’ in the hands of a master, and of the haunting and magic strains which may surely be regarded as merely the overture to a future feast of Celtic music.¹⁴⁹

Roedd tipyn o oedi rhwng y perfformiad cyntaf ym 1925 a chyhoeddi sgôr yr opera ym 1930. Ymddengys fod y broses wedi bod yn un ddigon hir, ac ymhlith papurau T. Gwynn Jones yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru ceir llythyr wedi’i ysgrifennu ym mis Rhagfyr 1928 oddi wrth H. Idris Bell yn cynnig sylwadau ar gyfieithiad Saesneg gan Gwynn Jones o’r gwaith. Mae’r llythyr hwn yn cyfeirio’n benodol at gyhoeddi’r gerddoriaeth: ‘I wish the book every success. If the music is equal to the verse it must be a rare pleasure to hear it performed!’.¹⁵⁰ Unwaith eto, felly, gwelwn sefyllfa lle mae cerddoriaeth yn peri i T. Gwynn Jones ddychwelyd at y testun hwn a rhoi gwedd newydd arno drwy ddarparu fersiwn ddwyieithog o’r awdl yn sgôr yr opera. Er na cheir unrhyw dystiolaeth o berfformiadau eraill rhwng 1925 a

¹⁴⁸ Dienw, ‘Y Gerddoriaeth Gymreig Newydd’, 6; Dienw, ‘New Welsh Operettas – Successful Performance at the College’, *The Welsh Gazette*, 21 Mai 1925, 8.

¹⁴⁹ Dienw, dyfynnwyd yn *University College of Wales, Aberystwyth Professorship of Music: Application and Testimonials of David de Lloyd* yn Papurau David de Lloyd, Bocs 22 (Cyfres 3), Llyfrgell Prifysgol Aberystwyth.

¹⁵⁰ Llythyr, dyddiedig 28 Rhagfyr 1928, gan H. I. Bell at TGJ, Papurau TGJ, GIII/10, LIGC.

1930 o ‘Tir na n-Og’ (heblaw am yr un cyntaf hwnnw), awgryma’r paratoadau ar gyfer cyhoeddi cyfrol fod galw am gyhoeddiad o’r fath. Un posibilrwydd yw bod llwyddiant *Detholiad o Ganiadau* ym 1926 wedi gwneud yr awdl ‘Tir na n-Og’ yn fwy adnabyddus, a bod y cyfansoddwr a’r bardd wedi meddwl manteisio ar ei phoblogrwydd i hybu eu cywaith hwythau.

Ym 1928, anfonodd Gwynn Jones gopi o fersiwn ddiwygiedig o ‘Tir na n-Og’, ynghyd â chyfieithiad i’r Saesneg, at ei gyfaill H. Idris Bell. Ynghlwm wrth ateb Bell yn y Llyfrgell Genedlaethol ceir teipysgrif o ‘Tir na n-Óg’ (yn y Gymraeg) – testun y byddir yn cyfeirio ato yma fel Fersiwn G. Y mae’r farddoniaeth yn Fersiwn G (1928) yn ddigon tebyg i’r hyn a geir yn Fersiwn Ff (*Detholiad o Ganiadau*, 1926) o ran cynnwys, ond ceir rhai ychwanegiadau arwyddocaol i’r gwaith hwn, sef adrannau rhyddiaith ar ddechrau a diwedd pob Rhan – adrannau sy’n cyflwyno’r cymeriadau ac sy’n gosod sylfeini’r hyn sydd i ddod. Er enghraifft, yn Fersiwn G, ar ddechrau Rhan 2, cyn araith Osian – lle y dywed wrth Nia ei fod am adael Tír na nÓg – ceir sgwrs rhwng Nia ac un o’r Morwynion:

Un o’r Morwynion: O Nia! Baham na bai lawen ei fryd Osian, fel y byddai ef gynt?

Nia: Y mae ef weithan yn cofio doe ac yn meddwl am yfory.

Morwyn: Baham y gwnai ef hynny, a Nia?

Nia: Nis gwn i ac nis gŵyr yntau ddim.

Morwyn: Mwyn! Onid mai bardd yw efo, ac na dderfydd am y cof sydd ynddo. Ef a wêl ei lygaid ef yn ôl ac ymlaen, a bydd yntau wrth fel y bo’r olwg.¹⁵¹

Wedi’r dyfyniad uchod, mae’r gwaith yn parhau fel y’i ceir mewn fersiynau blaenorol, gydag ymson hiraethus Osian: ‘Pêr hiraeth! Pa ryw eiriau?/ Pa ryw hud sydd yn parhau?’¹⁵² Yn y ddeialog a ddyfynnir uchod, ceir peth gwybodaeth am

¹⁵¹ T. Gwynn Jones, ‘Tir na n-Óg’, Papurau TGJ, GIII/10, LIGC [Fersiwn G].

¹⁵² T. Gwynn Jones, ‘Tir na n-Og’, yn yn *Detholiad o Ganiadau*, 52 [Fersiwn Ff].

fywyd Osian a Nia yn Tír na nÓg, am y dedwyddwch a fu ynghynt, a hiraeth presennol Osian. Rhydd awgrym i'r gynulleidfa o dreigl amser ar ddechrau golygfa newydd, ac, yn ogystal â hyn, ceir rheswm dros anhapusrwydd Osian yn y wlad sydd, ar yr olwg gyntaf, yn drigfan berffaith.

Mae'r ddeialog yn y rhyddiaith ychwanegol ar ddechrau Rhan 1 yn arbennig o ddiddorol, gan ei bod yn adrodd hanes y ffynnon hud – rhan bwysig o stori ryddiaith Mac Gréagóir. Dangoswyd eisoes sut y cynhwysodd Gwynn Jones gyfeiriad anuniongyrchol at y ffynnon waed drwy gyfrwng ei ddelweddaeth o gochni'r hydref a lliw'r machlud yng ngwahanol fersiynau'r awdl, ond 1928 yw'r tro cyntaf i stori'r ffynnon ei hun gael ei chynnwys yng ngwaith Gwynn Jones. Ceir yn y ddeialog yn y rhyddiaith ychwanegol ar ddechrau Rhan 1 yn Fersiwn G ymddiddan rhwng Osian a rhai o aelodau ei deulu, Diarmaid a Chynan Foel, sydd yn trafod geiriau'r 'Dewin gynt' am y ffynnon. Edrydd Osian yr hanes wrth ei gyfeillion:

hen iawn oedd y Dewin hwnnw, ac arno daeth hiraeth am ei ieuentid. Ac eisoes gwyddai nad oedd namyn yfed o ddwfr y Ffynnon Fêl a ireiddia ei galon hen. Ac ati y daeth. Eithr coch fel gwaed y gwelai ef y dwfn, a chanu a wnaeth yntau –

'A phan fo waed y Ffynnon Fêl
A'i gwelo hi, rhyw goel a wêl
Yng ngwead gwaith y dynged gêl'.¹⁵³

Anodd yw gwybod yn union beth oedd rheswm Gwynn Jones dros gynnwys yr adran hon am y ffynnon yn Fersiwn G (1928), ond dengys, er gwaethaf dylanwad cynyddol cerdd Coimín ar ei waith, fod Gwynn Jones yn dal i feddwl yn fawr o'r stori ryddiaith wreiddiol yng nghyfrwl Mac Gréagóir, ac yn gweld gwerth cynnwys agweddau ohoni yn ei waith hyd yn oed wrth ailddrafftio a datblygu'r gwaith.

¹⁵³ T. Gwynn Jones, 'Tir na n-Óg', Papurau TGJ, GIII/10, LIGC [Fersiwn G].

Cyfeiriwyd uchod at y llythyr hwnnw gan H. I. Bell sy'n sôn am gyfieithiad Saesneg o'r awdl, i'w gynnwys yn y cyhoeddiad o sgôr opera David de Lloyd. Er nad yw'r cyfieithiad ynghlwm â'r llythyr hwn, ceir copi llawysgrifen o'r cyfieithiad ymysg papurau T. Gwynn Jones yn y Llyfrgell Genedlaethol, a chyfeirir at y fersiwn hon fel Fersiwn Ng. Mae'n gyfieithiad o destun Fersiwn G (1928), gan gynnwys yr adrannau rhyddiaith cyflwyniadol. Gan mai cyfieithiad ar gyfer cerddoriaeth a oedd eisoes yn bodoli yw Fersiwn Ng, rhaid oedd i Gwynn Jones wrth gyfieithu gadw'r union nifer o sillafau mewn llinell, er mwyn i'r alaw weddu i'r geiriau newydd.¹⁵⁴ Trafoda H. I. Bell y modd y bu i Gwynn Jones drosi'r mesur a'r rhythm: 'In the former [rhai o adrannau cywydd yr awdl] not only have you been wonderfully successful in reproducing the original rhythm but the language is dignified + beautiful.'¹⁵⁵ Er gwaethaf y cyfyngiadau a osodwyd ar Gwynn Jones gan y gerddoriaeth, y mae ei gyfieithiad o'r adrannau cywydd yn llwyddiannus yn gyffredinol. Mae'r cyfieithiad o araith agoriadol Osian, er enghraifft, yn disgrifio'r olygfa gyntaf honno gyda'r un synnwyr dramatig – 'Hulio nef mae niwl y nos [...] fel gwe rithlyd', 'To see the grey mist of night/ Slowly weave its magic web'; yr un manylder disgrifiadol – 'ag ariando'r ewyn/ Am dro ei glan fel modrwyog liny'n', 'where the foam is playing/ Around its rim like a wreath of silver'; a'r un gallu i gonsurio awyrgylch – 'Diwedd gwael i'n dydd a gaed,/ A thawodd y bytheuaid', 'Now the day in vain is spent,/ The hounds have ceased their baying'.¹⁵⁶

¹⁵⁴ Gweler y drafodaeth yn 'Cyflwyniad: Arolwg o'r Maes a Chyd-Destun, a Methodoleg' yn yr astudiaeth bresennol, 34-43.

¹⁵⁵ Llythyr, dyddiedig 28 Rhagfyr 1928, gan H. I. Bell at TGJ, Papurau TGJ, GIII/10, LIGC.

¹⁵⁶ Gwynn Jones, 'Tir na n-Óg', Papurau TGJ, GIII/10, LIGC [Fersiwn G]; T. Gwynn Jones, 'Tir na n-Óg', Papurau TGJ, C21, LIGC [Fersiwn Ng].

Ceir yn yr awdl hefyd adrannau cynganeddol a eilw Bell yn ‘accentual lyrics’.¹⁵⁷ Yn ôl Bell, mae’r llinellau byrrach hyn yn creu trafferth i Gwynn Jones wrth gyfieithu, gan nad yw’n llwyddo i sicrhau yn ei gyfieithiad yr un cynildeb mynegiant ag yn y gwreiddiol: ‘The accentual lyrics are less satisfactory [...] I don’t think the reason lies in the lyrics themselves, I mean in any inferiority in them, in the Welsh; but being simpler in expression + in short lines they tax the translator more than the rest.’¹⁵⁸ Er hyn, troswyd cân gyntaf Osian, ‘Ail nid yw’r rhos...’, yn fwy llwyddiannus nag a awgrymir gan sylwadau Bell. Y mae’r darn dan sylw yn ‘rhyw led-gyfieithiad’ o’r pennill Gwyddeleg gwreiddiol a geir yn fersiwn ryddiaith Mac Gréagóir.¹⁵⁹ Yn ei Ragair i gyhoeddiad *The Welsh Outlook* (Fersiwn F), cynigia T. Gwynn Jones gyfieithiad llythrennol, mewn rhyddiaith, i’r Gymraeg o’r pennill Gwyddeleg hwnnw: ‘Cochach na’r rhos yw ei grudd gain, a gloewach ei gwedd nag alarch y don; melysach blas ei gwefus lliw grawn cerddin na mêl melysaf y crwybr crwn.’¹⁶⁰ Yn yr aralleiriad barddonol a geir yn yr awdl – sef yr hyn y mae Bell yn cyfeirio ato fel un o’r ‘accentual lyrics’ – cyfleir iaith seml a diaddurn pennill gwreiddiol T. Gwynn Jones yn effeithiol yn y cyfieithiad:

Ail nid yw’r rhos
 I rudd ddeurudd hon,
 Un glaearach yw’r deg
 Nag alarch ar don.
 Nid ail yw y mêl
 O’r diliau i’w min,
 Rhag eiliw ei gwawr
 Y gwelwai y gwin.¹⁶¹

Pale by her cheek

¹⁵⁷ Llythyr, dyddiedig 28 Rhagfyr 1928, gan H. I. Bell at TGJ, Papurau TGJ, GIII/10, LIGC.

¹⁵⁸ Ibid.

¹⁵⁹ Gwynn Jones, ‘Rhagair’, yn *Tir na n-Óg*, vii.

¹⁶⁰ Ibid., v.

¹⁶¹ Gwynn Jones, ‘Tir na n-Og’, yn *Detholiad o Ganiadau*, 47-8 [Fersiwn Ff].

Were the pink rose bloom,
And whiter is she
Than the swan's white plume.

No honey may be
As sweet as her lip,
And redder is she
Than wine it may sip.¹⁶²

Er bod y cyfieithiad yn y cyswllt hwn yn llwyddo i warchod symrlwydd crisial cân Osian, y mae eraill o'r 'accentual lyrics', chwedl Bell, yn llai llwyddiannus. Mae geiriau cyntaf Nia yn Fersiwn Ng (1928), er enghraifft, yn dibynnu ar gamacennu'r gair 'country' i greu odl:

Nia Ben Aur,
Yn ein glân bau ni,
Yw'r enw, O fardd,
A roir arnaf i.¹⁶³

Golden-haired Neave,
In our fair countree,
Oh bard, is the name
That is given me.¹⁶⁴

Cydnebydd Bell, fodd bynnag, y gwahaniaeth rhwng cyfieithu ar gyfer cerddoriaeth a chyfieithu arferol: 'But of course a translation for music is a special case. No translator so tied can be expected to produce as adequate + satisfactory a rendering as if he were entirely free', ac mae'n canmol y gwaith yn gyffredinol: '[your translation] seems to me on the whole extremely successful'.¹⁶⁵

Cyfeiriwyd eisoes at ddylanwad cynyddol *laoi* Coimín ar waith Gwynn Jones, ac fe welwyd tystiolaeth o hyn yn y drafodaeth ar fersiynau cynharach o'r gwaith.

¹⁶² Gwynn Jones, 'Tir na n-Óg', Papurau TGJ, C21, LIGC [Fersiwn Ng].

¹⁶³ Gwynn Jones, 'Tir na n-Og', yn *Detholiad o Ganiadau*, 48. [Fersiwn Ff].

¹⁶⁴ Gwynn Jones, 'Tir na n-Óg', Papurau TGJ, C21, LIGC [Fersiwn Ng].

¹⁶⁵ Llythyr, dyddiedig 28 Rhagfyr 1928, gan H. I. Bell at TGJ, Papurau TGJ, GIII/10, LIGC.

Gwelwyd enghraifft bwysig o ddylanwad gwaith Coimín ar Fersiwn Ff (1926), wrth i Gwynn Jones, gan ddilyn y digwyddiad yn y gerdd Wyddeleg, nodi'n benodol yn Rhan 3 mai cwmpo oddi ar ei geffyl y mae Osian, yn hytrach na'r hyn a geir yn Fersiynau C–F, sef '*Daw Osian oddi ar ei farch*'.

*Plyg Osian, cyfyd y maen a'i ddodi ar y mur. Wrth iddo wneuthur hynny, tyrr cengl y cyfrwy, a syrth yntau ar lawr. Rhed y seiri ato a'i gyfodi, yn hen wr llesg.*¹⁶⁶

CXLVI

Do luigheas ar mo chliathán deas
'S do rugas ar an leac am' láimh –
Le neart agus le lúth mo gheug
Do chuireas seacht b-péirse í ón áit!

CXLVII

Le feidhm na leice lán-mhóir'
Do bhris giorta óir an eich bháin –
Do thángas anuas go lán-docht
Ar bhunn mo dhá chos ar an m-bán!¹⁶⁷

Ceir tystiolaeth bellach fod gwaith Coimín wedi parhau i ddylanwadu ar Gwynn Jones, ac fe'i gwelir yma yn Fersiwn Ng (1928). Yn y fersiwn hon, ymddengys y cyfarwyddyd llwyfan a ganlyn:

Ossian bends, lifts the stone with one hand. As he does so, the girth of the saddle breaks + he falls to the ground. The masons crowd to raise him.¹⁶⁸

Yn Fersiwn Ff (1926) a G (1928), nodir yn syml, heb roi manylion pellach, fod Osian yn codi'r maen. Yn Fersiwn Ng (1928), fodd bynnag, fel y dengys y dyfyniad uchod,

¹⁶⁶ Gwynn Jones, 'Tir na n-Og', yn *Detholiad o Ganiadau*, 59 [Fersiwn Ff].

¹⁶⁷ Ó Flannghaile (gol.), *Laoi Oisín ar Thir na n-Óg*, 74. Dyma gyfieithiad llythrennol Saesneg Ó Flannghaile: '[146] I leaned to my right side and seized the flag [flagstone] in one hand – with the strength and vigour of my arms I cast it seven perches from that spot! [147] With the exertion of hurling that very great flag the golden girth of the white steed broke – full swiftly I came to the ground on the soles of my feet.'

¹⁶⁸ Gwynn Jones, 'Tir na n-Óg', Papurau TGJ, C21, LIGC [Fersiwn Ng].

pwysleisir mai gydag un llaw y gwna hynny. Yn yr un modd, mae Oisín Coimín, mewn ymateb i eiriau un o'r seiri, yn codi'r maen ag un llaw, er mwyn dangos ei gryfder. Manyl yn ddaw o waith Coimín yn unig yw hwn, gan nad yw stori ryddiaith Mac Gréagóir yn cyfeirio o gwbl at Oisín yn codi'r garreg ag un llaw. Dyma ddangos felly ddatblygiad dylanwad gwaith Coimín ar yr awdl 'Tir na n-Óg' dros gyfnod o bron ugain mlynedd, o awgrym Tórna yn y llythyr at Gwynn Jones ym 1910, hyd y newid hwn yn y cyfieithiad Saesneg ym 1928. Daw'n amlwg o'r dystiolaeth a gasglwyd uchod ac a drafodwyd yma fod *laoi* Coimín, yn ogystal â rhyddiaith Mac Gréagóir, wedi chwarae rôl arwyddocaol yng ngwaith Gwynn Jones wrth iddo addasu ei awdl dros gyfnod pur estynedig.

Pwysig yw nodi na cheir y manylyn hwn yn glân â chodi'r garreg ag un llaw yn unig yn y deipysgrif Gymraeg a gedwir gyda llythyr H. I. Bell yn y Llyfrgell Genedlaethol, sef Fersiwn G, ac fe ymddengys y cyfarwyddyd llwyfan yn union fel y mae yn Fersiwn Ff o 1926. O ganlyniad i hyn, felly, gellid tybio bod Fersiwn Ng, y cyfieithiad Saesneg yn llawysgrifen Gwynn Jones, wedi'i lunio ar ôl Fersiwn G, er bod G, o ran ymddangosiad y testun ar y dudalen, i'w gweld yn fwy gorffenedig, gan mai teipysgrif ydyw. Ymhellach, fe bery'r newid hwn yn y ddau gyhoeddiad o'r opera ym 1930 a 1932 (Fersiynau H ac I). Wrth gyfieithu, felly, y mae'n bosibl fod Gwynn Jones wedi ailddarllen cerdd Coimín, ac, ar ôl sylwi o'r newydd ar Oisín yn codi'r maen ag un llaw yn unig, wedi penderfynu cynnwys y manylyn dan sylw yn ei waith yntau hefyd.

Yn sgil y newid hwn yn y cyfieithiad Saesneg mewn llawysgrif (Fersiwn Ng), fe welwn, yn y cyhoeddiad cyntaf o sgôr opera *Tir na n-Og* ym 1930, y cyfeirir ato fel Fersiwn H, fod Gwynn Jones wedi gwneud yr un peth yn y ddwy iaith yn y fersiwn ddwyieithog hon, a nodir mai ag un llaw y mae Osian yn codi'r maen:

Plyg Osian, cyfyd y maen ag un llaw a'i ddodi ar y mur. Wrth hynny, tyrr y gengl, a syrth yntau ar lawr. Rhed y seiri yn dwrr o'i gylch.

*Ossian bends, lifts the stone with one hand. As he does so, the girth of the saddle breaks and he falls to the ground. The masons crowd to raise him.*¹⁶⁹

Ymddengys yr holl adrannau rhyddiaith ychwanegol a geir yn Fersiwn G ac Ng (1928) yn nhestun yr opera, Fersiwn H hefyd, gyda nodyn yn y gyfrol i bwysleisio mai at berfformiad llwyfan yn unig y mae'r adrannau hyn: 'For concert performance, the music should go straight on, proceeding from \oplus to \oplus where such indications are given.'¹⁷⁰ Mae'r arwydd cerddorol am *coda* yn ymddangos yn y gerddoriaeth cyn ac ar ôl pob adran ryddiaith yn sgôr Fersiwn H, cyhoeddiad 1930. Dengys hyn felly nad yw'r adrannau rhyddiaith dan sylw yn angenrheidiol i rediad y stori. Nid yw'r rhannau hyn wedi eu gosod i gerddoriaeth, gan awgrymu ymhellach mai eilradd o ran pwysigrwydd ydynt o'u cymharu â'r farddoniaeth, sydd wedi'i gosod drwyddi draw.

Cyhoeddwyd yr opera eto ym 1932, Fersiwn I, y tro hwn mewn nodiant sol-ffa yn hytrach na'r hen nodiant, a geir yn Fersiwn H (1930). Diddorol yw nodi mai rhannau'r côr yn unig a geir yn llawn yma, a bod yr unawdau, y ddeialog, a'r cyfeiliant yn anghyflawn, ac yn ymddangos fel ciwiau ar gyfer y côr. Mae'r cyhoeddiad corawl hwn yn awgrymu bod tipyn o berfformio wedi bod ar y gwaith, yn enwedig gan ei fod yn y nodiant poblogaidd sol-ffa, a'i fod yn ateb y gofyn o ran bod y gwaith hwn fod yn fwy hygyrch i fwy o bobl. Nid oes cofnod fod yr opera wedi cael ei pherfformio eto wedi'r tro cyntaf ym 1925, fodd bynnag, heblaw cyfeiriad gan Emrys Cleaver yn ei gyfrol *Musicians of Wales* (1968) at berfformiad yn Aberystwyth ym 1930 (mae'n ddigon posib ei fod yn cyfeirio yma at berfformiad 1925, gan na

¹⁶⁹ T. Gwynn Jones (geiriau), David de Lloyd (cerddoriaeth) *Tir na n-Og: An Opera in Three Acts* (Cardiff, 1930), 62 [Fersiwn H].

¹⁷⁰ *Ibid.*, 1.

cheir unrhyw dystiolaeth yn cefnogi'r honiad hwn), dau ddarllediad yn y 1940au ar y radio, a pherfformiad o ran ohoni ar raglen deledu yn y 1960au.¹⁷¹ Ni cheir llawer o wybodaeth ychwaith ynghylch perfformiadau o'r opera yn adroddiadau a chofnodion y Cyngor Cerddoriaeth Cenedlaethol, ar wahân i'r ffaith fod cyhoeddiad sol-ffa wedi ymddangos: 'Dr de Lloyd had prepared a Tonic Solfa version of "Tir Na n'Og" [*sic*]. Although separate Solfa publication was inadvisable in principle, this was sanctioned as the expense of issuing a combined edition rendered it impractical'.¹⁷²

Un fersiwn arall o'r awdl 'Tir na n-Og' sy'n weddill, sef yr un sy'n ymddangos yn y gyfrol *Caniadau* a gyhoeddwyd gan Hughes a'i Fab, Wrecsam ym 1934, yn rhan o gyfres o chwe chyfrol unffurf gan T. Gwynn Jones. Er bod y fersiwn hon, Fersiwn J, wedi ei chyhoeddi ar ôl cyhoeddi sgôr yr opera, mae'r testun a geir yma yn unfath (ac eithrio mân wahaniaethau orgraff) â chyhoeddiad 1926 yn *Detholiad o Ganiadau*, sef Fersiwn Ff. Ni chynhwysir y adrannau rhyddiaith na'r cyfeiriad at Osian yn codi maen y wal ag un llaw, fel yn Fersiynau Ng-I (1928-32). Yn rhestr gynnwys *Caniadau* (1934), wrth ymyl 'Tir na n-Og', nodir tri dyddiad: 1910, 1916 a 1925. Diddorol yw nodi yma nad yw Gwynn Jones yn cyfeirio at ddyddiadau cyhoeddi'r opera (Fersiynau H ac I, 1930 a 1932), nac ychwaith wedi dewis cynnwys yn fersiwn *Caniadau* (Fersiwn J) newidiadau a wnaeth ar gyfer yr argraffiadau hynny. Gan ddilyn yr hyn a awgryma Fersiwn H, sgôr yr opera o 1930, mai'r farddoniaeth yw'r rhan bwysicaf o'r gwaith, a bod yr adrannau rhyddiaith yn ychwanegiadau dewisol yn unig, rhydd hyn reswm posibl dros benderfyniad Gwynn Jones i beidio â'u cynnwys yn argraffiad 1934. Is-deitl Fersiwn J (1934) yw 'Awdl Delynegol at Beroriaeth', nid 'Opera mewn Tair Act'. Awgryma hyn fod rhyw fath o

¹⁷¹ Emrys Cleaver, *Musicians of Wales* (Ruthin, 1968), 83.

¹⁷² 'National Council of Music: Minutes of the Twenty-first meeting, 10th to 13th July, 1931' yn Archif Prifysgol Cymru, 3/2, LIGC.

fodolaeth ddeuol i'r gwaith i Gwynn Jones: y farddoniaeth 'bur', a ysgrifennwyd yn wreiddiol ar gyfer cerddoriaeth ond a enillodd fri fel gwaith llenyddol ynddo'i hun, a libreto'r opera, barddoniaeth fawr o hyd, ond gydag ychwanegiadau rhyddiaith dewisol, a hunaniaeth wahanol gan ei bod bellach wedi'i huno â cherddoriaeth.

O Fersiynau A hyd J, mae'r bennod hon wedi olrhain twf a datblygiad un o weithiau mwyaf T. Gwynn Jones, a'r holl wahanol weddau a gaed arno dros gyfnod o bron i chwarter canrif. Dangoswyd sut y newidiwyd y gwaith o awdl lenyddol bur i awdl ar ffurf deialog, drwy ysgogiad cerddoriaeth, a'r bwriad i'w gosod fel gwaith i'w ganu. Gwelwyd hefyd sut y datblygwyd ac y perffeithiwyd y geiriau gan Gwynn Jones dros nifer o flynyddoedd, a sut y dylanwadwyd ar y bardd i wahanol raddau gan ddau destun Gwyddeleg. Yn olaf, dangoswyd sut y symbylwyd Gwynn Jones gan osodiad cerddorol i ddychwelyd at y testun o'r newydd, ac ychwanegu ato at bwrpas perfformio, yn ogystal â chreu cyfieithiad medrus o'r gwaith. Cadarnhawyd yn y bennod hon pa mor allweddol oedd cerddoriaeth fel catalydd i annog T. Gwynn Jones i ailystyried ei waith droeon, a pha mor ganolog yw'r cefndir cerddorol cudd sydd i'r awdl ddylanwadol hon.

**‘A [...] FEAST OF CELTIC MUSIC’:
DAVID DE LLOYD A T. GWYNN JONES**

Yn y bennod flaenorol, gwelwyd sut y newidiodd ac y datblygodd T. Gwynn Jones ei awdl ‘Tir na n-Og’ dros gyfnod o 20 mlynedd. O’i genesis ym 1910, ei haddasu ar gyfer cerddoriaeth yr un flwyddyn, y fersiwn ddwyieithog ohoni a gynhyrchwyd ar gyfer cyhoeddiad 1930 o sgôr opera David de Lloyd, yn ogystal â nifer o ddrafftiau anghyhoeddedig a gwahanol gyhoeddiadau, ystyriwyd yr holl ffurfiau ar y gwaith hwn sydd yn hysbys. Amlygwyd rôl annatod cerddoriaeth yn natblygiad yr awdl, a hynny, er enghraifft, yng nghyswllt ei ffurf ddeialogaidd nodweddiadol a grëwyd fel ymateb i gais y cerddor David Evans am libreto *operetta* Gymreig. Er bod y bennod flaenorol wedi cyfeirio at osodiad David de Lloyd o’r awdl, fe’i trafodwyd yng nghyd-destun datblygiad y gwaith yn unig, ac ni chafwyd astudiaeth o’r gerddoriaeth ei hun na chefnidir cyfansoddi’r gwaith cerddorol. Bydd y bennod hon, felly, yn cynnig dilyniant i’r cyflwyniad cyd-destunol hwnnw i hanes cyfansoddi awdl ‘Tir na n-Og’ a gafwyd yn y bennod ddiwethaf, gan ganolbwyntio ar opera de Lloyd – yr unig osodiad o’r awdl yn ei chyfanrwydd. Byddir yn y bennod hon yn ymdrin â chefnidir hanesyddol yr opera, gan edrych ar berthynas Gwynn Jones a de Lloyd, a ffrwyth cydweithio’r ddau. Yn y bennod hon hefyd byddir yn cynnig astudiaeth o osodiad de Lloyd o’r awdl: ystyrir y gerddoriaeth ei hun a’i heffaith ar y geiriau, a’r newidiadau testunol a wnaed i’r gerdd wrth ei gosod, yn ogystal ag archwilio’r modd y mae’r gerddoriaeth yn adlewyrchu neu’n ychwanegu at gynnwys y testun.

Ganwyd David John de Lloyd yn Sgiwen ym 1883.¹ Dangosodd ddawn gerddorol yn ifanc, a chafodd ei ddewis i deithio o amgylch y wlad gyda'r cyhoeddwr J. S. Curwen ym 1896 i arddangos buddion y nodiant tonic sol-ffa.² Ym 1905, derbyniodd y radd B.Mus. gyntaf a roddwyd gan Brifysgol Cymru, a hynny o Goleg y Brifysgol, Aberystwyth. Fe ddychwelodd i'r Coleg ym 1919, wedi cyfnod yn Leipzig, i ddarlithio yn yr Adran Gerddoriaeth.³ Yr un flwyddyn, cafodd T. Gwynn Jones ei ddyrchafu i Gadair yr Adran Gymraeg yn y Coleg yn Aberystwyth, ac mae'n debyg mai yn sgil gweithio yn y Coleg y daeth y ddau i adnabod ei gilydd, gan na cheir unrhyw dystiolaeth o gyswllt rhwng y ddau cyn 1919.⁴ Gosododd de Lloyd nifer o ddarnau o waith Gwynn Jones i gerddoriaeth, er enghraifft 'Yno', 'Y Fun Fud' a 'Dirgelwch' yn y casgliad *Englynion ar Gân (Chwech o Ganeuon)* ym 1932, 'Angof ac Atgof' ym 1929, a 'Laned yw Goleuni Dydd' fel rhan o'r gantawd *Dydd a Nos* ym 1927.⁵ Ni wyddys yn union pryd y bu iddynt ddechrau cydweithio, ond dyddiad ffrwyth cyntaf y bartneriaeth oedd 1923, pan gychwynnodd yr ymarferion ar gyfer perfformiad cyntaf y 'chwaragerdd' *Gwenllian*, y gerddoriaeth gan David de Lloyd, a'r geiriau gan Eurwedd, sef T. Williams, llyfrwerthwr o Lanelli, a T. Gwynn Jones ar y cyd.⁶

Cyfeiria Arthur ap Gwynn at dystiolaeth fod Gwynn Jones wedi addasu geiriau *Gwenllian* yn sylweddol: 'ar dir arddull a ieithyddiaeth gellid tybio bod T.G.J.

¹ Selwyn Jones, 'de Lloyd, David John', yn R. T. Jenkins, E. D. Jones, M. Beatrice Davies (goln), *Y Bywgraffiadur Cymreig 1941-1950* (Llundain, 1970), 11.

² Ibid.

³ Ibid.

⁴ Arthur ap Gwynn, 'T. Gwynn Jones a David de Lloyd', yn Gwynn ap Gwilym (gol.), *Cyfres y Meistri (3): Thomas Gwynn Jones* (Llandybïe, 1982), 77.

⁵ T. Gwynn Jones (geiriau), David de Lloyd (cerddoriaeth), *Englynion ar Gân (Chwech o Ganeuon)* (Cardiff, 1932); T. Gwynn Jones (geiriau) David de Lloyd (cerddoriaeth), *Angof ac Atgof* (Cardiff, 1929); Amrywiol (geiriau), David de Lloyd (cerddoriaeth), *Dydd a Nos: Cantawd i Leisiau Plant* (Aberystwyth, 1927).

⁶ Gweler ap Gwynn, 'T. Gwynn Jones a David de Lloyd', 81

wedi adolygu llawer iawn ar y libretto ac wedi ychwanegu cryn lawer hefyd'.⁷ Sylwa ap Gwynn yn arbennig ar bennill sy'n dweud bod Gwenllian 'laned a'r lili, a gloewed a'r lli/ Sy laned a gloewed a'r lili'⁸, gan gymharu'r cwpled ag adran o gân Osian yn yr awdl 'Tir na n-Og', a chan ddweud fod yma 'eco' o'r gwaith enwog hwnnw: 'A'i blodau mor bêr/ A'i goleu mor dêr/ Digon pêr, digon têr gennyt ti'.⁹ Gwelir hefyd awgrym o hoffter Gwynn Jones o chwarae â geiriau yn libreto *Gwenllian* wrth i gymeriad Llywarch ymddangos ac yntau heb fynd i ymladd gyda'r Groesgad. Dywed y cymeriad Hwfa 'Ond Palestina!' wrtho, ac ateb Llywarch yw, 'Ie, ond – pa les iti 'na?'.¹⁰ Ym marn Arthur ap Gwynn, eiddo Gwynn Jones yn ddiamau yw'r adrannau rhyddiaith hyn yn y gwaith, sy'n amrywio o'r ysgafn, fel y ceir uchod, i'r esboniadol, sy'n debyg iawn o ran arddull i'r adrannau rhyddiaith a geir yn sgôr yr opera *Tir na n-Og*.¹¹ Cymharer, er enghraifft, naws y ddau ddarn isod, a'r technegau disgrifiadol dramatig a geir ynddynt. Daw'r cyntaf o *Gwenllian*, a'r ail o'r opera *Tir na n-Og*:

Meurig: Cawn weld! Oni chlywaist ti fod Baldwyn yn dyfod?

Llywarch: Baldwyn? Ni waeth iddo heb ddyfod *yma*. Clywais Ednyfed yn dywedyd, ar ei lw, nad ai *ef* i fod yn fwyd i adar mewn gwlad bell [...] Oni chlywais i Ednyfed yn tyngu'n greulon nad âi?

Meurig: Do, do! Ond cafodd dro er hynny. Y mae ei ddeiliaid eisioes yn barod, a byddant yn cychwyn rhag blaen. Bydd y llong yn hwylio o Borthwygyr yr wythnos nesaf. Gwell iti fynd i hogi dy gleddau.¹²

Diarmaid: Pa le yr aeth y cŵn?

Yr Heliwr Cyntaf: Clywi hwy'n cyfarth draw, Arglwydd. Dyna lais Brân. Yr oedd braw arnynt.

Diarmaid: Onid yma y daeth yr ysgyfarnog?

⁷ Ibid., 80-1.

⁸ T. Gwynn Jones a T. Williams (Eurwedd) (geiriau), David de Lloyd (cerddoriaeth), *Gwenllian: Chwaraeagerdd* (Aberystwyth, 1925), 75-6.

⁹ Gwynn Jones, 'Tir na n-Og', yn *Caniadau* (Wrecsam, 1934), 63.

¹⁰ Gwynn Jones, Eurwedd, de Lloyd, *Gwenllian*, 70.

¹¹ ap Gwynn, 'T. Gwynn Jones a David de Lloyd', 81.

¹² Gwynn Jones, Eurwedd, de Lloyd, *Gwenllian*, 7.

Yr Heliwr Cyntaf: Ysgyfarnog? Dir nad ysgyfarnog moni, cyd bai lun ysgyfarnog arni! Ef a'i brathodd Brân, a neidio i'r ffynnon a wnaeth hithau, a dychryn o'r cŵn a ffoi.¹³

Gwelir yn y ddau ddarn uchod y defnydd o gwestiynau (yn arbennig 'Oni?' ac 'Onid?') fel modd o gyflwyno gwybodaeth, techneg sy'n ymddangos yn aml nid yn unig yn y ddau waith hyn ond yng ngweithiau llwyfan eraill T. Gwynn Jones yn ogystal.¹⁴ Yn ogystal â'r dystiolaeth destunol, sy'n awgrymu bod T. Gwynn Jones wedi 'adolygu llawer iawn', chwedl Arthur ap Gwynn, ar libreto *Gwenllian*, dylid sylwi hefyd ar ddiolchiadau de Lloyd ar ddechrau'r cyhoeddiad, lle y cydnebydd '[f]aint fy nyled' i Gwynn Jones. Diddorol yw nodi na cheir unrhyw gyfeiriad at Eurwedd.¹⁵

Dilyn rhan gyntaf *Gwenllian* hanes Ednyfed, ac fe glywir ei gyfeillion yn trafod a fydd ef yn ymuno â'r Groesgad ai peidio. Yr oedd yn wreiddiol, dywedant, yn erbyn mynd i ymladd, ond cyhoedda'r cymeriad Meurig fod ei gyfaill wedi newid ei feddwl. Yn ail olygfa'r Act Gyntaf gwelir Ednyfed yn ffarwelio â Gwenllian, ei gariad, ac y mae'r ddau yn canu deuawd emosiynol lle gwelir Ednyfed yn addo dychwelyd er gwaethaf yr holl beryglon:

Mi ddof yn ol [...] dan fendith, dan fendith Dduw
Pan ddof eto'n ol yn ol o'r heldrin hir [...]
Bydd gwanwyn eilwaith yn y tir [...]

Gwenllian rhaid yw myned
Lle bo'r gwaed yn llifo, a'r waedd hir yn gref,
Buan y dychwel dy Ednyfed

¹³ T. Gwynn Jones (geiriau), David de Lloyd (cerddoriaeth), *Tir na n-Og: An Opera in Three Acts* (Cardiff, 1930), 1.

¹⁴ Gwelir, er enghraifft, y dechneg hon yn cael ei defnyddio yn act gyntaf drama T. Gwynn Jones, *Anrhydedd* (Caerdydd, 1923), a thrwy gydol *Y Gainc Olaf*, T. Gwynn Jones a W. S. Gwynn Williams (Wrecsam, 1934).

¹⁵ David de Lloyd, 'Diolchiadau', yn Gwynn Jones, Eurwedd, de Lloyd, *Gwenllian*, 2.

O bydd bodlon o'i drugaredd Ior nef y nef¹⁶

Dyma agwedd sy'n amlwg hefyd yn ffarwél Osian yn 'Tir na n-Og' wrth iddo ymadael â Nia a Tír na nÓg:

Dof yn ôl i dŷ f'anwylyd,
Heriwn wlad a nofiwn li,
Heb un ing wynebwn angau
Mal y down i'th ymyl di!¹⁷

Yn ail act *Gwenllian*, sydd wedi'i gosod dair blynedd yn ddiweddarach, nid yw Ednyfed eto wedi dychwelyd, a daw cymeriad o'r enw Garw Lwyd at Gwenllian a gofyn iddi ei briodi. Y mae hi'n ei wrthod: 'Na! Na! Daw Ednyfed, Ednyfed yn ôl'.¹⁸ Wrth geisio ei hennill, dywed Garw Lwyd wrthi ei fod yn siŵr o fod wedi marw:

Ni ddychwel Ednyfed o'r rhyfel byth mwy.
A chleddyf y gelyn trwy'i galon oer, wyw,
Mae'n gorwedd yn dawel dan dywod, gwir yw!¹⁹

Fe gytuna Gwenllian i briodi Garw Lwyd ymhen blwyddyn os nad ydyw Ednyfed wedi dychwelyd yn y cyfamser, er y dywed nad oes unrhyw werth i'w haddewid: 'Ac onid Ednyfed i'm cymryd a ddaw,/ Bydd farw fy nghalon, a diwerth fy llaw!'.²⁰ Gosodir Act 3 flwyddyn yn ddiweddarach eto, ar ddiwrnod priodas Gwenllian a Garw Lwyd. Dychwel Ednyfed mewn pryd i atal y briodas, gan fynd at Gwenllian wedi'i wisgo fel crwydryn a hawlio'i chariad. Wedi ei wfftio i ddechrau, adnebydd

¹⁶ Gwynn Jones, *Eurwedd, de Lloyd, Gwenllian*, 30-1, 47.

¹⁷ Gwynn Jones, 'Tir na n-Og', yn *Caniadau*, 69.

¹⁸ Gwynn Jones, *Eurwedd, de Lloyd, Gwenllian*, 96.

¹⁹ *Ibid.*, 99-100.

²⁰ *Ibid.*, 103.

Gwenllian ef o'r diwedd, ac y mae'r gwaith yn cloi gyda'r ddau gariad yn datgan 'Ffyddlondeb cariad pur, er gwaethaf cur y pery byth' mewn deuawd.²¹

Fe berfformiwyd *Gwenllian* am y tro cyntaf yn Aberystwyth ym 1924 gan Gôr Angharad, côr myfyrwyr a sefydlwyd gan J. Lloyd Williams 'gyda'r amcan o berfformio operâu Gymreig [*sic*]'.²² Cafodd y gwaith dderbyniad gwresog gan y wasg, ac mae nifer o'r adolygiadau yn cael eu dyfynnu yn llyfryn cais de Lloyd am Gadair yr Adran Gerddoriaeth yn Aberystwyth ym 1927. Mae'r *Genedl Gymreig* yn canmol y cerddor fel hyn: 'Y mae uchelgais diamheuol yn y gwaith, ond y mae'n uchelgais tawel a glan [*sic*] wedi mynd trwy ridyll mân beirniadaeth bersonol, heb ymollwng nac ymwylltio yn unman'.²³ Ceir canmoliaeth hefyd yn y wasg Saesneg i'r gwaith, a cheir ysgrifau yn y *Manchester Guardian* a'r *Musical Herald* yn pwysleisio dawn y cyfansoddwr: 'The thing most openly proved in the work is the essential genius of the composer', meddai gohebydd y *Guardian*.²⁴ Pwysleisia John Hughes, mewn ysgrif ar 'Y Chwarae-gerdd Gymreig', ddefnydd celfydd de Lloyd o wahanol arddulliau cerddorol – alawon Cymreig traddodiadol, hen gerddoriaeth eglwysig a thechneg y *leitmotif*, a wnaed yn enwog gan Wagner.²⁵ Sylwa Hughes hefyd ar yr 'effects rhyfeddol o gywrain sydd yn dangos meistrolaeth lwyr ar gelfyddyd "llywio" drwy seiniau', ac effeithiau dramatig y geiriau a'r gerddoriaeth wrth berfformio'r gwaith ar lwyfan.²⁶ Mae Hughes yn cloi ei drafodaeth ar *Gwenllian* gan ddweud bod y gwaith yn 'gyfraniad teilwng iawn at Gerddoriaeth Gymreig ddiweddar. Hyderaf,

²¹ Ibid., 175.

²² A. Haydn Jones, 'Opera Newydd Gymraeg yn Aberystwyth', *Y Cerddor Newydd*, Cyf. 3, Rhif 3 (Mawrth, 1924), 23.

²³ Dienw, dyfynnwyd yn *University College of Wales, Aberystwyth Professorship of Music: Application and Testimonials of David de Lloyd* yn Papurau David de Lloyd [DdL], Bocs 22 (Cyfres 3), Llyfrgell Prifysgol Aberystwyth [LIPA].

²⁴ Ibid.

²⁵ John Hughes, 'Y Chwarae-gerdd Gymreig', *Cymru*, LXIX (Gorffennaf, 1925), 2.

²⁶ Ibid.

felly, y bydd i'r genedl ei derbyn gyda breichiau agored'.²⁷ Er nad yw *Gwenllian* bellach yn adnabyddus, gwelir ei fod yn waith pur lwyddiannus yn ei gyfnod, ac iddo gael ei berfformio hefyd mewn cyngerdd nos yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mhwillheli ym 1925.²⁸

Yn sgil llwyddiant *Gwenllian*, efallai, y trodd David de Lloyd at osod gwaith arall gan Gwynn Jones, sef yr awdl 'Tir na n-Og'. Er i'r awdl gael ei chyhoeddi fel gwaith llenyddol yn y cylchgrawn *The Welsh Outlook* ym 1916, yr oedd hi, fel y nodwyd yn y bennod flaenorol, yn awdl a gyfansoddwyd yn wreiddiol i'w gosod i gerddoriaeth. Aflwyddiannus, fel y dangoswyd eisoes, oedd ymgais David Evans, y cerddor a ofynnodd i Gwynn Jones gyfansoddi libreto iddo, i osod y gwaith uchelgeisiol hwn. Er gwaethaf methiant Evans i gwblhau'r gwaith, fe welir cyfansoddwyr eraill yn mynd i'r afael â gosod yr awdl – neu rannau ohoni – i gerddoriaeth. David de Lloyd yw un o'r cyfansoddwyr hyn, fel y nodwyd uchod, ond mae tystiolaeth bod cyfansoddwr arall wedi mynd ati i geisio cyfansoddi cerddoriaeth ar gyfer yr awdl gyfan, sef David Vaughan Thomas (1873-1934). Ceir yn ogystal osodiadau W. Bradwen Jones ac Arwel Hughes o gân Osian, a drafodwyd yn y bennod ar y caneuon gwreiddiol yn yr astudiaeth bresennol.

Y mae David Vaughan Thomas yn adnabyddus ym myd cerddoriaeth Gymreig am ei osodiadau o'r canu caeth, yn arbennig ei gylch *Saith o Ganeuon*, gosodiadau o ganu'r Cywyddwyr.²⁹ Yn rhifyn coffa Vaughan Thomas o'r cyfnodolyn *Tir Newydd*, yr hyn sy'n amlwg yn yr holl ysgrifau – ac mae T. Gwynn Jones ei hun yn eu mysg – yw bod y gwaith a wnaeth y cyfansoddwr ym maes gosod y canu caeth

²⁷ Ibid.

²⁸ 'Our Special Correspondent', 'National Eisteddfod: Huddersfield Win Chief Choral; "Gwenllian" – A New Opera', *The Manchester Guardian*, 6 Awst 1925, 16.

²⁹ Gweler, er enghraifft, Granville Bantock, 'Gair o Deyrnged', yn *Tir Newydd*, Rhif 16 (Mehefin 1939), 5.

i gerddoriaeth wedi bod yn gyfraniad arloesol a phwysig i gerddoriaeth Gymreig. Yn y rhagair i'r rhifyn coffa hwn o *Tir Newydd*, dywedir mai Vaughan Thomas oedd 'y cyntaf i gyfansoddi cerddoriaeth a oedd yn nodweddiadol Gymreig'.³⁰ Diddorol yw nodi bod y sylw hwn ynghylch cerddoriaeth o natur gynhenid Gymreig yn codi mewn adolygiadau o waith de Lloyd hefyd.³¹ Y mae ysgrif Gwynn Jones ei hun yn y rhifyn coffa yn sôn am ei atgofion personol am y cyfansoddwr a'u sgysiau ynghylch gosod y canu caeth i gerddoriaeth. Gan adleisio'r hyn a ddywedwyd yn y rhagair i'r rhifyn, nodi Gwynn Jones fod Vaughan Thomas yn credu, 'fel yr oeddwn innau'n rhyw frith synied, y gellid dwyn i mewn ryw arbenigrwydd i gerddoriaeth Gymreig newydd drwy astudio rhediad ac aceniad y canu caeth'.³² Gan ystyried y cyfeillgarwch rhwng y ddau ddyn, yn ogystal â'r diddordeb mawr a oedd gan y ddau yn rhyngberthynas llenyddiaeth a cherddoriaeth, nid yw'n syndod i Vaughan Thomas droi at gyfansoddi cerddoriaeth ar gyfer rhai o gerddi T. Gwynn Jones. Trafodwyd eisoes yn y thesis presennol, wrth gwrs, ei osodiadau o adrannau o 'Ymadawiad Arthur' a gyhoeddwyd dan y teitlau *Caledfwlch* ac *Ymadawiad Arthur* ym 1930 a 1931.³³

Y mae Arthur ap Gwynn, yn ei ysgrif ar Gwynn Jones a David de Lloyd yn y gyfrol *Cyfres y Meistri*, yn mynd i'r afael ag ymdrechion Vaughan Thomas i osod 'Tir na n-Og'. Cyfeiria at lawysgrifau'r cerddor yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, ac at 'nifer o ddrafftiau gosodiadau ar "Tir na n-Og"'.³⁴ Cred ap Gwynn fod Vaughan

³⁰ Dienw, 'David Vaughan Thomas', yn *ibid.*, 4.

³¹ Gweler, er enghraifft, yr adolygiad o'r opera *Tir na n-Og* sy'n sôn am y gwaith hwnnw fel 'the overture to a future feast of Celtic music'; dienw, dyfynnwyd yn *University College of Wales, Aberystwyth Professorship of Music*, yn Papurau DdLl, Bocs 22 (Cyfres 3), LIPA.

³² T. Gwynn Jones, 'Gosod y Canu Caeth ar Gerdd', yn *Tir Newydd*, Rhif 16 (Mehefin 1939), 13.

³³ T. Gwynn Jones (geiriau), D. Vaughan Thomas (cerddoriaeth), *Caledfwlch* (Swansea, 1931); T. Gwynn Jones (geiriau), D. Vaughan Thomas (cerddoriaeth), *Ymadawiad Arthur* (Swansea, 1930).

³⁴ ap Gwynn, 'T. Gwynn Jones a David de Lloyd', 82.

Thomas wedi bwriadu gosod yr awdl yn ei chyfanrwydd, ond na lwyddodd i fynd ymhell iawn gyda'r gwaith. Yn ôl ap Gwynn, ceir hanner dwsin o ddrafftiau o'r gwaith hwn yn llawysgrifau Vaughan Thomas, ond mewn gwirionedd gellir adnabod wyth drafft gwahanol ymysg y papurau. Mae un drafft yn cynnwys rhagarweiniad offerynnol i'r gwaith mewn ffurf gymharol derfynol, ac mae Vaughan Thomas hyd yn oed wedi nodi cyfarwyddiadau llwyfan Gwynn Jones ar y gwaith: 'Gwanha'r goleuni yn araf', 'Daw Osian i'r golwg'.³⁵ Y mae'n amlwg yma fod Vaughan Thomas wedi meddwl yn fanwl am y llwyfannu, ond er hyn, y mae'r drafft ymddangosiadol orffenedig hwn yn dod i ben yn sydyn ar ddechrau cân gyntaf Osian: 'Diwedd gwael i'n dydd a gaid, a thawodd y bytheuaid'.³⁶ Yn ôl tystiolaeth y drafft hwn, felly, nid aeth Vaughan Thomas rhagddo i osod y lleisiau, ac wrth edrych ar rai o'r drafftiau eraill, y mae hi'n amlwg na lwyddwyd i roi ffurf derfynol ar y rhannau lleisiol hyn.

Fe geir, fodd bynnag, ymysg y papurau ddarn hir mewn pensil, sy'n mynd o ddechrau'r gwaith hyd at ddechrau deuawd Osian a Nia yn yr act gyntaf.³⁷ Gwelir yn y drafft hwn bod Vaughan Thomas wedi dewis llais tenor ar gyfer cymeriad Osian, a mezzo soprano ar gyfer Nia.³⁸ Mae corws yr helwyr yn ymrannu'n bedwar llais, TTBB.³⁹ Diddorol yw nodi bod rhestr Emrys Cleaver o gyfansoddiadau Vaughan Thomas yn cynnwys y cyfeiriad "'Tir na Na-og" [*sic*] (T. Gwynn Jones) Anorffenedig' o dan yr is-bennawd 'Gweithiau Offerynnol'.⁴⁰ Ymddengys fod Cleaver, wrth greu'r rhestr, wedi edrych ar un o'r drafftiau cyntaf sydd â theitl arnynt,

³⁵ D. Vaughan Thomas, *Drafftiau o Tir na n-Og*, Papurau a Llawysgrifau Cerddoriaeth D. Vaughan Thomas, 17, LIGC.

³⁶ *Ibid.*

³⁷ *Ibid.*

³⁸ *Ibid.*

³⁹ *Ibid.*

⁴⁰ Emrys Cleaver, *D. Vaughan Thomas* (Llandybïe, 1964), 90.

ond heb ystyried y rhai sy'n gosod yr adrannau lleisiol. Ar ddechrau un o'r drafftiau mae Vaughan Thomas yn nodi Gwynn Jones fel awdur y geiriau, er na chaiff unrhyw eiriau eu gosod yn y drafft arbennig hwnnw.⁴¹ Diau mai hyn sydd wedi peri i Emrys Cleaver gynnwys y gwaith, gan enwi Gwynn Jones, yn y categori 'Gweithiau Offerynnol', gan nad oes unrhyw deitl wedi'i nodi ar y drafftiau sy'n cynnwys adrannau lleisiol.

Nid yw rheswm Vaughan Thomas dros roi'r gorau i gyfansoddi'r gwaith yn hysbys, ac yn wir ni wyddys ychwaith beth yw dyddiad y gwaith hwn ganddo. Ymysg papurau Gwynn Jones yn y Llyfrgell Genedlaethol fe gadwyd llythyr gan Vaughan Thomas o 1917 sy'n sôn am yr awdl: 'Diolchaf yn gynhes am y wledd gefais i o ddarllen eich awdl delynegol [...] I ddatgan barn yn onest teimlaf y byddai'n hyfdra i neb cerddor [...] ychwanegu at brydferthwch y beroriaeth sy'n fyw yn y geiriau.'⁴² Cyfeiria Gwynn Jones yn ei ysgrif yn *Tir Newydd* at sgwrs a gafodd â Vaughan Thomas, 'ryw bum mlynedd ar hugain yn ôl' ynghylch '[c]ynnig yr oeddwn yn gweithio arno ers tro i sgrifennu darn yn rhai o'r mesurau cynghaneddol Cymraeg at ei ganu â'r llais'.⁴³ O ran y dyddiadau, y mae'n ddigon posibl mai at 'Tir na n-Og' y cyfeiria Gwynn Jones yma, gan fod yr ysgrif hon wedi ei chyhoeddi ym 1939, a'r awdl wedi ei chyhoeddi am y tro cyntaf ym 1916. Er gwaethaf natur anorffenedig y gwaith a gadwyd inni, y mae'r drafftiau hyn yn dal i fod yn bwysig o ran datblygiad yr awdl 'Tir na n-Og' yng nghyd-destun cerddoriaeth.

Yr unig gyfansoddwr a lwyddodd i osod yr awdl 'Tir na n-Og' i gerddoriaeth yn ei chyfanrwydd oedd David de Lloyd. Fe drafodir uchod y 'chwaraegerdd'

⁴¹ D. Vaughan Thomas, *Drafftiau o Tir na n-Og*, Papurau a Llawysgrifau Cerddoriaeth D. Vaughan Thomas, 17, LIGC.

⁴² Llythyr, dyddiedig 17 Hydref 1917, gan D. Vaughan Thomas at T. Gwynn Jones [TGJ], Papurau TGJ G5342, LIGC.

⁴³ Gwynn Jones, 'Gosod y Canu Caeth ar Gerdd', 12.

Gwenllian, a T. Gwynn Jones, gyda T. Williams, yn gyfrifol am y libreto, ac fe awgrymwyd fod llwyddiant y gwaith hwn wedi ysgogi'r cyfansoddwr i fynd ati i osod darn arall o waith Gwynn Jones, sef *Tir na n-Og: An Opera*. Cynigia Arthur ap Gwynn fod de Lloyd wedi dechrau gosod yr awdl yn fuan wedi'r perfformiad o *Gwenllian*, gan gwblhau'r gwaith o fewn tua naw mis:

chwaraewyd “Gwenllian” [...] yn nechrau 1924 a dichon iddo [David de Lloyd] droi at y gwaith newydd yng ngwanwyn y flwyddyn honno a gorffen erbyn tua diwedd y flwyddyn, pryd y gellid tybied y dechreuwyd ymarfer ar gyfer perfformiad.⁴⁴

Perfformiwyd *Tir na n-Og* yr opera am y tro cyntaf ym mis Mai 1925 yn Aberystwyth gan Gôr Angharad, yr un *ensemble* ag a aeth ati i lwyfannu *Gwenllian* y flwyddyn flaenorol, ac fe gafodd ymateb yr un mor ffafriol â'i rhagflaenydd yn y papurau lleol a chenedlaethol fel ei gilydd. Pwysleisia'r *Cambrian News* yr ‘atmosphere of mystery and charm’ a grëwyd gan y gerddoriaeth, gan ddweud bod y gwaith ar ei hyd wedi dal sylw'r gynulleidfa.⁴⁵ Dywed gohebydd *Y Genedl Gymreig* mai mynd i'r cyngerdd hwn oedd ‘un o'r digwyddiadau hapusaf yn fy mhrofiad cerddorol’, a bod y gerddoriaeth ‘yn fyw gan angerdd y teimladau sydd yn y gerdd’.⁴⁶ Wedi amlinelliad bras o'r stori, canolbwyntia awdur dienw'r erthygl hon ar y gerddoriaeth yn hytrach na'r geiriau: canmola'r ‘[ll]eferydd cerddorol’ a rydd gosodiad de Lloyd i waith Gwynn Jones, gan ei alw'n ‘rhyfeddol yn ei brydferthwch llym a'i gynildeb urddasol’.⁴⁷ Y mae'r *Manchester Guardian* yn sôn am hud y geiriau yn ogystal â'r gerddoriaeth: ‘the word wizardry of the “cynghanedd” in the hands of a

⁴⁴ ap Gwynn, ‘T. Gwynn Jones a David de Lloyd’, 83.

⁴⁵ Dienw, dyfynnwyd yn *University College of Wales, Aberystwyth Professorship of Music*, yn Papurau DdLl, Bocs 22 (Cyfres 3), LIPA.

⁴⁶ Dienw, ‘Y Gerddoriaeth Gymreig Newydd – “Pwyll a Rhiannon”, “Tir na n-Og” – Awen Dafydd de Lloyd’, *Y Genedl Gymreig*, 25 Mai 1925, 6.

⁴⁷ *Ibid.*

master, and of the haunting and magic strains which may surely be regarded as merely the overture to a future feast of Celtic music'.⁴⁸ Mae'r adolygiad hwn, fel nifer o adolygiadau eraill ar berfformiadau o waith de Lloyd, yn pwysleisio newydddeb ei arddull gerddorol, ac yn maentumio fod yn ei waith ymdeimlad neilltuol Gymreig. Tebyg yw'r sylwadau a gynigir am y gwaith dros hanner can mlynedd yn ddiweddarach, fel y gwelwn o lythyr Arwel Hughes i'r cyfnodolyn *Welsh Music* ym 1978: 'Yn *Tir na N-og* [sef yr opera] deuthum o hyd i rywbeth oedd yn newydd a ffres yn ein cerddoriaeth'.⁴⁹

Ni cheir llawer o wybodaeth ynghylch cynyrchiadau llwyfan o *Tir na n-Og* wedi'r perfformiad cyntaf ym mis Mai 1925, heblaw'r hyn a ddywed Emrys Cleaver yn ei gyfrol *Musicians of Wales*: 'it was performed once in Aberystwyth in 1930 and was twice broadcast in the forties, and an excerpt was rendered in a recent television programme'.⁵⁰ Ni cheir unrhyw dystiolaeth, fodd bynnag, yn cefnogi'r honiad hwn am berfformiad ym 1930 yn Aberystwyth, ac efallai mai'r perfformiad cyntaf ym 1925 y mae Cleaver yn cyfeirio ato yma, gan gymysgu rhwng y dyddiad hwn a'r dyddiad cyhoeddi, sef 1930. Gwelir camgymeriad arall yn ymwneud â gwaith de Lloyd a T. Gwynn Jones yn ei gyfrol, wrth iddo ddisgrifio opera *Tir na n-Og* fel hyn: 'the theme is an Irish one and the libretto is by Dr T. Gwynn Jones and Eurwedd'.⁵¹ *Gwenllian*, wrth gwrs, yw'r opera sy'n gywaith gan y ddau awdur.

Gresyna Cleaver ynghylch y ffaith nad yw *Tir na n-Og* wedi dod yn fwy enwog, gan ddweud, 'Alas, it has been heard but infrequently! [...] it deserves serious attention and study and Welsh musical lovers should be given the opportunity of

⁴⁸ Dienw, dyfynnwyd yn *University College of Wales, Aberystwyth Professorship of Music*, yn Papurau DdLl, Bocs 22 (Cyfres 3), LIPA.

⁴⁹ Arwel Hughes, 'Correspondence/Gohebiaeth', *Welsh Music*, Cyf. V, Rhif 10 (Gaeaf, 1978-9), 93.

⁵⁰ Emrys Cleaver, *Musicians of Wales* (Ruthin, 1968), 83.

⁵¹ *Ibid.*, 82.

hearing it and appreciating it.’⁵² Ymhlith papurau T. Gwynn Jones yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, ceir casgliad o lythyrau a nodiadau sy’n adrodd hanes un perfformiad o’r gwaith na ddaeth i fod, a hynny yn fuan wedi’r perfformiad cyntaf ym mis Mai 1925. Mae’r llythyrau sy’n cynnwys yr hanes diddorol hwn yn rhai a anfonwyd at T. Gwynn Jones gan Syr Walford Davies, Athro Cerddoriaeth Coleg y Brifysgol yn Aberystwyth ar y pryd, gyda nodiadau yn llaw Gwynn Jones arnynt yn nodi ei atebion ei hun i’r llythyrau hyn. Ynghlwm â’r llythyrau ceir hefyd saith tudalen yn llaw Gwynn Jones, sef llythyr at olygydd y *Western Mail* yn dwyn y pennawd ‘How “Tir na nOg” was kept out’.⁵³

Roedd yr opera *Tir na n-Og* i fod i gael ei pherfformio fel rhan o Wyl Gerddoriaeth Aberystwyth, gŵyl flynyddol a gynhelid yn y Coleg. Esbonia Gwynn Jones yn ei lythyr at y papur newydd sut yr oedd yr wyl wedi bod yn gwneud colled dros y blynyddoedd, ac felly mewn cyfarfod o bwyllgor yr wyl fe gynigiwyd y byddai arlwy Gymreig yn denu cynulleidfa:

If it was intended to attract visitors from England, it would be better to provide something which could not be got, in better form, at the great English Festivals [...] they might attract visitors from England if anything peculiarly Welsh were produced.⁵⁴

Crybwyllwyd enw Côr Angharad, ac yn ôl Gwynn Jones roedd Syr Walford Davies yn gefnogol i’r syniad, er nad oedd, meddai’r bardd, wedi rhoi unrhyw sylw i’r côr cyn hynny: ‘this choir had never before received the slightest recognition or help from the “Music House”’.⁵⁵ Gwelir bod y llythyr hwn ar unwaith yn amddiffynol – ‘I have been told that the reason given for the non-appearance of “Tir na nOg”, Dr de

⁵² Ibid., 83.

⁵³ T. Gwynn Jones, ‘How “Tir na nOg” was kept out’, Papurau TGJ, G998B, LIGC.

⁵⁴ Ibid.

⁵⁵ Ibid.

Lloyd's new work, in the programme of the Aberystwyth National Festival this year is that I prevented its inclusion. As this statement, given without any explanation, is untrue, will you allow one to state the facts?'⁵⁶ – ac eto ar brydiau'n ddigon ymosodol yn achos adran gerddoriaeth y Coleg, ac yn arbennig yng nghyswllt Walford Davies. Ceir sylwadau coeglyd drwy gydol y llythyr hwn gan T. Gwynn Jones – llythyr na chafodd ei anfon at y *Western Mail* yn y pen draw. Fel y dywed Gwynn Jones ei hun mewn nodyn ar y llythyr a gadwodd:

This letter I abstained from sending to the press in deference to the appeal of my friend Lloyd Williams, who, while admitting the justice of its contents, persuaded me not to cause possible injury to the festival.⁵⁷

Yn ôl llythyr Gwynn Jones, penderfynodd y pwyllgor, heb yn wybod i Gwynn Jones a David de Lloyd, lwyfannu un rhan yn unig o'r opera *Tir na n-Og*. Clywodd Gwynn Jones am hyn a gwrthwynebu'r cynllun, gan fynnu y dylai'r gwaith gael ei berfformio'n llawn:

I asked who had given permission to do part of *Tir na nÓg* + let it be understood that it would be done fully or not at all.⁵⁸

Yn dilyn hyn, fe awgrymodd y pwyllgor y byddai modd perfformio'r ddwy ran olaf yn eu cyfanrwydd, a detholiad o'r rhan gyntaf. Eto, roedd y bardd a'r cyfansoddwr yn chwyrn yn erbyn y syniad, ac yn benderfynol na fyddent yn rhoi sêl eu bendith ar hynny ychwaith: 'we agreed to repeat our decision that we would consent to no mutilation'.⁵⁹ Wedi hynny, fe gafodd Gwynn Jones gyfarfod â Walford Davies ('[he]

⁵⁶ Ibid.

⁵⁷ Ibid.

⁵⁸ Ibid.

⁵⁹ Ibid.

spoke at great length about good-will, charity, faith + other virtues'⁶⁰), lle y penderfynwyd peidio â chynnwys *Tir na n-Og* o gwbl yn rhaglen yr ŵyl. Ni cheir unrhyw gyfeiriad at yr opera *Tir na n-Og* na'r anghydfod a fu ynglŷn â'i pherfformio (neu ei 'mutilation', chwedl Gwynn Jones) ymysg y papurau sy'n ymwneud â'r ŵyl a gadwyd yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru – deunydd sy'n cynnwys llyfr cofnodion cyfarfodydd a gohebiaeth ynghylch materion gweinyddol yr ŵyl.⁶¹ O ganlyniad, felly, fersiwn unochrog (ac ychydig yn bigog) T. Gwynn Jones yn unig sydd gennym wrth geisio mynd at wraidd yr achos hwn. Gan nad yw cofnodion y cyfarfodydd pwyllgor yn crybwyll y broblem o gwbl, tybed a ellir mynd mor bell ag awgrymu bod yr helynt wedi'i chadw allan o'r rhain yn fwriadol? Gyda chyn lleied o wybodaeth a thystiolaeth, nid oes modd profi unrhyw beth yn bendant yn y cyswllt hwn – heblaw, wrth gwrs, y ffaith fod Gwynn Jones yn amlwg wedi ei wylltio gan y modd, fel y gwelai ef bethau, y bu i Walford Davies a'r pwyllgor drin ei waith, fel y dengys llythyr ganddo at John Davies ym 1928, lle cyfeiria eto at yr Ŵyl: 'Cadwodd Walford Davies yr opera fach "Tir na nOg" [*sic*] allan o *Festival* Aberystwyth ryw dair blynedd yn ôl drwy bob esgus ac ystryw'.⁶²

Yn dilyn hyn, fe drodd pethau'n chwerw rhwng Gwynn Jones a Walford Davies, fel y mae'r casgliad o lythyrau oddi wrth Walford Davies, a gadwodd Gwynn Jones ar y cyd â'i lythyr at y *Western Mail*, yn tystio. Fe nododd Gwynn Jones ei atebion ei hun arnynt (er budd darllenwyr y dyfodol, o bosibl?): 'What occurred

⁶⁰ Ibid.

⁶¹ Gweler Llyfr Cofnodion Gŵyl Gerddorol Aberystwyth 1925-7, Archifau Adran Cerddoriaeth Prifysgol Cymru Aberystwyth, 66, LIGC; papurau a gohebiaeth, 1924-5, yn ymwneud â Gŵyl Gerddorol Aberystwyth, Archifau Adran Cerddoriaeth Prifysgol Cymru Aberystwyth, 69, LIGC.

⁶² Llythyr, dyddiedig 3 Mai 1928, gan T. Gwynn Jones at John Davies; dyfynnwyd yn David Jenkins, *Thomas Gwynn Jones: Cofiant* (Dinbych, 1973), 289.

afterwards is made clear by the following correspondence'.⁶³ Anfonwyd llythyrau Walford Davies ym mis Mehefin 1925, heb fod yn hir wedi helynt yr Ŵyl Gerddoriaeth, a gwelir yn glir nad oedd perthynas y ddau ddyn wedi gwella. Ceir yn yr ohebiaeth drafodaeth ynghylch cân gan Walford Davies a gyfieithodd Gwynn Jones ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Pwllheli, 'Storm Joy', ac ynghylch mater rhoi tâl i'r bardd am wneud y cyfieithiad hwnnw. Dywed Walford Davies yn y llythyr cyntaf: 'You kindly translated Storm Joy for the Pwllheli Eisteddfod and I do not know what fee is, in your judgement, adequate; and (after our stormy but friendly interview the other day) I am the more in need of your own guidance as to what is the proper sum to pass between us'.⁶⁴ Yn y cyfarfod hwnnw – a fu, yn ôl y cerddor, yn un 'stormy but friendly' – gellid damcaniaethu bod Gwynn Jones wedi gwrthod unrhyw arian am y gwaith, fel y gwna yn ei ateb i lythyr Walford Davies. Fel y cofnododd Gwynn Jones ar frig y llythyr hwnnw:

Replied to as follows:- 'Dear Sir W.D. – your standards and mine must differ wildly. When I was requested to provide a version of "Storm Joy", I understood the request was personal. For such a bit of aid (if it may be so described) I, of course, receive no payment. Please oblige me by making no further reference to the matter.

Yours with candour, T. G. J.'⁶⁵

Diddorol yw'r amharodrwydd hwn ar ran Gwynn Jones i dderbyn arian am ei waith, yn enwedig o ystyried, fel y gwelwyd mewn penodau blaenorol, yr arian a enillodd am ei waith gyda Chwmni Cyhoeddi Gwynn. Efallai bod y rhesymeg y tu ôl i'r gwrthodiad hwn yn gysylltiedig â'r sen yr oedd yn teimlo ei fod wedi'i phrofi yn achos helynt yr Ŵyl Gerddoriaeth a *Tir na n-Og*.

⁶³ Gwynn Jones, 'How "Tir na nOg" was kept out', Papurau TGJ, G998B, LIGC.

⁶⁴ Llythyr, dyddiedig 14 Mehefin 1925, gan H. Walford Davies [HWD] at TGJ, Papurau TGJ G999, LIGC.

⁶⁵ Nodyn gan TGJ ar ibid.

Er gwaethaf cais Gwynn Jones i Walford Davies i beidio â chyfeirio at y pwnc ymhellach, parhau a wnaeth yr olaf i gynnig tâl. Ceir llythyr arall gan yr Athro Cerddoriaeth, wythnos yn ddiweddarach, sy'n gofyn eto:

Really your letter does not meet the facts, kind [...] it is in intention. 'Storm Joy' was wanted in Welsh and you supplied the need. I suppose you would refuse – as I think rightly – to profit financially by my music? May I not be equally free to ask you to take the slender profit that comes to the librettist and musician alike from such publications? There are two possible arrangements, a royalty or a fixed agreed sum. –

There was nothing unfriendly in my request that you would help me to put matters straight, nothing 'wildly different' in our standards. Please let me know in which form I may discharge this honourable debt to a colleague; with unfailing regard and gratitude

Yours equally candidly, Walford D.⁶⁶

Nodyn byr a anfonodd Gwynn Jones yn ateb i'r llythyr gorgwrtais hwn, sy'n gyferbyniol yn ei naws swta. Dyma a nododd Gwynn Jones, eto ar frig y llythyr gan Walford Davies yr oedd yn ei ateb: 'Replied to June 23, 1925 – "Dear Sir W. D. – I am sorry you seem to think that my words in reply to your former communication had no meaning, they had + were final. I hope this reiteration may be accepted. Yours with candour T. G. J."''.⁶⁷

Y mae Walford Davies yn ymateb eto fyth, gan ddweud:

Thanks for your second really kindly note with its refreshing candour. I am sure that you realize there is no such thing as 'finality' in the ups and downs of human friendship. Accept the affection as requested and much more forgive the short-comings of your grateful colleague Walford Davies. P.S. I feel bound to add – If and as soon as it is possible, please give me permission to

⁶⁶ Llythyr, dyddiedig 21 Mehefin 1925, gan HWD at TGJ, Papurau TGJ G1000, LIGC.

⁶⁷ Nodyn gan TGJ ar lythyr, dyddiedig 21 Mehefin 1925, gan HWD at TGJ, Papurau TGJ G1000, LIGC.

suggest a reasonable sharing of any profits that may result from our joint work on 'Storm Joy'.⁶⁸

Y mae'n amlwg i Gwynn Jones golli amynedd gyda'r sefyllfa, ac fe geir sylwadau crafog iawn ganddo ar y llythyr hwn:

To this, of course, I sent no reply. The next step of W.D's was, at a committee meeting which we both attended, to ask me whether I would 'consider declaiming "Y Daran" (Dafydd ap Gwilym) at the festival, before it was sung by the choir'. This was monosyllabically refused, and a further attempt had to be repelled with a mono-syllable + shrugged shoulders.

There is in this last letter an appearance of humility which one could hardly have repelled if his experience had not made it impossible for him to be convinced of its sincerity.⁶⁹

Dengys dau lythyr o fis Tachwedd o'r un flwyddyn fod yr anghydfod yn parhau. Yn y rhain, ceir cais gan Walford Davies i Gwynn Jones ynghylch cyfieithu geiriau caneuon traddodiadol ar gyfer cyfrol i ysgolion. Noda Gwynn Jones – ar y llythyr cyntaf – iddo ymateb yn swta eto, gan ategu ei benderfyniad blaenorol i beidio â gwneud unrhyw waith arall ar gyfer Walford Davies: 'You will pardon me for adhering to my decision, already expressed, not to undertake any such work in future'.⁷⁰ Diddorol iawn yn y cyswllt hwn yw sylw gan Walford Davies yn ei gyfrol o 1935, *The Pursuit of Music*, wrth iddo drafod y berthynas rhwng cerddoriaeth a barddoniaeth, ac, yn benodol, gerddorion a beirdd:

Musicians and poets will not indefinitely continue to accept confusions and absurdities as the price they must pay for the privilege of working together. The more fully they come to

⁶⁸ Llythyr, dyddiedig 24 Mehefin 1925, gan HWD at TGJ, Papurau TGJ G1001, LIGC.

⁶⁹ Nodyn gan TGJ ar lythyr, dyddiedig 24 Mehefin 1925, gan HWD at TGJ, Papurau TGJ G1001, LIGC.

⁷⁰ Nodyn gan TGJ ar lythyr, dyddiedig 4 Tachwedd 1925, gan HWD at TGJ, Papurau TGJ G1002, LIGC.

understand each other, the more intolerable will such confusion become.⁷¹

Tybed ai'r anghydfod â Gwynn Jones a sbardunodd y sylw?

Er na pherfformiwyd *Tir na n-Og* yng Ngŵyl Gerddoriaeth Aberystwyth ym 1925, y mae'n amlwg na chafodd yr helynt effaith andwyol barhaol ar yr opera, gan i sgôr hen nodiant ddwyieithog gael ei chyhoeddi ym 1930, a hynny drwy'r Cyngor Cerddoriaeth Cenedlaethol (National Council of Music). Walford Davies oedd cyfarwyddwr y pwyllgor hwnnw, a diddorol yw sylwi felly ar ei bresenoldeb ar y Cyngor a gyhoeddodd *Tir na n-Og*, o ystyried ei hanes tymhestlog gyda T. Gwynn Jones, a'r anghydfod a gododd dros yr union waith hwnnw. Er nad oes, fel y nodwyd uchod, unrhyw dystiolaeth ynghylch perfformiad o'r gwaith hwn yn ystod y 1930au, cafodd *Tir na n-Og* ei hailgyhoeddi ym 1932. Mae'r gyfrol hon yn sgôr gorawl mewn sol-ffa, yn hytrach na hen nodiant, ac ymddengys dechrau a diwedd rhannau'r unawdwyr fel ciwiau yn unig. Cyfeiriwyd at y cyhoeddiad hwn yn y bennod flaenorol fel Fersiwn I, ac fel y noda'r drafodaeth honno, mae'r ffaith fod rhannau corawl y gwaith wedi eu cyhoeddi mewn sol-ffa – nodiant yr oedd llawer mwy o bobl yn ei fedru (fel T. Gwynn Jones ei hun, yn wir) nag a oedd yn achos hen nodiant – yn awgrymu bod galw am gyfrol o'r fath. Y mae hyn efallai'n awgrymu bod perfformiadau wedi eu cynnal (neu o leiaf ddiddordeb mewn perfformio'r gwaith), gan na fyddai ailgyhoeddiad yn debygol o gael ei gynhyrchu gan y Cyngor Cerddoriaeth heb fod galw amdano. Ar y llaw arall, fe allai mai ymgais i gael mwy o berfformio ar y gwaith oedd y cyhoeddiad sol-ffa hwn. Ymysg cofnodion ac adroddiadau'r Cyngor fe geir un cyfeiriad at *Tir na n-Og*, a hynny ym 1931: 'Dr de Lloyd had prepared a Tonic Solfa version of "Tir Na n'Og" [*sic*]. Although separate

⁷¹ H. Walford Davies, *The Pursuit of Music* (London, 1935), 392.

Solfa publication was inadvisable in principle, this was sanctioned as the expense of issuing a combined edition rendered it impractical'.⁷² Ymddengys felly nad oedd y Cyngor yn awyddus i ailgyhoeddi, ond tybed a gytunwyd i gyhoeddi'r gwaith gan fod David de Lloyd eisoes wedi paratoi fersiwn sol-ffa? Ni ellir ond dyfalu ynghylch amgylchiadau'r ailgyhoeddi, gan nad yw *Tir na n-Og* yn cael ei chynnwys yn y rhestrau gwerthiant yn adroddiadau blynyddol y Cyngor Cerddoriaeth.⁷³

Wedi edrych ar gyd-destun cyfansoddi'r opera, trown yn awr i graffu ar y gwaith ei hun. Byddir yn ystyried *Tir na n-Og* de Lloyd o safbwynt cychwynol y geiriau: hynny yw, gan ystyried i ba raddau y llwyddodd de Lloyd yn ei osodiad cerddorol o waith Gwynn Jones, yn ôl y dulliau o ymdrin â gweithiau o'r fath a amlinellwyd yn y bennod fethodolegol agoriadol. Byddir yn archwilio agweddau megis sut y mae'r gerddoriaeth yn archwilio ystyr y farddoniaeth, ei themâu a'i naws, yn ogystal ag i ba raddau y newidiwyd yr awdl gan y gosodiad cerddorol, boed hynny yn destunol neu'n gysyniadol.

Egyr opera David de Lloyd gydag alaw 'anghyffredin o swynol a gwreiddiol', yn ôl J. Morgan Lloyd, awdur adolygiad cynhwysfawr o'r gwaith.⁷⁴ Y mae'r alaw agoriadol yn ffigwr dau far croesacennog sy'n cael ei ailadrodd yn aml drwy gydol y gwaith, yn arbennig yn yr act gyntaf. (**Gweler Atodiad VIII, Dyfyniad 1.**⁷⁵) Dyma'r peth cyntaf a glyw'r gynulleidfa – yr alaw hon yn erwydd gwaelod y piano, gyda thawnod ag arwydd saib drosto yn ei dilyn. Mae'r agoriad hwn yn syml a diaddurn,

⁷² 'National Council of Music: Minutes of the Twenty-first meeting, 10th to 13th July, 1931' yn Archif Prifysgol Cymru LGA 3/2, LIGC.

⁷³ Gweler 'National Council of Music: Annual Report', 1930-2, Archif Prifysgol Cymru LGA 1, LIGC.

⁷⁴ J. Morgan Lloyd, '*Tir na N-Og: an Opera in Three Acts: Adolygiad*', *Y Cerddor* (Ail Gyfres) I, Rhif 16 (Mehefin 1931), 510.

⁷⁵ Daw'r holl ddyfyniadau cerddorol sy'n berthnasol i'r bennod hon o T. Gwynn Jones (geiriau), David de Lloyd (cerddoriaeth), *Tir na n-Og: An Opera in Three Acts* (Cardiff, 1930).

gan sicrhau bod y gynulleidfa yn clywed y motiff pwysig hwn yn iawn: chwery ran bwysig drwy gydol y gwaith wrth greu naws a mynegi themâu arwyddocaol. Caiff yr alaw, neu'r motiff, fel y gellid synio amdani, ei haildrodd eto cyn yr adran gyntaf o ddeialog ryddiaith. Trafodwyd eisoes, yn y bennod flaenorol, arwyddocâd y ddeialog hon rhwng aelodau o deulu Osian sy'n rhoi hanes y ffynnon waed, digwyddiad a ymddengys yn fersiwn Aoidhmín Mac Gréagóir o'r chwedl wreiddiol. Wedi'r ddeialog hon, ymddengys yr alaw/motiff agoriadol eto, y tro hwn yn erwydd trebl y piano i gyfeiliant cordiau yn y bas, cyn i gôr SA ganu alaw ddieiriau fel cyfeiliant i adran sydd wedi'i llefaru gan Osian: 'Fel y delyn honno gynt a glywais, a mi yn ieuanc iawn.'⁷⁶ (**Gweler Atodiad VIII, Dyfyniad 2.**) Wedi i'r côr ymdawelu, mae Osian yn adrodd rhes o eiriau: 'Cân... Dawns... Llawenydd... Ieuentid... Hiraeth' (elipsis gwreiddiol).⁷⁷ Wrth iddo adrodd y gair olaf hwnnw, 'Hiraeth', atseinia'r motiff agoriadol yn y cyfeiliant piano unwaith eto. (**Gweler Atodiad VIII, Dyfyniad 2.**)

Gwelir yma fod y motiff hwn yn cael ei gysylltu â hiraeth Osian am ei orffennol. Ymddengys bedair gwaith o fewn yr adran fer lle y mae'r cymeriad yn hel atgofion am ei ieuentid. Nodwyd mewn adolygiad o *Gwenllian* fod David de Lloyd yn defnyddio'r dechneg *leitmotif* yn helaeth yn y gwaith hwnnw,⁷⁸ ac yn yr un modd gellir meddwl am yr alaw agoriadol hon fel *leitmotif* hefyd. Disgrifir y dechneg yng nghyd-destun gwaith Wagner, cyfansoddwr a gysylltir yn anad neb, bron, â'r defnydd o'r *leitmotif*, fel 'thematic materials [...] which are associated with events, objects, feelings, and characters and which recur in varied forms, bringing an evolutionary

⁷⁶ Gwynn Jones, de Lloyd, *Tir na n-Og: An Opera*, 2.

⁷⁷ *Ibid.*, 3.

⁷⁸ John Hughes, 'Y Chwarae-gerdd Gymreig', *Cymru*, LXIX (Gorffennaf 1925), 2.

continuity to the drama.⁷⁹ Yn gryno, motiff sy'n cynrychioli cymeriad neu deimlad yw'r *leitmotif* – diffiniad arall o'r term yw 'thema gynrychioladol'⁸⁰ – a dyma a geir yn *Tir na n-Og* David de Lloyd gyda'r ffigwr dau-far hwn. Byddir yn archwilio yn y bennod hon sut y mae'r motiff a drafodir uchod – *leitmotif* hiraeth de Lloyd – yn cynrychioli hiraeth y cymeriadau (Osian yn bennaf) am wahanol bethau ar wahanol adegau yn y gwaith. Y mae thema hiraeth, wrth gwrs, yn un greiddiol i weledigaeth a neges T. Gwynn Jones yn yr awdl.⁸¹

Ymddengys y motiff eto yn yr act gyntaf wrth i gorws yr helwyr ganu am ddychwelyd o'u taith hela i'w cartref:

Awn yno, lle cawn ennyn
Pêr hiraeth,
A'i lethu'n hudoliaeth
Hen y delyn!⁸²

Yn yr opera, yn wahanol i'r farddoniaeth heb gerddoriaeth ynghlwm wrthi, fe ailadroddir geiriau'r gytgan hon. Fe'i clywir am y tro cyntaf yn ddigyfeiliant, a chôr meibion pedwar llais (TTBB) yn canu mewn harmoni. Wedi hyn, clywir y motiff hiraeth yn y cyfeiliant cyn i'r côr ganu'r geiriau a ddyfynnir uchod unwaith eto, mewn deulais y tro hwn. (**Gweler Atodiad VIII, Dyfyniad 3.**) Drwy gyfosod y motiff hiraeth â chytgan sy'n ymdrin yn uniongyrchol â thema hiraeth yn gynnar yn yr opera, fe bwysleisir eto'r cysylltiad rhwng yr alaw a'r cysyniad.

Clywir y motiff hiraeth hwn eto i gloi'r act wedi i Osian adael am Tír na nÓg gyda Nia, yn dilyn cytgan ddigyfeiliant wedi'i chanu gan yr helwyr ('Awn yno, lle

⁷⁹ Arnold Whittall, 'Leitmotif' yn Nicholas Vazsonyi (gol.), *The Cambridge Wagner Encyclopedia* (Cambridge, 2013), 245.

⁸⁰ Delyth Prys, *Geiriadur Cerddoriaeth Rhydychen* (Pen-y-Groes, 1998), 477.

⁸¹ Gweler R. M. Jones, *Llenyddiaeth Gymraeg 1902-1936* (Llandybie, 1987), 130-1.

⁸² Gwynn Jones, de Lloyd, *Tir na n-Og: An Opera*, 7-9.

cawn ennyn pêr hiraeth'⁸³). (Gweler Atodiad VIII, Dyfyniad 4.) Y mae'r ailddatganiad hwn o'r motiff yn ddiweddglo cerddorol effeithiol i'r act, o ganlyniad i'r tebygrwydd i'w agoriad o ran yr offeryniaeth agored a'r ddeinameg dawel. Dychwelir at yr un ieithwedd gerddorol â'r dechrau, ond y mae amgylchiadau'r cymeriadau wedi newid yn llwyr, a natur yr hiraeth a brofir yn wahanol. Nid yw'r gytgan hon a gân yr helwyr yn cael ei hailadrodd ar ddiwedd yr act yn y ffurf ar y gwaith sydd heb gerddoriaeth ynghlwm: yno, yn hytrach, tyn y rhan gyntaf at ei therfyn gyda disgrifiad y morwynion o Tír na nÓg:

Lle mae haul yn lliwio môr,
Fore neu hwyr, yn farwor,
Heb wae trist adnabod tranc,
Tragywydd y trig ieuanc!⁸⁴

Yn yr awdl gyhoeddedig, yn dilyn y pennill a ddyfynnir uchod, y mae'r helwyr yn datgan, 'Ochôn! Ochôn! Ochôn!', cyn iddynt fynd o'r golwg, ac fe '[g]lywir eu cwyn yn pellhau' i gloi'r rhan gyntaf.⁸⁵ Nid yw'r gŵyn hon yn ymddangos yn yr opera, ond yn hytrach fe amlygir teimladau'r helwyr drwy gyfrwng ailddatganiad o'r gytgan 'pêr hiraeth': 'Awn yno, lle cawn ennyn/ Pêr hiraeth,/ A'i lethu'n hudoliaeth/ Hen y delyn!'⁸⁶ Y mae gan eiriau'r gytgan arwyddocâd dwysach y tro hwn, gan fod yr helwyr bellach yn hiraethu am un a fu yn eu plith. Pwysleisir yma gan David de Lloyd, yn fwy amlwg nag yn yr awdl gyhoeddedig, efallai, yr hyn y mae Osian yn ei adael ar ôl, ac effaith ei ymadawiad ar ei gyfeillion a'i gyd-wladwyr. Yn Tír na nÓg, bydd Osian ei hun yn profi 'pêr hiraeth' am ei gartref, Iwerddon.⁸⁷ Wrth ailadrodd y geiriau hyn ar ddiwedd yr act yn yr opera, a hynny ynghyd â'r motiff hiraeth, ceir

⁸³ Ibid.

⁸⁴ Gwynn Jones, 'Tir na n-Og', yn *Caniadau*, 65.

⁸⁵ Ibid.

⁸⁶ Gwynn Jones, de Lloyd, *Tir na n-Og: An Opera*, 23-4.

⁸⁷ Ibid., 7.

darlun nid yn unig o deimladau'r helwyr ond yn ogystal ragrybudd ynghylch yr hiraeth hwnnw a brofa Osian am ei gartref sy'n ei amlygu'i hun yn yr ail act.

Ceir un man arall lle'r ymddengys y motiff hiraeth yn yr act gyntaf, a hynny yn y cyfeiliant piano ar ddiwedd deuawd Osian a Nia wrth i Osian benderfynu gadael Iwerddon. Clywir y motiff yn y cyfeiliant wrth i Osian ganu'r geiriau canlynol – 'Nia! Dos a'm enaid i;/ Yn d'oleuni y dilynaf/ Bydd y dydd lle byddi di' – ac eto cyn i Nia ganu 'Wele'r hwyl ar ael yr heli'.⁸⁸ (**Gweler Atodiad VIII, Dyfyniad 5.**) Wrth ystyried y geiriau sy'n cael eu canu, nid yw'n ymddangos fel petai'r motiff yn gweddu i amgylchiadau'r chwarae: ni cheir unrhyw sôn am hiraeth yn y ddeuawd rhwng Nia ac Osian. Cofier, fodd bynnag, y defnydd o'r motiff hiraeth ar ddiwedd yr act gyntaf i ragarwyddo'r hiraeth y bydd Osian yn ei deimlo yn y dyfodol, ac yn wir gellid dadlau mai dyma a geir yma hefyd. Er i Nia berswadio Osian i ddychwelyd gyda hi i Tír na nÓg, nid yw'r ymadawiad yn un cwbl gytûn, ac y mae'n benderfyniad anodd i Osian, fel y dengys ei eiriau ar ddechrau a diwedd y gân: 'Gwae dolurus gadael Erin,/ Ildio byd anwyldeb oes'; 'Onid af/ Gaeaf mwy a gâi fy mywyd,/ Hebdi hi, ni byddai haf!'⁸⁹ Gwelir yma graidd cyfyng-gyngor Osian, fod yn rhaid iddo ddewis rhwng y ddau beth sydd bwysicaf iddo, a'r rheini mor begynol i'w gilydd: ei gartref a'i gariad. Y mae'r motiff hiraeth ar ddiwedd deuawd Osian a Nia yn cynrychioli'r hiraeth anochel y byddai Osian yn ei deimlo beth bynnag y dewisa: naill ai wrth aros yn Iwerddon (hiraeth am Nia a'r hyn a fyddai wedi bod) neu wrth fynd i Tír na nÓg (hiraeth am ei gartref a'r hyn a fu). Y prif wrthdaro o fewn y gwaith yw'r ddeuoliaeth hon rhwng Iwerddon a Tír na nÓg, a gwelir yma sut y mae'r gosodiad cerddorol, drwy gyfrwng y motiff hiraeth, yn clymu'r ddau ynghyd ar bwynt tyngedfennol yn natblygiad y naratif.

⁸⁸ Ibid., 20.

⁸⁹ Ibid., 17, 18-19

Ar ôl yr act gyntaf, ymddengys y motiff hiraeth dair gwaith eto yn yr opera: ddwywaith yn yr ail act ac unwaith yn y drydedd. Egyr yr ail act gyda'r tenor a'r bas yn canu brawddeg gerddorol sydd, yn wahanol i'r hyn a geir yn y farddoniaeth sydd heb gerddoriaeth ynghlwm, yn rhagfynegi disgrifiad y morwynion o Tír na nÓg: 'Lle mae haul yn lliwio môr/ Hwyr neu fore yn farwor'.⁹⁰ (**Gweler Atodiad VIII, Dyfyniad 6.**) Wedi'r cwpled hwn daw'r Morwynion eu hunain i'r llwyfan, gan ganu'r un geiriau, cyn i gorws pedwar llais (SATB) ganu cytgan orfoleddus gan ailadrodd y geiriau 'Tragywydd y trig ieuanc'.⁹¹ (**Gweler Atodiad VIII, Dyfyniad 7.**) Wrth ganu'r geiriau hyn clywir y rhannau lleisiol yn trawsgyweirio o A leiaf i A fwyaf o fewn pedwar bar. Mae'r cordiau llawn yn A a D fwyaf yn creu'r teimlad o lawenhad a gorfoledd gan bwysleisio mor baradwysaidd a delfrydol yw bywyd yn Tír na nÓg. (**Gweler Atodiad VIII, Dyfyniad 7.**)

Yn dilyn yr adran hon cenir y geiriau sydd ar ddechrau ail ran yr awdl gyhoeddedig fel y'i ceir yn *Caniadau* a chyhoeddiadau eraill (**Gweler Atodiad VIII, Dyfyniad 8.**):

A feddo gof a fydd gaeth,
Cyfaredd cof yw hiraeth;
Disgwyliad, ŷs y galon,
Trwy alar hir treulir hon!⁹²

Y mae'n anodd clywed a deall y geiriau yn yr opera wrth ei pherfformio, fodd bynnag, gan fod y sopranos a'r altos yn canu gwahanol linellau yn gydamserol. Wrth i'r sopranos ganu 'A feddo gof a fydd gaeth', cân yr altos 'cyfaredd cof yw hiraeth',

⁹⁰ Gwynn Jones, de Lloyd, *Tir na n-Og: An Opera*, 24; Gwynn Jones, 'Tir na n-Og', yn *Caniadau*, 66.

⁹¹ Gwynn Jones, de Lloyd, *Tir na n-Og: An Opera*, 27.

⁹² Gwynn Jones, 'Tir na n-Og', yn *Caniadau*, 66.

ac yn yr un modd gyda'r ail gwpled a ddyfynnir uchod.⁹³ Y mae'n sialens dirnad yr union eiriau a genir o ganlyniad i'r ffaith fod llinellau cerddorol a barddonol yn cael eu plethu yn y soprano a'r alto. Gellid tybio mai ymgais i ail-greu natur gymysglyd atgofion a geir yma gan de Lloyd wrth iddo gyd-weu llinellau'r alto a soprano. Wedi'r adran hon, gwelir bod David de Lloyd yn dewis pwysleisio un llinell o'r pennill eto, 'Cyfaredd cof yw hiraeth', a gwestiynir wedyn gan Osian: 'Ai cyfaredd cof hiraeth?'.⁹⁴ Awgryma hyn nad 'pêr hiraeth' a brofa yn Tír na nÓg ond yn hytrach loes o gofio am ei fywyd gynt. Mae'r alaw a gân Osian yma hefyd yn adleisio cyfyngau'r motiff hiraeth. **(Gweler Atodiad VIII, Dyfyniad 8.)**

Nid yw'r geiriau 'A feddo gof a fydd gaeth/ Ai cyfaredd cof hiraeth?' gan Osian yn ymddangos yn yr awdl gyhoeddedig, lle dilynir cân y morynion gan gytgan yr helwyr am y 'pêr hiraeth'.⁹⁵ Yn yr opera, dilynir ebychiad Osian gan y motiff hiraeth yn y cyfeiliant, sy'n arwain at gyfres o gordiau gwasgarog (*spread chords*), yn gyflwyniad i gytgan yr helwyr. **(Gweler Atodiad VIII, Dyfyniad 8.)** Mae'r gerddoriaeth fel petai'n atgof o'r gorffennol y tro hwn: 'Saif [Osian] a gwrendy. Clywir o'r pellter megis atsain cyrn a chyfarth cŵn, yna lleisiau dynion yn canu'.⁹⁶ Cysylltir y seiniau hyn â'r helpa ar ddechrau'r gwaith, a daw'n amlwg fod y motiff hiraeth yn cynrychioli'r broses o ddwyn y gorffennol i gof. Yn wir, y mae'r motiff bron yn atgof ynddo'i hun bellach, yn cynrychioli hiraeth ond hefyd yn alaw a glyw Osian wrth hiraethu: y mae wedi troi'n rhywbeth mwy diriaethol. Ceir awgrym eto o'r motiff wrth i Osian ganu am 'Erin lân yr arian li' yn ddiweddarach yn yr act yn rhythmau a chyfyngau'r cyfeiliant piano. **(Gweler Atodiad VIII, Dyfyniad 9.)**

⁹³ Gwynn Jones, de Lloyd, *Tír na n-Og: An Opera*, 28.

⁹⁴ Ibid.

⁹⁵ Gwynn Jones, 'Tír na n-Og', yn *Caniadau*, 66.

⁹⁶ Gwynn Jones, de Lloyd, *Tír na n-Og: An Opera*, 29.

Ymddengys y motiff hiraeth un waith yn rhagor yn yr opera: daw yn y drydedd act, wedi i Osian ddychwelyd i Iwerddon. Y mae'n mynd yn ôl at ei hen gartref a'i ganfod yn adfail, gyda chriw o seiri yn gweithio i ailadeiladu'r gaer. Ceir adran o ddeialog yn yr opera yma, lle y dysga Osian gan Bennaeth y Seiri ei fod wedi bod i ffwrdd am dri chan mlynedd:

Osian: A pha hyd, meddwch chwi, y bu adfail y gaer a fyddai yma gynt?

Y Pennaeth: Clywsom gan ein tadau, a ni'n fechgyn, fynd heibio er hynny dri chan mlynedd, Arglwydd.⁹⁷

Ni nodir yn benodol beth oedd hyd cyfnod Osian yn Tír na nÓg yn yr awdl gyhoeddedig, ond yn hytrach fe welir y Seiri yn canu am adeg pan oedd y llys yn llawn bywyd a chân, 'Oesau'n ôl', a rhybuddia Nia yn yr ail ran ynghylch treigl amser: 'Gwywo bu lawer gaeaf/ Yn Erin oer wenau haf'.⁹⁸ Yn yr opera, fodd bynnag – fel yn y chwedl ryddiaith Wyddeleg a *laoi* Coimín – nodir mai am dri chan mlynedd y mae Osian wedi bod i ffwrdd, ac fe glywir y motiff hiraeth wrth iddo gael gwybod pa mor hir yn union y mae wedi bod yn byw yn Tír na nÓg. (**Gweler Atodiad VIII, Dyfyniad 10.**) Ailadrodda Osian yr wybodaeth a gafodd gan y Pennaeth, 'Tri chan mlynedd!', cyn ebychu, 'Hiraeth... hiraeth'.⁹⁹ Wrth iddo ddweud y geiriau hyn ymddengys y motiff hiraeth yn araf (*lento*), heb unrhyw gyfeiliant cordiol. (**Gweler Atodiad VIII, Dyfyniad 10.**) Cysylltir yn amlwg yma y cysyniad o hiraeth â'r motiff hwn. Mae ei ymddangosiad digyfeiliant yn ymdebygu i'r tro cyntaf yr ymddangosodd y motiff, a hynny ar ddechrau'r gwaith, ar ddiwedd diwrnod Osian o hela gyda'r Ffaniaid. Y mae'r motiff felly yn tynnu sylw nid yn unig at bwysigrwydd y cysyniad o hiraeth i'r gwaith, ond hefyd yn cyfeirio'n benodol yma at

⁹⁷ Ibid., 55.

⁹⁸ Gwynn Jones, 'Tir na n-Og', yn *Caniadau*, 70, 67.

⁹⁹ Gwynn Jones, de Lloyd, *Tir na n-Og: An Opera*, 55.

orffennol Osian gyda'i gyfeillion. Y mae'r motiff, fel y mae yn Act 2, fel petai'n ymgorffori atgofion Osian ac yn cynrychioli'r hyn y mae'n hiraethu amdano, yn ogystal â dynodi presenoldeb y teimlad yn y naratif.

Yr oedd hi, wrth gwrs, eisoes yn hysbys inni fel darllenwyr barddoniaeth T. Gwynn Jones, a hynny cyn ystyried gosodiad David de Lloyd o'r geiriau, fod hiraeth yn thema allweddol yn yr awdl hon. Fe ellid dadlau, yn achos y motiff hiraeth, nad yw'r gerddoriaeth ond yn adlewyrchu'r hyn sydd eisoes i'w gael yng ngeiriau'r farddoniaeth, ac nad yw'n dangos unrhyw beth newydd inni am y gwaith, gan fod y drafodaeth feirniadol ar hiraeth yn yr awdl yn eang a chynhwysfawr.¹⁰⁰ Y mae'r gosodiad cerddorol yn sicr yn adlewyrchu'r hyn a ganfyddir yn y gerdd, ond rhaid cofio nad yw'r gerddoriaeth yn gweithredu'n syml fel drych yn unig; y mae, yn hytrach, yn taflu goleuni ar rai agweddau o'r gwaith na sylwasom arnynt eisoes, ac yn ein deffro fel gwrandawyr i ystyr neu bwyslais gwahanol i'r hyn a welsom yn y farddoniaeth yn unig. Drwy weu'r motiff hiraeth drwy'r gwaith y mae David de Lloyd nid yn unig yn tynnu ein sylw at bwysigrwydd y thema ond hefyd yn ein gwahodd i ganfod arwyddocâd newydd ynddo. Defnyddia'r motiff er mwyn pwysleisio, er enghraifft, mor annatod yw hiraeth i dynged Osian wrth i'r motiff gael ei glywed yn ystod ei ddatganiad o gariad i Nia, er na chyfeirir yn uniongyrchol at hiraeth yn y geiriau hyn. Gwelir hefyd atgyfnerthu parhaol o'r thema allweddol drwy gydol yr opera, a hynny drwy gyfrwng y motiff.

Yn ei drafodaeth adnabyddus ar '[F]awrion T. Gwynn Jones', cyfeiria R. M. Jones at y gwahanol fydrau a ddefnyddia'r bardd yn ei awdl 'Tir na n-Og':

¹⁰⁰ Gwelir, er enghraifft, drafodaeth ar hiraeth yn yr awdl 'Tir na n-Og' a gwaith ehangach T. Gwynn Jones gan sawl beirniad, megis R. M. Jones, *Llenyddiaeth Gymraeg*, 130-2; W. Beynon Davies, 'Canu Thomas Gwynn Jones', yn ap Gwilym (gol.), *Cyfres y Meistri*, 225-41; a Derec Llwyd Morgan, *Barddoniaeth Thomas Gwynn Jones* (Llandysul, 1972), 31-2.

Y cywydd [...] yw'r mesur gwaelodol i'r awdl, er bod peth defnydd o'r gwawdodyn degban, y gyhydedd naw (a deg) ban, yr englyn milwr, ac unwaith ym mhob adran mewn telynegion serch [...] y mae yna ganu 'rhydd' cynganeddol yn ôl y mydr 8 / 7.¹⁰¹

Mae defnydd T. Gwynn Jones o'r '[c]anu "rhydd" cynganeddol' yn arwyddocaol.¹⁰² Fel y noda R. M. Jones, ymddengys y mesur unwaith yn nhair rhan (neu 'act') yr awdl. Gan ystyried yr holl astudiaethau a geir ar waith Gwynn Jones, rhyfedd felly nad oes trafodaeth ar gynnwys yr adrannau arbennig hyn. Sonia R. M. Jones amdanynt fel 'telynegion serch', ond nid yw'n gwneud unrhyw sylwadaeth bellach ar eu natur na'u cynnwys.¹⁰³ Wrth graffu'n fanylach arnynt, gwelir perthynas rhwng y mesur a chynnwys yr adrannau hyn.

Cynhwysa'r adran 'delynegol' gyntaf gyfarchiad Nia i Osian, wrth iddi ei wahodd yn ôl i Tír na nÓg ati, ac mae'r mesur yn parhau hyd at benderfyniad Osian i fynd gyda hi yno: o 'Merch wyf fi i Ri yr Ieuainc' i 'Awn, a'r don yn dyner danom,/ Rhwyfwn ni i'r hafan wen!'.¹⁰⁴ Gyda'r mesur barddonol newydd hwn – mesur 8/7 cynganeddol – cyflwynir adran wahanol yn y gerddoriaeth, ac fe glywir alaw newydd wrth i Nia ei chyflwyno'i hun. **(Gweler Atodiad VIII, Dyfyniad 11.)** Ymddengys yr alaw hon drwy gydol yr adran 'delynegol' gyntaf hon yn yr opera. Disgrifia Nia y wlad hudolus i Osian, a gofynna iddo i ddychwelyd i Tír na nÓg gyda hi, gan ddweud ei bod hi wedi clywed llawer am ei farddoniaeth a'i 'odlau melys'.¹⁰⁵ Cyflwynir dau bennill cyntaf cân Nia, fel y maent yn ymddangos yn yr awdl gyhoeddedig, fel un adran gerddorol yn yr opera. **(Gweler Atodiad VIII, Dyfyniad 11.)** Ceir awgrym o

¹⁰¹ Jones, *Llenyddiaeth Gymraeg*, 132.

¹⁰² Ibid.

¹⁰³ Ibid.

¹⁰⁴ Gwynn Jones, de Lloyd, *Tir na n-Og: An Opera*, 14-22.

¹⁰⁵ Ibid., 15.

gyfansoddiad stroffig¹⁰⁶ yn y gerddoriaeth sy'n dilyn, lle y cân Nia 'Heno, dyred, Osian dirion' gan ailadrodd alaw gychwynnol yr adran. Er hyn, yn groes i'r disgwyl, efallai, mae alaw ail hanner y 'pennill' cerddorol, wrth i Osian ymateb i gais Nia, yn wahanol. Mae'n gyndyn i gytuno i adael ei gartref, 'Hoffed Erin,/ Erin lân yr arian li'.¹⁰⁷ Rhanna T. Gwynn Jones y llinellau rhwng y ddau gymeriad i greu deialog farddonol gelfydd:

Nia: Dyred, dyred!
Osian: Hoffed Erin
[...]
Nia: Heno, dyred!
Osian: Ennyd, aros!¹⁰⁸

Cyflëir y modd y bu i Gwynn Jones rannu'r llinellau barddonol gan osodiad de Lloyd wrth iddo ategu'r alaw a ganodd Nia ynghynt (wrth ganu 'mawl dy odlau melys,/ Osian hael' **Gweler Atodiad VIII, Dyfyniad 11.**), a'i rhannu rhwng y ddau gymeriad. Cwblheir y llinell gerddorol gan Osian yn yr opera yn yr un modd ag a welir yn yr awdl, wrth i eiriau Osian ateb Nia a chwblhau'r llinell gynganeddol. **(Gweler Atodiad VIII, Dyfyniad 12.)**

Wfftia Nia amheuo Osian, gan ddatgan: 'Nid yw Erin/ Ond ail nos i'n dolau ni!'.¹⁰⁹ Yn yr opera, y mae Nia yma yn canu ar draws Osian, wrth iddo ef gyfleu ei amharodrwydd i adael 'Erin lân yr arian li'.¹¹⁰ **(Gweler Atodiad VIII, Dyfyniad 11.)** Cân Nia hanner cwaferi uwchben crosietau a chwaferi Osian, a golyga hyn fod ei geiriau hi yn fwy eglur ac amlwg i'r glust. **(Gweler Atodiad VIII, Dyfyniad 11.)** Y

¹⁰⁶ 'Term a ddefnyddiwyd ar gyfer cân lle caiff yr un gerddoriaeth ei hailadrodd, efallai gyda newid bach iawn ar gyfer pob pennill dilynol darn o farddoniaeth'; Prys, *Geiriadur Cerddoriaeth Rhydychen*, 807.

¹⁰⁷ Gwynn Jones, de Lloyd, *Tir na n-Og: An Opera*, 16-17.

¹⁰⁸ *Ibid.*, 18.

¹⁰⁹ *Ibid.*, 17.

¹¹⁰ *Ibid.*, 16-17.

mae'r gerddoriaeth yma felly'n awgrymu canlyniad yr ymddiddan: Nia yn llwyddo i dawelu amheuron Osian ac yn ei berswadio i adael ei gartref er mwyn byw gyda hi. Amlygir yn gyntaf agwedd Osian gyda'r gerddoriaeth yn trawsgyweirio i gywair lleiaf wrth iddo ganu am ei bryderon: 'Gwae dolurus gadael Erin,/ Ildio byd anwyldeb oes'.¹¹¹ (**Gweler Atodiad VIII, Dyfyniad 11.**) Clywir awgrym yn y cyfeiliant yma o'r motiff hiraeth hwnnw a drafodwyd uchod, sy'n adlewyrchu'r hiraeth y bydd Osian yn ei deimlo am ei famwlad wedi iddo ei gadael. (**Gweler Atodiad VIII, Dyfyniad 11.**) Wrth i Nia ddisgrifio hyfrydwch ei mamwlad hi, gan bentyrru delweddu o ffrwythlondeb y tir, yr haf tragwyddol ac atyniadau eraill ei gwlad er mwyn perswadio Osian, dychwela'r alaw wreiddiol a glywyd ar ddechrau'r adran hon (**Gweler Atodiad VIII, Dyfyniad 11.**):

Dolau, glynnoedd, deiliog lwyni,
Heulwen haf i'th lawenhau;
Mawl y delyn mal y diliau,
Gleiniau fil, a'r galon fau!¹¹²

Ymddengys, fodd bynnag, nad disgrifiadau Nia o'i chartref hudol sy'n temtio Osian, ond yn hytrach y dywysoges ei hun: 'Onid âf,/ Gaeaf mwy a gâi fy mywyd,/ Hebddi hi ni fyddai haf!'.¹¹³ Delweddaeth a gyflwynir yma – sy'n greiddiol i'r tair 'telyneg serch' fel ei gilydd – yw'r syniad o gyferbynnu goleuni a thywyllwch, haf a gaeaf, a dydd a nos.

Cyfeiriwyd uchod at yr hanner llinellau, a defnydd celfydd T. Gwynn Jones o'r dechneg galw ac ateb i greu deialog rhwng Nia ac Osian. Yn yr un modd, gwelwyd sut y mabwysiadodd de Lloyd dechneg y bardd gan gael y cantorion i gwblhau llinellau cerddorol ei gilydd. Defnyddia de Lloyd y dechneg hon eto wedi

¹¹¹ Ibid., 17.

¹¹² Ibid., 18.

¹¹³ Ibid., 18-19.

disgrifiad Nia o'i chartref, a hynny wrth i Osian newid ei feddwl ynghylch mynd i Tír na nÓg: cân y ddau gymeriad am yn ail gan greu llinell gerddorol gyflawn. **(Gweler Atodiad VIII, Dyfyniad 12.)** Ar ddiwedd yr adran hon, ceir ychwanegiad yn y libreto i'r hyn a geir yn yr awdl gyhoeddedig, a hynny yn rhan Nia: 'Osian dirion, heno, dyred!'.¹¹⁴ Dyma uchafbwynt yr adran, lle gwelir datblygiad o'r dechneg galw ac ateb (hynny yw, y ddau gymeriad yn gorffen llinellau ei gilydd) yn y modd y mae'r ddau yn uno i ganu mewn unsain wrth i Osian benderfynu mynd gyda Nia, a'r gerddoriaeth yn symboleiddio undeb y ddau. **(Gweler Atodiad VIII, Dyfyniad 12.)**

Osian sy'n canu'r ail adran delynegol, pedwar pennill yn Act 2, ac yn yr adran hon y mae'n ffarwelio â Nia, wedi penderfynu gadael Tír na nÓg i ymweld ag Iwerddon. Y mae Nia, cyn i Osian ganu'r adran hon, wedi ceisio ei atal rhag mynd, gan ei rybuddio am ganlyniadau camu ar dir Iwerddon wedi tri chan mlynedd yn Tír na nÓg. Ategir ei rhybudd gan gôr y morwynion, wrth iddynt geisio perswadio Osian i 'Aros lle mae yr oriau/ Lawn o hud i'th lawenhau'.¹¹⁵ Adran ddeulais gyda harmoni digon syml o drydyddau a phumedau a geir yma, ac er i'r iaith harmonig aros yn gonfensiynol drwyddi, gwelir wrth i'r adran fynd yn ei blaen fod y gwead yn tewychu nes cyrraedd cord 8 rhan digyfeiliant ar y geiriau 'Haul haf'. **(Gweler Atodiad VIII, Dyfyniad 13.)** (Ceir yr un cordiau ag a geir yn uchafbwynt y corws SATB gorfoleddus ar ddechrau'r act hon a drafodwyd uchod, ar y gair 'tragywydd'. **(Gweler Atodiad VIII, Dyfyniad 7.)**) Diddorol hefyd yn yr adran SA dan sylw yw'r pwyslais ar yr haul, gan fod delweddaeth Osian wrth drafod Nia yn yr ail adran delynegol yn gwneud defnydd helaeth o'r un syniadaeth. Egyr ei gân wrth sôn am brydferthwch Nia, gyda disgrifiad cofiadwy sy'n ei chyffelybu i olau'r haul ar

¹¹⁴ Ibid., 18.

¹¹⁵ Ibid., 39.

donnau'r môr: 'Eiliw haul ar loewa heli'.¹¹⁶ Y mae Osian yn erfyn arni i gymryd ei ddwylo i'w rhai hithau, a gofynna iddi edrych i'w lygaid, er mwyn iddo gael canfod ei chariad ato yng '[ng]oludoedd cêl waelodion/ Glân a dwfn' ei chalon.¹¹⁷ Yn yr un modd, dywed wrthi am syllu i'w lygaid yntau, a gweld yno 'dân y galon/ Lanwyd â'th oleuni di!'.¹¹⁸

Dechreua Osian ei gân ffarwél i Nia ag alaw seml yng nghywair E leiaf. Wrth i Osian gyrraedd diwedd y pennill cyntaf, mae'r alaw bellach wedi trawsgyweirio i gywair mwy cadarn a sefydlog B fwyaf. **(Gweler Atodiad VIII, Dyfyniad 14.)** Fe gly'r frawddeg gerddorol ar nodyn B, y tonydd, sydd efallai'n adlewyrchu sut y caiff Osian ei gysuro drwy ddal dwylo Nia: 'O, f'anwylyd; tynn fy nwylo/ I'th eiddilwyn ddwylo di'.¹¹⁹ Yn y cyfeiliant rhwng y penillion yn y fan hon, clywir adlais o alaw'r ddeuawd a ganodd y ddau ar ddiwedd yr act gyntaf, 'Heno, dyred'.¹²⁰ **(Gweler Atodiad VIII, Dyfyniadau 12 a 14.)** Fe'n hatgoffir fel gwrandawyr o'r undod cerddorol a gafwyd ar ddiwedd yr adran honno wrth i'r ddau gymeriad ganu'n unsain, ac ymddengys adlais o'r alaw honno yma fel adlais eironig wrth iddynt wahanu. Pwysleisir ing y gwahaniad wrth i'r cyfeiliant ailadrodd y ffigwr, y tro hwn mewn cywair lleiaf: cyfeiriad cerddorol at y newid a geir ym mherthynas Osian a Nia, ac at y dyfodol diobaith sydd o'u blaenau. **(Gweler Atodiad VIII, Dyfyniad 14.)**

Trwy gydol tri phennill cyntaf cân Osian yn y fan hon, y mae'n siarad yn nhermau goleuni: mae'n cyfystyru Nia a'i chariad â goleuni. Yn gyntaf, golau'r haul: fe'i gelwir yn 'Eiliw haul'.¹²¹ Cyfeiria wedyn at ei llygaid fel y 'Gloewaf' a welodd

¹¹⁶ Ibid., 40.

¹¹⁷ Ibid., 41.

¹¹⁸ Ibid., 42.

¹¹⁹ Ibid., 40-1.

¹²⁰ Ibid., 16.

¹²¹ Ibid., 40.

erioed, ac yna at ei galon, ‘Lanwyd a’th oleuni di’.¹²² Mae’r cysylltiad rhwng Nia a goleuni yn ddigamsyniol yma, ac yn sicr yn rhan bwysig o gymeriadu T. Gwynn Jones ohoni. Drwy gyfrwng pwyslais yr adran sy’n rhagflaenu’r gân hon ar y geiriau ‘Haul Haf’, tynnir sylw cynulleidfa’r opera at y syniad o haul a golau, gan osod y ddelwedd yn gadarn ym meddyliau’r gwrandawyr. **(Gweler Atodiad VIII, Dyfyniad 13.)** Y mae’r pwyslais hwn ar oleuni yn y gosodiad cerddorol yn ddiddorol o ystyried y cyferbyniad amlwg â thywyllwch dallineb Osian a ddaw maes o law yn y gwaith. Yn y cyswllt hwn, y mae’r gosodiad cerddorol yn tynnu ein sylw megis o’r newydd at y patrymau delweddol a geir yn y gwaith.

Yn y gosodiad cerddorol o’r gân ffarwél hon, mae’r unawdydd yn ailadrodd rhannau o rai llinellau. Pwysleisir rhan gyntaf llinell olaf yr ail a’r trydydd pennill: ‘Glân a dwfn, glân a dwfn dy galon di’,¹²³ ‘Lanwyd, lanwyd a’th oleuni di’.¹²⁴ Nid yw’r gân hon yn aros mewn un cyweirnod yn hir o gwbl, ond yn hytrach gwelir datblygiad cyson yn yr ieithwedd harmonig. Mae’n bosib fod yr ansefydlogrwydd hwn o ran y gerddoriaeth yn arwydd o hiraeth Osian am Iwerddon: y gerddoriaeth, fel yntau, yn methu canfod cartref sefydlog. Yn ogystal, mae’r symud parhaol hwn rhwng y gwahanol gyweirnodau yn gwneud yr adrannau hynny sy’n gadarn o ran eu cywair penodol yn fwy effeithiol, megis yr adran B b fwyaf ar ddiwedd y trydydd pennill.

Ym mhennill olaf y gân, gwna Osian addewid y bydd yn dychwelyd at Nia, gan ddatgan: ‘Heb un ing wynebwn angau/ Mal y down i’th ymyl di!’¹²⁵ Eironig ddigon yw’r sylw hwn gan ystyried yr hyn sydd yn digwydd i Osian ar ddiwedd yr awdl, ac fe welir enghraifft o ailadrodd yn yr opera nas ceir yn yr awdl gyhoeddedig

¹²² Ibid., 42.

¹²³ Ibid., 41.

¹²⁴ Ibid., 42.

¹²⁵ Ibid., 43.

– ailadrodd sy'n dwysáu'r eironi hwn. Cân Osian linell gyntaf y pennill olaf eto ar ddiwedd ei gân: 'Dof yn ôl i dŷ f'anwlyd'.¹²⁶ Ei eiriau olaf wrth Nia yw 'Dof yn ôl' ar ddiweddeb eglwysig yng nghywair E b fwyaf: diwedd glo terfynol yn nhermau harmoni. (**Gweler Atodiad VIII, Dyfyniad 16.**) Mae brawddeg gerddorol Osian yma yn dechrau a gorffen ar yr un nodyn, y tonydd, E b – cynrychiolaeth gerddorol, gellid dadlau, o addewid Osian i ddychwelyd at Nia.

Cân farwolaeth Osian yw'r drydedd adran delynegol, a'r olaf yn yr awdl, ac fe ymddengys tua diwedd y gwaith. Fel yn ei gân ffarwél, y mae Osian yn cyfarch Nia, ond y tro hwn y mae'n galw arni i ddychwelyd ato ac ailgynnau fflam ei fywyd a ddiffoddwyd gan henaint a dallineb. Agwedd ddiddorol iawn ar yr adran hon yw pa mor agos ydyw o ran delweddaeth i'r adran delynegol flaenorol, sef cân ffarwél Osian, ac mae'n rhyfedd na chafwyd unrhyw drafodaeth feirniadol yn cymharu'r darnau hyn cyn yr astudiaeth bresennol. Wrth graffu ar y testun, gwelir fod y tri phennill yn y gân farwolaeth yn cyfateb bron yn union i dri phennill cyntaf y gân ffarwél o ran delweddaeth, ond bod y ddelweddaeth honno wedi'i gwyrddroi yr ail dro yr ymddengys (hynny yw, yn y gân farwolaeth). Ym mhennill cyntaf y gân farwolaeth, ac am y tro cyntaf yn yr awdl, fe ddisgrifia Osian Nia yn nhermau oerni a chaledwch: 'Deuliw iâ ar dyle wyd'.¹²⁷ Mae'r ddelwedd yn gwrthgyferbynnu'n uniongyrchol â'r disgrifiad o Nia ym mhennill cyntaf y gân ffarwél: 'Eiliw haul ar loywa heli'.¹²⁸ Wrth ffarwelio, disgrifia Osian Nia yn nhermau goleuni a gwres. Wrth iddo farw, fodd bynnag, i iâ y mae'n ei chyffelybu. Mae'r cyferbyniad hwn rhwng y ddwy adran yn pwysleisio byd tywyll ac anghynnes Osian wrth iddo farw.

¹²⁶ Ibid.

¹²⁷ Ibid., 63-4.

¹²⁸ Ibid., 40.

Yn ogystal â'r cysylltiad rhwng y ddelweddaeth yng nghaneuon ffarwél a marwolaeth Osian, gwelir yma adlais o'r adran delynegol gyntaf hefyd, lle y mae Osian yn penderfynu gadael gyda Nia: 'Onid âf,/ Gaeaf mwy a gâi fy mywyd,/ Hebddi hi ni byddai haf!'.¹²⁹ Y mae Osian bellach hebddi, ac mae cyfeiriadau at y gaeaf yn eglur drwy gydol ei ymson. Amlyga'r gosodiad cerddorol y cysylltiad hwn wrth i Osian ganu'r geiriau 'Deuliw iâ ar dyle wyd': ailadroddir dechrau'r frawddeg gerddorol y canodd Osian y geiriau 'Hebddi hi ni fyddai haf' arni.¹³⁰ (**Gweler Atodiad VIII, Dyfyniadau 12 ac 17.**) Mae opera de Lloyd, felly, wrth ailadrodd rhai alawon, yn pwysleisio defnydd Gwynn Jones o ddelweddaeth gyferbyniol yn yr adrannau telynegol hyn, gan dynnu ein sylw fel gwrandawyr at gysylltiadau rhwng gwahanol adrannau'r awdl. Gwelir hefyd gymeriadu effeithiol drwy gyfrwng y gerddoriaeth yn y pennill cyntaf hwn, gan ei fod yn llawn o seibiannau a nodau byrion er mwyn adlewyrchu cân hen ddyn gwan sydd ar farw. (**Gweler Atodiad VIII, Dyfyniad 17.**) Er bod yr alaw yn un ddarniog yma, fe ymddengys adleisiau o ddeuawd Osian a Nia a ganwyd yn yr act gyntaf. Yn wir, y mae'r gerddoriaeth yn awgrymu fod Osian fel petai, y tro hwn, yn canu deuawd gyda'i atgof o Nia, yr hon y mae'n ei chyfarch wrth farw: 'F'anwylyd'.¹³¹ Mae'r seibiannau rhwng ei linellau yn rhoi cyfle i gyfeiliant y piano ymateb gan efelychu'r dechneg galw ac ateb a welwyd yn neuawd Act 1. (**Gweler Atodiad VIII, Dyfyniad 17.**) Mae'r adleisio hwn yn atgoffa'r gynulleidfa na fydd modd i'r ddau ganu deuawd fyth eto, a hefyd yn pwysleisio colled Osian a thrasiedi ei sefyllfa.

Sonia Osian yn yr ail bennill am golli ei olwg, delweddaeth sydd eto'n cyfateb i ail bennill y gân ffarwél. Wrth ffarwelio, y mae Osian yn ymbil ar Nia i agor ei

¹²⁹ Ibid., 18-19.

¹³⁰ Ibid., 63-4; 18.

¹³¹ Ibid., 63.

llygaid er mwyn iddo weld ‘I oludoedd cêl waelodion/ Glân a dwfn dy galon di’.¹³²
Pennill sy’n disgrifio dallineb Osian yw’r un cyfatebol wrth iddo farw: y mae’n galw
ar Nia i ‘ailagor fy ngolygon’ â’i chariad, ond nid oes modd ei achub.¹³³ Ceir
enghraifft amlwg o’r berthynas rhwng yr adrannau wrth gymharu ail bennill y ddwy
gân fel ei gilydd, sef:

F’annwyl, agor d’addfwyn lygaid
Gloewaf fel y gwelwyf fi
I oludoedd cêl waelodion
Glân a dwfn dy galon di.¹³⁴

A:

O, ail agor fy ngolygon,
Niwl a’u deil, ni wela’i di!
Cau mae dunos tranc amdanaf,
Dial ddaeth, e’ m daliodd i.¹³⁵

Ceir yma gyferbyniad uniongyrchol rhwng rhan gyntaf y llinellau: llygaid niwlog a
dall Osian mewn gwrthwynebiad â disgleirdeb gloyw llygaid Nia. Mae ail ran y
llinellau hefyd yn cyfateb – ‘y gwelwyf fi’ ac ‘ni wela’i di’¹³⁶ – gan bwysleisio colled
Osian: collodd ei olwg, ond collodd hefyd Nia.

Yn nhrydydd pennill y gân ffarwél, y mae Osian yn sôn am gariad Nia fel
golau yn ei galon: ‘y galon/ Lanwyd â’th oleuni di’.¹³⁷ Yn nhrydydd pennill ei gân
farwolaeth, y mae Osian yn erfyn ar Nia i ddychwelyd ato, ac i ‘alw yn ôl’ ei
galon.¹³⁸ Y mae bellach yn henwr dall a gwan, ac yn colli gafael ar ei gof o Nia a
hyfrydwch gwlad Tír na nÓg. Mae’r tywyllwch llythrennol y mae ei ddallineb wedi

¹³² Ibid., 41.

¹³³ Ibid., 64.

¹³⁴ Ibid., 41.

¹³⁵ Ibid., 64.

¹³⁶ Ibid.

¹³⁷ Ibid., 43.

¹³⁸ Ibid., 64.

ei orfodi arno yn gwrthgyferbynnu â goleuni trosiadol presenoldeb Nia yn ei fywyd. Cyn marw dywed, ‘Deled nos – deolwyd ni!’.¹³⁹ Ar ôl ei drawsnewidiad yn hen ddyn, mae goleuni Nia yn ei fywyd wedi ei golli, ac Osian yntau, wedi gadael yr haf tragwyddol, ar fin mynd i afael y nos oer am byth. Ategir yma hefyd, yn y cyfeiriad at y nos, eiriau Nia o'r act gyntaf: ‘Nid yw Erin/ Ond ail nos i'n dolau ni’.¹⁴⁰ Dychwelodd Osian i Erin a chanfod y nos y cyfeiriodd Nia ati yn y dyfyniad uchod. Wedi canu'r trydydd pennill o'i gân farwolaeth, syrth Osian yn farw. Ni cheir yma bedwerydd pennill sy'n cyfateb i'r addewid o ddychwelyd a welwyd yn y gân ffarwél, gan nad oes modd i Osian bellach ddychwelyd at Nia. Mae'r tawelwch ingol yn y cyswllt hwn yn pwysleisio trasiedi derfynol ei farwolaeth.

Mae'n bwysig nodi yma fod gosodiad cerddorol de Lloyd yn tynnu ein sylw at y gyfatebiaeth ddelweddol rhwng caneuon ffarwél a marwolaeth Osian. Cyfeiriwyd uchod at y modd y caiff un o'r alawon a glywyd yn y ddeuawd rhwng Osian a Nia yn yr act gyntaf ei hailadrodd yn y gân farwolaeth, a hynny er mwyn tynnu sylw at y ddelweddaeth aeafol sy'n cyfateb i ddatganiad cynharach Osian mai ‘Gaeaf mwy a gâi fy mywyd/ Hebdi hi’.¹⁴¹ Gwelwn nad dyma'r unig enghraifft o'r dechneg hon, fodd bynnag, wrth i osodiad de Lloyd ein gwahodd i ystyried eto'r cysylltiadau rhwng gwahanol adrannau o'r farddoniaeth, a hynny wrth i Osian ganu pennill olaf ei gân farwolaeth. Yma, wrth iddo ymbil ar Nia i ‘alw yn ôl’ ei galon a'i achub, y mae'n canu alaw pennill cyntaf ei gân ffarwél. (**Gweler Atodiad VIII, Dyfyniadau 14 a 18.**) Dangoswyd uchod fod perthynas agos rhwng y ddwy adran hyn yng nghyswllt delweddaeth, a dyma enghraifft o'r gerddoriaeth yn adlewyrchu'r agwedd honno ar y testun. Wrth i Osian agosáu at ei dranc, y mae'r ategiad hwn o alaw flaenorol nid yn

¹³⁹ Ibid., 65.

¹⁴⁰ Ibid., 17.

¹⁴¹ Ibid., 18-19.

unig yn ein hatgoffa fel cynulleidfa o'r berthynas rhwng y ddelweddaeth a geir yng ngeiriau'r ddwy adran, ond y mae hefyd yn cyfleu eironi a thristwch y sefyllfa, wrth inni weld Osian bellach yn canu i'w atgof o Nia. Mae'r gerddoriaeth hefyd, drwy gyfrwng yr harmoni, yn pwysleisio'r gwahaniaeth rhwng amgylchiadau canu'r gân farwolaeth hon a'r gân gynharach: ffarwél deimladwy yn llawn gobaith ar y naill law, a marwolaeth unig, dywyll a thrasig ar y llall. Trafodwyd uchod ddatblygiad cordiol alaw pennill cyntaf y gân ffarwél, a'r modd y mae'r alaw'n cloi yn gadarn yn B fwyaf gan adlewyrchu'r cysur a gaiff Osian yng nghariad Nia. Yn y gân farwolaeth, fodd bynnag, ni cheir y trawsgyweiriad hwn i B fwyaf, sy'n symboleiddio cariad y ddau, ond yn hytrach ddatblygiad i D leiaf, sy'n adlewyrchu mor bell ac anghyraeddadwy yw Nia i Osian bellach: nodwn nad yw D leiaf yn perthyn o gwbl i B fwyaf yn nhermau harmoni. **(Gweler Atodiad VIII, Dyfyniad 18.)** Cly'r pennill â geiriau olaf Osian: 'Deled nos – deolwyd ni', ac yntau'n ailadrodd cyfres o nodau D, tonydd D leiaf, gan bwysleisio'r cywair hwnnw.¹⁴² **(Gweler Atodiad VIII, Dyfyniad 18.)**

Wrth ystyried y gyfatebiaeth hon rhwng y ddwy adran o'r awdl, a'r modd y mae'r gosodiad cerddorol yn adlewyrchu'r nodwedd bwysig hon, gellir dwyn i gof sylw a wnaeth T. Gwynn Jones ynghylch ei gydweithio â David de Lloyd: 'Ysgrifennais rai o'r geiriau ar gyfer y musig, de Lloyd yn chwarae'r darnau ar y piano, minnau'n gwrando ac yn troi'r rhythms yn eiriau, yn ôl yr argraff a gaed arnaf'.¹⁴³ Ymddengys, felly, o'r dyfyniad hwn, i Gwynn Jones chwarae rôl bwysig yn y broses o osod, a gellid cynnig efallai ei fod wedi tynnu sylw'r cyfansoddwr at wahanol agweddau ar ei waith yr oedd arno eisiau i'r gerddoriaeth eu hadlewyrchu neu eu pwysleisio. Tybed felly ai dilyn awgrym gan y bardd yr oedd David de Lloyd

¹⁴² Ibid., 65.

¹⁴³ Llythyr, dyddiedig 3 Mai 1928, gan Gwynn Jones at John Davies, dyfynnwyd yn Jenkins, *Cofiant*, 289.

wrth amlygu yn ei osodiad y cysylltiad agos rhwng yr adrannau telynegol – agwedd sydd yn amlwg yn greiddiol i'r farddoniaeth a dewis Gwynn Jones o fydr. Beth bynnag fo'r amgylchiadau o ran cyfansoddi'r gerddoriaeth, mae'r gosodiad yn sicr yn tynnu sylw'r gwrandäwr at agwedd nas trafodwyd gan unrhyw feirniad llenyddol hyd yn hyn.¹⁴⁴ Dyma enghraifft, felly, o'r gerddoriaeth yn codi i'r wyneb nodwedd sy'n allweddol yn y farddoniaeth ond nad yw wedi derbyn sylw yn feirniadol, ac o ganlyniad gwelir y gosodiad yn rhoi gwedd newydd ar ein dehongliad o'r testun adnabyddus hwn.

Wedi i Osian gwympo'n farw, fe glywir ffigwr cerddorol arall sydd eisoes wedi ymddangos yn yr opera, sef thema morynion Tír na nÓg. **(Gweler Atodiad VIII, Dyfyniad 19.)** Y mae'r ffigwr hwn o nodau triphlyg mewn triawdau wedi'i ddefnyddio eisoes wrth agor yr ail act, sydd wedi ei lleoli yng ngwlad Tír na nÓg. **(Gweler Atodiad VIII, Dyfyniad 20.)** Cysylltir y ffigwr cerddorol hwn yn syth â'r wlad hud, ac yn wir fe ellir dadlau ei fod eto'n rhyw fath o *leitmotif*, yn cynrychioli'r morynion a Tír na nÓg. Bob tro y'i clywir, y mae'n cyflwyno neu'n cloi adran a genir gan y morynion, ac mae'n ymddangos yn aml drwy gydol yr ail act, ac yn y drydedd yn achlysurol. Wedi marwolaeth Osian, ac yntau'n edifarhau ynghylch gadael Nia a gwlad hudol Tír na nÓg, mae'r ategiad hwn o thema'r morynion yn fodd o ddyfnhau trasiedi Osian, gan ei fod yn cynrychioli'r hyn sydd bellach yn gyfan gwbl anadferadwy iddo.

Y mae'r opera yn cloi, fel y gwna'r awdl gyhoeddedig, gyda chorws y morynion, a hwythau'n ailadrodd geiriau a ganwyd ganddynt gynt: 'A feddo gof a

¹⁴⁴ Cyfeiria R. M. Jones, wrth gwrs, at yr adrannau hyn fel 'telynegion serch', ond ni cheir unrhyw sylwadau pellach ganddo ynghylch natur a chynnwys y darnau dan sylw. (Gweler R. M. Jones, *Llenyddiaeth Gymraeg*, 132.)

fydd gaeth,/ Cyfaredd cof yw hiraeth'.¹⁴⁵ (**Gweler Atodiad VIII, Dyfyniad 19.**) Yn yr adran hon gwelir hefyd gyfatebiaeth ddelweddol i'r hyn a gân y morynion i gloi'r act gyntaf a'r ail act. Soniant am Tír na nÓg ar ddiwedd yr act gyntaf gan ddweud, 'Heb wae trist adnabod tranc/ Tragywydd y trig ieuanc', ac yn yr ail act clywir y llinell 'Fel y mêl yn falm o hyd'. Ategir y delweddau, yr eirfa ac un llinell gyfan a gyflwynwyd yn flaenorol wrth gloi'r gwaith yn effeithiol:

Nyni heb wae a'n bywyd
Fel y mêl yn falm o hyd,
Yntau yn drist yn ei dranc,
A ni'n ddiddiwedd ieuanc.¹⁴⁶

Unwaith eto, gwelir David de Lloyd yn defnyddio'r dechneg o ategu alawon a glywyd eisoes yn y gwaith er mwyn ein deffro fel gwranda-wyr i'r cysylltiadau rhwng gwahanol adrannau a themâu'r farddoniaeth. Fe drafodwyd eisoes y dilyniant o gordiau llawn, gorfoleddus sy'n ymddangos ar ddechrau'r ail act (lle'r ailadroddir y geiriau sy'n cloi'r act gyntaf, a lle y ceir naws o lawenhau yn pwysleisio'r gair 'tragywydd'), ac eto yn yr ail act yn rhagflaenu cân ffarwél Osian. Mae geiriau'r adran sy'n cloi'r gwaith yn ategu'r un delweddau â'r ddau achos cynt, ac yn yr un modd mae'r syniadau cerddorol yn cael eu hailadrodd. Mae'r tebygrwydd hwn bellach yn ergyd eironig, gan fod y gerddoriaeth yn cyferbynnu'n amlwg â'r sefyllfa drist sydd bellach dan sylw. Mae'r cordiau llawen a chyfarwydd yn tynnu ein sylw at drasiedi'r sefyllfa drwy wrthgyferbyniad, ac yn pwysleisio'r hyn a gollwyd. Mae'r corws deulais, fel y gwelwyd yn yr adran gyfatebol yn yr ail act, yn rhannu'n wyth rhan wahanol, ac mae'r cordiau llawn hyn yn cynnig gwrthgyferbyniad creulon i sefyllfa unig marwolaeth Osian: mae lleisiau Tír na nÓg yn niferus a llawen, mewn

¹⁴⁵ Gwynn Jones, de Lloyd, *Tir na n-Og: An Opera*, 65.

¹⁴⁶ *Ibid.*, 66-7.

cyferbyniad ingol ag ef, sydd wedi gorfod wynebu ei dranc ar ei ben ei hun. **(Gweler Atodiad VIII, Dyfyniad 19.)**

Cyfeiriwyd yn aml yn yr astudiaeth hon at ddefnydd David de Lloyd o'r corws yn y gwaith: corws yr helwyr, corws y morynion a chorws y seiri. Mae gan y tri hyn rôl bwysig yn yr awdl, yn ailadrodd rhai adrannau, yn amlygu themâu sy'n ymddangos yn y gwaith ac yn ategu teimpladau rhai o'r cymeriadau. Cyfeiriwyd eisoes, yn y bennod flaenorol, at yr awgrym, a gafwyd mewn adolygiad,¹⁴⁷ mai ffurf y corws Groegaidd yw'r hyn y mae Gwynn Jones yn ei ddefnyddio yma, ac o dderbyn yr awgrym hwn, gwelir yn wir fod rôl y corff hwn yn *Tir na n-Og* yn debyg iawn i'r hyn a geir mewn gweithiau dramatig o Roeg Glasurol, a'r corws yn cynnig sylwebaeth ar y chwarae. Dywed Aristotle yn ei *Farddoneg*: 'The chorus too should be regarded as one of the actors; it should be an integral part of the whole, and share in the action'.¹⁴⁸ Gan fod y tri chorws yn *Tir na n-Og* yn cynnwys cymeriadau penodol, y maent yn anorfod yn rhan o'r chwarae, ond y mae ganddynt hefyd swyddogaeth ddyfnach na hyn, fel y nodir uchod, wrth iddynt amlygu rhai o brif themâu'r gwaith ac adlewyrchu emosiynau'r cymeriadau eraill. Sylwodd J. Morgan Lloyd, yn ei adolygiad o *Tir na n-Og*, ar rôl y corws yn y gwaith yn y cyswllt hwn: 'gwneir defnydd meistrolgar o gytganau i ddyfnhau'r ddrama rhwng Osian a Nia'.¹⁴⁹ Mae corws yr helwyr, wrth iddynt sôn am y 'Pêr hiraeth', yn rhagarwyddo hiraeth Osian ac yn hoelio ein sylw fel darllenwyr a chynulleidfa ar y thema bwysig hon. **(Gweler Atodiad VIII, Dyfyniad 3.)** Yn yr un modd, mae geiriau'r seiri yn act olaf y gwaith yn pwysleisio treigl amser:

¹⁴⁷ Morgan Lloyd, 'Tir na N-Og: Adolygiad', 510.

¹⁴⁸ Aristotle, *Poetics*, <<http://classics.mit.edu/Aristotle/poetics.2.2.html>>; cyrchwyd 20 Tachwedd 2014.

¹⁴⁹ Morgan Lloyd, 'Tir na N-Og: Adolygiad', 510.

Dyma lle bu gartre'r gân
Felysaf eiliau Osian
Oesau'n ôl. Dyrysni yw
Neuaddau'r dewrion heddyw;
Ond yn awr, cyfodwn ni
Lys arall.¹⁵⁰

Cân corws y seiri y geiriau uchod fel rhagarweiniad i edifarhad Osian ynghylch gadael Iwerddon yn y lle cyntaf: 'Trist yw nad oes heddyw sôn/ Am daith fy nghydymdeithion [...] O f'anwylyd,/ Nia Ben Aur! na bawn hyd/ Y dolau gwyrdd'.¹⁵¹ Yn yr un ffordd, mae'r gosodiad cerddorol yn dwysáu a chryfhau'r modd y cyflwynir rhai o'r themâu hyn a welwyd yn y farddoniaeth. Tynnwyd sylw, er enghraifft, at naws orfoleddus y dilyniant cordiol a genir gan drigolion Tír na nÓg sydd yn ymddangos dair gwaith i gyd yn yr opera. Ceir yn yr adrannau hyn ddisgrifiadau o Tír na nÓg, ac fe bwysleisir bob tro ddelweddau o oleuni a heulwen. Y tro cyntaf, ar ddechrau'r ail act, fel y gwelwyd, pwysleisia'r gerddoriaeth ieuencid a hapusrwydd y wlad hudol. **(Gweler Atodiad VIII, Dyfyniad 7.)** Ategir yr un gerddoriaeth eto yn yr ail act, lle mae'r adran dan sylw yn cael ei chyfosod ag adran lle y disgrifia Osian yr Iwerddon ddelfrydoledig y mae'n credu y mae'n dychwelyd iddi. **(Gweler Atodiad VIII, Dyfyniad 13.)** Caiff y delfryd hwn ei ddryllio, wrth gwrs, ac y mae Osian yn marw mewn siom. Dychwel y dilyniant cordiol hwn am y tro olaf wedi ei farwolaeth, gyda'r un gerddoriaeth lawen a gorfoleddus y tro hwn yn cyfeirio'n eironig at y baradwys a adawodd Osian ar ei ôl ac yn pwysleisio'r hyn sydd bellach yn anghyrraeddadwy am byth. **(Gweler Atodiad VIII, Dyfyniad 19.)**

Ceir un defnydd effeithiol arall o'r corws yn y gwaith, a hynny tua diwedd act gyntaf yr opera, wedi i Osian benderfynu gadael Iwerddon gyda Nia. Wrth i'r ddau brif gymeriad ganu llinellau olaf eu deuawd, 'Awn, a'r don yn dyner danom', fe

¹⁵⁰ Gwynn Jones, de Lloyd, *Tír na n-Og: An Opera*, 48-9.

¹⁵¹ *Ibid.*, 51, 53.

glywir alaw gyfarwydd yr helwyr ar y geiriau ‘Awn yno, lle cawn ennyn pêr hiraeth’.¹⁵² **(Gweler Atodiad VIII, Dyfyniad 21.)** Gwelwyd uchod sut y mae geiriau’r helwyr y tro hwn nid yn unig yn cyfeirio at eu hiraeth eu hunain am Osian, ond hefyd at yr hiraeth y bydd Osian yn ei deimlo am ei gartref. Wrth i’r helwyr orffen canu, a chyn i’w cord olaf ymdawelu, daw corws y morynion i ganu am Tír na nÓg: ‘Lle mae haul yn lliwio môr/ Hwyr neu fore yn farwor’.¹⁵³ **(Gweler Atodiad VIII, Dyfyniad 21.)** Ar ddiwedd yr adran honno, sy’n cloi â’r geiriau ‘Tragywydd y trig ieuanc’, clywir eto’r helwyr, ‘yn y pellter’, yn canu am y pêr hiraeth i gloi’r act.¹⁵⁴ **(Gweler Atodiad VIII, Dyfyniad 21.)** Cynrychiola’r tair adran uchod y ddwy ran sydd i fywyd Osian: yr hen – Iwerddon – a gynrychiolir gan yr helwyr, a’r newydd – Tír na nÓg – a gynrychiolir gan y morynion. Mae’r ddau gorws (yr helwyr a’r morynion) yn gorgyffwrdd yma ar drobwynt yn ei stori, lle y mae’n penderfynu gadael yr hen am y newydd. Yn y gerdd gyhoeddedig, y cyfan a ddywed yr helwyr yw ‘Ochôn’ ar ddiwedd yr act, ac felly yn yr opera yn unig y ceir y cyfosodiad hwn o’r tair adran.¹⁵⁵ Mae eu rôl yn ddeublyg: y mae’r hyn y cenir amdano yn arwyddocaol – ‘hiraeth’ yr helwyr, er enghraifft, sy’n ingol yn ei gyfeiriadaeth – ond gwelir bod y gosodiad hefyd yn defnyddio’r tair adran mewn ffordd gynrychioliadol. Mae’r gorgyffwrdd rhwng y gwahanol ddarnau cerddorol sy’n cynrychioli gwahanol agweddau ar fywyd Osian yn adlewyrchu’r ddeuoliaeth a fydd yn bresennol hyd ddiwedd ei oes, a’r frwydr fewnol honno a fydd, yn anuniongyrchol, yn achosi ei farwolaeth. Y mae’r gosodiad cerddorol felly, drwy gyfrwng techneg y corws a gorgyffwrdd y gwahanol themâu cerddorol, yn amlygu arwyddocâd penderfyniad Osian i adael Iwerddon.

¹⁵² Ibid., 21-2.

¹⁵³ Ibid., 22-3.

¹⁵⁴ Ibid., 23-4.

¹⁵⁵ Ibid., 65.

Erys nifer o adrannau pwysig a gwerthfawr o'r gwaith hwn – megis unawdau Nia yn Act 1 a 2, ymddiddan Osian a Phennaeth y Seiri yn yr act olaf, a defnydd de Lloyd o'r gerddoriaeth fel techneg ddramatig mewn nifer o achosion eraill – y talai i feirniaid graffu arnynt. Yn wir, buddiol fyddai cael astudiaeth drylwyr o *Gwenllian* a *Tir na n-Og* gan de Lloyd a Gwynn Jones, ac fe fyddai astudiaeth lawn o'r ddwy opera unigol, yn ogystal ag ystyriaeth gymharol o ddau waith a gyfansoddwyd mor agos at ei gilydd ac mewn amgylchiadau tebyg, yn siŵr o ddadlennu nifer o ddarganfyddiadau gwerthfawr ynghylch gwaith y cerddor a'r bardd ill dau. Gobeithir, fodd bynnag, fod y bennod hon wedi cynnig cyflwyniad i'r opera *Tir na n-Og*, ac wedi codi cwr y llen ar gyfansoddiad na chafodd ddigon o sylw beirniadol (na phoblogaidd) hyd yma. Hyderir bod yr astudiaeth bresennol wedi profi hefyd mor werthfawr i feirniaid llenyddol yw edrych ar y gosodiad cerddorol o'r awdl, gan ei fod yn tynnu ein sylw fel gwrandawyr/darllenwyr at agweddau nas trafodwyd ynghynt. Gwelwyd sut y mae'r gerddoriaeth yn arddangos nifer o themâu allweddol yr awdl drwy gyfrwng technegau'r corws a'r *leitmotif*. Drwy ddefnydd helaeth o'r motiff hiraeth, er enghraifft, fe'n hatgoffir drwy gydol yr opera o'r gwahanol agweddau ar hiraeth sydd mor bwysig i'r gwaith yn ei chyfanrwydd: hiraeth Osian am ei ieuenctid, hiraeth yr helwyr am Osian, hiraeth Osian am Iwerddon ac, yn olaf, hiraeth Osian am Nia. Defnyddir y motiff hiraeth i hoelio sylw'r gynulleidfa ar y thema hollgynhwysol hon mewn modd celfydd ac effeithiol.

Gwelwyd hefyd rôl allweddol y gerddoriaeth wrth i'r gosodiad amlygu'r berthynas agos rhwng yr adrannau telynegol a geir yn yr awdl hon. Dangoswyd sut y mae'r 'telynegion serch' hyn yn cyfateb yn agos iawn i'w gilydd yn nhermau delweddaeth, gyda rhai adrannau yn ateb ei gilydd yn uniongyrchol. Drwy ailadrodd alawon arbennig, cysyllta de Lloyd y tair adran delynegol yn thematig yn y

gerddoriaeth, ac mae hyn, yn ei dro, yn ein gwahodd i edrych eto ar yr adrannau hyn sy'n rhannu'r un mesur barddonol i weld pa gysylltiadau eraill a geir rhyngddynt. Y mae alaw o ddeuawd Osian a Nia yn ymddangos eto yn yr adran delynegol olaf, marwolaeth Osian, gan bwysleisio colled y cymeriad. Gwelwyd drwy'r cysylltiadau cerddorol hefyd sut y defnyddia Gwynn Jones ddelweddaeth y tymhorau, yr haf a'r gaeaf, yn y tri darn telynegol i adlewyrchu'r newid yn sefyllfa Osian a Nia. Yn yr un modd, mae'r gyfatebiaeth ddelweddol rhwng cân ffarwél a chân farwolaeth Osian yn agwedd bwysig ar y testun ei hun, a thrwy gyfrwng ailadrodd alawon fe welir eto fod y gerddoriaeth yn ein deffro ni fel gwrandawyr/darllenwyr i'r gyfatebiaeth arwyddocaol hon.

Fe welwyd droeon, felly, sut y mae astudiaeth o'r gerddoriaeth yn medru taflu goleuni newydd ar destun honedig gyfarwydd, drwy edrych ar yr hyn y mae'r cerddor wedi dewis ei adlewyrchu yn y gosodiad. Dyma, mewn gwirionedd, hanfod yr astudiaeth hon: dangos sut y gellir cyfoethogi ein profiad o ddarn o farddoniaeth wrth edrych arno drwy lygaid cerddor. Gwelwyd bod astudio'r gosodiad wedi dod ag agweddau newydd ar y testun i'r golwg, a gobeithir, at hyn, fod yma brawf mor werthfawr yw astudiaeth o'r fath. Cymwys, felly, fyddai cloi â dyfyniad o adolygiad *Baner ac Amserau Cymru* o'r opera *Tir na n-Og*, sy'n dangos bod Gwynn Jones ei hun yn cymeradwyo ymgais David de Lloyd i osod ei awdl fawr i gerddoriaeth:

'A ddaliodd y miwsig y peth a oedd gennych yn eich meddwl wrth sgrifennu "Tir N'a N'Og" [*sic*]?', gofynnem i'r Athro Gwynn Jones wrth fyned allan. 'Do, i'r dim', ebe yntau.¹⁵⁶

¹⁵⁶ 'Mignedd', 'Miwsig Rhyfeddol Dr de Lloyd ar "Dir N'a N'Og" [*sic*] Yr Athro Gwynn Jones', *Baner ac Amserau Cymru*, 28 Mai, 1925, 5.

CASGLIAD: ‘MAPIO’R CYFANDIR GWYNN’

Credai T. Gwynn Jones mai cerddoriaeth oedd y ‘gelfyddyd fwyaf cymodlawn a ddatblygodd dyn’.¹ Daw’r dyfyniad o’r ysgrif ‘Popeth o’r Newydd?’, sy’n mynd i’r afael ag effaith newidiadau a datblygiadau cyfoes ar gymdeithas a chelfyddyd. Cyfeiria Gwynn Jones at gerddoriaeth yng nghyd-destun effaith ei chlywed ‘lle y mynner, pryd nas clywid gynt’ ar aelodau cymdeithas.² Daw natur ‘gymodlawn’ cerddoriaeth, yng ngolwg Gwynn Jones, o’r modd y mae’n medru codi uwchlaw amgylchiadau a chyd-destun ei chyfansoddi, gan gyflwyno profiad celfyddydol sy’n cyffwrdd â’r enaid mewn ffyrdd na ellir eu diffinio: dyma’r agwedd haniaethol, annifiniadwy a hollgynhwysol sy’n annatod gysylltiedig â cherddoriaeth, a cherddoriaeth offerynnol yn arbennig. Mewn cerdd Saesneg a gyhoeddwyd ym 1925, cais Gwynn Jones grisialu’r profiad o wrando ar berfformiad cerddorol:

Softly, through the dreamy air
of the still Egyptian night,
floated the music out,
out of a garish room
into the glorious gloom –
murmured and rippled and rang
in the freedom of that great gloom [...]

And wave upon wave of music broke on the soul,
as ocean waves on the shore of a lonely land
that could know not what it meant,
though tears came into the eyes, with a feeling of sad content,
and the joy of weeping was known,
of weeping in silence, for nought, and for all.³

¹ T. Gwynn Jones, ‘Popeth o’r Newydd?’, yn *Astudiaethau* (Wrecsam, 1936), 177.

² *Ibid.*

³ T. Gwynn Jones, ‘Music (To an Italian Pianist Playing Chopin)’, *Western Mail*, 31 Gorffennaf 1925, 6.

Mae modd synio am ddarlun teimladwy T. Gwynn Jones o ddehongliad y pianydd o un o ddarnau'r cyfansoddwr Chopin, a'r effaith a gaiff y perfformiad ar enaid dyn, fel portread o berthynas Gwynn Jones ei hun â cherddoriaeth. Gwelwyd eisoes mor bwysig oedd cerddoriaeth iddo, a hynny o'i blentyndod, yn canu yn y capel ac yn ceisio cyfansoddi, i atgofion am fiwsig tref Caernarfon fin nos, hyd ei henaint pan gafodd gryn bleser a chysur yn chwarae cerddoriaeth i'w wyrion.⁴ Chopin oedd un o hoff gyfansoddwyr Gwynn Jones, ac mae'r gerdd y dyfynnwyd ohoni uchod yn arddangos ymdeimlad Gwynn Jones â'r gerddoriaeth honno a oedd yn deffro pethau anniffiniadwy yn y gwrandäwr.⁵

Gwelir hefyd debygrwydd rhwng 'Music (To an Italian Pianist Playing Chopin)' a'r caniad 'Dadeni' yn awdl arobryn Gwynn Jones 'Gwlad y Bryniau', a'r disgrifiadau synhwyrus yno o gerddoriaeth y telynor. Nid tonnau yw'r gerddoriaeth yn yr achos hwn, ond dafnau o law:

Yno'r hen delynor oedd,
Bwrw hud ar bawb yr ydoedd,
Pob nôd fel pe bai'n neidiaw
Yn gawod wlith gyda'i law,
Fel y naid barrug o'r grug ar greigiau,
A drain a ergydier, yn îr gawodau,
Ond bod yr ysgafn ddafnau yn cwmpo
Gwedi eu swyno'n gawod o seiniau.⁶

Er mai gwahanol yw'r ddelwedd, tebyg yw'r effaith, ac fel y daw dagrau i lygaid y gynulleidfa sy'n darganfod 'the joy of weeping' yn yr Aifft, 'nid oedd dyn/ Nad wylodd gyda'r delyn' yn y gaer a ddisgrifir yn 'Gwlad y Bryniau': golygfa, yn ôl y

⁴ T. Gwynn Jones ac Arthur ap Gwynn, 'Nodiadau am ei hanes ef ei hun gan TGJ', Papurau T. Gwynn Jones ac Arthur ap Gwynn, Archifau Prifysgol Aberystwyth, Bocs 1; David Jenkins, *Thomas Gwynn Jones: Cofiant* (Dinbych, 1973), 28.

⁵ Arthur ap Gwynn, 'T. Gwynn Jones' yn Gwynn ap Gwilym (gol.), *Cyfres y Meistri (3): Thomas Gwynn Jones* (Llandybïe, 1982), 57.

⁶ T. Gwynn Jones, 'Gwlad y Bryniau', yn *Caniadau* (Wrecsam, 1934), 56.

bardd ei hun, sydd wedi ei seilio ar brofiad personol.⁷ Y mae ‘prudd-der tyneraf’ yr alaw wedi deffro’r gwrandawyr i ‘boen dyhëad’ anniffiniadwy, a’r ymdeimlad o brofiad ingol, emosiynol, i’w ganfod yn gryf yn yr adran hon o ‘Gwlad y Bryniau’ yn ogystal ag yn ‘Music (To an Italian Pianist Playing Chopin)’. Ceir disgrifiad o gerddoriaeth o fath gwahanol yn y gerdd ‘Alltudion’ o *Y Dwymyn*:

Cerddoriaeth newydd fflam,
dawn awen y gelfyddyd newydd;
symudiadau fel neidiau broga,
fel araf ddoleniad neidr a lusg o lwyn ar
 dwyn ryw awr o des;
seiniau fel gelynion i’w gilydd,
yn gwegian fel brwysg a gerddo â phetrus
 gam,
fel criau Arab a wertho’i wâr yn yr heol,
fel dringwr ysgol a chwilio am ffon i’w
 droed.
A phawb yn gwranddo’n ddifrif ddwys
gan synnu at ysbryd y gelfyddyd fawr –
afiaith gyntefig
a hanoedd o nwyd yr elfennau,
meddai un oedd yn meddu hawl,
awdurdod ei eirida,
i sôn am ddirgelwch sôn.⁸

Barn John Rowlands yw fod agwedd Gwynn Jones tuag at y gerddoriaeth newydd hon yn ‘frathog ddirmygus’.⁹ Efallai y gellid tymheru’r farn honno drwy nodi mai’r cocyn hitio yn y fan hon ydy’r ‘un oedd yn meddu hawl’, yn ei dyb ef, ar sail ‘awdurdod ei eirida’, ‘i sôn am ddirgelwch sôn’. Tybed a ellir awgrymu mai un o ergydion Gwynn Jones yn y fan hon yw’r hunan-dyb a amlygir yma, a’r gred y gellir esbonio neu ddiffinio yr hyn sydd, mewn gwirionedd, y tu hwnt i hynny – yn ‘[d]irgelwch sôn’.

⁷ Gwynn Jones, ‘Music (To an Italian Pianist Playing Chopin)’, 6; Gwynn Jones, ‘Gwlad y Bryniau’, 56; R. I. Aaron, ‘Nodiadau T. Gwynn Jones ar *Caniadau*’, yn ap Gwilym (gol.), *Cyfres y Meistri*, 305.

⁸ T. Gwynn Jones, ‘Alltudion’, yn *Y Dwymyn* (Caerdydd, 1972), 16-17.

⁹ John Rowlands, ‘Ein Llenorion Cerddorol’, *Ysgrifau Beirniadol*, X (1977), 363.

Mae'r tair cerdd a grybwyllir uchod yn ein harwain yn ôl at fethodoleg Steven Paul Scher a gyflwynwyd yn y bennod gyntaf, a'i dair ffordd o synio am lenyddiaeth a cherddoriaeth: 'music and literature, literature in music and music in literature'.¹⁰ Mae 'Alltudion', 'Music (To an Italian Pianist Playing Chopin)' a'r adran o 'Gwlad y Bryniau' a ddyfynnir uchod yn enghreifftiau nid o'r categori 'music and literature', sydd wedi bod dan sylw drwy gydol y thesis presennol, ond yn hytrach 'music in literature': disgrifiadau llenyddol o brofiadau cerddorol.¹¹ Wrth gwrs, nid dyma ffocws y thesis presennol, ond diddorol fyddai yn awr edrych yn gyflym ar rai esiamplau perthnasol o'r agwedd hon ar berthynas llenyddiaeth a cherddoriaeth ('music in literature').

Cyfeiriwyd ynghynt yn y traethawd hwn at y disgrifiadau o gerddoriaeth yn yr ysgrifau cofiannol *Y Môr Canoldir a'r Aiff a Brithgofion*, a dylid pwysleisio bod cerddoriaeth yn ymddangos yn aml yng ngwaith Gwynn Jones. Y mae'r glowyr sydd ar streic yn *Gorchest Gwilym Bevan* yn teithio o amgylch y wlad yn canu emynau, ac mae eu datganiad cerddorol yn un o'r digwyddiadau sy'n peri i chwarelwyr anfodlon Craig y Coed weld Gwilym Bevan mewn goleuni cadarnahol.¹² Yn yr un modd, y mae Merfyn Owen yn *Lona* yn penderfynu ymweld â thref Minfor wedi iddo wrando ar y darnau cerddorol 'Shepherd of Souls' a 'Cavalleria Rusticana', ac mae'r gerddoriaeth yn peri iddo fyfyrion ar '[dd]yfod o hyd i neges dyn', a'i ymchwil am ei drywydd personol ei hun.¹³ Ym marddoniaeth Gwynn Jones hefyd gwelir sut y mae cerddoriaeth yn elfen bwysig yn nifer o'i ddelweddau synhwyrus. Yn 'Gwlad Hud', dychmyga gerddoriaeth clychau'r eirlys, neu glychau mebyn: 'gwrandedwais oni

¹⁰ Steven Paul Scher, 'Literature and Music', yn Jean-Pierre Barricelli a Joseph Gibaldi (goln), *Interrelations of Literature* (New York, 1982), 226.

¹¹ Ibid.

¹² T. Gwynn Jones, *Gorchest Gwilym Bevan* (Gwreccsam, 1900), 11-16.

¹³ T. Gwynn Jones, *Lona* (Wreccsam, 1923), 8-9.

chlywais/ Hwyl yn canu i'm diddanu,/ Enau gwynion, am y gwanwyn'¹⁴; 'melysdon' yw'r awel yn 'Ymadawiad Arthur'¹⁵; a diamau yw pŵer 'hud' y gerddoriaeth y mae telynor 'Gwlad y Bryniau', y cyfeiriwyd ato uchod, yn ei chwarae.¹⁶ O ystyried parch mawr T. Gwynn Jones at gerddoriaeth fel celfyddyd, nid yw'n syndod gweld cymaint o ddisgrifiadau cerddorol yn ei waith. Diddorol, fodd bynnag, nad yw ei ymdriniaeth lenyddol â'r gelfyddyd wedi ei hystyried yn feirniadol, heblaw fel rhan o ysgrif John Rowlands 'Ein Llenorion Cerddorol' (1977).¹⁷ Ynddi disgrifir Gwynn Jones fel '[c]erddor o fardd', gan gynnig sylwadau ynghylch pa gyfansoddwyr a fyddai'n medru 'gwneud cyfiawnder â cherddi mawr operatig' y bardd. Yn nhyb Rowlands, Wagner fyddai'r unig un a fyddai'n medru gwneud hynny.¹⁸ Wrth gloi'r ysgrif, dadleua Rowlands dros ddilysrwydd dilyn y trywydd academaidd rhyngddisgyblaethol arbennig hwn, gan ddweud mae'r cyfan a wnaeth oedd 'codi cwr y llen ar bwnc sy'n haeddu ymdriniaeth fanylach a dyfnach'.¹⁹ Fel y mae'r astudiaeth bresennol wedi mynd i'r afael â pherthynas gwaith T. Gwynn Jones yng nghyswllt 'music and literature', diau nad diffwyth ychwaith fyddai ymgymryd â'r dasg o astudio ei *oeuvre* yn llawn o safbwynt 'music in literature' ychwaith.²⁰ Cynigiodd R. M. Jones, yn gellweirus, y byddai modd cynhyrchu doethuriaeth yn astudio cŵn T. Gwynn Jones.²¹ Cynigir yma y byddai astudiaeth gyflawn o bortread Gwynn Jones o gerddoriaeth yn ei weithiau yn un dra buddiol – un a fyddai'n dadlennu agwedau ar gorff o waith cyfarwydd, ac a fyddai'n dyfnhau ein dealltwriaeth ohono.

¹⁴ T. Gwynn Jones, 'Gwlad Hud', yn *Caniadau*, 158.

¹⁵ T. Gwynn Jones, 'Ymadawiad Arthur', yn *Caniadau*, 32.

¹⁶ Gwynn Jones, 'Gwlad y Bryniau', yn *Caniadau*, 56.

¹⁷ Rowlands, 'Ein Llenorion Cerddorol', 362-3. Diddorol nodi na cheir cyfeiriad penodol gan Rowlands at opera David de Lloyd a T. Gwynn Jones, *Tir na n-Og*, wrth iddo drafod Gwynn Jones a'i waith mewn cyd-destun cerddorol.

¹⁸ *Ibid.*, 362.

¹⁹ *Ibid.*, 378.

²⁰ Scher, 'Literature and Music', 226.

²¹ R. M. Jones, *Llenyddiaeth Gymraeg 1902-1936* (Llandybie, 1987), 141.

Y mae disgrifiad Gwynn Jones o gerddoriaeth fel celfyddyd ‘gymodlawn’ yn addas iawn yma wrth bwysu a mesur astudiaeth sydd, yn ystod y traethawd presennol, wedi hoelio sylw ar ffrwyth y ‘cymod’ artistig rhwng geiriau a cherddoriaeth. Archwiliwyd nid yn unig ganlyniadau cyfuno llenyddiaeth a cherddoriaeth, ond yn ogystal sut y mae’r naill gelfyddyd yn cyfoethogi’r llall yn achos gwaith T. Gwynn Jones. Agorwyd yr astudiaeth â datganiad Alun Llywelyn-Williams ‘nad oes obaith [...] darganfod dim newydd’ am T. Gwynn Jones a’i waith.²² Gobeithir fod y thesis hwn wedi cynnig tystiolaeth sylweddol i’r gwrthwyneb, gan ddangos bod modd gweld gwaith Gwynn Jones mewn goleuni newydd wrth ei archwilio o ogwydd cerddorol. Y mae’r traethawd nid yn unig wedi cyflwyno i’r drafodaeth ddarnau newydd nas astudiwyd cyn hyn yn feirniadol, megis cyfieithiadau o eiriau caneuon a dramâu anghyhoeddedig, ond hefyd wedi dangos sut y mae cerddoriaeth yn cyfoethogi ein dealltwriaeth o rai o weithiau canonaidd T. Gwynn Jones. Wrth graffu ar y berthynas rhwng y ddwy gelfyddyd yng ngwaith Gwynn Jones, gwelwyd sut y mae edrych ar gynnyrch y bardd o safbwynt cerddorol yn cyfoethogi ac yn ychwanegu at y drafodaeth feirniadol ar ei gynnyrch sylweddol mewn nifer o wahanol ffyrdd. Yn hytrach na rhannu gwaith T. Gwynn Jones yn ddwy ran, felly – y canon ‘llenyddol’ a’r canon ‘cerddorol’, fel petai – dylid eu hystyried fel dwy ffrwd sy’n llifo i’w gilydd, ac fe gynigir yma mai dim ond drwy archwilio’r ddwy ochr hyn ynghyd y gellir deall y cyfuniad yn iawn a chael darlun clir o gyfraniad T. Gwynn Jones yn ei holl ehangder.

Wedi pennu fframwaith methodolegol ar gyfer yr astudiaeth yn y bennod gyntaf, dangoswyd yn yr ail bennod berthynas amryw ddarnau gwreiddiol gan Gwynn Jones – nifer ohonynt o’r gyfrol arloesol *Caniadau* – â cherddoriaeth. Drwy synio am

²² Alun Llywelyn-Williams, ‘T. Gwynn Jones: Gorchest y Bardd’, yn ap Gwilym (gol.), *Cyfres y Meistri*, 199.

osodiadau cerddorol fel deongliadau'r cyfansoddwyr o'r darnau o farddoniaeth a osodwyd, gwelwyd sut yr amlygwyd gwahanol agweddau ar ddarnau honedig gyfarwydd, ac y cynigiwyd darlleniadau newydd ohonynt. Gwelwyd hyn yn achos ymdriniaeth led-operatig David Vaughan Thomas ag adrannau o 'Ymadawiad Arthur', gydag adrannau *recitative* cyferbyniol yn pwysleisio'r gwahaniaeth arddulliol rhwng y disgrifiadol a'r dramatig yn yr awdl ei hun. Yn yr un modd, gwelwyd ymgorfforiad cerddorol o thema'r 'Hyfryd Wlad', delfryd 'Rhos y Pererinion', drwy gyfrwng ieithwedd harmonig gwaith Dilys Elwyn-Edwards a Meirion Williams fel ei gilydd. Gwelwyd hefyd yn ddiweddarach yn y thesis sut y mae ymdriniaeth fanwl â cherddoriaeth yn medru tynnu ein sylw at agweddau newydd ar weithiau cyfarwydd, a hynny, er enghraifft, yn achos gosodiad David de Lloyd o'r awdl 'Tir na n-Óg'. Dangoswyd bod cerddoriaeth y gwaith hwn yn pwysleisio'r thema hiraeth, sy'n greiddiol i'r awdl hon, drwy gydol y cyfansoddiad, a hynny drwy gyfrwng techneg y *leitmotif*. Gwelwyd hefyd sut y mae'r gosodiad o eiriau T. Gwynn Jones gan de Lloyd yn amlygu'r berthynas agos rhwng delweddau'r gwahanol adrannau 'telynegol' sy'n ymddangos yn yr awdl. Drwy gyfrwng cyfeiriadaeth gerddorol, dadlennwyd agwedd ar y geiriau nas trafodwyd yn feirniadol cyn hyn, sef y gyfatebiaeth fydryddol a delweddol bwysig rhwng cân ffarwél a cân farwolaeth Osian. Gwelwyd ymhellach sut y mae darllen yn gyfochrog y penillion hynny sy'n cyfarch cymeriad Nia ar ddwy adeg wahanol yn cyfoethogi ein dealltwriaeth o gymeriad Osian a'i gyflwr meddyliol ar ddau bwynt allweddol yn ei hanes – sydd yn ei dro yn dyfnhau ing ei farwolaeth. Wrth graffu, felly, ar osodiadau cerddorol o waith T. Gwynn Jones, daw'n amlwg bod hynny'n fodd o beri inni ystyried y farddoniaeth 'wreiddiol' – yn ôl-dremiol, felly – o'r newydd.

Gwelwyd yn y bennod ar y caneuon gwreiddiol hefyd sut y mae cerddoriaeth wedi chwarae rhan bwyig yn natblygiad rhai o weithiau amlycaf T. Gwynn Jones. Yn y cyswllt hwn, gellir crybwyll ei gyfieithiad o ‘Ystrad Fflur’, ‘Strata Florida’, a luniwyd er mwyn ei gyhoeddi ar y cyd â’r geiriau Cymraeg ar osodiad cerddorol Idris Lewis. Dengys y cyfieithiad hwn sut y bu cerddoriaeth, ar dro, yn sbardun i’r bardd i ailystyried ei waith ei hun. Yn yr un modd, datgelwyd rôl gudd cerddoriaeth yn y broses o gyfansoddi’r awdl ‘Broséliâwnd’ drwy gyfrwng astudiaeth gymharol o’r awdl a’r hyn a geir yn y llawysgrif anghyhoeddedig ‘Sketch of an Opera’. Wrth graffu ar y gweithiau hyn – ar ddilyniant y digwyddiadau, yr ieithwedd a’r delweddau – amlygwyd y berthynas agos rhwng y ddau ddarn, gan ddangos yn glir y modd y mae cerddoriaeth yn rhan annatod o gyd-destun yr awdl adnabyddus hon. Mae’r cefndir cerddorol cudd hwn yn ystyriaeth bwysig yn achos un arall o awdlau enwog T. Gwynn Jones, sef ‘Tir na n-Og’. Er y nodir yn amlwg mai ‘Awdl Delynegol at Beroriaeth’ yw’r gwaith hwn yn y cyhoeddiadau hynny lle nad oes cerddoriaeth ynghlwm â’r gerdd, nid ystyriwyd yn feirniadol-fanwl yr agwedd gerddorol, sydd mewn gwirionedd yn greiddiol i’w ffurf. Wrth olrhain datblygiad yr awdl yn y bumed bennod, gwelwyd droeon pa mor ddylanwadol oedd cerddoriaeth nid yn unig yn achos ei ffurf – y sgrïpt farddonol honno sy’n darllen fel drama – ond hefyd wrth ystyried ailgyhoeddiadau a gosodiadau newydd ohoni. Er enghraifft, cyfieithodd T. Gwynn Jones y gwaith, a hynny er mwyn cynnwys y testun Saesneg, ar y cyd â’r Gymraeg, yn sgôr yr opera a gyhoeddwyd ym 1930. Wrth graffu ar y cyfieithiad hwnnw gwelir newid mewn cyfarwyddyd llwyfan sy’n profi bod mwy nag un ffynhonnell lenyddol Wyddeleg wedi dylanwadu ar Gwynn Jones wrth iddo gyfansoddi ac ailwampio ei awdl. Gwelwyd felly sut y mae cerddoriaeth nid yn unig yn ddefnyddiol fel techneg ddehongliadol, fel yn achos y gosodiadau o weithiau

gwreiddiol T. Gwynn Jones, ond hefyd fel modd o ddarganfod gwybodaeth newydd ynghylch cefndir, dull cyfansoddi, a datblygiad amryw ddarnau o'i eiddo hefyd.

Yn ogystal â defnyddio cerddoriaeth i gyfoethogi ein dealltwriaeth o weithiau T. Gwynn Jones, dangoswyd sut y mae'r darnau a gyfansoddwyd gan T. Gwynn Jones yn benodol ar gyfer cerddoriaeth hefyd, yn eu tro, yn medru cael eu hystyried yng ngoleuni rhai o brif themâu gwaith 'canonaidd' y bardd. Er mai gweithiau a luniodd Gwynn Jones ar gais eraill, ar y cyfan, yw'r cyfieithiadau a'r addasiadau o eiriau traddodiadol a archwiliwyd yn y drydedd a'r bedwaredd bennod, y mae nifer ohonynt yn arddangos llawer o'r un syniadaeth a'r un cysyniadau ag a welir yng ngwaith ehangach T. Gwynn Jones. Gwelwyd sut y mae'r gyfrol *Welsh Festival Book* yn bwrw goleuni newydd ar berthynas Gwynn Jones â'r Ymerodraeth Brydeinig a Chymru, a sut y mae'r cyfieithiadau a'r gweithiau gwreiddiol ganddo sy'n ymddangos yn y gyfrol honno yn cyfrannu at y ddelwedd o Gymru a bortreadwyd gan y *Welsh Festival Book* ei hun. Wrth gyflwyno traddodiad barddonol, cerddorol a chrefyddol hynafol sydd eto'n fyw ac yn datblygu, pwysleisir, er budd y rheini a fynychodd y 'Welsh Week' yn Arddangosfa'r Ymerodraeth ym 1924, y Gymru barchus, ddiwylliedig: Cymru, Gwlad y Gân.²³ Y mae gwaith Gwynn Jones sy'n ymddangos yn y *Welsh Festival Book* hefyd yn ychwanegu at y darlun sydd gennym o agwedd amwys y bardd tuag at y sefydliad Prydeinig yn gyffredinol. Er iddo dderbyn y CBE ym 1937, gwelir ei fod yn gefnogol i annibyniaeth Iwerddon, ac felly'n gwrthwynebu Prydain yn llywodraethu yno, yn y cerddi 'Tir na n-Óg' (1922)²⁴ a 'The

²³ Gweler Hywel Teifi Edwards, *Codi'r Hen Wlad yn ei Hól: 1850-1914* (Llandysul, 1989) 3.

²⁴ Nodyn gan y bardd ei hun ar gopi llawysgrif o 'Tir na n-Óg', mewn dyddiadur yn cynnwys cerddi gan y bardd, Papurau TGJ, C14, LIGC: 'Ni chefais i lawenydd cyffelyb erioed – y *corónach dubh* wedi mynd!' Pwysleisir eto na cheir perthynas rhwng y gerdd hon a'r awdl 'Tir na n-Og'.

Irish Coercion Act' (1889).²⁵ Awgryma David Jenkins mai amser a newidiodd agwedd Gwynn Jones tuag at y sefydliad: 'sylweddolais [...] fy mod innau [...] yn llai penboeth na chynt', meddai'r bardd mewn llythyr o 1937 at William Eames.²⁶ Diddorol yw cyfraniad T. Gwynn Jones i'r *Welsh Festival Book* ym 1924 – cyfrol sy'n mawrygu'r ymerodraeth Brydeinig – a hynny ddwy flynedd wedi ei gyfeiriad at y 'corónach dubh' (y goron ddu, sef Prydain) mewn nodyn ar 'Tir na n-Óg' (1922). Yn y modd hwn, gwelir bod ystyried gwaith T. Gwynn Jones ar y cyd â cherddoriaeth yn fodd i'n deffro i gymhlethdod (a gwrthddywediadau) ei berthynas â'r sefydliad Prydeinig.

Agwedd ar fywyd a gwaith T. Gwynn Jones a drafodwyd yn eang yn feirniadol yw pwysigrwydd crefydd i'r bardd. Y mae amryw feirniad wedi mynd i'r afael â pherthynas Gwynn Jones â chrefydd, gan archwilio ei farddoniaeth gyhoeddedig am wybodaeth ynghylch ei gredoau personol, ond anaml yr ystyrir ei gyfieithiadau o emynau yn y cyswllt hwn. Cyflwynwyd yr ystyriaeth hon yn y drydedd bennod, gan ymdrin â chyfrol o gyfieithiadau o emynau Catholig, *Emynau Mynyw* (1938), a gyhoeddwyd cyn i Gwynn Jones gyfansoddi ei unig emyn gwreiddiol, 'Emyn Gosber'. Y mae'n bosib fod y broses o lunio'r cyfieithiadau o'r emynau Lladin a Saesneg ar gyfer y gyfrol honno wedi bod yn ddylanwad yn y cyswllt hwn, ac awgrymwyd ymhellach fod cyfieithu darnau ar gyfer *Emynau Mynyw* wedi rhoi cyfle i Gwynn Jones archwilio ei agwedd ei hun tuag at grefydd, a hynny yn ystod cyfnod o ansicrwydd byd-eang yn arwain at yr Ail Ryfel Byd.

Noda David Jenkins hoffter T. Gwynn Jones o blant a chyfansoddi darnau ar eu cyfer,²⁷ ac mae'r corff o waith a gynhyrchodd ar gyfer cerddoriaeth hefyd yn

²⁵ T. Gwynn Jones, 'The Irish Coercion Act', dyfynnwyd yn Jenkins, *Cofiant*, 52.

²⁶ T. Gwynn Jones, dyfynnwyd yn Jenkins, *Cofiant*, 353.

²⁷ Jenkins, *Cofiant*, 28.

cynnwys darnau i blant. Ceir darnau gwreiddiol yn *Cerddi Mebyd: Childhood Songs*, a gyflwynwyd yn yr ail bennod, cyfieithiadau lu ar gais W. S. Gwynn Williams ar gyfer Cwmni Cyhoeddi Gwynn y soniwyd amdanynt yn y drydedd bennod, yn ogystal â gweithiau hirion: y ddrama gerddorol *Gwlad yr Hud* a'r cantata *Dewi Sant: Saint David*, a ystyriwyd yn y bedwaredd bennod. Mae'r cydweithio hwn â Gwynn Williams ar ddarnau ar gyfer plant yn ystod yr Ail Ryfel Byd yn enghraifft o sut y ceisiodd y ddau heddychwyr hwn, fe ellid dadlau, fynegi eu protest yn erbyn erchyllterau'r cyfnod drwy ymroi i lunio deunydd ar gyfer yr ifanc. Ceir yma, yn y delweddau syml o hyfrydwch byd natur fel sydd yn 'Afonig = Brooklet' a 'Glöyn Byw = Butterfly', yn ogystal ag yn yr 'ergydion' ar ddiwedd *Gwlad yr Hud* (sef, fe ellid tybio, sŵn gynnau'r rhyfel),²⁸ ymgorfforiad o ymateb T. Gwynn Jones a W. S. Gwynn Williams i'r ail gyflafan fawr y bu'r ddau yn byw drwyddi.

Yn ogystal â gwaith ar gyfer plant, bu T. Gwynn Jones a W. S. Gwynn Williams yn cydweithio'n helaeth ym maes cerddoriaeth draddodiadol, ac fe gyhoeddwyd nifer o wahanol gasgliadau o ganeuon gan Gwmni Gwynn gyda Gwynn Jones yn gyfrifol am olygu a chyfieithu'r geiriau. Mae'r darnau hyn yn gyfran helaeth o'r gwaith a wnaeth Gwynn Jones yn y maes yn gyffredinol, ac maent yn cynrychioli cyfraniad sydd bron yr un mor bwysig, fe ellid dadlau, â'r gyfrol *Welsh Folklore and Folk-Custom* (1930). Roedd cyfraniad T. Gwynn Jones i'r mudiad cerddoriaeth draddodiadol yn hanner cyntaf yr 20g. yn rhan bwysig o waith llwyddiannus Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru. Drwy gyfrwng ei berthynas agos â dau ddyn a fu'n weithgar eithriadol yn y maes – W. S. Gwynn Williams a J. Lloyd Williams – cyfrannodd Gwynn Jones yn helaeth at y gwaith o gyhoeddi, diweddarau a hybu'r diwylliant traddodiadol yng Nghymru. Ym mhennod 4 cafwyd ymdriniaeth o

²⁸ T. Gwynn Jones, *Gwlad yr Hud*, Papurau TGJ, G6286B, LIGC.

ymwneud T. Gwynn Jones â maes cerddoriaeth draddodiadol, o'i gyfraniadau cyntaf yn *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru*, i'r ddrama gerddorol arloesol *Y Gaiac Olaf*, yn ogystal â chyhoeddiadau Cwmni Cyhoeddi Gwynn. Er nad yw'r cyfieithiadau a'r cyfansoddiadau a amlinellwyd uchod yn cael eu hystyried yn rhan o 'ganon' llenyddol T. Gwynn Jones, rhaid cydnabod mai gweithred dra dadlennol yw defnyddio'r darnau hyn fel modd i ddatblygu ein dealltwriaeth o themâu sy'n greiddiol i waith adnabyddus y bardd yn gyffredinol.

Wrth grynhoi yn y fan hon brif ystyriaethau'r thesis presennol ar berthynas gwaith T. Gwynn Jones â cherddoriaeth, gwelir bod modd gosod y rhan helaethaf o gynnyrch T. Gwynn Jones mewn perthynas â cherddoriaeth yn fras mewn dau grŵp, a'u gosod hefyd mewn dwy ardal o Gymru. Mae'r rhan fwyaf o ddarnau'r grŵp cyntaf yn perthyn i gyfnod T. Gwynn Jones fel darlithydd yng Ngholeg y Brifysgol yn Aberystwyth rhwng 1913 a 1937: cyfieithiadau a deunydd gwreiddiol y *Welsh Festival Book* ar gais H. Walford Davies, Pennaeth Adran Gerddoriaeth y Coleg; cyfieithiadau ac ysgrifau *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru* ar gyfer J. Lloyd Williams, a oedd yn darlithio yn yr Adran Fotaneg; a'r opera *Tir na n-Og*, y gerddoriaeth wedi'i chyfansoddi gan David de Lloyd, a oedd hefyd yn rhan o'r Adran Gerddoriaeth yn Aberystwyth. Ymddengys bod Gwynn Jones wedi'i sbarduno i ehangu ei orwelion a chyfrannu nid yn unig at lenyddiaeth ond at gerddoriaeth Cymru gan dri o'i gyfoedion yn Aberystwyth. Dan ddylanwad J. Lloyd Williams yr aeth Gwynn Jones i'r afael mewn difrif â cherddoriaeth draddodiadol, ac, yn yr un modd, ceisiadau Walford Davies ar gyfer cyhoeddiadau Cyngor Cerddoriaeth Cymru a oedd yn gyfrifol am lywio Gwynn Jones i fyd cyfieithu geiriau ar gyfer caneuon. Rhoddodd ei gyfeillgarwch â David de Lloyd, wedyn, fodd iddo barhau i ddatblygu prosiect a ddechreuwyd gyda David Evans ym 1910, a chyhoeddi'r 'Awdl Delynegol at

Beroriaeth', 'Tir na n-Og', ynghyd â cherddoriaeth am y tro cyntaf ym 1930. Mae'r corff o waith a amlinellir uchod, a gynhyrchodd Gwynn Jones tra oedd yn darlithio yn Aberystwyth, yn greiddiol i'n dirnadaeth ohono fel llenor, fel y dangoswyd uchod wrth ymdrin â'r math o waith a ysbrydolwyd ac a ysgogwyd gan ei gyd-weithwyr. Y mae yma gloddfa o ddeunydd i'w astudio ymhellach: y berthynas danllyd, ddiddorol honno â Walford Davies, er enghraifft; ymdriniaeth bellach â dylanwad creadigol diwylliant traddodiadol Cymru ar T. Gwynn Jones, dan dylanwad J. Lloyd Williams; ac astudiaethau pellach ar waith David de Lloyd ar y cyd â T. Gwynn Jones. Byddai modd, yn ddiau, gynhyrchu astudiaethau diddorol a gwerthfawr ar waith Gwynn Jones drwy ganolbwyntio ar y ffigyrau pwysig sy'n greiddiol i gyfnod allweddol yn ei yrfa.

Yr ail ran, neu gyfnod, os hoffer, a welir wrth ymdrin â gwaith T. Gwynn Jones sy'n ymwneud â cherddoriaeth yw'r blynyddoedd hynny o gydweithio â W. S. Gwynn Williams, sef 1937-49. Mae'n wir fod y ddau wedi dechrau cydweithio cyn i Gwmni Cyhoeddi Gwynn gael ei sefydlu, a hynny pan gyflogid Gwynn Williams gan y cyhoeddwr Hughes a'i Fab yn Wrecsam. Yn sgil y berthynas rhwng Gwynn Williams a Gwynn Jones yn ystod y cyfnod hwnnw, cyhoeddwyd gweithiau megis *Old Welsh Folk Songs* ym 1927, *Y Gainc Olaf* ym 1934, a chyhoeddiadau eraill gan Hughes a'i Fab. Dechreuodd y cydweithio o ddifrif, fodd bynnag, wedi i Gwynn Jones ymddeol o Aberystwyth, ac wrth i Gwynn Williams sefydlu ei gwmni cyhoeddi yn Llangollen ym 1937. Yn ystod y flwyddyn hon a thros y pum mlynedd ddilynol, gwelir dwysáu pendant yn yr hyn a gynhyrchwyd yn sgil y cydweithio, ac felly addas yw synio am gynnyrch cyfnod Cwmni Cyhoeddi Gwynn ar wahân i'r hyn a gynhyrchodd Gwynn Jones a Gwynn Williams cyn ei sefydlu. Agwedd y mae'n rhaid sylwi arni yma yw maint cyfraniad T. Gwynn Jones yn y cyswllt hwn: fe geir yng

nghatalog Cwmni Cyhoeddi Gwynn dros ddau gant o ddarnau o waith T. Gwynn Jones, a'r rhan fwyaf o'r rheini yn gyfieithiadau. Heb gymorth Gwynn Jones gyda'r cyfieithu, y cyfansoddi a'r cyfaddasu, diau na fyddai'r cwmni wedi cyhoeddi agos cymaint o ddarnau yn ei flynyddoedd cyntaf. Mae'r cyfraniad pwysig hwn i gerddoriaeth Gymraeg yn un a aeth yn angof, mewn gwirionedd, ac erbyn hyn bychan yw'r nifer sy'n sylweddoli mor weithgar a fu T. Gwynn Jones yn y maes hwn. Brysiog yw'r cyfeiriadau prin hynny at y corff o waith hwn mewn ysgrifau cofiannol a beirniadol.²⁹ Oherwydd pwysigrwydd cyfraniad gwaith llenyddol Gwynn Jones, y mae ei waith yn y byd cerddorol wedi cael ei wthio i'r cefndir, ac o ganlyniad, ni roddwyd sylw haeddiannol i'r darnau arwyddocaol hyn sy'n gyfran helaeth o'i gynnyrch yn y cyfnod cyfansoddi olaf.

Fel yn achos cymeriadau Coleg Aberystwyth, y mae'n ddigwestiwn y byddai astudiaeth benodol ar gynnyrch T. Gwynn Jones a'r gŵr o Langollen yn cynnig canfyddiadau gwerthfawr hefyd. Er bod David R. Jones yn ei draethawd doethurol yn amlinellu manylion y berthynas drwy ddyfynnu'n helaeth o'r ohebiaeth rhwng y ddau, ni cheir yn ei thesis astudiaeth gerddolegol na llenyddol o lawer o'r hyn a gyhoeddwyd.³⁰ Y mae'r corff enfawr hwnnw o waith a gyflwynwyd ym mhenodau 2, 3 a 4 y thesis presennol yn haeddu ymdriniaeth lawn, ac, fel y gwelwyd uchod, cynigir yma nifer o gyfleoedd ymchwil pellach yn achos amryw themâu sy'n greiddiol i waith ehangach T. Gwynn Jones. Priodol yn y fan hon yw awgrymu rhai trywyddau ychwanegol y talai i ymchwilwyr y dyfodol eu dilyn. Er enghraifft,

²⁹ Er enghraifft: 'r[h]estr cyhoeddiadau'r Cwmni [Cwmni Cyhoeddi Gwynn] lle nodir dros 120 o eitemau y bu Gwynn Jones yn gyfrifol am gyfieithu neu gyfaddasu cerddi [*sic*] i gyfansoddwyr Cymreig ac yn bennaf at wasanaeth W. S. Gwynn Williams ei hun'; Jenkins, *Cofiant*, 370.

³⁰ Gweler David R. Jones, 'Advocate of Change and Tradition: W. S. Gwynn Williams (1896-1978); His Contribution to Music in Wales to 1950' (traethawd PhD heb ei gyhoeddi, Prifysgol Cymru, Bangor, 2008).

buddiol fyddai ystyried y cyfieithiadau ganddo a berfformiwyd ym mlynnyddoedd cynnar Eisteddfod Ryngwladol Llangollen, a sefydlwyd gan W. S. Gwynn Williams ym 1947.³¹ T. Gwynn Jones, fe gofir, a gyfansoddodd yr arwyddair ar gyfer yr Eisteddfod, sef ‘Byd gwyn fydd byd a gano,/ Gwaraidd fydd ei gerddi fo’.³² Tybed a oes modd awgrymu fod y ‘gwyn’ hwnnw yn fwysair sy’n chwarae ar enw’r sefydlydd, W. S. Gwynn Williams – ac, yng ngoleuni’r corff enfawr o ddeunydd ar gyfer cerddoriaeth a luniodd T. Gwynn Jones, ar enw’r bardd ei hun hefyd. Yn ôl cynysgrifenyddes W. S. Gwynn Williams, fe fyddai Gwynn Jones yn teithio i Langollen yn gyson i weithio gyda Gwynn Williams, a hynny hyd at flynyddoedd olaf ei fywyd pan nad oedd yn ymddangos yn gyhoeddus yn aml o gwbl.³³ Diau y byddai astudiaeth bellach o’r cyfnod hwn yn cynnig darlun gwerthfawr o weithgarwch y bardd yn y cyfnod dan sylw.

Yn ei gyfrol *Llenyddiaeth Gymraeg: 1902-1936*, y mae gan R. M. Jones bennod yn dwyn y teitl ‘Mapio’r Cyfandir Gwynn’, sy’n mynd i’r afael ag amlochredd cynhyrchion T. Gwynn Jones.³⁴ A buddiol, yn wir, fyddai ‘mapio’ yn y fan hon hefyd – mapio cwrs ymwneud Gwynn Jones â cherddoriaeth. Gwelir bod dau brif le ar ‘fap’ cerddorol T. Gwynn Jones: Aberystwyth a Llangollen. Fel y gwelwyd, mae’r ddau le hyn yn cynrychioli dau brif gyfnod o ran cyswllt T. Gwynn Jones â cherddoriaeth: y cyfnod lle y gwelir y bardd yn ymwneud â nifer o wahanol brosiectau cerddorol ar gais a than ddylanwad nifer o wahanol gerddorion, sydd, yn fras, yn cyfateb i ddyddiadau T. Gwynn Jones yn darlithio yn Aberystwyth, 1913-1937; a’r cyfnod wedi iddo ymddeol, pryd y mae Gwynn Jones yn ymroi i gyfrannu at

³¹ John Davies, Menna Baines, Nigel Jenkins, Peredur I. Lynch, (goln), *Gwyddoniadur Cymru Yr Academi Gymreig* (Caerdydd, 2008), 329.

³² T. Gwynn Jones, dyfynnwyd yn Jenkins, *Cofiant*, 370.

³³ Cyfweliad yr awdur presennol â Nancy Jones, 24 Mai 2014; Jenkins, *Cofiant*, 371.

³⁴ Jones, *Llenyddiaeth Gymraeg*, 115-122.

lwyddiant mentrau W. S. Gwynn Williams, sef Cwmni Cyhoeddi Gwynn ac Eisteddfod Ryngwladol Llangollen. Fe geir, wrth reswm, rai gweithiau nad ydynt yn perthyn i gydweithio Gwynn Jones â'r ffigurau hyn, nad ydynt yn cwmpo'n daclus i'r cyfnodau a nodwyd uchod, megis y gyfrol *Emynau Mynyw*, a gyhoeddwyd ym 1938, ynghyd â chydweithio Gwynn Jones â W.S. Gwynn Williams cyn sefydlu Cwmni Cyhoeddi Gwynn. Er hyn, mae'r mapio hwn yn amlygu dau leoliad a dau gyfnod cynhyrchiol yng nghyswllt gwaith T. Gwynn Jones ar gyfer cerddoriaeth, sy'n ddefnyddiol wrth geisio gosod trefn ar y cyhoeddiadau ac wrth gynnig astudiaeth gynhwysfawr o gorff o waith nas trafodwyd yn feirniadol cyn yr ymdriniaeth hon.

Yn ogystal â nodi lleoliadau a ffigurau pwysig yng ngwaith 'cerddorol' T. Gwynn Jones, dylid hefyd ystyried y gwaith yng ngoleuni gweithgarwch cyffredinol y bardd. Mae cyfosod y blynyddoedd cynhyrchiol cerddorol â blynyddoedd cynhyrchu'r gweithiau llenyddol 'canonaidd' yn cynnig modd arall o ymdrin â'r corff o waith hwn. Wrth ystyried cyfnodau cynhyrchiol Gwynn Jones o ran y ddwy agwedd hyn ar ei waith, fe gawn gipolwg ddadlennol ar nodweddion bywgraffyddol arwyddocaol, ei agwedd at ei waith sy'n ymwneud â cherddoriaeth, a'r effaith a gafodd y gwaith hwnnw ar y gweithiau adnabyddus a'i gwnaeth yn un o feirdd mawr yr 20g. Yng nghyswllt y ddau gorff hyn o waith, y llenyddol a'r cerddorol, prin y ceir unrhyw flwyddyn yn ystod ei yrfa heb unrhyw gyhoeddiad, ac wrth graffu ymhellach, gwelir rhai patrymau yn codi.

Ar wahân i dri chyhoeddiad cynnar ('Yr Ornest' (1890), *The Boat's Return* (1905) a *King Arthur's Knights: Scena and Song* (1908), mae gweithgarwch T. Gwynn Jones mewn perthynas â cherddoriaeth yn cychwyn yn y 1920au cynnar, gyda chyhoeddiadau yn *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru*, emynau yn *A Students' Hymnal* a darnau gwreiddiol Saesneg ar gyfer cerddoriaeth a gyfansoddwyd

gan Robert Bryan, *Come My Love* ac *I Will Come To Thee*. Wedi i Gwynn Jones gyfansoddi dwy awdl arobryn a chyhoeddi ei gasgliad cyntaf o farddoniaeth, *Ymadawiad Arthur a Chaniadau Ereill* (1910) – yn fyr, wedi iddo ymsefydlu fel bardd a llenor – gwelir ef yn mynd i'r afael o ddifrif â chyfansoddi a chyfieithu darnau ar gyfer cerddoriaeth. Fel y nodwyd uchod, ar gais eraill yr ysgogwyd Gwynn Jones i gynhyrchu'r gweithiau hyn – yn eu plith H. Walford Davies, J. Lloyd Williams, a'r cerddor Robert Bryan, a fu'n gyfaill mawr i'r bardd yn ystod y cyfnodau pan oedd yn byw yng Nghaernarfon a'r Aifft.³⁵

Mae'r brif gyfrol gyntaf sy'n ymwneud â cherddoriaeth yng nghyswllt gwaith Gwynn Jones, y *Welsh Festival Book* (1924), yn rhagflaenu un o gyhoeddiadau pwysicaf y bardd, sef *Detholiad o Ganiadau* (1926). Gwelwyd yn y bennod ar y caneuon gwreiddiol sut yr oedd dau o gyfraniadau T. Gwynn Jones i'r *Welsh Festival Book* hefyd wedi eu cynnwys yn *Detholiad o Ganiadau* – sef y darnau gwreiddiol 'Eryri Wen' a 'Breuddwyd Dafydd Rhys'. Fel y trafodwyd eisoes, mae'r *Welsh Festival Book* yn cynnwys nifer o gyfieithiadau gan Gwynn Jones – o'r Gymraeg i'r Saesneg (fel yn achos 'Thunder' a 'New Year's Eve'), o'r Almaeneg i'r Gymraeg ('Y Nefoedd Sy'n Datgan'), o Eidaleg i'r Gymraeg a'r Saesneg ('Lendid Tragwydd', 'Beauty Eternal'), i restru rhai enghreifftiau yn unig. T. Gwynn Jones yw'r cyfieithydd yn achos nifer o gyhoeddiadau *Cyfres y Werin* hefyd: *Faust*, *Dychweledigion*, *Awen y Gwyddyl* a *Blodau o Hen Ardd*, a gyhoeddwyd yn ystod y 1920au, a diddorol yw'r cyd-daro hwn rhwng y pwyslais ar gyfieithu yn ei waith 'llynyddol' a'i waith 'cerddorol'. Derbyniodd ei gyfieithiadau ar gyfer *Cyfres y Werin* lawer o ganmoliaeth gan feirniaid, ac efallai mai llwyddiant y bardd yn yr achos hwn

³⁵ Gweler, er enghraifft, Jenkins, *Cofiant*, 106, 155, 159, 172.

a ysgogodd Walford Davies i'w gomisiynu i gyfieithu cynifer o ddarnau ar gyfer y *Welsh Festival Book*.³⁶

Parhaodd T. Gwynn Jones i gyhoeddi'n doreithiog drwy gydol y 1920au a'r 1930au, yn cynnwys cyfres arbennig Hughes a'i Fab, Wrecsam o gyfrolau unffurf, cain o'i weithiau, ac yn eu plith *Manion* (1932), *Cymeriadau* (1933), a *Caniadau* (1934, sy'n cynnwys deunydd *Detholiad o Ganiadau*, ond gan ychwanegu'r gerdd 'Dirgelwch' ar ddiwedd y gyfrol). Ym 1934 dechreuodd Gwynn Jones gyfansoddi a chyhoeddi, dan y ffugenw 'Rhufawn', gerddi a fyddai'n ymddangos yn ddiweddarach yn y gyfrol *Y Dwymyn* (1944).³⁷ Ynghanol y prysurdeb llenyddol hwn, gwelir bod hefyd gyhoeddiadau cerddorol y gellir eu cysylltu â T. Gwynn Jones, ond bod y rhan fwyaf o'r rhain yn osodiadau o farddoniaeth gyhoeddedig, neu ailgyhoeddiadau o ddarnau cerddorol a oedd yn cynnwys geiriau gan Gwynn Jones. Ymysg y gosodiadau o farddoniaeth gyhoeddedig yn y cyfnod hwn ceir 'Mab yr Ystorm' – y gerddoriaeth gan W. Bradwen Jones, 1933 – a ymddengys yn *Manion* ym 1932; 'Ymadawiad Arthur' – y gerddoriaeth gan D. Vaughan Thomas, 1930 – o awdl arobryn 1902 (a gyhoeddwyd eto yn *Ymadawiad Arthur a Chaniadau Ereill, Detholiad o Ganiadau a Caniadau*); a gosodiadau J. Morgan Lloyd ym 1930 o *Cerddi Gwion Bach* (y farddoniaeth wedi'i chyhoeddi gyntaf ym 1924). Gwelir ailgyhoeddiadau o 'New Year's Eve' ym 1937 (darn a gyhoeddwyd gyntaf yn y *Welsh Festival Book* ym 1924); 'Pêr Fydd dy Gofio, Iesu Da' ym 1936 (1927 yn wreiddiol); ac 'Mae'r Nos yn Oer a Du', ym 1936 a 1937 (darn a ymddangosodd yn wreiddiol ym 1923 yn *A Students' Hymnal*). Yr eithriadau i'r patrwm hwn o ailgyhoeddi yw'r cyfieithadau gan

³⁶ Saunders Lewis, 'Trosi "Faust" i'r Gymraeg – "Campwaith Ddiamheuol" Yr Athro T. Gwynn Jones', *Baner ac Amserau Cymru*, 30 Awst 1923, 5; Glyn M. Ashton, 'Adolygiad: *Awen y Gwyddyl*', *Y Drysorfa*, XCV (1924), 30; H. Idris Bell, 'Greek Gems in a Welsh Setting', *Y Cerddor Newydd*, VII (1928), 86-91; H. Idris Bell, 'T. Gwynn Jones fel Cyfieithydd', yn ap Gwilym (gol.), *Cyfres y Meistri*, 258-69.

³⁷ Jenkins, *Cofiant*, 310-48.

T. Gwynn Jones sy'n ymddangos mewn cyfrolau a gyhoeddwyd gan y Cyngor Cerddoriaeth Cenedlaethol: y *New Song Book* (1929/30), *The Choral Festival Book of the Church in Wales* (1930), ac *A Third Book of Choral Songs for Male Voices* (1936) – cyfrolau sy'n cynnwys geiriau newydd gan Gwynn Jones ar gyfer alawon megis 'Lisa Lân' a 'Morfa Rhuddlan', yn ogystal ag amryw gyfieithiadau o ddarnau â cherddoriaeth gan Robert Jones, Beethoven a Schubert.

Fe bwysleisiwyd eisoes mor greiddiol oedd W. S. Gwynn Williams i'r corff o waith a gynhyrchoedd T. Gwynn Jones ar gyfer cerddoriaeth, ac mor bwysig oedd T. Gwynn Jones i lwyddiant Cwmni Cyhoeddi Gwynn a sefydlwyd ym 1937. Wrth graffu ar y blynyddoedd cynhyrchiol yng nghyswllt y gweithiau llenyddol canonaidd ar y naill llaw, a'r gweithiau ar gyfer cerddoriaeth ar y llall, gwelir bod y rhan helaethaf o'r corff o waith olaf hwn wedi'i chyfansoddi wrth i'r gwaith 'canaidd' ddirwyn i ben. Er na chyhoeddwyd y gyfrol olaf, *Y Dwymyn*, tan 1944, fe luniwyd y cerddi oll (ar wahan i 'Yn y Gwaed', a gyhoeddwyd ym 1939) ddeng mlynedd ynghynt, yn 1934 a 1935.³⁸ Synir am gerddi *Y Dwymyn* yn aml fel gweithiau mawr olaf T. Gwynn Jones,³⁹ ond wrth gyfosod cyfnod cyfansoddi'r cerddi hynny â chyhoeddiadau niferus Cwmni Gwynn, fe'n gwahoddir i ailystyried y safbwynt hwnnw. Fe gyfansoddwyd y cerddi a gyhoeddwyd dan y ffugenw 'Rhufawn' cyn sefydlu Cwmni Gwynn, ac felly gwelir bod un o brif gyfraniadau T. Gwynn Jones yng nghyd-destun cerddoriaeth – y geiriau gwreiddiol ar gyfer caneuon a'r cyfieithiadau o eiriau caneuon a gyhoeddwyd gan Gwmni Gwynn – yn dilyn yr hyn a ystyrir fel cyfraniad 'canaidd' olaf y bardd. Diddorol yw sylw John Rowlands yn y cyswllt hwn: 'yr oedd cyfnod mwyaf toreithiog y bardd eisoes drosodd [pan

³⁸ Arthur ap Gwynn, 'Rhagair', yn *Y Dwymyn* (Caerdydd, 1972), i.

³⁹ Gweler, er enghraifft, E. Tegla Davies, 'Y Dwymyn: Hanes Llyfr', yn ap Gwilym (gol.), *Cyfres y Meistri*, 327.

gyfansoddwyd cerddi *Y Dwymyn*].⁴⁰ Ond megis dechrau yr oedd ei gyfnod mwyaf toreithiog yn achos cyfieithu geiriau ar gyfer caneuon. Fel y nodwyd eisoes, mae'r corff o waith a gynhyrchodd Gwynn Jones ar gyfer Cwmni Gwynn yn rhan bwysig o'r diwylliant cerddorol-lenyddol yng Nghymru, ac mae'n gyfraniad sy'n haeddu ymdrinaeth ddyfnach nag a dderbyniodd hyd yn hyn.

Yr hyn a ddaw'n glir o fwrw golwg yn ôl ar yr astudiaeth hon yw'r amrywiaeth aruthrol sy'n perthyn i'r corff o waith a ddaw o dan yr ymbarél 'T. Gwynn Jones a cherddoriaeth'. Mae'r thesis yn pontio'r llenyddol a'r cerddorol mewn amryw ffyrdd: o ddylanwad cerddoriaeth ar ddarnau 'canonaidd' enwog, i gannoedd o gyfieithiadau o eiriau caneuon, i addasiadau o eiriau caneuon traddodiadol. Fel y nodwyd, mae yma *embarras de richesse*, a rhan o'r cyfoeth hwnnw, o edrych ar yr *oeuvre* yn ei gyfanrwydd, yw'r modd y mae natur benodol yr ymwneud rhwng geiriau a cherddoriaeth yn amrywio o destun i destun: mae cerddoriaeth weithiau'n greiddiol i'r cyfansoddiad ac weithiau'n bresenoldeb cefndirol, cuddiedig. Yn y bôn, fodd bynnag, ni waeth pa mor ganolog neu ymylol yw'r gerddoriaeth i'r cyfansoddiadau llenyddol, gwelir eu bod bob amser yn rhannu un rhinwedd hollbwysig: y mae'r ymwneud â cherddoriaeth, yn ei hanfod, ym mhob achos a drafodwyd yn yr astudiaeth hon, yn weithgaredd artistig sy'n tynnu ynghyd gysyniadau, ieithoedd, themâu a chenhedloedd. Wrth graffu ar berthynas gwaith T. Gwynn Jones â cherddoriaeth, gwelir yn eglur y 'gelfyddyd [...] [g]ymodlawn' ar waith.⁴¹

⁴⁰ John Rowlands, 'Cynddilig', yn ap Gwilym (gol.), *Cyfres y Meistri*, 421.

⁴¹ Gwynn Jones, 'Popeth o'r Newydd?', 177.